



Dŵr Cymru
Welsh Water

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023



Dŵr Cymru ydyn ni

Rydym yn darparu gwasanaethau dŵr a thrin dŵr gwastraff i'r rhan fwyaf o Gymru a rhai o rannau cyfagos Lloegr.

Gweler tudalen 09 am fap o'r ardal a wasanaethir gennym, ond nodwr ein bod, er symbrwydd, yn cyfeirio at Gymru fel bras amcan o'n hardal wasanaethu yn yr adroddiad hwn.

> Darllenwch fwy am yr hyn a wnawn, a ble y gwnawn hynny, ar dudalennau 08 i 09.

Cyfeiriwn at ein model gweithredu heb gyfranddalwyr (sy'n unigryw yn y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr) fel Mantais Glas Cymru.

> Darllenwch fwy ar dudalen 06.

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi cyflwyno ein gwaith cynllunio a'n strategaeth o dan bedair thema strategol: Dŵr, yr Amgylchedd, Cwsmeriaid a Chymunedau.

> Darllenwch fwy ar dudalennau 06 i 07.

Caiff y themâu strategol hyn eu hategu gan ein strwythur cyllido heb gyfranddalwyr a'n trefniadau llywodraethu cadarn.

> Darllenwch fwy ar dudalennau 20 i 21.

Cynaliadwyedd, newid yn yr hinsawdd a ffactorau amgylcheddol eraill yw'r heriau mwyaf a fydd yn ein hwynebu dros y degawdau nesaf, ac felly maent yn rhan annatod o bob agwedd ar ein busnes.

> Darllenwch am ein strategaeth cynaliadwyedd ac ACLI ar dudalennau 18 i 19 a 106 i 132.

> Mae'r byrfoddau wedi'u rhestru yn y Rhestr Termau o dudalen 250 ymlaen.



3.1 miliwn

O BOBL WEDI'U
GWASANAETHU



1.4 miliwn

O GWSMERIAID PRESWYL



850ML

O DDŴR CROYW WEDI'I
DDARPARU BOB DYDD



£1 biliwn

O WARIANT WEDI'I
GYNHYRCHU: MAE EIN
GWEITHGARWCH YN
CYNRYCHIOLI >1% O
ECONOMI CYMRU



Tua 9,100

O SWYDDI WEDI'U CEFNOGI
(YN UNIONGYRCHOL AC YN
ANUNIONGYRCHOL)



Cynnwys

TROSOLWG

Yr Hyn sy'n Bwysig i'n Grwpiau Rhanddeiliaid	02
Diben, Gweledigaeth a Gwerthoedd	04
Mantais Glas Cymru	06
Crynodeb o'r Themâu Strategol	07
Prosesau Gweithredu	08
Yr Hyn y Mae Cynaliadwyedd yn ei Olygu i Dŵr Cymru	18

ADRODDIAD STRATEGOL

Datganiad Cadeirydd y Bwrdd	22
Neges y Prif Weithredwr	24
Adolygiad y Prif Swyddog Ariannol	28
Cyd-destun Ein Sector	34
Cynllunio ar gyfer Dyfodol Gwell	40
Ein Strategaeth	44
Perfformiad	46
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	48
Datganiad A172	68
Datgeliadau TCFD	71
Risg	74
Datganiad am Hyfywedd Hirdymor	90
Cynnydd o ran Cynaliadwyedd	100
Arloesedd	106
	129

LLYWODRAETHU

Cyflwyniad Cadeirydd y Bwrdd i Lywodraethu	133
Fframwaith Llywodraethu	134
Cipolwg ar Lywodraethu	136
Bwrdd y Cyfarwyddwyr	138
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	140
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	144
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	195
	197

DATGANIADAU ARIANNOL

	198
ATODIADAU	250
Rhestr Termiau	251
Rheoleiddio Cwmnïau Dŵr yng Nghymru	256
Ymrwymiadou Perfformiad PR19: Diffiniadau	257
Meini Prawf Asesiad Risg TCFD	259

Darllenwch fwy amdanom ar-lein yn:
<https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb>



YR HYN SY’N BWYSIG I’N GRWPIAU RHANDDEILIAID

Fel cwmni dŵr heb gyfranddalwyr, rydym yn unigryw ymhlith cwmnïau cyfleustodau yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn canolbwyntio ar weithredu er budd pennaf ein cwsmeriaid a siarad â’n holl randdeiliaid a gwrando arnynt yn rheolaidd er mwyn deall eu hanghenion a’u blaenoriaethau. Mae hyn yn ein helpu i gynnwys y pethau sydd bwysicaf yn eu barn nhw yn ein cynlluniau a’n gweithgareddau.

Yr hyn sy’n bwysig i’n Cwsmeriaid

- Cyflenwad dŵr dibynadwy o ansawdd da
- Gwasanaethau hygrych ac effeithlon
- Taliadau teg a fforddiadwy
- Y gallu i wrthsefyll digwyddiadau tywydd eithafol
- Diogelu ein hamgylchedd rhag niwed
- Gonestrwydd a bod yn agored
- Datrys problemau’n gyflym



Yr hyn sy’n bwysig i’n Pobl

- Diogelwch yn y gwaith
- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a dilyn gyrfaedd ystyrlon
- Diwylliant cefnogol a chynhwysol
- Ymdeimlad clir o ddiben
- Gweithrediadau sy’n ymwybodol o’r amgylchedd
- Cyflogwr teg ac uchel ei barch
- Bod yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithio

Yr hyn sy’n bwysig i Genedlaethau’r Dyfodol a’r Amgylchedd

- Diogelu ein hadnoddau naturiol
- Lleihau llygredd a niwed amgylcheddol
- Arferion caffael a defnyddio cyfrifol



Yr hyn sy'n bwysig i'n Cymunedau

- Gwrando arnynt ac ymgynghori â nhw
- Lleihau llygredd ac unrhyw niwed amgylcheddol
- Gweithio gyda'n gilydd i wella cymunedau er budd pawb



Yr hyn sy'n bwysig i Reoleiddwyr a'r Llywodraeth

- Llywodraethu cadarn ac effeithiol
- Cyflawni ein hymrwymiaidau
- Cydymffurfio â rheoliadau mewn modd tryloyw
- Darparu gwasanaethau fforddiadwy a dibynadwy
- Bod yn onest ac yn agored bob amser wrth ymwneud â phobl

Yr hyn sy'n bwysig i Fuddsoddwyr

- Sicrwydd ynghylch gwasanaethu ac ad-dalu dyledion
- Cydbwysedd priodol rhwng risg a gwobr
- Risgiau sy'n dod i'r amlwg ac ymateb y rheolwyr i'w lliniaru
- Adroddiadau tryloyw, cywir, dibynadwy a chytbwys



EIN DIBEN, EIN GWELEDIGAETH A'N GWERTHOEDD

EIN DIBEN


Diben y Cwmni yw "darparu dŵr yfed a gwasanaethau amgylcheddol o ansawdd uchel, sy'n cynnig gwell gwerth am arian, er mwyn gwella llesiant ein cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol".

EIN GWELEDIGAETH

Ein Gweledigaeth yw ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd.

EIN GWERTHOEDD

Mae'r rhain wedi'u gwreiddio yn ein Cod Ymddygiad



> Darllenwch fwy ar dudalen 05

EIN DIWYLLIANT

Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn y gwaith a wnawn a'r gwasanaethau cwsmeriaid a ddarparwn.

Mae ein diwylliant yn canolbwyntio ar sicrhau gwerth a'r canlyniadau gorau i'n cwsmeriaid a'r amgylchedd. Rydym bob amser yn ymdrechu i wneud pethau'n well, a gwnawn hynny drwy ddysgu, arloesi, croesawu newid a rhannu arferion gorau yn fewnol ac ar y cyd â sefydliadau eraill.

Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, mae gennym gynllun clir sy'n cael ei lywio gan dargedau mesuradwy. Er mwyn rhoi'r cynllun hwn ar waith, rydym yn dibynnu ar ein pobl, sydd â'r lefelau uchaf o gymhelliant, ymroddiad ac awydd cryf i 'wneud y peth iawn'.

Rydym yn cydnabod gwerth ffyrdd amrywiol o feddwl yn ein sefydliad. Dyna pam rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i hyrwyddo ac annog gweithlu mwy amrywiol, gan ddenu'r bobl orau sy'n cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn. Ein nod yw meithrin diwylliant cynhwysol lle y gall pawb fod yn nhw eu hunain, cyrraedd eu llawn botensial, cyfrannu at lyddiant y Cwmni a mwynhau gyrfa iach a gwerth chweil.

Sut mae diwylliant yn ein helpu i gyflawni ein strategaethau?

Mae gwrandio ar randdeiliaid er mwyn deall eu hanghenion sy'n datblygu, addasu ein strategaeth a'n cynlluniau fel y bo'n briodol a glynu wrth ein diwylliant a'n gwerthoedd i ddiwallu'r anghenion hynny, nawr ac yn y dyfodol, yn gynhenid yn ein diwylliant.

Gwerthoedd ar waith

Rhagori ym mhopeth a wnawn

Yr hyn sy'n allweddol i sicrhau rhagoriaeth weithredol a pherfformio'n well yw sicrhau bod pob unigolyn yn deall ei rôl a sut y gall wneud gwahaniaeth, gan deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi am ei gyfraniad ar yr un pryd. Dyma pam rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn datblygu ein gweithlu, gan fuddsoddi tua £1.2 miliwn y flwyddyn mewn hyfforddi a datblygu er mwyn ein helpu i ddarparu'r gwasanaeth o safon uchel y mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.

Yn falch o roi ein cwsmeriaid yn gyntaf

Rydym yn falch o'n rôl fel cwmni angori yng Nghymru sy'n darparu un o'r gwasanaethau cyhoeddus mwyaf hanfodol. Mae ein gweithgareddau'n cynhyrchu gwariant o fwy na £1 biliwn y flwyddyn, gan gefnogi dros 9,000 o swyddi (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol). Caiff ein balchder mewn bod yn gwmni blaenllaw sy'n diogelu iechyd y cyhoedd ei adlewyrchu gan y ffaith bod 87% o'n cydweithwyr wedi dweud eu bod yn falch o weithio i Dŵr Cymru yn ein Harolwg Ymgysylltu â Chyflogeion diweddaraf.

Ymddiriedir ynom i wneud y peth iawn

Ein gweledigaeth yw ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd. Mae ymddiriedaeth yn bwysig dros ben i bob busnes, ond mae'n arbennig o bwysig i ni gan mai ni yw'r unig ddarparwr i bawb ond ein cwsmeriaid busnes mwyaf. Mae'n hollbwysig bod ein rhanddeiliaid yn ymddiried ynom, ac felly credwn ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cynnal safonau busnes uchel ym mhopeth a wnawn. Hyd yn oed os byddwn yn gwneud camgymeriadau o bryd i'w gilydd, gall ein cwsmeriaid ddibynnu arnom i wneud y peth iawn ac unioni'r sefyllfa.

Mae diogelwch yn bwysig i bawb

Mae'r sector dŵr yn ddiwydiant lle mae diogelwch yn hollbwysig ac ni fyddwn byth yn cyfaddawdu ynghylch iechyd, diogelwch a llesiant ein cydweithwyr, ein partneriaid a phawb rydym rhyngweithio â nhw. Felly, roedd yn braf gweld bod canlyniadau'r cwestiynau Iechyd a Diogelwch a ofynnwyd yn ein Harolwg Ymgysylltu â Chyflogeion diweddaraf yn parhau i ddangos y ffocws diwylliannol cadarn ar iechyd a diogelwch ymhlith cydweithwyr wrth iddynt wneud eu gwaith:

- Rwy'n credu bod Dŵr Cymru yn ymrwymedig i sicrhau diogelwch cyflogeion – 94%
- Rwy'n teimlo'n gyfforddus yn rhoi gwybod am unrhyw bryder o ran diogelwch – 94%
- Rwy'n deall fy rôl a'm cyfrifoldebau wrth greu amgylchedd gwaith diogel – 98%

Bod yn onest â phawb

Dros y 12 mis diwethaf, mae rhanddeiliaid a chwsmeriaid wedi bod yn craffu ar ein perfformiad amgylcheddol, yn enwedig o ran ansawdd dŵr afonydd, mewn ffordd na wnaed erioed o'r blaen. Rydym yn croesawu'r craffu hwn ac yn dal yn ymrwymedig i fod yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithio. Rydym wedi parhau i gyhoeddi canlyniadau ein gwaith ymchwil sy'n dangos effaith ein hasedau ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), a byddwn yn parhau i gydweithio â sectorau eraill sy'n cael effaith ar ansawdd dŵr afonydd fel y gallwn, gyda'n gilydd, helpu i ddiogelu'r afonydd hyn ac afonydd eraill ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn agored i syniadau newydd

Caiff ein holl gydweithwyr eu gwahoddi i sesiynau briffio ar-lein misol gyda'n Prif Weithredwr a swyddogion gweithredol eraill i herio a gofyn cwestiynau. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol eraill i rannu gwybodaeth am yr heriau sy'n ein hwynebu er mwyn i ni allu cydweithio ac ystyried ffyrdd newydd o weithio, gan eu hannog i gyflwyno atebion i'n Porth Syniadau ar-lein.

MANTAIS GLAS CYMRU

Yn wahanol i'r cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff eraill yng Nghymru a Lloegr, nid oes gan Dŵr Cymru gyfranddalwyr. Nid ydym yn talu difidendau, ac felly nid gofynion i dyfu elw sy'n ein hysgogi. Mae hyn yn golygu y gallwn ganolbwyntio ein holl adnoddau ac arbenigedd ar ein Diben a'r Gweledigaeth. Caiff unrhyw arian dros ben a gynhyrchir gennym ei oilfuddsoddi yn y busnes er mwyn helpu i gyflawni ein hamcanion presennol a hirdymor i sicrhau canlyniadau sy'n rhoi'r gwerth gorau, er budd ein cwsmeriaid, ein cymunedau a'r amgylchedd. Yn ystod AMP7, bydd ein model heb gyfranddalwyr – Mantais Glas Cymru – yn ein galluogi i fuddsoddi gwerth £160 miliwn o arian ychwanegol er budd ein cwsmeriaid drwy fuddsoddiadau carlam er mwyn helpu i ddarparu gwell gwasanaethau a thariffau cymdeithasol i gefnogi ein cwsmeriaid mwyaf agored i niwed.

**Ein diben yn
arwain popeth
a wnawn**

Rydym yn darparu gwasanaethau dŵr a gwasanaethau amgylcheddol o ansawdd da, sy'n cynnig gwell gwerth am arian, er mwyn gwella llesiant ein cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn.

Cysylltiad â thema strategol:



Dŵr




**Gweithlu
ymroddedig o
ansawdd da**

Mae ein pobl yn hynod ymrwymedig i leihau unrhyw niwed amgylcheddol a achosir gan ein gweithgareddau.

Cysylltiad â thema strategol:



Yr Amgylchedd



**Mae
gwasanaeth
rhagorol yn ennyn
ymddiriedaeth
cwsmeriaid**

Ac mae'r gwasanaeth rhagorol hwn yn ein galluogi i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd.

Cysylltiad â themâu strategol:



Cymunedau



Cwsmeriaid



**Mae natur
ein busnes yn
cynnig gorwel
cynllunio
hirdymor**

Mae ein gorwel cynllunio hirdymor yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r heriau hirdymor a chroesawu'r cyfleoedd a fydd yn effeithio ar ein busnes, ein gwasanaethau i gwsmeriaid, a'r cymunedau rydym yn eu cefnogi.

Cysylltiad â hwylusydd:



Cynaliadwyedd



**Strwythur
cyllido risg isel
a chost isel heb
gyfranddalwyr**

Mae ein gwaith cynllunio hirdymor a'n strwythur cost isel yn sicrhau bod gennym gynaliadwyedd hirdymor, sy'n golygu y gallwn barhau i wneud gwahaniaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cysylltiad â hwyluswyr:



Cyllido



Llywodraethu



CRYNODEB O'N THEMÂU STRATEGOL

Caiff ein pedair 'Thema Strategol' a'n tri 'Hwylusydd' eu crynhoi isod, gan gyflwyno enw byr ac eicon i bob un. Caiff yr enwau byr a'r eiconau hyn eu defnyddio drwy weddill yr adroddiad hwn i ddynodi themâu penodol.

Caiff pob thema strategol a phob hwylusydd eu disgrifio'n fanylach ar y tudalennau canlynol. Mae'r hwyluswyr yn cefnogi popeth a wnawn. Noder hefyd ein bod, er symrlwydd, yn cyfeirio at Gymru fel bras amcan o'n hardal wasanaethu yn yr adroddiad hwn.

GWELEDIGAETH

Ennyn Ymddiriedaeth ein
Cwsmeriaid Bob Dydd

Dŵr

Dŵr yfed dibynadwy
o ansawdd da

> Darllenwch fwy ar
dudalennau 10 i 11

Yr Amgylchedd

Cefnogi'r amgylchedd

> Darllenwch fwy ar
dudalennau 12 i 13

Cymunedau

Cefnogi dyfodol
cymunedau

> Darllenwch fwy
ar dudalennau
16 i 17

Cwsmeriaid

Gwasanaeth
cwsmeriaid
rhagorol

> Darllenwch fwy
ar dudalennau
14 i 15

Cyllido

Cyllido heb
gyfranddalwyr

> Darllenwch fwy
ar dudalen 20

Llywodraethu

Llywodraethu cadarn

> Darllenwch fwy
ar dudalennau 21
a 133 i 197

Cynaliadwyedd

gan gynnwys addasu i'r
newid yn yr hinsawdd

> Darllenwch fwy ar
dudalennau 18 i 19
a 106 i 132

themâu strategol

hwyluswyr

EIN PROSESAU GWEITHREDU

1. Gweithio gyda thirfeddianwyr i atal hlogi'r dŵr ffo sy'n llifo o'r brynau i gronfeydd dŵr.

3. Glanhau'r dŵr heb ei drin o gronfeydd dŵr a gwneud yn siŵr ei fod yn ddiogel i'w yfed.

2. Casglu a storio dŵr heb ei drin o'r amgylchedd mewn cronfeydd dŵr.

4. Cludo dŵr glân yn ddiogel drwy ein rhwydwaith o bibellau i eiddo unigol.

7. Gwaredu dŵr gwastraff.

5. Helpu i reoli faint o ddŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'n carthffosydd er mwyn atal carthffosydd rhag llifo am yn ôl ac achosi llifogydd.

6. Cynnal a chadw'r rhwydwaith helaeth o bibellau a sicrhau cyn lleied â phosibl o ollyngiadau dŵr.

8. Trin dŵr gwastraff fel y gellir ei ddychwelyd i'n hafonydd a'n moroedd.

9. Creu ynni o ddeunyddiau gwastraff.



EIN HARDAL WEITHREDU A'N HADNODDAU

Mae'r ardal rydym yn cyflenwi dŵr yfed iddi yn cwmpasu'r rhan fwyaf o Gymru a rhannau o Swydd Henffordd a Glannau Dyfrdwy yn Lloegr. Mae ein rhwydwaith carthffosiaeth yn cwmpasu'r rhan fwyaf o Gymru a rhannau o Swydd Gaer a Glannau Dyfrdwy.



Ein hadnoddau

Ein pobl

Rydym yn cyflogi tua 3,500 o staff yn uniongyrchol ac yn sicrhau y cânt eu hyfforddi ac y gallant gyrraedd eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod amrywiaeth yn ein gweithlu sy'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn yn rhoi profiadau, syniadau a safbwyntiau o amrywiaeth ehangach o gefndiroedd i ni.

Yr amgylchedd naturiol

Mae Cymru yn ffodus o gael glawiad cymharol uchel, sy'n fwy na 3,000mm y flwyddyn mewn rhai ardaloedd, ac rydym yn tynnu tua 3% ohono o'r amgylchedd naturiol i'w storio a'i drin er mwyn sicrhau cyflenwad dibynadwy o ddŵr yfed o ansawdd da.

Rheolaeth ariannol

Mae creu a chodw a chynnal seilwaith yn weithgaredd hirdymor a chostus. Rydym yn codi'r arian sydd ei angen drwy refferiw o'n gwasanaethau a thrwy fenthyciadau ar farchnadoedd ariannol.

Asedau ffisegol a chyfalaf deallusol

Mae ein hystad helaeth o asedau ffisegol yn cynnwys rhwydweithiau prif bibellau a dŵr gwastraff, gweithfeydd trin dŵr ar gyfer dŵr heb ei drin a dŵr gwastraff, cronfeydd dŵr, gorsafoedd pwmpio, depos a swyddfeydd ledled ein hardal weithredu.

Cydberthnasau â rheoleiddwyr a llywodraethau

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r holl reoleiddwyr ac yn cynnal deialog agored â nhw.



THEMA STRATEGOL: DŴR

Yr hyn sydd wrth wraidd ein Diben yw darparu dŵr yfed diogel o ansawdd da. Mae hyn yn hanfodol i iechyd y cyhoedd ac i fywydau beunyddiol pobl.

Mae ein cwsmeriaid bellach yn cymryd hyn yn ganiataol i raddau helaeth – a dyna sut y dylai pethau fod. Pan fydd pethau'n mynd o chwith a bydd rhywbeth yn tarfu ar gyflenwadau dŵr, neu pan na fydd ansawdd dŵr cystal ag y dylai fod, bydd hyn yn effeithio ar ein cwsmeriaid mewn ffordd uniongyrchol iawn; a dyna pam rydym yn gwneud ein gorau glas i sicrhau cyn lleied â phosibl o'r methiannau hyn mewn gwasanaethau, gan flaenoriaethu diogelwch dŵr yfed bob amser, ac ymdrechu i wneud yn siŵr ei fod yn edrych ac yn blasu'n dda bob amser.

Mae cwsmeriaid, yn briodol ddigon, yn disgwyl i ddŵr fod ar gael o'r tap pryd bynnag y bydd ei angen arnynt. Pan fydd pibellau'n torri, byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau cyn lleied â phosibl o effaith ar gwsmeriaid. Mae hyn yn golygu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, a defnyddio tanceri i ail-lenwi rhwydweithiau lleol tra bydd ein criwiau'n gwneud gwaith atgyweirio. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn gwneud yn siŵr y rhoddir blaenoriaeth i gwsmeriaid agored i niwed wrth ddosbarthu dŵr potel.

Roedd cynnal cyflenwadau yn bwysicach fyth yn ystod y digwyddiad rhew/dadmer ym mis Rhagfyr 2022. Er i ni gynnal y cyflenwad i 99% o'n cwsmeriaid yn ystod y cyfnod hwn, bu nifer o gymunedau gwledig mewn rhai ardaloedd heb gyflenwad am gyfnod estynedig. Mae rhai gwersi clir i'w dysgu o'n hymateb a byddwn yn gwneud pob ymdrech i achub ar gyfleoedd i wella perfformiad dan amgylchiadau tebyg yn y dyfodol..

> Ar gyfer perfformiad, gweler tudalennau 50 i 53.

CRONFA WASANAETH PENGARNDDU

Gwnaethom fuddsoddi £9 miliwn i adeiladu cronfa wasanaeth newydd anferth (tanc tanddaearol sy'n storio dŵr wedi'i drin) ym Mhengarnddu ym Merthyr Tudful.

Roedd yno gronfa wasanaeth eisoes ar y safle, ond mae'r gronfa newydd hon – sydd wedi'i chladdu'n rhannol yn y dirwedd – yn ein galluogi i gynyddu cynhwysedd storio dŵr y rhwydwaith a lleihau'r tebygolrwydd o doriadau yn y cyflenwad. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd dros 25,000 o gwsmeriaid ym Merthyr Tudful a'r cyffiniau yn parhau i gael dŵr dyfed ffres am flynyddoedd i ddod.

Dechreuodd y gwaith ym mis Mai 2021 a gwnaethom ei gwblhau yn 2022.



Dŵr

EIN FFOCWS BYRDYMOR

- > Gwella ansawdd dŵr tap
- > Lleihau toriadau yn y cyflenwad i'r eithaf
- > Lleihau'r achosion o afliwio dŵr (cysylltiadau 'derbynioldeb i gwsmeriaid')
- > Gweler ein strategaeth ar dudalen 46 am nodau



1 miliwn

O NEGESEUON TESTUN
Y FLWYDDYN WEDI'U
HANFON AT
GWSMERIAID YN
EU HYSBYSU AM Y
CYFLENWAD DŴR



145,000

O GWSMERIAID
AR EIN COFRESTR
GWASANAETHAU Â
BLAENORIAETH



THEMA STRATEGOL: YR AMGYLCHEDD

Mae ein gwasanaethau dŵr gwastraff yn canolbwyntio ar leihau effaith niweidiol bosibl gweithgarwch dynol ar yr amgylchedd naturiol.

Rydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn seilwaith trin dŵr gwastraff dros y degawdau diwethaf ac, o ganlyniad i hynny, mae Cymru wedi ennill bron traean o wobrau Baner Las y DU am ansawdd traethau er mai dim ond 15% o'r morlin sydd yn y wlad. Rydym wedi gwella'r ffordd y caiff gwastraff dynol ei reoli a'i amsugno gan yr amgylchedd yn sylweddol, gan adlewyrchu disgwyliadau uwch gan gymdeithas a llywodraethau mewn perthynas ag iechyd afonydd a dyfroedd arfordirol. Ar yr un pryd, mae rhai tueddiadau hirdymor, o dwf y boblogaeth ac ehangu trefol i newidiadau mewn patrymau glawiad, yn rhoi pwysau ar y gwelliannau hyn. Mae gweithgareddau mewn sectorau eraill hefyd yn cael effaith ar iechyd afonydd a dyfroedd morol.

Eleni, mae perfformiad cwmnïau dŵr o ran diogelu iechyd ein hafonydd a'n dyfroedd ymdrochi wedi cael mwy o sylw nag erioed. Rydym wedi gwella argaeledd data ar y ffordd y mae ein hasedau'n gweithredu dan amodau tywydd gwahanol, gan ein helpu i ddeall yn well ble mae angen gwneud gwelliannau. Yn unol â chanllawiau rheoleiddio, rydym yn canolbwyntio ar leihau'r niwed ecolegol a achosir gan rai o'n systemau gorlif storm cyfun – ac nid dim ond lleihau nifer y gollyngiadau.

Rydym hefyd yn gyfrifol am fynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol ehangach a wynebir yng Nghymru ac ym mhob rhan o'r byd. Gwnaethom lansio ein strategaeth Carbon Sero Net yn 2020 mewn ymateb i ddatganiad Llywodraeth Cymru o argyfwng hinsawdd yn 2019, a chaiff y strategaeth hon hefyd ei hategu gan ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n amlinellu sut rydym yn cyflawni'r ddyletswydd gryfach fel y'i hamlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

> Ar gyfer perfformiad, gweler tudalennau 54 i 59.



£100 miliwn

O FUDDSODDIAD YCHWANEGOL MEWN
ANSAWDD AFONYDD – WEDI'I ALLUOGI
GAN FANTAIS GLAS CYMRU



122km

O AFONYDD WEDI'U
GWELLA

GORSAF PWMPIO CARTHION BRYNBUGA

Erbyn diwedd 2025, byddwn yn buddsoddi dros £10 miliwn ym Mrynbuga er mwyn lleihau nifer y gollyngiadau o'r systemau gorlif storm cyfun yng ngorsaf pwmpio carthion Mill Street

Cam 1 (a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2022) – gosod siambr sgrinio er mwyn cael gwared ar solidau mawr fel carpiâu a weips o unrhyw ollyngiad o system gorlif storm gyfun.

Cam 2 (amseru'n amodol ar ganiatâd cynllunio) – cynyddu cymhwysedd y rhwydwaith carthffosydd rhwng yr orsaf pwmpio carthion a'r gwaith trin dŵr gwastraff, fel y gellir cludo mwy o wastraff i'w drin yng ngwaith trin dŵr gwastraff Brynbuga a'i ddychwelyd i'r amgylchedd ar ôl ei drin.

Cam 3 (amseru'n amodol ar ganiatâd cynllunio) – cynyddu cymhwysedd gwaith trin dŵr gwastraff Brynbuga drwy osod asedau a thanciau storio newydd er mwyn sicrhau bod digon o le i drin y gwastraff.

Rydym yn gweithio gyda Sefydliad Gwy ac Wysg a Chyngor Henffordd i gefnogi gwaith ychwanegol i dynnu ffosfforws – mae ffosfforws yn achosi cynnydd mewn twf algâu problemus mewn pyllau, llynnoedd ac afonydd. Mae'r gwaith tynnu ffosfforws hwn yn defnyddio triniaethau naturiol fel systemau gwlyptir carbon isel, a fydd hefyd yn gwella bioamrywiaeth leol. Bydd y cynigion yn tynnu mwy o ffosfforws nag y bydd datblygiadau yn y dalgylch yn ei gyflwyno. Mae manteision mabwysiadu'r dull hwn yn ddeublyg gan y bydd yn lleihau faint o ffosfforws sy'n mynd i mewn i'r afon, ac yn gwneud hynny mewn ffordd gynaliadwy a charbon isel.



40%

O AFONYDD CYMRU YN CYRRAEDD 'STATWS ECOLEGOL DA' (14% YN LLOEGR)



Yr Amgylchedd

EIN FFOCWS BYRDY MOR

- Lleihau gollyngiadau
- Helpu i leihau'r defnydd o ddŵr
- Lleihau nifer yr ochosion o lygredd i'r eithaf
- Gwella ansawdd dŵr afonydd

> Gweler ein strategaeth ar dudalen 46 am nodau tymor hwy

Pont Wysg, Sir Fynwy



THEMA STRATEGOL: CWSMERIAID

Mae cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn gweithio'n barhaus i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarparwn. Mae adborth gan gwsmeriaid yn ein helpu i wella ein gwasanaeth a chyflawni ein Gweledigaeth i 'ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd'.

Fel cwmni heb gyfranddalwyr, rydym mewn sefyllfa well i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth gwych i'n cwsmeriaid.

Mae ymddiriedaeth yn hollbwysig am fod y gwasanaethau a ddarparwn yn hanfodol i iechyd pobl a'r omgylchedd, ac am fod angen ein cwsmeriaid arnom, i'n helpu i sicrhau cyn lleied â phosibl o fethiannau gwasanaeth megis rhwystrau mewn carthffosydd, a all arwain at orlifo mewnol mewn carthffosydd; ac i weithio gyda ni i leihau'r defnydd o ddŵr a rhoi gwybod am ddigwyddiadau llygredd.

Mae gennym hanes da yma, ac rydym yn dal i fod ymhlith y cwmnïau dŵr sy'n ennyn y mwyaf o ymddiriedaeth yng Nghymru a Lloegr. Drwy ymgysylltu'n barhaus â'n cwsmeriaid, rydym yn sicrhau ein bod yn parhau i ddeall a diwallu eu hanghenion newidiol, a gallwn flaenoriaethu buddsoddiad a dylunio gwasanaethau i fodloni eu disgwyliadau.


Mae ein hardal weithredu yn cynnwys rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn y DU, ac rydym yn falch ein bod yn rhoi cymorth ariannol i fwy o gwsmeriaid, yn gymesur â maint y cwmni, nag unrhyw gwmni dŵr arall yng Nghymru a Lloegr. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyhoeddi cynlluniau i gefnogi 50,000 yn rhagor o aelwydydd, er mwyn rhoi mwy o gymorth ariannol a chadw biliau'n fforddiadwy.

> Ar gyfer perfformiad, gweler tudalennau 60 i 63.



Yr 2^{il}

GWMNI DŴR YR YMDDIRIEDIR
YNDDO FWYAF YN 2023



129,000

O GWSMERIAID WEDI CAEL
CYMORTH I DALU EU BILIAU

CYMORTHFEYDD DYLEDION

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw parhaus a'r cynnydd mewn prisiau ynni, mae ein tîm cyngor ar ddyledion arbenigol, sy'n arwain o ran siarad â chwsmeriaid am ein tariffau cymdeithasol, wedi bod yn ymweld â chymunedau i roi cymorth i gwsmeriaid sydd mewn dyled neu'n poeni am eu sefyllfa ariannol.

Ym mis Ionawr 2023, gwnaethom gynnal digwyddiadau yng Nghasnewydd, sy'n ardal â lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol. Roedd y cymorthfeydd galw heibio hyn yn targedu cwsmeriaid lleol yr oedd eu cyfrifon mewn ôl-ddyledion. Roeddent yn gyfle i gwsmeriaid gwrdd â chynghorwyr dyledion wyneb yn wyneb i drafod eu pryderon a chael gwybod am y cymorth sydd ar gael er mwyn helpu i reoli dyledion a sefydlu cynlluniau talu hydrin.

Dywedodd un cwsmer a oeth i gymhorthfa galw heibio, "Fe ddes i yma i roi trefn ar fy miliau. Rwyf ychydig yn nerfus yn siarad dros y ffôn felly roeddwn i'n meddwl bod hyn yn syniad gwych. Rwy'n ceisio rhoi trefn ar fy hun. Mae pethau'n anodd ar hyn o bryd ac mae pob ceiniog yn helpu. Mae Dŵr Cymru wedi bod o gymorth enfawr i mi heddiw."

Gweler tudalen 124 i ddarllen mwy am ein prosiect Cymunedau Cydnerth o ran Dŵr a'n cyflawniadau yng Nghasnewydd.



Cwsmeriaid

EIN FFOCWS BYRDYMR

- Lleihau nifer y cwynion
 - Cynnal gwasanaeth cwsmeriaid sy'n arwain y diwydiant
 - Lleihau llyfogydd carthion i'r eithaf
- > Gweler ein strategaeth ar dudalen 47 am nodau tymor hwy



£12 miliwn

YN YCHWANEGOL ER MWYN HELPU
CWSMERIAID AGORED I NIWED I DALU EU BILIAU
– WEDI'I ALLUOGI GAN FANTAIS GLAS CYMRU

Llaneirwg, Caerdydd



THEMA STRATEGOL: CYMUNEDAU

Rydym yn bodoli, yn gyntaf oll, i wasanaethu'r cymunedau lle rydym yn gweithredu. Rydym yn benderfynol o weithredu mewn ffordd gyfrifol a chredwn fod meithrin cysylltiadau agos â'n cymunedau a'u cefnogi yn helpu i ennyn ymddiriedaeth.

Dyma pam rydym yn cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar ein cymunedau, gan gynnwys:

- Cynnal un o'r rhaglenni allgymorth addysg mwyaf helaeth yn y sector er mwyn helpu i addysgu plant am y cylch dŵr a phwysigrwydd defnyddio dŵr yn effeithlon.
- Gweithredu pedwar safle atyniadau i ymwelwyr, gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau i gymunedau lleol a thwristiaeth. Byddwn yn agor ein pumed safle, ger Caerdydd, yn ystod haf 2023 (Llys-faen a Llanisien) a fydd yn cynnig amrywiaeth o chwaraeon dŵr, gan gynnwys padl-fyddio, canŵio a chaicio.
- Cynnal 'diwrnodau agored' blynyddol yn ein safleoedd dŵr gwastraff er mwyn helpu cwsmeriaid i ddysgu o deall mwy am y ffordd rydym yn gweithredu, gan gysylltu hyn â'n hymgyrchoedd newid ymddygiad megis Stop Cyn Creu Bloc.
- Cynnal ein Cronfa Gymunedol gwerth £100,000 sy'n cynnig cymorth i gymunedau lleol ar gyfer mentrau llesiant a mentrau amgylcheddol, ac elusennau rhyngwladol fel WaterAid a Busnes yn y Gymuned.
- Gweler hefyd dudalen 65 am ein hasesiad effaith amgylcheddol sy'n ystyried ein cyfraniad ehangach i swyddi ac economi Cymru.

> Ar gyfer perfformiad, gweler tudalennau 64 i 67.





739,000

O YMWELWYR Â'N
CANOLFANNAU



Y 5^{ed}

GANOLFAN YMWELWYR
YN AGOR YN YSTOD
HAF 2023



80,000

O BOBL WEDI CYMRYD
RHAN YN EIN RHAGLEN
ADDYSG

ASTUDIAETH ACHOS: CYMUNEDAU

Yn ystod y flwyddyn,
gwnaethom helpu mwy nag 80
o grwpiau a sefydliadau lleol i
gynnal prosiectau arloesol yn
eu cymuned sy'n cynnig budd
amgylcheddol neu fudd
i lesiant.

Mae'r cyllid wedi helpu grwpiau cymunedol i ffynnu,
yn enwedig y rhai a wynebodd anawsterau yn
dilyn pandemig COVID-19. Hefyd, mae grwpiau
cymunedol wedi gallu prynu cyfarpar hanfodol
newydd, mae ysgolion wedi datblygu ardaloedd
dysgu yn yr awyr agored ac mae grwpiau chwaraeon
wedi prynu'r offer sydd eu hangen arnynt i barhau i
gynnal eu clybiau.

Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i gynnal ein
Cronfa Gymunedol sydd â'r nod o sicrhau budd i'r
cymunedau hynny lle rydym yn gweithio.

Rydym hefyd wedi cefnogi prosiectau sy'n helpu
i ddiogelu a gwella'r amgylchedd, gyda 47 o
grwpiau'n cael cymorth ar gyfer eu mentrau
bioamrywiaeth. Mae hyn wedi cynnwys annog bywyd
gwyllt mewn cymunedau lleol, adnewyddu gardd
goffa a darparu cyllid ar gyfer creu ardal ddysgu
y tu allan.



Cymunedau

EIN FFOCWS BYRDYMROR

- Cefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf
- Ymgysylltu â chymunedau ar brosiectau allweddol
- Cyflwyno rhaglenni addysg dŵr

> Gweler ein strategaeth ar dudalen 47 am nodau
tymor hwy



YR HYN Y MAE CYNALIADWYEDD YN EI OLYGU I DŴR CYMRU

Ein dull o ymdrin â chynaliadwyedd

Er mwyn bod yn ddarparwr gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff, rhaid i ni ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb effeithio ar y gallu i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r ffordd hon o weithredu yn rhan annatod o bopeth a wnawn ac mae'n seiliedig ar ein model busnes 'heb gyfranddalwyr'. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i ni ganolbwyntio ar yr hirdymor, sy'n hollbwysig er mwyn i ni barhau i fod yn gynaliadwy, o ystyried ein hasedau hirsefydledig iawn.

Mae Dŵr Cymru 2050 yn cyd-fynd â'r saith Nod Llesiant fel y'u hamlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn 2020, gwnaethom lansio ein Hymrwymiadau

Llesiant, y cytunwyd arnynt gyda'n Grŵp Her Annibynnol (y Grŵp Her Cwsmeriaid gynt), a gaiff ei gadeirio'n annibynnol gan Peter Davies. Mae'r ymrwymiadau hyn wedi cael eu cyfuno yn ein strategaeth Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI) a'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ei hategu. Mae'r Grŵp Her Annibynnol yn bwrw golwg dros berfformiad yn erbyn y metrigau hyn ac yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor ACLI.

I gael rhagor o wybodaeth am effaith y sector dŵr a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ewch i: <https://www.unglobalcompact.org.uk/measuring-up/>

Yn hytrach na thrafod cynaliadwyedd ar ei ben ei hun, mae'r adroddiad hwn yn nodi pedair thema strategol sy'n ymwneud â'n gwasanaethau dŵr yfed, gan weithio i ddiogelu'r amgylchedd, gweithio gyda'n cwsmeriaid ac er eu budd, a sicrhau y caiff ein cymunedau eu gwasanaethu'n dda.

Mapio cynaliadwyedd: ein themâu strategol a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

Mae'r adrannau canlynol yn ystyried cynaliadwyedd mewn perthynas â'n themâu strategol.

Themâu strategol	Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig	Nodau Llesiant
 Dŵr		- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - Cymru gydnerth - Cymru iachach
 Yr Amgylchedd	  	- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - Cymru gydnerth - Cymru iachach
 Cwsmeriaid		- Cymru lewyrchus - Cymru sy'n fwy cyfartal - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
 Cymunedau	   	- Cymru lewyrchus - Cymru o gymunedau cydlynus

> Darllenwch fwy am gynaliadwyedd ar dudalennau 104 i 132.

Hwyluso a chefnogi drwy lywodraethu er budd cynaliadwyedd




> Darllenwch fwy am ein trefniadau llywodraethu er budd cynaliadwyedd ar dudalennau 108 i 111.

Mae cynaliadwyedd yn rhan ganolog o Weledigaeth Dŵr Cymru 2050 i ddod yn wasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Yn Dŵr Cymru 2050, gwnaethom gyhoeddi ein Fframwaith Cydnerthedd pwrpasol sy'n cwmpasu pob agwedd ar yr hyn y mae bod yn wasanaeth dŵr gwirioneddol gydnerth a chynaliadwy ar gyfer y tymor hir yn ei olygu.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Weledigaeth yn mynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n ein hwynebu yn y tymor byr, a'r tymor hwy yn enwedig, ac mae'n sail i'r 18 Ymateb Strategol a nodir yn Dŵr Cymru 2050. Gweler Ein Strategaeth ar-lein yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/our-plans>

Cynaliadwyedd a'n themâu strategol

Isod nodwn grynodeb o'r hyn y mae cynaliadwyedd yn ei olygu i bob un o'n themâu strategol.



Dŵr

Gwasanaethau dŵr yfed cynaliadwy yw'r rhai hynny sy'n diogelu'r amgylchedd rhag tynnu gormod o ddŵr neu ryddhau gormod o allyriadau carbon i'r atmosffer, rhag defnydd anghynaliadwy o gemegion a deunyddiau eraill, a rhag rheoli dŵr gwastraff yn wael, ac sy'n croesawu'r economi gylchol. Mae'r gwasanaethau hyn yn lleihau cymaint â phosibl ar y gofyniad i brosesu dŵr, drwy gyfyngu ar ollyngiadau dŵr a gweithredu mewn modd rhagweithiol i helpu ein cwsmeriaid i leihau eu defnydd o ddŵr. Maent hefyd yn rheoli llygredd yn y tarddle.

> Darllenwch fwy ar dudalennau 112 i 113.



Yr Amgylchedd

Gwasanaethau dŵr gwastraff cynaliadwy yw'r rhai hynny sy'n diogelu'r amgylchedd rhag effaith dychwelyd elifion wedi'u trin ac elifion storm i'n hafonydd a'n moroedd, rhag rhyddhau gormod o allyriadau carbon i'r atmosffer, rhag defnydd anghynaliadwy o gemegion a deunyddiau eraill, a rhag ailgylchu biosolidau, ac sy'n croesawu'r economi gylchol. Mae gwasanaethau o'r fath yn rheoli llygredd yn y tarddle, ac yn helpu i atal llygryddion fel sylweddau perffflworalcyl a pholyffloralcyl (PFAS) – a elwir ar lafar hefyd yn gemegion parhaol – rhag mynd i mewn i'r system garthffosiaeth.

> Darllenwch fwy ar dudalennau 114 i 121.



Cwsmeriaid

Mae gan gwsmeriaid rôl hanfodol i gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarparwn. Yn y pen draw, cwsmeriaid, i raddau helaeth, sy'n penderfynu faint o ddŵr y bydd angen i ni ei dynnu o'r amgylchedd, a gallant effeithio ar ein carthffosydd a'r amgylchedd drwy fflysio plastigion a deunyddiau eraill i'r garthffos ym amhriodol. Mae gweithio gyda chwsmeriaid i newid eu hymddygiad yn hanfodol er mwyn cadw ein gwasanaethau ar sail gynaliadwy.

> Darllenwch fwy ar dudalennau 122 i 123.



Cymunedau

Mae ein gwasanaethau'n bodoli er mwyn cefnogi iechyd y cyhoedd a llesiant cymunedau a chwsmeriaid unigol fel ei gilydd, a hynny mewn modd cynaliadwy. Yn ogystal â darparu gwasanaethau dŵr yfed a dŵr gwastraff iddynt, byddwn hefyd yn manteisio i'r eithaf ar botensial ein daliadau tir a'n cyfleusterau, er mwyn helpu ein cwsmeriaid i fwynhau'r amgylchedd, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, a meithrin gwell dealltwriaeth o'r rôl allweddol sydd ganddynt i sicrhau y gallwn gynnig gwasanaethau cynaliadwy i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

> Darllenwch fwy ar dudalennau 124 i 128.



EIN GWELEDIGAETH: ENNYN YMDDIRIEDAETH EIN CWSMERIAID BOB DYDD

Caiff y weledigaeth hon ei hategu gan ein Themâu Strategol, ein dull o ymdrin â chynaliadwyedd a'n hwyluswyr Cyllido a Llywodraethu Cadarn.



HYLIFEDD

Erys hylifedd yn gadarn, gyda gwerth £379 miliwn mewn arian parod ar ddiwedd y flwyddyn (Y FA* 22: £515 miliwn), a gwerth £200 miliwn mewn cyfleusterau credyd heb eu hawlio.

STATWS CREDYD


Bondiau	MOODY'S	S&P	FITCH
Dosbarth A*	A1	AA	A
Dosbarth B	A3	A-	A
Dosbarth C	Baa2	BBB	BBB+
Rhagolwg	sefydlog	negyddol	sefydlog

*Mae'r bondiau Dosbarth A wedi'u gwarantu gan Assured Guaranty UK Ltd (A1/AA/Heb statws) ac maent yn dychwelyd i statws uchaf y gwarantwr a'r statws bond sylfaenol.

GERIO

Mae gerio o 58% (Y FA 22: 58%) yn unol ag ystod darged y Bwrdd.

PROFFIL AEDDFEDRWYDD DYLEDION PRESENNOL



Rydym wedi ein cyllido'n llawn hyd at ddiwedd cyfnod y Cynllun Rheoli Asedau (AMP) cyfredol a ddaw i ben yn 2025.

Mae'r graff hwn yn cwmpasu'r 10 mlynedd nesaf ac yn ymwneud â dyledion presennol yn unig.

I weld mwy, gan gynnwys proffiliau aeddfedrwydd tymor hwy, gweler nodiadau 14 ac 16 y datganiadau ariannol, a'n hadroddiadau buddsoddwyr cyfnodol ar ein gwefan yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/investors>.

Mae angen cryn dipyn o adnoddau ariannol arnom i ddarparu ein gwasanaethau craidd a buddsoddi yn ein seilwaith. Daw'r adnoddau hyn o'n refeniw ac o gyllid gan fuddsoddwyr. Mae ein strwythur corfforaethol heb gyfranddalwyr yn golygu nad ydym yn codi cyllid ecwiti nac yn gwneud elw i gyfranddalwyr, a chaiff ein harian dros ben ei ailfuddsoddi yn ein themâu strategol, ac mewn sicrhau'r gwerth gorau posibl i'n cwsmeriaid.

Rydym yn rheoli ein gweithrediadau a'n cyllid, ac yn cynnal cydberthnasau cadarn â buddsoddwyr presennol a darpar fuddsoddwyr ac asiantaethau statws credyd, gyda'r amcan o gynnal statws credyd gradd buddsoddi er mwyn sicrhau y gallwn ddefnyddio marchnadoedd dyled pan fydd angen er mwyn ariannu ein rhaglen fuddsoddi. Ein nod yw cynnal awydd cryf buddsoddwyr i fuddsoddi yn Dŵr Cymru a chael ein cyllid am y gost isaf. Mae ein dull cyllido hefyd yn rhoi sylw i ystyriaethau ACLI, gyda'r nod o sicrhau mwy o fuddsoddiadau hirdymor mewn gweithgareddau a phrosiectau economaidd cynaliadwy.

> Darllenwch fwy yn Adolygiad y Prif Swyddog Ariannol ar dudalennau 34 i 39.

Mae natur ein gweithgareddau'n golygu bod ein gweithrediadau ac amcanion ein cwmni'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd yn naturiol, ac rydym wedi gweld erioed bod llawer o alw ymhlith buddsoddwyr am ein bondiau. Mae awydd yn y marchnadoedd am ddyroddi bondiau gwyrdd wedi cynyddu'n sylweddol ers i ni ddyroddi bondiau ddiwethaf yn 2021, ac mae sefydliadau mewn amrywiaeth o sectorau bellach yn hyrwyddo eu hymrwymiad i'r amgylchedd. Dyma oedd y cyd-destun ar gyfer datblygu ein hagenda ACLI dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae ein statws ACLI gan Sustainable Fitch yn cydnabod ein hanes, ein cymorth cryf parhaus i gwsmeriaid agored i niwed, a'n hymdrechion parhaus i ddiogelu bioamrywiaeth. Gweler rhagor o fanylion ar dudalen 39.

* Yn yr adroddiad hwn, er symlrwydd, cyfeiriwn at flynyddoedd ariannol fel y FA NN i gynrychioli'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 20NN.




Mae Bwrdd Glas Cymru yn gwbl glir bod y prosesau llywodraethu cryfaf yn ganolog i'r busnes cyfan a'r ffordd rydym yn gweithredu. Mae ein prosesau llywodraethu yn ein helpu i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y pethau cywir; yn dyrannu ein hadnoddau'n effeithiol ar gyfer amrywiaeth eang o anghenion gwahanol grwpiau rhanddeiliaid; yn cydbwysu ein buddsoddiadau rhwng y tymor byr a'r tymor hwy; yn rheoli risgiau'n effeithiol; yn bodloni rheoliadau statudol a rheoliadau eraill; yn gwneud pob ymdrech i dalu ein cyflenwyr ar amser; yn trin pawb rydym yn ymwneud â nhw â pharch a thegwch, gan fod yn agored ac yn onest; ac yn gweithredu'n gyfrifol gan ystyried materion lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Un o nodweddion ein prosesau llywodraethu yw'r lefel o graffu annibynnol sydd wedi'i gwreiddio ynddynt, a chredwn fod hyn yn ein gwneud yn gryfach drwy gyflwyno profiad, syniadau ac arbenigedd mwy amrywiol, ac yn sicrhau ein bod yn cael ein herio'n barhaus yn ein ffyrdd o feddwl a gweithredu. Dangosir y craffu annibynnol hwn gan y canlynol:

- Cyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol yw'r mwyafrif o'n Bwrdd: 78% yn dilyn y ddau benodiad i'r Bwrdd yn y FA 23 – gweler manylion bywgraffiadol y Bwrdd ar dudalennau 140 i 143.

Cyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol yw'r mwyafrif o'n Bwrdd



Gweler y nodyn ar dudalen 151 am annibyniaeth Cyfarwyddwyr.

- Ein grŵp o 62 o Aelodau Glas Cymru a benodwyd yn annibynnol sy'n dwyn y Bwrdd i gyfrif am warchod ein hasedau ac am ddarparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol (gweler mwy ar dudalennau 148 i 150).
- Mae ein Grŵp Her Annibynnol yn cynnwys cadeirydd a benodwyd yn annibynnol ac aelodau sydd â phrofiad perthnasol. Mae'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac yn cynnig her, craffu a chyngor drwy'r Cadeirydd i Fwrdd Glas Cymru. I ddarllen mwy, gweler tudalennau 71 i 72.
- Ein prosesau sicrwydd annibynnol – gweler tudalen 151
- Ein Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol (IAEP) a'r Cyngorydd Arbennig i'r Bwrdd ar faterion Amgylcheddol.

Ers 10 mlynedd, rydym wedi bod yn cynnal yr IAEP, sy'n cynnwys mwy nag 20 o randdeiliaid amgylcheddol allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, rheoleiddwyr, sefydliadau amgylcheddol anllwydoraethol megis y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), cyrff amgylcheddol rhanbarthol a chenedlaethol, amrywiaeth o ymddiriedolaethau amgylcheddol, a diwydiannau allweddol, gan gynnwys amaethyddiaeth a mwyngloddio.

Mae'r IEAP yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn, caiff ei gadeirio'n annibynnol, ac fe'i mynychir gan y Cyngorydd Arbennig i'r Bwrdd ar faterion Amgylcheddol sydd hefyd yn mynychu Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd (i gael rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor hwn, gweler tudalen 164) ac, o bryd i'w gilydd, ein Cyfarwyddwyr Anweithredol. Caiff y cyngor a geir gan y Bwrdd ei drafod yn ôl yr angen yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae'r Panel hefyd yn cefnogi agendâu bioamrywiaeth ac ymchwil y Cwmni, gydag aelodau'n cydariannu mentrau a gwaith ymchwil sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a'r amgylchedd er mwyn helpu'r Cwmni i ddeall gwerth buddsoddiadau gwyrdd glas, megis ailgoedwigo ac adfer mawndiroedd ucheldir. Mae'r Panel hefyd yn galluogi ei aelodau i rannu a thrafod eu mentrau a'u cynigion allweddol eu hunain ag aelodau eraill y Panel, a thrwy hynny feithrin dull 'Tîm Cymru', gan rannu adnoddau arbenigol a chydweithio er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y gwerth gorau posibl i'n cwsmeriaid.

> Darllenwch fwy am Lywodraethu o dudalen 133 ymlaen.

ADRODDIAD STRATEGOL

Mae'r adroddiad strategol hwn yn amlinellu ein perfformiad dros y flwyddyn, y risgiau a wynebwn a sut rydym yn eu lliniaru, a'n gweledigaeth a'n strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Datganiad Cadeirydd y Bwrdd	24
Neges y Prif Weithredwr	28
Adolygiad y Prif Swyddog Ariannol	34
Cyd-destun ein Sector	40
Cynllunio ar gyfer Dyfodol Gwell	44
Ein Strategaeth	46
Perfformiad	48
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	68
Datganiad A172	71
Datgeliadau TCFD	74
Risg	90
Datganiad am Hyfywedd Hirdymor	100
Cynnydd o ran Cynaliadwyedd	106
Arloesedd	129



DATGANIAD CADEIRYDD Y BWRDD



NEWID YN YR HINSAWDD A
DIOGELU'R AMGYLCHEDD YW EIN
HERIAU MWYAF YN Y DEGAUDDAU
SYDD I DDOD. ”

Alastair Lyons CBE

Cadeirydd y Bwrdd

Yn fy neges yn yr Adroddiad Strategol ar y FA 22 soniais am y flwyddyn fel storm berffaith, gyda'n busnes a'n pobl yng nghanol y cyfan. Yna, soniais am y tywydd poeth anarferol a'r pwysau ar argaeledd dŵr o ganlyniad i hynny, sefyllfa a fu'n waeth oherwydd nifer y bobl a oedd wedi penderfynu cael gwyliau gartref; problemau o ran cyflenwadau, yn enwedig cemegion; tarfu o ganlyniad i stormydd mawr; prisiau ynni a oedd yn mynd yn uwch ac yn uwch; a mwy o ffocws cymdeithasol nag erioed ar yr amgylchedd ac ansawdd afonydd.

Fel y noda Peter Perry yn Neges y Prif Weithredwr sy'n dilyn fy neges innau, gallwn ysgrifennu'r un pennawd am y FA 23, a thynnu sylw at yr un materion. Yn anffodus, mae'r hyn a fu'n eithriadol bellach wedi dod yn rhywbeth cyffredin. Er mwyn i ni wireddu ein Gweledigaeth i'ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd, mae'n rhaid i ni gynllunio i allu ymdrin â digwyddiadau eithriadol heb y problemau na'r digwyddiadau hyn sy'n tarfu ar fywydau ein cwsmeriaid neu ein pobl, sef ein prif randdeiliaid. Mae'n rhaid i'n busnes weithredu ar lefel fwy cydnherth na'r hyn a fu'n angenrheidiol yn y gorffennol. Ni allwn ofyn o hyd i'n pobl wneud cyfraniadau eithriadol diarbed, o'u hamser a'u hymdrechion, ni waeth pa mor hael y maent wedi gwneud hynny, ac y maent yn parhau i wneud hynny. Y flwyddyn diwethaf, fel y sonia Peter, gwnaethom symud o'r heriau a oedd yn gysylltiedig â chynnal gwasanaethau arferol yn ystod yr haf sych a hir a barhaodd tan yr hydref, ac yna adfer yn sgil hynny, bron yn ddi-dor i ymdrin â rhew/dadmer ym mis Rhagfyr. Gwnaeth llawer o'n pobl wirfoddoli yn y cyfnod cyn y Nadolig a thros yr ŵyl i helpu i liniaru effaith hyn ar y cwsmeriaid hynny a gollodd eu cyflenwad o ganlyniad i hyn. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant, yn bersonol ac ar ran y Bwrdd, i bawb a weithiodd mor galed i gyflwyno'r gwasanaeth o safon rydym yn anelu at ei ddarparu.

Ein Gweledigaeth: Ennyn Ymddiriedaeth Ein Cwsmeriaid Bob Dydd

Rydym hefyd yn ymwybodol iawn ei bod wedi cymryd mwy o amser i ni adfer gwasanaeth arferol i rai o'n cwsmeriaid nag y byddem wedi'i ddymuno. Ymddiheuraif iddynt. Rydym wedi ystyried y gwersi a ddysgwyd er mwyn i ni allu ymateb yn well y tro nesaf y bydd hyn yn digwydd, sydd bron yn sicr. Bob tro y byddwn yn methu â chyrraedd ein safonau ein hunain a

disgwyliadau ein rhanddeiliaid, yn enwedig ein cwsmeriaid, sydd yn ei dro yn achosi iddynt golli ymddiriedaeth, byddwn bob amser yn syrthio ar ein bai, yn ymddiheuro, ac yn gwneud iawn yn y ffordd fwyaf priodol, ac yn gweithio'n galed i wella er mwyn sicrhau na fydd yn digwydd eto.

Er enghraifft, mae ein prosesau sicrwydd mewnol sy'n llywodraethu ein prosesau adrodd rheoleiddiol wedi canfod, ar gyfer y FA 21 a'r FA 22, ein bod wedi camddatgan lefel y gollyngiadau dŵr o'n rhwydweithiau, yn enwedig o'n prif bibellau. Ni ddylai hyn fod wedi digwydd ac mae ein Bwrdd wedi penderfynu rhoi ad-daliad o £10 i bob cwsmer er mwyn ymddiheuro am y camddatganiad sydd wedi achosi i ni beidio â chydabod yn gynt fod angen i ni wneud mwy i leihau gollyngiadau dŵr. Mae Ofwat wedi cyhoeddi ymchwiliad – y mae ansicrwydd ynghylch ei amseriad – a byddwn, wrth gwrs, yn cydweithredu'n llawn.

Rydym bellach yn cynyddu ein buddsoddiad mewn prosesau canfod gollyngiadau dŵr yn ein prif bibellau yn sylweddol er mwyn sicrhau ein bod unwaith eto ar y trywydd cywir mor fuan â phosibl. Rydym yn cydnabod na allwn ofyn i gwsmeriaid, boed hynny'n aelwydydd neu'n fusnesau, leihau faint o ddŵr y maent yn ei ddefnyddio os na allant ymddiried ynom i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y dŵr a gynhyrchwn ar gael i'w gyflenwi i'n cwsmeriaid.

Mae'r un peth yn wir am ein record amgylcheddol: rydym yn llwyr rannu pryder y cyhoedd ynglŷn ag iechyd ein hafonydd a'n dyfroedd arfordirol ac rydym bob amser yn flin iawn am unrhyw niwed amgylcheddol a achoswn mewn perthynas â'n gwasanaethau dŵr gwastraff. Mae ein Manifesto ar gyfer Afonydd yng Nghymru yn amlinellu ein buddsoddiad arfaethedig yn yr AMP hwn a'r un nesaf er mwyn i ni fynd i'r afael â'r meysydd hynny yn gyntaf lle y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i ansawdd dŵr. Drwy fod yn gwbl agored am ein cynlluniau a rhannu maint ein buddsoddiad â'n cwsmeriaid, rydym yn gobeithio gallu ennyn eu hymddiriedaeth ein bod yn gwneud popeth y gallwn, mor gyflym ag y gallwn.

Mae gwneud popeth y gallwn i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid yn rhan annatod o'n diwylliant nid er cyfranddalwyr ac mae pob diwylliant yn dechrau ar lefel uchaf y sefydliad. Felly, roedd yn gwbl gyson â'n diwylliant y dylai Peter Perry a Mike Davis ddweud na fyddent yn derbyn



Cronfa Ddŵr Pontsticill, Merthyr

unrhyw dâl amrywiol mewn perthynas â'r FA 23. Mae fy nghydweithwyr a minnau'n parchu'r penderfyniad hwn yn fawr iawn ac yn diolch iddynt am wneud hynny

Adolygiad o Brisiau 2024 (PR24)

Wrth i ni baratoi ein cynlluniau ar gyfer yr adolygiad nesaf o brisiau, sy'n cwmpasu ein cynllun manwl ar gyfer y cyfnod rheoli prisiau pum mlynedd nesaf o 2025 i 2030 a'n Strategaeth Gyflawni Hirdymor hyd at 2050, rydym yn cynllunio yn wyneb yr heriau mawr i'n busnes o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, ansicrwydd gwleidyddol cenedlaethol/ byd-eang economaidd, a disgwyliadau newydd i'n sector ar ran cymdeithas yn ei chyfanrwydd. Wrth wneud hynny rydym ymhell o fod yn dechrau o'r newydd. Mae strategaeth Dŵr Cymru 2050, a gafodd ei chyhoeddi'n gyntaf yn 2018 a'i diweddarau yn y FA 22, yn nodi'r tueddiadau o'r heriau allweddol y credwn y byddwn yn eu hwynebu yn yr hirdymor, a'n hymatebion strategol i'r tueddiadau o'r heriau hyn. Hefyd, nid ydym yn cynllunio ar ein pennau ein hunain. Mae'r heriau y cyfeiriaf atynt yn heriau i gymdeithas, ac nid heriau corfforaethol yn unig, ac mewn partneriaeth â'n prif randdeiliaid y byddwn yn datblygu'r ffyrdd gorau o fynd i'r afael â nhw. Drwy Fforwm PF24, sy'n cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cynnwys cwmnïau dŵr yng Nghymru, ein rheoleiddwyr amgylcheddol, economaidd ac ansawdd dŵr, a'n Grŵp Her Annibynnol, gallwn edrych ar flaenoriaethau o safbwynt cymdeithasol, nid dim ond ein safbwynt ein hunain ynglŷn â ble y dylem roi ffocws. Ac mae hynny'n hollbwysig: er mwyn llunio cynllun y mae modd ei gyflawni, ei fforddio a'i gyllido, bydd yn rhaid i ni gytuno ar flaenoriaethau â'n rhanddeiliaid. Ni fyddwn yn gallu cyflawni, na fforddio, na chyllido popeth yr hoffem ni a'n rhanddeiliaid ei gyflawni dros y cyfnod rheoli prisiau nesaf na'r un ar ôl hynny. Nid oes unrhyw sicrwydd ychwaith ynghylch sut y bydd yr heriau hyn yn datblygu yn yr hirdymor. Dyna sydd wrth wraidd ein rhagdybiaethau cynllunio – a dim ond rhagdybiaethau ydynt – ac mae'n rhaid i ni fod yn barod i addasu ein cynlluniau wrth i ni weld y dyfodol yn gliriach ac wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Er bod yn rhaid i ni osgoi ymrwymo i weithredu mewn ffordd na fydd yn briodol o bosibl yn y pen draw, yn yr un modd, rhaid i ni osgoi peidio â chymryd y comau gweithredu sydd eu hangen yn owr i baratoi ar gyfer yr hyn sy'n debygol o ddigwydd. Felly, rydym yn llwyr gefnogi methodoleg PR24 Ofwat, sef llwybr hirdymor craidd Heb Anfanteision gyda senarios amgen sy'n nodi pa benderfyniadau y bydd angen eu gwneud o bosibl, a phryd, os bydd angen bod yn fwy hyblyg ynglŷn â'r rhagdybiaethau cynllunio craidd hyn.

Edrychwn ar bob un o'r prif heriau hyn yn eu tro.

Newid yn yr hinsawdd

Mae hyn yn achosi, a bydd yn parhau i achosi, i recordiau gael eu torri'n rheolaidd. Y llynedd, gwelwyd y tymereddau uchaf erioed, y lefelau isaf mewn rhai o'n cronfeydd dŵr, a'r

cynnydd cyflymaf mewn tymheredd yn ystod y goeaf mewn un diwrnod ers 1947. Gwelsom hefyd y lefel uchaf erioed a gofnodwyd ar Afon Gwy yn Swydd Henffordd. Cafodd llawer o'r asedau sy'n sail i'n systemau dŵr a charthffosioaeth eu dylunio i fodloni amodau gwahanol.

Gyda thymhereddau aer uwch ar gyfartaledd sy'n cefnogi cynnwys lleithder mawr pan fydd hi'n bwrw glaw, fel sy'n digwydd yn aml yng Nghymru, bydd y glaw yn ddwysach, sy'n creu mwy o ddŵr ffô oddi ar arwynebau anhydraid a thai. Bydd hyn yn ei dro yn gorlethu'r carthffosydd sy'n dyddio'n ôl 50-100 mlynedd, gan arwain at orlifo carthion gwanedig i mewn i afonydd yn ystod stormydd. Yr unig ddewis arall ar hyn o bryd yw bod y garthffos yn ôl-ollwng i mewn i erddi a thai pobl ac adeiladau eraill megis ysgolion ac ysbytai. Er mwyn newid hyn, mae'n rhaid naill ai atal dŵr storm rhag mynd i mewn i'r carthffosydd yn y lle cyntaf, neu ei ddal a'i storio i'w ollwng pan fydd llif arferol drwy weithfeydd trin unwaith eto. Ar hyn o bryd, mae dau ddull o storio o'r fath ar gael – tanciau concrid mawr sydd ag ôl troed carbon mawr, a datrysiadau sy'n seiliedig ar natur megis gwelyau cyrs sy'n hidlo'r all-lif cyn iddo gyrraedd yr afon. Er mwyn atal glaw rhag mynd i mewn i'r carthffosydd byddai angen newid y system ddraenio gyfun sy'n gwasanaethu'r rhan fwyaf o'n stoc dai i wahanu dŵr glaw oddi wrth ddŵr brwnt, a buddsoddi'n sylweddol yn systemau draenio prifffyrdd a dŵr wyneb i gludo'r dŵr glaw drwy bibellau'n syth i mewn i gysiau dŵr gan osgoi symud y risg o lifogydd mewn mannau eraill. Felly, bydd pob datrysiad yn gostus iawn, a gan fod tua 2,500 o systemau gorlif storm cyfun yng Nghymru, mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn yn raddol dros gyfnod estynedig er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad yn un fforddiadwy, cyflawnadwy a chyllidadwy. Er y byddwn yn blaenoriaethu ym mha rai y byddwn yn buddsoddi er mwyn mynd i'r afael â'r rhai sy'n dwyn y risg ecolegol fwyaf i ansawdd dŵr yn gyntaf, rydym yn glir iawn bod unrhyw lygredd yn ein hafonydd a'n dyfroedd arfordirol yn annerbyniol. Os mai ni sydd wedi'i achosi, mae bob amser yn destun gofid mawr i ni ac rydym yn fwy penderfynol eto i ddysgu er mwyn osgoi digwyddiad tebyg.

“RYDYM YN GLIR IAWN BOD UNRHYW LYGREDD YN EIN HAFONYDD A'N DYFROEDD ARFORDIROL YN ANNERBYNIOL.”

Mae gennym 91 o gronfeydd dŵr, yr adeiladwyd llawer ohonynt, yn debyg i'n carthffosydd, 50-100 mlynedd yn ôl pan oedd y paramedrau dylunio yn rhagweld gwahanol lefel o ddigwyddiad straen. Erbyn hyn mae angen i gronfeydd dŵr gynnwys gorlifannau sy'n gallu ymdopi â stormydd sy'n digwydd unwaith bob 10,000 mlynedd, sy'n gofyn am gryn dipyn o fuddsoddiad mewn llawer o'n hargaeau. Er enghraifft, bydd y gorlifan newydd rydym yn ei adeiladu yn Llyn Celyn ger Bala yn costio £29 miliwn.

DATGANIAD CADEIRYDD Y BWRDD PARHAD

Mae cyfnodau estynedig o dywydd sych yn golygu y bydd yn rhaid i'n rhwydwaith dosbarthu dŵr fod yn fwy cydnerth. Gellir cyflawni hyn drwy gynyddu faint o le storio sydd ar gael yn lleol, fel arfer drwy adeiladu cronfeydd gwasanaeth newydd megis yr un sydd newydd gael ei chwblhau ym Mhengarnddu ar gyrion Merthyr Tudful sydd wedi costio £9 miliwn. Gellir cysylltu'r hyn sydd wedi bod yn barthau dŵr o'r tarddle i'r tap yng Nghymru fel arfer er mwyn cynnig llwybrau cyflenwi amgen os bydd cronfa ddŵr benodol yn mynd yn isel neu os bydd y rheoleiddiwr amgylcheddol yn rhoi cyfyngiadau ar yr hyn y gallwn ei dynnu o gwrs dŵr fel Afon Gwy. Rydym yn bwriadu gosod cysylltiad o'r dwyrain i'r gorllewin yn y de am gost o £21 miliwn. Mae tywydd sych yn achosi i'r ddaear symud, sydd wedyn yn achosi i brif bibellau dorri'n amlach. Mae hyn yn effeithio'n benodol o'r fathau arbennig o bibellau, megis y rhai a geir yn bennaf yn y gorllewin – y byddai'n costio £1 biliwn i osod rhai newydd yn eu lle.

Ochr yn ochr â blaenoriaethu'r buddsoddiadau a wnawn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn yr hyn y gall ein cwsmeriaid ei fforddio, ac y gallwn ei gyflawni'n ffisegol, mae'n rhaid i ni sicrhau adnoddau i'n busnes fel y gall ymateb i'r achosion annochel pan fydd asedau'n methu a'r argyfyngau lleol sy'n deillio o'n hanallu i fuddsoddi mewn popeth ar unwaith. Mae hynny'n golygu gwella ein gallu i ymateb yn gyflym ar lawr gwlad heb osod gofynion anghynaliadwy ar ein pobl. Mae'n rhaid i ni, yn ein tro, ystyried arloesi i'n helpu i ddod yn fwy effeithlon, gan roi cyfle i ni roi adnoddau ychwanegol i dimau a lleihau'r angen am weithgarwch mewn mannau eraill ar yr un pryd. O ran hyn, mae'n hollbwysig ein bod yn manteisio i'r eithaf ar wyddor data. Rydym yn cofnodi llawer iawn o ddata o'n gweithrediadau ein hunain ac mae data atodol o ffynonellau allanol ar gael i ni hefyd. Drwy ddefnyddio'r data hyn i nodi ble i ganolbwyntio ein hymdrechion, wrth ymateb i ddigwyddiadau a pharatoi ar gyfer yr hyn a all ddigwydd, gall ein timau fod yn llawer mwy cynhyrchiol.

Ansicrwydd ac Anwadlwydd

Mae'r rhain wedi dominyddu bywydau personol a busnesau ers dechrau 2022 yn wyneb yr heriau economaidd a geowleidyddol sydd wedi codi ar ôl i Rwsia oresgyn Wcráin. Yn ystod y ddwy flynedd cyn hynny gwnaeth pawb ddioddef yn sgil ansicrwydd tebyg o'r fath o ganlyniad i bandemig COVID-19. Felly, wrth gynllunio a rheoli'r busnes, mae'n rhaid i ni fod yn barod i wynebu ansicrwydd ac anwadlwydd fel rhywbeth arferol, yn hytrach na digwyddiad eithriadol, p'un a yw hynny'n golygu'r chwyddiant uchel sy'n creu argyfwng costau byw, cynnwrf yn y marchnadoedd ariannol, prinder cyflenwadau o gemegion sy'n allweddol i'r broses drin, neu ansicrwydd ynglŷn â pha heriau a gaiff eu hachosi o ganlyniad i batrymau tywydd newidiol.

Ar adegau o ansicrwydd, mae cyfathrebu dwy ffordd effeithiol yn hollbwysig. Mae angen i ni ddeall sut mae'r ansicrwydd yn effeithio ar ein prif randdeiliad ac mae angen iddynt hwythau ddeall beth rydym yn ei wneud i ymateb, a pham mai hon yw'r ffordd fwyaf effeithiol o liniaru ei effaith arnynt. Dau o chwe gwerth ein cwmni yw Bod yn agored â phawb a Bod yn onest â phawb. Drwy fyw'n unol â'r gwerthoedd hyn rydym yn ceisio gwireddu ein trydydd gwerth, sef Ymddiriedir ynom i Wneud y Peth iawn.

Mae ymgysylltu yn sbardun i ddealltwriaeth sy'n ennyn ymddiriedaeth y bydd y sefydliad bob amser yn anelu at wneud y peth iawn, er y gall yr amgylchiadau wneud pethau'n

anodd i ni mewn byd ansicr. Felly dros y flwyddyn diwethaf, fel yr amlinella Peter, rydym wedi ceisio ymgysylltu â'n hundebau llafur a'n pobl i ddod i setliad cyflog teg i bawb, i'n busnes a'n pobl yn erbyn cefndir economaidd anodd. Rydym wedi cysylltu â'r gwahanol grwpiau sy'n ceisio diogelu ansawdd ein hafonydd er mwyn esbonio effaith ein gweithrediadau a'r camau rydym yn eu cymryd i leihau hyn. Yn yr un modd, rydym wedi ymgysylltu'n agos â'n rheoleiddwyr amgylcheddol ar y materion hyn, ynghyd â Llywodraeth Cymru, gan roi esboniad yn uniongyrchol yn ystod Uwchgynhadledd y Prif Weinidog ar Ffosffadau ynglŷn â'r camau rydym ni, fel cwmni, yn eu cymryd fel ein cyfraniad at fynd i'r afael ag afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n methu ac ailddechrau datblygiadau tai yn y dalgylchoedd hyn. Pan fo digwyddiadau annisgwyl yn achosi problemau i'n cwsmeriaid, fel y digwyddodd yn ystod y cyfnod diweddar o rew/dadmer, byddwn yn anelu at fod yn weladwy yn y cymunedau dan sylw, gan eu hysbysu am y camau rydym yn eu cymryd.

Yr hyn sy'n allweddol wrth ymdrin ag ansicrwydd yw deall yn glir pa mor gydnerth ydym ar hyn o bryd. Fel rhan o'n gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad o brisiau sydd ar ddod, rydym wedi creu adnodd cynllunio asedau newydd sy'n deall cydnerthedd ein hasedau presennol yn llawer gwell, sy'n gallu asesu effaith gwahanol senarios arno, ac sy'n gallu gwerthuso'r risg ganlyniadol drwy ddefnyddio sawl math o gyfalaf, yn hytrach na chyfalaf ariannol yn unig. O ran ein cydnerthedd ariannol, rydym wedi asesu'r effaith ar ein cymarebau ariannol allweddol ar gyfer proffiliau bilio a chynlluniau buddsoddi amgen ac wedi ceisio nodi'r cydbwysedd cywir rhwng cyflawni'r amcanion rydym wedi cytuno arnynt ar y cyd â'n rhanddeiliad a chreu cynllun cyffredinol sy'n fforddiadwy i'n cwsmeriaid y gellir ei gyllido ar y marchnadoedd dyled. Mewn byd ansicr, mae'n rhaid i ni fod yn hyderus yn ein gallu i droi at y marchnadoedd hyn gan nad oes unrhyw ddarpariaeth wrth gefn i gael ecwiti yn ein cyfansoddiad nid er cyfranddalwyr. Felly, roeddem yn falch iawn o glywed bod Fitch Ratings wedi cadarnhau statws A ein Dyled Hŷn â Rhagolwg Sefydlog.

Yn ystod y sesiwn her agored "Eich dŵr, Eich dweud" yn ddiweddar ar ein cynlluniau ar gyfer yr adolygiad nesaf o brisiau, gwnaethom nodi buddsoddiad rydym yn bwriadu ei wneud dros y 5 mlynedd nesaf er mwyn gwella ein hasedau am gost o £3.1 biliwn. Bydd hynny dros £1 biliwn yn fwy na'r buddsoddiad sylweddol a wnaed gennym yn ystod y cyfnod rheoli prisiau presennol rhwng 2020 a 2025, a bydd yn golygu na fyddwn yn gallu cyflawni ein nod o sicrhau bod biliau islaw cyfradd chwyddiant cyffredinol, sef rhywbeth a gyflawnwyd gennym rhwng 2010 a 2021/22. Er mwyn cyflawni ein cynllun hirdymor ar gyfer yr amgylchedd, yn enwedig osgoi achosi unrhyw niwed ecolegol i afonydd drwy ein hasedau, bydd hyn, yn ôl ein rhagamcan, yn costio mwy na £5 biliwn dros y 25 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn golygu bod biliau yn cynyddu tua 5% uwchlaw chwyddiant bob blwyddyn o'r cyfnod rheoli prisiau nesaf. Cyfrifoldeb cymdeithas – ein cwsmeriaid a'r Llywodraeth – yw penderfynu beth ddylem geisio ei gyflawni, a hynny ar sail blaenoriaethau cymdeithas. Mae ein hymchwili â'n cwsmeriaid yn dweud wrthym eu bod yn barod i dderbyn biliau cynyddol os caiff yr arian a godir ei fuddsoddi yn y pethau cywir, yn enwedig i ddiogelu'r amgylchedd, ond nid yw wedi'i brofi'n llawn eto faint y maent yn barod i'w wario ar hyn. Mae'r ddadl hyd yma wedi ymwneud â chynyddu buddsoddiad yn sylweddol, ond dim ond yn ddiweddar y mae'r ffactorau y mae angen

eu cydbwyso o ran effaith ar filiau a thros ba gyfnod o amser y dylai'r buddsoddiad gael ei wneud yn dechrau dod i'r amlwg. Yr hyn a wyddom yw bod cwsmeriaid hefyd yn disgwyl i ni geisio sicrhau bod ein biliau yn fforddiadwy i bawb, gan helpu'r rhai a fyddai'n ei chael hi'n anodd talu'r swm llawn drwy gynlluniau megis HelpU, sef y cynllun tariffau cymdeithasol mwyaf fel cyfran yn y sector erbyn hyn a'n cynllun newydd, Cymuned, i helpu'r rhai sy'n gweithio ond sy'n ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd. Mae ein model nid er cyfranddalwyr yn golygu bod hyn yn rhywbeth sydd ar flaen ein meddwl bob amser o ran y bwrdd a'n busnes.

Disgwyliadau Newidiol Cymdeithas

Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i fusnesau ymateb iddo os ydynt am barhau'n berthnasol ac ennyn ymddiriedaeth. Gellir ystyried bod y pandemig wedi gwddnewid blaenoriaethau ac ymddygiadau pobl. Mae hyn wedi ennill cryn fomentwm drwy rym y cyfryngau cymdeithasol i greu byd lle mae modd cyfathrebu ac adweithio ar unwaith. Mae pobl bellach yn chwilio am hyblygrwydd ymhob un o'r tair agwedd ar fywyd – gwaith; teulu; cymdeithas – gyda'r disgwyliad y dylai fod cyfaddawdu ym mhob un i ddiwallu anghenion ei gilydd. Felly, rydym wedi symud i weithio hybrid lle bynnag y bo'n ymarferol ond gan gydnabod bod cydlyniant cymdeithasol hefyd yn gofyn am gyswllt ffisegol er mwyn creu a chynnal timau. Ymddengys fod y cyfnodau hir o weithio gartref yn ystod y pandemig wedi gwneud i bobl fod yn llawer mwy sensitif i'r amgylchedd a'i werthfawrogi dipyn yn fwy. Mae hyn yn ei dro yn cael ei atgyfnerthu gan gydnabyddiaeth o'r bygythiad i'r amgylchedd a achosir gan newid yn yr hinsawdd. O ystyried ein cyfansoddiad nid er cyfranddalwyr, rydym yn bodoli i fodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid, ac felly mae angen i ni gymryd y camau mwyaf effeithiol posibl i ddiogelu'r amgylchedd, yn enwedig er mwyn osgoi llygredd. Rydym yn cefnogi'n gryf bwyslais Llywodraeth Cymru ar atal niwed ecolegol i'n cyrrff dŵr. Mae ein Cynllun Rheoli Droenio a Dŵr Gwastraff, y byddwn yn ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni, wedi'i flaenoriaethu ar sail osgoi niwed o'r fath. Yn yr un modd, mae cysondeb llawn rhwng ffocws hirdymor y Llywodraeth fel y'i mynegwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n gweledigaeth hirdymor fel y'i nodwyd yn Dŵr Cymru 2050. Heb y ffocws ar y byrdymor, sy'n rhan anochel o'r marchnadoedd ecwiti, gallwn hefyd benderfynu beth a wnawn drwy ystyried buddiannau hirdymor ein cwsmeriaid a chymdeithas.

Rydym yn cydnabod bod disgwyliadau ein cwsmeriaid yn cael eu hysgogi gan y gwasanaeth gorau y maent yn ei brofi, ni waeth beth yw'r sector. Os oes modd olrhain parsel o'r eiliad y caiff nyddau eu harchebu hyd at eu dosbarthu a gwybod o fewn i awr neu ddwy pryd y bydd hynny yn digwydd, pam na ddylai fod modd gwneud hynny wrth ofyn am fesurydd? Rydym bellach wedi cyflwyno porth olrhain llif gwaith fel y gall cwsmeriaid olrhain hynt eu cais am fesurydd, yn ogystal â chadarnhau statws y gwaith rydym yn ei wneud ar eu cyfer. Nid yw pobl am aros hydoedd i ganolfan alwadau ateb y ffôn er mwyn newid manylion personol, cael balans cyfrif, neu dalu biliau – mae angen i'n systemau digidol gyfateb i ddysgwyliadau ein cwsmeriaid a bob blwyddyn rydym yn ehangu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael ar-lein – yr un nesaf fydd ap symudol i gwsmeriaid a fydd yn ei gwneud yn haws talu bil, a gwasanaeth ar-lein i'n cwsmeriaid dibreswyl. Os bydd angen siarad â rhywun am broblem, nid oes neb am gael ei drosglwyddo o un person i'r llall a gorfod adrodd yr un stori bob tro: rydym bellach wedi sefydlu tîm achosion cymhleth sy'n rhoi enw cyswllt i gwsmeriaid a fydd yn delio â'r achos hyd nes y caiff ei ddatrys, gan gysylltu â'r timau gweithredol perthnasol a rhoi diweddariadau rheolaidd i'r cwsmer.

Mae cwsmeriaid bellach yn disgwyl i fusnesau wneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas a'r amgylchedd, ac efelychu amrywiaeth y cwsmeriaid a wasanaethant. Maent yn disgwyl lefel uchel o ymatebolrwydd ac i fusnesau fod yn hollol dryloyw. Rydym mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflawni yn erbyn y disgwyliadau hyn, gyda dim ond buddiannau ein cwsmeriaid


i'w bodloni. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn darparu data amser real ar weithrediad systemau gorlif storm fel datblygiad pellach o'r data amser real rydym eisoes yn eu cyhoeddi ar weithrediad pibellau gorlif sy'n agos i draethau ymdrochi.

O ran thema amrywiaeth, rydym wedi mynd ati i gynyddu cyfran ein cydweithwyr sy'n fenywod neu sy'n dod o leiafrif ethnig. Ar hyn o bryd, mae ychydig o dan 30% o'n gweithlu yn fenywod, ac mae ychydig o dan 4% yn dod o leiafrif ethnig, o gymharu â 5% ym mhoblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd. Rydym wedi cynyddu cyfran ein Tîm Gweithredol sy'n fenywod i 35% ac roedd yn bleser gennym weld y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn gostwng i 3.6% o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol y DU o 14.9%. Ein nod yw denu a recriwtio mwy o fenywod a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac roedd yn bleser gennym groesawu Lila Thompsom a Barbara Moorhouse i ymuno â'n Bwrdd y llynedd – menywod sy'n cyfrif am 50% o'n bwrdd erbyn hyn. Ein targedau yw bod 35% o'r cydweithwyr hynny sy'n rhan o'n llif talent ar gyfer uwch-rolau yn fenywod a sicrhau gwelliant o 5% bob blwyddyn mewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n gwneud cais am rolau.

Yn ei adroddiad mae Peter yn trafod yn fanwl yr hyn a gyflawnwyd gennym, a ble y cawsom anawsterau, y flwyddyn diwethaf. Er ein bod wedi perfformio'n dda mewn rhai meysydd megis boddhad cyffredinol cwsmeriaid a pherfformiad amgylcheddol cymharol, rydym yn cydnabod bod eithaf tipyn o ffordd i fynd mewn meysydd eraill megis derbynoldeb dŵr i gwsmeriaid, toriadau yn y cyflenwad, gollyngiadau dŵr, ac ansawdd dŵr. Yn ein cynlluniau ar gyfer dwy flwyddyn olaf y cyfnod rheoli prisiau hwn, a'r un nesaf, bydd ffocws ein hymdrechion rheoli ar sicrhau gwelliant parhaol yn y meysydd hyn, wedi'i gefnogi gan y buddsoddiad angenrheidiol. Nodwyd y rhain yn ein Cynllun Perfformiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth eleni (<https://corporate.dwr.cymru.com/cy-gb/about-us/our-plans>), yr ydym yn gwneud cynnydd da yn ei erbyn. Fel sy'n addas i fusnes hirdymor, rydym wedi pennu amcanion hirdymor o ran ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn i'n cwsmeriaid a'n heffaith ar yr amgylchedd. Rydym yn cydnabod y bydd angen i ni weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni'r rhain. Er mwyn gwella ansawdd y dŵr yn ein dalgylchoedd a'n hafonydd mae angen i ni gefnogi amaethyddiaeth ac awdurdodau lleol. Er mwyn lleihau blociadau mewn carthffosydd mae angen i aelwydydd a busnesau gymryd camau i newid yr hyn y maent yn ei roi yn y system. Er mwyn lleihau gostyngiadau dŵr mae angen i ni weithio gyda'n cwsmeriaid i nodi ble rydym yn colli dŵr, yn ein rhwydwaith ac yn eu heiddo. Er mwyn lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir mae angen i ni gefnogi a chymhell newid ymddygiadol ymhlith ein cwsmeriaid. Er mwyn cyflawni'r holl bethau hyn mae angen i ni fabwysiadu dull gweithredu Tîm Cymru, ac ymrwmo iddo, gan ennyn ymddiriedaeth ein partneriaid er mwyn cyfiawnhau eu cyfraniad. Fel y dywedais yn gynharach, rydym yn ennyn ymddiriedaeth drwy fod yn agored ac yn onest a chael ein gweld yn rhoi pwys ar y cyfraniad a wnawn i'r cymunedau rydym yn rhan ohonynt.

Diolch

Gan orffen lle y dechreuais, diolch i bawb yn y busnes, ac i'n partneriaid, am gefnogi ein cwsmeriaid a'u cymunedau drwy flwyddyn heriol iawn. Hoffwn ddiolch yn bersonol i'n tîm rheoli ac i'm cydweithwyr ar y Bwrdd am eu hymrwymiad a'u cyngor cadarn wrth i ni geisio dod o hyd i'r llwybr gorau posibl drwy'r heriau hyn.



Alastair Lyons CBE
Cadeirydd y Bwrdd

16 Mehefin 2023

NEGES Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL



“GWNAETHOM YMATEB YN BENDERFYNOL I DDIGWYDDIADAU TYWYDD EITHAFOL YN YSTOD Y FLWYDDYN ER MWYN CYFYNGU AR Y TARFU AR EIN CYFLENWAD A’N GWASANAETHAU DŴR GWASTRAFF.”

Peter Perry
Prif Swyddog Gweithredol

Heriau Allweddol yn y FA 23

Yn ystod 2022 cafwyd rhai amodau gweithredu heriol iawn a oedd yn gysylltiedig â'r tywydd yn bennaf. Mae hyn yn arwydd o effaith newid yn yr hinsawdd rydym wedi dechrau ei phrofi, ond efallai'n amlach na'r hyn roeddem yn disgwyl ei weld mor gynnar.

Bu'r cyfnod o sychder yn 2022 yn ddigwyddiad arwyddocaol i ni a gwnaeth ein rhoi o dan fwy o bwysau nag unrhyw ddigwyddiad cyffelyb yn hanes y busnes. Wrth i ni nesáu at ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd, roedd pob un o'n cronfeydd dŵr yn llawn, gyda llawer yn gorlifo. Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2022, wrth i'r Swyddfa Feteorolegol ddechrau rhagweld gwanwyn sych, aethom ati ar unwaith i sefydlu adolygiad wythnosol o gynllunio adnoddau dŵr o dan arweiniad cyfarwyddwr. Ar ôl profi effaith niferoedd mawr yn cael gwyliau gartref ar y galw am ddŵr yn y ddwy flynedd flaenorol, yn enwedig yn ardaloedd twristiaeth yr arfordir, gwnaethom hefyd ddechrau gweithredu negeseuon 'defnyddio dŵr yn ddoeth' wedi'u targedu at gwsmeriaid yn yr ardaloedd hyn yn ystod mis Ebrill. Gwnaethom barhau â hyn drwy gydol yr haf a'r hydref.

Ar y gwyliau banc dros y Pasg hyd at y Sulgwyn roedd y rhagolygon yn nodi na fyddai fawr ddim glaw, a gallm weld y posibilrwydd o haf sych a hir o'n blaenau. A dyna a ddigwyddodd, gyda'r cyfnod poethaf a sychaf o dywydd a welwyd ledled Cymru ers dros hanner canrif. Gan ddefnyddio ein cynlluniau adnoddau dynol a sychder i'n tywys, gwnaethom gymryd camau o'r gwanwyn ymlaen er mwyn lliniaru'r effaith ar gwsmeriaid a'r amgylchedd.

Mewn cyfnodau sych blaenorol, megis yn 2018, 2003 a 1995, parhaodd lefel uchaf y galw yn ystod yr haf am ychydig ddiwrnodau neu efallai wythnos ar y mwyaf. Yn 2022 parhaodd galw mawr dros sawl wythnos yn ystod yr haf. Ar 18 Gorffennaf, cofnodwyd y tymheredd uchaf erioed yng Nghymru, sef 37.1°C ym Mhenarlâg, Sir y Fflint. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gynyddu'r dŵr a oedd yn cael ei ryddhau i mewn i'r cyflenwad 20% ar gyfartaledd ledled ein hardal weithredu. Mewn rhai lleoliadau, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd twristiaeth, cafwyd cynnydd o fwy na 30%.

Gyda'n lefel gynyddol o gyflenwad a'n goruchwyliaeth o'r camau lliniaru, ar ddiwedd mis Awst, nodwyd y gallai problemau cyflenwi godi yn system gyflenwi Llys-y-frân sy'n gwasanaethu rhan helaeth o Sir Benfro (60,000 eiddo). Yn unol â'n Cynllun Sychder, cyflwynwyd Gwaharddiad Dros Dro ar Ddefnydd Dŵr – a elwir yn waharddiad ar ddefnyddio pibelli dŵr yn aml – yn yr ardal hon ar 19 Awst. Gwnaeth cyfuniad o lawiad isel, tymereddau uchel a galw cynyddol, a waethygydd yn rhannol gan dwristiaeth gwyliau gartref, ein gorfodi i weithredu. Dyma'r tro cyntaf ers dros 30 mlynedd i unrhyw fath o gyfyngiad ar ddŵr gael ei ddefnyddio yng Nghymru. Gwnaethom gyflwyno'r cyfyngiad i arbed dŵr ar gyfer y cyflenwad cyhoeddus a hefyd i ddiogelu amgylchedd Afon Cleddau, sef afon mewn Ardal Cadwraeth Arbennig yn ne Sir Benfro.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod y cymorth mawr a gawsom gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, ein rheoleiddwyr amgylcheddol, wrth weithio gyda ni i gynnal system Llys-y-frân. Yn ystod y cyfyngiadau ac yn union ar ôl iddynt gael eu codi, gwnaethom ymchwil annibynnol yn yr ardal dan sylw er mwyn mesur ymateb cwsmeriaid. Roedd y mwyafrif yn cefnogi'r ffordd roeddem wedi cyflwyno'r cyfyngiadau ac roedd yn brofiad ymostyngol clywed faint o bobl sy'n deall y risg sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ac yn barod i gydweithredu â ni o dan yr amgylchiadau hyn.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, rwyf wedi sylwi ar y pwysau a roddwyd ar ein gwasanaethau mewn nifer o ardaloedd twristiaeth o ganlyniad i wyliau gartref a digwyddodd hyn unwaith eto yn ystod haf a hydref 2022. Yn wir, oherwydd y cyfnod sych a'r tymereddau uchel, parhaodd cyfnod y gwyliau gartref dipyn yn hirach yn yr hydref nag a welwyd o'r blaen. Roedd yn galonogol gweld bod y buddsoddiad a wnaed gennym dros fisoedd gaeaf 2021-22, i gryfhau ein systemau yn Sir Benfro, wedi lliniaru problemau o ran dosbarthu dŵr drwy ein rhwydwaith sy'n gwasanaethu ardal Tyddewi. Heb y buddsoddiad hwn byddai effaith y cyfnod sych yn yr ardal hon wedi bod yn llawer mwy heriol. Yn fwy cyffredinol, drwy gydol yr haf a dechrau'r hydref, roedd ein fflyd gyfan o danceri dŵr (40 o gerbydau) yn cael ei defnyddio am ran helaeth o'r cyfnod. Ym mis Mai, gwnaethom benderfynu ychwanegu 10 o gerbydau hur eraill at y fflyd, a bu hyn yn fuddiol iawn o ran cynyddu lefel y cymorth gan danceri a oedd ar gael i

ni mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd twristiaeth dros y cyfnod hwnnw er mwyn ateb y galw mawr. Yn y gorllewin yn enwedig, achosodd yr amodau poeth a sych ddiffyg lleithder pridd sylweddol, a arweiniodd at gynydd o 30% yn nifer y prif bibellau yn torri o ganlyniad i symudiadau yn y ddaear. Rydym yn bwriadu lliniaru risg debyg yn y dyfodol yn yr ardal drwy ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer PR24.

Er bod y ffocws yn ystod cyfnod sych yn tueddu i fod ar ein gweithgareddau dŵr yfed, ni ddylem anwybyddu effaith yr amodau sych dros gyfnod estynedig ar ein busnes dŵr gwastraff. Mae lefelau dŵr isel yn ein rhwydwaith dŵr gwastraff yn arwain at fwy o flociadau ac yn golygu bod carthion yn llai gwanedig ac felly'n fwy anodd i'w trin pan fyddant yn cyrraedd ein gweithfeydd trin. Mae hefyd yn golygu bod mwy o slwtsh dŵr gwastraff yn cael ei gynhyrchu, sy'n achosi risg ychwanegol i sicrhau cydymffurfiaeth yn ein gweithfeydd carthion. Yn 2021, gwnaethom fuddsoddi mewn adnoddau ychwanegol i drin slwtsh yn y gorllewin, a bu'r rhain yn amhrisiadwy yn 2022, yn enwedig o dan bwysau cynyddol oherwydd effaith gwyliau gartref.

Yn ystod y tywydd poeth, gwelwyd lefelau isel iawn mewn afonydd am gyfnod estynedig ledled ein hardal weithredu ac o ganlyniad, cynyddodd hyn y posibilrwydd y byddai unrhyw ddigwyddiadau yn ein gweithfeydd trin neu yn ein rhwydwaith carthffosydd yn cael mwy o effaith. Drwy ymdrech fawr ein pobl lleihawyd effaith hyn i'r eithaf drwy gynyddu lefelau monitro a chynnal a chadw gweithredol.

Yn y gorllewin y cafodd y cyfnod sych yr effaith fwyaf i ni, ond wrth i ni symud drwy'r haf i ddechrau'r hydref, lleddfyd y sefyllfa yn sgil glaw, a chodwyd y cyfyngiadau yn Sir Benfro ar ddiwedd mis Hydref. Fodd bynnag, drwy gydol y cyfnod hwn ni fu fawr ddim glaw yn y de-ddwyrain ac aethom ati i weithio'n galed a gweithredu'n benderfynol i symud dŵr o amgylch yr ardal hon sy'n drefol ar y cyfan er mwyn cynnal cyflenwadau a diogelu'r amgylchedd, a chyfyngu ar unrhyw darfu i'n cwsmeriaid. Parhaodd hyn tan fis Tachwedd pan giliodd y risg yn sgil lefelau arferol o law. Roedd y lefelau isel iawn a welwyd mewn cronfeydd dŵr ar yr adeg hon hefyd yn ei gwneud yn anodd dros ben trin y dŵr heb ei drin a oedd yn weddill, felly dros yr haf gwnaethom brynu pob llwyfan teneuo carbon cludadwy a oedd ar gael yn Ewrop bryd hynny er mwyn ateb yr her ddigynsail hon. Nid oeddem erioed wedi gweld effaith cyfnod o sychder yn parhau mor hir ac ni allaf orbwysleisio fy niolch i'n timau gweithredol a weithiodd ddydd a nos i ddarparu ein gwasanaethau o dan yr amgylchiadau digynsail hyn.

Gyda'r adferiad yn sgil y cyfnod o sychder yn fyw iawn yn ein meddyliau, gwnaethom wynebu her sylweddol arall o gonlyniad i'r tywydd yn mis Rhagfyr. Am ran heloeth o'r mis cafwyd tymereddau islaw'r rhewbwynt ledled ein hardal weithredu. Gwyddem y byddai dadmer yn golygu effaith sylweddol o bosibl ar ein seilwaith dŵr. Gan gadw hyn mewn cof, ynghyd â rhagolygon y Swyddfa Feteorolegol y byddai dadmer ar 17-18 Rhagfyr, gwnaethom ddefnyddio ein strwythur rheoli lefel Aur ar 12 Rhagfyr ochr yn ochr â sefydlu canolfannau Arian rhanbarthol ym mhob rhan o'r Cwmni ar yr un pryd. Fel y digwyddodd, dechreuodd y dadmer ychydig yn gynt nag a ragwelwyd ar 16 Rhagfyr, ac yn y gorllewin cafwyd newid o 6.7°C yn y tymheredd, sef y cynnydd cyflymaf mewn tymheredd yn ystod y gaeaf mewn un diwrnod ers gaeaf 1947, a dorrodd recordiau.

Yn sir orllewinol Ceredigion, ynghyd â rhannau o Bowys yn y canolbarth ac ardaloedd gwledig o Swydd Henffordd, cofnododd y Swyddfa Feteorolegol y tymereddau cymedrig isaf ledled y DU ym mis Rhagfyr 2022. Dim ond Ucheldiroedd yr Alban a oedd yn oerach. Pan ddechreuodd y rhew ddadmer yn y rhannau hyn o Gymru a Lloegr, gan ddechrau ar 16 Rhagfyr, gwelwyd y gyfradd gyflymaf erioed o golli dŵr yn ein rhwydwaith dosbarthu o ganlyniad i lefel

y pibellau dŵr a dorrodd yn ein rhwydwaith ac yn eiddo cwsmeriaid.

Er i ni gynnal y cyflenwad i fwy na 99% o'n cwsmeriaid dros ein hardal weithredu gyfan, yn y cymunedau gwledig hyn colodd tua 15,000 eiddo y cyflenwad am gyfnod estynedig: yn yr achosion gwaethaf, am hyd at bedwar diwrnod. Gwnaethom weithredu ein hymateb i ddigwyddiad yn llawn, gan gynnwys defnyddio ein fflyd gyfan o danceri dŵr unwaith eto, trefnu i fwy na 500 o bobl ddod o hyd i ollyngiadau dŵr a'u trwsio, a darparu dros filiwn litr o ddŵr potel. Oherwydd hyd y cyfnod o amser y colodd rhai cwsmeriaid eu cyflenwad, gwnaed y penderfyniad i sicrhau eu bod yn cael eu digolledu'n gyflym ac mae'n dda gennyf nodi bod pob cwsmer yr effeithiwyd arno wedi cael £70 y diwrnod pan nad oedd cyflenwad. Gwnaethom tua 15,000 o daliadau awtomataidd i'r cwsmeriaid hyn erbyn diwedd mis Chwefror 2023.

Roedd yn ddigwyddiad gweithredol arwyddocaol ac rydym yn cydnabod yr effaith ar ein cwsmeriaid, yn enwedig y rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf. Rydym wedi dysgu gwersi er mwyn ein helpu i wella ein hymateb yn y dyfodol o dan amgylchiadau tebyg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwell gwybodaeth yn ystod digwyddiadau, a defnyddio cyflenwadau dŵr amgen mewn ardaloedd gwledig mawr. Hoffwn hefyd gydnabod yma ymdrech fy nghydweithwyr gweithredol unwaith eto am eu hymrwymiad yn ystod y cyfnod hwn. Roedd llawer ohonynt wedi gweithio'n ddiflino mewn ymateb i'r cyfnod o sychder ac yna bu gofyn iddynt unwaith eto ymdrin ag amodau gweithredol heriol eraill yn fuan wedyn. Roedd yr ymateb y tro hwn yn ymestyn dros gyfnod y Nadolig, gyda llawer o'r staff yn colli amser gyda'u teuluoedd i helpu gyda'r argyfwng hwn; ac am hyn rwyf yn hynod ddiolchgar.

Bu'r FA 23 hefyd yn flwyddyn heriol i'n cwsmeriaid oherwydd yr argyfwng costau byw. Rydym wedi gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo sut y gall y rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu gael cymorth gennym. Rydym yn gweithio gyda mwy na 300 o sefydliadau ledled ein hardal weithredu i gyrraedd y bobl a'r cymunedau y mae'r amgylchiadau economaidd anodd presennol yn effeithio arnynt fwyaf. Fel cyfran, Dŵr Cymru sydd â'r cynlluniau tariffau cymdeithasol mwyaf (HelpU a WaterSure Cymru) o blith yr holl gwmnïau dŵr, gan helpu tua 129,000 o gwsmeriaid gyda gostyngiadau o hyd at £209 ar eu biliau. Rydym wedi darparu yn ystod y flwyddyn i ychwanegu 50,000 o gwsmeriaid eraill at y cynlluniau. Ym mis Ionawr 2023, gwnaethom hefyd lansio'r cynllun cyntaf o'i foth yn y sector i helpu pobl nad ydynt yn cael budd-daliadau ar sail prawf modd ond sydd â chyllidebau negyddol, a elwir yn aml, yn anffodus, yn weithwyr mewn tlodi. Rydym wedi lansio hyn fel y cynllun Cymuned mewn dwy ordal – Sir Ddinbych a Rhondda Cynon Taf, a byddwn yn ei gyflwyno dros ran ehangach o'n hardal weithredu.

Fel y soniodd Alastair yn ei ddatganiad, ar ôl blwyddyn anodd i'r busnes a chwsmeriaid, roedd y Prif Swyddog Ariannol, Mike Davis, a minnau yn credu ei bod yn briodol peidio â derbyn ein cyflog amrywiadau ar gyfer y FA 23.

Er nad yw mor ddifrifol â'r ddau ddigwyddiad tywydd mawr a wynebwyd y llynedd, hoffwn sôn am fath gwahanol iawn o risg a wynebwyd gennym ym mis Gorffennaf 2022, pan gawsom ymosodiad seiber ar ffurf gwadu gwasanaeth dosbarthedig ar ein gwefan. Daeth yr ymosodiad o Rwsia a, diolch byth ac oherwydd ein gwaith paratoi, ni lwyddodd i dreiddio ein hamddiffynfeydd terfyn allanol. Gwnaethom dynnu ein gwefan dros nos er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n ddiogel a'i hadfer ar ôl rhoi'r mesurau diogelwch gorau ar waith. Yn unol â'r protocolau perthnasol, gwnaethom hysbysu'r Gwasanaeth Seiberddiogelwch Cenedlaethol a rhanwyd y manylion â'r cwmnïau dŵr eraill hefyd. Ers hynny, nid ydym wedi gweld unrhyw ymosodiadau ar yr un raddfa nac mor ffyrnig, ond mae wedi ein hatgoffa fel gweithredwr seilwaith allweddol cenedlaethol, am y lefel barhaus o risgiau a bygythiadau ar

NEGES Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL PARHAD

adeg pan fo argyfwng byd-eang. Rydym wedi buddsoddi'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gryfhau ein gallu a'n hamddiffynfeydd yn y maes hollbwysig hwn a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Roedd yn bleser mawr gennyf nodi ein bod yn un o'r ychydig sefydliadau masnachol a wahoddwyd i gymryd rhan yn ymarfer seiber Marvel NATO ar ddechrau 2023, lle y daethom yn drydydd o ran ein gallu amddiffynol, o blith mwy na 30 o sefydliadau a gymerodd ran.

Ansawdd Dŵr Afon ac Arfordirol

Mae'r momentwm dros ddiddordeb y cyhoedd yn ansawdd dŵr afon ac arfordirol wedi cynyddu ymhellach ac yn gyflymach dros y flwyddyn diwethaf. Ers pandemig COVID-19, mae diddordeb mewn afonydd wedi dod yn bwnc trafod cenedlaethol ac yn 2022 mae hyn wedi arwain at fwy o sylw gwleidyddol ac omgylcheddol. Rydym yn ymwybodol iawn o hyn ac yn ymrwymedig i fod yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â'n heffaith a'r rôl rydym yn ei chwarae i wella ansawdd dŵr yn ein hardal weithredu.

Mae'r amgylchiadau yng ngweddill y DU yn wahanol i'r rhai yng Nghymru, lle mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai llygredd maethynnau, yn enwedig ffosffad, yw'r bygythiad mwyaf i ansawdd afonydd. Dyna pam roedd yn bleser gennym, ym mis Gorffennaf 2022, gefnogi'r Prif Weinidog yn ei Uwchgynhadledd ar Ffosffadau a ddygodd ynghyd y llywodraeth, rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr a chynrychiolwyr o'r sector amaethyddol i ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd i leihau ffosffad mewn afonydd yng Nghymru, gan dargedu'n benodol y pum afon mewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yn y wlad sy'n methu: Afon Cleddau, Afon Dyfrdwy, Afon Teifi, Afon Wysg ac Afon Gwy. Rydym yn buddsoddi tua £100 miliwn yn ystod AMP7 i leihau ffosffad yn yr afonydd hyn ac yn bwriadu buddsoddi £60 miliwn arall i gyflymu'r buddsoddiad ynddynt erbyn y FA 26. Yn fwy cyffredinol, rydym yn llwyr gefnogi polisi Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu buddsoddiad i leihau niwed amgylcheddol fel ffordd ystyrlon o dargedu'r gwelliant cyflymaf a sicrhau'r gwerth gorau i'n cwsmeriaid.

Mae gan fwy na 40% o afonydd Cymru statws ecolegol 'da' (fel y'i mesurwyd o dan Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yr UE) o gymharu â 14% yn Lloegr. Yng Nghymru, mae 60% o'n rhwydwaith carchffosiaeth yn garthffosydd cyfun (ymhlith y lefelau uchaf yn y DU) ac rydym yn cael rhai o'r lefelau uchaf o law. Mae hyn yn arwain at niferoedd cymharol uchel o ddigwyddiadau gorlifo o systemau gorlif storm cyfun. Yn y mwyafrif helaeth o'r achosion, nid yw'r effaith amgylcheddol mor fawr â'r hyn a achosir gan lygredd maethynnau. Bydd ein ffocws ar leihau llygredd maethynnau yn rhoi'r cyfle mwyaf i wella ymhellach. Er enghraifft, mae ein gwaith modelu manwl ar Afon Wysg ac Afon Gwy yn dangos mai dim ond 1% a 2% o effeithiau llygredd, yn y drefn honno, ar yr afonydd hyn sydd o ganlyniad i orlifant. Serch hynny, rydym yn rhannu pryder y cyhoedd am ansawdd afonydd, ac rydym yn gwbl ymrwymedig i leihau effaith gorlif storm ar afonydd a dyfroedd arfordirol. Rydym yn gwario tua £100 miliwn yn y cyfnod rheoleiddio presennol er mwyn gwneud hyn, a mynd i'r afael â nifer yr achosion o orlifo o systemau gorlif storm cyfun yn ogystal ag effeithiau maethynnau.

Mae gwella perfformiad gorlifo, ochr yn ochr â chamau gweithredu eraill i wella ansawdd afonydd, wedi bod yn rhaglen hirdymor oherwydd maint a ffurf ein system

garthffosiaeth. Bydd y costau'n sylweddol a bydd angen i ni ystyried yn ofalus fforddiadwyedd y cynllun hirdymor hwn a'r effaith ar filiau cwsmeriaid yn y dyfodol.

Gyda'r ffocws clir ar wella ansawdd afonydd, mae'n bleser gennym hefyd gefnogi'r cynllun gweithredu ehangach sydd wedi deillio o'r Uwchgynhadledd ar Ffosffadau ac rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru i weithredu ar y rhain. Fel rhan o'r rhaglen hon, rydym yn awyddus i gefnogi'r Byrddau Rheoli Maethynnau a sefydlwyd i ymdrin â'r afonydd mewn ACA. Rydym wedi cefnogi'r Bwrdd Rheoli Maethynnau a sefydlwyd yn gyntaf yn swydd Henffordd, sy'n canolbwyntio ar Afon Gwy. Yn ogystal â'n rhaglen fuddsoddi sylweddol i wella'r afon hon, rydym yn helpu i bennu datrysiadau cynaliadwy arloesol i fynd i'r afael â ffosffad, megis gwlyptiroedd yng ngogledd y sir, gan weithio ar y cyd â Chyngor Swydd Henffordd a'r sector amaethyddol. Rydym yn disgwyl i'r gwaith hwn gynnig glasbrint defnyddiol i'w gyflwyno gennym ledled Cymru.

Oherwydd lefel y diddordeb yn ein gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr rydym wedi parhau i ymgymryd â chryn dipyn o ymgysylltu â rhanddeiliaid dros y flwyddyn diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfod â gwleidyddion, defnyddwyr afonydd a grwpiau cymunedol yn ein hardal weithredu. Mae hefyd wedi cynnwys bod yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd cyhoeddus heriol lle rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddangos ein bod yn cymryd camau ar raddfa helaeth i wella'r amgylchedd ansawdd dŵr. Sylweddolaf yn llwyr y bydd y cyhoedd yn parhau i fod yn elyniaethus o bosibl tuag at y sector. Fodd bynnag, byddwn yn manteisio ar bob cyfle a gawn ac yn ceisio esbonio mewn ffordd dryloyw sut rydym yn cydnabod bod rhagor i'w wneud a'n bod yn ymrwymedig i gyflawni hynny.

Er mwyn helpu gyda hyn, rydym wedi penodi tri Rheolwr Cyswllt Afonydd penodedig. Eu cylch gwaith yw gweithio'n agos gyda defnyddwyr afonydd a chymunedau i ddeall eu pryderon, a'u hysbysu am ein heffaith a'n gwelliannau arfaethedig. Mae eu rôl yn un hirdymor, ac wedi'i hanelu at feithrin cydberthnasau agored a thryloyw er mwyn i ni allu dangos ein hymrwymiad i wneud gwelliannau. Y flwyddyn hon, er enghraifft, mae ein Rheolwyr Cyswllt Afonydd wedi ymgysylltu â'r holl grwpiau ymdrochi afonol ac arfordirol yng Nghymru rydym yn ymwybodol ohonynt er mwyn nodi ble maent yn nofio a deall ble y gellir dod o hyd i leoliadau ymdrochi newydd a'u cefnogi o bosibl. Yn ystod yr haf diwethaf, o ganlyniad i achosion o orlifo o systemau gorlif storm cyfun yn ystod stormydd ar arfordir de Lloegr, gwelsom fwy o ddiddordeb ymhlith y cyhoedd mewn nifer bach iawn o ddigwyddiadau dros gyfnod byr mewn chwech o'n pibellau gorlif arfordirol ar draethau ymdrochi. Ym mhob achos, gwnaeth yr asedau dan sylw weithredu i safon a oedd yn debyg i ofynion diweddaraf yr UE. Tynnaf sylw at hyn er mwyn dangos sensitifrwydd cynyddol cymdeithas i unrhyw fath o orlif ac, yn yr achos hwn, ddangos bod hyn yn digwydd hyd yn oed pan fyddwn yn cyrraedd safon flaenllaw gydnabyddedig.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod mor dryloyw â phosibl ynglŷn â'n gweithgareddau amgylcheddol, ac rydym yn parhau i gynnal un o'r lefelau uchaf o fonitorau ar ein systemau gorlifo sy'n cwmpasu dros 99.5% ohonynt. Roeddem ymhlith y cwmnïau cyntaf i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus ac yn 2022 gwnaethom sicrhau bod gwybodaeth a oedd yn mapio ein systemau gorlif ar gael yn yr un ffordd. Yn 2025 rydym yn bwriadu darparu gwasanaeth data amser

real cyhoeddus sy'n dangos gweithrediad y systemau gorlif. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i roi rhybuddion amser real am draethau ymdrochi drwy wasanaeth Ap Surfers Against Sewage ac rydym wedi rhoi rhybuddion tebyg i nifer o grwpiau ymdrochi ledled Cymru.

Mae gennym raglen fuddsoddi gwerth £840 miliwn ar gyfer seilwaith dŵr gwastraff yn AMP7. Mae'n hanfodol sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn cyfleu sut mae ein cwsmeriaid a'u hamgylchedd yn cael budd o hyn er mwyn dangos ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau gwelliant amgylcheddol parhaus.

Ym mis Mai 2023, gwnaeth Water UK gydlyn ymarfer 'ailsefydlu' i'r sector cyfan yn Lloegr, a oedd yn cynnwys ymddiheuriad am berfformiad amgylcheddol y sector ac ymrwymiad i gyflymu'r buddsoddiad mewn systemau gorlif storm cyfun. Er na wnaethom gymryd rhan yn uniongyrchol, am nad ydym yn aelod cyswllt o Water UK, manteisiwyd ar y cyfle i ymddiheuro a phwysleisio ein hymrwymiad unwaith eto i ddiogelu'r amgylchedd, ac i rannu'r cynlluniau a amlinellwyd yn ein Manifesto ar gyfer Afonydd (<https://corporate.dwr.cymru.com/cy-gb/community/environment>).

Ein Perfformiad

Rwyf eisoes wedi amlinellu pa mor heriol oedd y flwyddyn sydd wedi mynd heibio ac mae hyn wedi cael rhywfaint o effaith ar ein perfformiad cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n dda gennyf nodi ein bod wedi dod yn bedwerydd o blith y cwmnïau dŵr a charthffosioeth o ran mesur Ofwat o foddhad cyffredinol cwsmeriaid, C-MeX, y flwyddyn hon, o ystyried y digwyddiadau tywydd eithafol yn benodol i Gymru a welsom yn ystod y flwyddyn. Yn yr un modd, roedd yn galonogol cyrraedd y lefel uchaf o foddhad cwsmeriaid yn asesiad 'Testing the Waters' y Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Cynhaliwyd yr arolwg yn 2022 a chyhoeddwyd adroddiad yn 2023.

Mae wedi bod yn galonogol nodi gwelliant yn ein perfformiad o ran ansawdd dŵr ar ôl dirywiad yn 2021. O ran ein perfformiad bacteriolegol, yn ystod y flwyddyn honno, cofwyd mân fethiannau coliform mewn chwe gwaith trin a 14 o gronfeydd gwasanaeth. Yn 2022, gwellodd hyn i dri gwaith trin a thair cronfa wasanaeth. Mae'r gwelliant hwn yn golygu ein bod wedi symud yn ôl i chwarter uchaf y diwydiant o ran perfformiad bacteriolegol, a gyflawnwyd gennym am flynyddoedd lawer cyn 2021. Fodd bynnag, er bod ein mesur cyffredinol gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ar y Mynegai Risg Cydymffurfio wedi gwella i 5.4 yn 2022 o gymharu â 9.77 yn 2021, erys ansawdd ein rhwydwaith dŵr, sy'n cwmparu cydymffurfiaeth o ran haearn ac achosion o afliwio, yn her i ni o hyd. Dylanwedir ar hyn gan y nifer mawr o ddyfroedd ucheldir meddal yn ein hardal weithredu a'r gyfran uchel o bibellau dŵr haearn bwrw yn ein rhwydwaith. Rydym yn buddsoddi dros £150 miliwn i wella ansawdd y rhwydwaith yn AMP7 a bydd hyn yn digwydd eto yn ein cynlluniau PR24.

Er bod ansawdd ein dŵr yfed wedi gwella, mae ein perfformiad o ran toriadau yn y cyflenwad wedi dirywio. Mae hwn yn fesur heriol i ni o ganlyniad i'n topograffi, sy'n arwain at nifer mawr o barthau cyflenwi ar wahân (sy'n ei gwneud yn fwy anodd symud dŵr rhwng ardaloedd, er enghraifft pan fydd prif bibell gyflenwi yn torri) a'r angen am bwysedd gweithredu uchel yn ein rhwydwaith dŵr. Effeithiodd y digwyddiad rhew/dadmer a nodwyd yn gynharach yn fy natganiad ar y FA 23. Rydym wedi nodi colli 44 o funudau cwsmeriaid, yn bennaf o ganlyniad i effaith y cyfnod o sychder a'r digwyddiadau rhew/dadmer yn 2022.

Ailddatganiad o Adroddiadau Rheoleiddiol ar gyfer Blynnyddoedd Blaenorol

Yn Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon y flwyddyn diwethaf, datgelwyd ein bod yn adolygu ein data perfformiad cofnodedig ar ollyngiadau dŵr a defnydd y pen. Roedd angen

yr adolygiad hwn am fod ein prosesau sicrwydd blynnyddol annibynnol wedi nodi problemau posibl gyda'r ffordd roedd y fethodoleg wedi cael ei defnyddio i gyfrifo'r mesurau hyn yn y FA 21 a'r FA 22. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y mesurau allweddol hyn wedi cael eu cofnodi'n anghywir yn y ddwy flwyddyn ariannol hynny, a bod gollyngiadau dŵr gwirioneddol yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn ystod y cyfnod hwn, a bod defnydd gwirioneddol y pen yn is na'r hyn a gofnodwyd yn flaenorol. Mae'r data a gafodd eu cofnodi'n wreiddiol a'u hailddatgan ar dudalen 56.

Ni ddylai'r camgymeriad hwn fod wedi digwydd, ac ymddiheurwn yn fawr. Er i'n proses sicrwydd gadarn nodi'r broblem, roedd methiannau yn ein prosesau llywodraethu a rheoli a ddylai fod wedi nodi'r broblem yn gynt. Rydym wedi gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn rheoli ein gweithgareddau lleihau gollyngiadau dŵr ac wedi cryfhau ein prosesau cofnodi a llywodraethu; ac rydym yn buddsoddi swm ychwanegol o £54 miliwn i nodi a lleihau gollyngiadau dŵr mor gyflym â phosibl. Bydd pob un o gwsmeriaid Dŵr Cymru yn cael credyd o £10 yn awtomatig i'w cyfrif oherwydd y camgymeriad, fel iawndal am ein camgofnodi a'i effeithiau.

Ar 25 Mai 2023, cyhoeddodd Ofwat ei bod yn lansio ymchwiliad i'r ffordd roeddem wedi cofnodi gollyngiadau dŵr a defnydd y pen. Rydym wedi rhannu canfyddiadau ein hymchwiliadau mewnol, y camau unioni a gymerwyd gennym a'n cynigion gwneud iawn i gwsmeriaid ag Ofwat. Mae amseriad yr ymchwiliad yn ansicr, ond byddwn wrth gwrs yn cydweithredu'n llawn.

Mae ein perfformiad amgylcheddol wedi parhau'n gadarnhaol er gwaethaf yr amodau heriol a oedd yn gysylltiedig â'r cyfnod o sychder dros yr haf a ddisgrifir uchod. Rydym yn disgwyl ennill gradd 2 seren yn yr Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol blynnyddol, sy'n is na'n perfformiad yn 2022.

Er gwaethaf yr haf heriol, roedd yn braf gweld ein mesurau blynnyddol ar gyfer gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn gwella ychydig i 98.49% o 98.32% yn 2022. Mae cyfanswm nifer yr achosion o lygredd wedi aros yn ddigyfnewid fwy neu lai o gymharu â 2021, sef y lefel isaf o achosion ond yn y flwyddyn diwethaf i unrhyw gwmni yng Nghymru a Lloegr. Dylid ystyried ein perfformiad amgylcheddol yng nghyd-destun yr amodau gweithredu anodd iawn a grybwyllwyd yn gynharach, gyda mewnlifion cryfach yn cael eu trin yn ein gweithfeydd, mwy o flociadau yn ein system garthffosioeth o ganlyniad i'r llifau isel ynddynt, a lefelau is mewn afonydd a oedd yn golygu y gallai unrhyw ddigwyddiad achosi mwy o niwed nag y byddai'n ei wneud o dan amodau arferol.

Gwnaeth ein perfformiad o ran llifogydd carthion mewnol (y methiant gwasanaeth gwaethaf y gall ein cwsmeriaid ei brofi) hefyd wella, gyda 169 o achosion o gymharu â 201 yn 2022. Cafodd yr amodau anarferol o sych dros ran helaeth o'r flwyddyn ddylanwad ar hyn ond mae'n galonogol gweld bod y gwaith o ddatblygu ein cynllun ar gyfer rhwydwaith carthffosydd clyfar yn ein helpu i dargedu gwaith cynnal a chadw gwell a rhagweld problemau posibl cyn eu bod yn effeithio ar gwsmeriaid neu'n achosi llygredd.

Perfformiad manwerthu yn y FA 23

Yn fy adroddiad i chi y flwyddyn diwethaf, soniais am yr ansicrwydd ariannol roedd llawer o'n cwsmeriaid yn ei wynebu, ac nid yw'r sefyllfa wedi gwella yn ystod y 12 mis ers hynny. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, nid yw gallu cyffredinol cwsmeriaid i dalu eu biliau wedi dirywio eto, ac mae lefelau ôl-ddyledion yn debyg iawn i lefelau'r flwyddyn diwethaf. Mae ein cynlluniau tariffau cymdeithasol a chymorth ariannol bellach yn cefnogi 129,000 o aelwydydd, sef cynnydd bach ers y flwyddyn diwethaf.

Rydym yn cydnabod bod yr argyfwng costau byw presennol yn wahanol iawn i ysgytwadau ariannol blaenorol. Gyda diweithdra ar ei lefelau isaf erioed, ychydig o gwsmeriaid

NEGES Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL PARHAD

sy'n wynebu gostyngiad yn eu hincwm. Yn hytrach, maent yn wynebu biliau cynyddol sy'n arwain at gyllidebau negyddol. Ar y cyfan, nid yw'r cwsmeriaid hyn yn dod yn rhan o gynlluniau cymorth ariannol arferol ac mae angen gweithredu'n wahanol. Mewn ymateb i hyn, cyflwynwyd cynllun arloesol yn Rhondda Cynon Taf a Sir Ddinbych ym mis Rhagfyr 2022, sydd â'r nod o helpu aelwydydd mewn gwaith â chyllidebau negyddol. Bydd y cynllun, o'r enw Cymuned, ar gael yn fwy cyffredinol yn ein hardal gyflenwi yn ddiweddarach yn 2023.

Mae ein gallu i gyflwyno'r cymorth arloesol hwn mor gyflym yn dyst i gryfder ein rhwydwaith o tua 300 o sefydliadau partner erbyn hyn. Y flwyddyn hon, lansiwyd ffordd newydd o weithio gyda'r partneriaid hyn drwy ein Hwb Cymunedol symudol, lle mae tîm Dŵr Cymru, ynghyd â sefydliadau fel Cymru Gynnes, awdurdodau lleol, y Ganolfan Byd Gwaith, yn ymweld â lleoliadau ledled y wlad i siarad â phobl am filiau'r aelwyd, cyngor ar ddyledion a hygyrchedd gwasanaethau. Mae hyn wedi rhoi cyfle i ni siarad â 4,000 o bobl na fyddent fel arall wedi cysylltu â ni yn uniongyrchol o bosibl. Roedd yn bleser mawr coel cydnabyddiaeth allanol o'r gwaith da rydym yn ei wneud i gefnogi cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus ym mis Chwefror 2023, gyda'n hachrediad o dan BS 18477, 'Darparu Gwasanaeth Cynhwysol'.

Gan symud ymlaen at ein lefelau cyffredinol o wasanaeth cwsmeriaid, er gwaethaf ymdrechion timau ym mhob rhan o'r busnes, mae colli cyflenwad a phwysedd isel yn y rhwydwaith o ganlyniad i'r cyfnod o sychder mawr yn yr haf, ac yna'r digwyddiad rhew/dadmer dros gyfnod y Nadolig, wedi effeithio ar foddhad gyda'n gwasanaeth dŵr, a omylgwyd gan y cynnydd o 78% yn nifer y cwynion yn y maes hwn.

Yn erbyn mesur boddhad cwsmeriaid preswyl ein diwydiant, sef C-MeX, mae ein perfformiad wedi parhau ar lefel gyfartalog y diwydiant, sy'n adlewyrchu'r cynlluniau gwella a roddwyd ar waith gennym dros y flwyddyn diwethaf. Un maes allweddol o ffocws i ni ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yw gwella profiad digidol ar-lein cwsmeriaid.

Mae rhaglenni cyfalaf yn gwella gwasanaethau a chydnerthedd yn awr ac yn y dyfodol

Mae'r rhaglen gyfalaf ym Mwyddyn 3 AMP7 wedi buddsoddi tua £400 miliwn wrth i ni gyflawni yn erbyn ein hymrwymiadau rheoleiddiol a'n hymrwymiadau i randdeiliaid a chynnal ein sylfaen asedau. Cwblhawyd rhai cynlluniau arwyddocaol yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf, gan gynnwys dechrau gweithredu cronfa wasanaeth newydd ei hadeiladu ym Mhengarnddu; sy'n darparu 10ML/d o storio ychwanegol i wella cydnerthedd ein cyflenwad dŵr i'n cwsmeriaid ym Merthyr Tudful a Chwm Aberdâr. Rydym yn parhau i fuddsoddi er mwyn sicrhau bod ein cronfeydd storio dŵr yn cyrraedd safonau uchaf y diwydiant. Rydym wedi cwblhau gwaith yng Ngharno Uchaf yn ystod y flwyddyn, gyda gorlifer newydd a threfniadau tynnu, a gwaith yng nghronfa ddŵr Nant Moel a Llandegfedd. Cynhaliwyd digwyddiad i agor yn ffurfiol ein gorsaf bwmpio newydd ar gyfer dŵr heb ei drin yn Prioress Mill, gan roi cyfle i gwsmeriaid a rhanddeiliaid lleol weld y gwelliannu rydym yn eu gwneud i'n sylfaen asedau.

Yn ein hystad dŵr gwastraff, mae ein rhaglen o welliannau amgylcheddol yn mynd rhagddynt yn dda. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cwblhau cynllun tynnu maethynnau yng ngwaith trin dŵr gwastraff Weblai i leihau faint o ffosffad sy'n mynd i

mewn i Afon Gwy. Rydym wedi comisiynu system gorlif storm gyfun a sgrin storm newydd ar Afon Wysg er mwyn gwella ansawdd dŵr yr afon. Rydym wedi cwblhau rhaglen o waith diogelwch ar ein safleoedd uwch dreulio slwtsh yn Rhostir Cog a Pum Rhyd i wella diogelwch nwy. Rydym wedi gwella ein gallu i wrthsefyll gollyngiadau slwtsh i'r amgylchedd drwy gwblhau cynlluniau i sicrhau bod ein canolfannau slwtsh mawr yn cydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol, gyda chynlluniau yng Nghaerdydd, Queensferry ac Afan; ac rydym wedi gwella perfformiad ein gweithfeydd trin dŵr gwastraff drwy gynlluniau cynnal a chadw i osod cilfachau a sgriniau newydd yng Nganol a Dolgellau.

Rydym yn gwneud cynnydd da i wella ein hatyniadau i ymwelwyr, gyda chanolfan ymwelwyr newydd wrth gronfeydd dŵr Llanisien a Llys-faen, a fydd yn agor yn ystod haf 2023 yn ôl y bwriad. Rydym yn parhau i wneud cynnydd da o ran ein strategaeth carbon sero net, yne benodol gyda'r cynlluniau ynni adnewyddadwy, gan gwblhau gosodiadau solar newydd yng Nghaer a Llanelli a gosod chwythwyr ynni effeithlon yn y gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn Rhostir Cog a Chaerdydd.

Rydym yn manteisio ar gyfleoedd i wella perfformiad o ddifrif ac yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r agenda a amlinellwyd yn ein Strategaeth Arloesedd ar ei newydd wedd. Rydym wedi gweithio gyda mwy na 100 o sefydliadau academaidd a sefydliadau eraill, arbenigwyr technoleg, a mentrau arloesi byd-eang i symud yr agenda arloesi yn ei blaen. Yn 2022, gwnaethom ddatblygu 46 o brosiectau technoleg o gyfanswm o 179 o gynigion a gyflwynwyd i'n porth arloesi ar y we. Rydym hefyd wedi coel cyllid ar gyfer prosiectau arloesi, neu fel rhan ohonynt, gwerth £35.7 miliwn, drwy gronfa arloesi Ofwat gwerth £200 miliwn. Hyd yma yn ystod yr AMP hwn, mae ein rhaglen ymchwil, sy'n cynnwys ein prosiectau bioamrywiaeth a phrosiectau eraill sy'n anelu at sicrhau newid rheoleiddiol a pholisi, wedi neilltuo £3.3 miliwn a ddefnyddir i ddenu £32 miliwn mewn buddsoddiadau gan drydydd partion, yn bennaf o gronfa LIFE yr UE, Ymchwil ac Arloesi yn y DU, a Llywodraeth Cymru. Caiff y prosiectau a'r mentrau hyn eu hadolygu o hyd drwy ein proses iLab sydd wedi ei hen sefydlu erbyn hyn ac maent yn cefnogi targedau AMP7 a strategaeth Dŵr Cymru 2050 er mwyn sicrhau bod ein buddsoddiadau wedi'u targedu'n briodol o hyd.

Fel rhan o'n gwaith ar ein gwasanaethau manwerthu i gwsmeriaid, rydym wedi parhau i gynyddu ein gwasanaethau digidol ar-lein yn unol â'n Strategaeth Ddigidol. Mae awtomeiddio ar ein prif ffurflenni bilio yn parhau i gynyddu, gyda thua 302,000 o ffurflenni gwe yn cael eu cyflwyno y flwyddyn diwethaf: cofodd 73% o'r rhain eu hawtomeiddio'n uniongyrchol i mewn i'n systemau prosesu, sef cynnydd o 11% o gymharu â'r flwyddyn diwethaf. Aeth ein ffurflen we newydd wedi'i huwchraddio ar gyfer 'symudiadau' a'n gwasanaeth 'Fy Nghyfrif' ar gyfer y prif ffurflenni bilio yn fyw. Drwyddynt, gall cwsmeriaid fewngofnodi i Fy Nghyfrif heb fod angen ailfewngofnodi manylion adnabod pellach wrth ymgymryd â thrafodiadau â ni, sy'n rhoi gwasanaeth mwy personol a gwell â mwy o awtomeiddio. Mae 34% o'n cwsmeriaid wedi cofrestru ar gyfer Fy Nghyfrif ar hyn o bryd. Y flwyddyn hon rydym hefyd wedi cyflwyno ein gwasanaeth 'porth i asiantau' sy'n galluogi asiantau i gofrestru cwsmeriaid â Fy Nghyfrif tra byddant ar y ffôn gyda nhw. Rydym hefyd yn weithredol iawn o ran cefnogi Spring Innovation Ltd, sef canolfan ragoriaeth ar gyfer arloesedd yn y sector dŵr a ffurfiwyd yn 2022. Rydym yn gobeithio gweld y cwmni newydd yn ffynnu ac yn ein galluogi

i gynnal treialon o brosesau trin yn fwy effeithiol yn ogystal â rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol drwy'r sector cyfan.

Pobl

Yn y FA 23, cawsom ein perfformiad diogelwch gorau erioed gyda chyfanswm o 5 o anafiadau adroddadwy a 18 o achosion llai difrifol o golli amser. Mae hyn yn cynnal tuedd tuag i lawr dros y degawd diwethaf. Mae cryn ymdrech yn cael ei wneud i gyrraedd y safon uchel hon o ran perfformiad diogelwch ac rwy'n ddiolchgar iawn i'n rheolwyr, i'n gweithwyr proffesiynol diogelwch ac yn wir i'n holl weithlu am eu hymroddiad a'u cyfraniad at y canlyniadau hyn. Mae ein rhaglen hyfforddiant 'Mae Diogelwch yn Bwysig i Bawb' wedi ei hen sefydlu ac mae'n parhau i gael ei defnyddio i annog ein pobl i ymddiddori mewn arferion gorau iechyd, diogelwch a llesiant. Mae hefyd yn cefnogi ein diwylliant diogelwch ac elfennau hirsefydlog o'n cynlluniau gwella, megis ein 'Diwrnodau Diogelwch' chwarterol a arweinir gan swyddogion gweithredol, y broses asesu risg bersonol 'Take 5' a'n cynllun ymgysylltu misol 'Sgwrsio am Ddiogelwch'; y mae pob un ohonynt yn ein helpu i ymgorffori meddylfryd diogelwch yn gyntaf ymhellach ymhlith ein pobl a'n partneriaid contract.

Ochr yn ochr â'n cynllun diogelwch uniongyrchol, rydym yn gwneud cryn dipyn o ymdrech ym maes iechyd galwedigaethol a llesiant. Rydym wedi cadw ein Dyfarniad Aur gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau a'n Dyfarniad Platinwm gan Lywodraeth Cymru am iechyd galwedigaethol. Drwy gydol cyfnod pandemig COVID-19, cydnabuoem ei effaith ar fywyd cyfan ein pobl ac rydym wedi cadw ein ffocws ar lesiant meddyliol, drwy ddarparu gwasanaethau am ddim megis ein Rhaglen Cymorth i Gyflogeion sydd ar gael i bob cydweithiwr. Rydym hefyd wedi cydnabod effaith yr argyfwng costau byw ac wedi ceisio rhoi cymorth sy'n helpu'n benodol y cydweithwyr hynny sy'n wynebu rhai anawsterau personol o bosibl ar yr adeg hon.

Yn ogystal â gwella ein gwasanaethau cymorth i gydweithwyr yn ystod cyfnod economaidd anodd, aethom ati'n gynt nag arfer i gyflwyno ein cynnig cyflog ar gyfer 2023. Gyda chefnogaeth lawn ein hundebau llafur, ym mis Rhagfyr 2022 gwnaed taliad costau byw untro o £1,000 neu £2,000 i bob cydweithiwr cymwys (gyda'r rhai ar gyflogau is yn cael y swm uchaf), a gwnaethom ymrwymo i ddyfarniad cyflog blynyddol o 6.2% yn weithredol o fis Ebrill 2023. Ar adeg o aflonyddwch diwydiannol ehangach roedd yn beth dymunol gweld ein bod yn gallu cytuno ar setliad teg i'r busnes ac i'n pobl.

Ar ôl blwyddyn anodd o ddelio â'r cyfnod o sychder ac yna rew/dadmer dros y gaeaf, roedd yn braf gweld canlyniadau cadarnhaol ein Harolwg Ymgysylltu â Chyflageion mwyaf diweddar. Cafwyd sgôr boddhad cyffredinol o 75% (o gymharu â 69% yn 2021), gyda rhai uchafbwyntiau cadarnhaol iawn eraill, gan gynnwys:

- Mae 87% o'n pobl yn falch o weithio i Dŵr Cymru.
- Byddai 80% yn argymhell gweithio i'r busnes.
- Mae 98% yn deall eu rôl i greu amgylchedd gwaith diogel.
- Mae 95% yn cytuno bod pwyslais cadarn ar wasanaeth cwsmeriaid yn Dŵr Cymru.

Edrych i'r Dyfodol

Er ei bod wedi bod yn flwyddyn heriol, rydym wedi parhau i wneud cynnydd da o ran datblygu ein cynlluniau hirdymor, gan gynnwys adolygiad o strategaeth Dŵr Cymru 2050 yn 2022. Roeddem am sicrhau bod blaenoriaethau allweddol mor berthnasol yn awr ag yr oeddent yn 2018 pan y'u nodwyd yn wreiddiol yn ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer y dyfodol. Ni fydd yn syndod fwy na thebyg bod risgiau allweddol, megis newid yn yr hinsawdd, wedi dod yn fwy amlwg. Mae'r adolygiad hwn yn ein helpu'n fwy cyffredinol i benderfynu ar yr elfennau perthnasol o'n cynllun PR24 drafft sy'n cwmpasu'r cyfnod rheoleiddio 2025-2030, lle mae materion megis y gallu i ateb heriau'r dyfodol yn hynod bwysig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu fforwm penodol ar gyfer yr adolygiad presennol o brisiau er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau cywir yn cael eu cofnodi ym mhroses PR24 (Fforwm PR24). Rydym wedi llwyr dderbyn y dull gweithredu strwythuredig newydd hwn ac wedi croesawu'r cyfle a roddwyd i gael deialog gynnar a rheolaidd â'r llywodraeth a'r rheoleiddwyr. Mae ymgysylltu o'r fath yn digwydd yn erbyn cefndir anodd am sawl rheswm, megis yr orgyfwng costau byw, y galw am fuddsoddiad amgylcheddol cynyddol a'r risgiau sydd o'n blaenau, yn enwedig newid yn yr hinsawdd.

O fewn y busnes mae ein cynllun PR24 yn mynd rhagddo'n dda. Mae ein tîm Cynllunio Asedau newydd ei ffurfio bellach wedi ymsefydlu'n dda ac mae'n cyflwyno elfen fwy trylwyr i'n cynllun buddsoddi a'r ffordd rydym yn cyflawni ein nodau hirdymor. Ochr yn ochr â'r canllawiau gan ein Tîm Gweithredol, yn ein tri phrif faes busnes – dŵr yfed, dŵr gwastraff a gweithgareddau manwerthu – mae cryn dipyn o ymgysylltu adeiladol o fewn y sefydliad i ddatblygu cynllun PR24 cadarn. Rydym hefyd wedi rhyngweithio'n rheolaidd â'n Bwrdd ac wedi cael ei fewnbwn wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau.

Rydym yn llunio ein cynllun PR24 gyda'r tri philer allweddol sef bod yn gyllidadwy, yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy. Mae'r prif elfennau hyn o'r cynllun yn cael eu herio a'u haddasu i lunio cynllun a fydd, yn ôl ein harfer, yn cael ei rannu â rhanddeiliaid ar adeg briodol. Gan ddefnyddio hyn fel sylfeini'r cynllun, rydym wedi rhoi'r holl hanfodion ar waith i gyflwyno cynllun drafft credadwy i Ofwat ym mis Hydref 2023. Rydym yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng y ffactorau allanol, sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw a'r sbardun gan rhanddeiliaid am fuddsoddiad amgylcheddol cynyddol, a'r ystyriaethau mewnol ynglŷn â'n gallu i gyllido a chyflawni'r cynllun.

Bydd y cyfnod cyn cyflwyno'r cynllun PR24 drafft yn yr hydref, yn ddi-os, yn gofyn am barhau â'r ddeialog rydym wedi dechrau arni â Llywodraeth Cymru a'n rheoleiddwyr, a hynny ar sail ddwysach, y gellir dadlau. Rydym yn barod ar gyfer hyn ac mae'n debyg mai'r maes mwyaf heriol fydd cwmpas terfynol y Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol, y gofyniad am fuddsoddiad cyfalaf sy'n gysylltiedig â'n seilwaith dŵr gwastraff. Fodd bynnag, rydym yn hyderus y byddwn yn ennyn cefnogaeth Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid er mwyn cytuno ar Gynllun Amgylcheddol Cenedlaethol y gallwn i gyd ei gefnogi.

Bydd proffil mawr gollyngiadau carthion yn y cyfryngau o hyd yn golygu na fyddwn yn llaeswyo o ran ein hymgysylltu â rhanddeiliaid a chwsmeriaid ar y mater hwn ledled ein hardal weithredu. Rydym wedi datblygu ein negeseuon dros y ddwy flynedd diwethaf ac wedi bod yn ddiolchgar am gefnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn sail i'n strategaeth o ganolbwyntio ein buddsoddiad ar leihau llygredd ffosffad sy'n gysylltiedig â'n seilwaith dŵr gwastraff fel ein llwybr allweddol i wella ansawdd afonydd yng Nghymru. Nid yw'r dull gweithredu hwn yn rhoi'r un ffocws ar orlifiannau ag a welir yn Lloegr. Mae'n rhaid i ni allu cyfleu'r gwahaniaeth hwn ac, yn benodol, mantais gweithredu yn y fath fodd i Gymru; a hefyd ar yr un pryd ymrwymo i leihau effaith systemau gorlif storm cyfan yn fforddiadwy a thros derfyn amser derbynol. Bydd gweithredu mewn dull cwbl dryloyw ac agored ynglŷn â sut rydym yn ceisio gwella'r amgylchedd, sut rydym yn cofnodi ein heffaith ar yr amgylchedd a sut rydym yn gweithredu pan fydd pethau'n mynd o chwith oll yn elfennau hanfodol o'n cynllun i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

Yn yr un modd, gan gadw golwg ar y flwyddyn sydd i ddod, mae'n bleser gennyf nodi, am resymau amlwg, fod ein hadnoddau dŵr wedi dychwelyd i lefelau arferol dros y gaeaf diwethaf a'n bod mewn sefyllfa dda i wynebu'r haf o'n blaenau.



Peter Perry

Prif Swyddog Gweithredol

ADOLYGIAD Y PRIF SWYDDOG ARIANNOL



YN Y CYFNOD ECONOMAIDD HERIOL HWN MAE EIN HYLIFEDD A'N TEILYNGDOD CREDYD YN PARHAU'N GADARN. RYDYM WEDI EIN CYLLIDO'N LLAWN HYD AT DDIWEDD YR AMP PRESENNOL, SY'N EIN GALLUOGI I FUDDSODDI AR GYFER YR HIRDY MOR A CHEFNOGI EIN CWSMERIAID SYDD MEWN SEFYLLFA FREGUS. ”

Mike Davis
Prif Swyddog Ariannol

Drwy gynnal ein statws credyd gradd buddsoddi a hyrwyddo ein agenda werdd rydym mewn sefyllfa dda i godi arian ar adeg briodol i gefnogi ein cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol.

Yn ystod dwy flynedd gyntaf AMP7, cafwyd llawer o heriau o ganlyniad i'r pandemig ac, er bod effeithiau uniongyrchol COVID-19 wedi lleihau, mae'r FA 23 wedi cyflwyno heriau newydd ar ffurf amodau economaidd anodd. Nid ydym wedi bod yn rhydd rhag effaith chwyddiant sydd wedi cynyddu'n gyflym, a ysgogir yn bennaf gan y rhyfel yn Wcráin, ac rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yng nghostau ynni, cemegion a deunyddiau, yn ogystal â thaliadau llog uwch.

Rydym yn cydnabod bod ein cwsmeriaid yn wynebu cyfnod anodd ac rydym wedi parhau i ehangu ein hystod o gymorth i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau. Yn y FA 23, gwnaethom gyfrannu £12 miliwn i roi cymorth tariff i'n cwsmeriaid.

Mae ein mantolen yn parhau'n gadarn, gyda gerio o 58% a hylifedd o £579 miliwn. Rydym wedi ein cyllido'n llawn hyd at ddiwedd AMP7. Mae'r profion straen ar ein rhagolygon ariannol yn awgrymu, er ein bod yn agored i chwyddiant a chyfraddau llog cynyddol, ein bod mewn sefyllfa dda i wrthsefyll ysgytwadau sylweddol o ran costau a allai ddigwydd yn y blynyddoedd sydd i ddod. Gweler y nodyn ar fusnes gweithredol ar dudalen 215 a'n hasesiad o hyfywedd hirdymor ar dudalen 100.

Rydym wedi llwyddo i gadw ein statws credyd yn A3, A- ac A gan yr asiantaethau statws credyd Moody's, S&P a Fitch yn y drefn honno. Mae'r rhain yn parhau i fod ymhlith y gorau yn sector cyfleustodau'r DU.


DPAau Ariannol (gweler y Rhestr Termau am ddiffiniadau)

Mewn £ miliynau oni nodir fel arall	Y FY 23	Y FY 22
Dyled net (ar sail CTA)*	4,162	3,722
Gwerth cyfalaf rheoleiddio	7,161	6,460
Gerio	58%	58%
Cymhareb sicrwydd llog addasedig (AICR)	0.3x	1.0x
FFO/dylet net	(3.7%)	3.4%

*Cytundeb telerau cyffredin (CTA)

Rydym yn monitro ein perfformiad ariannol drwy ddefnyddio mesurau sy'n canolbwyntio ar y cyfameddau sydd wedi'u cynnwys yn ein dogfennaeth gwaraneiddio busnes cyfan ac ar y mesurau sydd eu hangen i gadw ein statws credyd. Mae gerio yn dal i fod yn isel ac yn un o'r arweinwyr yn y farchnad, sef 58%, sydd ymhell o fewn trothwyon cyfameddau a statws credyd. Achosir y pwysau ar ein cymhareb sicrwydd llog addasedig yn bennaf gan chwyddiant uchel drwy gydol y flwyddyn; ac, er ein bod yn cydnabod y bydd y pwysau yn parhau am weddill AMP7, rhagwelir y bydd adferiad erbyn AMP8. Mae Moody's a S&P wedi cadarnhau ein statws yn ystod y flwyddyn, gyda S&P yn pennu rhagolwg negyddol i ni, gan gyfeirio at chwyddiant uchel yn pwyso ar fetrigau credyd darparwyr gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yn y DU, ynghyd â rhaglen fawr o wariant cyfalaf. Serch hynny, mae S&P yn disgwyl y bydd ein metrigau ariannol yn adfer yn raddol erbyn diwedd y cyfnod rheoleiddio AMP7 presennol.

Symudiadau refeniw o flwyddyn i flwyddyn (£m)



Refeniw

Daw ein refeniw yn bennaf o'r gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff a ddarparwn i gwsmeriaid. Pennir ein prisiau bob pum mlynedd gan broses adolygu prisiau Ofwat a hon, i raddau helaeth, sy'n pennu faint o arian y gallwn ei fuddsoddi yn ein gwasanaethau a'n seilwaith.


Roedd refeniw yn y FA 23 4% yn uwch nag yn y FA 22, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd mewn prisiau, a oedd yn unol â lwfans Ofwat ond, rhaid nodi, dipyn yn is na'r prif chwyddiant yn y cyfnod, a wrthbwyswyd yn rhannol gan ostyngiad o £15 miliwn mewn perthynas â'n hailddatganiadau o ddata ar ollyngiadau dŵr a defnydd y pen.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau ar ein cwsmeriaid o ganlyniad i'r argyfwng costau byw presennol. Rydym yn parhau i ehangu ein hystod o dariffau cymorth i gwsmeriaid, gyda 129,000 o gwsmeriaid bellach yn cael cymorth i dalu eu biliau.

Gwariant Gweithredu (Opex)

Mae 99% o'n sylfaen costau yn ymwneud â gweithgarwch rheoleiddiedig ac felly mae wedi'i gyllido fel y'i nodwyd ym mhenderfyniad Ofwat ar brisiau. Yn y modd hwn, mae cynnydd mewn chwyddiant hefyd yn cael ei gyllido, ond mae gwahaniaeth o ran amseriad am fod costau yn cael eu hadlewyrchu ym miliau cwsmeriaid flwyddyn ar ôl i'r busnes fynd i gostau uwch.

Symudiadau Opex o flwyddyn i flwyddyn (£m)



ADOLYGIAD Y PRIF SWYDDOG ARIANNOL PARHAD

Ynni

Mae ein defnydd uchel o ynni yn golygu ein bod wedi bod yn agored i'r anwadalarwydd diweddar mewn prisiau ynni cyfanwerthol, ond mae hyn wedi cael ei liniaru'n rhannol drwy ein polisi rhagfantoli pŵer a'n gallu i gynhyrchu ein hynni ein hunain. Mae cyfuniad o flaenbrynu, deilliannau ac allforio'r trydan a gynhyrchir gennym i'r grid fel arfer yn golygu ein bod wedi rhagfantoli tua 90% o'n costau trydan ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Cawsom fil trydan o £69 miliwn ar gyfer y FA 23 ond byddai wedi bod mor uchel â £155 miliwn heb ragfantoli a chynhyrchu ein hynni adnewyddadwy ein hunain.

Ar ddechrau 2020, gwnaethom flaenbrynu tua 60% o'n hanghenion nwy ar gyfer y pum mlynedd hyd at fis Mawrth 2025. Mae'r gweddill wedi'i ragfantoli drwy allforio biofethan o'n safle nwy i'r grid.

Rydym yn parhau i fuddsoddi er mwyn cynyddu ein gallu i gynhyrchu ein hynni ein hunain. Yn y FA 23 gwnaethom gynhyrchu 22% o gyfanswm ein defnydd o ynni, ac rydym yn anelu at gynyddu hyn i 35% erbyn 2025. Er ein bod wedi lliniaru llawer o'r pwysau costau sy'n gysylltiedig ag ynni hyd yma, rydym wedi oedi gweithgarwch rhagfantoli pŵer tra bydd prisiau sylfaenol, a chostau rhagfantoli, yn uchel. Rydym wrthi'n adolygu ein strategaeth brynu ar gyfer cyfnod yr adolygiad nesaf o brisiau hyd at 2030.

Drwgddyledion

Mae taliadau drwgddyledion yn codi pan na fydd cwsmeriaid yn talu eu biliau, naill ai am eu bod yn anfodlon eu talu neu na allant eu talu. Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth i gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau, ond mae'n anochel na fydd rhai o'r biliau a godwn yn cael eu talu.

Yn y FA 23, cynyddodd taliadau drwgddyledion 4% o flwyddyn i flwyddyn i £25 miliwn. Y prif ffactor a ysgogodd hyn oedd cynnydd mewn prisiau (gweler 'Refeniw' uchod). Mae ein darpariaeth ar gyfer drwgddyledion yn cynnwys amcangyfrif o effeithiau'r argyfwng costau byw yn y dyfodol ar gasglu dyled sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n hafal i ostyngiad o 1% arall mewn symiau a gesglir.

Er mwyn ein helpu i ganolbwyntio ar heriau'r amgylchedd economaidd presennol i'n cwsmeriaid, rydym yn monitro set o fesurau'n fanwl, gan gynnwys:

- Cyfran y cwsmeriaid sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol
- Nifer y cwsmeriaid rydym yn eu monitro'n weithredol ar ein system rheoli dyledion.
- Canran y cwsmeriaid sydd ar y trywydd cywir o ran eu telerau talu.
- Nifer a gwerth y derbyniadau ymlaen llaw.

Mae'r dangosyddion hyn wedi parhau'n gadarn drwy gydol y flwyddyn diwethaf ac ni ragwelwn unrhyw ddirywiad sylweddol yn y byrdymor. Parhaodd ein drwgddyledion fel cyfran o'n refeniw yn sefydlog, sef tua 3%.

Newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar ein busnes. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd digwyddiadau tywydd eithafol sydd wedi cael effaith andwyol sylweddol ar ein gweithrediadau ac sydd wedi gofyn am

wariant adferol sylweddol. Yn ystod haf 2022, yr haf cynhesaf ers 1976, cafwyd cyfnod estynedig o dywydd poeth a sych yn ein hardal weithredu. Roedd yn golygu bod yn rhaid i ni osod gwaharddiad dros dro ar ddefnyddio pibelli dŵr mewn rhannau o Sir Benfro ac ardal fach o Sir Gaerfyrddin. Bu'n rhaid i ni wario mwy ar danceri ac ymdrechu o'r newydd i leihau gostyngiadau dŵr i'r eithaf, a gostiodd gyfanswm o £42 miliwn y flwyddyn hon. Yn ystod y gaeaf, cafwyd cyfnod o rew/dadmer hefyd, a arweinodd at gostau cynnal a chadw ychwanegol a thalu £3 miliwn mewn iawndal i gwsmeriaid am doriadau yn eu cyflenwad. Gweler hefyd ein hadroddiad sy'n ymwneud â'r hinsawdd ar dudalennau 74 i 89.

Ailddatgan gollyngiadau dŵr a defnydd y pen

Rydym wedi ailddatgan data perfformiad ar gyfer gollyngiadau dŵr a defnydd y pen a gyflwynwyd i Ofwat ar gyfer y FA 21 a'r FA 22. Ar 25 Mai 2023, cyhoeddodd Ofwat ei bod yn cynnal ymchwiliad i'r ffordd roeddem wedi cofnodi gollyngiadau dŵr a defnydd y pen. Rydym wedi hysbysu Ofwat ein bod yn bwriadu cynnig pecyn gwneud iawn gwerth £29 miliwn i gwsmeriaid, sef tua 3.7% o refeniw rheoleiddio Dŵr Cymru o £793 miliwn yn y FA 22.

Mae'r pecyn gwneud iawn yn cynnwys dwy elfen:

- Ad-daliadau gwerth £15 miliwn i gwsmeriaid i'w credydu i gyfrifon cwsmeriaid cyn gynted â phosbil yn y FA 24. Gyda 1.4 miliwn o gwsmeriaid, bydd yr ad-daliad yn cyfateb i ychydig dros £10 fesul cwsmer.
- Rydym wedi cynnig yn PR24 y byddwn yn ildio'n wirfoddol yr elfen honno o'r gorwariant rheoleiddiol yn ystod y FA 21 a'r FA 22 y gellir ei briodoli i wariant ar ollyngiadau dŵr drwy beidio â'i hadennill. Mae hyn yn cyfateb i £14 miliwn.


O dan amgylchiadau arferol, caiff gorwariant yn ystod yr AMP ei adennill yn rhannol oddi wrth gwsmeriaid yn y cyfnod rheoli prisiau nesaf drwy addasu'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio. Byddai hyn fel arfer yn caniatáu adennill 43% o'r gwariant hwn – sef £14 miliwn. Mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud i ildio'r costau adenilladwy hyn ac ni fydd y gwerth cyfalaf rheoleiddio yn cael ei godi yn y cyfnod rheoli prisiau nesaf.

Yn ein datganiadau ariannol ar gyfer y FA 23 rydym wedi darparu ar gyfer ad-dalu'r £15 miliwn i gwsmeriaid yn y FA 23. Bydd y gorwariant o £14 miliwn a ildwyd drwy beidio â'i adennill yn amlygu ei hun mewn Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio is ar 1 Ebrill 2025 nag y byddai wedi digwydd fel arall. Gan nad yw'n briodol gosod darpariaeth yn y datganiadau ariannol ar gyfer newidiadau i'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio yn y dyfodol, dim ond yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol y caiff yr elfen hon o'r pecyn gwneud iawn i gwsmeriaid ei datgelu.

Credwn ein bod yn cynnig pecyn gwneud iawn priodol i gwsmeriaid ar gyfer ein camddatganiad rheoleiddio yn y FA 21 a'r FA 22, a'i effeithiau. Fodd bynnag, Ofwat biou'r penderfyniad terfynol ac ni fydd yn hysbys nes ei bod wedi cwblhau ei hymchwiliad y mae ei amseriad yn ansicr.

At hynny, rydym bellach yn disgwyl gwario swm ychwanegol o £54 miliwn yn y ddwy flynedd sy'n weddill o'r AMP (2024-2025) er mwyn lleihau gollyngiadau dŵr mor gyflym â phosibl.

Symudiadau llog o flwyddyn i flwyddyn (£m)



Elw/(colled) sylfaenol

Rydym yn diffinio elw/(colled) sylfaenol fel elw/(colled) cyn trethiant llai symudiadau gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol, sydd felly'n peidio â chynnwys effaith anariannol symudiadau ar y farchnad, sy'n adlewyrchu'r elfennau o dan ein rheolaeth yn well. Cynyddodd ein colled sylfaenol i £311 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (£102 miliwn) a achoswyd yn bennaf gan gynydd o 70% o flwyddyn i flwyddyn yng nghostau cyllid i £318 miliwn (y FA 22: £187 miliwn) oherwydd taliadau mynegrif uwch ar ein dyled fynegrifol, cydnabod taliad eithriadol o £31 miliwn, sef dyfarniad cynnydd pensiwn yn unol â'r RPI, a chynydd mewn dibrisiant ac amorteiddio, a gynyddodd 5% i £347 miliwn (y FA 22: £329 miliwn), o ganlyniad i ailbriso'r sylfaen asedau i'r gwerth cyfalaf rheoleiddio (gweler nodiadau 7 ac 8 yn y datganiad ariannol).

Rydym yn defnyddio ystod o offerynnau ariannol i helpu i gyllido ein gweithrediadau. Mae'r rhain yn cynnwys bondiau cyfradd sefydlog a mynegrifol yn ogystal â benthyciadau sefydlog, amrywiadwy a mynegrifol a phrydlesau cyllidol. Mae ein holl ddyled fynegrifol yn gysylltiedig â chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) a gynyddodd yn sylweddol yn ystod y FA 23 o 9% ym mis Mawrth 2022 i 14% erbyn mis Mawrth 2023. Mae'r cynnydd mewn chwyddiant wedi ychwanegu £123 miliwn i'n costau cyllido y flwyddyn hon; talwyd £17 miliwn o'r swm hwn mewn arian parod ac mae £94 miliwn wedi cronni ar y fantolen a choiff ei dalu pan fydd y ddyled gysylltiedig yn aeddfedu.

Mae cyfanswm y gwariant cyllid net o £304 miliwn yn y datganiad incwm ar dudalen 208 yn uwch na'r llog arian parod net o £149 miliwn a dalwyd yn unol â'r datganiad o lifau arian parod ar dudalen 213. Mae'r gwahaniaeth yn bennaf o ganlyniad i daliadau mynegrif anariannol o £195 miliwn, wedi'u gwrthbwyso gan £28 miliwn o gostau benthycu wedi'u cyfalafu.

Rheoli cyfraddau llog

Ein prif amcan cyllido yw sicrhau'r swm cywir o gyllid am y gost isaf. Po fwyaf effeithlon yw ein cyllido, y lleiaf y mae ein cwsmeriaid yn ei dalu. Rydym yn anelu at sicrhau statws

credyd sy'n arwain y sector a gerio o tua 60%, yn ogystal ag ystyried amseriad gweithgarwch cyllido.

Mae ychydig dros hanner ein dyled, cyn rhagfantoli, yn gysylltiedig â chwyddiant yr RPI (31 Mawrth 2023: 54%, 31 Mawrth 2022: 51%) ac mae hyn yn rhagfantoli'n naturiol ein sylfaen asedau (fel y'i mesurwyd gan werth cyfalaf rheoleiddio Ofwat a'n referiw sy'n gysylltiedig â chwyddiant. Gan gynnwys effaith chwyddiant, cost gyfartalog ein dyled ar gyfer y flwyddyn oedd 7.7% (y FA 22: 5.0%).

Enillion a cholledion ar offerynnau ariannol deilliadol

Rydym yn rheoli ein hamlygiad i gyfraddau llog drwy ddefnyddio offerynnau ariannol deilliadol. Rydym hefyd wedi cyfnewid rhywfaint o'n dyled cyfradd gyfnewidiol am ddyled cyfradd sefydlog a rhywfaint o'n dyled cyfradd sefydlog i gyfraddau mynegrifol drwy ddefnyddio 'cyfnewidiadau'. Ar ôl ystyried effaith y cyfnewidiadau hyn, mae 84% o'n dyled yn ddyled fynegrifol, gyda'r gweddill ar gyfradd gyfnewidiol neu sefydlog. Rydym hefyd yn defnyddio offerynnau deilliadol i ragfantoli cost rhai o'n gofynion o ran pŵer. Nid ydym yn ymgymryd ag unrhyw hapfasnachu, a waherddir yn benodol o dan ein polisi Trysorlys a luniwyd gan y Bwrdd.


Yn wahanol i ddyled, sy'n cael ei chynnwys mewn 'benthyciadau' yn y fantolen, mae ein cyfnewidiadau yn cael eu dosbarthu'n 'offerynnau ariannol deilliadol' o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a'u priso ar werth teg ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae gwerthoedd teg yn amrywio'n unol â symudiadau ar y farchnad, a all fod yn anwadal, a gall hyn arwain at enillion a cholledion sylweddol yn y datganiad incwm.

Yn ystod y FA 23, y symudiad yng ngwerth cyfnewidiadau oedd ennill anariannol o £160 miliwn (y FA 22: colled o £114 miliwn), a ysgogwyd yn bennaf gan ddisgwyliadau newidiol y farchnad o gyfraddau llog a chwyddiant. Gweler nodyn 15 yn y datganiadau ariannol am ragor o wybodaeth.

Gwnaethom fuddsoddi £400 miliwn o gyfalaf yn ystod y flwyddyn fel rhan o'n rhaglen fuddsoddi arfaethedig uchaf erioed gwerth £2.0 biliwn o dan AMP7.

ADOLYGIAD Y PRIF SWYDDOG ARIANNOL PARHAD

Buddsoddiad cyfalaf



Yn ystod y FA 23, gwnaethom fuddsoddi cyfanswm o £400 miliwn yn ein hasedau dŵr a dŵr gwastraff. Dros y pum mlynedd hyd at 2025, byddwn yn buddsoddi'r swm uchaf erioed, £2.0 biliwn, i sicrhau gwell cydnheredd a gwelliannau amgylcheddol yn unol â Phenderfyniad Terfynol 2019 Ofwat a'n rhwymedigaethau rheoleiddio eraill. Mae cyfanswm ein buddsoddiad wedi'i rannu rhwng ychwanegiadau cyfalaf o £322 miliwn (caiff y rhain eu hychwanegu at y fantolen a'u dibrisio dros oes ddefnyddiol asedau) a gwariant o £78 miliwn ar adnewyddu seilwaith (costau cynnal a chadw a goiff eu nodi'n llawn fel gwariant ar y datganiad incwm ar ôl cwblhau cynllun).

Byddwn yn buddsoddi swm ychwanegol o £100 miliwn mewn gwelliannau yn ansawdd dŵr afonydd, y bwriadwn gyflawni'r rhan fwyaf ohonynt yn ystod AMP7. Mae'r opsiwn hwn ar gael i ni oherwydd mantais strwythur busnes nid er cyfranddwlwyr Glas Cymru.

Colled cyn treth

Y golled cyn treth oedd £151 miliwn, gostyngiad o £64 miliwn o gymharu a'r flwyddyn diwethaf (y FA 22: £215 miliwn), o ganlyniad i'r ffactorau a amlinellwyd uchod.

Dyled net

Rydym yn cyllido ein gweithrediadau o ddydd i ddydd a'n rhaglen buddsoddi cyfalaf drwy gyfuniad o filiâu cwsmeriaid a benthyciadau gan farchnadoedd a sefydliadau ariannol. Roedd ein dyled net (cyfanswm ein benthyciadau llai arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo) ar sail ein cytundeb telerau cyffredin ar 31 Mawrth 2023 yn cyfateb i £4,162 miliwn, sef cynnydd o £440 miliwn ers y flwyddyn flaenorol. Achoswyd bron 90% o'r cynnydd hwn gan fynegrido dyled sy'n gysylltiedig â'r RPI.

Rydym yn anelu at sicrhau bod digon o gyllid ar gael i ddiwallu ein hanghenion ariannol a ragwelir yn ogystal â sicrhau digon o hyblygrwydd rhag hapddigwyddiadau a allai yn rhesymol ddigwydd.


Mae ein cyfnod aeddfedu dyled cyfartalog yn gymharol hir, sef 10.4 mlynedd (31 Mawrth 2022: 11.2 mlynedd), sy'n adlewyrchu natur hirdymor ein sylfaen asedau. O dan delerau gwaraneiddio ein busnes cyfan, ni all mwy nag 20% o'n dyled fod yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod treigl o 24 mis. Rhoddir manylion ein hasesiadau o'r risg sy'n gysylltiedig â llog a chwyddiant yn nodyn 16 o'r datganiadau ariannol.

Rydym bellach yn gweithio ar ein strategaeth ailgylidlo ar gyfer AMP8, y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2025 a 2030, pan fydd tua £2 biliwn o ddyled yn aeddfedu.

Hylifedd

Ar 31 Mawrth 2023, roedd cyfanswm hylifedd o £579 miliwn (y FA 22: £515 miliwn), a oedd yn cynnwys arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo gwerth £379 miliwn a chyfleusterau heb eu hawlio gwerth £200 miliwn. Rydym yn buddsoddi arian parod

Symudiad o flwyddyn i flwyddyn mewn dyled net (£m)



yn ddoeth, gan adneuo am dri mis ar y mwyaf, a dim ond gyda banciau a chronfeydd hylifedd â statws da iawn.

Cawsom arenillion o 3.86% ar gyfartaledd o'n hadneuon yn ystod y flwyddyn, sy'n cymharu'n dda ag arenillion Cronfa Hylifedd Sterling ICS BlackRock, sef 2.00%.

Rydym hefyd wedi trefnu cyfleusterau credyd cylchdro dwyochrog gwerth £200 miliwn (nas hawliwyd ar hyn o bryd) â grŵp o bedwar banc y mae gennym gydberthynas allweddol â nhw. Gweler nodyn 16D o'r datganiadau ariannol am ragor o fanylion.

Statws credyd

Asesir ein teilyngdod i gael credyd gan dair asiantaeth statws credyd ar wahân, sy'n rhoi barn allanol annibynnol ar ansawdd ein dyled. Mae ein statws credyd (Moody's A3; S&P A-, a Fitch A) ymhlith yr uchaf yn sector cyfleustodau'r DU. Mae statws credyd gradd buddsoddi yn rhoi hwb i hyder buddsoddwyr ac yn ein helpu i sicrhau cyllid am y gost isaf, sydd, yn ei dro, yn helpu i gadw biliau cwsmeriaid mor isel â phosibl.

Ymhlith gofynion eraill, mae ein dogfennau llywodraethu yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw statws credyd gradd buddsoddi. Rydym yn adolygu'r holl ddangosyddion allweddol yn rheolaidd er mwyn nodi unrhyw risgiau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ar gam cynnar ac er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'n cyfamodau benthyca. Rydym mewn cysylltiad rheolaidd â'n hasiantaethau statws credyd.

Ym mis Tachwedd 2022, cadarnhaodd S&P fod ein statws dyled Dosbarth B yn A- a bod ein his-ddyled Dosbarth C yn BBB, gan ddiwygio'r rhagolwg o sefydlog i negyddol. Nid yw'r weithred hon wedi effeithio ar fondiau Dosbarth A, sy'n destun gwarant ariannol gan Assured Guaranty UK Ltd. Cyfeiriodd S&P at effaith chwyddiant ar bortffolio dyledion mynegrifol y Grŵp a'n lefel uchel o wariant cyfalaf fel y rhesymau dros newid y rhagolwg o sefydlog i negyddol, ond nododd ei bod yn disgwyl i'r cymarebau perthnasol adfer erbyn diwedd AMP7.

Ym mis Chwefror 2023, cadarnhaodd dadansoddiad credyd diwygiedig Moody's fod dyled Dosbarth B yn A3 a bod dyled Dosbarth C yn Baa2, yr oedd gan y naill a'r llall ragolwg sefydlog.

Ym mis Mawrth 2023, cadarnhaodd Fitch fod dyled dosbarth B yn A a bod dyled Dosbarth C yn BBB+, yr oedd gan y naill a'r llall ragolwg sefydlog.

Gerio

Mae cwmnïau dŵr y DU yn mynegi eu gerio rheoleiddio fel cymhareb o ddyled net i werth cyfalaf rheoleiddio, er mwyn dangos mesur o ddyledion y cwmni o'u cymharu â gwerth y busnes a gydnabyddir gan Ofwat.


Ers sefydlu Glas Cymru yn 2001 gyda gerio o 93%, rydym wedi mynd ati i leihau lefel ein dyled fel cyfran yn gyson, gyda gerio o 58% ar 31 Mawrth 2023, yn unol â pholisi'r Bwrdd i gadw gerio ar tua 60%.

O dan delerau ein strwythur gwaraneiddio busnes cyfan, mae'n rhaid i ni gadw gerio o dan 85%. Felly, mae gennym dipyn o hyblygrwydd i ymdrin â risgiau sy'n dod i'r amlwg.


Difidendau

Fel cwmni cyfyngedig drwy warant, ni thalwyd unrhyw ddifidendau yn ystod y flwyddyn (y FA 22: dim). Nid oes unrhyw ddifidendau o fewn y Grŵp wedi cael eu datgan ac mae gwargedau yn y busnes rheoleiddiedig wedi cael eu cadw er budd ein cwsmeriaid. Gweler tudalen 195 o'n polisi ynglŷn â difidendau am ragor o fanylion.

Yr hyn a wariwyd gennym yn y FA 23 (%)



O ble y daeth y cyllid (£m)



Trethiant

Rydym yn anelu at gydymffurfioeth a thryloywder yn ein materion treth ac rydym wedi ein hachredu â Nod Treth Deg. Fel sefydliad â rhaglen buddsoddi cyfalaf fawr, rydym yn derbyn lwfansau cyfalaf. Drwy'r rhain mae modd gohirio rhai o'n rhwymedigaethau treth gorfforaeth tan gyfnodau yn y dyfodol sy'n helpu i gadw biliau cwsmeriaid yn is.

Ceir rhagor o fanylion am ein treth gorfforaeth a'n taliadau treth gohiriedig yn nodiadau 5 a 6 o'r datganiadau ariannol, ac mae ein strategaeth dreth ar gael yn <https://dwrcymru.com/taxstrategy>.

Nid oedd yn ofynnol i ni dalu unrhyw dreth gorfforaeth yn y FA 23. Rydym yn talu ein holl drethi pan fyddant yn ddyledus a gwnaethom dalu cyfanswm o £63 miliwn o dreth, a oedd yn cynnwys ardrethi busnes a threthi cyflogaeth ac amgylcheddol.

PM Davis

Mike Davis

Prif Swyddog Ariannol

CYD-DESTUN EIN SECTOR

Y Sector Dŵr

Mae'r Sector Dŵr yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys 11 o Gwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth – o blith y rhain Dŵr Cymru yw'r chweched mwyaf – a naw Cwmni Dŵr Yn Unig.

Mae'r cwmnïau hyn yn darparu gwasanaethau dŵr, glanweithdra a draenio i fwy na 50 miliwn o ddefnyddwyr preswyl a dibreswyl yng Nghymru a Lloegr bob dydd.

Ers i'r diwydiant dŵr gael ei breifateiddio yn 1989, mae fframwaith rheoleiddio wedi bod ar waith i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwasanaeth o safon uchel am bris sy'n cyfateb i gost effeithlon darparu'r gwasanaethau hynny. Mae'r fframwaith hwn wedi galluogi cwmnïau i fuddsoddi mwy na £130 biliwn mewn gwaith i gynnal a gwella asedau a gwasanaethau.

Dŵr yng Nghymru

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i gyflwyno deddfwriaeth newydd gerbron y Senedd mewn perthynas â meysydd polisi datganoledig megis dŵr, rheoleiddio amgylcheddol, ac amddiffynfeydd rhag llifogydd.

Caiff y Senedd hefyd basio gorchmynion cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â deddfwriaeth Senedd y DU sy'n ymdrin â meysydd datganoledig o'r fath. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb am bwerau gweithredol, polisiâu a deddfwriaeth yn y rhan fwyaf o ardaloedd sy'n berthnasol i weithgareddau Dŵr Cymru. Mae hyn yn gymwys i'n hardal weithredu gyfan, gan gynnwys y rhannau hynny yn Lloegr, am fod pwerau wedi eu datganoli mewn deddfwriaeth ar sail 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru'.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig), sy'n amlinellu'r fframwaith polisi perthnasol i Gwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth a Chwmnïau Dŵr Yn Unig yn Lloegr.

Ers Deddf Llywodraeth Cymru 2006, rydym wedi gweld gwahaniaethau cynyddol rhwng y ffordd y mae Llywodraeth Cymru a Defra yn gweithredu mewn rhai meysydd allweddol, gan gynnwys:

- Cystadleuaeth am wasanaethau manwerthu i gwsmeriaid dibreswyl
- Taliadau a godir am gysylltiadau newydd i gwsmeriaid sy'n ddatblygwyr
- Cymorth ar gyfer tariffau cymdeithasol

Fframwaith Rheoleiddio

Nodir manylion ein rheoleiddwyr yn yr Atodiad/ rhestr termau o dudalen 250 ymlaen. I grynhoi, mae ein rheoleiddwyr yn gyfrifol am y canlynol:

- Fframwaith yr Adolygiad o Brisiau – a oruchwylir gan Ofwat.
- Perfformiad a chydymffurfiaeth amgylcheddol – a oruchwylir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Ansawdd dŵr yfed – a oruchwylir gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.
- Materion ynglŷn â gwasanaeth cwsmeriaid – a oruchwylir gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr.
- Darpariaeth y Gymraeg i gwsmeriaid – a oruchwylir gan Gomisiynydd y Gymraeg

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n holl reoleiddwyr, ochr yn ochr â'n Grŵp Her Annibynnol ein hunain (gweler tudalen 72), er mwyn pennu meysydd buddsoddi allweddol ym mhob Cynllun Rheoli Asedau pum mlynedd.

Mae hyn yn ein helpu i gydbwysu anghenion buddsoddi byrdymor a thymor hwy y busnes â fforddiadwyedd biliau cwsmeriaid ym mhob cyfnod.

Mae pob rheoleidiwr yn cyhoeddi adroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru. Mae copiâu o'r adroddiadau hyn ar gael ar ein gwefan yn <https://www.dwrcymru.com> neu ar wefan y rheoleidiwr perthnasol.

Y Broses Adolygu Prisiau

Mae Ofwat yn pennu terfynau bob pum mlynedd ar y refeniw y gall cwmnïau ei ennill oddi wrth gwsmeriaid drwy eu biliau, a'r targedau perfformiad y mae'n rhaid i gwmnïau eu cyflawni. Mae'r cyfnod 'AMP7' presennol yn cwmpasu 2020-25, fel y'i nodwyd yn y Penderfyniad Terfynol.

Mae cwmnïau wrthi'n datblygu eu Cynllun Busnes pum mlynedd nesaf, a bennir o fewn cyd-destun tymor hwy, i'w gyflwyno i Ofwat o dan y broses adolygu prisiau bresennol, PR24. Bydd hyn yn arwain at Benderfyniad Terfynol a fydd yn nodi ymrwymadau a gofynion cyllido cwmnïau ar gyfer 2025-30.

Yn ystod y broses adolygu prisiau, mae Ofwat yn cynnal adolygiad manwl o gostau, cynlluniau buddsoddi ac ymrwymadau perfformiad arfaethedig cwmnïau yn y dyfodol. Mae hefyd yn ystyried gofynion a disgwyliadau'r gwahanol reoleiddwyr.

Yng Nghymru, caiff y broses hon ei chydgyssylltu drwy Fforwm PR24, a gadeirir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n dwyn ynghyd yr holl reoleiddwyr allweddol a'r cwmnïau. Mae'n pennu blaenoriaethau strategol ac yn rhoi cyfeiriad ar y cydbwysedd priodol rhwng lefel biliau a gofynion buddsoddi hirdymor.

Dyfodol y Sector Dŵr

Yn ystod 2022, gwnaethom adolygu a diweddarau ein strategaeth hirdymor, Dŵr Cymru 2050, mewn ymateb i'r digwyddiadau a'r datblygiadau dros y pum mlynedd diwethaf.


Rydym yn rhannu llawer o'r un heriau hirdymor â gweddill y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Yn debyg i gwmnïau dŵr eraill, rydym yn rhogweld y bydd angen buddsoddiad ychwanegol sylweddol dros y 25 mlynedd nesaf er mwyn:

- Bodloni gofynion rheoleiddiol newydd.
- Uwchraddio ein hen asedau.
- Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Gwellu ansawdd afonydd a dyfroedd arfordirol.

Yng Nghymru, rydym yn pryderu'n benodol am batrymau glaw newidiol a sut maent yn effeithio ar berfformiad ein rhwydwaith dŵr gwastraff. Er mwyn ateb yr heriau hyn, mae angen i ni achub ar bob cyfle i weithio'n agosach ac yn fwy effeithiol ag eraill. Wrth wneud hynny, rydym yn cael dylanwad dros y canlyniadau rydym am helpu i'w sicrhau –gan gynnwys afonydd a moroedd iach, ffynonellau dŵr nad ydynt wedi'u halogi, allyriadau carbon cynaliadwy, a chymunedau sy'n ffynnu.

Refeniw yn ôl math o gwsmer (£m)



Pwy Rydym yn eu Gwasanaethu

Cwsmeriaid preswyl

Rydym yn darparu gwasanaethau hanfodol i fwy na 3 miliwn o bobl, gan gynnwys cyflenwi dŵr yfed i'r rhan fwyaf o Gymru a rhannau o Swydd Henffordd a Glannau Dyfrdwy yn Lloegr. Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau dŵr gwastraff i'r rhan fwyaf o Gymru a rhannau o Gaer a Glannau Dyfrdwy yn Lloegr.

Cwsmeriaid busnes

Mae gennym tua 110,000 o gwsmeriaid busnes (neu 'dibreswyl'). Maent yn cynnwys popeth o safleoedd diwydiannol mawr i fusnesau bach ar y stryd fawr, busnesau amaethyddol, awdurdodau lleol ac elusennau.

Yn wahanol i Loegr, ni all yr un ohonynt, ar wahân i'r safleoedd mawr iawn, newid darparwr eu gwasanaeth manwerthu dŵr. Rydym bob amser wedi bod yn benderfynol o sicrhau bod ein cwsmeriaid busnes yn cael gwasanaeth cystal o leiaf ag sydd ar gael yn Lloegr, felly mae gennym dimau penodol sy'n darparu gwasanaeth wedi'i deilwra. Rydym hefyd yn monitro boddhad busnesau ar sail gymharol.

Cwsmeriaid sy'n ddatblygwyr

Rydym yn gweithio gyda phowb, o ddatblygwyr tai mawr i adeiladwyr tai unigol, gan ddarparu cysylltiadau dŵr a charthffosiaeth newydd, a chefnogi darparwyr 'huananosod' ar y safle yn unol â'r safonau a'r ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Mae'n bwysig bod ein gwasanaethau yn cyrraedd y safonau uchaf. Mae'n ein galluogi i chwarae ein rhan i gefnogi datblygiad a thwf economaidd yn y cymunedau a wasanaethwn.

> Ceir manylion am y mesurau a ddefnyddiwn i olrhain ein gwasanaethau i'r mathau hyn o gwsmeriaid, sydd ag anghenion amrywiol, ar dudalennau 48 i 66.

CYD-DESTUN EIN SECTOR PARHAD

Sut mae'r busnes yn ymateb i heriau

Dotblygiadau allweddol	Disgrifiad	Ein hymateb
Newid yn yr hinsawdd ac addasu yn yr hirdymor	Rydym yn disgwyl i newid yn yr hinsawdd gael effaith sylweddol ar ein busnes, wrth i batrymau tywydd newidiol roi pwysau ychwanegol ar ein gwasanaethau.	Mae newid yn yr hinsawdd yn ganolog i'n cynlluniau hirdymor, fel y dengys ein Hymatebion Strategol a'n hamcanion ACLI.
Digwyddiadau tywydd eithafol	Achoswyd heriau gweithredol enfawr i'r busnes o ganlyniad i'r haf sychaf ers 1976, ac yna gyfnod o rew/dadmer sydyn dros y Nadolig. Rydym yn disgwyl i amllder a dwysedd digwyddiadau o'r fath gynyddu wrth i newid yn yr hinsawdd gyflymu.	O ganlyniad i gamau a gymerwyd yn flaenorol i wella cydnherthedd, bu modd i ni ymateb yn benderfynol i gyfyngu ar y tarfu ar ein gwasanaethau a'n cwsmeriaid. Er gwaethaf y camau hyn, gwyddom fod effaith sylweddol ar gwsmeriaid mewn rhai cymunedau megis Aberteifi a Thryleg yn ystod rhew/dadmer mis Rhagfyr. Caiff y prif wersi a ddysgwyd o'r digwyddiadau hyn yn ystod y flwyddyn diwethaf eu defnyddio i baratoi ar gyfer digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.
Amodau economaidd	Mae amodau economaidd wedi gwaethygu'n sylweddol dros y flwyddyn hon, gan roi pwysau ar lawer o'n cwsmeriaid drwy'r argyfwng costau byw, ac ar ein costau gweithredu a chyfalaf drwy gynydd yng nghost ynni a deunyddiau.	Rydym wedi cynyddu lefel ein cymorth i gwsmeriaid mewn sefyllfa fregus ac sy'n wynebu heriau ariannol, ac ar ddiwedd 2022 gwnaethom gyflwyno Cymuned (ein Cronfa Gymunedol newydd) i helpu rhai o'r cwsmeriaid hynny nad oeddent wedi'u cynnwys yn flaenorol. Caiff effeithiau'r amodau economaidd ar ein sylfaen costau, gan gynnwys costau cyllid uwch, eu monitro drwy waith modelu senarios er mwyn paratoi ein Datganiad am Hyfywedd Hirdymor ac asesu ein tybiaeth 'busnes gweithredol'. Byddwn yn parhau i ddefnyddio strategaethau rhagfantoli lle y bo'n briodol ac rydym wrthi'n adolygu hyn wrth baratoi ar gyfer PR24.
Ansawdd dŵr afonydd a systemau gorlif storm	Mae'r sylw ar y materion hyn ymhlith y cyhoedd a'r cyfryngau wedi parhau i gynyddu ac mae craffu gan reoleiddwyr, llywodraethau a chwmnïau dŵr yn dal i fod yn ddwys. Rydym wedi etifeddu systemau gorlif storm cyfun o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed yn Oes Fictoria: er mwyn datrys y problemau a achosir ganddynt bydd angen buddsoddiad sylweddol dros ddegawdau.	Mae ein Maniffesto ar gyfer Afonydd (https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment) yn cydnabod yr angen am fuddsoddiad ychwanegol yn y maes hwn ac yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer gwelliannau. Rydym wedi gwneud mwy o ymdrech i hysbysu cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill am natur gymhleth systemau gorlif storm cyfun a'r llygredd cysylltiedig. Rydym yn rhoi ffocws ar leihau ffynonellau ehangach o niwed ecolegol yn hytrach nag ar nifer y gollyngiadau o systemau gorlif storm cyfun, gan gydnabod bod cemegion sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd yn ffynhonnell bwysig o ffosfforws a gorlwytho maethynnau yn ein cyrsiau dŵr. Ar y cyd â rheoleiddwyr ac eraill, byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad, sy'n effeithio ar filiau cwsmeriaid yn y pen draw, yn targedu'r camau gweithredu hynny a fydd yn creu'r budd mwyaf i'r amgylchedd, ein cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn.



Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Rhostir Cog, Bro Morgannwg

CYNLLUNIO AR GYFER DYFODOL GWELL

Esboniwn yma brif elfennau ein fframwaith cynllunio. Mae tudalennau 46 i 47 yn dangos sut mae'r rhain yn darparu ar gyfer ein Themâu Strategol er mwyn helpu i gyflawni ein Gweledigaeth.

Gwaith cynllunio hirdymor

Dŵr Cymru 2050

Cyhoeddwyd ein strategaeth hirdymor, Dŵr Cymru 2050, yn 2018 ac fe'i diweddarwyd yn 2022. Mae'n amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd allweddol i'r busnes dros y 30 mlynedd nesaf, ac yn esbonio sut rydym yn bwriadu ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd hynny er mwyn sicrhau gwasanaeth cydnherth a chynaliadwy yn yr hirdymor.

Strategaeth Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI)

Cafodd ein Strategaeth ACLI ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Amgylchedd, Cymdeithasol a Llywodraethu ym mis Chwefror 2022 ac mae ar gael yn <https://dwrcymru.com/esg>. Mae'n cynnwys 10 amcan allweddol i gefnogi'r ffocws ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yng nghyd-destun Dŵr Cymru 2050.

> Gweler tudalen 106 i ddarllen mwy am ein hamcanion ACLI.

Strategaeth Gyflawni Hirdymor

Mae Ofwat bellach yn ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni dŵr a reoleiddir ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Gyflawni Hirdymor. Bydd yn nodi'r buddsoddiadau sydd eu hangen i gyflawni uchelgeisiau'r Cwmni ar gyfer 2050, o dan nifer o senarios sy'n ymdrin ag achosion allweddol o ansicrwydd yn y dyfodol. Caiff ein Strategaeth Gyflawni Hirdymor ei chyhoeddi ochr yn ochr â Chynllun Busnes PR24 ym mis Hydref 2023.



> Disgrifir cynnydd o ran ymrwymadau'r Strategaeth ACLI a Llesiant ar dudalennau 106 i 132.

Elfennau Cynllunio o'r Hirdymor i'r Byrdymor

Dŵr Cymru 2050
ac amcanion ACLI

Strategaeth
gyflawni hirdymor
a gwaith cynllunio

Gwaith cynllunio tymor canolig a byrdymor

Cynllun Busnes PR19 (AMP7 2020-2025)

Ystyr 'AMP' yw Cyfnod Rheoli Asedau. Mae'n gyfnod pum mlynedd ar gyfer gwaith cynllunio busnes a buddsoddi sy'n cyd-fynd â'r Adolygiadau Rheoleiddiol o Brisiau bob pum mlynedd.


Ar ôl ymgynghori â chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill am eu blaenoriaethau, yn yr Adolygiad diwethaf o Brisiau (PR19) gwnaethom gytuno ag Ofwat ar raglen buddsoddi cyfalaf gwerth £2.0 biliwn i gyd. Mae gennym 56 o dargedau perfformiad a chyflawni penodol sy'n rhan o'n hymrwymiad rheoleiddio i gynnal a gwella gwasanaethau i gwsmeriaid a'r amgylchedd, wedi'u trefnu o dan wyth 'canlyniad' ehangach (fel y dengys y diagram ar dudalen 48).

Cynllun Busnes PR24 (AMP8 2025-2030)

Rydym wrthi'n paratoi ein cynllun Busnes pum mlynedd nesaf ar gyfer AMP8 o 2025-30. Bydd hwn yn cyd-fynd â phum mlynedd cyntaf y Strategaeth Gyflawni Hirdymor hyd at 2050.

Cynlluniau Busnes Blynyddol

Ochr yn ochr â'n cynlluniau tymor hwy a'n Cynlluniau Busnes Pum Mlynedd, rydym yn paratoi cynllun busnes blynyddol yn fewnol, a ddefnyddir gennym i fonitro a rhoi ffocws ar weithgarwch byrdymor.



> Trafodir ein cynnydd yn erbyn cynlluniau tymor canolig a byrdymor a'n cynnydd tuag at Dŵr Cymru 2050 ar dudalennau 48 i 67.

Cynlluniau busnes pum mlynedd wedi'u cyflwyno yn y broses o adolygu prisiau

AMP7


AMP8

AMP9

Cynllunio busnes blynyddol

EIN STRATEGAETH

Mae'r diagram isod yn crynhoi ein fframwaith cynllunio a'n Themâu Strategol. Yn y golofn ar gyfer pob Thema Strategol y mae amcanion a ddewiswyd ac ymatebion strategol. Nid yw'r rhain yn gynhwysfawr, ac rydym yn ymheloethu arnynt ar dudalennau 48 i 67 yn ein sylwadau ar berfformiad.



Wedi'i chefnogi a'i galluogi gan Gyllido a llywodraethu cadarn



Cwsmeriaid

- Lleihau nifer y cwynion
- Cynnal gwasanaeth cwsmeriaid sy'n arwain y diwydiant
- Lleihau llifogydd carthion i'r eithaf



Cymunedau

- Cefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf
- Ymgysylltu â chymunedau ar brosiectau allweddol
- Cyflwyno rhaglenni addysg dŵr

- Ymdrin â'n cwsmeriaid sy'n cael 'y gwasanaeth gwaethaf'
- Cyflogwr delfrydol
- Gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

- Gweithio gyda chwsmeriaid a chymunedau
- Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid yn fforddiadwy
- Cefnogi cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus

- Sicrhau fforddiadwyedd
- Ymgysylltu â'n cwsmeriaid

- Gweithio i greu buddiannau gwirioneddol yn y cymunedau a wasanaethwn
- Denu a chadw gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu ein cymunedau

> Darllenwch yr adolygiad o berfformiad ar dudalennau 60 i 63.

> Darllenwch yr adolygiad o berfformiad ar dudalennau 64 i 67.

PERFFORMIAD

CYFLWYNIAD

Yn yr adran ganlynol, rydym yn crynhoi ein cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion drwy ystyried ein perfformiad presennol yn AMP7 (2020-25) a'n cynlluniau hirdymor ar gyfer cynnydd tuag at Dŵr Cymru 2050.

Sut rydym yn mesur ein perfformiad presennol (AMP7)

Mae'r rhaglen pum mlynedd hon yn cynnwys tua £2.0 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf. Mae'n canolbwyntio ar wella perfformiad ac ymrwymiad i leihau biliâu mewn termau real dros y cyfnod o bum mlynedd, gyda biliâu cyfartalog yn cynyddu islaw lefel mesur CPIH o chwyddiant.

Ar ôl ymgynghori â chwsmeriaid a rhanddeiliaid ar eu blaenoriaethau, gwnaethom ddatblygu cynllun busnes uchelgeisiol a chytbwys a gyflwynwyd i Ofwat yn 2018. Nododd Penderfyniad Terfynol Ofwat ar gyfer PR19 dargedau'r Cwmni ar gyfer y 56 o Ymrwymiadau Perfformiad mesuradwy a gynhwyswyd yn ein cynllun, a drefnwyd o dan wyth maes canlyniadau. Dangosir yr ymrwymiadau canlyniadau hyn a sut maent yn cyd-fynd â'n Pedair Thema Strategol isod.

Mae'r 56 o ymrwymiadau perfformiad yn cynnwys y canlynol:

- 25 o ymrwymiadau perfformiad ariannol – mae gwobrwyon neu gosbau yn gysylltiedig â'r rhain, yn dibynnu ar b'un a ydym yn cyflawni targed y Penderfyniad Terfynol.
- 25 o ymrwymiadau perfformiad yn ymwneud ag enw da – nid oes gwobr/cosb yn gymwys, ond rydym yn ymdrechu i gyflawni'r targed a bennwyd ar gyfer y flwyddyn.
- Chwe ymrwymiad perfformiad ar gyfer cyflawni buddsoddiad – gyda chosbau am gyflawni rhai rhaglenni buddsoddiad a 'glustnodir' o dan y Penderfyniad Terfynol yn hwyr yn ystod yr AMP, a pheidio â'u cyflawni erbyn diwedd yr AMP.

Bydd cyflawni'r ymrwymiadau perfformiad hyn yn arwain at fanteision i'n cwsmeriaid, ein cymunedau a'n hamgylchedd.

> Darllenwch yr adolygiad o'n perfformiad ar dudalennau 49 i 67.

Ceir adroddiad cynhwysfawr ar bob un o'r 56 o dargedau perfformiad yn ein Hadroddiad Perfformiad Blyneddol yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/annual-performance-reports>

Rydym wedi amlinellu'r wyth maes

canlyniadau isod ac mae'r rhain yn cyd-fynd â'n pedwar thema strategol

Dŵr



- 1 Dŵr glân a diogel i bawb
- 7 Cydnerthedd

Yr Amgylchedd



- 2 Diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Cwsmeriaid



- 3 Gwasanaeth personol sy'n iawn i chi
- 4 Unioni pethau pan fyddant yn mynd o chwith
- 5 Biliâu teg i bawb

Cymunedau



- 6 Creu dyfodol gwell i'n holl gymunedau
- 8 Datblygu ein pobl





PERFFORMIAD: DŴR

PERFFORMIAD YN Y FA 23

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn arbennig o heriol, gyda digwyddiadau tywydd eithafol dwys iawn yn effeithio ar berfformiad. Er gwaethaf hyn, rydym wedi perfformio'n dda o ran yr ymrwymiad perfformiad ynglŷn â thoriadau heb eu cynllunio yn y cyflenwad, gan gyflawni ein targedau a mynd tipyn o ffordd i adfer ansawdd ein dŵr yfed a fu'n her yn 2021. Rydym hefyd wedi gweld gwelliannau i'n hymrwymiad perfformiad ynglŷn â derbynioldeb dŵr yfed, ond byddwn yn dal i gael ein cosbi ar gyfer y mesur hwn.

2022 oedd y flwyddyn sychaf ers 1976 ac yn ystod mis Gorffennaf cyrhaeddodd tymereddau yng Nghymru y lefel uchaf erioed, sef 37.1°C. Cafwyd cyfnod arall o dywydd poeth wedi hyn ym mis Awst, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgan cyfnod o sychder yng Nghymru a Llywodraeth Cymru yn cynnull ei Grŵp Cyswllt Sychder. O ganlyniad i'r tywydd sych iawn, cyflwynwyd Gwaharddiad Dros Dro ar Ddefnydd mewn rhan o'n hardal weithredu yn Sir Benfro er mwyn diogelu'r adnoddau dŵr sy'n cyflenwi 60,000 o aelwydydd a wasanaethir gan gronfa ddŵr Llys-y-frân. Dyma'r tro cyntaf ers dros 30 mlynedd rydym wedi cyfyngu ar ddefnydd dŵr ein cwsmeriaid.

Effeithiodd y sychder a'r tywydd eithafol ar nifer o'n hymrwymiaidau perfformiad:

- Toriadau yn y Cyflenwad a Gollyngiadau dŵr – o ganlyniad i'r pridd sych gwnaeth mwy o'n pibellau dŵr dorri, yn enwedig ein pibellau concrid yn y gorllewin a'r canolbarth.
- Derbynioldeb (afliwio a blas) dŵr yfed – cafwyd heriau sylweddol o ganlyniad i lifau uchel yn y rhwydwaith ac wrth drin dŵr o ansawdd gwaeth mewn rhai cronfeydd dŵr a oedd wedi cyrraedd eu lefelau isaf erioed.

Yna effeithiodd y 'rhew/dadmer' ym mis Rhagfyr ymhellach ar ein hymrwymiad perfformiad o ran toriadau yn y cyflenwad. Gostyngodd tymereddau yng Nghymru i'r lefelau isaf ers 2010 ac roeddent islaw'r rhewbwynt am tua wythnos cyn mynd yn uwch na'r rhewbwynt yn sydyn dros nos. Cafodd hyn effaith sylweddol ar ein targed ar gyfer toriadau yn y cyflenwad oherwydd nifer y pibellau dŵr a dorrodd o ganlyniad i'r newid sydyn yn y tymheredd, a hefyd ein perfformiad o ran gollyngiadau dŵr lle y torrodd pibellau dŵr a phibellau cyflenwi preifat ein cwsmeriaid dros ardal eang o'n rhwydwaith. O ganlyniad, collodd nifer bach o gwsmeriaid yng Ngheredigion, y canolbarth a Swydd Henffordd eu cyflenwad am nifer o ddiwrnodau tra oedd ein timau yn gweithio'n galed i adfer eu cyflenwad.



Canlyniad Ymrwymiadau Perfformiad AMP7 yn y FA 23: Dŵr

Ymrwymiad Perfformiad	Y FA 23	Targed y Penderfyniad Terfynol Y FA 23	Y FA 22	Statws v Targed	Gwobr / (cosb) £m
Cydymffurfiaeth ansawdd dŵr (Mynegai Risg Cydymffurfio) Mae'n mesur y risg sy'n deillio o fethiannau yn ymwneud â chydymffurfiaeth dŵr wedi'i drin	5.40	0	9.77		(1.659)
Toriadau yn y cyflenwad Munudau:eiliadau roedd cwsmeriaid heb gyflenwad dŵr ar gyfartaledd	44:31	05:45	16:17		(10.370)
Derbynioldeb dŵr yfed Cwynion am flas, arogl neu loywder dŵr fesul 1,000 o'r boblogaeth	2.35	1.91	2.44		(1.059)
Toriadau heb eu cynllunio % Mae'n mesur colli gweithgareddau tynnu a thrin dŵr dros dro	1.07	2.34	0.55		£0.000
Gosod pibellau cyflenwi newydd yn lle rhai plwm Lleihau nifer y pibellau plwm yn y rhwydwaith	1,731	4,200	1,410		Cymhellion Cyflawni Canlyniadau ar ddiwedd yr AMP

ALLWEDD  Targed Ofwat a gyflawnwyd neu y rhagorwyd arno  Targed Ofwat a fethwyd

Ceir rhagor o fanylion am fesurau ac unedau mesur ymrwymiadau perfformiad yn yr Atodiadau o dudalen 250 ymlaen. Bydd y Mynegai Risg Cydymffurfio yn aros yn ddyfarniad dros dro nes bod yr Arolygiaeth Dŵr Yfed wedi ei gyhoeddi'n swyddogol ym mis Gorffennaf.

Ar ôl adolygiad o'n mesurau ar gyfer Toriadau yn y Cyflenwad a Gosod pibellau cyflenwi newydd yn lle rhai plwm rydym bellach yn ailddatgan ein sefyllfa hanesydol gyda gwerthoedd ar gyfer y FA 22 yn newid o 16:12 i 16:17 a 1,462 i 1,410 yn y drefn honno.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Rydym wedi rhoi cynlluniau ar waith i wella ein perfformiad o ran yr ymrwymiadau perfformiad hyn. Mae hyn yn cynnwys y Cynllun Adfer Dŵr Yfed i wella'r tangyflawniad yn y FA 22 ar gyfer ein sgôr cydymffurfiaeth ansawdd dŵr (Mynegai Risg Cydymffurfio), gyda'r nod o gyrraedd perfformiad chwarterl uchaf y diwydiant. Mae'r prif ffocws ar ddargyfeirio oddi wrth danciau nad ydynt wedi cael eu glanhau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, a symud yr holl danciau eraill i gylchoedd glanhau nad ydynt yn hwy na phob pum mlynedd. Rydym hefyd yn ymgymryd â gwaith llifolchi wedi'i dargedu yn seiliedig ar raglen samplu ddwysach er mwyn lleihau methiannau haearn, sy'n risg sy'n deillio o'r hydroedd hir o bibellau haearn bwrw a etifeddwyd gennym.

Er mwyn gwella ein perfformiad o ran derbynioldeb dŵr yfed, rydym yn optimeiddio gweithfeydd trin er mwyn tynnu mwy o fanganis o'n dyfroedd ucheldirol meddal; gosod pibellau newydd yn lle'r rhai haearn bwrw a all achosi afliwio, a glanhau ein rhwydwaith drwy ein rhaglen o 'astudioethau parthol'.

Mae gwella ein perfformiad o ran toriadau yn y cyflenwad yn heriol oherwydd topograffi Cymru. Mae cwsmeriaid yn aml yn cael eu gwasanaethu gan un brif bibell gyflenwi gyda phwysedd gweithredu uchel yn ein rhwydweithiau gwledig lle nad oes cyflenwad amgen. Gall hyn arwain at waith atgyweirio peiranyddol cymhleth sy'n cymryd mwy o amser i'w gwblhau nag sy'n digwydd yn y rhan fwyaf o'n rhwydweithiau mwy trefol o bibellau, am mai prin yw'r cyfle i ddefnyddio cyflenwadau amgen i gadw cysylltiad cwsmeriaid. Er mwyn lliniaru effeithiau toriadau yn y cyflenwad, mae ein fflyd o 40 o danceri yn un o'r fflydoedd mwyaf yn y sector.

Er mwyn helpu i wella ein hamseroedd ymateb i doriadau yn y cyflenwad, rydym yn gwneud newidiadau trefniadol i ganoli ein hymateb i achosion o bibellau dŵr yn torri y tu allan i oriau a manteisio i'r eithaf ar leoliad ein timau ymateb lleol. Mae'r newid hwn i weithrediad 24/7 mwy ymatebol yn anelu at leihau'r amser a gymerir i drefnu i'n tanceri fod yn y lle priodol i ddarparu cyflenwadau dros dro; ac i'n timau atgyweirio ymateb; a'i gwneud yn bosibl i ddŵr gael ei ddargyfeirio o bibellau eraill lle y bo modd. Yn y tymor hwy bwriadwn symud i adnodd mwy rhagfynegol yn seiliedig ar ein rhaglen Rhwydweithiau Deallus, er mwyn gwella ein hamseroedd ymateb i ddigwyddiadau hyd yn oed ymhellach.



PERFFORMIAD: DŴR PARHAD

CYNNYDD TUAG AT DŴR CYMRU 2050

Rydym ar y trywydd cywir i gyflawni'r rhan fwyaf o'n Hymatebion Strategol sy'n gysylltiedig ag ateb heriau'r dyfodol ynglŷn â dŵr yfed, fel y dengys y tabl gyferbyn. Fodd bynnag, mae risgiau yn cynyddu mewn rhai meysydd, ac mae cryn ansicrwydd ynglŷn â gofynion buddsoddi yn y dyfodol, yn enwedig o ran y posibilrwydd y caiff safonau ansawdd dŵr llymach eu cyflwyno.

Credwn o hyd mai drwy weithredu mewn dalgylchoedd dŵr heb ei drin a chydweithio â phartneriaid yw'r ffordd fwyaf effeithiol a buddiol o ymdrin â'r bygythiadau i ansawdd dŵr heb ei drin.

Yna, bydd angen i ni sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau a gallu i storio dŵr heb ei drin, ei drin a'i ddosbarthu i'n cwsmeriaid, hyd yn oed o dan amodau sychder. Mae twristiaeth ddomestig gynyddol, ynghyd â newid yn yr hinsawdd, yn her i ni wrth gynllunio adnoddau dŵr. Fel pob cwmni dŵr, bob pum mlynedd rydym yn paratoi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr wedi'i ddiweddarau fel y sail dros sicrhau cyflenwadau digonol yn yr hirdymor. Mae'r cynllun yn ymgorffori'r rhagolygon diweddaraf ynglŷn â newid yn yr hinsawdd a'r galw gan gwsmeriaid. Mae rhaglen hirdymor wedi'i blaenoriaethu ar waith i arolygu strwythurau ein hargaeau, gan weithio gyda'n rheoleiddwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd a'u bod yn bodloni gofynion rheoleiddiol newydd.

Rydym yn datblygu cynlluniau ar gyfer gwaith trin newydd mawr yn y de-ddwyrain yn lle'r tri gwaith hŷn. Bydd hyn yn cryfhau ein rhwydwaith cyflenwi dŵr yn yr ardal, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd. Mae hyn yn rhan o gynllun hirdymor i ymgorffori mwy o hyblygrwydd ac integreiddio yn ein systemau trin a chyflenwi dŵr. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn adolygu lefelau diogelwch ein hasedau dŵr allweddol rhag bygythiadau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

O ran lefelau gwasanaeth cwsmeriaid, fel y nodir uchod, rydym yn wynebu her ar hyn o bryd o ran nifer y cysylltiadau gan gwsmeriaid sy'n ymwneud â dŵr tap wedi'i afliwio. Mae Dŵr Cymru 2050 yn amlinellu nod hirdymor o sicrhau 0.8-1.3 o gysylltiadau fesul 1000 o gwsmeriaid, drwy waith wedi'i dargedu i osod prif bibellau newydd yn lle'r rhai haearn bwrw. Yn y cyfnod presennol, yn lle hynny, mae ein hymdrechion yn canolbwyntio ar ansawdd dŵr heb ei drin a thynnu manganis ond yn y dyfodol disgwiliwn y bydd yn rhaid i ni gyflymu'r broses o osod prif bibellau newydd.

Mae ein rhoglen i osod pibellau cyflenwi newydd yn lle'r rhai plwm, ar ôl dechrau'n araf oherwydd pandemig COVID-19, bellach yn mynd rhagddi'n dda. Fodd bynnag, bydd angen i ni fireinio a chyflymu'r ffordd rydym yn gweithredu er mwyn dod yn agos at gael gwared ar y rhan fwyaf o'r pibellau cyflenwi plwm i'n cwsmeriaid erbyn 2050.



Dŵr Cymru 2050: Dŵr

Ymateb Strategol	Sylw	Statws
Diogelu dŵr yfed glân drwy reoli dalgylchoedd	▲	Mae angen parhau â'r gwaith i ddatblygu dull o fynd i'r afael â halogyddion sy'n dod i'r amlwg.
Digon o ddŵr i bawb	▲	Mae ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn amlinellu ein bwriad i sicrhau bod y galw yn gytbwys â'r cyflenwad.
Gwella dibynadwyedd systemau cyflenwi dŵr yfed	▲	Mae hafau sychach yn golygu bod angen i ni gynnig mwy o hyblygrwydd i symud dŵr rhwng parthau cyflenwi i wella cydnherthedd.
Diogelu ein hasedau cyflenwi dŵr allweddol	▲	Mae risgiau megis llifogydd ac ymosodiadau seiber yn cynyddu – rydym yn gwella'r ffordd rydym yn dadansoddi risg hirdymor a'n gallu i'w rheoli.
Sicrhau ansawdd dŵr derbyniol i bob cwsmer	●	Mae angen cyflymu'r broses o osod prif bibellau cyflenwi newydd, ond mae angen hefyd i ni nodi atebion arloesol i fynd i'r afael ag afliwio yn y tymor hwy.
Tuag at Gymru ddi-blwm	●	Mae'n gofyn am gael gwared ar bibellau plwm yn gyflymach a chostau is.
Rheoli systemau dŵr yn ddoeth	▲	Mae angen uwchraddio o hyd wrth i dechnoleg weithredol hŷn ddirwyn i ben. Bwriedir hefyd fanteisio ar gyfleoedd newydd sy'n deillio o ddatblygiadau technolegol, gan gynnwys mesuryddion deallus.

ALLWEDD ▲ Ar y trywydd cywir ● Mewn perygl

Ein cynllun ar gyfer yr ymatebion strategol hynny nad ydynt ar y trywydd cywir ar hyn o bryd

Ymateb Strategol 5: sicrhau ansawdd dŵr derbyniol i bob cwsmer

Mae 'derbynioldeb' dŵr yn cyfeirio at achosion o afliwio neu annormaleddau arogl neu flas, wedi'u mesur yn ôl sawl gwaith y bydd cwsmeriaid yn cysylltu â ni mewn perthynas ag achosion o'r fath. Mae ein perfformiad yn y maes hwn ar ei hôl hi o gymharu â'r rhan fwyaf o'r diwydiant. Ein prif her yw afliwio a achosir gan ddyddodion sy'n cronni mewn hen brif bibellau cyflenwi haearn bwrw, a all wedyn gael eu rhyddhau i mewn i ddŵr yfed.

Mae hwn yn faes cymhleth ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i fynd i'r afael ag ef. Mae'r Arolygiaeth yn gefnogol i'r dull gweithredu wedi'i dargedu rydym yn ei ddilyn, ac rydym yn cyflawni gwelliannau. Mae rhai pethau y gallwn eu gwneud 'ymhellach i fyny' i liniaru'r broblem, megis tynnu manganîs yn ei darddle drwy wella perfformiad ein gweithfeydd trin. Ymhellach i lawr yn y broses, rydym yn glanhau pibellau yn amlach. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae gosod prif bibellau cyflenwi newydd yn debygol o fod yn rhan fawr o'r ateb yn yr hirdymor. Mae hyn yn gostus, a'r prif rwystr felly yw fforddiadwyedd, sy'n dibynnu ar ganlyniad yr asesiad o'r costau y mae'r broses rheoli prisiau yn caniatáu eu hadennill drwy filiau cwsmeriaid. Bydd angen i'r holl weithgareddau hyn gael eu cyflawni er mwyn parhau i wella perfformiad.

Ymateb Strategol 6: tuag at Gymru ddi-blwm

Mae hwn yn Ymateb Strategol anarferol yn yr ystyr ei fod yn mynd y tu hwnt i'n swyddogaethau craidd, drwy gyfnewid y gyfran o bibellau cyflenwi sy'n eiddo i'r cwsmer pan ddarganfyddir plwm. Mae'r buddsoddiad hwn y tu allan i'n rhwydwaith ein hunain yn rhan o'n cyfraniad at gyflawni nodau cymdeithasol a llywodraethol ehangach, o ystyried y cysylltiad agos â'n dyletswyddau ein hunain i ddarparu dŵr yfed diogel. Rydym yn gwneud cynnydd eithaf da yn y cyfnod buddsoddi presennol (AMP7), er gwaethaf dechrau'n araf oherwydd y pandemig, ond ar y gyfradd gyfnewid bresennol, ni fyddwn yn gallu cael gwared ar yr holl bibellau cyflenwi plwm erbyn 2050. Bydd angen cyflymu'r gyfradd gwariant, oni allwn ostwng y gost fesul uned yn sylweddol. Fodd bynnag, nid cost yw'r unig her – wrth i ni frwr ymlaen â'r gwaith, rydym yn dysgu am agweddau cwsmeriaid, sut i gynnal y rhaglen yn effeithiol ochr yn ochr â sicrhau manteision eraill i gwsmeriaid, a sut i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar gwsmeriaid. Felly, byddwn yn parhau i adolygu'r Ymateb Strategol hwn, ac yn cynnal deialog barhaus â Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ynglŷn â'r dyhead hirdymor.



PERFFORMIAD: YR AMGYLCHEDD

PERFFORMIAD YN Y FA 23

Gwnaethom berfformio'n gymharol dda, gyda pherfformiad dim ond ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol, o ystyried dwysedd y digwyddiadau tywydd eithafol a brofwyd yn y FA 23.

O ganlyniad i lawiad is yn ystod yr haf sych a phoeth gwelwyd:

- cynnydd yn nifer y pibellau dosbarthu dŵr a dorrodd (sy'n debygol o dorri o dan amodau daear sych) o ganlyniad i grebachu'r pridd, gan achosi mwy o ollyngiadau dŵr,
- cynnydd o ran faint o ddŵr roedd cwsmeriad yn ei ddefnyddio, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle cafwyd amodau poeth a sych,
- lleihad yn lefel dŵr afonydd, a effeithiodd ar achosion o lygredd.

Cafwyd hefyd ddigwyddiad rhew/dadmer sylweddol ym mis Rhagfyr a achosodd gynnydd sylweddol yn nifer y gollyngiadau dŵr oherwydd nifer y pibellau dosbarthu dŵr a dorrodd. Gwelwyd mwy o'n pibellau sment asbestos â leinin sment yn torri yn ein hardaloedd gwledig yn y canolbarth a'r gorllewin. Mae achosion o'r fath yn heriol iawn i'w hatgyweirio am ei bod yn anodd cyrraedd ardaloedd anghysbell a bod angen i'r pibellau gael eu torri allan yn gyfan gwbl heb gyflenwad dŵr amgen oherwydd diffyg rhyngysylltedd yn y rhwydwaith.

Mae'r digwyddiadau tywydd wedi bod yn ffactorau perthnasol a gyfrannodd at ein methiant i gyflawni targedau'r Penderfyniad Terfynol o ran gollyngiadau dŵr, defnydd y pen ac achosion o lygredd.

Yn y FA 23, cafwyd wyth methiant yn ymwneud â Chydymffurfiaeth Gweithfydd Trin yn ein hystad o 596 o weithfeydd trwyddedig: dau yn fwy nag yn y FA 22 (6). Er gwaethaf hyn, roedd tri o'r methiannau yn ystod y FA 23 yn rhai technegol yn ein gweithfeydd trin briglif cyfatebol (PFET) lle na fu unrhyw effaith amgylcheddol wirioneddol ond na wnaethom fodloni gofynion y drwydded. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella ein prosesau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Yn ystod y FA 23, rydym wedi cwblhau adolygiad o'n methodoleg adrodd ar gyfer gollyngiadau dŵr a defnydd y pen. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y gollyngiadau dŵr a lleihad yn ein defnydd y pen o gymharu â'r data a gofnodwyd yn wreiddiol. Rydym wedi ailddatgan ein data ar y mesurau hyn ar gyfer y FA 21 a'r FA 22. Gweler tudalen 56 i 57 am ragor o fanylion ynglŷn â'r ailddatganiad, gan gynnwys yr iawndal rydym yn bwriadu ei dalu i gwsmeriaid.



Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Caerdydd

Canlyniad Ymrwymïadau Perfformïad AMP7 yn y FA 23: Yr Amgylchedd

Ymrwymïad Perfformïad	Y FA 23	Targed y Penderfyniad Terfynol Y FA 23	Y FA 22	Statws v Targed	Gwobr / (cosb) £m
Cydymffurfïaeth gweithfeydd trin % Cydymffurfïaeth â thrwyddedau gollwng fel canran	98.49	100	98.32		(0.357)
Achosïon o lygredd Nifer yr achosïon Fesul 10,000km o garthffosydd	24.55	23.00	22.90		(0.333)
Gollyngïadau dŵr % Lleihad cyfartalog tair blynedd mewn gollyngïadau dŵr	-11.5	7.3	-7.3		(9.927)
Defnydd y pen % Lleihad cyfartalog tair blynedd yn nefnydd y pen	-6.2	3.0	-5.6		Diwedd Cymhellïon Cyflawni Canlyniadau'r AMP

ALLWEDD Targed Ofwat a gyflawnwyd neu y rhagorwyd arno Targed Ofwat a fethwyd

Mae'r gosb am ollyngïadau dŵr yn cynnwys £-4.486 mewn perthynas â pherfformïad y FA 23. Ceir rhagor o fanylion am fesurau ac unedau mesur ymrwymïadau perfformïad yn yr Atodiadau o dudalen 250 ymlaen. Bydd cydymffurfïaeth gweithfeydd trin ac achosïon o lygredd yn aros yn ffigur dros dro nes y cawn gadarnhad gan Cyfoeth Naturïol Cymru.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

O ran achosïon o lygredd, mae ein hymdrechïon yn parhau i ganolbwyntio ar ostwng lefelau'r llygryddïon mwyaf niweidiol yn ein hafonydd ac rydym wedi cyhoeddi ein Manïffesto ar gyfer Afonydd <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment> er mwyn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni hyn. Mae hyn yn cynnwys ein hymrwymïad i fynd i'r ofael â systemau gorlif storm cyfun, gan flaenorioethu'r rhai hynny sy'n effeithio ar ansawdd afonydd, neu sy'n bryder esthetig.

Gan ddefnyddio'r fframwaith asesu systemau gorlif storm rydym wedi dechrau gwerthuso effaith dros 800 o'n 2,300 o systemau gorlif storm cyfun yn ystod yr AMP hwn ac rydym eisoes wedi cwblhau'r asesiad hwn ar afonydd mewn ardaloedd cadwraeth arbennig ac wedyn wedi pennu cynllun buddsoddi clir ynglŷn â sut y byddwn yn gwella'r gollyngïadau sy'n cael yr effaith fwyaf yn ystod AMP7. Hefyd yn ystod AMP7, rydym wedi cynyddu nifer y Monitorau Hyd Digwyddïadau fel bod 99.5% o'n systemau gorlif storm cyfun yn cael eu monitro rhag gollyngïadau. Darperir y data hyn i'r rheoleiddwyr amgylcheddol, ac rydym hefyd yn darparu gwybodaeth amser real am ollyngïadau ar gyfer dyfroedd ymdrochi allweddol i'r rhai â diddordeb, gan gynnwys Surfers Against Sewage a'r Ymddiriedaeth Afonydd. Yn y modd hwn caiff ein rhanddeiliad y wybodaeth ddiweddaraf. Rydym hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio ein cynlluniau buddsoddi. Bydd ein fframwaith asesu a gwell gwybodaeth yn ein galluogi i wneud penderfynïadau buddsoddi ar sail gwybodaeth am weddill AMP7 ac AMP8, lle mae ein cynlluniau yn cynnwys buddsoddiad o £400 miliwn i wella systemau gorlif storm cyfun.

Rydym wedi cynyddu lefel yr adnoddau i leihau gollyngïadau dŵr yn ein cynlluniau er mwyn targedu llai o ollyngïadau dŵr o'r prif bibellau cyflenwi a gollyngïadau dŵr llai o faint dros y ddwy flynedd nesaf. Ar gyfer mân ollyngïadau dŵr, byddwn yn cynyddu ein timau canfod ac atgyweirio, a fydd yn canolbwyntio ar atgyweirio'r difrod a achoswyd i'n rhwydwaith yn ystod rhew/dadmer y gaef.

Rydym hefyd yn cynyddu lefel ein buddsoddiad yn ein prosiect 'colledïon ymhellach i fyny' sy'n targedu prif bibellau cyflenwi mawr a byddwn yn gwneud hyn mewn tri cham:

i. targedu gollyngïadau dŵr drwy ddata a mesuryddïon,

ii. canfod gollyngïadau dŵr ar safleoedd drwy nifer o dechnegau,

iii. atgyweirio gollyngïadau dŵr drwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

Er ein bod yn hyderus yn ein prosesau i dargedu ac atgyweirio gollyngïadau dŵr, efallai y bydd ein cynnydd yn cael ei lesteirio gan ystyriaethau iechyd a diogelwch, yn enwedig wrth weithio gyda phibellau diamedr mawr â phwysedd uchel; yr effaith bosibl ar ansawdd dŵr; a digwyddïadau tywydd yn y dyfodol a allai ein hatal rhag gweithio neu ein gorfodi i ailbennu adnoddau er mwyn sicrhau nad effeithir ar ein cwsmerïad.

Er mwyn lleihau defnydd y pen yn yr hirdymor bydd angen i ni ddylanwadu ar ymddygiad defnydd ein cwsmerïad, a datblygu systemau dosbarthu dŵr mwy effeithlon i aelwydydd. Byddwn yn sicrhau'r canlyniadau hyn drwy'r canlynol:

- Cynyddu nifer y mesuryddïon sydd gan ein cwsmerïad, oherwydd mae ein data presennol yn dangos bod cwsmerïad sydd â mesuryddïon yn tueddu i ddefnyddio llai o ddŵr.
- Datblygu ymgyrch newid ymddygiad sy'n esbonio'r cysylltiadau rhwng y dŵr a ddefnyddir gan ein cwsmerïad a'r amgylchedd o'u hamgylch, gan gynnwys yr ôl troed carbon a'r costau iddynt. Mae'n hanfodol i'r strategaeth ein bod yn codi ymwybyddïaeth, gan roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ein cwsmerïad i ystyried y rôl y bydd angen iddynt ei chwarae.
- Dadlau o blaid newidiadau i'r rheoliadau adeiladu sy'n symud tuag at gynaeafu dŵr llwyd a systemau cyflenwi mwy effeithlon i gwsmerïad.
- Hyrwyddo'r ymgyrch i gyflwyno labeli ar nwyddau gwyn sy'n nodi eu heffeithlonrwydd dŵr er mwyn i gwsmerïad gael y wybodaeth gywir wrth wneud penderfynïadau am effeithlonrwydd cyfarpar yn y cartref.

Mae ein cynllun busnes mewnol yn rhagweld y bydd perfformïad o ran Gollyngïadau dŵr, Defnydd y pen, Cydymffurfïaeth gweithfeydd trin ac Achosïon o lygredd yn gwella dros y 12 mis nesaf. Bydd y gwelliannau hyn yn golygu y byddwn yn cyflawni targedau'r Penderfyniad Terfynol yn y FA 24.



PERFFORMIAD: YR AMGYLCHEDD PARHAD

Ailddatgan data perfformiad Gollyngiadau Dŵr a Defnydd y Pen

Nododd Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon Dŵr Cymru a gyhoeddwyd yn 2022 fod y data ar ollyngiadau dŵr a defnydd y pen wrthi'n cael eu hadolygu.

Fel rhan o'n proses sicrwydd data flynyddol, mae'r data a ddefnyddiwyd yn ein Hadroddiad Perfformiad Blyneddol i Ofwat yn cael eu hadolygu'n drwyadl gan gwmni arbenigol sicrwydd allanol annibynnol. Ym mis Mai 2021, fel rhan o'r broses o baratoi ein Hadroddiad Perfformiad Blyneddol i Ofwat, nododd y prosesau sicrwydd diwedd y flwyddyn rai materion ansylweddol o ran yr adroddiadau ar ollyngiadau dŵr a defnydd y pen, a gofynnodd Tîm Rheoleiddio Dŵr Cymru am i 'archwiliad dwfn' o'r materion hyn gael ei gynnal yn 2021-22.

Cyflwynwyd adroddiad annibynnol i Dŵr Cymru ym mis Mawrth 2022 a nododd ddau faes o ddifffyg cydymffurfiaeth â'r fethodoleg a ragnodwyd ar gyfer adroddiadau ar ollyngiadau dŵr a defnydd y pen. Cadarnhawyd y canfyddiadau hyn gan ail adolygiad annibynnol a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2022 ac argymhellodd y dylid gwneud gwelliannau i gryfhau perfformiad adrodd y cwmni ar ollyngiadau dŵr a defnydd y pen.

Daeth yr adolygiadau i'r casgliad bod gollyngiadau dŵr wedi cael eu tannatgan ar gyfer y FA 21 a'r FA 22 a bod defnydd y pen wedi cael ei orddatgan ar gyfer yr un cyfnodau. Mae'r tablau isod yn dangos y data fel y'u cyhoeddwyd yn wreiddiol ac mae ein sefyllfa wedi'i hailddatgan wedi cael ei rhannu ag Ofwat.

Ailddatgan Defnydd y Pen

Defnydd y pen (L/p/d) yn ystod y flwyddyn	Y FA 21	Y FA 22
Defnydd y pen a gofnodwyd yn flaenorol	176.0	174.7
Defnydd y pen a ailddatganwyd	160.9	154.8

Ailddatgan Gollyngiadau Dŵr

Gollyngiadau Dŵr (ML/d) yn ystod y flwyddyn	Y FA 21	Y FA 22
Gollyngiadau dŵr a gyhoeddwyd yn flaenorol	163.6	157.4
Gollyngiadau dŵr a ailddatganwyd	232.7	240.3

Ceir data cymharol ar gyfer cwmnïau dŵr eraill yng Nghymru a Lloegr yn discoverwater.co.uk.

Er i broses sicrwydd gadarn y Cwmni nodi'r broblem, roedd methiannau yn y prosesau llywodraethu a rheoli a ddylai fod wedi nodi'r broblem yn gynt. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r ffordd y caiff gweithgareddau lleihau gollyngiadau dŵr eu rheoli, a'u cofnodi, ac mae prosesau llywodraethu wedi cael eu cryfhau, gan gynnwys creu Pwyllgor Goruchwyllo Gollyngiadau Dŵr o'r Bwrdd. At hynny, mae swm ychwanegol o £54 miliwn wedi cael ei ddyrannu i leihau gollyngiadau dŵr ymhellach. Caiff pob cwsmer gredyd o £10 i'w gyfrif oherwydd y camddatganiad hwn a'i effeithiau.

Ar 25 Mai, cyhoeddodd Ofwat ei bod yn lansio ymchwiliad i'r ffordd roeddem wedi cofnodi gollyngiadau dŵr a defnydd y pen. Rydym wedi rhannu canfyddiadau ein hymchwiliadau mewnol, y camau unioni a gymerwyd gennym a'n cynigion gwneud iawn i gwsmeriaid ag Ofwat. Byddwn wrth gwrs yn cydweithredu'n llawn â'r ymchwiliad.

Mae adrannau eraill o'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cyfeirio at Ailddatgan data perfformiad Gollyngiadau dŵr a Defnydd y pen.

Adran	Cynnwys	Tudalen
Datganiad Cadeirydd y Bwrdd	Crynodeb ac ymddiheuriad	24
Neges y Prif Swyddog Gweithredol	Crynodeb ac ymddiheuriad	28
Adolygiad y Prif Swyddog Ariannol	Crynodeb o'r effeithiau ariannol a'r pecyn gwneud iawn	34
Datganiad A172	Penderfyniadau'r Bwrdd ar ymateb, gan gynnwys gwneud iawn i gwsmeriaid	71
Datganiadau ariannol a nodiadau	Darpariaeth a dyfarniad cysylltiedig	219
	Costau hysbys	222
	Goblygiadau ariannol	222
Adroddiad y Pwyllgor Archwilio	Adolygiad o adroddiadau annibynnol ar broblemau adrodd Ystyriaeth o'r driniaeth yn y datganiadau ariannol	158
Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd	Cyflwynwyd y papur ar Adfer Gollyngiadau Dŵr AMP7 yn ei gyfarfod ym mis Mai 2023 (eitem ar yr agenda pan oedd pob Aelod o'r Bwrdd yn bresennol)	164
Perfformiad: Yr Amgylchedd	Adroddiad manylach ar ddata perfformiad	54
Cyflwyniad y Cadeirydd i Lywodraethu	Crynodeb a'r cynnig adfer, prosesau llywodraethu a rheoli, gan gynnwys sefydlu'r Pwyllgor Goruchwyllo Gollyngiadau Dŵr	134
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	Asesiad o'r driniaeth gyfrifyddu a datgeliadau yn Nodyn 17 o'r Datganiadau Ariannol	199–206



PERFFORMIAD: YR AMGYLCHEDD PARHAD

CYNNYDD TUAG AT DŴR CYMRU 2050

Mae dwy elfen i'r her hirdymor allweddol hon yn y maes hwn. Yn gyntaf, addasu ein hasedau i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac ehangu trefol. Yn ail, lliniaru'r effaith bosibl ar gwsmeriaid, ac ar ansawdd dŵr yn ein dyfrffyrdd a'n dyfroedd ymdrochi. Mewn ymateb, mae ein strategaeth hirdymor yn cynnwys cyflwyno systemau draenio mwy cynaliadwy mewn cytreff mawr, a thrwy hynny leihau mewnlif dŵr wyneb i mewn i'r carthffosydd cyfun. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i ni weithio gydag awdurdodau lleol, yr Asiantaeth Briffyrdd a pherchnogion preifat systemau draenio megis archfarchnadoedd mawr. Mae ein cynnydd yn ystod yr AMP presennol wedi bod yn siomedig am fod yn rhaid i ni ymateb i flaenoriaethau brys, megis ansawdd dŵr afonydd (gweler isod). Mae cost y datrysiadau hyn yn dal i fod yn uchel hefyd, a bydd angen darparu cyllid ychwanegol i'r awdurdodau lleol yn enwedig er mwyn iddynt allu uwchraddio eu sylfaen osedau sy'n bwydo dŵr wyneb i mewn i'r system garthffosiaeth gyfun.

Mae ein cwsmeriaid, ein rheoleiddwyr a'r cyfryngau wedi rhoi ffocws cynyddol ar y ffordd y mae systemau gorlif storm cyfun yn gweithredu a'u heffaith ar ansawdd dŵr afonydd. Mae ein hymateb strategol yn Dŵr Cymru 2050 i gael nodau ac afonydd glanach 'mewn perygl', oherwydd twf yn y boblogaeth, newid mewn defnydd tir, newid yn yr hinsawdd a ffynonellau gwasgaredig o lygredd. Mae ein Manifesto ar gyfer Afonydd yn nodi'n glir sut y byddwn, dros gyfnodau AMP sydd i ddod, yn gwella ein hasedau i leihau eu heffaithiau ar ein hafonydd. Mae ar gael ar-lein yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment>

Rydym hefyd yn paratoi ar gyfer cyhoeddi ein Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff cyntaf, sef fframwaith cynllunio hirdymor cynhwysfawr sy'n ymwneud â thrin carthion a draenio. Bydd yn amlinellu rhai o'r dulliau gweithredu a'r fframweithiau allweddol y byddwn yn eu defnyddio i wella'r ffordd y rheolir dŵr gwastraff. Bydd angen i ni fodelu effaith newid yn yr hinsawdd yn fanwl, a datblygu cynllun buddsoddi hirdymor i uwchraddio ein hasedau i ddarparu ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd, a lleihau effeithiau llygru gollyngiadau storm yn benodol.

Fel y nodwyd yn ein diweddariad strategol a'r prif risgiau, mae newid yn yr hinsawdd yn risg sylweddol i'r busnes, gan roi pwysau ar gydnerthedd ein gweithfeydd trin dŵr a dŵr gwastraff allweddol, yn enwedig o ganlyniad i'r perygl cynyddol o lifogydd. Rydym yn cymryd camau yn ystod y cyfnod presennol i wella cydnerthedd rhag toriadau mewn pŵer, ac yn diweddarau ein cynlluniau parhad busnes. Rydym hefyd yn adolygu perygl llifogydd ac yn datblygu cynllun hirdymor i ddiogelu osedau allweddol ar sail wedi'i blaenoriaethu.

Yn 2020, gwnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Sero Net, ac rydym yn gwneud cynnydd yn gyson â'r cynllun i sicrhau 'sero net' ar yr holl allyriadau carbon corfforedig a gweithredol erbyn 2040. Rydym yn gwella ein dealltwriaeth o effaith allyriadau sy'n ffoi o brosesau trin dŵr gwastraff, ond erys ansicrwydd o hyd. Bydd y cynnydd a wnawn yn y dyfodol yn dibynnu'n fawr ar lwyddiant ein cais am gyllid i gefnogi'r buddsoddiad angenrheidiol yn PR24.



Cronfa ddŵr Caban Coch, Cwm Elan

Dŵr Cymru 2050: Yr Amgylchedd

Ymateb Strategol	Sylw	Statws
Cefnogi ecosystemau a bioamrywiaeth	▲	Cyfleoedd i wneud rhagor, gyda chyllid priodol a chymorth partneriaid.
Defnyddio natur i leihau perygl llifogydd a llygredd	●	Mae ansawdd dŵr afonydd yn achos pryder allweddol sy'n gofyn am ddatrysiadau cynaliadwy. Rydym wrthi'n gweithio gyda'r Llywodraeth i helpu i ddatblygu polisi newydd i gefnogi newid.
Afonydd a thraethau glanach	●	Mae angen cynyddu buddsoddiad a dod o hyd i ddulliau mwy effeithiol o gydweithio, yn enwedig i annog mwy i fabwysiadu Datrysiadau Draenio Trefol Cynaliadwy.
Diogelu ein hasedau dŵr gwastraff allweddol	▲	Mae perygl llifogydd yn cynyddu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.
Sicrhau allyriadau carbon sero net erbyn 2040 a hyrwyddo economi gylchol	▲	Bydd angen buddsoddiad cynyddol drwy broses PR24. Bydd buddsoddiadau AMP8 hefyd yn cynyddu ein hól troed carbon cwrpas 3, a fydd yn achosi mwy o heriau.

ALLWEDD ▲ Ar y trywydd cywir ● Mewn perygl

Ein cynllun ar gyfer yr Ymatebion Strategol hynny nad ydynt ar y trywydd cywir ar hyn o bryd

Ymateb Strategol 15: defnyddio natur i leihau perygl llifogydd a llygredd

Roedd ein rhaglen GlawLif yn Llanelli yn enghraifft gynnar o ddefnyddio datrysiadau carbon isel, sy'n ystyriol o natur, i unioni problem dŵr ffô wyneb gormodol, a fyddai fel arall yn gofyn am ddatrysiad carbon dwys. Fodd bynnag, mae'n cymryd amser i ddatblygu'r dull gweithredu hwn a'i roi ar waith, ac mae'r costau yn sylweddol iawn. Ein nod yw defnyddio'r un dull gweithredu hwn, maes o law, mewn ardaloedd trefol eraill o Gymru, er mwyn helpu i addasu at yr hinsawdd sy'n newid drwy arafu a lleihau'r dŵr ffô sy'n mynd i mewn i gorthffosydd cyfun a all arwain at lifogydd a llygredd yn ystod glaw trwm.

Wrth ystyried sut i ddefnyddio'r dull gweithredu hwn yn fwy cyffredinol bydd angen i ni ystyried heriau cost a fforddiadwyedd, a chydbwysu'r rhain yn erbyn y pwysau eraill ar ein cynllun buddsoddi, ac yn erbyn fforddiadwyedd i gwsmeriaid. Fodd bynnag, gwyddom fod y cynlluniau hyn yn cynnig manteision y tu hwnt i'r prif amcan, sef lleihau dŵr ffo, gan gynnwys bioamrywiaeth, lleihau carbon a budd i iechyd meddwl. Bydd datblygu dull o werthuso buddiannau o'r fath a dderbynnir, drwy ddefnyddio dull cyfrifyddu 'amlgyfalaf' neu 'cyfrifyddu cyfalaf naturiol', yn ein helpu i weithio gyda phartneriaid i lunio achos dros fuddsoddiadau o'r fath yn y tymor hwy.

Ymateb Strategol 16: afonydd a thraethau glanach

Yn ystod y flwyddyn hon gwelwyd mwy o sylw i iechyd afonydd ledled y DU gan y cyhoedd, rheoleiddwyr a'r llywodraeth, ac mae Afon Gwy yn enghraifft amlwg yn eu plith. Hoffem weld cynnydd cyflymach o ran gwella iechyd afonydd yng Nghymru, ond mae hwn yn fater cymhleth lle mae cwmnïau dŵr ond yn un o nifer o gyfranwyr pwysig at y sefyllfa, a lle rydym yn gweithredu gyda gwybodaeth amherffaith am achosion ac effeithiau llygredd.

Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn bydd angen buddsoddiad sylweddol, a dod o hyd i ateb i'r broblem ar y cyd â rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill, sy'n seiliedig ar wybodaeth dda, sy'n ateb hirdymor, ac sy'n canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf – yr effaith wirioneddol ar yr amgylchedd. Dyma beth rydym yn ei wneud, gan weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill. Rydym yn ymrwymedig i gydweithio, er mwyn mynd i'r afael â phroblemau lle mae ein hasedau yn achosi risg i'r amgylchedd, a hefyd i dreialu dulliau rheoleiddio mwy hyblyg sy'n hwyluso'r camau gweithredu cywir ac sy'n sicrhau canlyniadau dros yr hirdymor mewn ffordd effeithlon.



PERFFORMIAD: CWSMERIAID

PERFFORMIAD YN Y FA 23

Yn ddi-os, bu hon yn flwyddyn heriol i gwsmeriaid. Mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith sylweddol ar ein cwsmeriaid a'u gallu i dalu. Mae digwyddiadau tywydd mawr, yn ystod yr haf a'r gaeaf, wedi effeithio arnynt hefyd.

Er gwaethaf yr heriau hyn, nid effeithiwyd ar ein perfformiad o ran boddhad cwsmeriaid yn y FA 23, a fu'n gwella yn erbyn mesur C-MeX o'r pumed safle yn y FA 22 i bedwerydd yn y FA 23. Rydym yn disgwyl aros yn chwarterl uchaf tabl C-MeX yn ystod y FA 24 a byddwn yn gwneud pob ymdrech i wella ein perfformiad bob blwyddyn.

Mae'n siomedig nodi nad ydym wedi cyflawni ein targed ar gyfer cyfanswm y cwynion, sy'n adlewyrchu'r heriau a wynebwyd gennym yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y cyfnod o sychder, y digwyddiad rhew/dadmer a'r oedi cyn gosod mesuryddion oherwydd y galw mawr. Yn erbyn y cyd-destun hwn, rydym yn gweld budd o'r gwelliannau a wnaed gennym i hyfforddiant a datblygiad cynghorwyr, technoleg newydd megis Track My Job; a lleihad yn nifer y cwynion sy'n gysylltiedig ag adennill dyled a gofyn am ddiweddariadau.

Rydym wedi parhau i helpu cwsmeriaid mewn angen. Y flwyddyn hon, rydym wedi parhau i gynyddu nifer y cwsmeriaid sy'n cael Gwasanaethau â Blaenoriaeth ac rydym eisoes wedi cyflawni yn erbyn y targed ar gyfer yr AMP llawn y flwyddyn diwethaf (tair blynedd yn gynharach na'r bwriad).

Ym marn cwsmeriaid, corthffosydd yn gorlifo yw'r methiant gwasanaeth gwaethaf. Mae'n dda gennym weld perfformiad llawer gwell y flwyddyn hon lle rydym wedi rhagori ar ein targed ac wedi cael gwobr o £2 miliwn o ganlyniad i hynny. Roedd y cyfnod estynedig o dywydd sych yn ystod haf 2022 yn un o'r ffactorau allweddol a ysgogodd y perfformiad gwell. Rydym yn rhagweld y byddwn yn parhau i wella yn y maes hwn, ond i raddau llai yn y FA 24.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, cyflawnwyd ein targedau ar gyfer lleihau achosion o garthffosydd yn dymchwel. Gwnaethom gynydd da hefyd o ran nodi rhwystrau a diffygion cyn iddynt ddatblygu'n fethiannau yn y gwasanaeth.

Dirywiodd ein perfformiad yn D-MeX ychydig o gymharu â'r flwyddyn diwethaf, yn safle 13. Mae'r cymorth a'r gwasanaethau a ddarparwn i'n holl gwsmeriaid sy'n ddatblygwyr yn parhau'n flaenoriaeth i'r Cwmni ac yn hollbwysig o ran cefnogi'r economi ehangach. Nid oes modd cymharu ein sgôr D-MeX yn uniongyrchol â sgoriau cwmnïau dŵr eraill oherwydd y gwahaniaeth rheoleiddiol fel y'i nodwyd ar dudalen 60.

Er i ni berfformio'n dda o ran Boddhad Cwsmeriaid Busnes, gan sgorio 4.4/5, mae hyn ychydig yn is na'n targed yn y Penderfyniad Terfynol ac mae wedi arwain at gosb fach.

Ar y cyfan, mae ein biliau yn dal i fod yn fforddiadwy i gwsmeriaid, ac nid ydym wedi gweld newid sylweddol yn y cyfraddau talu.



Digwyddiad Cwsmeriaid mewn Sefyllfa Fregus, Casnewydd

Canlyniad Ymrwymïadau Perfformïad AMP7 yn y FA 23: Cwsmerïaid

Ymrwymïad Perfformïad	Y FA 23	Targed y Penderfynïad Terfynol Y FA 23	Y FA 22	Statws v Targed	Gwobr/ (cosb) £m
Llifogydd carthion mewnol Nifer yr achosion fesul 10,000 o gysylltiadau	1.14	1.58	1.36	▲	1.880
Carthffosydd yn dymchwel Nifer yr achosion fesul 1,000 km o garthffosydd	6.68	7.20	6.71	▲	0.000
Cyfanswm y cwynïon Cwsmerïaid preswyl fesul 10,000 o gysylltiadau	49.9	Chwartzel uchaf	28.2	●	(0.030)
Lefel drwgddyddïedïon y Cwmni % y referïw nas casglwyd fel cyfran o gyfanswm y referïw bilïedïg	2.9	2.1	2.4	●	Enw da
C-MeX Asesiad cymharol Ofwat o foddhad cwsmerïaid	4ydd	Dd/G	5ed	▲	2.191
D-MeX Mesur Ofwat o wasanaeth cwsmerïaid ar gyfer cwsmerïaid cysylltiadau newydd	13eg	Dd/G	12fed	●	1.156
Boddhad cwsmerïaid busnes Sgôr allan o 5 yn seilïedïg ar arolygon o gwsmerïaid busnes	4.4	4.5	4.4	●	(0.125)
Gwasanaethau â blaenoriaeth i gwsmerïaid mewn amgylchiadau bregus Cyfran yr aelwydydd ar ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth	10.4	5.6	8.1	▲	Enw da

ALLWEDD ▲ Targed Ofwat a gyflawnwyd neu y rhagorwyd arno ● Targed Ofwat a fethwyd

Ceir rhagor o fanylion am fesurau ac unedau mesur ymrwymïadau perfformïad yn yr Atodiadau o dudalen 250 ymlaen.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Rydym yn anelu at sbarduno gwell perfformïad ym mhob rhan o'n busnes manwerthu drwy ein strategaeth TG newydd. Bydd yn ehangu ein gwasanaethau digïdol ac yn cynnig profïad llawer gwell i gwsmerïaid.

O ran D-MeX, rydym yn wynebu her o ran gwella ein perfformïad am fod y trefniadau cyfreithïol a rheoleiddïol ar gyfer gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff i gwsmerïaid sy'n ddatblygwyr yng Nghymru yn wahanol i'r rhai sydd ar woith ar gyfer cwmnïau dŵr sydd yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf. O ganlyniad, nid oes modd cymharu ein perfformïad D-MeX yn uniongyrchol â pherfformïad cwmnïau eraill. Fodd bynnag, roedd ein perfformïad yn y chwartzel uchaf o ran yr elfen feintïol o'r mesur hwn, ac rydym yn parhau i wneud gwellïannau o flwyddyn i flwyddyn o ran ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Ar hyn o bryd, rydym yn dadlau o blaid mireinio D-MeX fel rhan o PR24 er mwyn i berfformïad a chymariaethau yn y dyfodol adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y cyfundrefnau rheoleiddïo rhwng Cymru a Lloegr.



Canol Tref Dinbych-y-pysgod



PERFFORMIAD: CWSMERIAID PARHAD

CYNNYDD TUAG AT DŴR CYMRU 2050

Rydym yn disgwyl i'r tueddiadau demograffig diweddar barhau tan 2050, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio. Mae hyn yn tanlinellu pa mor bwysig yw ein strategaeth ynglŷn â chwsmeriaid mewn sefyllfa fregus. Mae Dŵr Cymru 2050 yn esbonio sut rydym yn ymateb i'r her hon, gan weithio'n effeithiol gyda phartneriaid a darparwyr gwasanaethau eraill i roi cymorth priodol ac effeithiol i gwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus.

Mae gennym nifer bach o gwsmeriaid sy'n wynebu problemau mynych neu hirsefydlog o ran lefel eu gwasanaeth. Rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r problemau hyn yn yr hirdymor, ond mae'n debygol y bydd cnewyllyn o broblemau lle nad oes unrhyw ateb costeffeithiol yn bodoli ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, rydym wedi rhoi cynllun 'WaterFair' ar waith er mwyn sicrhau na fydd cwsmeriaid sy'n perthyn i'r categori 'sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf' ar gyfer dŵr neu ddŵr gwastraff yn talu am y gwasanaeth hwnnw.

Y duedd hirdymor allweddol y bydd angen i ni ymateb iddi o ran gwasanaeth cwsmeriaid yw disgwyliadau cynyddol cwsmeriaid, wrth i ddatblygiadau arloesol cyflym ddigwydd mewn sectorau manwerthu a sectorau gwasanaethau eraill. Rydym yn buddsoddi'n sylweddol i roi gwasanaethau digidol newydd ar waith.

Mae angen i bob un o'n hamcanion gael eu cyflawni am gost fforddiadwy i gwsmeriaid, yn enwedig y rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau. Mae'r tensiwn hwn yn arbennig o ddwys ar hyn o bryd wrth i'r argyfwng costau byw effeithio ar gwsmeriaid, ac mae'r rhyfel yn Wcráin yn debygol o olygu y byddant yn gweld prisiau ynni uchel am beth amser i ddod. Beth bynnag fo'r cyflymder buddsoddi hyd at 2050, byddwn yn parhau i ysgogi effeithlonrwydd o ran costau drwy waith ymchwil, arloesi a phartneriaethau effeithiol. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro'r ffordd rydym yn llunio ac yn targedu ein tariffau cymdeithasol a'u cyrhaeddiad er mwyn lliniaru effaith unrhyw gynydd mewn biliau yn y dyfodol ar y cwsmeriaid hynny yn y sefyllfa ariannol fwyaf bregus.

*Digwyddiad ar gyfer Cwsmeriaid
mewn Sefyllfa Fregus, Casnewydd*



Dŵr Cymru 2050: Cwsmeriaid

Ymateb Strategol	Sylw	Statws
Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid yn fforddiadwy		Yr argyfwng costau byw a'r ansicrwydd ynglŷn â biliau aelwydydd yn y dyfodol. Cynnydd tebygol mewn biliau dŵr yn y dyfodol.
Cefnogi cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus		Mwy o bwyslais ers y pandemig.
Ymdrin â'n cwsmeriaid sy'n cael 'y gwasanaeth gwaethaf'		Mewn perygl oherwydd newid yn yr hinsawdd. Mae rhai ymryiadau angenrheidiol yn anghymesur o gostus.
Gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf		Sefyllfa sy'n newid yn gyflym. Disgwyliadau cwsmeriaid yn codi.

ALLWEDD



Ar y trywydd cywir



Mewn perygl

Ein cynllun ar gyfer yr ymatebion strategol hynny nad ydynt ar y trywydd cywir ar hyn o bryd

Ymateb Strategol 8: sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid yn fforddiadwy

Er ein bod yn parhau i gynnig ystod o dariffau cymdeithasol sy'n arwain y sector i gefnogi'r cwsmeriaid hynny sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau dŵr, mae'n rhaid i ni ystyried bod ein hamcan o sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid yn fforddiadwy yn yr hirdymor mewn perygl yn yr amgylchedd presennol. Mae chwyddiant wedi cyrraedd ei lefel uchaf ers 30 mlynedd, a ysgogir yn bennaf gan filiau ynni cynyddol, ac mae hyn yn rhoi sefyllfa ariannol llawer o aelwydydd o dan bwysau eithafol. Er y disgwylir i chwyddiant ostwng yn ystod 2023, bydd biliau aelwydydd yn dal i fod yn uchel, a bydd fforddiadwyedd ein gwasanaeth yn mynd yn anodd i fwy o bobl na chynt. Nid yn unig y bydd mwy o bobl y bydd angen cymorth arnynt os bydd y cynnydd mewn diweithdra a ragwelir (Banc Lloegr) yn digwydd, ond bydd biliau a chostau tai uwch yn arwain at fwy o aelwydydd yn wynebu gofidiau ariannol. Mae'r cwsmeriaid hyn fel arfer 'yn cael eu tanwasanaethu' o ran llawer o gynlluniau cymorth ariannol. Mewn ymateb, gwnaethom gyflwyno ein Cronfa Gymunedol newydd (Cymuned) ym mis Rhagfyr 2022, sydd â'r nod o helpu'r cwsmeriaid hynny sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf, a bydd ar gael yn fwy cyffredinol yn 2023. Rydym hefyd wedi cynyddu adnoddau ein cynllun tariffau cymdeithasol presennol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i ystyried sut rydym yn cydbwysu ein blaenoriaethau buddsoddi â chadw biliau mor isel â phosibl.

Ymateb Strategol 10: ymdrin â'n cwsmeriaid sy'n cael 'y gwasanaeth gwaethaf'

Rydym yn dilyn yr egwyddor bod pob cwsmer yn haeddu lefel dda o wasanaeth, a byddwn yn gweithio tuag at y nod hwn yn yr hirdymor. Ar hyn o bryd, mae cost anghymesur datrysiadau i unioni problemau ar gyfer nifer bach iawn o gwsmeriaid yn rhwystro cynnydd, yn enwedig yn wyneb gofynion buddsoddi pwysig eraill. Yn ein gwasanaethau dŵr gwastraff, mae newid yn yr hinsawdd yn tueddu i gynyddu'r achosion o lifogydd sy'n digwydd mwy nag unwaith ac mae'n gweithio yn erbyn ein targed. Felly, rydym yn wynebu'r posibilrwydd o wneud cynnydd cyfyngedig yn y maes hwn ar hyn o bryd o ystyried y buddsoddiad sydd ei angen i ymateb i'r heriau a wynebwn er mwyn sicrhau gwasanaeth da i bob rhan o'n sylfaen cwsmeriaid. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid er mwyn taro cydbwysedd priodol rhwng blaenoriaethau croes.



PERFFORMIAD: CYMUNEDAU

PERFFORMIAD YN Y FA 23

Rydym yn perfformio'n dda iawn o ran km o afonydd a wellwyd ac rydym yn disgwyl cael gwobr o £1.4 miliwn. Mae'r targed hwn wrth wraidd ein strategaeth i wella ansawdd dŵr afonydd, gan weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill fel Byrddau Rheoli Maethynau.

Mewn Addysg Gymunedol, rydym bellach wedi goresgyn effaith y pandemig ar ein perfformiad diweddar. Y flwyddyn hon, rydym wedi gweld gwelliant sylweddol ac wedi cyflawni ein targed uchelgeisiol o gyrraedd tua 80,000 o blant a phobl ifanc drwy ein rhaglen addysg yn y FA 23. Rydym yn gwneud hyn drwy ein rhaglen allgymorth ac yn ein canolfan addysg yng Nghilfynydd.

Yn 2022, daeth tua 739,000 o ymwelwyr i'n pedair canolfan ymwelwyr yn Llyn Brenig yn y gogledd, Cwm Elan yn y canolbarth, Llandegfedd yn y de-ddwyrain a Llys-y-frân yn y gorllewin. Mae mynediad hamdden hefyd wedi cael ei wella ar ddau o'n safleoedd, sef cronfa ddŵr Lliw a chronfa ddŵr Swiss Valley, hefyd yn y gorllewin.

Ni fu cynnydd yn y galw am gymorth ariannol yn 2022, ac mae nifer yr aelwydydd ar un o'n tariffau cymdeithasol wedi aros yn ddigymffwrdd neu lai, gyda nifer y ceisiadau'n is na'r disgwyl.

Rydym hefyd yn perfformio'n dda o ran diogelwch, gyda llai o anafiadau difrifol adroddadwy yn y FA 23.

Drwy gydol y flwyddyn, bu ffocws parhaus gan ein cydweithwyr a'n contractwyr ar reoli risgiau iechyd a diogelwch a nodi gwelliannau i atal anafiadau a salwch. Mae gennym darged i leihau nifer yr anafiadau adroddadwy fesul un bob blwyddyn yn ystod AMP7.

Mae'r perfformiad presennol yn rhagori ar y targed, ond oherwydd y niferoedd bach o ddigwyddiadau dan sylw, nid oes unrhyw fwriad i dynhau'r rhain ymhellach. Byddwn yn porhau i gyflawni yn erbyn ein strategaeth iechyd a diogelwch a'n cynlluniau gwella ar gyfer AMP7.



*Digwyddiad ar gyfer Cwsmeriaid
mewn Sefyllfa Fregus, Casnewydd*

Canlyniad Ymrwymiadau Perfformiad AMP7 yn y FA 23: Cymunedau

Ymrwymiad Perfformiad	Y FA 23	Targed y Penderfyniad Terfynol Y FA 23	Y FA 22	Statws v Targed	Gwobr/ (cosb) £m
Cwsmeriaid bregus ar dariffau cymdeithasol Cwsmeriaid preswyl ar ein tariffau cymdeithasol	128,531	133,000	127,247	●	Enw da
Km o afonydd a wellwyd Cyfanswm hyd a wellwyd drwy ein camau gweithredu	122	25	94	▲	Cymhellion Cyflawni Canlyniadau ar ddiwedd yr AMP
Addysg gymunedol Nifer y cyfranogwyr yn ein Rhaglenni Addysg	80,194	73,000	45,655	▲	£0.014
Ymwelwyr â chyfleusterau hamdden Cyfanswm nifer yr ymwelwyr	739,294	720,000	842,701	▲	£0.019
Anafiadau adroddadwy Anafiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt i HSE o dan RIDDOR	5	7	9	▲	Enw da

ALLWEDD ▲ Targed Ofwat a gyflawnwyd neu y rhagorwyd arno ● Targed Ofwat a fethwyd

Ceir rhagor o fanylion am fesurau ac unedau mesur ymrwymiadau perfformiad yn yr Atodiadau o dudalen 250 ymlaen.
Bydd Km o afonydd a wellwyd yn aros yn ffigur dros dro nes y cawn gadarnhad gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Rydym yn parhau i wella o datblygu'r gwasanaethau a'r cymorth a ddarparwn i'n cwsmeriaid a'n cymunedau. Mae hyn yn cynnwys ehangu cyrhaeddiad ein cymorth gyda fforddiadwyedd, yn enwedig drwy ein cronfa arloesol Cymuned i helpu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu. Ar y cyd â hyn, rydym yn ehangu ein trefniadau rhannu data i wella'r ffordd rydym yn nodi cwsmeriaid y mae angen cymorth ariannol arnynt.

ASESIAD O'R EFFAITH ECONOMAIDD

Ein cyfraniad economaidd ehangach i'r Gymuned yng Nghymru

Fel un o'r cwmnïau preifat mwyaf yng Nghymru, mae ein heffaith yn cyrraedd y tu hwnt i ddarparu ein gwasanaethau craidd i gyflenwi dŵr diogel a glân a thrin dŵr gwastraff. Rydym yn cyfrannu'n fawr at iechyd economi Cymru ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth sylweddol. Ym mis Mawrth 2023, cwblhaodd Prifysgol Caerdydd adroddiad ar effaith Dŵr Cymru ar economi Cymru, a yn dilyn adroddiad tebyg a gyhoeddwyd yn 2013. Amcangyfrifodd yr adroddiad effaith economaidd y gyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol a grëir gan ein gweithrediadau, y gwerth a ychwanegir at economi Cymru a faint o wariant y Cwmni sy'n cael ei gadw yng Nghymru.



Mae'r adroddiad yn dangos y canlynol:

- Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am fwy na £1 biliwn o allbwn/gwariant yng Nghymru bob blwyddyn
- Mae Dŵr Cymru yn cefnogi dros 9,100 o swyddi (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol) yng Nghymru
- Mae pob £1 miliwn o werth gros uniongyrchol (Gwerth Ychwanegol Gros) Dŵr Cymru yn cefnogi £1.27 miliwn arall o Werth Ychwanegol Gros mewn rhannau eraill o'r economi.
- Mae 62% o wariant cadwyn gyflenwi Dŵr Cymru yng Nghymru – cynnydd sylweddol ar yr amcangyfrif o tua 41% yn 2013.

Daw'r adroddiad i'r casgliad "Welsh Water anchors other anchor companies in Wales".

Er bod ein cyfraniad i economi Cymru yn sylweddol, byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i'w hybu ymhellach, gan gynnwys drwy ddatblygu ein Polisi Caffael Cynaliadwy (gweler tudalen 111).



PERFFORMIAD: CYMUNEDAU PARHAD

CYNNYDD TUAG AT DŴR CYMRU 2050

Er mwyn cynnig perfformiad gwych a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol yn yr hirdymor, bydd angen i ni weithio gyda chwsmeriaid a chymunedau, nid dim ond drostynt. Mae strategaeth Dŵr Cymru 2050 yn cynnwys cyd-greu datrysiadau, rhannu gwybodaeth, a chefnogi mentrau i leihau'r defnydd o ddŵr ac achosion o gamddefnyddio carthffosydd, a chynnig buddiannau ehangach i gymunedau a'r amgylchedd. Rydym eisoes yn gweithio yn y ffordd hon ond bydd angen i ni ddyfnhau ac ehangu ein gweithgarwch yn yr hirdymor.

Dwy elfen allweddol o'n strategaeth ymgysylltu yw ein rhaglenni addysg a'n canolfannau i ymwelwyr. Cafodd y pandemig effaith fawr ar y naill a'r llall, ond maent wedi adfer ac mae eu gweithgarwch yn ehangu'n sylweddol. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i ategu ymddiriedaeth cwsmeriaid, sy'n rhywbeth rydym yn ei olrhain yn feintiol mewn arolygon rheolaidd. Cafwyd sgôr o 7.75/10 ar gyfer ymddiriedaeth cwsmeriaid yn 2022 yn seiliedig ar arolwg y Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Mae'n hollbwysig ein bod yn cadw ymddiriedaeth cwsmeriaid yn yr hirdymor er gwaethaf yr heriau a wynebwn, a'r bygythiadau presennol i enw da cwmnïau dŵr o ran perfformiad amgylcheddol.

Rydym yn gweithio gyda chymunedau ac ynddynt mewn llawer o ffyrdd eraill, gan gynnwys fel cyflogwr. Er mwyn cyflawni amcanion 2050, bydd angen i ni gadw ein statws fel cyflogwr gwych. Mae bod yn gyflogwr delfrydol yn golygu herio ein hunain drwy'r amser i gyrraedd y safonau uchaf a dod o hyd i ffyrdd newydd o sicrhau bod ein timau yn llawn cymhelliant ac yn cael yr adnoddau i gyflawni perfformiad gwych i'n cwsmeriaid a'r amgylchedd. Mae hyn yn arbennig o heriol yn ystod yr argyfwng costau byw presennol, gyda chwyddiant mawr a phrinder llafur ar raddfa eang. Fodd bynnag, mae gennym strategaeth sydd â'r nod o ddod yn gyflogwr gorau Cymru, ac rydym yn hyderus y gallwn barhau i ddenu'r sgiliau a'r dalent angenrheidiol i helpu i gryfhau ein cysylltiadau â chymunedau.



Dŵr Cymru 2050: Cymunedau

Ymateb Strategol	Sylw	Statws
Gweithio gyda chwsmeriaid a chymunedau	▲	Dd/G
Cyflogwr delfrydol	▲	Dd/G

ALLWEDD



Ar y trywydd cywir



Mewn perygl

Ein cynllun ar gyfer yr ymatebion strategol hynny nad ydynt ar y trywydd cywir ar hyn o bryd

Dd/G – mae ein hymatebion strategol ar gyfer Cymunedau ar y trywydd cywir ar hyn o bryd.

YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Rydym yn buddsoddi dros £1 filiwn y dydd yn ein gwasanaethau, gyda llawer o waith yn cael ei wneud yn uniongyrchol yn y cymunedau a wasanaethwn.

Gall y gwaith hwn fod yn ymwithiol a phara am gyfnod estynedig. Dyna pam rydym bob amser yn ceisio esbonio i gwsmeriaid a rhanddeiliaid pam rydym yn ymgymryd â'r gwaith, fel y gallwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, helpu i reoli disgwyliadau ac ateb unrhyw ymholiadau.

Rydym hefyd yn sylweddoli y gall ein cymunedau weithiau fod yn bryderus ynglŷn â'r gwaith y mae angen i ni ei wneud a'i effaith ar amwynderau lleol. Mae hyn wedi cynnwys ein cynllun i adeiladu gorsof bwmpio yn rhannol o dan y ddâear yn Ystum Taf (Caerdydd) i gefnogi datblygiad tai lleol a'n cynlluniau i adeiladu gwaith trin dŵr newydd ym Merthyr Tudful. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r cymunedau hyn, er mwyn dangos bod ein cynlluniau wedi'u dylunio i gael yr effaith leiaf bosibl ar yr ardal o'u hamgylch.

💡 **RYDYM BOB AMSER YN
ESBONIO I GWSMERIAID A
RHANDDEILIAID PAM RYDYM YN
YMGYMRD Â'R GWAITH, FEL
Y GALLWN ROI'R WYBODAETH
DDIWEDDARAF IDDYNT AC ATEB
UNRHYW YMHOLIADAU** 💡

GWERTH YMGYSYLLTU'N DDA Â RHANDDEILIAID




Sioe Frenhinol Cymru 2022, Llanfair-Ym-Muallt

Cydberthnasau cydfuddiannol

Rydym yn anelu at feithrin a chynnal cydberthnasau cydfuddiannol â'n holl grwpiau rhanddeiliaid sy'n seiliedig ar ein gwerthoedd o fod yn agored, gonestrwydd ac ymddiriedaeth.

Cyflawnir hyn drwy strategaeth ymgysylltu barhaus a oruchwylir gan ein Pwyllgor ACLI, sy'n adolygu ac yn monitro cynnydd o ran ein cynlluniau ymgysylltu. Fe'i cyflwynir ar ffurf Matrics Rhanddeiliaid a drefnir gan ein Tîm Cyfathrebu sydd, ochr yn ochr ag aelodau o'r Tîm Gweithredol, yn gyfrifol am ddelio â chydberthnasau â'n rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'n rheoleiddwyr, er mwyn cynnal deialog ddwyffordd gadarnhaol i helpu i weithredu ein cynlluniau busnes a chefnogi polisiau "Tîm Cymru" ehangach, lle y bo'n briodol.

Dangosir dadansoddiad lefel uchel o'r hyn sy'n bwysig i'n rhanddeiliaid ar dudalennau 02 i 03 yn y trosolwg o'r adroddiad hwn. Mae'r ffeithlun a'r dadansoddiad manylach ar dudalennau 68 i 70 yn disgrifio ein rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y FA 23 ac yn dangos y gwahanol grwpiau rhanddeiliaid rydym yn ymgysylltu â nhw.



YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID YN YSTOD Y FLWYDDYN

Grŵp rhanddeiliaid	Ei ddiddordeb	Ein hamcan	Testun ein hymgysylltu
Ariannol a Buddsoddwyr 	Buddsoddiad sicr a dibynadwy ag agenda ACLI gadarnhaol	Sicrhau bod cyllid ar gael pan fo'i angen am gost briodol ac yn unol â'n Polisi Buddsoddi ACLI	Perfformiad ariannol a gweithredol y Cwmni, risgiau a chamau lliniaru posibl
Ein Pobl 	Cyflogaeth â chyflogwr sicr y gellir ymddiried ynddo sy'n gwneud y peth iawn dros gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd	Gwella ein gwasanaeth cwsmeriaid a'n perfformiad gweithredol ac amgylcheddol yn barhaus. Cymell, cefnogi a grymuso gweithlu agored a diogel sy'n gweithio er budd cwsmeriaid heddiw ac yn y dyfodol	Diweddariadau busnes, perfformiad, penderfyniadau a chynlluniau. Cael mewnbwn i weithrediad diogel ac effeithlon y busnes o ddydd i ddydd a gwaith cynllunio busnes at y dyfodol. Mentrau diogelwch a llesiant, yn cynnwys iechyd meddwl a hyrwyddwyr llesiant ym mhob rhan o'r busnes
Cwsmeriaid, Cymunedau a Chymdeithas 	Cwmni dibynadwy y gellir ymddiried ynddo sy'n gweithio er budd ei gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd	Ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd. Dylanwadu ar ymddygiad e.e. er mwyn lleihau'r defnydd o ddŵr, peidio ag ychwanegu eitemau amhriodol i ddŵr gwastraff. Helpu eraill i ddeall ein gweithgareddau gweithredu a'n cynlluniau er mwyn cyflawni yn erbyn eu hamcanion nhw a'n hamcanion ni	Amcanion a strategaeth gyflawni hirdymor; cynlluniau at y dyfodol; gwaith buddsoddi cyfalaf sy'n cael ei wneud yn eu hardal; datrys problemau ac ymholiadau cyffredinol; codi proffil ein gwaith yn eu cymunedau a'r buddiannau o gynigiwn; cynnal proffil priodol ac enw da cadarnhaol, fel y byddant yn barod i weithio gyda ni ar heriau cyffredin megis effeithlonrwydd dŵr; addysgu'r cyhoedd ar y cylch dŵr a'r amgylchedd er mwyn iddynt gael gwell gwybodaeth am yr heriau a wynebwn a sut y gellir ymateb iddynt
Rheoleiddwyr a Llywodraeth 	Cwmni effeithlon sy'n perfformio'n dda ac sy'n ychwanegu gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach	Cael eu mewnbwn a'u cytundeb ynglŷn â'n cynlluniau busnes a chefnogi ein polisiâu 'Tîm Cymru' ehangach lle y bo'n briodol. Deall cyfeiriad polisiâu a dylanwadu arno	Gofynion o ran gweithredu, enw da, deddfwriaeth a pherfformiad a materion cysylltiedig; cynlluniau at y dyfodol a phenderfyniadau/cynigion polisi
Grwpiau Diwydiant a Busnes 	Cydweithio ar nodau cyffredin sy'n cefnogi anghenion eu haelodau ac amcanion eu sefydliadau	Gweithio gyda'n gilydd i helpu'r Cwmni i gyflawni ei amcanion ac ychwanegu gwerth at y cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt	Cynlluniau at y dyfodol; prosiectau cydweithredol
Cyflenwyr a Chontractwyr 	Diwallu anghenion eu cleientiaid: er mwyn gwella eu henw da eu hunain a chefnogi eu nodau ACLI eu hunain	Ymgysylltu a chydweithio â chyflenwyr sy'n cefnogi ein hethos a chyflawni nodau ACLI cyffredin a thrwy hynny sicrhau bod modd cyflawni ein cynlluniau yn y dyfodol	Darparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid a thros ein cwsmeriaid (neu i ni), gan gynnwys prosiectau buddsoddi cyfalaf a busnes fel gwasanaethau gweithredol arferol; ein disgwyliadau o'u cwmni a'u cyflogaeth o ran y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, y perfformiad a gyflawnir ganddynt, a'r ffordd y maent yn ei gyflawni (e.e. iechyd a diogelwch, gwasanaeth cwsmeriaid ac ati)
Yr Amgylchedd a Chenedlaethau'r Dyfodol 	Diogelu a gwella'r amgylchedd ac ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd	Dod i ddeall yr agenda amgylcheddol ehangach; ennyn cefnogaeth a chael her adeiladol ar gynlluniau at y dyfodol; datblygu dulliau gweithredu/prosiectau cydweithredol ac arloesol; gwella ac amddiffyn enw da'r Cwmni a'i ymrwymiad i'r amgylchedd	Perfformiad amgylcheddol, heriau a chynlluniau; prosiectau cydweithredol; ymchwil

DATGANIAD A172

Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr weithredu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'u dyletswyddau fel y'u nodwyd yn Neddf Cwmnïau 2006.

Mae darpariaethau perthnasol Adran 172 o'r Ddeddf Cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwyr cwmni weithredu mewn ffordd y mae'n ystyried, yn ddidwyll, fyddai fwyaf tebygol o hyrwyddo llwyddiant y Cwmni. Wrth wneud hyn, rhaid i'r cyfarwyddwyr ystyried, ymhlith pethau eraill:

- canlyniadau tebygol unrhyw benderfyniad yn yr hirdymor.
- buddiannau cyflogaion y cwmni.
- yr angen i feithrin cydberthnasau busnes y cwmni â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill.
- effaith gweithrediadau'r cwmni ar y gymuned a'r amgylchedd.
- dymunoldeb sicrhau bod y cwmni yn cynnal ei enw da am safonau ymddygiad busnes uchel.

Nodir isod drosolwg o'r ffordd y mae'r Bwrdd wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran hyn yn ystod y flwyddyn. Am ragor o wybodaeth gweler yr Adroddiad Llywodraethu ar dudalennau 133 i 197.

Mae ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn chwarae rôl hollbwysig yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, sy'n rhoi cyfle i'r Bwrdd gael trafodaethau i ystyried eu buddiannau ac effaith ein penderfyniadau arnynt. Er ein bod yn ceisio sicrhau bod y Bwrdd yn cynnwys amrywiaeth eang o sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau, rydym hefyd yn gwerthfawrogi clywed yn uniongyrchol gan ein rhanddeiliaid drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o ymgysylltu â gwahanol safbwyntiau ein grwpiau rhanddeiliaid Cwsmeriaid a Chymunedau, gan gynnwys Gwasanaethau i Ddatblygwyr a Chyflenwyr.

Rhwymedigaeth y Bwrdd i Hyrwyddo llwyddiant hirdymor y Cwmni

Fel busnes a arweinir gan gwsmeriaid, mae ymdrin â'r effeithiau hirdymor ar ein cymunedau a'r amgylchedd yn gwbl ganolog i'n strategaeth. Mae cyflawni'r strategaeth honno yn cynnwys meithrin cydberthnasau â llywodraethau, rheoleiddwyr, cyflenwyr a chwsmeriaid, ond mae hefyd yn dibynnu'n fawr ar gydweithwyr ym mhob rhan o'r busnes ac yn ein codwyn gyflenwi.

Ymgysylltu â chwsmeriaid

Cynrychiolir llais cwsmeriaid drwy'r Grŵp Her Annibynnol. Gweler tudalen 72 am ragor o wybodaeth am y Grŵp Her Annibynnol.

Bu aelodau'r Bwrdd yn bresennol mewn Diwrnod Trochi i Gwsmeriaid ym mis Mehefin 2022 er mwyn dod i ddeall blaenoriaethau ein cwsmeriaid fel rhan o'n cyflwyniad ar gyfer PR24, a Fforwm Ymchwil Gymunedol ar-lein gyda'n cwsmeriaid i drafod systemau gorlif storm cyfun ym mis Mawrth 2023.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae'r Bwrdd yn clywed yn rheolaidd gan ein prif rhanddeiliaid, gan gynnwys ein rheoleiddwyr, drwy eu presenoldeb

yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Caiff barn rheoleiddwyr ei chasglu'n uniongyrchol drwy wahoddiadau i ymuno â chyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ac yn anuniongyrchol wrth i aelodau o'r Tîm Gweithredol rannu gohebiaeth reoleiddiol a manylion cyfarfodydd drwy adroddiadau rheoli misol i'r Bwrdd.

Yn ystod y FA 23, clywodd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn uniongyrchol gan rai o Gyfarwyddwyr Cyfoeth Naturiol Cymru (Mehefin 2022) a Phrif Arolygydd yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (Mawrth 2023).

Bu Cadeirydd a Chadeirydd Cymru y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2022.

Bu Cadeirydd a Phrif Weithredwr Ofwat, ynghyd â Chyfarwyddwr Cymru a'r Uwch-gyfarwyddwr dros Strategaeth a Chynllunio, yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd y mis Medi 2022.

Clywodd y Bwrdd yn uniongyrchol gan Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr cronfa bensïwn y Cwmni ym mis Tachwedd 2022.

Ymgysylltu â chyflenwyr

Nodir mai risg yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi yw un o'r prif risgiau strategol a adolygir ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd, ac mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau misol gan y Cyfarwyddwr Masnachol, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am foterion caffael a materion yn ymwneud â chyflenwyr allweddol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid, a'r broses o gyflawni ein cynlluniau buddsoddi, a darparu nwyddau a gwasanaethau eraill, yn unol â'n disgwyliadau a gwerthoedd y cwmni. Mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr contractwyr sy'n gweithio ar ein rhaglen Prosiectau Cyfalaf yn ystod ymweliadau â'r safle. Mae gennym Bolisi Talu Cyflenwyr ac rydym wedi llofnodi Cod Taliadau Prydlon Llywodraeth y DU (gweler tudalen 111 am fanylion).

Ymgysylltu â chyflogaion

Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo cynhwysiant ac yn cefnogi'r broses o ddatblygu pob unigolyn i'w lawn botensial. Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar iechyd a diogelwch, trosiant, lefelau absenoldeb a salwch ac mae polisiau allweddol megis Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a chyflog, yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd neu yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor perthnasol. Ceir diweddariadau rheolaidd hefyd gan y Tîm Gweithredol ynglŷn â thrafodaethau â'r undebau llafur a gydnabyddir, drwy'r Uwch-dîm Negodi, ac mewn perthynas ag arolygon ymgysylltu â chyflogaion a'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno gan y Tîm Gweithredol mewn ymateb i adborth cydweithwyr o'r arolwg.

Mae Cadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd â grwpiau o gydweithwyr o bob maes busnes. Caiff nodiadau o'r pynciau a drafodir yn y cyfarfodydd hyn eu cymryd a'u rhannu ag aelodau eraill o'r Bwrdd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Fel arfer, cynhelir y cyfarfodydd hyn â chydweithwyr o bell, sy'n golygu y gellir sicrhau dosbarthiad daearyddol ehangach o gydweithwyr. Trefnir cyfarfodydd ar wahân â rheolwyr ym mhob rhan o'r busnes, sydd hefyd wedi cael eu cynnal o bell, ond yn ystod 2023 ailddechreuwyd cynnal cinio anffurfiol rhwng rheolwyr a'r Bwrdd.

DATGANIAD

A172 PARHAD

Ymgysylltu ag Aelodau Glas

Nodir rôl Aelodau Glas ar dudalennau 136 a 148 o'n Hadroddiad Llywodraethu. Daw ein Haelodau o bob rhan o'r ardal gyflenwi a nod y Panel Dethol Aelodau annibynnol, a gadeirir gan Syr Paul Silk, yw sicrhau bod yr Aelodau yn cynrychioli amrywiaeth eang o gefndiroedd, sgiliau a phrofiad.

Mae Debra Bowen Rees, un o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol, yn aelod o'r Panel Dethol Aelodau annibynnol ac felly mae'n ymddiddori'n benodol yn Aelodau Glas.

Mae'r Panel yn cynnal proses recriwtio flynyddol i ddod o hyd i Aelodau newydd pan fydd Aelodau yn gadael eu rôl (ar ôl cyfnod o naw mlynedd ar y mwyaf). Mae'r Bwrdd yn cyfarfod â'n Haelodau ym mis Gorffennaf a mis Rhagfyr bob blwyddyn ac yn croesawu mewnbwn gan Aelodau ar faterion strategol yn y cyfarfodydd hyn, lle mae cyfle bob amser i'r Aelodau roi adborth a thrafod materion.

Mae tîm Ysgrifenyddiaeth y Cwmni yn sicrhau bod Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol sy'n effeithio ar y busnes yn rheolaidd, ac yn nodi safbwyntiau Aelodau yn adroddiad Ysgrifennydd y Cwmni a gyflwynir i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod.

Ymgysylltu â'r Grŵp Her Annibynnol

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys eiriolwyr dros gwsmeriaid a'r amgylchedd sy'n dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd i adolygu ymchwil, strategaethau, polisiau a mentrau sy'n ymwneud â chwsmeriaid a rhoi sylwadau arnynt. Bu Cadeirydd y grŵp yn bresennol yn ystod yr eitem ar Ddeall Cwsmeriaid o dan PR24 ar agenda Diwrnod Strategaeth y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022.

Ymgysylltu â'r Panel Cyngori Annibynnol ar yr Amgylchedd

Mae'r Panel yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol, academyddion a sefydliadau yn y trydydd sector. Mae un o Gynghorwyr Amgylcheddol Annibynnol Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd yn mynychu cyfarfodydd y Panel, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar faterion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor.

Ymgysylltu â Buddsoddwyr Glas Cymru

Yn ystod y FA 22, cynhaliwyd cyfarfodydd â buddsoddwyr bondiau ar ffurf fideogynadledda ond, ym mis Gorffennaf 2022 cynhaliwyd ein Cyfarfod Buddsoddwyr blynyddol wyneb yn wyneb. Mae aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn mynychu'r cyfarfod hwn ac mae tîm y Trysorlys yn cysylltu â buddsoddwyr ac asiantaethau statws credyd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Caiff yr holl gyfathrebu ffurfiol â buddsoddwyr ei gymeradwyo gan y Bwrdd, ac mae'r buddsoddwyr yn cael Adroddiad Buddsoddwyr bob chwe mis y mae croeso iddynt ei drafod â thîm y Trysorlys.

Rôl y Tîm Gweithredol

Mae Tîm Gweithredol Dŵr Cymru, a arweinir gan y Prif Weithredwr ac sy'n cynnwys y Prif Swyddog Ariannol, yn gyfrifol am reolaeth weithredol y Grŵp. Mae'r Tîm wedi'i ddynodi'n uwch-reolwyr at ddiben Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ond nid at ddibenion adran 414C(8) o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnwys rolau uwch-reolwyr swyddogaethol a'r sawl sy'n gyfrifol am ryngweithio â phrif randdeiliaid y Cwmni.

Mae ein Rheolwyr Gyfarwyddwyr dros Ddŵr, Dŵr Gwastraff a Manwerthu (Cwsmeriaid Preswyl) yn mynychu pob un o gyfarfodydd y Bwrdd.

O 6 Chwefror 2023, cymerodd Nicola Foreman le Nicola Williams fel Ysgrifennydd Cwmni'r Grŵp ac Aelod o'r Tîm Gweithredol.

Rôl y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo'r gwaith o roi mesurau ar waith i sicrhau bod buddiannau rhanddeiliaid bob amser yn cael eu hystyried. Mae'r papurau a baratir gan y Tîm Gweithredol i'w gymeradwyo gan y Bwrdd yn cynnwys gwybodaeth am ystyriaethau perthnasol rhanddeiliaid i'w trafod fel rhan o'r ddadl wrth wneud penderfyniadau. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod digon o sylw yn cael ei roi i faterion o bwys i randdeiliaid, a bod buddiannau'r holl randdeiliaid perthnasol yn cael eu hystyried pan fydd y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau.

Mae hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r hirdymor. Yn gyson iawn â'n Diben, bydd i'r penderfyniadau y mae'r Bwrdd yn eu gwneud yn awr oblygiadau hirdymor i'n cwsmeriaid a'n cymunedau yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn arbennig o wir am argaeledd dŵr yn yr hirdymor yr effeithir arno gan yr amgylchedd, newid yn yr hinsawdd a demograffeg ac arferion defnydd y cymunedau lle y gwasanaethwn. Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar dueddiadau hirdymor ac yn ystyried strategaethau hirdymor ar gyfer carbon ac ynni, dŵr, a gwaith cynllunio adnoddau rheoli dŵr gwastraff.

Drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogeion drwy sesiynau ymgysylltu â chyflogeion, cyfarfodydd anffurfiol â rheolwyr a thrwy gynnal ymweliadau gweithredol â safleoedd (gweler tudalen 70 am ragor o fanylion) mae aelodau'r Bwrdd yn gallu gweld a phrofi eu hunain sut mae ein diwylliant a'n gwerthoedd yn cael eu cymhwyso drwy'r busnes cyfan. Mae cynnal diwylliant effeithiol o fewn Dŵr Cymru yn elfen allweddol o gefnogi'r gwaith o gyflawni ein strategaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau'r Bwrdd er mwyn hyrwyddo llwyddiant hirdymor y Cwmni. Darllenwch fwy am ein diwylliant a'n gwerthoedd ar dudalen 04 a 05 o'r adroddiad hwn.

Prosesau gwneud penderfyniadau'r Bwrdd mewn perthynas â'n rhanddeiliaid yn ystod y FA 23

Penderfyniad	Pynciau trafod	Camau a gymerwyd ar ôl penderfyniad gan y Bwrdd o ganlyniad i adborth rhanddeiliaid
Ansawdd Dŵr Afonydd	Ymateb i bryder y cyhoedd am lygredd carthion: Cynllun Gwella Ansawdd Afonydd gyda ffocws ar y ffordd rydym yn lleihau lefelau'r llygryddion mwyaf niweidiol yn ein hafonydd Uwchgynhadledd y Prif Weinidog ar Ffossfadau (Gorffennaf 2022). Ymchwil Cwsmeriaid: Fforwm Ymchwil Gymunedol ar fater systemau gorlif storm cyfun Cyllid ychwanegol yn AMP7 a ffocws buddsoddiad ychwanegol arfaethedig ar gyfer PR24	Cyhoeddi ein Maniffesto ar gyfer Afonydd i nodi sut y byddwn yn cyflawni hyn. Mae hyn yn cynnwys ein hymrwymiad i fynd i'r afael â systemau gorlif storm cyfun, gan flaenoriaethu'r rhai hynny sy'n effeithio ar ansawdd afonydd, neu sy'n bryder esthetig Datblygu ein Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff cyntaf a phennu groddfa'r cynllun buddsoddi amgylcheddol sy'n gyflawnadwy, yn gyllidadwy ac yn fforddiadwy i gwsmeriaid yn yr AMP nesaf a'r cyfnodau AMP canlynol Bu'r Bwrdd yn bresennol yn yr Uwchgynhadledd a chyfrannodd at y Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno yn yr Uwchgynhadledd. Rhannwyd ein Cynllun Buddsoddi amlinellol ar gyfer PR24 â Cyfoeth Naturiol Cymru a Fforwm PR24 a arweinir gan Lywodraeth Cymru Penodwyd Llysgenhadon Ansawdd Afonydd i gydweithio â grwpiau buddiant cymunedol ar ansawdd dŵr afonydd Bydd adborth o'r Fforwm Ymchwil Gymunedol ar-lein hwn gyda'n cwsmeriaid ar systemau gorlif storm cyfun a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2023 yn cefnogi ein strategaeth barhaus ynglŷn â systemau gorlif storm cyfun Cymeradwywyd buddsoddiad ychwanegol gwerth £100 miliwn gan y Bwrdd fel Dychwelyd Gwerth, o ystyried ein statws fel Cwmni nid er cyfranddalwyr
Cynnydd Costau Byw	Cefnogi ein cwsmeriaid drwy ein strategaeth ynglŷn â chwsmeriaid mewn sefyllfa fregus Cefnogi ein cydweithwyr	Adolygwyd y tariffau cymdeithasol yng ngoleuni'r ansicrwydd o achosir gan y cynnydd mewn costau byw, gan gynnwys cymorth i bobl mewn gwaith nad ydynt yn gymwys i gael y cymorth hwn ond yr effeithir arnynt o bosibl. Arweiniodd hyn at lansio ein cynllun Cymuned, yr unig un o'i fath yn y sector Cyd-drafodaethau'r Tîm Gweithredol â'r undebau llafur mewn perthynas â thaliad costau byw untro o naill ai £1,000 neu £2,000 i gydweithwyr cymwys ym mis Rhagfyr 2022, gyda'r rhai ar gyflogau is yn cael y swm uchaf, a chodiad cyflog o 6.2% i'r rhan fwyaf o'n cydweithwyr o fis Ebrill 2023
Cynllunio ar gyfer PR24	Ymgysylltu â chwsmeriaid: Sesiwn Drochi ar Ddeall Cwsmeriaid	Caiff dealltwriaeth y Bwrdd o flaenoriaethau ein cwsmeriaid a gafwyd drwy fod yn bresennol yn y sesiwn drochi hon ei defnyddio fel rhan o'n gwaith cynllunio ar gyfer PR24
Diffodd pŵer ym Mharc Ynni Baglan	Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau yr effeithir arnynt i atal tarfu ar y cyflenwad pŵer a lleihau effaith hynny i'r eithaf a pherygl llifogydd a fyddai'n effeithio ar ein cwsmeriaid	Gwnaethom gefnogi camau gweithredu a arweinwyd gan Lywodraeth Cymru i atal y derbynnydd swyddogol rhag diffodd y rhwydwaith gwifrau preifat nes bod rhwydwaith trydanol hirdymor newydd wedi'i adeiladu. Cwblhawyd cysylltiadau trydan newydd a thrwy hynny lleihawyd y tarfu posibl ar weithrediadau Dŵr Cymru
Rhoi gwybod am ollyngiadau dŵr	Camddatgan gollyngiadau dŵr a defnydd y pen yn ystod y FA 21 a'r FA 22 a nodwyd ym mis Mai 2022	Cynhaliwyd adolygiadau trydydd parti annibynnol. Hysbyswyd Ofwat am yr angen am ailddatganiad. Rhoddwyd pecyn gwneud iawn i gwsmeriaid ar waith wrth i ni aros am ganlyniad ymchwiliad Ofwat. Ailddatganwyd gollyngiadau dŵr a defnydd y pen yn natganiadau ariannol y FA 23. Goruchwyliwyd gan Bwyllgor Goruchwylio Gollyngiadau Dŵr newydd ei sefydlu'r Bwrdd

Y TASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD (TCFD)

1. Ein datgeliadau TCFD

Datganiad cydymffurfiaeth

Ar ôl ystyried pedwar argymhelliad y TCFD a’r 11 o ddatgeliadau a argymhellwyd yn ogystal â’r canllawiau i bob sector a amlinellwyd yn adran C o ‘Annex: Implementing the Recommendations of the Task Force on Climate-related Financial Disclosures’ Hydref 2021, rhoddwn yma ein datgeliad TCFD llawn sy’n gyson â’r argymhellion a’r datgeliadau hyn ac eithrio Metrigau a Thargedau. Cyfeiriwch at y tabl isod am fanylion am ddatgeliadau’r flwyddyn hon a’u lleoliadau yn yr adroddiad hwn.

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o’r heriau mwyaf a wynebwn fel busnes, ac rydym yn ymrwymedig i weithredu ar argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy’n ymwneud â’r Hinsawdd (TCFD), gan roi tryloywder i’n rhanddeiliad. Dyma’r ail ddatgeliad blynyddol o’n risgiau sy’n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, sy’n diweddarau ein hadroddiad TCFD ar wahân a gyhoeddwyd yn 2022. Mae’r wybodaeth a roddir yn yr adran hon yn dangos sut rydym wedi ymgorffori newid yn yr hinsawdd yn ein proses strategaeth, llywodraethu a rheoli risg, a sut rydym wedi ymrwmo i fonitro ein cynnydd gyda metrigau priodol. Yn unol â chenhadaeth 2050, rydym yn anelu at fod yn wasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o’r radd flaenaf er budd cenedlaethau’r dyfodol. Mae mynd i’r afael â’r risg o newid yn yr hinsawdd yn allweddol i’n llwyddiant yn yr ymdrech hon.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull o reoli risgiau yn sgil yr hinsawdd a’u heffaith ar ein busnes, a ddangosir drwy gynnydd yn ystod y flwyddyn diwethaf (tabl isod), gan adeiladu ar yr ymrwymadau a wnaed gennym yn ein hadroddiad TCFD ar gyfer 2022.

	Crynodeb a’r prif ddatgeliad	Dolenni i ddogfennau perthnasol sy’n cynnwys rhagor o fanylion
Llywodraethu	Adran 3 o’n datgeliad TCFD	
a. Disgrifio gweithgarwch goruchwyllo’r Bwrdd o ran risgiau a chyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd	Rydym wedi nodi bod rôl ein Bwrdd a’n rheolwyr yn cydymffurfio â’r argymhellion.	> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023 (yr adroddiad hwn): • TCFD, tudalen 84, • Adroddiad Strategol, Llywodraethu Cynaliadwyedd, tudalennau 108 i 111 • Fframwaith llywodraethu, tudalen 133
b. Disgrifio rôl rheolwyr wrth asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd		> Dŵr Cymru 2050 > Ein Cynllun PR19 Cynllun Busnes 2020-2025 > Strategaeth ACLI (tudalen 133) > Cylch Gorchwyl ACLI > Cod Cydymffurfio
Strategaeth	Adran 2 o’n datgeliad TCFD	
a. Disgrifio’r risgiau a’r cyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd y mae’r sefydliad wedi’u nodi yn y byrdymor, y tymor canolog a’r hirdymor	Rydym wedi disgrifio’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd dros dri therfynlin amser sy’n berthnasol i’n busnes: hyd at 2030, 2050, 2100.	> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023 (yr adroddiad hwn) • TCFD, tudalennau 80 i 84
b. Disgrifio effeithiau risgiau a chyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd ar fusnesau, strategaeth a gwaith cynllunio ariannol y sefydliad	Rydym wedi asesu effeithiau’r risgiau a’r cyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd yn unol â’n system ehangach ar gyfer rheoli risgiau busnes, er mwyn asesu’r rhain yn erbyn ein strategaeth a’n gwaith cynllunio ariannol.	> Dŵr Cymru 2050 > Ein Cynllun PR19 Cynllun Busnes 2020-2025 > Neilltuo Amser ar gyfer Natur 2020 > Ein Siwrnai i Sero Net > Cynllun Sychder Terfynol 2020
c. Disgrifio pa mor gydnerth yw strategaeth y sefydliad, gan ystyried senarios gwahanol sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd, gan gynnwys senario 2°C neu is	Rydym wedi asesu risg er mwyn ein galluogi i ddisgrifio cydnerthedd ein heffeithiau o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd o dan nifer o senarios.	> Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (a gyhoeddwyd yn 2022) > Cynlluniau’r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr > Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol 2019 > Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft 2024

Crynodeb a'r prif ddatgeliad		Dolenni i ddogfennau perthnasol sy'n cynnwys rhagor o fanylion
Rheoli Risg	Adran 4 o'n Datgeliad TCFD	
a. Disgrifio prosesau'r sefydliad ar gyfer nodi ac asesu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd	Disgrifir ein dull o nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.	> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023 (yr adroddiad hwn): • TCFD, tudalen 85 • Ein Dull o Reoli Risg tudalennau 90 i 99
b. Disgrifio prosesau'r sefydliad ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd	Rydym yn nodi sut mae hyn wedi'i integreiddio yn ein dull ehangach o reoli risgiau busnes.	> Dŵr Cymru 2050
c. Disgrifio sut y caiff y prosesau ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd eu hintegreiddio yng ngweithgarwch rheoli risg cyffredinol y sefydliad		> Ein Cynllun PR19 Cynllun Busnes 2020-2025 > Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol 2019 > Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft 2024 > Cynllun Rheoli Dŵr Gwastraff a Draenio
Metrigau a Thargedau		
d. Datgelu'r metrigau a ddefnyddiwyd gan y sefydliad i asesu risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn unol â'i strategaeth a'i brosesau rheoli risg	Rhestrir metrigau sy'n berthnasol i brosesau strategaeth a rheoli risg y sefydliad. Datgelir allyriadau hefyd, gan gynnwys allyriadau cwmpas 3. Datgelir targedau ar gyfer rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Bydd rhagor o fanylion ar gael wrth i gynlluniau a strategaethau newydd gael eu cyhoeddi'n ddiweddarach yn 2023. Cofnodir perfformiad yn erbyn y targedau hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol.	> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023 (yr adroddiad hwn): • Adroddiad Strategol: Perfformiad, tudalennau 50 i 66 • Adroddiad Strategol: Cynnydd o ran Cynaliadwyedd, tudalennau 112 i 128 • Cyflawni ein Strategaeth Carbon Sero Net (Amcan ACLI 2): Allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3, tudalen 120; Ysgogwyr Sero Net, tudalen 120
e. Datgelu allyriadau nwyon tŷ gwydr a risgiau cysylltiedig Cwmpas 1, 2 ac (os yw'n briodol) 3		> Ein Siwrnai i Sero Net
f. Disgrifio'r targedau a ddefnyddiwyd gan y sefydliad i reoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a pherfformiad yn erbyn targedau		> Llyfr Gwaith Cyfrifyddu Carbon > Ymrwymadau Llesiant 2020

TCFD PARHAD

	Ymrwymiad 2022	Cynnydd yn y FA 23
Llywodraethu	Sefydlu systemau clir i sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu goruchwyllo a'u rheoli ar lefel y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.	Rydym wedi integreiddio'r broses o oruchwyllo risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn prosesau llywodraethu sy'n bodoli eisoes; cyflwynir adroddiadau ar ein risgiau TCFD i Bwyllgor ACLI y Bwrdd sy'n cyfarfod bob chwarter a chynhelir adolygiadau ffurfiol o risg bob chwe mis.
Strategaeth	Cynnal dadansoddiad o'r bylchau yn ein strategaeth hinsawdd ym mhob rhan o'r busnes, gan gynnwys addasu a lliniaru.	Yn seiliedig ar y bylchau a nodwyd, rydym wedi: - Cyhoeddi ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft ar gyfer 2024¹ - Datblygu Polisi Cynllunio Newid yn yr Hinsawdd, sy'n gwella ein parodrwydd o ran yr hinsawdd drwy ddiffinio rhagdybiaethau cynllunio, gofynion profi senarios a disgwyliadau ar gyfer cynllunio ar gyfer ymaddasu. Rydym wrthi'n datblygu sawl dogfen strategol (i'w cyhoeddi yn 2023): - Ein Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff - Ein Strategaeth Gyflawni Hirdymor - Ein Hadroddiad Ymaddasu ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd
Rheoli risg	Defnyddio'r prosesau rheoli risgiau busnes presennol i sicrhau bod rheolaeth a pherchnogaeth mewn perthynas â risgiau a chyfleoedd ariannol penodol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu hymgorffori mewn gwaith cynllunio gweithredol a strategol ar gyfer ymaddasu.	Yn ogystal ag integreiddio risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn ein fframwaith Rheoli Risgiau Busnes (ERM) (gweler yr adran ar reoli risg TCFD), rydym wedi mireinio ein prosesau ar gyfer nodi, sgorio a blaenoriaethu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae hyn wedi rhoi arfarniad manylach o'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o gymharu â'n hadroddiad diwethaf ac mae'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau lliniaru a'r achos dros ymyriadau lle mae'r risgiau hyn ar ddod. Ystyrir gofynion ymaddasu ymhellach yn ein Hadroddiad Ymaddasu ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd, ac maent yn un o'r ystyriaethau allweddol yn ein cynlluniau strategol, gan gynnwys ein cyflwyniad ar gyfer PR24.
Metrigau a thargedau	Diffinio metrigau amlgyfalaf er mwyn ymgorffori amrywiaeth ehangach o gostau a buddiannau amgylcheddol a chymdeithasol yn ein penderfyniadau buddsoddi a'n hadroddiadau, a gwella'n gallu i wrthsefyll effeithiau ffisegol a phontio newid yn yr hinsawdd.	Yn ystod AMP7, rydym wedi datblygu dull o integreiddio metrigau amlgyfalaf yn ein prosesau gwneud penderfyniadau sy'n gyson ag arferion gorau yn y sector. Dylai hyn ein galluogi i optimeiddio ein rhaglen fuddsoddi i sicrhau buddiannau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach drwy ein camau ymaddasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Drwy hyn gallwn ymgorffori costau cymdeithasol mewn buddsoddiadau.

1 Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft 2024 | Dŵr Cymru (<https://www.dwrcymru.com/cy-gb/our-services/water/water-resources/draft-water-resources-management-plan-2024>)

GWAITH MODELU RISG SY'N GYSYLLTIEDIG Â NEWID YN YR HINSAWDD I LYWIO STRATEGAETH

Mae ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, sy'n cyd-fynd â chynllun rhanbarthol Water Resources West, yn asesu cyflenwad dŵr yn y dyfodol o dan y senario 'mwyaf tebygol' (RCP 6.0), ac yn 'straen-brofi' hyn yn erbyn RCP 2.6 (isel) a RCP 8.5 (uchel). Mae'n bwysig ein bod yn deall ac yn dadansoddi ein hadnoddau dŵr o fewn yr eithafion hinsoddol hyn, gan ein bod eisoes yn rheoli digwyddiadau eithafol.

Drwy ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr rydym wedi datblygu strategaeth rheoli galw hirdymor uchelgeisiol sy'n cydnabod yr angen i gymryd camau i leihau gollyngiadau dŵr a helpu cwsmeriaid i ddefnyddio dŵr yn ddoeth. Drwy'r gweithgarwch hwn, rydym yn disgwyl y bydd gennym ddigon o adnoddau dŵr i allu parhau i gyflenwi dŵr i'n cwsmeriaid yn yr hirdymor o dan bob senario newid yn yr hinsawdd. Gallwch ddarllen mwy am ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ar dudalen 47 (Adroddiad ACLI amcan 1)

2. Strategaeth

2.1 Sut rydym yn defnyddio senarios a gwaith dadansoddi a modelu i lywio strategaethau a chynlluniau hirdymor

Rydym wedi datblygu senarios, ac wedi eu dadansoddi i asesu cydnerthedd ein sefydliad a'i strategaeth ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol yn y dyfodol, gan gwmpasu risgiau ymaddasu ffisegol sylfaenol a risgiau sy'n gysylltiedig â phontio i sero net.

Rydym yn defnyddio gwaith dadansoddi senarios ar gyfer pob rhan o'n prif wasanaethau (dŵr, dŵr gwastraff, biosolidau ac ynni), gan ystyried cylchoedd oes asedau a therfynliniau cynllunio. Drwy adolygu dros derfynliniau byr a hwy gall hyn ein helpu i ddeall ein proffil risgiau dros amser, gan gydnabod, er enghraifft, fod angen ystyried risg pontio yn y byrdymor (e.e. ystyried tynnu asedau'n ôl yn gynnar yn erbyn clymu allyriadau â buddsoddiadau), ac mae risg ffisegol yn fwy sylweddol yn y tymor hwy.

Mae ein Polisi Cynllunio Newid yn yr Hinsawdd newydd (2023) yn amlinellu ein hymrwymiad i ystyried senarios newid yn yr hinsawdd yn ein strategaethau a'n cynlluniau hirdymor, gan gynnwys y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a'r Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff. Mae'r cynlluniau hyn yn asesu'r risg hirdymor i asedau a systemau penodol ac yn optimeiddio ymyriadau ymddasu er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid a pherfformiad amgylcheddol fel cynlluniau ymaddasu, o dan nifer o senarios hinsawdd. Caiff hyn ei ysgogi, yn rhannol, gan ddisgwyliadau rheoleiddiol Ofwat ac fe'i crynhoir isod.

	RCP 2.6	RCP 6.0	RCP 8.5
Strategaeth Gyflawni Hirdymor	Asesiadau meintiol ac ansoddol a ddefnyddir i ddatblygu'r llwybr a ffefrir	O dan y gofynion rheoleiddiol nid oes angen strategaeth yn erbyn RCP 6.0	Asesiad meintiol ac ansoddol
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr	Gwaith modelu a ddefnyddir i lywio'r Strategaeth Gyflawni Hirdymor	Gwaith modelu a ddefnyddir i ddatblygu'r cynllun buddsoddi a ffefrir	Gwaith modelu a ddefnyddir i ddatblygu senario wedi'i straen-brofi
Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff ²	Gwaith modelu a ddefnyddir i lywio'r Strategaeth Gyflawni Hirdymor	Gwaith modelu yn erbyn senario cyfatebol a ddefnyddir i ddatblygu'r cynllun buddsoddi a ffefrir	Gwaith modelu yn erbyn senario cyfatebol a ddefnyddir i ddatblygu profion straen.
Adroddiad Ymaddasu ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd	Nid yw'n berthnasol gan fod ffocws ar ymaddasu mewn senarios lle ceir newid sylweddol pellach yn yr hinsawdd (h.y. yn waeth na RCP 2.6)	Asesiad meintiol ac ansoddol	Asesiad meintiol ac ansoddol
Ymrwymadau carbon sero net	Asesiad o'r gofynion i gysoni â dilyn y llwybr hwn	Uchelgeisiau sero net mwyaf perthnasol ar gyfer senario pontio cyflym	Uchelgeisiau sero net mwyaf perthnasol ar gyfer senario pontio cyflym

2 Mae ein Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff ar gyfer 2023 yn cynnwys gwaith modelu ar lefel islaw dalgylch unigol. Bydd yr iteriad nesaf o'r cynllun yn fanylach ac yn cynnwys data UKCP 18 nas datblygwyd mewn pryd ar gyfer y cynllun y flwyddyn hon.

2.2 Senarios newid yn yr hinsawdd

Risgiau Ffisegol	Risgiau Pontio
Risgiau o ganlyniad i ddigwyddiadau a pheryglon hinsoddol, a all fod yn aciwt (e.e. storm fawr neu dywydd poeth), neu'n gronig (e.e. lefel y môr yn codi, cyfnod estynedig o sychder).	Risgiau sy'n deillio o bontio i economi sero net. Gall y rhain fod yn aciwt hefyd (e.e. newid deddfwriaethol), neu'n gronig (e.e. newid ymddygiad cymdeithas dros amser).

Rydym yn nodi ein risgiau o dan bum senario, yn seiliedig ar lwybrau Crynodiad Cynrychioliadol (RCP) y Panel Rhyngwladol ar Newid yn yr Hinsawdd, sef 2.6, 6.0 ac 8.5. Dewisir y senarios yn seiliedig ar gyfuniad o'n dealltwriaeth o wyddor hinsawdd a sut y gellir ei chymhwyso at ein cylchoedd cynllunio busnes. Gweler pob senario penodol am ragor o fanylion.

	RCP 2.6	RCP 6.0	RCP 8.5
2100:	1.5 gradd	2–4 gradd	4+ gradd

TCFD PARHAD

Senarios risg pontio

Sero net cyflymach (RCP 2.6 yn 2030³)

Mae'r byd ar y trywydd cywir i gyfyngu cynhesu i 1.5 gradd. Mae hyn yn golygu bod camau gwleidyddol sylweddol yn ailalinio economïau a chymdeithas:

- Mae polisiau a chymdrefnau rheoleiddio Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn rhoi cymhelliant sylweddol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr⁴ cyn 2030
- Mae datblygiadau technolegol yn digwydd yn gyflym, mae eitemau sy'n defnyddio llawer o danwydd ffosil yn mynd yn ddiangen, yn anymarferol neu'n rhy gostus i'w gweithredu ac yn cael eu disodli gan ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur a thechnoleg effeithlon
- Mae ymddygiad cymdeithas yn pennu disgwyliadau gan fusnesau ac mae'r drwydded i weithredu ynghlwm wrth gyflawni ymrwymïadau sero net. Cydnabyddir gwerth dŵr ac mae cwsmerïad yn fwy parod i dderbyn costau

Anhrefnus a gohiriedig (RCP 8.5 yn 2050⁵)

Ar ôl degawdau o ddiffyg gweithredu, mae ymgyrch i ddatgarboneiddio ar ôl methu targedau 2050. Mae hyn yn golygu'r canlynol:

- Mae llywodraethau a chymdeithas yn dechrau gweithredu ar fyrder, gan arwain at newid polisiau a deddfwriaeth, sy'n creu costau enfawr am allyrru nwyon tŷ gwydr ac yn rhoi cymhelliant i leihau allyriadau ar unwaith
- Mae datblygiadau technolegol yn gyflym, ond mae cyfyngiadau mawr ar gadwyni cyflenwi
- Mae cymdeithas yn ymateb yn gadarn i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn cefnogi camau gweithredu ar gyfer yr hinsawdd. Fodd bynnag, mae cwsmerïad yn llai parod i dderbyn costau diffyg gweithredu blaenorol

Ysgogwyr risg pontio:




Rheoleiddio a pholisi



Technolegol



Cymdeithasol



Senarios risg ffisegol

Tywydd anrhagweladwy (RCP 8.5 yn 2030 ⁶)	Hinsoddau tymhestlog (RCP 8.5 yn 2050 ⁹)	Stormydd trychinebus (RCP 8.5 yn 2100 ¹¹)
Nid yw'r byd wedi gwneud digon i gyfyngu ar gynhesu ac mae ar y trywydd cywir am gynydd o 4 gradd. Mae tywydd garw yn digwydd yn amlach. Rydym yn disgwyl, yn 2030: - Bydd glaw'r gaeaf⁷ wedi cynyddu 6% - Bydd glaw'r haf¹ wedi gostwng 9% a bydd tymheredd cyfartaledd yr haf¹ wedi cynyddu 1.4 gradd - Bydd lefel gyfartalog y môr¹ wedi codi 0.11-0.2m	Mae'r byd yn dal i beidio â gweithredu ac mae wedi methu targedau allyriadau 2050. Mae'r hinsawdd yn stormllyd erbyn hyn, gydag eithafion nas gwelwyd o'r blaen. Rydym yn disgwyl, yn 2050: - Bydd glaw'r gaeaf¹⁰ wedi cynyddu 12% - Bydd glaw'r haf³ wedi gostwng 21% a bydd tymheredd cyfartaledd yr haf³ wedi cynyddu 2.6 gradd - Bydd lefel gyfartalog y môr² wedi codi 0.2-0.39m	Mae'r byd wedi methu â dewis dyfodol carbon isel ac mae stormydd trychinebus yn lladd pobl ac yn niweidio bywoliaethau yn rheolaidd. Rydym yn disgwyl, yn 2100: - Bydd glaw'r gaeaf¹² wedi cynyddu 22% - Bydd glaw'r haf⁴ wedi gostwng 36% a bydd tymheredd cyfartaledd yr haf⁴ wedi cynyddu 8 gradd - Bydd lefel gyfartalog y môr² wedi codi 0.51-1.13m

1 Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft 2024 | Dŵr Cymru (<https://dwcymru.com>)

2 Mae ein Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff ar gyfer 2023 yn cynnwys gwaith modelu ar lefel islaw dalgylch unigol. Bydd yr iteriad nesaf o'r cynllun yn fanylach ac yn cynnwys data UKCP 18 nas datblygwyd mewn pryd ar gyfer cynllun y flwyddyn hon.

3 2030 yw diwedd y cyfnod a ddewiswyd ac mae wedi cael ei bennu'n 'dddegawd o weithredu' yn fyd-eang o ran gweithredu ar gyfer yr hinsawdd a chynaliadwyedd. Mae hefyd yn nodi diwedd y cyfnod adolygu prisiau rheoleiddio nesaf i gwmnïau dŵr.

4 Mae Protocol Kyoto yn cwmpasu chwe allyriad tŷ gwyr - carbon deuocsid (CO₂), methan (CH₄), ocsid nitraid (N₂O), hydrofflorocarbonau (HFCs), perfflorocarbonau (PFCs), a swlffwr hecsaflworid (SF₆). Rydym yn aml yn defnyddio'r talfyriad 'carbon' neu CO₂e i gyfeirio at bob un ohonynt ar y cyd.

5 Rydym yn blaengynllunio hyd at 2050 yn ein strategaeth hirdymor, Dŵr Cymru 2050, a hefyd yn ein dogfennau cynllunio rheoleiddio eraill. Mae hefyd yn cynrychioli'r dyddiad ar gyfer cyflawni sero net, a bennwyd mewn deddfwriaeth.

6 2030 yw diwedd y cyfnod adolygu prisiau rheoleiddio nesaf i gwmnïau dŵr, a bydd newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael ei brofi drwy batrymau tywydd mwy effeithiol.

7 Yn ôl data UKCP18 ar gyfer newid 50ed ganradd ar gyfer terfynlin amser 2030-2049: metoffice.gov.uk/binaries/content/assets/metofficegovuk/pdf/research/ukcp/ukcp18-key-results.xlsx

8 Yn ôl data UKCP18 ar gyfer newid 5ed a 95ain ganradd ar gyfer codiad yn lefel y môr i Gaerdydd o dan RCP8.5 yn 2030, 2050 a 2100: metoffice.gov.uk/binaries/content/assets/metofficegovuk/pdf/research/ukcp/ukcp18-key-results.xlsx

9 Rydym yn blaengynllunio hyd at 2050 yn ein strategaeth hirdymor, Dŵr Cymru 2050, a hefyd yn ein dogfennau cynllunio rheoleiddio eraill. Mae hefyd yn cynrychioli'r dyddiad pan fydd amcanestyniadau hinsawdd RCP 6.0 a RCP 8.5 yn dechrau mynd yn wahanol iawn i'w gilydd.

10 Yn ôl data UKCP18 ar gyfer newid 50fed ganradd ar gyfer terfynliniau 2050-2069: metoffice.gov.uk/binaries/content/assets/metofficegovuk/pdf/research/ukcp/ukcp18-key-results.xlsx

11 Bydd yr asedau sydd gennym ar waith, neu rydym yn cynllunio ar eu cyfer yn awr, yn dal i fodoli yn 2100. Mae hwn hefyd yn cynrychioli terfyn y data ar amcanestyniadau hinsawdd hirdymor sydd ar gael.

12 Yn ôl data UKCP18 ar gyfer newid 50fed ganradd ar gyfer terfynliniau 2080-2099: metoffice.gov.uk/binaries/content/assets/metofficegovuk/pdf/research/ukcp/ukcp18-key-results.xlsx

Peryglon ffisegol sy'n ysgogi risg:



Llifogydd a stormydd



Sychder a thywydd poeth



Codiad yn lefel y môr

TCFD PARHAD

2.3 Risgiau a chyfleoedd

Mae'r adran hon yn amlinellu ein pum risg ffisegol a phontio fwyaf, a'r chyfleoedd allweddol. Gweler yr atodiad i'r adroddiad hwn am ragor o fanylion am sgorio a mesurau lliniaru risgiau penodol.

Prif risgiau: Pontio

Ffactorau sy'n ysgogi	Risg
Technolegol	T1 Cofnodi allyriadau'n anghywir Mae risg bod allyriadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhai a gofnodwyd. Mae'r ansicrwydd hwn yn arwain at danfuddsoddi neu orfuddsoddi mewn gweithgareddau lliniaru, ac yn gwneud y sefydliad yn agored i effeithiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r rheolaethau prisiau ar gyfer allyrru nwyon tŷ gwydr.
	T2 Dim digon o dechnolegau newydd ar gael ac yn cael eu mabwysiadu Mae risg bod ein galluedd technolegol i gefnogi'r broses bontio yn annigonol i liniaru allyriadau gweddilliol ac ymdrin â heriau yn y dyfodol, e.e. gwaredu biosolidau, a lleihau allyriadau proses.
Rheoleiddio a pholisi	T3 Effaith ariannol masnachu allyriadau estynedig a threth carbon Mae risg o bwysau deddfwriaethol a rheoliadol cynyddol i ymuno â chynlluniau masnachu allyriadau neu risg o orfodi treth carbon, sy'n arwain at gostau sylweddol.
	T4 Mae cyflymder y broses bontio yn cynyddu costau ac yn creu mwy o gystadleuaeth am adnoddau yn y gadwyn gyflenwi Mae risg bod polisiau yn gorfodi cwmnïau i bontio ar yr un pryd, gan achosi cystadleuaeth am yr un adnoddau. At hynny, nid oes datrysiadau technolegol ar gael i'r gadwyn gyflenwi eto i liniaru allyriadau gweddilliol (e.e. allyriadau proses).
	T5 Mae targedau rheoleiddio sy'n ymwneud â charbon corfforedig yn anghyson â'r targedau rheoleiddio o dan y Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol Mae risg bod tensiynau rheoleiddiol rhwng y Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol a charbon corfforedig yn arwain at fethiant i gyflawni'r naill darged a'r llall, gan arwain at niwed i enw da a/neu effaith amgylcheddol negyddol.

Prif risgiau: Ffisegol

Ffactorau sy'n ysgogi	Risg
Digwyddiadau tywydd eithafol – llifogydd a stormydd	P1 Rhwydweithiau carthffosydd yn gorlifo yn ystod digwyddiadau glaw mawr Mae risg y bydd carthffosydd yn gorlifo yn ystod cyfnodau o law dwysach neu law sy'n para'n hwy, gan arwain at lifogydd (llifogydd mewnol/allanol, gollyngiadau o systemau gorlif storm cyfun).
Digwyddiadau tywydd eithafol – sychder a thywydd poeth	P2 Effaith newid yn yr hinsawdd ar ansawdd dŵr yfed Mae risg y bydd amodau tywydd eithafol, gan gynnwys amodau sychder, glawiad dwysach, cylchoedd gwlyb/sych mwy eithafol ac achosion anuniongyrchol eraill, yn newid cyfansoddiad dŵr cilfachau heb ei drin i weithfeydd trin, gan newid cyfundrefnau trin cemegol a'r gallu i drin yr un faint o ddŵr.
	P3 Cynnydd yn y galw gan gwsmeriaid o dan amodau poeth Mae risg y bydd angen mwy o ddŵr ar gwsmeriaid o dan amodau poeth, gan gyfyngu ar y lleihad arfaethedig o ran defnydd y pen i fodloni cyfyngiadau ar y cyflenwad/galw lleol.

Ffactorau sy'n ysgogi	Risg
Digwyddiadau tywydd eithafol – llifogydd a stormydd	P4 Risg i'n hasedau yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol Mae risg y bydd ein hasedau (e.e. gweithfeydd trin, gorsafoedd pwmpio, pibellau) yn mynd o dan ddŵr yn ystod digwyddiadau glaw mawr, gan arwain at anallu i gyflenwi cwsmeriaid neu risg o niwed amgylcheddol o ganlyniad i golli'r gallu i drin dŵr.
	P5 Risg i gadwyni cyflenwi seilwaith yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol Mae risg y bydd difrod i systemau seilwaith eraill neu darfu arnynt drwy effaith uniongyrchol digwyddiadau tywydd eithafol (e.e. seilwaith telathrebu, trafniadaeth neu ynni). Gall hyn darfu ar ein systemau ein hunain a gall arwain at anallu i gyflenwi ein cwsmeriaid ac achosi risg o niwed amgylcheddol o ganlyniad i golli'r gallu i drin dŵr.

Prif risgiau: cyfleoedd


Ffactorau sy'n ysgogi	Cyfleoedd
Newid mewn technoleg	O1 Datblygu a defnyddio technoleg arloesol Mae gennym gyfle i ddatblygu a defnyddio technolegau newydd arloesol er mwyn gwella ein gwasanaeth yn awr ac ateb heriau'r hinsawdd yn y dyfodol.
Newid mewn polisiau, deddfwriaeth, trefniadau cyllido	O2 Gweithredu egwyddorion yr economi gylchol Mae cyfle i weithredu egwyddorion yr gylchol, gyda'r cyd-fuddiant allyriadau carbon cysylltiedig. Gallai arferion o'r fath hefyd greu llesiant cymdeithasol ac economaidd.
	O3 Cefnogaeth i ddatblygu cyfreithiau a rheoliadau newydd Mae gennym gyfle i barhau i gefnogi 'Tîm Cymru', Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill drwy newid cadarnhaol mewn deddfwriaeth, polisiau a rheoliadau, e.e. o ran datblygu masnachu mewn maethynnau, bioamrywiaeth, a masnachu mewn carbon yn nalgylchoedd afonydd; modelu ansawdd dŵr; samplu amgylcheddol a chasglu data; a chyngor ar reoliadau newydd i wella cynaliadwyedd yn ein sector. Byddai dull gweithredu o'r fath yn optimeiddio'r defnydd o'r adnoddau sydd ar gael yng Nghymru.
	O4 Defnyddio caffael cynaliadwy i fanteisio ar yr economi werdd Mae cyfle i ddefnyddio ein Polisi Caffael Cynaliadwy (2023), a gefnogir gan ein cymuned o randdeiliaid amgylcheddol, i gefnogi economi werdd Cymru, gan gynnwys, er enghraifft, drwy Gytundebau Prynu Ynni gwifren uniongyrchol leol neu Gytundebau Prynu Pŵer Corfforaethol.

Crynodeb o'r risgiau


Mae ein risgiau wedi cael eu hasesu yn erbyn graddfa sy'n cyd-fynd â'n system Rheoli Risgiau Busnes, a addaswyd i'n galluogi i asesu risg yn y tymor hwy. Gweler tudalen 90 am ragor o fanylion. Gallwn gadarnhau nad yw'r risgiau hyn, yn seiliedig ar y farn ddangosol hon, yn achosi risg sylweddol i weithrediad cyffredinol ein busnes.

TCFD PARHAD

Y risgiau mwyaf **heb eu lliniaru** o dan senario sero net cyflymach (RCP2.6, 2030)



Y risgiau mwyaf **heb eu lliniaru** o dan senario anhrefnus a gohiriedig (RCP 8.5, 2050)



ALLWEDD

- T1** Cofnodi allyriadau'n anghywir
- T2** Dim digon o dechnolegau ar gael ac yn cael eu mabwysiadu
- T3** Effaith ariannol masnachu allyriadau estynedig a threth carbon
- T4** Mae cyflymder y broses bontio yn cynyddu costau ac yn creu mwy o gystadleuaeth am adnoddau yn y gadwyn gyflenwi
- T5** Mae targedau rheoleiddio sy'n ymwneud â charbon corfforedig yn anghyson â'r targedau rheoleiddio o dan y Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol

Tebygolrwydd



Newid mewn polisiau, deddfwriaeth a threfniadau cyllido: O 'Mae angen newid yn strwythur y llywodraeth ar gyfer y newid hwn' (isel) i 'Trafodaethau ynglŷn â chyflwyno'r polisi hwn' (uchel).



Newid mewn technoleg: O 'Dim trafodaethau hysbys ynglŷn â'r dechnoleg hon (isel)' i 'Mae treialon technoleg wrthi'n cael eu cynnal (uchel)'.



Newid mewn ymddygiad cymdeithas: O 'Dim enghreifftiau o'r ymddygiadau hyn yn cael eu gweld yn unman' (isel) i 'Tystiolaeth o'r ymddygiad yma a throw yn ardaloedd Dŵr Cymru' (uchel).


Canlyniad/Difrifoldeb

Caiff trothwyon canlyniadau a matrices sgorio risg eu sgorio yn erbyn risgiau Gweithredol, Enw da a/neu Ariannol yn unol â Fframwaith ERM Dŵr Cymru.




Yn dangos yr ystod o ganlyniadau oherwydd ansicrwydd.


Y risgiau mwyaf **heb eu lliniaru** o dan senario tywydd garw (RCP 8.5, 2030)



Y risgiau mwyaf **heb eu lliniaru** o dan senario tywydd stormus (RCP 8.5, 2050)



Y risgiau mwyaf **heb eu lliniaru** o dan senario stormydd trychinebus (RCP 8.5, 2100)



ALLWEDD

- P1** Rhwydweithiau carthffosydd yn gorlifo yn ystod digwyddiadau glaw mawr
- P2** Effaith newid yn yr hinsawdd ar ansawdd dŵr yfed
- P3** Cynnydd yn y galw gan gwsmeriaid o dan amodau poeth
- P4** Risg i'n hasedau yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol
- P5** Risg i gadwyni cyflenwi seilwaith yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol

Tebygolrwydd

Risg ffisegol: O ddigwyddiad < unwaith bob 100 mlynedd (isel) i ddigwyddiad unwaith bob blwyddyn (uchel).

Canlyniad/Difrifoldeb

Caiff trothwyon canlyniadau a matrices sgorio risg eu sgorio yn erbyn risgiau Gweithredol, Enw da a/neu Ariannol yn unol â Fframwaith ERM Dŵr Cymru.



Yn dangos yr ystod o ganlyniadau oherwydd ansicrwydd.

2.4 Camau lliniaru strategol

Mae ein gweledigaeth yn Dŵr Cymru 2050 yn amlinellu 18 o ymatebion strategol sy'n tynnu sylw at effaith newid yn yr hinsawdd sy'n cyflymu a'r ymateb iddi, ochr yn ochr â thueddiadau a heriau hirdymor. Ym mis Mawrth 2022, gwnaethom adolygu ein dull gweithredu a'n cynnydd yn erbyn pob un o'r ymatebion hyn, ac o dudalen 48 o'r adroddiad hwn, gallwch weld asesiad o berfformiad ar gyfer yr ymatebion hyn o dan bob un o'n themâu strategol.

Tynnwn sylw isod at y gweithgareddau strategol hynny sy'n ymateb yn uniongyrchol i'n risgiau a'n cyfleoedd mwyaf o ran newid yn yr hinsawdd. Mae'r rhain yn cael eu hintegreiddio yn ein cynllun busnes nesaf (ar gyfer 2025-2030).

Thema strategol	Camau lliniaru arfaethedig allweddol	Ymatebion i risgiau
 Dŵr	- Rheoli dalgylchoedd, yn enwedig efelychu'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd ym mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog - Gwaith trin dŵr Cwm Taf - Rhaglen monitro a modelu ansawdd dŵr heb ei drin - Rhaglen lleihau gollyngiadau dŵr i leihau gollyngiadau dŵr i 75/85 MI/d erbyn 2050 - Rhaglen lleihau defnydd y pen i gyrraedd 100/110 litr/yr aelwyd/y dydd erbyn 2050 - Mynd i'r afael â manau cul yn y rhwydwaith er mwyn gwella'r cyflenwad pan fo galw mawr - Defnyddio technoleg i ddatblygu rhwydwaith mwy deallus i fonitro problemau gyda'r cyflenwad lleol ac ymateb iddynt yn fwy effeithiol	P2 P3
 Yr Amgylchedd	- Cyflawni'r Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff – cynyddu capasiti carthffosydd a chyflwyno datrysiadau draenio cynaliadwy, gan adeiladu ar y swm o £140 miliwn a wariwyd yn AMP7 ar effeithiau systemau gorlif storm cyfun a maethynnau er mwyn gwella iechyd afonydd - Targedau a rhaglen waith y Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol - Rhaglen Leihau i leihau ein hallyriadau sy'n ffoi 50% - Bwriad i gynyddu'r rhaglen cynhyrchu bioethan/biohydrogen i gynhyrchu 120GWh y flwyddyn (gweler tudalen 132 am arloesi â hydrogen) - Technoleg synhwyro ar y rhwydwaith carthffosydd a pharhau i ddefnyddio Monitorau Hyd Digwyddiadau i roi mwy o weladwyedd ar systemau gorlif storm cyfun sy'n gorlifo'n aml - Rhaglen ymchwil a threialu i ystyried y defnydd o'r economi gylchol mewn gwahanol rannau o'r busnes	T1 P1 P4 O2
 Cwsmeriaid	- Ymgysylltu â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ynglŷn â'r rhynddibyniaethau â darparwyr seilwaith allweddol megis pŵer a thrafnidiaeth er mwyn deall goblygiadau i systemau - Ymgrych 'Stop Cyn Creu Bloc' i addysgu cwsmeriaid am niwed weipiau gwlyb - Datblygiadau arloesol ym maes technoleg mesuryddion deallus (gweler tudalen 130) i helpu cwsmeriaid i leihau eu defnydd - Toriadau yn y cyflenwad – gwaith cydnherthedd ar osgoi amser anweithredol	P5 O1
 Cymunedau	- Cymryd rhan mewn fforymau cydnherth lleol, gan gynnwys gwaith i wella cynllunio amlasiantaethol - Rhaglenni arloesi cydweithredol, gan gynnwys £35.7 miliwn drwy gronfa arloesi Ofwat a phartneriaethau â hyd at 100 o sefydliadau academiaidd a sefydliadau eraill - Polisi Coffael Cynaliadwy i gryfhau cadwyni cyflenwi a lleihau allyriadau cwrpas 3 - Mae cynllunio strategol yn ystyried: - Llwybrau ymaddasu a phrofi senarios yn ein Strategaeth Gyflawni Hirdymor er mwyn buddsoddi'n gyfrifol yn unol â'n dealltwriaeth o risg - Datblygu a defnyddio fframwaith mesur gwasanaeth, yn seiliedig ar ein dull amlgyfalafol sy'n arfer da er mwyn cyflwyno'r achos dros ddatrysiadau glas/gwyrdd i leihau effeithiau carbon ymyriadau a chyfrannu at strategaeth Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy	T2 T3 T4 T5 O3

TCFD PARHAD

Nodyn ar y risgiau i'n gallu i gymryd ein camau lliniaru strategol

Mae risg na fydd y fframwaith rheoleiddio fel y'i nodir ar hyn o bryd yn cefnogi cyllid ar gyfer y buddsoddiadau ymaddasu a lliniaru y mae angen i ni eu gwneud, fel y'i crynhoir uchod. Mae risg hefyd y bydd penderfyniadau'r Llywodraeth yn llywio'r polisi i wella ansawdd dŵr heb gyfeirio at ganlyniadau penderfyniadau o'r fath o ran carbon, gan gynyddu allyriadau cwmpos 3 yn enwedig.

Byddwn yn optimeiddio ein gweithgarwch o fewn y gyfundrefn reoleiddio rydym yn gweithredu'n unol â hi a'r amodau marchnad cysylltiedig ar gyfer cael gafael ar gyfalaf, ac yn ceisio cefnogaeth partneriaid a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau buddsoddiadau digonol i gyrraedd diogelwch hinsawdd.

3. Llywodraethu

3.1 Crynodeb

Mae newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o'n trefniadau llywodraethu, drwy ein Bwrdd a'n rheolwyr.

Y Bwrdd	Mae'n adolygu risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn rheolaidd, gan gynnwys papurau ar amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â gwasanaethau a'r hinsawdd, sy'n ei helpu i ddeall y risgiau a'r materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n dod i'r amlwg.
Pwyllgor ACLI	Mae'n datblygu ac yn goruchwyllo Strategaeth Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu'r Grŵp. Mae'n monitro perfformiad yn erbyn targedau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu'r Cwmni a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'n adolygu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn rheolaidd. Mae'n cymeradwyo sut yr ymdrinnir â datgeliadau TCFD. Mae'n adolygu papurau ar amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â gwasanaethau a'r hinsawdd sy'n ei helpu i ddeall risgiau a materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n dod i'r amlwg.
Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol	Prif Swyddog Gweithredol: mae'n gyfrifol yn y pen draw am barodrwydd y Grŵp i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a llywio ein strategaeth liniaru. Prif Swyddog Risg: Mae ganddo gyfrifoldeb gweithredol am drefniadau llywodraethu rheoli risg, gan gynnwys nodi, rheoli a chofnodi risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn briodol. Rheolwyr-gyfarwyddwyr dros Wasanaethau Dŵr a Dŵr Gwastraff: maent yn gyfrifol am weithredu'r ymateb i newid yn yr hinsawdd a gweithredu'r cynlluniau ymaddasu. Ochr yn ochr ag aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol, maent wedi cael y dasg o reoli'r risgiau a'r camau lliniaru, er enghraifft drwy sicrhau bod yr adnoddau a'r bobl fedrus angenrheidiol ar gael yn y Cwmni er mwyn cyflawni ei amcanion strategol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

3.2 Goruchwyliaeth y Bwrdd o risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf a wynebwn fel busnes ac mae'n effeithio ar ein themâu strategol.

Ein prif gyfrwng i oruchwyllo risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yw drwy Bwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI) y Bwrdd, sy'n cyfarfod bob chwarter ac sy'n adolygu risgiau'n ffurfiol bob chwe mis. Ceir rhagor o wybodaeth am rôl, amcanion a gweithgareddau'r Pwyllgor ACLI yn ei adroddiad ar dudalen 170. Rhoddir diweddariadau ysgrifenedig ac ar lafar i'r Bwrdd ar ôl pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor ACLI, ac mae'r cofnodion a'r papurau a drafodir ar gael i bob Cyfarwyddwr. Hefyd, mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn cael diweddariadau manwl ar risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r amlwg bob chwe mis, y mae dwy o'r risgiau hyn yn gysylltiedig â'r hinsawdd (ymaddasu a thargedau carbon) ac yn cael diweddariadau cryno ar risgiau bob mis.

Caiff cynaliadwyedd a gweithgareddau cysylltiedig eu goruchwyllo gan y Pwyllgor ACLI, ar ran y Bwrdd, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â diben a strategaeth ehangach y busnes ac yn cael eu hintegreiddio â nhw. Mae hyn yn adlewyrchu ein cenhadaeth yn Dŵr Cymru 2050: 'dod yn wasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r dyfodol'. Mae'r adran ar strategaeth o'r adroddiad TCFD hwn wedi amlinellu'r risgiau a'r cyfleoedd penodol sy'n cael yr effaith fwyaf, yn ein barn ni, ar y genhadaeth hon. Mae tudalen 106 o'r adroddiad hwn yn amlinellu amcanion ein strategaeth ACLI.

1. gwaith cynllunio hirdymor a chynaliadwyedd,
2. cyflawni ein strategaeth carbon sero net,
3. addasu ein hasedau a'n gwasanaethau i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, ochr yn ochr â 'meysydd ffocws' a 'mesurau' isradd, sy'n cael eu monitro bob chwarter gan y Pwyllgor ACLI.

3.3 Rôl rheolwyr

Mae ein Polisi Cynllunio Newid yn yr Hinsawdd yn nodi rôl rheolwyr o ran newid yn yr hinsawdd fel a ganlyn:

- y Prif Swyddog Gweithredol sy'n gyfrifol yn y pen draw am barodrwydd y Grŵp i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a llywio ein strategaeth liniaru,
- mae gan y Prif Swyddog Risg gyfrifoldeb gweithredol am drefniadau llywodraethu rheoli risg, gan gynnwys nodi, rheoli a chofnodi risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn briodol
- mae Rheolwyr Gyfarwyddwyr dros Wasanaethau Dŵr a Dŵr Gwastraff yn gyfrifol am weithredu ymatebion i newid yn yr hinsawdd a gweithredu'r cynlluniau ymaddasu. Ochr yn ochr ag aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol, maent wedi cael y dasg o reoli'r risgiau a'r camau lliniaru, er enghraifft drwy sicrhau bod yr adnoddau ariannol a'r bobl fedrus angenrheidiol ar gael yn y Cwmni er mwyn cyflawni ei amcanion strategol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Caiff adroddiadau risg y Pwyllgor ACLI a'r Bwrdd eu hadolygu gan y Tîm Gweithredol, sy'n sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cael eu nodi a bod camau lliniaru priodol yn cael eu cynllunio a'u cymryd er mwyn cyflawni amcanion strategol ym maes cynaliadwyedd, sero net ac ymaddasu. Mae'r Pwyllgor ACLI a'r Bwrdd hefyd yn adolygu papurau ar amrywiaeth eang o bynciau sy'n ymwneud â gwasanaethau a'r hinsawdd, sy'n eu helpu i ddeall risgiau a materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n dod i'r amlwg.

Ar ôl adolygiad y Tîm Gweithredol, caiff adroddiadau rheoli misol a risgiau strategol eu paratoi ar gyfer pob un o gyfarfodydd y Bwrdd a chaiff adroddiadau ar risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu eu hadolygu gan y Pwyllgor ACLI bob chwe mis gyda diweddariadau chwarterol. Mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu ac yn datblygu cynigion buddsoddi a'r strategaeth gyflawni ar gyfer PR24 sydd wedi eu hategu gan asesiadau o amrywiaeth o senarios hinsawdd posibl yn y dyfodol. Ceir crynodeb lefel uchel o'r senarios hyn yn yr adran ar strategaeth. Yn amodol ar gosgliad PR24 ac yn unol â disgwyliadau Ofwat ynglŷn â strategaethau cyflawni hirdymor, rydym yn anelu at lunio cynllun cadarn y gellir ei addasu i ansicrwydd newid yn yr hinsawdd ar gyfer adnoddau o gwasanaethau dŵr, ac ar gyfer gwasanaethau draenio a dŵr gwastraff.

Er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i'r rhaglen fuddsoddi, a rhoi trosolwg annibynnol o strategaethau amgylcheddol penodol, rydym wedi parhau i ddefnyddio'r Panel Cyngori Annibynnol ar yr Amgylchedd. Er enghraifft, y flwyddyn hon mae'r Panel Cyngori Annibynnol ar yr Amgylchedd wedi cynghori ar ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, sy'n ymateb i'r argyfwng natur a ddatganwyd yng Nghymru ac sy'n nodi ein map trywydd ar gyfer adrodd drwy'r Tasglu ar ofnyion Datgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â Natur yn 2024.

Rydym hefyd wedi adolygu blaenoriaeth ein mesurau lliniaru, gan ymateb i'r ffordd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi buddsoddiad 'Sero Net' fel rhan o'r Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol ar gyfer AMP8. Caiff ein targed ar gyfer sero net (o dan Amcan ACLI 1 Cynaliadwyedd Amgylcheddol) ei ddiweddarau y flwyddyn hon yn unol â'r goreuon yn y sector.

Yn olaf, y flwyddyn hon, rydym wedi datblygu ac wedi cymeradwyo ein Polisi Cynllunio Newid yn yr Hinsawdd, dogfen sy'n amlinellu'r ffordd y byddwn yn ymgorffori Llwybrau

Crynodebiad Cynrychioliadol y Panel Rhyngwladol ar Newid yn yr Hinsawdd ym mhob strategaeth hirdymor a chynllun, ac yn cynnwys gwaith profi senarios a chynllunio ymaddasu, lle y bo'n berthnasol. Mae hefyd yn amlinellu ein hymrwymiad i baratoi Adroddiad Ymaddasu ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd i dynnu sylw at risgiau a chamau lliniaru allweddol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ac yn ei ddiweddarau bob pum mlynedd yn unol â therfynau amser Cynllunio Ymaddasu Cenedlaethol. Bwriedir ei gyhoeddi nesaf ar ddechrau'r haf hwn.

4. Rheoli risg

4.1 Integreiddio rheoli risg newid yn yr hinsawdd

Rydym yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn unol â'n proses Rheoli Risgiau Busnes, lle mae ein Pwyllgor ACLI yn cymryd perchnogaeth ac yn arwain y prosesau adrodd. Ceir rhagor o fanylion am y broses ERM, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau ar dudalennau 90 i 99 o'r adroddiad hwn.

4.2 Blaenoriaethu risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd

Er mwyn llywio'r adroddiad TCFD y flwyddyn hon, gwnaethom adolygu ac ailflaenoriaethu ein risgiau yn seiliedig ar y wyddor hinsawdd ddiweddaraf ac arferion gorau'r diwydiant.

Gwnaethom ddatblygu pum senario sy'n cynrychioli amrywiaeth ddigonol i ystyried y newid posibl yn yr hinsawdd y gallem gael ein hamlygu iddo dros wahanol derfynliniau. Yn seiliedig ar ddata UKCP18, mae'r rhain yn senarios credadwy ac rydym wedi defnyddio'r rhain fel man cychwyn i ystyried effeithiau perthnasol newid yn yr hinsawdd a'r newidiadau polisi a thechnoleg a ddisgwyllir. Esbonnir y senarios hyn yn fanylach yn yr adran ar strategaeth.

Wrth asesu'r risgiau o dan bob RCP ac o dan bob terfynlin, gwnaethom ystyried y risg heb ei lliniaru i'n sefydliad, heb gynnwys camau lliniaru arfaethedig yn y dyfodol. Rydym yn ystyried ein sefyllfa heb ei lliniaru er mwyn deall pa mor ddifrifol fyddai ein sefyllfa o dan senarios gwahanol yn y dyfodol, gan gydnabod, dros yr hirdymor, fod y rhan fwyaf o'r camau lliniaru arfaethedig yn destun ansicrwydd a chyfyngiadau ac nad ydynt yn gyfystyr â chamau lliniaru a gwblhawyd.

Ar ôl i ni nodi senarios a ffactorau sy'n ysgogi risgiau, gwnaethom baratoi rhestr hir o risgiau drwy fapio categorïau o asedau yn erbyn pob un o'r ffactorau ysgogi, er mwyn sicrhau ein bod wedi cofnodi amrywiaeth eang o risgiau ym mhob rhan o'n sylfaen asedau. Gwnaethom asesu canlyniadau risgiau a'u tebygolrwydd, gan ddilyn ein proses ERM, gyda gwelliannau a oedd yn ein galluogi i ddadansoddi'n well o dan yr ansicrwydd a'r terfynau amser sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Drwy sgorio a chofnodi risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd o fewn yr un fframwaith ERM â'r holl risgiau eraill, rydym yn galluogi'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd i asesu blaenoriaethau o ran risgiau a'u harwyddocâd, gan ddefnyddio gwerthoedd sgoriau risgiau a pharodrwydd i dderbyn risg, sy'n helpu'r Bwrdd i wneud asesiad gwrthrychol o risgiau a blaenoriaethau.

Yna, gwnaethom asesu a blaenoriaethu'r risgiau hyn drwy gyfres o weithdai i nodi'r pum risg a chyfle mwyaf o ran risgiau ffisegol a phontio. Rydym hefyd wedi ceisio nodi'r camau lliniaru strategol allweddol sy'n ymateb i un neu fwy o'r risgiau hyn.

TCFD PARHAD

5. Metrigau a thargedau

Caiff y broses o reoli ein risgiau ei hategu gan waith monitro mynych ar ein metrigau a'n targedau sy'n ymwneud â datgarboneiddio ac ymaddasu. Fel cwmni dŵr, mae'n rhaid i ni gyflawni nifer o rwymedigaethau adrodd ar gyfer ein rheoleiddwyr, sy'n debyg i bob cwmni dŵr yng Nghymru a Lloegr, ac rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth ddefnyddiol arall i randdeiliad yn yr Adroddiad Blyneddol hwn.

Gellir defnyddio ein metrigau a'n targedau i fesur ein cynnydd o ran lliniaru ein risgiau a thrwy hynny gyflawni ein targedau ynglŷn â newid yn yr hinsawdd. Rydym wedi asesu perthnasedd metrigau a thargedau ynglŷn â newid yn yr hinsawdd a ddefnyddir gan y diwydiant er mwyn pennu set o dargedau, nodau a metrigau perthnasol. Rydym wedi asesu perthnasedd metrigau a thargedau ynglŷn â newid yn yr hinsawdd a ddefnyddir gan y diwydiant er mwyn pennu set o dargedau, nodau a metrigau perthnasol.

5.1 Ein nodau a'n targedau

Sero net

Yn 2021, gwnaethom ymrwymo i sero net erbyn 2040. Bydd hyn yn trawsnewid ein sefydliad ac rydym wedi nodi nifer o gerrig milltir a thargedau i'n helpu i gyflawni hyn, gyda ffocws ar gynyddu ein gallu i gynhyrchu ein hynni ein hunain, buddsoddi mewn gwyddoniaeth ac ymchwil i drawsnewid ein gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff a lleihau ein galw am ynni.


Fel y nodir ar dudalennau 120 i 121, wrth geisio cyflawni'r ymrwymiad hwn, rydym eisoes wedi gwneud cryn gynnydd i leihau ein hallyriadau sydd wedi gostwng 65% ers 2010. Rydym wedi buddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, gyda phortffolio sy'n cynnwys dros 70 o asedau, gan gynnwys ynni trydan dŵr, peiriannau gwres a phŵer cyfunedig, ynni'r haul a'r gwynt, gan gynhyrchu digon o drydan ar gyfer mwy na 25% o'n hanghenion – sy'n cyfateb i fwy na 25,000 o gartrefi.

Ein Nodau

Rydym wedi gostwng cyfanswm ein hallyriadau carbon 65% (o gymharu â lefelau 2010)

Byddwn yn gostwng cyfanswm ein hallyriadau carbon 90% (o gymharu â lefelau 2010)

Byddwn yn garbon niwtral



Targedau hyd at 2025

- Cynhyrchu 35% o'n hanghenion ynni – cyflawnwyd 22% yn 2022/23
- Gostyngiad o 33% yn nwysedd carbon corfforedig ar gyfer prosiectau unigol o gymharu â'r flwyddyn llinell sylfaen 2020/21.
- Gostyngiad o 7 litr y person y dydd yn y defnydd o ddŵr

Targedau hyd at 2030

- Gostyngiad o 50% mewn allyriadau N2O sy'n ffoi o gymharu â'r flwyddyn llinell sylfaen 2020/21
- Cynhyrchu 50% o'n hanghenion ynni
- Treblu faint o fioletan/biohydrogen a gynhyrchir o gymharu â'r flwyddyn llinell sylfaen 2020/21

- Gostyngiad o 50% mewn carbon corfforedig yn erbyn datrysiadau prosiect confensiynol o gymharu â'r flwyddyn llinell sylfaen 2020/21
- Targed o ddefnydd o 100/110 litr y person y dydd
- Lleihau gollyngiadau dŵr i 75/85 MI y dydd

Targedau y tu hwnt i 2030

- Trosi'r allyrwyr N2O mwyaf yn driniaeth adweithydd
- Ffilyd o gerbydau di-allyriadau
- Gostyngiad o 90% mewn carbon corfforedig erbyn 2040 o gymharu â'r llinell sylfaen 2020/21
- Defnyddio dulliau dal a storio carbon i ddal 8,000 tCO₂e y flwyddyn

Risg	Metrigau ac adrodd perthnasol
T1 Cofnodi allyriadau'n anghywir. Mae risg bod allyriadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhai a gofnodwyd. Mae'r ansicrwydd hwn yn arwain at danfuddsoddi neu orfuddsoddi mewn gweithgareddau lliniaru, ac yn gwneud y sefydliad yn agored i effeithiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r rheolaethau prisiau ar gyfer allyrru nwyon tŷ gwydr.	Cyflawnder allyriadau cwmipas 1, 2 a 3
T2 Anallu i fabwysiadu technolegau newydd yn gyflym. Mae risg bod ein galluoedd technolegol i gefnogi'r broses bontio yn annigonol i liniaru allyriadau gweddilliol ac ymdrin â heriau yn y dyfodol, e.e. gwaredu biosolidau, a lleihau allyriadau proses.	Adroddiadau blynyddol ar gynnydd arloesi (gweler tudalen 129 o'r adroddiad hwn).
T3 Effaith ariannol masnachu allyriadau estynedig a threth carbon. Mae risg o bwysau deddfwriaethol a rheoliadol cynyddol i ymuno â chynlluniau masnachu allyriadau neu risg o orfodi treth carbon, sy'n arwain at gostau sylweddol.	Allyriadau cwmipas 1, 2 a 3 (gweler tudalen 120 o'r adroddiad hwn).
T4 Mae cyflymder y broses bontio yn cynyddu costau ac yn creu mwy o gystadleuaeth am adnoddau yn y gadwyn gyflenwi. Mae risg bod polisiau yn gorfodi cwmnïau i bontio ar yr un pryd, gan achosi cystadleuaeth am yr un adnoddau. At hynny, nid oes datrysiadau technolegol ar gael i'r gadwyn gyflenwi eto i liniaru allyriadau gweddilliol (e.e. allyriadau proses).	Allyriadau cwmipas 1, 2 a 3 (gweler tudalen 120 o'r adroddiad hwn).
T5 Mae targedau rheoleiddio sy'n ymwneud â charbon corfforedig yn anghyson â'r targedau rheoleiddio o dan y Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol. Mae risg bod tensiynau rheoleiddiol rhwng y Cynllun Amgylcheddol Cenedlaethol a charbon corfforedig yn arwain at fethiant i gyflawni'r naill darged a'r llall, gan arwain at niwed i enw da a/neu effaith amgylcheddol negyddol.	Allyriadau cwmipas 1, 2 a 3 (gweler tudalen 120 o'r adroddiad hwn). Adrodd yn erbyn amcan ACLI 8: ymaddasu i heriau yn y dyfodol (tudalen 109).
Cyfle	Metrigau ac adrodd perthnasol
O1 Datblygu a defnyddio technoleg arloesol. Mae gennym gyfle i ddatblygu a defnyddio technolegau newydd arloesol er mwyn gwella ein gwasanaeth yn awr ac ateb heriau'r hinsawdd yn y dyfodol.	Adroddiadau blynyddol ar gynnydd arloesi (gweler tudalen 129 o'r adroddiad hwn).
O2 Gweithredu egwyddorion yr economi gylchol. Mae cyfle i weithredu egwyddorion yr economi gylchol, gyda'r cyd-fuddiant o leihau allyriadau carbon cysylltiedig. Gallai arferion o'r fath hefyd greu llesiant cymdeithasol ac economaidd yn lleol yng Nghymru.	Adrodd yn erbyn cynnydd ar Ymateb Strategol 18 Dŵr Cymru 2050 (gweler tudalennau 48 i 67).
O3 Cefnogaeth i ddatblygu cyfreithiau a rheoliadau newydd. Mae gennym gyfle i borhau i gefnogi 'Tîm Cymru', Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill drwy newid cadarnhaol mewn deddfwriaeth, polisiau a rheoliadau, e.e. o ran datblygu masnachu mewn maethynnau, bioamrywiaeth, a masnachu mewn carbon yn nalgylchoedd afonydd; modelu ansawdd dŵr; samplu amgylcheddol a chasglu data; cyngor ar reoliadau newydd i wella cynaliadwyedd yn ein sector. Byddai dull gweithredu o'r fath yn optimeiddio'r defnydd o'r adnoddau sydd ar gael yng Nghymru.	Adrodd yn erbyn perfformiad ar amcan ACLI 10 (Cydwethio, tudalen 108) ac ar ymgysylltu â rhanddeiliaid (adroddiad blynyddol, tudalennau 68 i 70).
O4 Defnyddio caffael cynaliadwy i fanteisio ar yr economi werdd. Mae cyfle i ddefnyddio ein Polisi Caffael Cynaliadwy (2023), a gefnogir gan ein cymuned o rhanddeiliaid amgylcheddol, i gefnogi economi werdd Cymru, gan gynnwys, er enghraifft, drwy Gytundebau Prynu Ynni gwifren uniongyrchol leol neu Gytundebau Prynu Pŵer Corfforaethol.	Adrodd ar 'Llywodraethu' ACLI: gweler tudalennau 108 i 109.

TCFD PARHAD

Risgiau ffisegol hinsawdd a chydnerthedd

Rydym wedi pennu targedau sy'n mynd i'r afael â'r risgiau ffisegol a nodwyd gennym. Mae ein Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, a'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, sy'n cael eu diweddarau eleni, yn nodi ein cynlluniau i liniaru'r risgiau ffisegol mwyaf sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Hefyd, rydym yn cael ein cymell i gyflawni targedau, a elwir yn Ymrwymïadau Perfformiad, gan ein rheoleiddiwr sy'n ategu'r broses o liniaru'r risgiau ffisegol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Caiff y rhain eu diweddarau drwy ddefnyddio'r Strategaeth Gyflawni Hirdymor a ddatblygwyd gennym sy'n nodi ein cynllun cyflawni dros y 25 mlynedd nesaf ac a ddaw i rym yn y cyfnod rheoleiddio pum mlynedd nesaf sy'n dechrau yn 2025.

Risg	Metrigau ac adrodd perthnasol
P1 Rhwydweithiau carthffosydd yn gorlifo yn ystod digwyddiadau glaw mawr. Mae risg y bydd carthffosydd yn gorlifo yn ystod cyfnodau o law dwysach neu law sy'n para'n hwy, gan arwain at lifogydd (llifogydd mewnol/allanol, gollyngiadau o systemau gorlif storm cyfun).	Ymrwymïad Perfformiad En3: Achosion o lygredd (fesul 10,000km o garthffosydd a Rt1: Carthion mewnol yn gorlifo (fesul 10,000 o gysylltiadau carthffos).
P2 Effaith newid yn yr hinsawdd ar ansawdd dŵr yfed. Mae risg y bydd amodau tywydd eithafol, gan gynnwys amodau sychder, glawiad dwysach, cylchoedd gwlyb/sych mwy eithafol ac achosion anuniongyrchol eraill, yn newid cyfansoddiad dŵr cilfachau heb ei drin i weithfeydd trin, gan newid cyfundrefnau trin cemegol a'r gallu i drin yr un faint o ddŵr.	Ymrwymïad Perfformiad Wt1: Cydydffurfiaeth ansawdd dŵr (Mynegai Risg Cydydffurfio), Wt2: Toriadau yn y cyflenwad dŵr ac Wt3 Derbynioldeb dŵr yfed.
P3 Cynnydd yn y galw gan gwsmerïaid o dan amodau poeth. Mae risg y bydd angen mwy o ddŵr ar gwsmerïaid o dan amodau poeth, gan gyfyngu ar y lleihad arfaethedig o ran Defnydd y Pen i fodloni cyfyngiadau ar y cyflenwad/galw lleol.	Ymrwymïad Perfformiad En5: Defnydd y Pen (% y gostyngiad) – cyfartaledd dair blynedd ac Wt2: Toriadau yn y cyflenwad dŵr.
P4 Risg i'n hasedau yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol. Mae risg y bydd ein hasedau (e.e. gweithfeydd trin, gorsafoedd pwmpio, pibellau) yn mynd o dan ddŵr yn ystod digwyddiadau glaw mawr, gan arwain at anallu i gyflenwi cwsmerïaid neu risg o niwed amgylcheddol o ganlyniad i golli'r gallu i drin dŵr.	Ymrwymïad Perfformiad Wt2: Toriadau yn y cyflenwad dŵr, Wt5: Toriadau heb eu cynllunio % ac En1: Cydydffurfiaeth gweithfeydd trin %.
P5 Risg i gadwyni cyflenwi seilwaith yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol. Mae risg y bydd difrod i systemau seilwaith eraill neu darfu arnynt drwy effaith uniongyrchol digwyddiadau tywydd eithafol (e.e. seilwaith telathrebu, trafniadaeth neu ynni). Gall hyn darfu ar ein systemau ein hunain a gall arwain at anallu i gyflenwi ein cwsmerïaid ac achosi risg o niwed amgylcheddol o ganlyniad i golli'r gallu i drin dŵr.	Ymrwymïad Perfformiad En1: Cydydffurfiaeth gweithfeydd trin %, En3: Achosion o lygredd (Fesul 10,000km o garthffosydd) ac Wt2: Toriadau yn y cyflenwad dŵr.

5.2 Metrigau a chynnydd

Cyflwynir adroddiadau ar ein hallyriadau tŷ gwydr drwy ddefnyddio Llyfr Gwaith Cyfrifyddu Carbon y diwydiant dŵr a reolir gan UK Water Industry Research. Caiff hwn ei ddiweddarau bob blwyddyn i ddarparu ar gyfer ffactorau allyriadau newydd a thechnegau newydd o gofnodi allyriadau ac mae'r diwydiant dŵr yn dibynnu arno i gyflwyno adroddiadau ar ei allyriadau i reoleiddwyr a'r llywodraeth. Yn ogystal â defnyddio'r adnodd adrodd hwn, caiff ein data eu harchwilio bob blwyddyn i safon adrodd carbon ISO 14064.

Ceir data ar ein hallyriadau tŷ gwydr ar dudalen 120 o'r adroddiad hwn.

Nodir ein cynnydd yn erbyn ein hymrwymïadau perfformiad presennol a'n strategaeth hirdymor ar dudalennau 48 i 67 o'r adroddiad hwn.

6. Y camau nesaf

Rydym yn cydnabod ein bod ar daith o asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i'n busnes ac y bydd ein cynlluniau yn datblygu dros amser. Fel y cyfryw, rydym wedi nodi nifer o gamau nesaf, y byddwn yn parhau i'w cymryd dros y flwyddyn sydd i ddod.

Byddwn yn gwneud y canlynol...

Strategaeth	- Cwblhau adroddiad ymaddasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd (wrthi'n cael ei baratoi) i fynegi ein strategaeth, sy'n amlinellu ein dull o fonitro a lliniaru risgiau â blaenoriaeth. - Datblygu ein strategaethau lliniaru ac ymaddasu (yn unol â'n camau lliniaru strategol a nodir uchod) a'n cynlluniau cyflawni ymhellach yng nghyd-destun PR24. Cyhoeddir Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff a Chynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn ystod 2024, o ganlyniad i ymgynghoriadau yn 2023. - Datblygu ein senarios ar gyfer dadansoddi risgiau ymhellach er mwyn darparu ar gyfer pwyntiau tyngedfennol a mwy o anhrefn wleidyddol a hinsoddol, yn unol â chanllawiau TCFD ar ddadansoddi senarios¹.
Llywodraethu	- Gwella'r ffordd rydym yn monitro risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gydnabod bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ein Strategaeth Gyflawni Hirdymor, a fydd yn nodi trothwyon, a gwaith pellach ar risgiau pontio. - Gan adeiladu ar ein trefniadau llywodraethu corfforaethol a llywodraethu risgiau ACLI cadarn sydd eisoes ar waith, byddwn yn datblygu gwaith mapio llywodraethu er mwyn sicrhau bod llinell glir rhwng gwelliannau monitro risg a throthwyon a'r Bwrdd.
Rheoli risg	- Parhau i ddatblygu ein proses rheoli risg ar gyfer risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Yn benodol, byddwn yn gwneud y canlynol: - Datblygu'r ffordd rydym yn mesur risg yn ariannol erbyn mis Mawrth 2024. Byddwn yn defnyddio'r dull amlgyfalafol fel rhan o'n gwelliannau er mwyn deall risg yn well ac ymdrin â hi. - Parhau i fwydo ein dadansoddiad o risgiau i mewn i'n gwaith strategaeth a chynllunio mewn ffordd glir a chyson - Ymgorffori ein Polisi Cynllunio Newid yn yr Hinsawdd a gymeradwywyd yn ddiweddar er mwyn gwella ein cynlluniau strategol hirdymor ar gyfer adnoddau dŵr a draenio, gan integreiddio dadansoddiad o newid yn yr hinsawdd er mwyn llywio sut rydym yn buddsoddi ac yn gweithredu.
Metrigau a thargedau	- Parhau i ddatblygu targedau byrdymor a thymor canolig ar gyfer yr adolygiad o brisiau sydd ar ddod. - Parhau i ddatblygu ein dull o fesur a chofnodi allyriadau cwmpos 3. - Nodi metrigau ar gyfer gwaith monitro parhaus neu gynnydd i liniaru ein risgiau a chyflawni ein targedau.

¹ <https://www.tcfhub.org/scenario-analysis/>

EIN DULL O REOLI RISG


Rheoli Risg i gyflawni ein Hymrwymïadau i Gwsmerïaid

Rydym yn rheoli risgiau'n ofalus yn unol â'n strategaeth a'n prif ddiben o ddarparu gwasanaethau hanfodol i 3.1 miliwn o bobl.

Ein themâu strategol:



Proses Rheoli Risgiau Busnes:



Mae ein Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes yn cynnig y strwythur sy'n galluogi'r busnes i ragweld bygythiadau i fodloni'r ymrwymïadau hyn i gwsmerïaid ac adrodd arnynt ac i ymateb yn effeithiol pan fydd risgiau yn ymddangos. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys:

- Proses rheoli risg dros y Grŵp cyfan.
- Strwythur llywodraethu sefydledig sy'n fodd i'r Bwrdd oruchwylio risgiau, gyda chymorth y Pwyllgor Archwilio sy'n goruchwylio'r broses rheoli risg ynghyd â model 'Tair Llinell Amddiffyn' sy'n cadarnhau pwy sy'n berchen ar brosesau rheoli risg.
- Dull o ymdrin â pharodrwydd i dderbyn risg a arweinir gan y Bwrdd, yn seiliedig ar ein hymrwymïadau i gwsmerïaid a'n strategaeth.

Ein Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes

Mae'r fframwaith ERM yn pennu proses rheoli risgiau busnes sy'n diffinio sut y byddwn yn rheoli ac yn cofnodi risgiau ym mhob rhan o Dŵr Cymru, fel y dangosir isod.

Mae'r Grŵp yn gweithredu'r broses ERM drwy ddefnyddio model 'Tair Llinell Amddiffyn' sy'n sicrhau atebolrwydd a pherchnogaeth o ran nodi, asesu, lliniaru a monitro risgiau ar lefel asedau, prosiectau, swyddogaethau a strategaeth. Mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r system gan sicrhau ei bod yn gyson â'n parodrwydd i dderbyn risg a'n hamcanion risg strategol. Mae'r Bwrdd hefyd yn goruchwylio polisiau sy'n diffinio risg, ymddygiad a gofynion rheoli i'r Grŵp.

Y Tair Llinell Amddiffyn

Mae Dŵr Cymru yn gweithredu model y Tair Llinell Amddiffyn. O dan y model hwn:

Llinell Gyntaf

Mae gan reolwyr gweithredol berchnogaeth, cyfrifoldeb ac atebolrwydd am asesu, rheoli a lliniaru risgiau yn uniongyrchol.

Ail Linell

Mae swyddogaethau rheoli arbenigol a chyrrff llywodraethu mewnol yn monitro ac yn cefnogi proses rheoli risg effeithiol gan y llinell gyntaf. Maent hefyd yn sicrhau'r llif o wybodaeth am risg i fyny ac i lawr y sefydliad, gan gynnwys protocolau uwchraddio risgiau.

Trydedd Linell

Sicrwydd annibynnol ynghylch a yw cynllun, effeithiolrwydd gweithredol a chynaliadwydd systemau rheolaeth fewnol yn ddigonol.

Llinell Gyntaf	Ail Linell	Trydedd Linell
Pob cyflogai	Tim Risg	Archwilio Mewnol
Maes busnes Archwilio Mewnol a rheolwyr asedau	Tim Gweithredol Dŵr Cymru	
Rheolwyr prosiect	Grwpiau a Phwyllgorau Llywodraethu	

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio y tu allan i'r Tair Llinell Amddiffyn ac yn cael adroddiadau a sicrwydd gan y tair llinell amddiffyn.

Parodrwydd i dderbyn risg

Diffinnir ein parodrwydd i dderbyn risg yn amcanion risg strategol y Grŵp, sy'n cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Maent yn cyd-fynd â'n themâu strategol (Dŵr, Amgylchedd, Cwsmeriaid a Chymunedau (gweler tudalennau 06 i 07) a chânt eu defnyddio i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau sy'n ymwybodol o risgiau.

1.1 Amcan Risg Cyffredinol

Mae'r Grŵp yn cydnabod bod ei allu i barhau i gyflawni prif ddiben y Cwmni o ddarparu gwasanaethau hanfodol i 3.1 miliwn o bobl dros ei ardal gyflenwi gyfan a lleihau ei effaith ar yr amgylchedd yn dibynnu ar sicrhau digon o arian i fuddsoddi yn yr hirdymor. Er mwyn sicrhau cyllid cost is mae'n rhaid i'r Grŵp warchod ei enw da ac uniondeb ei gydberthynas â chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill. Fel rhan o hyn, mae'n barod i dderbyn risg lefel isel ar y cyfan o ran perfformiad a gwasanaeth cwsmeriaid, gan ei alluogi i gynnig rhai datrysiadau orloesol i sicrhau'r gwerth gorau yn y tymor hwy i gwsmeriaid a'r gymuned ehangach.

1.2 Amcanion Risg Strategol

- i. Darparu dŵr yfed a gwasanaethau amgylcheddol o ansawdd uchel, sy'n cynnig gwell gwerth am arian, er mwyn gwella llesiant ein cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- ii. Buddsoddi yn ein hasedau a'n pobl er budd pennaf ein cwsmeriaid. Bydd y Grŵp yn buddsoddi arian yn effeithlon ac yn effeithiol yn y seilwaith asedau er mwyn sicrhau gwerth gorau i'n cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol. Bydd hefyd yn mynd ati i ddenu a chadw sgiliau ac adnoddau priodol er mwyn sicrhau gwasanaeth cwsmeriaid lefel uchel.

- iii. Sicrhau mynediad sefydlog/effeithlon i gyllid a hylfedd. Mae'r Grŵp yn bwriadu bodloni gofynion all-lif arian parod a gynlluniwyd a rhai annisgwyl sy'n codi. Byddwn yn cynnal profion straen rhag digwyddiadau annisgwyl cyn cymeradwyo cynlluniau.
- iv. Cynnal hyder rhanddeiliaid. Nid yw'r Grŵp yn barod i dderbyn risgiau sylweddol a fyddai'n arwain at niwed i'w enw da neu amodau iechyd a diogelwch andwyol i unrhyw rhanddeiliaid mewnol neu allanol.

Datblygiadau yn ystod y flwyddyn – risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd

Rydym yn parhau i integreiddio ein dealltwriaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd yn ein prosesau ERM, ochr yn ochr ag ymgorffori senarios hinsawdd yn ein gwaith cynllunio strategol. Caiff risgiau sy'n gysylltiedig â methiant i ymaddasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd neu i gyflawni targedau carbon eu hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd. Rhoddir ffocws pellach ar gyfres fanylach o risgiau ACLI a risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ym Mhwyllgor ACLI y Bwrdd (gweler tudalen 84).

EIN DULL O REOLI RISG PARHAD

Rolau mewn perthynas â'r Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes

Rôl y Bwrdd

- Goruchwyllo system lywodraethu'r Grŵp, gan gynnwys fframwaith ERM integredig.
- Adolygu a dibynnu ar waith y Pwyllgor Archwilio wrth adolygu effeithiolrwydd y fframwaith ERM a phrosesau cysylltiedig.
- Diffinio parodrwydd i dderbyn risg, wedi'i ddogfennu a chytuno arno.
- Cynnal adolygiad manwl o risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r amlwg ddwywaith y flwyddyn, gan sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n unol â'n parodrwydd cyffredinol i dderbyn risg.
- Ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd, adolygu trosolwg y Tîm Gweithredol o risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar y busnes.

Rôl Tîm Gweithredol Dŵr Cymru

Cyflawni rôl Pwyllgor Risg Gweithredol drwy ddarparu goruchwyliaeth a her ail linell amddiffyn wrth reoli risgiau busnes, gan gynnwys:

- Trafod risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r amlwg cyn pob cyfarfod o'r Bwrdd a helpu'r Prif Swyddog Risg i baratoi adroddiadau i'r Bwrdd sy'n tynnu sylw at newidiadau allweddol.
- Adolygu adroddiad cryno chwarterol ar gofrestru risg busnes, ac ystyried a oes angen cymryd unrhyw gamau, gan ailasesu risgiau strategol yng ngoleuni'r adroddiad hwn.
- Goruchwyllo gweithrediad effeithiol y Fframwaith ERM, a chefnogi prosesau rheoli risg.
- Argymhell parodrwydd i dderbyn risg i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.

Rôl Archwilio Mewnol

- Mae'n rhaid i'r swyddogaeth Archwilio Mewnol fodloni ei hun bod y system rheoli risg yn gweithredu'n effeithiol o fewn gweithrediadau busnes er mwyn nodi a rheoli'r risgiau y mae'r busnes yn agored iddynt.
- Mae'n rhaid i'r swyddogaeth Archwilio Mewnol sicrhau bod y camau lliniaru risg a ddiffiniwyd yn gweithredu'n effeithiol i leihau risg fawr i lefel ofynnol y parodrwydd i dderbyn risg.

Rôl y Pwyllgor Archwilio

Ar ran y Bwrdd:

- Adolygu effeithiolrwydd y prosesau a'r gweithdrefnau rheoli risg a chyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd ar ddibynadwydd y prosesau a'r fframweithiau hyn.
- Goruchwyllo prosesau rheoli risg ar y lefel uchaf, gan sicrhau y caiff pob maes risg ei oruchwyllo a'i lliniaru ac yr adroddir ar bob un ohonynt yn briodol o fewn y Cwmni.
- Cael sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd a dibynadwydd goruchwyliaeth rheolwyr o feysydd unigol y busnes/pwyllgorau eraill sy'n goruchwyllo risg. Bydd hefyd yn rhoi argymhelliad i'r Bwrdd ei fod wedi'i fodloni bod trefniadau llywodraethu a goruchwyliaeth yn mynd rhagddynt.
- Derbyn adroddiadau sicrwydd gan y swyddogaeth Archwilio Mewnol sy'n nodi bod y fframwaith rheoli risg yn effeithiol ac yn ddibynadwy, gan gynnwys asesiad o'r llinell amddiffyn gyntaf o'r ail linell amddiffyn.

Rôl y Prif Swyddog Risg

- Perchennog prosesau rheoli risg y Grŵp, gan reoli'r fframwaith ar gyfer rheoli risgiau busnes (ERM), a sicrhau bod gwybodaeth am risg yn llifo drwy'r sefydliad cyfan.
- Paratoi adroddiadau ar gyfer pob cyfarfod o'r Bwrdd, gan dynnu sylw at newidiadau allweddol i risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r amlwg ar sail trafodaethau'r Tîm Gweithredol.
- Paratoi adroddiad cryno chwarterol ar gofrestru rheoli risg a thynnu sylw at newidiadau allweddol i risgiau i'w hadolygu gan y Tîm Gweithredol.

Rôl pob maes busnes

- Mae timau unigol o fewn y busnes yn gyfrifol am reoli risgiau o fewn eu meysydd o gyfrifoldeb.
- Rhaid i bob tîm gofnodi ei risgiau ERM, diweddarau ei Gofrestr Risg, diffinio perchennog risg ac uwchgyfeirio'r rhain drwy ei arweinydd tîm.

Rôl Prif Swyddog Gweithredol y Grŵp

- O dan awdurdod a ddiprwywyd gan y Bwrdd, mae Prif Swyddog Gweithredol y Grŵp yn gyfrifol am gynnig yr asesiadau risg strategol, gan gynnwys parodrwydd i dderbyn risg, i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Bwrdd yn ystyried y cynigion hyn, yn eu haddasu lle y bo'n briodol, ac yna'n eu cymeradwyo.
- Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod system o reoli risg a llywodraethu risg ar waith ar lefel y rheolwyr. Mae hyn yn sicrhau rheolaeth fewnol effeithiol dros weithrediadau'r busnes, yn llywio penderfyniadau ar waith cynllunio ariannol a gweithredol, ac yn helpu i gyflawni amcanion a thargedau.

Perchennog Risg

- Dylai fod gan bob risg berchennog sy'n gyfrifol am asesu a rheoli'r risg honno ac adrodd arni. Fel arfer, cyfarwyddwr neu bennaeth gwasanaeth fydd perchennog y risg ar gyfer risgiau ERM, yn dibynnu ar gwmpas y gofrestr. Ar gyfer Risgiau Prosiect, rheolwr y prosiect fydd perchennog y risg fel arfer. Ar gyfer Risgiau Asedau, pennaeth gwasanaeth neu berchennog yr ased fydd perchennog y risg.

Atebolrwydd am risgiau:

- Cyfrifoldeb pob cydweithiwr yw nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i faes gweithredu ei hun a gweithredu/cydydffurfio ag unrhyw reolaethau sydd â'r nod o lliniaru'r risgiau hynny mewn ffordd gadarn. Dylid uwchgyfeirio unrhyw risgiau na ellir eu rheoli ar lefel unigol. Dylai fod gan bob risg berchennog risg a fydd yn atebol amdani.
- Mae'r fframwaith rheoli risg yn cefnogi ymrwymiad Dŵr Cymru i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd drwy ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhogorol. Mae effeithiolrwydd rheoli risg yn dibynnu ar y ffordd y caiff ei integreiddio â threfniadau llywodraethu'r sefydliad, gan gynnwys y broses gwneud penderfyniadau.

Mae'r fframwaith ERM yn diffinio rolau rheoli risg, gan gadarnhau pwy sy'n gyfrifol am brosesau rheoli risg, adrodd a goruchwyllo.


Prif risgiau a wynebir gan y Grŵp

Rydym yn asesu'r prif risgiau yn ofalus er mwyn cadarnhau pa mor debygol ydyw y byddant yn codi a pha mor ddifrifol fyddai unrhyw niwed i gwsmeriaid, ein henw da a'n sefyllfa ariannol. Rydym hefyd yn ystyried y camau lliniaru a'r rheolaethau a ddefnyddir gennym.

Mae ein proffil o risgiau gweddilliol, sy'n cyfrif am y camau lliniaru hyn, wedi cynyddu ar y cyfan yn 2022. Mae hyn yn adlewyrchu ffocws cynyddol rhanddeiliaid ar berfformiad amgylcheddol, ochr yn ochr â'r risg uwch o hyd mewn meysydd allweddol megis seiber, effeithiau'r hinsawdd ar gydnerthedd ac effeithiau cyffredinol y dirywiad economaidd.

I'r gwrthwyneb, gostyngodd sgôr tebygolrwydd risgiau iechyd a diogelwch yn ystod y flwyddyn, a oedd yn adlewyrchu parhad tueddiadau cadarnhaol o ran dangosyddion risg. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn cydnabod nad oes lle i laesu dwylo, ac maent yn parhau i roi'r ffocws mwyaf posibl ar y risg hon.

Crynodeb o'r prif risgiau gweddilliol a wynebir gan y Grŵp



7

↑

Tebygolrwydd

ALLWEDD

1

Perfformiad amgylcheddol ac enw da

2

Parhad busnes

3

Effeithiau newid yn yr hinsawdd a risgiau pontio

4

Digwyddiad mawr yn ymwneud ag iechyd a diogelwch

5

Seiber, technoleg gwybodaeth a thechnoleg weithredol (TG a TW)

6

Perfformiad a chostau

7

Colli ymddiriedaeth, yn enwedig ymddiriedaeth ein cwsmeriaid

8

Talent ac amrywiaeth ein pobl

9

Risg gyllidol a gallu cwsmeriaid i dalu

Tuedd o ran Risg – Arwydd o'r amlygiad presennol, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol:

↓

Wedi lleihau

↔

Sefydlog

↑

Wedi cynyddu

EIN DULL O REOLI RISG PARHAD

Prif risg a'i difrifoldeb	Effaith bosibl	Cam lliniaru
1 Perfformiad Amgylchedd ac Enw Da	Y risg o fethu â rheoli ein heffeithiau ar yr amgylchedd a chyrraedd safonau; ac ymateb i bryderon rhanddeiliaid ynglŷn â materion amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd, gan arwain at golli ymddiriedaeth rhanddeiliaid a gwaith cynllunio annigonol at y dyfodol.	Rheolir gweithgareddau gweithredol allweddol sy'n effeithio ar yr amgylchedd drwy ddefnyddio systemau rheoli a ardystiwyd i ISO 14001. Rydym yn monitro pryderon amgylcheddol lleol, cenedlaethol a byd-eang ac ymatebion y diwydiant. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod gweithgareddau parhaus yn cael yr effaith leiaf posibl ar yr amgylchedd, ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n buddsoddiadau er mwyn datblygu'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a'n bod yn cyflawni nodau amgylcheddol eraill (e.e. targedau carbon a bioamrywiaeth). Rydym yn cyhoeddi data ar ollyngiadau o systemau gorlif storm er mwyn sicrhau tryloywder ac rydym yn gweithio'n agos gydag aelodau'r Panel Cyngchori Annibynnol ar yr Amgylchedd, gan gynnwys cynrychiolwyr cyrff anllwyodraethol ym maes yr amgylchedd, ynghyd â rheoleiddwyr, llywodraethau a sefydliadau fel Surfers Against Sewage.
2 Parhad busnes	Methiant asedau strategol, y gweithlu, systemau corfforaethol, darpariaeth cadwyni cyflenwi neu ddigwyddiadau allanol yn golygu na ellir darparu gwasanaethau hanfodol o ran dŵr yfed glân a diogel, diogelwch amgylcheddol neu gasglu arian parod.	Rydym yn rhoi prawf ar ein cynlluniau parhad busnes yn rheolaidd yn erbyn ein gofynion o dan Gyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (Ymgymrwyr Dŵr a Charthffosiaeth a Thrwyddedeion Cyflenwad Dŵr) ac yn cynnal ymarferion sy'n ymwneud â risgiau tarfu allweddol (e.e. pŵer, seiber a digwyddiadau sy'n ymwneud â'r tywydd). Mae ein Llawlyfr ar Ymateb i Ddigwyddiadau a'n Strwythur Rheoli Digwyddiadau yn darparu ein fframwaith i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau sy'n fygythiad i barhad ein gwasanaethau. Caiff y strwythur hwn ei ategu gan Gynlluniau Parhad Busnes sy'n cwmpasu digwyddiadau allweddol (e.e. tanwydd, pŵer, sychder, llifogydd a digwyddiadau'r gaeaf) a chymorth ehangach gan y diwydiant drwy Drefniadau Rheoli Digwyddiadau Platinwm Water UK, sy'n cydgysylltu cyd-gymorth rhwng busnesau.
3 Effeithiau newid yn yr hinsawdd a risgiau pontio	Y risg o fethu â lliniaru/ymaddasu i newid yn yr hinsawdd sy'n cyflymu, gan arwain at sefyllfa lle mae digwyddiadau tywydd yn gorlethu ein seilwaith mewn rhan o'n hardal weithredu; neu gan achosi difrod sylweddol i nifer o asedau, sy'n cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, darpariaeth gwasanaethau, cwsmeriaid a'n henw da.	Mae ein proses cynllunio busnes yn ystyried yr angen i addasu ein gwasanaethau a'n hasedau er mwyn sicrhau ein bod yn buddsoddi'n briodol i ddatblygu cydnherthedd ac yn gallu ymateb yn briodol i sicrhau y darperir gwasanaethau er gwaethaf yr effeithiau hynny.

**Newidiadau dros
y cyfnod****Tuedd o ran
risg yn y FA
23**

Mae safbwyntiau ein cwsmeriaid ar yr amgylchedd wedi newid yn sylweddol dros yr ychydig fisoedd diwethaf, sy'n adlewyrchu pryderon ynglŷn â'r argyfwng amgylcheddol y mae'r byd yn ei wynebu, a'r diddordeb mewn materion mwy lleol megis ansawdd dŵr afonydd. Mae lefel yr ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae ein systemau yn gweithredu wedi cynyddu ac mae disgwyliadau wedi newid.



Nid ydym yn gwadu'r ffaith y gall ein gweithrediadau gael effaith ar yr amgylchedd, ac rydym yn canolbwyntio ar fod yn dryloyw a defnyddio ein data i sbarduno gwelliannau a thargedu ein buddsoddiad i gael y budd mwyaf posibl.

Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, y Panel Cyngori Annibynnol ar yr Amgylchedd, y Llywodraeth Cymru, Byrddau Rheoli Maethynnau a grwpiau cyffelyb eraill i ddatblygu ein cynlluniau, a gyfer ein buddsoddiad presennol a'n buddsoddiad yn y dyfodol.

O ran ansawdd dŵr afonydd, a systemau gorlif storm cyfun yn benodol, rydym wedi gweithio gyda Thasglu Dŵr Afonydd Llywodraeth Cymru, Byrddau Rheoli Maethynnau a grwpiau cyffelyb eraill i ddatblygu ein cynlluniau, a adlewyrchir yn ein Maniffesto ar gyfer Afonydd yng Nghymru (sydd ar gael ar-lein yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment>)

Yn ychwanegol at ein cynllun presennol i wario dros £800 miliwn mewn asedau dŵr gwastraff yn AMP7, rydym wedi neilltuo buddsoddiad ychwanegol o £140 miliwn yn ansawdd dŵr afonydd a systemau gorlif storm cyfun yn 2022. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu strategaeth maethynnau afonydd hirdymor gyda'r nod o sicrhau bod buddsoddiadau yn y dyfodol yn sicrhau cymaint o welliannau amgylcheddol â phosibl.

Rydym hefyd yn cydnabod ein cyfrifoldeb i ymateb i'r argyfwng hinsawdd – gweler tudalen 109. Gweler yr adranau ar TCFD o dudalen 74 ymlaen a'n strategaeth carbon sero net o dudalen 120 ymlaen.

Yn ystod 2022, mae ein timau gweithredol wedi bod o dan bwysau mawr ar adegau, gan gynnwys effeithiau cyfnodau o sychder a rhew/dadmer. Rydym hefyd wedi parhau i weld achosion o darfu ar rai cadwyni cyflenwi allweddol, megis tanwydd, cemegion hanfodol a charbon deuocsid.



Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar adnoddau a'r gadwyn gyflenwi o fewn ein Tîm Rheoli Argyfwng, sy'n monitro absenoldeb a phroblemau gyda'r gadwyn gyflenwi.

Rydym yn cydnabod y gall y rhyfel yn Wcráin barhau i achosi risgiau i gyflenwadau o danwydd a chodwyni cyflenwi, ac rydym wedi canolbwyntio ar gyflenwadau allweddol a thoriadau mewn pŵer mewn gweithgareddau cynllunio a phrofi.

Rydym yn gweld mwyfwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol ac mae ein ffocws ar ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a chydnerthedd asedau wedi cynyddu fel rhan o'n gwaith cynllunio hirdymor.



Rydym wedi adolygu ein risgiau ymaddasu hyd at 2100 gyda chymorth Arup, a adlewyrchir yn ein datgeliad TCFD (gweler tudalen 74) ac mewn Adroddiad Ymaddasu ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd a gaiff ei gyhoeddi yn 2023. Rydym yn ystyried tri phrif senario hinsawdd (mwyn, mwyaf tebygol a niweidiol) ac rydym wedi asesu'r risgiau i wasanaethau hanfodol (gweler TCFD o dudalen 74 ymlaen). Hefyd, rydym yn datblygu cynlluniau ymaddasu hyd at 2050 fel rhan o waith cynllunio AMP8 ac yn unol â chanllawiau Ofwat, a fydd yn sicrhau bod modd addasu ein cynlluniau, o ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â graddfa'r newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau.

Rydym hefyd yn ymrwymedig i liniaru newid yn yr hinsawdd: yn ystod 2021, lansiodd ein strategaeth 'Siwrnai i Sero Net' i gyflawni sefyllfa carbon sero net erbyn 2040 (ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 120).

ALLWEDD

Wedi lleihau



Sefydlog



Wedi cynyddu

EIN DULL O REOLI RISG PARHAD

Prif risg a'i difrifoldeb	Effaith bosibl	Cam lliniaru
4 Digwyddiad mawr yn ymwneud ag iechyd a diogelwch	Mae risg o anaf difrifol, salwch neu farwolaeth i gyflogai, contractwr, ymwelydd neu aelod o'r cyhoedd sy'n codi o ganlyniad i weithgareddau ein gwaith neu mewn cysylltiad â nhw. Er ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i osgoi unrhyw fath o anaf personol, os byddant yn digwydd mae risg o erlyn, dirwyon posibl ac erlyniadau troseddol yn erbyn Cyfarwyddwyr unigol, a cholli enw da. Gallai hyn ddigwydd o ganlyniad i fethiant i sefydlu a/neu weithredu asedau diogel, arferion gweithio diogel neu drefniadau rheoli contractwyr addas yn unol â gofynion cyfreithiol ac arferion gorau.	Y Prif Swyddog Gweithredol yw Cyfarwyddwr cyfrifol y Bwrdd ac mae'r Bwrdd yn adolygu diweddariadau misol ac adroddiadau chwarterol ar faterion a pherfformiad ym maes iechyd, diogelwch a llesiant. Defnyddir canllawiau iechyd a diogelwch rhagfynegi yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/Sefydliad y Cyfarwyddwyr fel fframwaith 'cyfarwyddo'. Rydym yn defnyddio dangosyddion rhagfynegi ac ôl-fynegi i reoli risgiau a pherfformiad yn fanwl. Ceir cyfathrebu rheolaidd hefyd ym mhob rhan o'r busnes – drwy gyfarfodydd tîm, diwrnodau diogelwch, sioeau teithiol a chynhadledd Iechyd a Diogelwch flynyddol. Rydym yn dilyn arferion gorau'r diwydiant (gan gynnwys sganio'r gorwel ar gyfer newid yn y dyfodol) ac mae ein gweithdrefnau a'n polisiau gweithredol yn gyson ag ISO45001.
5 Seiber, technoleg gwybodaeth a thechnoleg weithredol (TG a TW)	Gallai achos mawr o golli neu darfu ar system TG neu TW, neu fethiant sylweddol o ran gwybodaeth sensitif, fel ymosodiad seiber, arwain at darfu sylweddol ar wasanaethau gweithredol a gwasanaethau cwsmeriaid, colli enw da a chosbau a dirwyon rheoleiddiol posibl.	Rydym yn cydweithio â sefydliadau ymateb cenedlaethol y sector i fygythiadau seiber allanol ynghyd â sefydliadau ac arbenigwyr blaenllaw yn y diwydiant diogelwch er mwyn sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf am fygythiadau seiber. Mae ein tîmau yn sicrhau cydnherthedd gwasanaethau TG a TW, ac, ers 2021-22, maent wedi parhau i roi mwy o ffocws ac adnoddau ym maes galluedd canfod, diogelu ac ymateb seiberddiogelwch. Mae Pwyllgor Technoleg y Bwrdd yn goruchwyllo risgiau digidol y busnes, ac yn craffu'n benodol ar lefel y Bwrdd.
6 Perfformiad a chostau	Gallai perfformiad ar lefel islaw'r targedau effeithlonrwydd AMP7 y cytunwyd arnynt gyfyngu ar y gallu i gyflawni canlyniadau cwsmeriaid ac erydu ymddiriedaeth cwsmeriaid a hyder rheoleiddwyr yn y Cwmni.	Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo strategaethau gweithredol a chynlluniau gwella i gyflawni ymrwymadau perfformiad AMP7. Mae'r Tîm Gweithredol yn ymgymryd â phrosesau adrodd a thrafodaethau ynglŷn â pherfformiad cost yn fisol. Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu perfformiad yn erbyn y cynllun cost ym mhob cyfarfod. Caiff cynlluniau ariannol eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd bob blwyddyn. Mae'r Tîm Gweithredol yn olrhain prosiectau newid ym mhob rhan o'r Cwmni er mwyn gwella perfformiad a chyflawni targedau o ran costeffeithlonrwydd. Cyflwynir adroddiadau ar y rhain i gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol bob mis. Rydym yn parhau i weithio gyda'n tîm Gwyddor Data er mwyn defnyddio arloesedd megis technoleg glyfar i ddarparu ein gwasanaethau yn fwy effeithlon ac i fesur ein perfformiad.
7 Colli ymddiriedaeth, yn enwedig ymddiriedaeth ein cwsmeriaid	Mae methiant i ennyn ymddiriedaeth a hyder ein cwsmeriaid yn achosi'r risg y bydd cwsmeriaid yn colli hyder yn ein gwasanaethau. Fel unig gyflenwr gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, rydym yn destun lefel uchel o graffu a chyfarwyddo gan y llywodraeth a rheoleiddwyr.	Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar atgyfnerthu'r gwaith o gynnwys cwsmeriaid yn ein gweithgareddau ac ymgysylltu â nhw, a chynnal cydberthynas dda â'n rhanddeiliaid. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr grwpiau rhanddeiliaid allweddol ac yn ceisio sicrhau bod ein gweithgareddau cyfathrebu mor effeithiol â phosibl

**Newidiadau dros
y cyfnod****Tuedd o ran
risg yn y FA
23**

Rydym yn adolygu materion sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant yn fanwl, gyda diweddariad wythnosol i Dîm Rheoli Argyfwng y Tîm Gweithredol.



Yn y FA 23, llwyddwyd i gadw Gwobr Aur RoSPA ar gyfer Iechyd a Diogelwch, a Safon Iechyd Corfforaethol Platinwm Llywodraeth Cymru.

Gostyngodd sgôr tebygolrwydd risgiau iechyd a diogelwch yn ystod y flwyddyn, a oedd yn adlewyrchu parhad tueddiadau cadarnhaol o ran dangosyddion risg. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn cydnabod nad oes lle i laesu dwylo, ac maent yn parhau i roi'r ffocws mwyaf posibl ar y risg hon.

Yng nghyd-destun digwyddiadau geowleidyddol byd-eang, mae'r diwydiant dŵr yn darged ar gyfer ymosodiadau seiber, ac rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y negeseuon e-bost gwe-rwydo, meddalwedd wystlo ac ymosodiadau gwadu gwasanaeth dosbarthedig.



Er gwaethaf hyn, rydym o'r farn bod ein risg weddilliol wedi lleihau rywfaint, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth eang o welliannau i seilwaith a rheolaethau a roddwyd ar waith.

Dylid nodi ein bod wedi symud ein seilwaith i lwyfan cwmwl bytholwyrdd lle mae uwchraddio a phatsio yn rhan annatod o'r gwasanaeth craidd. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar ddatblygu ymwybyddiaeth cydweithwyr o faterion seiber, ac wedi cyflwyno RedFlag sy'n rheolaeth ataliol allweddol arall.

Rydym hefyd wedi parhau i asesu, cryfhau a phrofi ein hystad drwy gynyddu faint o wybodaeth am fygythiadau hysbys i ddiogelwch rydym yn ei chasglu a sefydlu'r Ganolfan Gweithrediadau Diogelwch Hybrid. Rydym yn canolbwyntio ar weithgareddau profi sydd wedi cynnwys gweithgareddau Tîm Porffor ac ymarferion ag asiantaethau eraill. Roeddem yn un o'r ychydig sefydliadau masnachol i gael gwahoddiad i gymryd rhan yn ymarfer seiber Marvel NATO, lle y gwnaethom gyrraedd safle dengradd uchaf o ran ein gallu amddiffynol.

Er i ni berfformio'n gryf o ran rhai mesurau pwysig, megis C-MeX, sef mesur gwasanaeth cwsmeriaid Ofwat, y flwyddyn hon, rydym yn cydnabod bod ein perfformiad mewn rhai meysydd eraill wedi bod yn siomedig, lle rydym wedi mynd ar ei hôl hi o ran ein targedau ynglŷn â thoriadau yn y cyflenwad dŵr, cydymffurfiaeth dŵr a gollyngiadau dŵr. Rydym wedi rhoi cynllun adfer ar waith (am ragor o fanylion, gweler tudalen 18 (neges y Prif Swyddog Gweithredol) a thudalennau 46 i 53 i weld ein Tabl Perfformiad).



Parhaodd perfformiad cost i fod yn ffocws yn y FA 23, gyda rhaglenni yn coel eu rhoi ar waith o hyd er mwyn sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac adeiladu.

Fodd bynnag, yn ystod y FA 23 gwnaethom wynebu costau a oedd yn uwch na'r hyn a gynlluniwyd oherwydd problemau megis costau ynni cynyddol, pwysau ehangach chwyddiant ar gostau adeiladu a digwyddiadau tywydd (gweler tudalen 34).

Disgwylir i ddigwyddiadau byd-eang sy'n mynd rhagddynt barhau i roi pwysau ar gostau cyflenwi dros y flwyddyn nesaf.

Mae ymchwil i gwsmeriaid gan Faromedr Ymddiriedaeth Edelman yn awgrymu bod ymddiriedaeth wedi dirywio yn y rhan fwyaf o sectorau yn ystod y flwyddyn. Yn yr un modd, mae ymchwil gan Ofwat yn awgrymu bod ymddiriedaeth yn y sector dŵr wedi lleihau, ond rydym yn dal i fod yn un o'r cwmnïau yr ymddiriedir ynddynt fwyaf.



Yng ngoleuni'r cynnydd mewn costau byw a phwysau amgylcheddol, rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i weithio'n galed i gynnal hyder ein cwsmeriaid yn ein gallu i gydbwyso fforddiadwyedd a'r angen i fuddsoddi er mwyn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chynnal gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

ALLWEDD

Wedi lleihau



Sefydlog



Wedi cynyddu

EIN DULL O REOLI RISG PARHAD

Prif risg a'i difrifoldeb	Effaith bosibl	Cam lliniaru
8 Pobl: talent ac amrywiaethy	Y risg y byddwn yn methu â denu neu gadw talent i gefnogi pob un o feysydd ein busnes; a/neu Byddwn yn methu â gwella amrywiaeth ein gweithlu er mwyn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn yn well.	Un o nodau Strategaeth Adnoddau Dynol bum mlynedd (a lansiwyd yn 2021) yw ein bod yn cael ein cydnabod fel y cyflogwr gorau yng Nghymru. Mae cefnogi datblygiad cydweithwyr a sicrhau bod ein proses recriwtio yn cefnogi gweithlu amrywiol a chynhwysol yn ganolog i hyn. Rydym yn rhoi adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiâu i Bwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd (gweler tudalen 173). Gweler tudalen 128 am wybodaeth am ein gwaith i wella amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gweithlu.
9 Risg gyllidol a gallu cwsmeriaid i dalu	Y risg bod y sefyllfa economaidd ehangach yn golygu y bydd cwsmeriaid yn ei chael hi'n anodd talu eu biliau dŵr a/neu yr effeithir ar ein gallu i gael cyllid gan drydydd partion. Gallent gael eu hadlewyrchu yng nghostau cynyddol drwgddyddion, colli hyder buddsoddwyr ac, yn y pen draw, gostau benthyca uwch. Mae ffactorau allweddol yn cynnwys cynnydd yng nghostau nwyddau uwchlaw refeniw a pharodrwydd buddsoddwyr i fuddsoddi yn Dŵr Cymru o dan risg Cyllid a gallu cwsmeriaid i dalu.	Rydym wedi ymrwmo i barhau i gefnogi hyd at 133,000 o gwsmeriaid sydd ar dariffau cymdeithasol ar gyfer y cyfnod 2020-25 ac, ar hyn o bryd, rydym yn cefnogi mwy na 129,000 o gwsmeriaid gyda chyfuniad o dariffau cymdeithasol a mathau eraill o gymorth ariannol. Rydym yn parhau i fonitro'r amgylchedd economaidd ehangach yn fanwl, yn enwedig yn sgil ansicrwydd economaidd ehangach ac effeithiau'r rhyfel yn Wcrâin. Rydym yn monitro cymarebau dyledion a gofynion cyllido yn fanwl ac yn llunio rhagolygon.

Risgiau sy'n dod i'r amlwg a wynebier gan y Grŵp

Caiff risgiau sy'n dod i'r amlwg eu cynnwys fel rhan o ddiweddariadau misol y Tîm Gweithredol ynglŷn â risg i'r Bwrdd a chânt eu trafod yn fanwl gan y Bwrdd ddwywaith y flwyddyn.

Risg sy'n dod i'r amlwg	Effaith bosibl	Cam lliniaru
Iechyd y cyhoedd (microlygryddion mewn dŵr yfed a phlastigion mewn dŵr gwastraff)	Y risg o bryder ymhlith y cyhoedd ynglŷn â microlygryddion – cemegion a microblastigau – mewn dŵr yfed a dŵr gwastraff wedi'i drin yn arwain at effeithiau canlyniadol posibl ar brosesau trin a all effeithio ar ein targedau carbon.	Rydym yn cadw llygad ar ddatblygiadau mewn rheoliadau amgylcheddol, gan gynnwys y bwriad i roi'r Gyfarwydddeb Dŵr Yfed ar waith yng Nghymru a Lloegr, ac rydym yn cefnogi ymchwil gan UKWIR ac eraill i'r risgiau posibl. Bydd ein ffocws ar reoli dalgylchoedd yn helpu, dros amser, i leihau'r ddibyniaeth ar gemegion wrth drin dŵr yfed. Mae ein prosesau trin dŵr gwastraff presennol yn helpu i waredu elfennau microblastig o ddŵr a ddychwelir i'r amgylchedd.
Gwahaniaethau deddfwriaethol	Mae risg o gostau cynyddol o ganlyniad i gydymffurfio â rhwymedigaethau ynglŷn â dŵr a'r amgylchedd a all fod yn wahanol yng Nghymru a Lloegr.	Rydym yn cydnabod rhai meysydd o wahaniaethau posibl, yn enwedig o ran gofynion trin dŵr a gollyngiadau o systemau gorlif storm cyfun. Ein ffocws yn y meysydd hyn yw gweithio gyda'n rhanddeiliaid i ddatblygu'r datrysiadau gorau er budd ein cwsmeriaid. Rydym yn cefnogi llawer o grwpiau buddiant yn weithredol. Erys ein ffocws ar ddatblygu tryloywder drwy gyflwyno gwaith monitro ansawdd dŵr afonydd a monitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth llif.

Newidiadau dros y cyfnod	Tuedd o ran risg yn y FA 23
Rydym wedi ymdopi â'r newid i fodel 'hybrid' ar gyfer cydweithwyr sy'n gweithio yn y swyddfa, gydag adborth cydweithwyr, cyfraddau trosiant a DPAAu recriwtio yn awgrymu bod hyn wedi bod yn llwyddiannus a'n bod yn dal i fod yn atyniadol i ymgeiswyr allanol. Rydym wedi cydnabod yr heriau y mae rhai cydweithwyr yn eu hwynebu o ganlyniad i bwysau costau byw, gan ymateb drwy roi taliad gaeaf i gydweithwyr a chynnydd mewn dyfardaliadau cyflog blynyddol. Arhosodd trosiant ymhlith cydweithwyr yn isel ar tua 1% drwy gydol y FA 23.	
Rydym yn monitro metrigau casglu arian parod a dangosyddion ynglŷn â dyled er mwyn nodi unrhyw gynnydd sylweddol o ran cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau dŵr. Hyd yma, cyfyngedig fu'r effeithiau. Mae'r gwendid o hyd yn yr economi a'r chwyddiant cymharol uchel wedi cael eu cynnwys fel ffactorau yng nghynllun busnes 2023-24 y Cwmni, sy'n dangos lefelau uchel o hylifedd arian parod. Rydym wedi cynnal balans arian parod sylweddol ac wedi cynyddu hylifedd byrdymor drwy gyfleusterau credyd cylchdro. Rydym yn monitro ein cymarebau credyd a'n gofynion cyllido yn fanwl, ac mae ein cynlluniau busnes yn targedu cadw statws credyd cadarn. Rydym yn paratoi ar gyfer codi dyled newydd ymhell cyn bod ei hangen fel y gallwn fanteisio ar gyfnodau pan fo hylifedd yn y farchnad yn gadarn. Rydym wrthi'n adolygu ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer 2025-30 ac rydym yn cydnabod y gall anghenion buddsoddi allweddol i gefnogi amcanion amgylcheddol a chydnerthedd gwasanaethau effeithio ar ofynion cyllido yn y tymor hwy	
Newidiadau dros y cyfnod	Tuedd o ran risg
Mae'r cyfryngau yn dal i gymryd diddordeb mewn 'cemegion byth bythol' ac maent yn ffocws cynyddol ymchwil. Mae ein rheoleiddiwr, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, wedi ei gwneud yn ofynnol i ni ddadansoddi dŵr am bresenoldeb sylweddau perffflwroalcyl a pholyfflwroalkyl. Hyd yma, nid yw ein gwaith monitro wedi nodi'r rhain yn y ffynonellau tynnu dŵr a ddefnyddiwn i ddarparu dŵr yfed.	
Bydd ein Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, sydd wedi cael eu cyhoeddi fel rhan o ymgynghoriad, yn tynnu sylw pob parti at y ffordd yr hoffem drawsnewid ein gwasanaethau draenio a charthffosiaeth mewn modd fforddiadwy i reoli ansawdd dŵr afonydd a datblygu ein gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Rydym yn gweithio gyda Thasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru i gytuno ar gyflymder a natur y gwelliannau angenrheidiol yn seiliedig ar angen amgylcheddol.	

DATGANIAD AM HYFYWEDD HIRDYMOR

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi cynnal asesiad cadarn o hyfywedd hirdymor y Grŵp, gan ystyried sefyllfa bresennol y Grŵp, effaith bosibl y prif risgiau y mae'r busnes yn eu hwynebu o dan senarios difrifol ond credadwy, ac effeithiolrwydd unrhyw gamau lliniaru.

Mae'r asesiad hwn yn ystyried rhagolygon y Grŵp yn y tymor hwy er mwyn sicrhau bod y busnes yn gallu gwrthsefyll amrywiol senarios difrifol ond credadwy a pharhau â'i weithrediadau a pharhau i gael mynediad at drefniadau cyllido a darparu gwasanaethau allweddol i gwsmeriaid pe bai senarios o'r fath yn codi. Yn seiliedig ar yr asesiad hwn o hyfywedd, mae gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol y bydd y Grŵp yn gallu parhau i weithredu a chyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod o saith mlynedd hyd at fis Mawrth 2030.

Ein hamgylchedd busnes a rheoleiddio

Rydym yn fusnes hirdymor: fel darparwr dŵr a charthffosiaeth, ein hymrwymiad i'n cwsmeriaid yw darparu gwasanaethau parhaus a dibynadwy o ansawdd uchel am y gost isaf bosibl, ac mae ein cydnheredd ariannol parhaus yn agwedd hanfodol ar ein gallu i gyflawni'r ymrwymiad hwn. Mae'r Grŵp wedi gwneud ymrwymiad hirdymor i ddarparu gwasanaethau cydnherth i'r cymunedau a wasanaethir ganddo ac mae'n cynllunio ar sail stiwardiaeth am byth.

Rydym yn fusnes hirdymor rheoleiddiedig a nodweddir gan raglenni buddsoddi amlfwydd a refeniw sefydlog. Mae'r diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr yn destun rheoleiddio economaidd yn hytrach na chystadleuaeth yn y farchnad, ac er mai prif nod Ofwat, y rheoleidiwr economaidd, yw diogelu cwsmeriaid rhag camddefnydd gan gwmnïau monopoli, mae hefyd yn cynnig mesurau diogelu i sicrhau bod gan gwmnïau dŵr y cydnheredd ariannol i barhau i ddarparu eu gwasanaethau hanfodol. Mae Ofwat yn cyflawni'r rhwymedigaeth hon drwy bennu systemau rheoli prisiau ar gyfer Cyfnodau Rheoli Asedau ('AMP') o bum mlynedd, gan gynnwys dulliau sy'n lleihau'r risg y bydd amrywioldeb mewn refeniw o'r busnes rheoleiddiedig yn y tymor canolig, drwy addasu refeniw yn y dyfodol i gydbwyso refeniw sy'n cael ei oradennill neu ei danadennill o gymharu â'r cynllun AMP.

Mae natur ein busnes a'n strwythur unigryw yn golygu ein bod mewn sefyllfa well na llawer o sefydliadau eraill i wrthsefyll ysgytwadau ariannol. Mae ein model corfforaethol yn golygu nad oes gennym unrhyw gyfranddalwyr ac na chaiff ein ffocws ar gydnheredd ariannol ei beryglu, felly, gan gyfranddalwyr yn galw am fwy o enillion. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn golygu na allwn gysylltu â chyfranddalwyr am gymorth yn achos trallod ariannol fel y gallai cwmni sydd dan berchnogaeth draddodiadol. Cawn ein hariannu'n llwyr, felly, gan ddyled ac mae codi dyled am gost isel yn rhan allweddol o'n strategaeth ariannol: mae'n hanfodol bod gennym fynediad at farchnadoedd ariannol sydd, yn ei dro, yn awgrymu model ariannol doeth. Mae tîm Trysorlys y Grŵp yn rheoli ein proffil oeddfedrwydd dyled er mwyn lledaenu amseriad gofynion ailgylido a sicrhau y gellir bodloni gofynion o'r fath o dan y rhan fwyaf o amodau'r farchnad.

Cydnheredd y Grŵp

Ein strategaeth ers i Glas Cymru gaffael busnes Dŵr Cymru yn 2001 fu lleihau ein gerio i lefelau sy'n ein galluogi i gael mynediad i'r lefel fwyaf effeithlon o arian dyled. Dros y ddau ddegawd diwethaf, rydym wedi lleihau gerio yn raddol o 93%

i 58% ac, o ganlyniad, mae gennym lefel uchel o gronfeydd ariannol wrth gefn (£1,527 miliwn) ac ansawdd credyd cryf. Ar 31 Mawrth 2023, roedd cyfanswm hylifedd o £579 miliwn (y FA 22: £515 miliwn) a oedd yn cynnwys arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo gwerth £379 miliwn a chyfleusterau credyd nas hawliwyd gwerth £200 miliwn gyda Grŵp o bedwar banc cydberthynas (gweler nodyn 16D o'r datganiadau ariannol am ragor o fanylion). Rydym yn buddsoddi arian parod yn ddoeth, gan adneuo am dri mis ar y mwyaf, gyda banciau a chronfeydd hylifedd â statws da. Mae'r Grŵp wedi'i ariannu'n llawn hyd at ddiwedd AMP7 ac mae ganddo hanes profedig o allu codi cyllid newydd o dan y rhan fwyaf o amodau yn y farchnad; ac mae'n disgwyl parhau i wneud hynny yn y dyfodol.

Sail ein dull gweithredu

Fel gwarcheidwaid busnes hirdymor, mae sicrhau hyfywedd yn rhan annatod o'n prosesau rheoli risg a chynllunio. Mae'r Bwrdd yn cynnal asesiad manwl o brosesau rheoli risg y Grŵp, a nodir yn fanylach ar dudalennau 90 i 99. Mae'r Bwrdd yn herio'r risgiau a nodwyd ac a aseswyd ddwywaith y flwyddyn, a defnyddir y rhagdybiaethau ac effaith amcangyfrifedig gweithgareddau lliniaru i lunio rhagolygon ariannol bob blwyddyn. Caiff ein hasesiad o risgiau ei gynnwys yn ein proses gyllidebu fanwl flynyddol a'n proses o lunio rhagolygon ar gyfer y cyfnod rheoleiddio presennol ac, ar lefel ehangach, ar derfynlin o bump i 10 mlynedd.

Cyfnod asesu

Cynhelir adolygiadau rheoleiddiol o brisiau bob pum mlynedd, ac mae'r cyfnod AMP7 presennol yn rhedeg hyd at 31 Mawrth 2025. Mae gwaith cynllunio ar gyfer y tymor canolig yn ystyried y cyfnod rheoli prisiau presennol a'r un nesaf, er mwyn hwyluso proses bontio ddidrafferth rhwng cyfnodau rheoli prisiau. Mae'r Bwrdd yn ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu ar y cyfnod a gwmpeisr gan yr asesiad, a saith mlynedd yw'r cyfnod blaengynllunio mwyaf priodol ar gyfer asesu ein hyfywedd ariannol parhaus. Dewiswyd saith mlynedd gan ei fod yn cwmparu gweddill y cyfnod AMP presennol hyd at 2025, a'r cyfnod AMP nesaf hyd at 2030.

Rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r asesiad

Wrth ystyried rhagolygon y Grŵp yn y tymor canolig, mae angen gwneud rhai rhagdybiaethau. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr asesiad o hyfywedd fel a ganlyn:

- Gall y Grŵp barhau i gael mynediad at farchnadoedd cyllido dyled a chyfalaf;
- Ni fydd y fframwaith rheoleiddio a statudol presennol yn newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod y mae'r asesiad hwn yn ymwneud ag ef;
- Mae tystiolaeth hanesyddol a'r gwerthusiad o ddigwyddiadau tebyg a welwyd yn y farchnad wedi cael eu defnyddio i lywio effaith bosibl senarios a fodelwyd;
- Mae'r senario difrifol ond credadwy yn seiliedig ar farn y Bwrdd am debygolrwydd a difrifoldeb pob prif risg ar ôl ei lliniaru, fel y nodir isod;
- Ni fyddai'r effaith gronol, pe bai pob digwyddiad andwyol yn digwydd ar yr un pryd, heb ystyried tebygolrwydd na difrifoldeb pob prif risg ar ôl ei lliniaru, yn fwy na'r camau lliniaru ychwanegol sydd ar gael i'r rheolwyr.

Llywodraethu

Rydym wedi rhoi proses ar waith i asesu rhagolygon y Grŵp, a wneir bob blwyddyn gan uwch-reolwyr. Caiff canlyniadau'r asesiad eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio, sy'n adolygu'r Datganiad am Hyfywedd Hirdymor ac yn ei argymhell i'r Bwrdd, lle y caiff ei adolygu yn ei dro gan y Cyfarwyddwyr i'w gymeradwyo.

Prif risgiau a'r math o brofion straen a ddefnyddir

Rydym wedi mapio'r math o brofion straen a ddefnyddir ar gyfer pob priod brif risg a nodwyd yn ein hadran ar reoli risg ar dudalennau 90 i 99.

Prif risgiau		Math o brofion straen a ddefnyddir ar wahân ac o dan senarios cyfunol	
1	Perfformiad amgylcheddol ac enw da	a	• Cosbau am achos o dorri rheoliadau amgylcheddol a chostau unioni o £25 miliwn sy'n digwydd unwaith yn ystod cyfnod y rhagolwg, gyda chynnydd yng nghyfanswm y gwariant (totex) o £65 miliwn o ganlyniad i fwy o reoleiddio amgylcheddol.
		b	• Cosbau o £20 miliwn y flwyddyn am dorri rheolaethau ansawdd am dair blynedd a sgoriau boddhad cwsmeriaid yn dirywio.
2	Parhad busnes		• Cynnydd o £12 miliwn yng nghyfanswm y gwariant, yn ystod tair blynedd cyntaf y rhagolwg, sy'n ymateb i bwysau am gyfnod estynedig yn yr amgylchedd macro-economaidd.
			• Amgylchedd chwyddiant uchel ac isel am gyfnod estynedig sy'n effeithio ar ein costau cyllido a'n cymarebau gerio.
3	Effeithiau newid yn yr hinsawdd a risgiau pontio		• Cynnydd o £10 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd yng nghyfanswm y gwariant sy'n digwydd bob yn ail flwyddyn oherwydd digwyddiadau tywydd mawr.
			• Cosbau ODI o £15 miliwn o ganlyniad i fethiannau asedau sy'n ymwneud â digwyddiadau tywydd dros gyfnod estynedig.
4	Digwyddiad mawr yn ymwneud ag iechyd a diogelwch		• Digwyddiad mawr untro yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn ystod un flwyddyn o gyfnod y rhagolwg sy'n costio £4 miliwn.
5	Seiber, technoleg gwybodaeth a thechnoleg weithredol		• Cosb a chost unioni o £65 miliwn sy'n digwydd ddwywaith yn ystod cyfnod y rhagolwg.
6	Perfformiad a chostau		• Cosbau o £10 miliwn y flwyddyn o ganlyniad i fethiant i gyflawni mesurau perfformiad ODI a bennwyd gan Ofwat.
			• Cynnydd o £30 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd yng nghyfanswm y gwariant yn ystod AMP8 er mwyn gwella perfformiad.
7	Colli ymddiriedaeth, yn enwedig ymddiriedaeth ein cwsmeriaid		• Cosbau o £15 miliwn sy'n digwydd yn AMP8 cyfnod y rhagolwg am ddrywiad ym mherfformiad Boddhad Cwsmeriaid.
8	Talent ac amrywiaeth ein pobl		• Cynnydd o £3 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd yng nghyfanswm y gwariant yn ystod AMP8 sy'n adlewyrchu'r methiant i ddenu neu gadw talent i gefnogi pob un o feysydd ein busnes ac adnoddau cyfyngedig yn y farchnad.
9	Risg gyllidol a gallu cwsmeriaid i dalu		• Cynnydd o £12 miliwn yng nghyfanswm y gwariant yn ystod tair blynedd cyntaf y rhagolwg, gan gynnwys cynnydd mewn drwgddyledion.
10	Iechyd y cyhoedd (microlygryddion mewn dŵr yfed a phlostigion mewn dŵr gwastraff)		• Cosbau o £5 miliwn y flwyddyn am dorri rheolaethau ansawdd am dair blynedd.
11	Gwahaniaethau deddfwriaethol		• Nid ydym wedi cynnal profion straen ar y risg hon sy'n dod i'r amlwg ond rydym wedi cynnwys ein hamlygiad yn ein cynllun ariannol sylfaenol.

Nodir hefyd effaith bosibl y senarios risg uchod heb eu lliniaru yn ein hadran ar reoli risg (gweler tudalennau 90 i 99).

DATGANIAD AM HYFYWEDD HIRDYMROR PARHAD

Senarios straen

Mae ein hasesiad o hyfywedd yn seiliedig ar amlygu ein rhagolygon llinell sylfaen hyd at 2030 i nifer o senarios 'straen' negyddol, sy'n cynnwys barn y Bwrdd am y tebygolrwydd y bydd pob un o'n prif risgiau ac ansicrwydd yn digwydd a'u difrifoldeb, yn unigol ac ar y cyd. Nodir y risgiau allweddol a wynebwr gan y Grŵp a mesurau lliniaru yn y crynodeb o risgiau allweddol ar dudalennau 93 i 99. Mae unrhyw effeithiau ar lif arian parod a nodir isod ar ôl ystyried y camau lliniaru hyn. Rydym hefyd wedi addasu ein rhagdybiaethau craidd ynghylch chwyddiant i gynnal y senarios hyn mewn amgylcheddau chwyddiant uchel ac isel.

Rydym wedi nodi'r senario negyddol mwyaf difrifol ond credadwy yn y pen draw yn ein barn ni, fel ffordd o fesur y lefel gyffredinol o hyblygrwydd sy'n bodoli yn yr hyn sy'n gynllun heriol ond cyflawnadwy yn ein tyb ni. Gwyddom fod rhai o'n senarios cyfunol yn annhebygol o ddigwydd yn ymarferol. Fodd bynnag, maent yn ddefnyddiol o ran nodi'r lefel gyffredinol o gydnwethedd ac i ddeall yr hyn y byddai angen iddo ddigwydd er mwyn bygwth bodolaeth barhaus y Grŵp.

Fel rhan o'r asesiad, cynhaliwyd prawf straen o chwith ar senario damcaniaethol eithafol sy'n canolbwyntio ar gyfanswm y gorwariant er mwyn deall i ba raddau y gallai'r Grŵp ymdopi â mwy o straen ariannol cyn ei fod yn colli ei statws credyd gradd buddsoddi. Dangosodd y prawf straen o chwith hwn y byddai'n rhaid bod yr amodau eithafol hyn ymhell y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn senario 'difrifol ond rhesymol' cyn y byddai risg i hyfywedd hirdymor y Grŵp.

	Cyfuniadau o risgiau a'r math o straen a ddefnyddir Tudalen 101	Effaith ar ôl lliniaru'r risg ar lifau arian parod mewn £ miliwn	Camau lliniaru ariannol pellach Tudalen 103
Senarios y prif risgiau			
1. Argyfwng costau byw a dirywiad economaidd Chwyddiant uchel yn y byrdymor, sy'n achosi dirwasgiad estynedig yn yr economi, gyda thwf CDG isel, yn arwain at bwysau costau i mewn i'r cyfnod AMP nesaf a phwysau ar gyfraddau casglu arian parod gan gwsmeriaid sy'n effeithio ar ein tâl am ddrwgddyddion.	2, 9	118	1, 3, 4, 5, 7
2. Digwyddiadau hinsawdd difrifol a methiannau gweithredol Digwyddiadau tywydd eithafol, fel cyfnod estynedig o wres mawr, tywydd oer a thywydd gwlyb yn arwain at gostau nas cynlluniwyd a methiant asedau allweddol sy'n effeithio ar weithrediadau a'r gwasanaeth a ddarperir.	1b, 3	115	4, 5, 6
3. Ansawdd dŵr a methiannau amgylcheddol Llygredd dŵr dros gyfnod estynedig yn arwain at doriadau sylweddol yn y cyflenwad a chosbau. Cyhoedduswydd posibl sy'n effeithio ar gwmnïau dŵr eraill yn effeithio ar y ffordd yr eir ati i graffu ar ein gweithrediadau.	1, 10	165	2, 3, 4, 5
4. Seiberddiogelwch Achos difrifol o dorri amodau sy'n gysylltiedig â defnyddio technoleg a systemau yn effeithio ar y modd y darperir gwasanaethau, twyll neu golli data. Mae'r posibilrwydd o dwyll yn annhebygol ar raddfa fawr yn seiliedig ar gryfder ein gwasanaethau TG yn ddiweddar.	5	130	2, 4, 6
5. Methiant i gyflawni ymrwymadau perfformiad ac i gydymffurfio â rheoliadau Cosbau am fethu â chyflawni ein hymrwymadau perfformiad yn ystod y cyfnod adolygu prisiau a bennwyd gan Ofwat, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed, gan gynnwys risgiau busnes allweddol, targedau effeithlonrwydd mwy ymestynnol, cynnydd cyfyngedig tuag at Dŵr Cymru 2050, cydnwethedd asedau a charbon sero net, sy'n arwain at ddirwyon gan gyrff rheoleiddio/cyfreithiol.	6, 7	235	1, 2, 3, 4, 5, 6
6. Digwyddiad mawr yn ymwneud ag iechyd a diogelwch Marwolaeth oherwydd esgeuluster corfforaethol.	4	4	
Andwyol iawn ond credadwy Mae senario andwyol iawn ond credadwy yn adlewyrchu ysgytwadau sylweddol o ran costau sy'n digwydd mewn amgylchedd chwyddiant isel. Mae ysgytwadau o ran costau yn seiliedig ar luosydd tebygolrwydd fformiwlâig, sy'n cyfuno'r holl senarios gan ddefnyddio eu tebygolrwydd i bwysu eu heffaith ariannol.	Lluosydd fformiwlâig o bob senario yn seiliedig ar debygolrwydd	575	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7

Senarios y prif risgiau	Cyfuniadau o risgiau a'r math o straen a ddefnyddir Tudalen 101	Effaith ar ôl lliniaru'r risg ar lifau arian parod mewn £ miliwn	Camau lliniaru ariannol pellach Tudalen 103
Profi senarios o chwith Cyfanswm yr effaith ariannol yn arwain at golli statws credyd gradd buddsoddi, sy'n peri i ni dorri ein cyfamad a cholli ein trwydded.		774	

Camau lliniaru

Os bydd senarios mwy eithafol ond llai tebygol yn digwydd, mae nifer o gamau lliniaru allweddol ar gael i'r Grŵp, y caiff eu heffeithiolrwydd ei ategu gan sefyllfa hylifedd gref y Grŵp. Yn ogystal â'r mesurau diogelu sy'n bodoli yn yr amgylchedd rheoleiddio y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddo, mae nifer o gamau gweithredu ar gael i lliniaru senarios mwy difrifol. Wrth ddewis camau lliniaru mewn ymateb i senarios y prif risgiau, byddem yn ystyried y cydbwysedd rhwng buddiannau'r holl randdeiliaid ac yn blaenoriaethu'r camau lliniaru na fyddent yn arwain at dorri ein hymrwymiadau i gwsmeriaid.

	Camau lliniaru a ystyrir o fewn ystyriaethau busnes arferol	Ystyriaethau	Ymgorfforwyd yn ein cynllun ariannol
1	Ymgysylltu ag asiantaethau statws credyd a banciau	Er bod asiantaethau statws credyd a banciau yn cymhwyso cyfrifiadau safonol fel rhan o'u hasesiadau o statws credyd a chyfamodau, gallant hefyd lunio barn. Pan fydd trothwy statws credyd neu drothwy cyfamod yn cael ei dorri, mae'n bosibl na chaiff statws credyd ei israddio bob amser. Gellid caniatáu ildio cyfamod dros dro pe bai'r rhanddeiliaid perthnasol yn credu mai sefyllfa dros dro ydyw a'i bod yn debygol o gael ei gwrthdroi yn y dyfodol agos.	Ddim yn gymwys
2	Rheoli'r Trysorlys – estyn cyfleusterau credyd cylchdro	Pan fo problemau gyda llif arian parod, byddem yn defnyddio ein cyfleusterau credyd cylchdro ac yn ceisio eu hestyn.	Do
3	Lleihau costau mewn rhaglen o wariant dewisol	Byddem yn adolygu gwariant dewisol er mwyn nodi costau y gellid eu hosgoi neu eu lleihau heb effaith niweidiol ar randdeiliaid allweddol, yn benodol gwasanaeth cwsmeriaid.	Do
4	Ailbroffilio'r rhaglen gyfalaf	Byddem yn ceisio ailbroffilio ein rhaglen gyfalaf er mwyn lleddfu effaith senarios risg ar ein llifau arian parod a'r effaith ar gymarebau perfformiad allweddol dros nifer o flynyddoedd.	Naddo

Rydym yn ymgysylltu ag asiantaethau statws credyd a'n banciau yn rheolaidd. Byddwn yn parhau i gydgyssylltu â'r asiantaethau statws credyd ynglŷn â phwysau macroeconomaidd ac yn cyflwyno ein cynllun ariannol a'n strategaethau ar ein gallu i adfer a fydd yn nodi ein hadferiad a ragwelir i berfformiad sefydlog ar ddechrau AMP8.

Rydym yn gwerthuso ein strategaeth rheoli trysorlys yn rheolaidd, gan asesu ein gofynion arian parod a ragwelir yn y dyfodol a'n ffynonellau cyllido. Rydym yn anelu at sicrhau bod digon o gyllid ar gael i ddiwallu ein hanghenion ariannol a ragwelir yn ogystal â sicrhau digon o hyblygrwydd rhag hapddigwyddiadau a allai yn rhesymol ddigwydd. Rydym mewn sefyllfa gryf gyda mynediad at amrywiaeth eang o farchnadoedd cyfalaf a chydberthnasau agos â'n banciau lle y byddem yn ceisio estyn ein cyfleusterau credyd cylchdro, pe bai angen, er mwyn rhoi rhyddhad yn y byrdymor nes bod ein strategaeth ailgyllido wedi ei chwblhau yn ystod AMP8.

Rydym yn adolygu ein gwariant gweithredu a'n gwariant cyfalaf drwy'r amser er mwyn sicrhau eu bod nid yn unig yn fodd i ni ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid, ond hefyd i sicrhau sefydlogrwydd ariannol ein sefydliad. Rydym wedi datblygu prosiectau costeffeithlonrwydd, sydd wedi cael eu hymgorffori yn ein cynllun ariannol, sy'n targedu rhaglenni o wariant dewisol dros weddill y cyfnod AMP heb effeithio'n niweidiol ar ein metrigau perfformiad, gan gynnwys gwasanaeth cwsmeriaid.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ein rhaglen gyfalaf i wella ein hasedau er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid, megis lleihau gollyngiadau dŵr. Yn ein barn ni, nid oes bygythiad ar hyn o bryd i'n rhaglen buddsoddi cyfalaf a fyddai'n golygu bod angen ailbroffilio er mwyn diwallu anghenion llif arian parod.

DATGANIAD AM HYFYWEDD HIRDYMOR PARHAD

	Camau lliniaru pellach sydd ar gael y tu allan i ystyriaethau busnes arferol	Ystyriaethau	Ymgorfforwyd yn ein cynllun ariannol
5	Lleihau costau rhaglenni nad ydynt yn rhai rheoleiddiol	Dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf eithafol y byddem yn ystyried lleihau ein gwariant nes ein bod ond yn gwario ar ein gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol yn unig.	Naddo
6	Cau offerynnau ariannol deiliadol yn statws asedau	Mae gennym nifer o asedau ariannol deiliadol, megis cyfnewidiadau, y gellir eu cau gyda chytundeb y cyd-barti, gan gynhyrchu arian parod yn y byrdymor.	Naddo
7	Ystyried dyroddi ffynonellau cyllido newydd	Mae'r Grŵp yn cael mynediad at amrywiaeth eang o farchnadoedd cyfalaf ac yn cynnal amrywiaeth eang o ffynonellau cyllido. Mae'r Grŵp hefyd mewn sefyllfa gadarnhaol o ran hylifedd a gerio a fyddai'n ddeniadol pe baem yn ceisio dyroddi ffynonellau cyllido newydd. Byddai dyroddi dyled newydd yn codi llifau arian parod yn y byrdymor ond byddai'n cael effaith niweidiol ar gerio ac, o bosibl, yn gwneud y Grŵp yn agored i ddyled fwy costus yn yr hirdymor.	Naddo

Rydym yn cydnabod y camau lliniaru ychwanegol sydd ar gael i ni a phwysigrwydd gwerthuso pob opsiwn yn fanwl er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni disgwyliadau ein rhanddeiliaid. Gan fod y Grŵp mewn sefyllfa gadarnhaol o ran hylifedd a gerio, a hefyd wedi datblygu cynllun adfer cadarn yn y byrdymor a'r tymor canolig, ni fu'n rhaid i ni werthuso'r camau lliniaru pellach hyn ac felly nid ydynt yn rhan o'n cynllun ariannol na'n hasesiad o hyfywedd hirdymor.

Rhagolwg

Mae'r lefel ymestyn yn y senario andwyol iawn ond credadwy yn rhagdybio gwariant heb ei gynllunio o £575 miliwn dros gyfnod y rhagolwg (sy'n cyfateb i orwariant blynyddol cyfartalog o tua 5%). Yn ogystal, rydym wedi modelu chwyddiant sy'n aros yn sefydlog am gyfnod o 10% yn 2023-24, ac sydd wedyn yn gostwng yn raddol i 3% erbyn 2027-28 am weddill y cyfnod.

Dros y cyfnod dan sylw, mae cyfran sylweddol o'n dyled yn ddyledus i'w hailgyllido. O dan bob un o'r senarios a ystyriwyd, byddai'r Grŵp yn aros yn solfent ac felly credwn y byddwn yn cadw ein mynediad at gyllid digonol o dan amodau arferol y farchnad.

Gwnaethom gynnal prawf straen o chwith ar ein cynllun ariannol er mwyn nodi faint o ddirywiad yn ein perfformiad ariannol y byddai ei angen er mwyn arwain at golli statws credyd gradd buddsoddi, ac felly at dorri ein cyfamod a cholli ein trwydded. Byddai digwyddiad ysgogol yn debygol o ddigwydd yn AMP7 lle mae ysgytwadau presennol yn y farchnad yn gosod pwysau ar gostau gweithredu. Gwnaethom nodi y byddai angen i wariant gweithredu gynyddu 24% yn ystod AMP7 o gymharu â'n cynllun craidd er mwyn arwain at golli ein statws credyd gradd buddsoddi, sydd 92% yn ychwanegol o gymharu â'n senario andwyol iawn ond credadwy yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r cyfuniad o gerio isel a lefel uchel o hylifedd yn golygu bod y Grŵp mewn sefyllfa dda i wrthsefyll hyd yn oed ysgytwadau mawr o ran costau a sicrhau mynediad at farchnadoedd cyllido ar yr un pryd.

Cawn ein cysgodi rhag effaith lawn newidiadau mewn chwyddiant yn yr hirdymor, gan fod ein holl reffeniw a ganiateir a thua dwy ran o dair o'n dyled yn fynegrifol.

Casgliad

Drwy gynnal profion straen, mae'r Bwrdd wedi ystyried yr effaith ar y cyfamodau sydd ynghlwm wrth ein sefyllfa gyllido bresennol (yswiriant a gerio), a hefyd ar y prif fetrigau ariannol a ddefnyddir gan asiantaethau statws credyd wrth asesu ein statws credyd a'n hylifedd.

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod y rheolaethau ar reoli risg a llunio rhagolygon sydd ar waith yn gadarn a bod cynllun 2023 ac allbynnau profion straen yn darparu lefel briodol o wybodaeth y gellir ei defnyddio i ddod i gasgliad ynghylch hyfywedd hirdymor y Grŵp. Ar ôl adolygu'r allbynnau a grynhoir uchod, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd y Grŵp yn gallu parhau i weithredu a chyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod hyd at fis Mawrth 2030.





CYNNYDD O RAN CYNALIADWYEDD

Yn gyson â gweddill yr adroddiad hwn, rydym yn cyflwyno ein cynnydd o ran cynaliadwyedd o safbwynt ein themâu strategol fel y'u nodir isod ac fel y'u dangosir yn y cyflwyniad i gynaliadwyedd ar dudalennau 18 i 19.

Mae'r ffordd rydym yn ymdrin â chynaliadwyedd yn mynd law yn llaw â'n strategaeth ACLI <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/environmental-downloads>. Crynhoir ein 10 amcan ACLI isod ynghyd â'r themâu strategol y maent yn eu cefnogi agosaf a chyfeiriad at sylwadau pellach. Am ragor o fanylion am yr amcanion hyn gweler ar-lein yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/environmental-downloads>.

Rhif amcan ACLL	Amcan cryno	Thema strategol a gefnogir agosaf	Am ragor o sylwadau gweler tudalen
1	Gwaith cynllunio hirdymor	 Dŵr	112
2	Carbon sero net	 Yr Amgylchedd	120
3	Addasu asedau a gwasanaethau	 Dŵr	113
4	Buddiannau diriaethol i gymunedau	 Cymunedau	124
5	Fforddiadwyedd	 Cymunedau	127
6	Ymgysylltu â chwsmeriaid	 Cwsmeriaid	122
7	Gweithlu amrywiol	 Cymunedau	128
8	Addasu i heriau'r dyfodol	 Yr Amgylchedd	109
9	Dangos atebolrwydd	 Yr Amgylchedd	108
10	Cydweithio	 Yr Amgylchedd	108

Sut mae ein themâu strategol yn cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy a Nodau Llesiant y Cenhedloedd Unedig

Themâu strategol	Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig	Nodau Llesiant
 Dŵr		- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - Cymru gydnerth - Cymru iachach
 Yr Amgylchedd	  	- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - Cymru gydnerth - Cymru iachach
 Cwsmeriaid		- Cymru lewyrchus - Cymru sy'n fwy cyfartal - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
 Cymunedau	   	- Cymru lewyrchus - Cymru o gymunedau cydlynus

> Darllenwch fwy am gynaliadwyedd ar dudalennau 108 i 128

Wedi'u hwyluso a'u cefnogi drwy lywodraethu cynaliadwyedd



Mae arloesedd yn cyfrannu at ein gallu i ymateb yn fwy effeithiol i amrywiaeth eang o heriau o ran cynaliadwyedd. Gweler tudalennau 129 i 132 am y ffordd rydym yn arloesi ac enghreifftiau diweddar.



LLYWODRAETHU CYNALIADWYEDD

Mae cynaliadwyedd yn rhan o wead popeth a wnawn. Mae sicrhau y caiff ei lywodraethu'n effeithiol o'r pwys mwyaf i'r Cwmni a'r Bwrdd. I'r perwyl hwnnw, cwblhaodd ein Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ei ail flwyddyn o oruchwylio'r strategaeth a ddatblygwyd gennym i gyflawni ein hamcanion ym maes cynaliadwyedd a'r amgylchedd, ac yn benodol ein map trywydd i sicrhau carbon sero net llawn erbyn 2040 (<https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/journey-to-zero>).

Ymhlith yr heriau allweddol a adolygwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn diwethaf mae sut y dylid ymdrin ag allyriadau sy'n ffoi o brosesau trin dŵr gwastraff, a charbon corfforedig, yn enwedig yn y dur a'r concrid a ddefnyddiwn i gyfleu a thrin llifau o ddŵr glân a dŵr gwastraff. Er mwyn deall y ffordd orau o ymdrin ag allyriadau sy'n ffoi, rydym

bellach yn monitro allyriadau ocsid nitraidd mewn pedwar o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff mwyaf ac yn ymgymryd â mentrau arloesedd ac ymchwil amrywiol eraill. Bydd angen arloesi ymhellach yn ein cadwyn gyflenwi yn sicr er mwyn ymdrin â charbon corfforedig ond, yn ffodus, mae dewisiadau amgen sy'n is o ran carbon eisoes yn cael eu cynhyrchu. Rydym bellach wrthi'n cwblhau ein polisi caffael cynaliadwy cyntaf a gaiff ei gyflwyno yn fuan o fewn y busnes a gyda'n cyflenwyr.

Cafodd ein Strategaeth ACLI, gan gynnwys y 10 amcan ACLI, ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor ACLI ym mis Chwefror 2022 ac mae ar gael i'w gweld yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/environmental-downloads>. Mae'r 10 amcan hyn yn cyd-fynd â'n themâu strategol fel y'u dangosir yn ein Strategaeth ar dudalennau 38 i 39 ac ar dudalen 89.

Mae tri o'n 10 amcan ACLI yn ymwneud yn benodol â llywodraethu cynaliadwyedd ac rydym yn eu hesbonio isod.

Dangos Atebolrwydd – Amcan ACLI 9

O gofio ein diben clir fel Cwmni, a gorfforwyd yn ein cyfansoddiad corfforaethol drwy ein Herthyglau Cymdeithasu yn 2019, rydym eisoes yn ymrwymedig i sicrhau bod Dŵr Cymru yn rym ehangach er daioni yn ein holl ryngweithio â chwsmeriaid, cymunedau, tirfeddianwyr a datblygwyr ledled ein hardal gyflenwi. Arweiniodd y ffocws cynyddol ar faterion ACLI a'r diddordeb cynyddol ymhlith buddsoddwyr sy'n ddeiliaid bondiau yn ein gweithgareddau yn y meysydd hyn at sefydlu'r Pwyllgor ACLI fel un o bwyllgorau'r Bwrdd yn 2021.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am bennu ein Strategaeth ACLI, adolygu ein perfformiad yn erbyn set o ddangosyddion perfformiad sy'n berthnasol i faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, a monitro ansawdd ein hadroddiadau corfforaethol ar y materion hyn, er mwyn sicrhau ein bod yn dilyn arferion gorau presennol a newydd yn y maes hwn. Fel rhan o hyn, rydym wedi adolygu ein trefniadau llywodraethu risg ac effeithiolrwydd ystyriaethau'r busnes o risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ac rydym wedi defnyddio ein gwaith paratoi ar gyfer ail flwyddyn y Tasglu ar Ddatgeliadau sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hintegreiddio'n llawn yn ein strategaethau a'n gwaith cynllunio hirdymor. Yn ogystal ag adroddiadau i'r Tasglu ar Ddatgeliadau sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd, rydym yn disgwyl i ganllawiau adrodd y Tasglu ar Ddatgeliadau sy'n gysylltiedig â Natur gael eu cyhoeddi ym mis Medi 2023, a byddwn yn adolygu'r rhain i weld a allem eu defnyddio i wella ein trefniadau llywodraethu corfforaethol ar gyfer bioamrywiaeth yn benodol, a sut, a hefyd i liniaru olion troed amgylcheddol eraill y busnes.

Cydweithio – Amcan ACLI 10

Un o'r nodweddion cyffredin yng Nghymru yw ein gallu i weithio mewn partneriaethau agos, fel sy'n ofynnol yn achos cyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddangos yn eu prosesau gwneud penderfyniadau yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol yn ogystal ag yn y cyfnod presennol, a hynny er mwyn dangos eu bod yn gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'i diffiniwyd yn y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cefnogi pum ffordd o weithio yn uniongyrchol, y mae pob un ohonynt yn unol â'n Gweledigaeth a'n safbwyntiau ynglŷn â chynaliadwyedd, er nad ydym yn gorff cyhoeddus fel y'i diffiniwyd o dan y Ddeddf, sef:

- Ymgymryd â datblygu cynaliadwy – sy'n rhan hanfodol o natur ein busnes a'n gweledigaeth.
- Meddwl yn yr hirdymor – osgoi gweithredu yn y byrdymor ac ystyried sut y bydd penderfyniadau yn effeithio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r genhedlaeth bresennol.
- Atal – gweithredu ar gam cynnar ac ar y cyd ag eraill er mwyn mynd at wraidd problemau cyn iddynt godi neu waethgu er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i unigolion, cyrff cyhoeddus a chymdeithas yn ei chyfanrwydd.
- Integreiddio – sicrhau bod holl oblygiadau cam gweithredu yn cael eu hystyried fel y gall gweithgarwch mewn un maes gwaith gael ei lunio i ategu gweithgareddau eraill, yn hytrach na'u tanseilio.
- Cydweithio – gweithio gydag eraill, er mwyn gallu cyflawni cynifer o amcanon â phosibl drwy ddefnyddio'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael.
- A – peidio â datrys problemau ar ein pennau ein hunain ond deall manteision cynnwys amrywiaeth mor eang â phosibl o bobl i helpu i wneud y penderfyniadau a llunio'r gwasanaethau a fydd yn effeithio ar eu bywydau.

Addasu i Heriau'r Dyfodol – Amcan ACLI 8

Yn 2022, gwnaethom adnewyddu Dŵr Cymru 2050 a chyhoeddi ein hadolygiad yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/our-plans>

Mae Dŵr Cymru 2050 yn disgrifio ein hymrwymiad i gynllunio ar gyfer yr hirdymor, gan ragweld y risgiau a'r cyfleoedd a ddaw i'r amlwg mewn perthynas â'n gallu i ddarparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol rhagweladwy, ac ymateb yn rhagweithiol i'r risgiau a'r cyfleoedd hynny. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb mewn ffordd sy'n amserol, yn effeithiol, yn deg ac yn fforddiadwy. Felly, yn ystod 2022, yn y cyfnod cyn cyflwyno ein gwaith cynllunio busnes nesaf ar gyfer 2025-2030, gwnaethom ystyried i ba raddau y mae ein 18 o Ymatebion Strategol i'r tueddiadau a'r risgiau hirdymor a wynebwn yn dal i fod yn addas at y diben, faint o gynnydd a wnaed gennym, pa wersi a ddysgwyd gennym, a'r hyn y mae angen ei newid. Mae'r rhain wedi cael eu gosod yn sicr yng nghyd-destun ein huchelgeisiau hirdymor ar gyfer cynaliadwyedd a rhagoriaeth, a'r heriau o'n blaen.

Fel y manylir yn yr adolygiad, nodwyd wyth tuedd yn y dyfodol sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf sylweddol ar ddarparu gwasanaethau yn yr hirdymor. Erys yr heriau a'r cyfleoedd hyn yn berthnasol hyd heddiw. Eto i gyd, rydym wedi gweld rhai ysgytwadau a phwysau sylweddol nas rhagwelwyd, megis pandemig COVID-19 a'r cynnydd yng nghostau ynni. Hefyd, mae pum mlynedd ychwanegol o ddata ar gael bellach, a all fod yn sail i'n safbwynt ar ffactorau hirdymor y ceir ansicrwydd yn eu cylch, megis effaith newid yn yr hinsawdd.

Felly, mae'n bwysig adnewyddu ein safbwynt gwreiddiol ar risgiau a chyfleoedd sy'n effeithio ar ein gwasanaeth, a nodi unrhyw dueddiadau newydd sy'n dod i'r amlwg, cyn ailwerthuso ein Hymatebion Strategol yn unol â hynny. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y bydd unrhyw ddatganiad ynghylch tueddiadau hirdymor yn anghyflawn ac yn amherffaith, o ystyried yr ansicrwydd cynhenid ynglŷn â'r dyfodol.

Mae'n amlwg bod heriau sylweddol o'n blaen y bydd yn rhaid i ni ymaddasu iddynt, yn ogystal â chyfleoedd. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein gwasanaethau yn dal i fod yn fforddiadwy i'n cwsmeriaid, yn enwedig yn ystod cyfnod o gryn galedi ariannol ac ansicrwydd, a bod buddsoddiadau yn y dyfodol yn unol â'r economi gylchol, ac, wrth gwrs, yn gynaliadwy eu hunain.

- 1. Newid yn yr hinsawdd** – Bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at fwy o ddigwyddiadau glaw eithafol, sy'n debygol o arwain at risg gynyddol o lifogydd a llygredd. Rhagwelir y bydd hafau yn sychach ac yn gynhesach yng Nghymru, a allai arwain at ddiffyg cyflenwadau dŵr ac, o bosibl, fwy o alw am ddŵr.
- 2. Disgwyliadau cwsmeriaid yn newid** – Mae'n debygol y bydd disgwyliadau cwsmeriaid yn parhau i newid, gyda chwsmeriaid yn dod yn fwy awyddus i gael gwasanaeth mwy personol a rheolaeth dros eu defnydd o wasanaethau ac yn mynd yn llai parod i oddef toriadau mewn gwasanaethau. Bydd hyn yn arbennig o wir yn achos cwsmeriaid busnes. Rydym yn disgwyl y bydd ein cwsmeriaid yn eu cyfanrwydd yn dangos mwy o ddiddordeb yn ein perfformiad amgylcheddol.
- 3. Newid amgylcheddol** – Gallai rhywogaethau goresgynnol, newid defnydd tir a risg uwch o lygredd amgylcheddol arwain at waethgu ansawdd dŵr a lleihau bioamrywiaeth. Fodd bynnag, gallai dulliau cydweithredol o ddarparu gwasanaethau ecosystemau gwell sicrhau canlyniadau amgylcheddol gwell.
- 4. Diogelu seilwaith hanfodol** – Mae seilwaith sy'n heneiddio, cadwyn gyflenwi gyfyngedig a seiberddiogelwch yn bryderon allweddol o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Gallai datblygiadau technolegol sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn y gwaith o gynllunio, cyflwyno a gweithredu asedau newydd.
- 5. Diogelu iechyd y cyhoedd** – Mae safonau rheoleiddio i ddiogelu ansawdd dŵr yfed yn debygol o barhau i dynhau yn y dyfodol. Bydd gennym rôl i'w chwarae o ran hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach a mwy cynaliadwy i'n cwsmeriaid.
- 6. Newid mewn polisi a newid rheoleiddiol** – Disgwylir i newidiadau mewn polisi a newidiadau rheoleiddiol barhau yn sgil Brexit, datganoli a safonau ansawdd dŵr yfed ac amgylcheddol sy'n newid. Mae'r lefel hon o newid yn creu ansicrwydd yn y byrdymor ond hefyd yn cynnig cyfle defnyddiol i helpu i lunio polisi at y dyfodol.
- 7. Newidiadau i strwythur yr economi** – Bydd twf yr economi ddigidol sy'n seiliedig ar wybodaeth yn creu cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd mwy effeithlon. Fodd bynnag, gallai hefyd effeithio ar natur cymdeithas a pheri her i ni o ran parhau i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid.
- 8. Newid demograffig** – Bydd twf y boblogaeth yn arwain at fwy o alw am ddŵr mewn rhai ardaloedd a gallai poblogaeth sy'n heneiddio gynyddu nifer y cwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus. Fodd bynnag, daw cyfleoedd i'r amlwg i ddatblygu proffil oedran mwy amrywiol yn y gweithlu.



LLYWODRAETHU CYNALIADWYEDD

STOP CYN CREU BLOC



Rydym wedi parhau i ymgymryd â chryn dipyn o ymgysylltu ar yr ymgyrch 'Stop cyn Creu Bloc' yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ar raddfa genedlaethol a lleol.

Mae'r ymgyrch hon nid yn unig yn tynnu sylw at y difrod a achosir o ganlyniad i gamddefnyddio carthffosydd yn y cartref, ond mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r difrod y gall blociadau a chamddefnydd ei achosi i'r amgylchedd a bioamrywiaeth pan fydd pibellau yn torri ac yn cael eu camgysylltu.

Dolenni: Amcan ACLI 10

“ CODI YMWHYBYDDIAETH O'R HYN Y GALL BLOCIADAU A CHAMDDEFNYDD EI WNEUD I'R AMGYLCHEDD A BIOAMRYWIAETH. ”

DARGANFOD RHYWOGAETHAU O FFYNGAU SY'N BWYSIG YN FYD-EANG

Mae cronfeydd dŵr Llys-Faen a Llanisien yng Nghaerdydd yn adnodd naturiol unigryw o werth ecolegol sylweddol sydd wedi cael ei ddynodi'n SoDdGA oherwydd yr adar sy'n dod dros y gaeaf o ffyngau cap cŵyr. Mae ffyngau cap cŵyr yn orwydd gwych o hen gynefin glaswelltir na tharfwyd arno, sy'n bwysig yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd am ei fod yn storio traean o garbon y byd sydd yn y tir. Ers prynu'r safle yn 2016, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i wella'r cynefin glaswelltir ar gyfer ffyngau cap cŵyr ac wedi cyflwyno cyfundrefn torri gwair newydd.

Cofnododd ein harolwg diwethaf o ffyngau gyfanswm o 27 o rywogaethau o ffyngau cap cŵyr, sy'n rhagori o bell ffordd ar faen prawf (19) SoDdGA. Cofnodwyd sawl rhywogaeth o ffwng ar y safle am y tro cyntaf, gan gynnwys dwy rywogaeth o Dergoloma, sy'n hynod brin. Mae D.magicum yn rhywogaeth o dan fygythiad yn fyd-eang gyda chofnodion prin iawn ohoni ym Mhrydain. Cafodd math arall o Dergoloma ei ddarganfod hefyd, a chadarnhawyd drwy godio bar DNA ei bod yn rhywogaeth heb ei henwi. Dim ond unwaith o'r blaen (yn Nhwrcei) y mae'r rhywogaeth hon wedi cael ei gweld. Y drydedd rywogaeth newydd ychwanegol o bwys yn y flora ffyngaidd yw rhywogaeth frown o dafod y ddaear sy'n perthyn i'r grŵp Microglossum olivaceum, sy'n werthfawr iawn o ran gwarchod natur.

Dolenni: Amcan ACLI 8.3



Llywodraethu cynaliadwydd: polisïau a mentrau

Mae trefniadau llywodraethu da wrth wraidd y penderfyniadau a wnawn a'n cydberthynas tryloyw ac atebol â'n rhanddeiliaid. Mae'r ffordd rydym yn ymdrin â materion llywodraethu yn golygu bod cydymffurfiaeth â threfniadau llywodraethu da a threfniadau rheoli risg manwl yn rhan o'n prosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r busnes. Mae trefniadau llywodraethu da yn gyfrifoldeb ar bawb.

Achrediaidau ar gyfer Treth Deg a Thaliadau Teg  	Nod Treth Deg Ym mis Gorffennaf 2021, Dŵr Cymru oedd y cwmni cyntaf yng Nghymru i sicrhau achrediad y Nod Treth Deg, gan adlewyrchu'r ffordd gyfrifol a thryloyw y mae'r Cwmni yn rheoli ei drethi. O ganlyniad, mae'r datganiadau ariannol yn yr Adroddiad Blynnyddol hwn yn cynnwys nifer o feysydd lle mae datgeliadau manylach wedi cael eu gwneud er mwyn meithrin dealltwriaeth rhanddeiliaid o gyfanswm y trethiant a nodir. Cod Taliadau Prydlon Gwnaethom lofnodi'r Cod Taliadau Prydlon ym mis Mai 2019, gan ymrwymo i dalu 95% o'n cyflenwyr o fewn 60 diwrnod. O 1 Gorffennaf 2021, roedd yn ofynnol i lofnodwyr dalu 95% o'u cyflenwyr â llai na 50 o gyflogaion o fewn 30 diwrnod. Er mwyn nodi'r holl gyflenwyr presennol â llai na 50 o gyflogaion gwnaethom ysgrifennu at bob un ohonynt yn gofyn iddynt gadarnhau faint o gyflogaion sydd ganddynt a defnyddio adnodd adrodd Credit Safe. Hefyd, rydym wedi cynnwys cam gorfodol yn ein proses sefydlu gwerthwr er mwyn casglu'r data hyn ar gyfer pob cyflenwr newydd. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roeddem yn talu 92% o'r holl fusnesau bach hynny roeddem yn ymwybodol ohonynt o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb, a 90% o gyfanswm yr anfonebau ar gyfer yr holl gyflenwyr o fewn 30 diwrnod i'w derbyn, gyda chynlluniau ar waith i wneud gwelliannau pellach.
Polisi Atal Llwrgrwbrwyo a Llygredigaeth ac Atal Twyll	Mae ein polisïau yn nodi'n glir na fyddwn yn goddef unrhyw achosion o dwyll, anonestrwydd, llwrgrwbrwyo, llygredigaeth, dwyn na datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn amhriodol. Atgyfnerthir hyn gan ein polisi llym ar letygarwch a rhoddion oddi wrth gyflenwyr. Ni roddwyd gwybod i'r adran Archwilio Mewnol na'r llinell gymorth chwythu'r chwiban allanol am unrhyw achosion o fynd yn groes i'r polisïau yn ystod y FA 23.
Polisi Caffael Cynaliadwy, Safonau Cydymffurfio Cadwyni Cyflenwi a mentrau Gwrthgaethwasiaeth 	Polisi Caffael Cynaliadwy Rydym wedi pennu ein dyheadau ym maes caffael cynaliadwy drwy gydweithio â rhanddeiliaid allweddol, sy'n cwmparu meysydd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae ein dyheadau wedi cael eu mapio yn erbyn Amcanion Strategaeth ACLI Dŵr Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac maent wedi cael eu cynnwys yn ein Polisi Caffael Cynaliadwy. Rydym wedi asesu'r effaith ar y dyheadau hyn o ran caffael cynaliadwy yn y categorïau allweddol rydym yn eu caffael drwy gynnal ymarfer lliwfapio risgiau a chyfleoedd yn ein contractau caffael presennol yn erbyn y dyheadau. Rydym wrthi'n llunio manylion ein cynllun gweithredu i roi'r Polisi Caffael Cynaliadwy ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Safonau Cydymffurfio Cadwyni Cyflenwi Gwnaethom lansi'r Cod Ymddygiad Cyflenwyr ym mis Ebrill 2021. Ers hynny, rydym wedi: - Cynnwys datganiad gan gyflenwyr yn derbyn ac yn cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r cod fel prawf llwyddo/methu ar gam Holiadur Cyn Cymhwysio prosesau tendro. - Cynnwys cydymffurfiaeth â'r cod fel geiriad safonol ym mhob contract nwyddau a gwasanaethau sydd wedi cael ei ddyfarnu, ei newid neu ei ymestyn ers mis Ebrill 2021. - Diwygio telerau ac amodau archebion prynu i gynnwys gofynion y cod. Ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern Gwnaethom gynnal ymgyrch flynyddol, wythnos o hyd, i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern. Ym mis Hydref 2022, aeth yr Adran Gaffael, ar y cyd â'r Gyngrair Gobaith am Gyfiawnder, ati i ymgysylltu â 36 o Reolwyr Contract, 15 o gydweithwyr o dimau Caffael a Chydymffurfiaeth, 37 o gyflenwyr (sy'n darparu gwasanaethau lle mae risg uwch y bydd caethwasiaeth fodern yn digwydd yn eu cadwyn gyflenwi) a'u hyfforddi ar sut i nodi'r arwyddion y gall caethwasiaeth fodern fod yn digwydd ac i gadarnhau ein gweithdrefnau adrodd os amheuir achos o gaethwasiaeth fodern. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at y Cod Ymddygiad Cyflenwyr a'r gofyniad i gydymffurfio â'r cod hwn yn ystod y sesiynau hyfforddi. Mae ein datganiad Atal Caethwasiaeth ar gael yn https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/company-statements/anti-slavery-statement. Mae pob aelod o'r Tîm Caffael wedi cwblhau ardystiad E-ddysgu a Phrawf Caffael a Chyflenwi Moesegol y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi a llwyddodd Dŵr Cymru i ennill achrediad ei Nod Moeseg Gorfforaethol. Mae hyn yn arwydd i gyflenwyr, cwsmeriaid, darpar gyflogaion, a rhanddeiliaid eraill Dŵr Cymru eu bod yn ymdrin â sefydliad sy'n ymrwymedig i sicrhau bod ei staff yn cael hyfforddiant ar ddod o hyd i gyflenwyr a'u rheoli'n foesebol, ac rydym wedi mabwysiadu gwerthoedd moesegol yn y ffordd rydym yn dod o hyd i gyflenwyr a'u rheoli.



CYNALIADWYEDD: DŴR

Rydym yn rheoli dull o'r tarddle i'r tap wrth ddarparu dŵr yfed diogel a dibynadwy o ansawdd uchel.

Rydym yn dechrau gyda'n dalgylchoedd dŵr yfed, sef ein llinell amddiffyn gyntaf, a reolir drwy ein Strategaeth TarddLe. Mae'r strategaeth yn ymdrin â heriau ansawdd dŵr heb ei drin ac yn mynd ati i atal dirywiad pellach, gan feithrin cydnherthedd yn ein systemau cyflenwi dŵr a diogelu ein sylfaen asedau ymhellach i lawr yn y broses drin. Un o uchafbwyntiau allweddol y strategaeth hon yw ein cysyniad hirdymor o Fega-ddalgylch Bannau Brycheiniog. Mae'n dysgu o ardal Catskills sy'n cyflenwi dŵr yfed i Dalaith Efrog Newydd. Mae Bannau Brycheiniog yn cyflenwi dros hanner y dŵr yfed i'n cwsmeriaid.

Mae'r gwaith hwn, o ysgogwyd gan Asesiad Risg Portffolio, yn sicrhau bod ein hargaeau yn gallu gwrthsefyll effeithiau hirdymor newid yn yr hinsawdd o ran eu gallu i drosglwyddo dŵr llifogydd yn ddiogel a hefyd i fod yn gwbl weithredol er mwyn rheoli afonydd allweddol rydym yn tynnu dŵr ohonynt i mewn i'n gweithfeydd trin. Y rhaglen fuddsoddi bresennol yw ein rhaglen fwyaf yn y busnes dŵr drwy AMP7 ac mae'n canolbwyntio ar uwchraddio gorlifannau argaeau er mwyn iddynt ymdrin â digwyddiadau storm sy'n digwydd unwaith bob 10,000 mlynedd. Mae ein prosiect arloesol, Prosiect Pibellau Drwy Argaeau, hefyd yn ein galluogi i drosglwyddo dŵr drwy'r argae drwy'r amser, gan ddiogelu cyrsiau dŵr ymhellach i lawr.

Drwy ein hystad o weithfeydd trin dŵr rydym yn parhau i ganolbwyntio ar drin dŵr mwyfwy heriol heb ei drin er mwyn cynnal cyflenwad di-dor o ddŵr yfed dihalog a glân i mewn i'n rhwydwaith. Mae cryptosporidiwm yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol i ni, ac rydym yn parhau i roi blaenoriaeth i gynnal uwch-fioled a samplu yn seiliedig ar risg. Rydym hefyd yn monitro perfformiad bacteriolegol y broses drin, sy'n canolbwyntio ar lanhau ac archwilio tanciau storio dŵr wedi'i drin ar hyn o bryd. Mae ein buddsoddiad ym maes Derbynioldeb Dŵr yn canolbwyntio ar gyfraniad gweithfeydd trin dŵr i dynnu manganis er mwyn atal cwynion gan gwsmeriaid ynglŷn ag afliwio, a thrin carbon yn effeithiol er mwyn cael gwared ar gyfansoddion sy'n achosi blas ac arogl drwy weithgarwch algâu yn ein hafonydd a'n cronfeydd dŵr.

Mae ein system ddosbarthu yn cyfrannu at lawer o'r heriau a wynebwn o ran perfformiad, o gwynion am afliwio i doriadau yn y cyflenwad. Mae gennym nifer o strategaethau gweithredol sy'n targedu meysydd allweddol o berfformiad dros y rhwydwaith cyfan. Rydym yn canolbwyntio ar Ollyngiadau Dŵr, Munudau Cwsmeriaid a Gollir a Derbynioldeb Dŵr, a hefyd effaith sylweddol y rhwydwaith ar berfformiad o ran Ansawdd Dŵr drwy ein Mynegai Risg Cydymffurfio. Drwy funudau cwsmeriaid a gollir, bydd newid i ddull mwy rhagfynegol o ddod yn ymwybodol o ollyngiadau dŵr drwy ein Strategaeth SMART yn lleihau'r amser y mae cyflenwad cwsmeriaid wedi'i dorri. Mae ein buddsoddiad hirdymor yn y maes hwn yn golygu symud i fwy o rwydweithiau grid a all gynnig cyfleoedd i symud dŵr o gwmpas, os a phryd y bydd ein system dosbarthu strategol yn methu.

Coiff hyn i gyd ei gwmpasu yn ein strategaeth cynllunio adnoddau dŵr hirdymor. Mae'n sicrhau y bydd gennym ddigon o adnoddau i oteb y galw am ddŵr gan ein cwsmeriaid yn y dyfodol pan fyddwn yn debygol o brofi cyfnodau sych estynedig. Dros ein terfynlin cynllunio hwyaf hyd at 2050, rydym yn modelu effeithiau newid yn yr

hinsawdd ar ein gallu i dynnu dŵr, yn erbyn y galw am ddŵr, drwy ollyngiadau dŵr o'n system a defnydd cwsmeriaid.

Y strategaethau galluogi allweddol ar gyfer hyn yw ein Strategaeth Ollyngiadau Dŵr, ein Strategaeth Defnydd y Pen, a'n Strategaeth Mesuryddion. Un maes ffocws allweddol o ran rheoli'r galw yw ein gallu i ddylanwadu ar gwsmeriaid i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon. Rydym yn symud i system fesur fwy blaengar i gynyddu nifer y cwsmeriaid â mesurydd er mwyn hyrwyddo manteision defnydd mwy effeithlon o ddŵr.

Gwaith Cynllunio Hirdymor a Chynaliadwyedd – Amcan ACLI 1

Yn ystod AMP7, rydym wedi bod yn datblygu dulliau newydd o gynllunio buddsoddiad er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig hyd yn oed gwell gwerth i'n cwsmeriaid. Mae'r rhain wedi canolbwyntio ar ein dull newydd amlgyfalafol o wneud penderfyniadau buddsoddi. Mae hyn yn golygu asesu gwahanol fathau o gyfalaf er mwyn sicrhau y cyfrifir am effeithiau a chyfleoedd ehangach, y tu hwnt i oblygiadau cyfalaf ariannol, wrth wneud penderfyniadau. Dangosir y rhain isod.

Diben Dŵr Cymru yw: 'Darparu dŵr yfed a gwasanaethau amgylcheddol o ansawdd uchel, sy'n cynnig gwell gwerth am arian, er mwyn gwella llesiant ein cwsmeriaid a'r gymuned a wasanaethwn, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol'. Mae dull buddsoddi amlgyfalafol yn rhoi cyfle i integreiddio gwerth cyhoeddus â chyflawni swyddogaethau Dŵr Cymru mewn ffordd systemig er budd pawb. Wrth wneud hynny, dylai gefnogi ein Diben yn uniongyrchol a helpu'r Cwmni i symud i sefyllfa fwy cynaliadwy dros amser.

Dŵr fel Adnodd

Ar yr olwg gyntaf, mae Cymru yn gweld cryn dipyn o law ac ar gyfartaledd dim ond tua 3% o'r glawdd effeithiol a ddefnyddir ar gyfer cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Mae hyn yn gadael tua 97% ar gyfer amaethyddiaeth a'r amgylchedd, sy'n llawer mwy nag mewn sawl rhan o Loegr.

Cyflenwir y rhan fwyaf o'n dŵr o'n cronfeydd storio dŵr ond rydym hefyd yn tynnu dŵr o afonydd iseldirol fel Afon Gwy ac Afon Wysg yn y de-ddwyrain, Afon Tywi, Afon Cleddau ac Afon Teifi yn y de-orllewin ac Afon Dyfrdwy yn y gogledd. Mae dŵr daear yn cyfrif am lai na 5% o'n cyflenwadau ar lefel cwmni.

Rydym yn dal 151 o drwyddedau tynnu dŵr sy'n llywodraethu faint o ddŵr y gellir ei dynnu o'n ffynonellau dŵr. Mae'r trwyddedau yn cael eu rhoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr ac maent yn cyfyngu ar y symiau y gellir eu tynnu. Mae'r trwyddedau hyn hefyd yn cynnwys amodau, megis faint o ddŵr y mae angen ei ryddhau o gronfeydd dŵr at ddibenion cydbwysu amgylcheddol neu'r angen i sgrinio pysgod.

Y ddeddfwriaeth amgylcheddol allweddol sy'n llywodraethu ein ffynonellau o ddŵr heb ei drin yw'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Arweiniodd y broses o fodloni gofynion y ddeddfwriaeth hon at wariant yn ystod AMP6 ac AMP7 er mwyn rheoli effaith gostyngiadau ym meintiau trwyddedau a ganiateir mewn nifer o'n mannau tynnu dŵr ar afonydd.

Erbyn hyn, mae dyletswydd ychwanegol arnom o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) lle mae Adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys cwmnïau dŵr) i 'geisio' cynnal a gwella bioamrywiaeth yn hytrach na 'rhoi sylw' i'w warchod. Er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw, mae angen i ni fod yn rhagweithiol o ran deall effeithiau posibl ein gweithrediadau yn y tymor canolog a'r hirdymor fel y gallwn baratoi a lliniaru yn unol â hynny.

Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau y byddwn bob amser yn gallu darparu cyflenwad digonol o ddŵr er mwyn diwallu anghenion rhesymol ein cwsmeriaid am ddŵr, a bod hyn yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy o fewn terfynau amgylcheddol. Mae'r un mor bwysig ein bod yn ceisio lleihau'r galw am ddŵr drwy leihau gollyngiadau dŵr a hyrwyddo ymddygiadau ymhlith cwsmeriaid sy'n lleihau eu defnydd o ddŵr. Bydd hyn yn lleihau faint o ddŵr y bydd angen i ni ei dynnu a faint o ynni y bydd angen i ni ei ddefnyddio wrth brosesu a dosbarthu dŵr.

Er mwyn cefnogi'r nodau uchod, rydym yn datblygu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr hirdymor sy'n ymdrin â chynaliadwyedd cyflenwadau dros y 25 mlynedd nesaf, gan sicrhau bod ein systemau cyflenwi dŵr yn gallu gwrthsefyll sychder, nad ydynt yn gwneud difrod i'r amgylchedd, a'u bod yn cyfrif am y rhagolygon diweddaraf o'r galw o dan hinsawdd sy'n newid.

Rydym yn mabwysiadu ymagwedd raddoledig tuag at Gynllunio Adnoddau Dŵr gan fod gorgyffwrdd rhwng terfynau amser Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr olynol. Mae pob cynllun pum mlynedd yn diweddarau'r un diwethaf, yn seiliedig ar ffactorau ysgogi newydd, megis canllawiau diwygiedig gan y llywodraeth neu reoleiddwyr, blaenoriaethau cwsmeriaid, a gwell tystiolaeth.

Mae'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn llunio set o opsiynau a datrysiadau er mwyn sicrhau bod ein cyflenwadau i gwsmeriaid yn gallu gwrthsefyll sychder yn yr hirdymor. Cyflawnir hyn drwy leihau'r galw am ddŵr, megis drwy ganfod mwy o ollyngiadau dŵr, neu ddarparu ffynonellau newydd o ddŵr. Cawn ein tywys gan y llywodraeth, rheoleiddwyr, partion â diddordeb a'n cwsmeriaid wrth ddewis y datrysiadau mwyaf priodol. Rydym yn defnyddio metrigau cyfalaf economaidd ac amgylcheddol er mwyn helpu i farnu'r datrysiadau mwyaf effeithiol i ateb yr heriau a nodwyd yn ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr.

Cynllunio Rheoli Adnoddau Dŵr

Bob pum mlynedd, fel rhan o'n gwaith cynllunio busnes, rydym yn adolygu effeithiau newid yn y galw, newid yn yr hinsawdd, ac anghenion yr amgylchedd a chwsmeriaid wrth asesu'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau dŵr yfed, a hefyd leihau'r ôl troed amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn i'r eithaf, ac mewn rhai achosion, ei ddileu'n gyfan gwbl. Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu'n dda ar gyfer PR24 erbyn hyn, a chaiff ei gymeradwyo gan y Bwrdd maes o law.

Addasu asedau a gwasanaethau – Amcan ACLI 3

Nodir sut rydym wedi ymateb i ddigwyddiadau tywydd garw drwy gydol y FA 23, a sut rydym yn paratoi ar gyfer sicrhau bod ein hasedau'n fwy cydnherth ac yn ateb heriau'r dyfodol ar dudalennau 42 a 50 i 52. Rydym wedi manylu ar ein hymateb i risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd fel rhan o'n datgeliadau TCFD o dan gamau lliniaru strategol ar dudalennau 83 i 84.

Buddsoddiadau sy'n cefnogi cynaliadwyedd Dŵr

Mae ein rhaglen buddsoddi cyfalaf yn hanfodol i ddarparu ein gwasanaethau yn yr hirdymor, fel y dengys yr enghreifftiau canlynol o ddatblygiadau diweddar.

De-ddwyrain – Cronfa Wasanaeth Pengarnddu

Rydym wedi buddsoddi dros £8 miliwn i adeiladu cronfa wasanaeth newydd (tanc tanddaearol sy'n storio dŵr yfed) ym Mhengarnddu, Merthyr Tudful. Mae cronfa wasanaeth eisoes ar y safle, ond drwy adeiladu'r gronfa ddŵr newydd hon – a fydd yn rhannol gladdedig yn y dirwedd – byddwn yn gallu cynyddu gallu'r rhwydwaith i storio dŵr a lleihau'r tebygolrwydd o doriadau yn y cyflenwad. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd dros 25,000 o gwsmeriaid ym Merthyr Tudful a'r cyffiniau yn parhau i gael dŵr yfed ffres am flynyddoedd i ddod.

Gogledd – Croesfan Dyfrdwy

Rydym yn buddsoddi £6.8 miliwn i osod dwy bibell ddŵr newydd o dan Afon Dyfrdwy yng Ngheir Connah er mwyn sicrhau bod miloedd o gwsmeriaid a busnesau mawr yn yr ardal yn cael cyflenwad dŵr dibynadwy am ddegawdau i ddod. Drwy ddefnyddio technoleg arloesol, mae dwy bibell 800m o hyd wedi cael eu gosod o dan Afon Dyfrdwy rhwng gwaith dur Shotton a Dock Road yng

Ngheir Connah. Mae'r gwaith hefyd yn golygu defnyddio hen ddarnau o'r rhwydwaith dŵr unwaith eto er mwyn helpu i wella cydnherthedd y cyflenwad dŵr yn yr ardal. Dechreuodd gwaith ar y safle ym mis Ebrill 2022 a disgwyliar iddo ddod i ben ym mis Ebrill 2023.

Gorllewin – Port Talbot

Rydym wedi buddsoddi £10.3 miliwn i uwchraddio'r rhwydwaith dŵr yfed ym Mhort Talbot. Roedd ein gwaith yn golygu gosod 16.3k o bibellau newydd a glanhau 9.8km o bibellau dŵr ym Mryn, Cwmafan a Baglan. Drwy wneud hyn, rydym wedi sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cyflenwad dŵr yfed o'r radd flaenaf i gwsmeriaid yn yr ardal am ddegawdau i ddod. Dechreuodd ein gwaith ym mis Mai 2021 a daeth i ben ar ddiwedd 2022.

Yn ystod ein gwaith rydym wedi defnyddio gwahanol ddulliau o osod y pibellau dŵr er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar drigolion, busnesau a modurwyr. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio technegau 'dim cloddio' megis leinin slip a chwalu pibellau. Drwy gydol y prosiect hwn, rydym wedi gweithio'n galed i ddod yn rhan o'r gymuned leol ac mae hyn wedi cynnwys gwirfoddoli ym manc bwyd Port Talbot, trefnu ymarferion casglu sbwriel a rhoi help llaw mewn te prynhawn cymunedol yng Nghwmafan.



CYNALIADWYEDD: YR AMGYLCHEDD

Perfformiad amgylcheddol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi ei asesiad o Berfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru bob blwyddyn yn ystod mis Gorffennaf ar gyfer y flwyddyn galendr flaenorol. Mae'r asesiad yn cynnwys chwe metrig perfformiad sy'n ei alluogi i asesu pob cwmni dŵr a charthffosiaeth mewn ffordd gyson. Aseswyd perfformiad 2021 yn 3* (Cwmni da) a hon oedd y flwyddyn gyntaf o asesu yn erbyn targedau amgylcheddol tynnach.

Er y disgwylwn i'r broses o gyflawni ein Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol o dan AMP7 a'n metrigau Cydbwysedd Cyflenwad a Galw barhau'n 'wyrdd' ar ôl i ni gael ein hasesu, rydym yn rhagweld y bydd ein perfformiad cyffredinol o ran llygredd yn gostwng o'n perfformiad 'gwyrd' yn 2021 i 'oren' oherwydd cynnydd bach yn nifer yr achosion o lygredd yn ystod y flwyddyn. Rydym yn rhagweld y bydd yr achosion o lygredd a hunangofnodiad a chydymffurfiaeth â thrwyddedau gollwng yn parhau'n 'oren', ond mae'n bleser gennym nodi bod nifer y gweithfeydd trin dŵr gwastraff nad ydynt yn cydymffurfio â'u trwyddedau wedi lleihau o saith i dri. Bydd y metrig ar gyfer Defnyddio/Gwaredu Slwtsh yn Foddhaol yn cael ei ailddatgan y flwyddyn hon ac mae'n debygol y caiff ein perfformiad ei asesu'n 'wyrdd'. Parheir i drafod nifer yr achosion o lygredd a ddylai gael eu dosbarthu'n rhai difrifol â Cyfoeth Naturiol Cymru.

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau ei Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol ar gyfer 2022 eto.

	2016	2017	2018	2019	2020	2021
Sgôr	3	2	3	3	4	3

Gwella ansawdd dŵr afonydd

Caiff y camau gweithredu y mae angen i gwmnïau dŵr eu cymryd i fodloni gofynion deddfwriaethol amgylcheddol a

gwella ansawdd dŵr afonydd eu hysgogi drwy'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol yng Nghymru a Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol y Diwydiant Dŵr yn Lloegr.

Yn ystod 2021/22 gwnaethom gyflawni pob un o'r 85 o allbynnau a gynlluniwyd, 32 yn Lloegr a 53 yng Nghymru, gan gynnwys 16 o gynlluniau gwella, 34 o fonitorau, 32 o ymchwiliadau a thri chynllun adnoddau dŵr. Cyflawnodd hyn gyfanswm o 89km o afonydd wedi'u gwella.

Y bwriad ar gyfer y flwyddyn 2022-23 yw y byddwn yn cwblhau 38 o allbynnau, gan gynnwys 10 cynllun gwella (pedwar yn Lloegr a chwech yng Nghymru). Bydd hyn yn cynnwys tri chynllun i gynyddu capasiti tanciau storm a lleihau gollyngiadau storm wedi gwaddodi i'r amgylchedd, dau gynllun i leihau ffosfforws ar Afon Gwy, dau gynllun i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni penderfyniadau glanweithdra tynnach a thri chynllun sy'n cael gwared ar rwystrau i dramwy pysgod. Drwy gyflawni'r allbynnau hyn yn llwyddiannus bydd 75km arall o afonydd wedi'u gwella. Byddai hyn yn golygu y byddem wedi gwella 169km yn gronol o dan AMP7, sydd dipyn yn well na'n targed rhagori ar berfformiad o 100km.

Gwella bioamrywiaeth

Mae ein Strategaeth Bioamrywiaeth ar gyfer 2022 yn nodi ein huchelgeisiau parhaus, ein hamcanion, a'n cynllun gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol drws ein hasedau gweithredol a'n tirdaliadau, wrth gyflawni ein swyddogaethau. Mae'r strategaeth yn galluogi'r busnes i barhau i gyflawni ei swyddogaethau craidd a hefyd helpu ein rheoleiddwyr amgylcheddol – Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, a Llywodraeth Cymru – i fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth a wynebwn ar yr un pryd. Wrth wneud hynny, byddwn yn helpu i ddiogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a bodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid.

Buddsoddiadau sy'n cefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae ein rhaglen buddsoddi cyfalaf hefyd yn cefnogi ein cynaliadwyedd amgylcheddol fel y dengys yr enghreifftiau canlynol o ddatblygiadau diweddar.

Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Weblai

Ym mis Mai 2022, dechreuodd ein buddsoddiad gwerth £3.5 miliwn yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Weblai yn Swydd Henffordd. Yn ogystal ag uwchraddio rhai o'r asedau ar y safle, roedd hefyd yn cynnwys cyflwyno gwell proses drin, sy'n tynnu ffosffadâu o'r dŵr gwastraff wedi'i drin cyn ei ddychwelyd yn ddiogel i'r amgylchedd. Cwblhawyd y prosiect hwn erbyn mis Chwefror 2023, ac mae'n helpu i roi hwb i'r bywyd dyfrol yn Afon Llugwy, sy'n ymuno ag Afon Gwy ychydig i lawr yr afon o Henffordd.

Cronfa ddŵr Carno Uchaf

Rydym wedi buddsoddi tua £15 miliwn i gryfhau ac uwchraddio'r asedau yng nghronfa ddŵr Carno Uchaf, ar gyrion Glynebwy yn y de.

Roedd y gwaith ar y safle yn golygu gwneud gwelliannau i allu gostwng y gronfa ddŵr, er mwyn ein galluogi i ostwng lefel y gronfa ddŵr yn gyflym, gan helpu i leihau

effeithiau llifogydd a'i gwneud yn bosibl i waith cynnal a chadw hanfodol gael ei wneud yn ddiogel.

Roedd hefyd yn cynnwys gwelliannau i'r sianeli draenio dŵr sy'n amgylchynu'r argae.

Roedd y buddsoddiad hefyd yn cynnwys creu gorlifer newydd, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i ddŵr nad oes angen ei ddefnyddio ar gyfer y cyflenwad, symud o amgylch yr argae yn ddiogel. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu'r argae rhag difrod oherwydd llifogydd a sicrhau ffynhonnell ddibynadwy o ddŵr i'r gymuned gyfan.

Llanelli

Rydym wedi gosod 1,800 o baneli solar ffotofoltäig yn ein gwaith trin dŵr gwastraff yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin. Bydd yr arae solar hon yn helpu i gynhyrchu 600MWh o bŵer y flwyddyn. Yn ychwanegol at yr ynni gwyrd sy'n cael ei gynhyrchu yn y gwaith trin hwn, mae Dŵr Cymru hefyd yn gweithio ar brosiect bioamrywiaeth i greu dolydd blodeuog o amgylch y paneli solar.

Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd y Cwmni ei Strategaeth Bioamrywiaeth gyntaf – sydd hefyd ar gael yn <https://www.dwrcymru.com/cy-gb/blog/biodiversity-strategy-2022>.

Mae'r strategaeth yn nodi, drwy wella ansawdd dŵr, ac mewn llawer o achosion, drawsnewid ansawdd afonydd, morydau, a dyfroedd arfordirol lleol, rydym hefyd wedi gwella bioamrywiaeth ddyfrol ac ecoleg y dyfroedd hyn. Fodd bynnag, o gymharu â'n buddsoddiadau ar gyfer ansawdd dŵr, ac yn fwy diweddar, y buddsoddiadau hynny i leihau ein hól troed carbon, mae prosiectau i wella bioamrywiaeth yn benodol, boed hynny ar y tir neu'r dŵr, wedi bod yn gymharol brin.

Mae'r ffocws hwn ar fin newid gyda lansiad ein cynllun busnes ar gyfer AMP8, sy'n adeiladu ar ein gwaith llwyddiannus ar ddalgyloedd a ganolbwyntiodd ar welliannau i ansawdd dŵr yn ein dalgyloedd dŵr yfed ucheldirol. Mae'n cydnabod, drwy wella ac adfer cynefinoedd tirol a dyfrol, y gallwn wneud ac y byddwn yn gwneud gwelliannau i ansawdd dŵr, cloi carbon, lliniaru perygl llifogydd, a gwella llesiant ein cwsmeriaid.

Mae ein strategaeth bioamrywiaeth yn nodi ein huchelgeisiau, ein hamcanion, a'n cynllun gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol dros ein hasedau gweithredol a'n tirdaliadau, wrth gyflawni ein swyddogaethau. Mae ein hamcanion strategol i gyflawni hyn, fel y'u hategwyd eisoes gan ein cynllun bioamrywiaeth, yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Adfer cynefinoedd a gofalu am y safleoedd gwarchodedig rydym yn berchen arnynt.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'n rheoleiddwyr a'n rhanddeiliaid a hyrwyddo cyfleoedd ymchwil.
- Gwella'r ffordd rydym yn rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.

- Datblygu ein cydweithwyr a'u penodi'n llysgenhadon a gweithio'n well i ddeall disgwyliadau ein cwsmeriaid.
- Cynnal a gwella bioamrywiaeth ar ein hasedau gweithredol a'n tirdaliadau.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng ein cenhadaeth bioamrywiaeth a'n dyletswydd o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi a chyhoeddi cynllun gweithredu bioamrywiaeth corfforaethol a chyflwyno adroddiad ar gynnydd bob tair blynedd. Cyhoeddwyd ein cynllun bioamrywiaeth cyntaf yn 2017 a chafodd ei ddiweddarau yn 2020. Caiff ein cynllun diweddaraf ei gyhoeddi yn 2023.

Drwy gyflawni'r genhadaeth hon byddwn yn cefnogi ac yn bodloni ein gofynion deddfwriaethol ynglŷn â bioamrywiaeth ac ecoleg, a thrwy hynny'n helpu i osod ein busnes ar sail gynaliadwy. Mae'r strategaeth yn anelu at sicrhau gwelliannau mewn perfformiad, yn y byrdymor a'r tymor canolig hyd at 2030, a sicrhau bod ein cynlluniau'n parhau i gyd-fynd ag amcanion Dŵr Cymru 2050 yn y tymor hwy.

Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff

Rydym bellach wedi datblygu proses sy'n cyfateb yn fras i'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ar gyfer gwasanaethau dŵr gwastraff ac wedi ei rhoi ar wait. Mae'n ymdrin â'r effeithiau y bydd pwysau amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd a phwysau gan gwsmeriaid yn eu cael ar y gwasanaethau dŵr gwastraff a ddarparwn. Mae'r rhain wedi tynnu sylw at angen mawr am fuddsoddiad pellach, yn enwedig i leihau effeithiau gorlifau storm, cynnwys maethynnau mewn gollyngiadau o elifion wedi eu trin, perygl llifogydd, ac, mewn rhai achosion, effeithiau gweithrediadau dŵr gwastraff ar ddyfroedd dynodedig, megis y rhai a ddefnyddir at ddibenion ymdrochi. Ymdrinnir â'r anghenion hyn yn ein cynlluniau busnes ar gyfer y cyfnod pum mlynedd nesaf, ond hefyd mewn cyfnodau olynol.

PEDAIR AFON LIFE

Cyfraniad Dŵr Cymru at brosiectau gwerth miliynau o bunnau i warchod afonydd a chorsydd yng Nghymru

Gyda chymorth rhaglen LIFE yr UE, ac arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru a Dŵr Cymru, caiff £13.8 miliwn ei fuddsoddi mewn heriau brys i warchod natur dros y pum mlynedd nesaf. Caiff mwy na £9 miliwn ei fuddsoddi i adfer pedair afon yng Nghymru (Afon Teifi, Afon Cleddau, Afon Tywi ac Afon Wysg) i gyflwr da ac amcangyfrifir y bydd 500km o afon yn cael ei wella. Yn ogystal â hyn, caiff dros £4.5 miliwn ei fuddsoddi i warchod corsydd crynedig. Ymhlith yr ardaloedd a dargedir bydd Cors Crymlyn ar gyrion Abertawe, Tyddewi yn Sir Benfro a Phenrhyn Llŷn. Bydd y prosiect hwn nid yn unig yn adfer y mawndir ond bydd hefyd yn helpu i warchod rhywogaethau prin iawn, gan gynnwys corryn mwyaf Prydain sef corryn rafft mawr y ffen, a briith y gors yn Sir Benfro a Gwynedd.

Cyflawnir y prosiectau hyn drwy waith nifer o randdeiliaid er mwyn helpu i sicrhau buddiannau lluosog yng Nghymru, a thrwy weithio'n agos gyda pherchnogion tir, cymunedau a sefydliadau partner.

Caiff prosiect Pedair Afon LIFE ei redeg gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yr Ymddiriedaeth Adfer Afonydd, Coleg Sir Gâr a Coed Cadw, gyda chymorth ariannol ychwanegol gan Dŵr Cymru. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Parc Arfordir Penfro yw partneriaid Corsydd Crynedig LIFE Cyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd allbwn Pedair Afon LIFE yn cynnwys gwelliant i gynefinoedd afonol ac amodau i bysgod mudol yn ogystal â gweithio gyda ffermwyr i ddiogelu coridorau afonydd a lleihau faint o waddodion a maethynnau sy'n mynd i mewn i afonydd. Bydd hyn hefyd yn diogelu cyflenwadau dŵr yfed pwysig.

Bydd allbynnau Corsydd Crynedig LIFE yn cynnwys adfer saith Ardal Cadwraeth Arbennig, y mae pedair ohonynt yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol. Ei nod yw sicrhau'r lefel gywir o ddŵr ar gyfer planhigion a bywyd gwylt arbenigol corsydd crynedig, gan reoli prysgwydd a rhywogaethau estron goresgynnol sy'n gallu gorchuddio'r cynefin naturiol, a gwella mynediad fel y gall mwy o bobl brofi a mwynhau byd natur ar ei orau.



CYNALIADWYEDD: YR AMGYLCHEDD PARHAD

Systemau gorlif storm cyfun a lleihau perygl llifogydd


Systemau carthion cyfun a geir yn bennaf yng Nghymru a Lloegr, sy'n cynnwys cannoedd ar filoedd o gilomedrau o garthffosydd, a adeiladwyd dros y ganrif ddiwethaf a mwy – er mwyn draenio ardaloedd trefol yn bennaf. Mae hyn yn golygu bod dŵr glaw a dŵr gwastraff o doiledau, ystafelloedd ymolchi a cheginau yn cael ei gludo yn yr un bibell i waith trin carthion. O dan y rhan fwyaf o amodau, mae'r system hon yn gweithio'n dda, ond yn ystod glaw trwm, gall fod gormod o ddŵr yn mynd i mewn i'r pibellau hyn, sy'n golygu gorlifo o bosibl yng nghartrefi cwsmeriaid, a'r posibilrwydd o ôl-ollwng a gorlifo dros ffyrdd, manau agored ac mewn adeiladau eraill.

Nid yw achosion o garthion gwanedig yn gorlifo yn ystod glaw trwm yn arwydd bod y system yn ddiwygiol. Mae systemau gorlif storm cyfun yn rhan angenrheidiol o'r system garthffosiaeth bresennol, sy'n gweithredu fel rhyw fath o falf ddiogelwch i atal y risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â llifogydd carthion i mewn i gartrefi cwsmeriaid, busnesau, ysbytai, ysgolion a safleoedd eraill os nad oes modd i'r llifogydd lifo i rywle arall; fel arfer i mewn i afonydd neu ddyfroedd arfordirol. Gall camddefnydd, megis fflysio weipiau gwlyb a chynhyrchion misglwyf, a gwaredu olewau a brasterau mewn sinciau a draeniau, hefyd amharu ar

allu'r system i ymdopi. Rydym ni a chwmnïau eraill yn parhau i godi ymwybyddiaeth ymhlith cwsmeriaid i ddylanwadu ar eu hymddygiad er mwyn lleihau'r risg o orfod dibynnu ar systemau gorlif storm cyfun, drwy leihau blociadau.

Mae'r problem hirsefydlog hon yn y diwydiant wedi cael mwy o sylw yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i ymwybyddiaeth o'r amgylchedd gynyddu. Disgwylir i newid yn yr hinsawdd waethygu'r problem wrth i batrymau glaw fynd yn llai rhagweladwy ac yn fwy eithafol. Rydym ni a chwmnïau dŵr eraill wedi buddsoddi'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf i leddfu'r problem hon ac rydym yn buddsoddi'n gyflymach, ond mae'n rhaid i lefel y buddsoddiad gael ei chydwyso â fforddiadwyedd ein gwasanaethau yn awr ac am ddegawdau i ddod. Yn yr un modd, bydd angen i fuddsoddiad gael ei dargedu at y systemau gorlif storm cyfun hynny sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd – a dyna'n bwriad. Yn ystod y cyfnod buddsoddi nesaf rhwng 2025 a 2030, byddwn yn buddsoddi dros £300 miliwn i leihau effaith gollyngiadau o'r fath ar yr amgylchedd. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynyddu yn ystod y cyfnod buddsoddi canlynol, ond bydd angen cytuno arno ar y cyd â chwsmeriaid, gan mai nhw yw'r rhai y bydd angen iddynt fforddio'r biliau cynyddol sydd eu hangen i gyllido buddsoddiadau o'r fath.

SUT MAE SYSTEMAU GORLIF STORM CYFUN YN GWEITHIO



Holi ac ateb am systemau gorlif storm cyfun ac ansawdd dŵr afonydd

C: Pam rydych yn gwaredu carthion heb eu trin mewn afonydd ac yn y môr?

A: Nid ydym yn gwneud hynny, am y byddai'n anghyfreithlon, a hynny am resymau da. Bydd unrhyw garthion sy'n gorlifo i mewn i afonydd neu foroedd wedi eu gwaredu'n fawr â dŵr glaw. Nid ydym yn dewis eu gwaredu – daw'r gollyngiadau o'r rhwydweithiau dŵr glaw a charthion cyfun pan fyddant yn gorlifo oherwydd glaw trwm, mewn egwyddor, yn debyg iawn i orlif sinc neu faddon. Mae'n rhaid i'r cyfuniad o ddŵr glaw gormodol a charthion gwannedig fynd i rywle ac mae'r systemau gorlif storm cyfun yn gweithredu fel falf ddiogelwch i atal y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â charthion (er eu bod yn wanedig) yn ôl-ollwng i mewn i gartrefi, safleoedd busnes, ysgolion ac ysbytai.

C: Pam na allwch ddatrys y problem hon?

A: Mae pob cwmni dŵr, dros flynyddoedd lawer, wedi gwneud buddsoddiadau sylweddol yn ei rwydweithiau i leddfu'r broblem hon, a byddwn yn parhau i wneud hynny, ond y gwir amdani yw bod y rhwydweithiau carthion a dŵr glaw cyfun wedi coel eu hadeiladu amser maith yn ôl ar gyfer poblogaeth lai o faint; a chyn newid yn yr hinsawdd a mwy o bryder ynglŷn â'r amgylchedd; a byddai'n costio biliynau o bunnau dros ddegawdau i adeiladu systemau cwbl newydd yn lle'r rhain a byddai'n rhaid talu amdanynt naill ai drwy filiau uwch i gwsmeriaid neu drwy gymorthdaliadau gan y llywodraeth (h.y. trethi uwch).

C: Oni ddylech fod wrthi'n gwneud mwy?

A: Rydym yn cynllunio ein buddsoddiadau yn unol â'r budd mwyaf y byddant yn ei gynni i'r cwsmeriaid, yr amgylchedd a'r cymunedau a wasanaethwn yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae ansawdd dŵr afonydd a dyfroedd arfordirol yn dirywio o ganlyniad i ffactorau eraill heblaw am ollyngiadau systemau gorlif storm, megis llygredd o ddŵr glaw ffô sy'n rhedeg oddi ar dir amaethyddol ac sy'n cynnwys ffosfforws a halogyddion eraill. Rydym hefyd yn gwneud buddsoddiad sylweddol mewn cynlluniau i leihau'r effeithiau hyn.

C: Fel cwsmeriaid Dŵr Cymru a defnyddwyr traethau ac afonydd yng Nghymru, beth allwn ni ei wneud i helpu?

A: Caiff effeithlonrwydd ein systemau dŵr gwastraff ei danseilio gan fflyshio neu waredu brasterau, soim, olewau a deunyddiau amhriodol eraill megis cynhyrchion mislif a weipiau gwlyb sy'n cynnwys plastigion, mewn sinciau, draeniau a tholedau, y gall pob un ohonynt gyfrannu at flociadau a rhwystrau sy'n amharu ar allu ein systemau i ymdopi yn ystod glaw mawr. Mae gwaredu'r deunyddiau hyn yn gyfrifol yn fan cychwyn da. Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad ar ddechrau mis Ebrill y bydd y cynigion i wahardd gwerthu weipiau gwlyb sy'n cynnwys plastigion nad ydynt yn boddiddadddio'n effeithiol yn cael eu cyflwyno'n gynt.

Rydym yn cydnabod bod systemau gorlif storm cyfun yn cyfrannu at lygredd, ond mae'n bwysig hefyd ein bod yn gweithredu ar sail tystiolaeth wrth ymateb i'r broblem hon er mwyn sicrhau bod y buddsoddiadau rydym ni ac eraill yn eu gwneud i wella ansawdd dŵr afonydd a dyfroedd arfordirol yn rhoi gwerth da i gwsmeriaid. Gweler y llun ar y dde sy'n dangos sut rydym yn cyflawni hyn.


Targedu gwelliannau i wella ansawdd dŵr afonydd

Ffosfforws yw'r penderfynydd pwysicaf (mesur procsi cemegol) i fonitro, rheoli ac osgoi ewtroffigedd (gormod o faethynnau, sy'n arwain at dwf algâu a ffurfio llysnafedd sy'n lleihau gwerth hamdden dŵr ac sy'n gallu rhwystro pibellau mewnllif dŵr).

Mae ein gwaith ymchwil a modelu ar ffynonellau o ffosfforws (a ddatblygwyd ar y cyd â rheoleiddwyr) yn nodi'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at ffosfforws yn ein systemau afonol, yn enwedig afonydd mewn ACAu sy'n methu.

Mae ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

- Prosesau cynhyrchu bwyd amaethyddol yw'r ffactor pwysicaf sy'n cyfrannu at lefelau ffosfforws mewn systemau afonol mawr yng Nghymru.
- Yn y rhan fwyaf o systemau afonol, mae defnydd tir gwledig tua 10 gwaith yn fwy arwyddocaol na systemau gorlif storm cyfun fel ffynhonnell o lygredd ffosfforws, ac fel arfer mae'n ffynhonnell o leiaf ddwywaith cyn bwysied â'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff.
- Mae Afon Cleddau Wen ac Afon Gwy yn nodweddiadol o'r chwe afon mewn ACAu sy'n methu a dangosir eu ffynonellau o ffosfforws yma:



Gweler tudalen 13 am astudiaeth achos o welliannau arfaethedig i systemau gorlif storm cyfun ar Afon Wysg.

Drwy gyfuno ein data monitro â data ein rheoleiddwyr a thrydydd partion, megis prifysgolion, mae hynny'n ein helpu i ddeall y ffynonellau o lygredd ffosfforws a'u hachos sylfaenol, ac i geisio'r datrysiadau mwyaf effeithlon i adfer ein hafonydd i gyflwr da.

Drwy ein cynllun buddsoddi ffosfforws gweithfeydd trin dŵr gwastraff, yn amodol ar fuddsoddiad, rydym yn gobeithio gwaredu 90% o gyfanswm y llwyth ffosfforws o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff sy'n cael ei ollwng mewn afonydd mewn ACAu sy'n methu erbyn 2030.

Mae gwaith monitro helaeth ar y ffactorau sy'n cyfrannu at ffosfforws yn ein hafonydd, a'r buddsoddiadau a wnaed gennym a'r rhai y bwriadwn eu gwneud i leihau'r effeithiau, wedi'u cynnwys yn ein Maniffesto ar gyfer Afonydd (yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment>) ac yn ein cynigion buddsoddi ar gyfer PR24.

RYDYM YN GWEITHREDU AR SAIL TYSTIOLAETH I FUDDSODDI I WELLA ANSAWDD DŴR AFONYDD ER MWYN SICRHOU GWERTH DA I GWSMERIAID



CYNALIADWYEDD: YR AMGYLCHEDD PARHAD

LIFE AFON DYFRDWY

Cyfraniad Dŵr Cymru i helpu i drawsnewid Afon Dyfrdwy a'i dalgylch

Prosiect gwerth £6.8 miliwn yw LIFE Afon Dyfrdwy. Caiff ei ariannu drwy nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Dŵr Cymru, i drawsnewid Afon Dyfrdwy a'i dalgylch drwy adfer yr afon a'r ardal o'i hamgylch i'w cyflwr naturiol. Afon Dyfrdwy yw'r afon fwyaf yn y gogledd ac mae'n afon sy'n destun lefel uchel o reoleiddio. Mae hefyd wedi cael ei dynodi'n ACA. Bydd y prosiect, a ddechreuodd yn 2019, ac a ddaw i ben ym mis Rhagfyr 2024 yn ôl y bwriad, yn ceisio cael gwared ar y cyfyngiadau ar fudo pysgod a gwella cysylltedd ecolegol ehangach. Bydd hefyd yn adfer neu'n gwella nodweddion ffisegol ar hyd glannau'r afon ac yn gwella arferion rheoli tir amaethyddol a choedwigol er mwyn lleihau faint o faethynnau a gwaddodion sy'n mynd i mewn i'r ACA. Rydym yn anelu at ddatblygu a meithrin cydberthnasau cadarnhaol hirdymor â rhanddeiliaid allweddol yn ystod oes y prosiect a thu hwnt. Bydd y prosiect hefyd yn dechrau trefniadau rheoli at ddibenion gwarchod y fisglen berlog dŵr croyw sydd mewn perygl difrifol.



Rhagor o wybodaeth:

naturalresources.wales/about-us/our-projects/nature-projects/life-dee-river-project

GWLYPTIROEDD AC YSGOLION PYSGOD

Cynllunio rhaglen uchelgeisiol ar gyfer ysgolion pysgod a llyswennod

Fel rhan o raglen Ysgolion Pysgod AMP7 Dŵr Cymru mae wedi sicrhau 54.8km o gynefin wedi'i wella. Yn y dyfodol, rydym yn cynllunio rhaglen uchelgeisiol ar gyfer ysgolion pysgod a llyswennod yn AMP8. Fel rhan o'n rhaglen gwlyptiroedd, mae saith o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn mynd drwy astudiaethau dichonoldeb i ddeall a allent gefnogi datrysiad gwlyptir i'r paramedrau ansawdd dŵr gofynnol. Mae fframwaith gwlyptiroedd mewn partneriaeth yn cael ei ddatblygu i alluogi Dŵr Cymru i gydweithio â phartneriaid dalgylchoedd a sicrhau nifer o fuddiannau. Mae'r holl ffactorau sy'n ysgogi twf maethynnau o dan PR24 yn cael eu sgrinio ar gyfer datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, gan ein bod yn anelu at eu hymgorffori fel opsiwn busnes arferol yn ein cynlluniau amgylcheddol. Cofodd ein menter gydweithredol gyntaf sy'n ymwneud â gwlyptiroedd, sy'n ateb naturiol i ddal a didoli dŵr glaw cyn ei fod yn mynd i mewn i'n rhwydwaith, yn Swydd Henffordd, lifau ym mis Medi 2022.



Mae'r gwlyptir hwn yn eiddo i Gyngor Swydd Henffordd, sy'n ei reoli er mwyn sicrhau credydau maethynnau i'r sector datblygu. Mae'r cynllun yn cynnwys sowl sector yn cydweithio â'i gilydd, a dyna'r fenter gyntaf o'i bath i ni.


Rhagor o wybodaeth:

<https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/combined-storm-overflows>

CYFARFOD Â'N HYRWYDDWYR BIOAMRYWIAETH

Mae 12 o Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth yn Dŵr Cymru ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i recriwtio i dyfu ein rhwydwaith ymhellach.

Mae ein hyrwyddwyr yn unigolion brwd sy'n rhannu gweledigaeth ar gyfer bioamrywiaeth ac ecoleg yn Dŵr Cymru. Maent yn dod o bob rhanbarth a thîm ym mhob rhan o'r Cwmni ac maent mewn rolau gweithredol a rolau cymorth. Maent nid yn unig yn helpu cydweithwyr gydag ymholiadau ynglŷn â bioamrywiaeth, ond maent hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd mewnol yn ogystal â chwilio am gyfleoedd gwella ar bob un o'n safleoedd gweithredol. Dyma beth sydd gan un o'n hyrwyddwyr i'w ddweud am y rôl wirfoddoli y mae mor frwdfrydig yn ei chylch.



"Beth wnaeth ennyn eich diddordeb mewn dod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth i Dŵr Cymru?"

"Fe wnes i astudio Peirianeg Sifil ac Amgylcheddol yn y brifysgol, felly rwyf bob amser wedi ymddiddori mewn seilwaith a gwarchod a gwella'r amgylchedd. Yn fy rôl yn y tîm diogelwch argaeau rwyf wedi dod ar draws nifer o heriau amgylcheddol, felly mae dod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth wedi helpu i ehangu fy ngwybodaeth a rhannu gwersi a ddysgwyd ag eraill."

"Beth rydych chi'n ei fwynhau fwyaf am fod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth?"

"Rwy'n mwynhau dod i wybod am y ffordd y mae'r busnes yn gwella bioamrywiaeth, mentrau newydd a dysgu oddi wrth hyrwyddwyr eraill am sut maent yn gwella eu hardaloedd."

"Ydych chi wedi cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau bioamrywiaeth neu a oes unrhyw beth ar y gweill?"

"Rwyf wrthi'n ystyried cynnwys mwy o nodweddion bioamrywiaeth ar safleoedd ein hargaeau yn y gogledd. Mae hyn yn cynnwys plannu bylbiau, hadau blodau gwyllt brodorol, blychau ystlumed ac adar a gwestai pryfed."

🗨️ Rwy'n mwynhau dod i wybod am y ffordd y mae'r busnes yn gwella bioamrywiaeth, mentrau newydd a dysgu oddi wrth yr hyrwyddwyr eraill. Rwyf wrthi'n ystyried cynnwys mwy o nodweddion bioamrywiaeth ar safleoedd ein hargaeau yn y gogledd. 🗨️



CYNALIADWYEDD: YR AMGYLCHEDD PARHAD

Niwtraled Carbon

Cyflawni ein Strategaeth Carbon Sero Net – Amcan ACLI 2

Rydym yn anelu at sicrhau allyriadau carbon 'sero net' erbyn 2040. Mae'r ymrwymiad cyffrous hwn yn gynhwysfawr ac yn uchelgeisiol, gan gwmpasu pob agwedd ar allyriadau Cwmpas 1, Cwmpas 2 a Chwmpas3. Mae'r derminoleg 'sero net' yn ein haddewid yn allweddol gan ei bod yn gosod rhwymedigaeth ar Dŵr Cymru i leihau allyriadau carbon y busnes i'r eithaf, rhwng 90% a 95% fel arfer yn erbyn y llinell sylfaen. Gwnawn hyn cyn ymgorffori mesurau 'gwrthbwysu' neu atafaelu carbon, megis plannu coed, er mwyn amsugno unrhyw allyriadau sy'n weddill. Caiff sefydliad sy'n honni ei fod yn 'garbon niwtral' wrthbwysu cyfran lawer mwy o gyfanswm ei allyriadau. Credwn mai cyflawni'r addewid sero net hon yw'r llwybr mwyaf credadwy a thryloyw tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy i'n cwsmeriaid.


Er mwyn cydymffurfio ag addewid sero net mae'n rhaid i sefydliad gadw at ofynion Fframwaith Confensiwn ar Newid yn yr Hinsawdd 'Race to Zero' y Cenhedloedd Unedig erbyn targed 2050 a ddiffiniwyd yn sgil Cytundeb Paris 2015. Bydd ymrwymo i gyflawni'r targed hwn ddeng mlynedd cyn y terfyn amser sy'n seiliedig ar wyddoniaeth yn sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan i gyfyngu'r cynnydd yn nymheredd y byd i 1.5°C yn unol ag arferion gorau.

Dangosir allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y flwyddyn adrodd isod.

Disgrifiad	Unedau	Y FA 23		Y FA 22	
		Gwerth	Gwerth	Gwerth	Gwerth
		Yn seiliedig ar leoliad	Yn seiliedig ar y farchnad	Yn seiliedig ar leoliad	Yn seiliedig ar y farchnad
Allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol gros					
(i) Allyriadau Cwmpas 1					
Allyriadau uniongyrchol o losgi tanwyddau ffosil (gan gynnwys pŵer a gwres cyfun (a gynhyrchir ar y safle)	tCO ₂ e	12,894	12,894	12,403	12,403
Allyriadau proses ac allyriadau sy'n ffoi	tCO ₂ e	41,854	41,854	38,078	38,078
Trafnidiaeth: Cerbydau sy'n eiddo i'r Cwmni neu a brydlesir ganddo	tCO ₂ e	7,657	7,657	7,518	7,518
(ii) Allyriadau Cwmpas 2					
Trydan a brynwyd	tCO ₂ e	90,699	11,893	91,264	14,316
Gwres a brynwyd	tCO ₂ e	–	–	–	–
Cerbydau trydan	tCO ₂ e	–	–	–	–
Dileu trydan a ddefnyddir i wefru cerbydau trydan ar y safle	tCO ₂ e	–	–	–	–
(iii) Allyriadau Cwmpas 3					
Teithio busnes ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn cerbydau preifat a ddefnyddir at ddibenion busnes y cwmni	tCO ₂ e	760	760	562	562
Gweithgareddau a allanolwyd (os nad ydynt wedi'u cynnwys yng Nghwmpas 1 neu 2) Ynni ac eraill	tCO ₂ e	6,724	6,724	6,795	6,795
Trydan a brynwyd – trawsyrru a dosbarthu	tCO ₂ e	8,297	8,297	8,076	8,076
Gwres a brynwyd – trawsyrru a dosbarthu	tCO ₂ e	–	–	–	–
Allyriadau gweithredol gros	tCO ₂ e	168,884	90,078	164,696	87,748

Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i adeiladu ar y lleihad ar hyn o bryd mewn allyriadau carbon, mae strategaeth gyffredinol a cherrig milltir i fesur cynnydd yn erbyn y cynllun. Cyhoeddir trosolwg o'r gwahanol becynnau gwaith yn: <https://corporate.dwrwymru.com/cy-gb/journey-to-zero> a dangosir crynodeb o'r llwybr amlinellol tuag at allyriadau sero net yn y ffigur ar y dudalen ganlynol.

Ôl Troed Carbon (kTCO₂eq)



Mae'r diagram uchod yn dangos ein huchelgais i fynd o linell sylfaen cilodunelli CO₂eq yn 2020, a symud tuag at allyriadau sero net yn 2040. Er mwyn cyflawni'r strategaeth hon, rydym wedi nodi chwe phecyn gwaith i sicrhau bod pob agwedd ar y busnes yn cyd-fynd â rhwymedigaeth Race to Zero i leihau allyriadau hyd y gellir. Y pecynnau gwaith yw:

1. Lleihau ein defnydd o ynni a chynhyrchu faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gennym.
2. Defnyddio bionwy sy'n deillio o garthion er mwyn datgarboneiddio ein gwres a/neu ein trafniadaeth.
3. Pontio'n raddol i fflyd o gerbydau carbon isel.
4. Mynd ati i reoli a lleihau allyriadau sy'n ffoi o brosesau trin.
5. Monitro a lleihau allyriadau carbon sy'n ymwneud ag adeiladu.
6. Atafaelu cymaint o garbon â phosibl a sicrhau cymaint o fioamrywiaeth â phosibl.

Er bod y strategaeth sero net yn amlinellu'r amcan o gyrraedd allyriadau sero net yn 2040, rydym wedi paratoi cyflwyniad manwl ar gyfer PR24 i nodi'r ymyriadau i'w cyflawni rhwng 2025 a 2030.

Er mwyn sicrhau bod rheolwyr yn parhau i roi sylw i gynnydd a hawliau a wneir yn ystod pob blwyddyn weithredu a chraffu arnynt, caiff cynnydd ei adolygu bob chwarter yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ACLI. Mae'r Pwyllgor yn adolygu 41 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Gweler isod rai enghreifftiau sy'n ymwneud â sero net:

- Caffael a chyflenwi trydan â thystysgrifau Gwarantu Tarddiad Trydan Adnewyddadwy.
- Defnydd priodol o ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur er mwyn sicrhau dulliau o drin dŵr a'i ddychwelyd i'r amgylchedd sy'n defnyddio llai o ynni.

- Ôl troed carbon gweithgareddau adeiladu yn cael ei adolygu ac ymyriadau o ran dulliau dylunio neu adeiladu er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol. I'w gofnodi drwy fethodoleg Llyfr Gwaith Cyfrifyddu Carbon UKWIR ac i'w gynnwys mewn adroddiadau blyneddol yn y dyfodol.

Rydym wedi gwneud cynnydd dros y 12 mis diwethaf o ran ymgysylltu â'r farchnad ynglŷn â chyfleoedd 'gwifren breifat' a Chytundebau Prynu Ynni i brynu trydan adnewyddadwy yn uniongyrchol. Bydd hyn yn cyfrannu at ddatgarboneiddio ymhellach drwy hyrwyddo buddsoddiad ychwanegol mewn prosiectau adnewyddadwy. Mae ein hastudiaethau achos o fioamrywiaeth uchod yn nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud i wella ein hamgylchedd naturiol. Y flwyddyn hon mae generaduron ynni a chelloedd tanwydd olew llysiâu hydrogenaidd wedi disodli datrysiadau diesel confensiynol mewn gweithgareddau adeiladu ar y safle sy'n gofyn am gyflenwad trydan. Mae'n beth cyffrous hefyd ein bod wrthi'n llunio ein Polisi Caffael Cynaliadwy terfynol er mwyn hwyluso gwaith pellach gyda'n cadwyn gyflenwi ar reoli allyriadau Cwmpas 3 a pharhau i leihau allyriadau sy'n deillio o'n gweithgareddau.

Rydym wedi comisiynu dwy orsaf solar newydd a dwy orsaf trydan dŵr yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n cynyddu ein gallu i gynhyrchu ein hynni ein hunain i tua 25%. Rydym hefyd wedi bod ar flaen y gad ym maes arloesedd hydrogen, gyda dau brosiect yn mynd rhagddynt ar yr un pryd: prosiect HyValue, ar y cyd â chronfa arloesedd Ofwat; a H2Juice, sy'n rhan o Gyflymydd Hydrogen Diwydiannol BEIS. Gan weithio gyda phartneriaid prosiect, sef Costain, Wales and West Utilities, a Princes Foods, mae'n beth cyffrous ein bod yn datblygu'r prosiectau dichonoldeb hyn ymhellach a'u troi'n ddyluniad manwl, ac yn y pen draw, sicrhau hydrogen carbon isel yn y dyfodol agos.



CYNALIADWYEDD: CWSMERIAID

Ymgysylltu â Chwsmeriaid – Amcan ACLI 6

Mae cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn ac rydym yn ymdrechu o hyd i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarparwn. Mae adborth cwsmeriaid yn ein galluogi i baratoi cynlluniau a chanolbwyntio ein hymdrechion ar wella ein gwasanaethau er mwyn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth, sef 'ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd'.

Defnyddir nifer o fesurau annibynnol i werthuso ein perfformiad ar gyfer ein cwsmeriaid preswyl, busnesau a datblygwyr.

Am drafodaeth am ein grwpiau cwsmeriaid (Cwsmeriaid Preswyl, Cwsmeriaid Busnes a Datblygwyr) gweler yr adran ar Gyd-destun y Farchnad ar dudalennau 40 i 42.

Rydym yn darparu gwasanaethau hanfodol i fwy na 3 miliwn o bobl ledled y rhan fwyaf o Gymru, Swydd Henffordd, a rhannau o Lonnau Dyfrdwy. Mae metrig Mesur Profiad Cwsmeriaid (C-MeX) Ofwat wedi'i gynllunio i fesur boddhad ein cwsmeriaid preswyl â lefel y gwasanaeth a ddarparwn. Yn y FA 22, gwnaethom gyrraedd y pumed safle o blith 17 o gwmnïau i gyd o ran boddhad cyffredinol cwsmeriaid wedi'i fesur o dan C-MeX a'r flwyddyn hon rydym wedi cyrraedd y pedwerydd safle.

Heb gyfranddalwyr, rydym mewn gwell sefyllfa i ganolbwyntio ar ein cwsmeriaid, a thros y 12 mis diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar y canlynol::

- Rheoli disgwyliadau cwsmeriaid: mae'r cyfleuster 'Track My Job' a gyflwynwyd yn anfon negeseuon atgoffa am apwyntiadau a diweddariadau, ac mae modd olrhain ein peirianwyr yn fyw. Mae hyn yn ein helpu i gyfathrebu â chwsmeriaid yn well a deall eu hanghenion.
- Datrys Problem: mae ein hadnodd 'Rheoli Perygl' newydd yn rhoi un darlun gweithredol o gwsmer i'n cydweithwyr sy'n ein helpu i ddatrys problemau'n gynt, yn aml ar y cysylltiad neu'r ymweliad cyntaf, a hysbysu'r cwsmer am y camau nesaf os nad yw hyn yn bosibl.
- Amserlenni: blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar yr effaith ar y cwsmer ac ymateb mewn ffordd gyson a chyflym.

Ym mis Gorffennaf 2022, llwyddwyd i gyrraedd y brig unwaith eto fel y cwmni gorau o dan fesur UKCSI y Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid – y mesur cenedlaethol o foddhad cwsmeriaid. Roeddem hefyd ymhlith cwmnïau gorau'r sector ar gyfer y rhan fwyaf o'r mesurau yn adroddiad blynyddol y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, Water Matters, a gyhoeddwyd hefyd ym mis Gorffennaf 2022. Serch hynny, tynnodd yr adroddiad sylw at y dirywiad cyffredinol mewn ymddiriedaeth yn y sector a welir ymhlith cwsmeriaid erbyn hyn fel y dengys ein gwaith ymchwil ein hunain a meincnodau allanol megis Baromedr Ymddiriedaeth Edelman (arolwg blynyddol sy'n honni ei fod yn mesur a yw pobl o amgylch y byd yn ymddiried mewn busnesau, llywodraethau a'r cyfryngau). Er bod ein sgoriau o ran ymddiriedaeth yn dal yn gymharol uchel, rydym yn ystyriol o'r ffaith y bydd darparu gwasanaeth o ansawdd uchel ac ymdrin â phryderon cymdeithasol, megis ein heffaith ar yr amgylchedd, sicrhau costeffeithlonrwydd a chadw biliau yn isel yn ystod yr argyfwng costau byw presennol, yn hanfodol er mwyn ein helpu i gadw ymddiriedaeth ein cwsmeriaid dros y blynyddoedd i ddod.

Fel busnes sydd wir yn cael ei lywio gan gwsmeriaid, rydym yn awyddus iawn i ddeall ac ymgysylltu â'n cwsmeriaid er mwyn cynnig profiad heb ei ail i gwsmeriaid, yn awr ac yn yr hirdymor. Rydym yn rhoi cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw fel y gallwn gymryd perchnogaeth o'r gydberthynas hon a'i hyrwyddo.

Rydym am wrando o hyd ar eu hanghenion a'u barn fel y gallwn eu hadlewyrchu yn y gwasanaethau hanfodol a ddarparwn. Proses barhaus ydyw, wrth i ni ddwyn ynghyd ddata o'n hymchwili cwsmeriaid a'u dadansoddi, a hefyd o'n gweithrediadau dyddiol, a thrwy hynny wella ein dealltwriaeth o'n cwsmeriaid a'u hanghenion.

Dros y 12 mis diwethaf

Mae ein rhaglen ymchwil cwsmeriaid wedi ystyried amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys 'Trust Tracker' sy'n gofyn am farn cwsmeriaid ar nifer o faterion gan gynnwys ymddiriedaeth, boddhad cyffredinol cwsmeriaid a chanfyddiad o werth am arian, yn ogystal â ffactorau eraill fel gofal am yr amgylchedd. Ar ôl cwblhau cam cychwynnol yr ymchwil i flaenoriaethau cwsmeriaid yn y FA 22 er mwyn llywio cynllun busnes PR24, rydym wedi comisiynu rhagor o ymchwil er mwyn deall blaenoriaethau hirdymor cwsmeriaid a rhoi prawf ar gyflymder ac uchelgais ein cynlluniau.

Rydym wedi ymgynghori â chwsmeriaid (a rhanddeiliaid eraill) ar ddogfennau busnes allweddol a gyhoeddwyd y flwyddyn hon, gan gynnwys ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr diweddaraf (gweler tudalen 113) a'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Gwastraff cyntaf erioed (gweler tudalen 115). Bellach, mae gennym grŵp sefydledig o 30 o gwsmeriaid sy'n cymryd rhan yn ein panel hydredol chwarterol lle y gallwn olrhain barn cwsmeriaid gyda grŵp hyddysg o gwsmeriaid.

Buom yn bresennol mewn digwyddiadau cenedlaethol pwysig yng Nghymru (Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf a'r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst) lle y gwnaethom drafod pwysigrwydd effeithlonrwydd dŵr a hyrwyddo ein gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg.

Rydym hefyd wedi cwblhau nifer o brosiectau i gefnogi'r busnes gweithredol, megis adolygiad o ganfyddiadau cwsmeriaid o'r Gwaharddiad Dros Dro (a gyflwynwyd yn Sir Benfro yr haf diwethaf) a'r rhew/dadmer a effeithiodd ar ein gwasanaethau dŵr yfed yng Ngheredigion a rhannau o Sir Gaerfyrddin ym mis Rhagfyr 2022. Bydd hyn yn helpu i lywio'r ffordd rydym yn rheoli digwyddiadau yn y dyfodol a'r ffordd rydym hefyd yn cyfathrebu â chwsmeriaid.

Cynhaliwyd ein digwyddiad cyhoeddus 'Eich dŵr, Eich dweud' cyntaf i roi cyfle i gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ofyn cwestiynau ynglŷn â'r materion sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol wrth i ni ddatblygu ein cynllun busnes ar gyfer 2025-30.

ASTUDIAETH ACHOS YMGYRCH CODI YMWYBYDDIAETH CWSMERIAID

Yn ystod y cyfnod o sychder yr haf diwethaf, gwnaethom weithio'n agos gyda chwsmeriaid yn Sir Benfro er mwyn helpu i gynnal cyflenwadau dŵr.

Roedd hyn yn cynnwys cynnal ymgyrch helaeth i godi ymwybyddiaeth cwsmeriaid drwy gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd lleol a hysbysebu ar orsafoedd radio a theledu lleol a gorsafoedd digidol; targedu'r cyfryngau cymdeithasol, defnyddio byrddau poster mawr mewn ardaloedd prysur, mynd i sioeau Sir Benfro ac ymweld â chanol trefi i esbonio'r mesurau a oedd yn cael eu rhoi ar waith i gwsmeriaid. Gwnaethom rannu pecynnau i randdeiliaid â phartneriaid dibynadwy a chynnal sesiynau briffio'r wasg yn rheolaidd, a helpodd hyn i gyd i ledaenu'r neges.

Mae ymchwil cwsmeriaid yn dangos na chafodd ein hymgyrch i godi ymwybyddiaeth effaith negyddol ar y canfyddiadau am Dŵr Cymru, gyda chwsmeriaid yn cydnabod bod angen cyflwyno cyfyngiadau dros dro i gadw cyflenwad dŵr a helpu'r amgylchedd lleol ar yr un pryd.

💧 DENGYS YMCHWIL
CWSMERIAID FOD CWSMERIAID
YN CYDNABOD BOD ANGEN
CYFLWYNO CYFYNGIADAU
DROS DRO I GADW
CYFLENWAD DŴR A HELPU'R
GYMUNED LEOL AR YR UN
PRYD. 💧



CYNALIADWYEDD: CYMUNEDAU

Gweithio i Greu Buddiannau Gwirioneddol yn y Cymunedau rydym yn eu Gwasanaethu – Amcan ACLI 4

Prosiect Cymunedau Cydnerth o ran Dŵr

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i adeiladu ar lwyddiant gweithgareddau cynharach prosiect Cymunedau Cydnerth o ran Dŵr yn y de (y Maerdy a Rhymni) ac yn y gogledd (y Rhyl) ac rydym bellach wedi symud i ardal orllewinol dinas Casnewydd. Mae'r prosiect hwn sy'n seiliedig ar le ac sy'n targedu rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, yn dwyn ynghyd sawl un o'n gwasanaethau mewn ymdrech ar y cyd. Mae rhan bwysig o'i lwyddiant yn ymwneud â meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r heriau y mae

cwsmeriaid a chymunedau yn eu hwynebu, yn ogystal ag ystyried cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid wrth i ni geisio cynyddu effaith ein gweithgareddau. Rydym bellach wedi cysylltu â 30 o grwpiau a sefydliadau sy'n gweithredu yn yr ardal.

Darparu Addysg yn y FA 23

Mae ein rhaglen addysg yn cyflwyno sesiynau cyfoethogi, ymarferol a llawn gwybodaeth er mwyn helpu i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n cwmpasu nifer o themâu pwysig am yr amgylchedd a chynaliadwyedd, a hefyd yn annog agwedd gadarnhaol tuag at STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianteg a Mathemateg) o oedran cynnar. Mae gan bobl feddwl uchel am ein darpariaeth am ddim ac mae galw mawr amdani ymhlith ysgolion ac ymarferwyr. Mae'r profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau sy'n cael eu casglu ynghyd yn ein sesiynau allgymorth a'n sesiynau yn y ganolfan addysg hefyd yn cynnig cysylltiad cadarn â'r diwydiant, sy'n helpu ein pobl ifanc wrth iddynt anelu at gyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithredol yn y dyfodol.

Mae 80,212 o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn un o'n sesiynau, a gyflwynwyd drwy 789 o sesiynau addysg – ac a oedd yn cynnwys treulio dros 1,000 o oriau gyda disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Er gwaethaf y cyfyngiadau cymdeithasol gweddilliol ar gynulladau mawr mewn neuaddau ysgol ar ddechrau'r flwyddyn, llwyddwyd i gyflwyno ein rhaglen addysg i nifer sylweddol mwy o ddisgyblion wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Mae'r cynnwys, sy'n cael ei greu a'i gyflwyno gan athrawon cymwysedig, yn defnyddio cyfuniad o sesiynau yn yr ystafell ddosbarth, mewn neuadd ysgol ac ar-lein er mwyn sicrhau cymaint o effaith â phosibl.

Mae gweithio mewn partneriaeth ac adnoddau digidol ar-lein yn parhau'n rhan allweddol o'n strategaeth, gan sicrhau bod ein cymorth addysg ar gael i ddisgyblion a'i fod yn cael yr effaith fwyaf posibl. Rydym wedi parhau â'n partneriaeth lwyddiannus â Cadwch Gymru'n Daclus i gyflwyno cyfres o sesiynau rhyngweithiol ar-lein, sy'n cael eu ffrydio ar yr un pryd i ystafelloedd dosbarth, gan gyrraedd dros 1,500 o ddisgyblion. Rydym hefyd wedi cefnogi Groundwork Cymru gyda'i brosiect ymgysylltu ag ysgolion yn Nant-yr-Aber, wedi parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno'r hyfforddiant a'r rhaglen sefydlu flynyddol i athrawon, ac wedi treialu dull o gydweithio â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd wrth i ni geisio cynnig cyfleoedd datblygu i ddarparu athrawon. Yn ogystal â'r cymorth a gynigiwn i ysgolion wrth iddynt gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol i ddisgyblion, rydym hefyd yn rhoi cyfle i ymarferwyr ysgol wella'r hyn y maent yn ei addysgu – ac mae hyn yn amlwg iawn unwaith eto y flwyddyn hon.

Tynnwyd sylw at ansawdd ein gwasanaeth ac effaith ein haddysg drwy werthusiadau athrawon. Mae 442 o ffurflenni gwerthuso wedi cael eu cwblhau, gyda 99% ohonynt yn nodi bod athrawon ysgol wedi bod yn 'fodlon iawn' ar ansawdd yr hyn a ddarparwyd.

Ein cyflawniadau yng Nghasnewydd:

- Mynd i fwy na 70 o ddigwyddiadau ac ymgysylltu â mwy na 2,500 o gwsmeriaid. Mae hyn wedi cynnwys adolygu dros 200 o gyfrifon cwsmeriaid ac wedi arwain at arbedion gwerth tua £11,000 i gwsmeriaid. Arweiniodd y ffocws yn yr ardal hefyd at fwy na 250 o gwsmeriaid yn ymuno â'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth. Ar ôl cael cymorth gan y Tîm Cymuned Cwsmeriaid mewn Sefyllfa Fregus, dywedodd un cwsmer: 'Mae'n wahaniaeth mawr, yn gymorth mawr. Roedd y swm bach ychwanegol yna roeddwn yn ei wario ar ddŵr bellach yn cael ei wario ar y bechgyn'.
- Hyrwyddo ein darpariaeth gollyngiadau dŵr toiled ac effeithlonrwydd dŵr am ddim yn yr ardal, a arweiniodd ar fwy na 140 o apwyntiadau â chwsmeriaid a dosbarthu tua 500 o ddyfeisiau arbed dŵr am ddim.
- Nodi, dadansoddi a dechrau ymchwiliadau rhagweithiol i sawl set o godau post yn yr ardal, lle mae risg uchel o flociadau mynych.
- Cysylltu'n rhagweithiol â cwsmeriaid ag ôl-ddyledion er mwyn eu hysbysu y byddem yn cynnal cymorthfeydd galw heibio. Roedd ein cynghorwyr ar ddyled wrth law i helpu i roi cwsmeriaid, roedd llawer ohonynt wedi ymddieithrio ers amser maith, ar ben ffordd i glirio eu dyledion. Gwnaeth un cwsmer a gymerodd ran ar y diwrnod rannu ei werthfawrogiad: 'Rwy'n nerfus iawn ar y ffôn. Roeddwn i'n meddwl bod hyn...yn syniad gwych. Fe ddes i lawr, ac mae'r gŵr bonheddig wedi rhoi cymorth i mi. Rwy'n ceisio rhoi trefn ar fy hun. Mae'n gyfnod anodd ac mae pob ceiniog yn helpu. Mae arna i lawer o arian i Dŵr Cymru. Mae'r gŵr bonheddig hwn heddiw wedi fy rhoi ar dariff, ac ar yr amod fy mod i'n gwneud y taliadau cywir, caiff y bil ei ddileu'.
- Cefnogi ceiswyr swydd yn yr ardal drwy gymorth ac arbenigedd ein hadran Adnoddau Dynol.
- Cynnal ymweliadau ag ysgolion ar sail y cwricwlwm, a oedd yn cynnwys treialu cynnwys addysgol newydd i tua 4,000 o blant mewn ysgolion lleol. Roedd hyn yn cynnwys treulio tua 70 awr yn yr ystafell ddosbarth, lle roedd cenedlaethau'r dyfodol yn ymddiddori'n fawr yn yr hyn a oedd yn cael ei ddysgu: 'Yn y microsgopau bach hynny, fe edryches i ar adain gwas y neidr, Fe fwynheues i gymaint am i mi gael cyfle i ddysgu om greaduriaid eraill nad wyf wedi dysgu amdanynt o'r blaen'.

CRONFA GYMUNEDOL

Mae cefnogi cymunedau lleol mor bwysig ag erioed. Yn wyneb ôl-ffeithiau COVID-19 a'r pryderon o hyd ynglŷn â'r argyfwng costau byw, mae cwsmeriaid yn disgwyl i gwmnïau fel Dŵr Cymru arwain y ffordd fel busnes cyfrifol i gefnogi prosiectau yn eu cymuned leol. Ers lansio ein Cronfa Gymunedol yn 2017, mae dros £450,000 wedi cael ei roi i wahanol elusennau a sefydliadau cymunedol.

Mae prosiectau sy'n cefnogi gwelliannau amgylcheddol, iechyd a llesiant, a buddiannau addysg a chynhwysiant yn cael rhwng £250 a £1,000 i helpu i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau lleol. Mae'r Gronfa wedi chwarae rhan allweddol i gefnogi cymunedau lle mae gennym gynlluniau buddsoddi mawr yn aml am fod hyn yn ein galluogi i weithio yn y gymuned a rhoi rhywbeth yn ôl fel rhan o waddol y buddsoddiad.

“FE DDYSGON NI SUT I ARBED DŴR FEL TROI'R TAPIAU I FFWRDD WRTH FRWSIO EIN DANNEDD.”

“FE DDYSGON NI SUT MAE DŴR YN EIN CYRRAEDD O'R GLAW I'R GRONFA DDŴR, WEDI'I LANHAU AC I'N Tŷ.”

Disgyblion o Ysgol Gynradd Somerton

“ROEDD HWN YN WEITHDY ARDDERCHOG YR OEDD POB UN O'R DISGYBLION WEDI'I FWYNHAU'N FAWR. GWNAETH Y WERS ESBONIO DŴR O'R TARDdle – AC ROEDD POB DISGYBL WEDI DEALL Y BROSES. GWEITHDY GWYCH A BYDDWN YN SICR YN TREFNU UN ARALL. DIOLCH!!”

Ysgol Gynradd Maesyfed

CEFNOGI'R GYMUNED AWTISTIG



Mae Austistic Minds yn cefnogi'r gymuned awtistig yng Nghymru.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â diffyg cyfleoedd cyflogaeth i bobl awtistig, lansiodd y cwmni Safe Shred Wales, sef gwasanaeth rhwygo dogfennau achrededig sy'n darparu hyfforddiant a chyflogaeth, gan wella llesiant cymdeithasol ac economaidd. Defnyddiwyd arian i brynu cyfarpar i roi mwy o gyfleoedd i bobl awtistig.

“DIOLCH YN FAWR UNWAITH ETO AM EICH CYMORTH. RYDYM WIR YN EI WERTHFAWROGI, AC FEL Y GWELWCH O'R LLUN, ROEDD AELODAU O DÎM SAFE SHRED WALES YN FALCH IAWN O FOD AR EU STONDIN YN SIOE FYW AUTISTIC MINDS DDYDD GWENER DIWETHAF YN GWERTHU EU CYNHYRCHION NEWYDD!”

Ruth Mills, Autistic Minds Ltd



CYNALIADWYEDD: CYMUNEDAU PARHAD

CEGIN FWYD BRYNBUGA

Rhoddodd Dŵr Cymru arian i Gegin Fwyd Brynbuga er mwyn helpu i sicrhau bod y rhai yr oedd angen pryd o fwyd poeth arnynt yn cael cinio Nadolig.

Mae Cegin Fwyd Brynbuga yn rhedeg ddwywaith yr wythnos, yn darparu bwyd poeth i fwy na 40 o gartrefi yn yr ardal. Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 2020 ac mae'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr sy'n dibynnu ar roddion o fwyd ac arian.



“MAE'R RHAN FWYAF O'R BOBL SY'N CAEL EIN PRYDAU BWYD YN OEDRANNUS, YN BYW AR EU PEN EU HUNAIN NEU MAE GANDDYNT ANABLEDDAU GWAHANOL. MAE POB PRYD RYDYM YN EI BARATOI YMA YN CYNNWYS LLYSIAU FFRES, FELLY RYDYM YN GWNEUD YN SIŴR EU BOD YN CAEL BWYD FFRES AC IACH. MAE FEL PE BAEM NI'N EU COFLEIDIO Â'R BWYD! MAE'R ADBORTH A GAWN BOB AMSER YN GADARNHAOL IAWN. HELPODD YR ARIAN A RODDWDYD GAN Y GRONFA GYMUNEDOL GYDA CHOSTAU BWYD, DEUNYDDIAU GLANHAU A CHYNNAL A CHADW OFFER COGINIO.”

Gloria Dolan – Sylfaenydd Cegin Fwyd Brynbuga

GARDD GYMUNEDOL MEADOW STREET, PONTYPRIDD

Rhoddwyd cymorth i ardd gymunedol Meadow Street drwy ein Cronfa Gymunedol a hefyd gymorth gyda gwirfoddoli yn yr ardd dros y flwyddyn diwethaf. Mae'r ardd yn fan cyhoeddus sy'n defnyddio natur a bioamrywiaeth i hybu iechyd a llesiant i bawb. Mae'r ardd gymunedol ar agor i'r gymuned ac mae'n lle sy'n defnyddio natur a bioamrywiaeth i hybu iechyd a llesiant i bawb.

Mae'n cynnig cyfleoedd i bawb wirfoddoli a dilyn cyrsiau llesiant, magu hyder, dysgu sgiliau newydd a gwneud cysylltiadau cymdeithasol newydd.



“MAE WEDI BOD YN WYCH CAEL CYMORTH DŴR CYMRU YN YR ARDD A THRWY'R ARIAN. RYDYM WEDI LLWYDDO I LENWI EIN GWELYAU DYRCHAFEDIG Â CHOMPOST, PLANNU RHAI BLODAU SY'N DENU GWENYN A CHAEL CYNGOR ARBENIGOL GAN AELOD O DÎM ECOLEG DŴR CYMRU. RYDYM YN GOBEITHIO EU GWELD UNWAITH ETO YN FUAN.”

Helen Williams – Swyddog Datblygu Cyngor Tref Pontypridd

Sicrhau Fforddiadwyedd – Amcan ACLI 5

Rydym yn wynebu'r argyfwng costau byw gwaethaf yn y DU ers y 1970au ar hyn o bryd. Gyda chwyddiant yn cynyddu i fwy na 10% ym mhedwerydd chwarter 2022, mae busnesau ac aelwydydd wedi wynebu pwysau ariannol cynyddol.

Felly, mae mor bwysig ag erioed ein bod yn cefnogi ein cwsmeriaid, yn enwedig o ystyried y lefelau o amddifadedd yng Nghymru, sydd ymhlith yr uchaf yn y DU. Rydym yn cynnig pecyn cymorth cynhwysfawr i helpu cwsmeriaid sy'n wynebu heriau fforddiadwyedd, ac yn cynnal ymgyrchoedd cyfathrebu rhagweithiol, megis 'Yma i Chi', drwy gydol y flwyddyn er mwyn annog y rhai sy'n wynebu anawsterau i gysylltu â ni i drafod eu hamgylchiadau.

Gyda thros 1.4 miliwn o gwsmeriaid preswyl yn y rhan fwyaf o Gymru a rhannau o Loegr, rydym yn:

- Darparu £62 miliwn dros bum mlynedd hyd at 2025 i roi cymorth ariannol i'n cwsmeriaid.
- Cefnogi 127,000 o'n cwsmeriaid drwy filiau gostyngol drwy dariffau cymdeithasol – nifer mwy, fel cyfran o faint y Cwmni, nag unrhyw gwmni dŵr arall yng Nghymru a Lloegr.
- Balch o glustnodi dros £12 miliwn yn y FA 23 i gefnogi ein cwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus wrth i ni anelu at gynorthwyo 50,000 o aelwydydd incwm isel ychwanegol.
- Gweithio gyda mwy na 300 o sefydliadau lleol (gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, cynllun Nyth Llywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni, y Ganolfan Byd Gwaith, cymdeithasau tai a banciau bwyd) er mwyn helpu i nodi a chefnogi cwsmeriaid a all fod yn gymwys i gael bil gostyngol.

O fis Ebrill 2023, mae biliau blynyddol cwsmeriaid ar ein tariff HelpU wedi cael eu capio ar £291, sef gostyngiad sylweddol ar fil cyfartalog aelwyd o £499.

Hyd yma, nid yw aelwydydd mewn gwaith wedi bod yn gymwys i gael cymorth ariannol gennym fel arfer, ond cyflwynwyd cynllun newydd ar ddiwedd 2022 sy'n eu galluogi i wneud cais am gymorth o dan Cymuned, ein Cronfa Gymorth newydd ei sefydlu. Mae'r cynllun yn cynnig cymorth byrdymor i aelwydydd mewn gwaith sydd mewn sefyllfa lle mae eu biliau yn fwy na'u hincwm.

Gall aelwydydd cymwys gael cyfnod di-dâl o dri mis, sy'n cyfateb i ddisgownt o tua £100-£200 ar y bil cyfartalog. Mae angen i'r rhai sy'n gwneud cais fynd drwy asesiad o incwm a gwariant a gwblheir gan sefydliadau dibynadwy, megis Cyngor ar Bopeth. Cyflwynwyd y cynllun yn Rhondda Cynon Taf yn y de a Sir Ddinbych yn y gogledd i ddechrau, ac rydym yn bwriadu ei gyflwyno'n ehangach.

Rydym hefyd wedi cefnogi ein cyflogeion yn ystod yr argyfwng costau byw. A ninnau eisoes wedi cyflwyno'r cynnydd i'r Cyflog Byw Gwirioneddol i bob cyflogai yr effeithiwyd arno/ arni, aethom ati ar y cyd â'n hundebau llafur cydnabyddedig i wneud taliad untro o naill ai £1,000 neu £2,000 i gydweithwyr cymwys (gyda'r rhai ar gyflogau is yn cael y swm uchaf) ym mis Rhagfyr 2022 a chytuno ar ddyfarniad cyflog o 6.2% o 1 Ebrill 2023 i'r rhan fwyaf o'n cyflogeion.

DOD Â CHYMORTH I GWSMERIAID YN FYW

Rydym wedi rhoi tîm cymorth penodol ac arbenigol ar waith i lywio a chynorthwyo cwsmeriaid sy'n wynebu unrhyw fath o sefyllfa fregus, boed hynny'n ariannol neu fel arall.

Rydym yn cynnig cymorth ariannol i gwsmeriaid cymwys, sy'n canolbwyntio ar effaith yr argyfwng costau byw ar ein cwsmeriaid, gan weithio ochr yn ochr gyda nifer o bartneriaid yr ymddiriedir ynddynt.

 **GWNAETHOM GEFNOGI DEFNYDDIWR BANC BWYD YN DDIWEDDAR A DDAETH DRAW I GAEL SGWRS AM EI GYFRIF. ROEDD YN GWELLA AR ÔL BOD YN GAETH I HEROIN. ROEDD WEDI BOD YN GWEITHIO DRAMOR YN ENNILL CYFLOG DA. ROEDD WEDI DYCHWELYD ADREF**

I GEISIO TRINIAETH AM GAETHIWED AC WEDI COLLI EI GARTREF A'I DEULU WRTH WNEUD HYNNY. CAFODD GYMORTH GAN ELUSEN I SICRHAU EI LE EI HUN AM EI FOD YN BYW AR Y STRYD. ROEDDEM YN GALLU EI HELPU DRWY EI ROI AR EIN TARIFF HELPU AM 12 MIS TRA BYDD AR INCWM MOR ISEL; A GWNAETHOM DREFNU DEBYD UNIONGYRCHOL AR GYFER Y TALIADAU. ROEDD YN EI DDAGRAU A DYWEDODD EI FOD MOR HAPUS GYDA'R CYMORTH ROEDDEM WEDI'I ROI IDDO A'I BOD YN GYMAINT O RYDDHAD. 

Paula Burnell – Pennaeth Gwasanaethau Cymorth i Gwsmeriaid mewn Sefyllfa Fregus a Gwasanaethau Digidol



CYNALIADWYEDD: CYMUNEDAU PARHAD

Denu a Chadw Gweithlu Amrywiol sy'n Adlewyrchu ein Cymunedau – Amcan ACLI 7

Mae pob sefydliad ond cystal â'i bobl, ac felly rydym am recriwtio a chadw'r dalent orau. Nid yw talent yn poeni am rywedd, hil na chyfeiriadedd rhywiol: doniau'r unigolyn sy'n bwysig. Rydym am apelio mor eang â phosibl at dalent o bob math a gwneir hyn drwy gael ein cydnabod yn allanol fel cwmni â diwylliant cynhwysol, rhywle lle y rhoddir gwerth ar bobl am bwy ydynt a beth ydynt. Mae angen i'n holl bobl gydnabod a gwerthfawrogi'r diwylliant hwnnw fel y byddant yn sôn amdano wrth eu ffrindiau a'u cymunedau ac yn lledaenu'r neges bod Dŵr Cymru yn lle gwych i weithio.

Yn y sector dŵr, yn hanesyddol mae'r gweithlu wedi cynnwys dynion gwyn yn bennaf. Felly, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar wella ein hamrywiaeth o ran y rhywiau, LHDT+ ac anneauaid, hil, anabledd, cefndir cymdeithasol a mwy, er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn yn well. Rydym wrthi'n adolygu ein dull gweithredu wedi'i dargedu a arweinir gan ddata sy'n sail i'n strategaeth er mwyn cael gwell gwybodaeth ynglŷn â ble y mae angen i ni wneud newidiadau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae ein gwaith i atgyfnerthu'r diwylliant hwn yn parhau i gael ei sbarduno gan y canlynol:

- Swyddog arweiniol profiadol ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n gweithio gyda chydweithwyr, timau a rhwydweithiau ym mhob rhan o'r busnes.
- Ein Fforwm Cynhwysiant sefydledig iawn sy'n cynnwys llysgenhadon dros yr holl nodweddion gwarchodedig ac sy'n nodi meysydd lle y gall y busnes wella ei ymdrechion i fod yn fwy cynhwysol.
- Gwaith monitro cynnydd, sy'n defnyddio data meintiol ac ansoddol i dynnu sylw at y rhwystrau sy'n bodoli, dangos effaith ein hymyriadau, a gwneud addasiadau priodol lle y bo angen.
- Defnyddio grwpiau rhwydwaith a arweinir gan gyflogion i roi adborth i werthuso mentrau, asesu a yw'r polisïau yn gweithio i bawb, a chynnig llwyfan i roi adborth a gwelliannau.

Rhaglenni mewnol

Rydym am i gynhwysiant fod wrth wraidd popeth a wnawn yn Dŵr Cymru a thros y 12 mis diwethaf, rydym wedi:

- Rhoi hyfforddiant ar iaith gynhwysol i gydweithwyr ar bob lefel, gan gynnwys ein Cyfarwyddwyr Anweithredol, sy'n dangos pwysigrwydd mentrau o'r brig i lawr.
- Cyflwyno nifer o fodiwlau i gydweithwyr ynglŷn ag amrywiaeth sy'n cynnwys sgysiau am hil, bod yn gynghreiriad, a rhagfarn anymwybodol.
- Cyfathrebu'n rheolaidd â'r Tîm Gweithredol ar fentrau a meysydd ffocws.
- Parhau â mentora o chwith i Gyfarwyddwyr ac uwch-reolwyr, gyda chydweithwyr o gefndiroedd gwahanol yn rhannu eu profiad bywyd.

Cyberthnasau allanol

Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r sefydliadau canlynol yn ystod y flwyddyn diwethaf:

- **Energy and Utility Skills** – mae ein Swyddog Arweiniol ar Gynhwysiant yn mynd i'r rhain er mwyn rhannu arferion gorau yn y diwydiant, gan chwilio am ffyrdd o wella.
- **Busnes yn y Gymuned** – fel un o lofnodwyr y Siarter Hil, ond sydd hefyd yn gweithio gyda'n cynghorydd penodol ar gynhwysiant sy'n cyflwyno gweminarau sydd ar gael i bob cydweithiwr. Rydym hefyd yn rhan o Grŵp Arweinyddiaeth Oedran yn y Gwaith, sy'n gweithio gyda sefydliadau eraill i ddeall heriau a chyfluoedd poblogaeth o weithwyr sy'n heneiddio a rhannu arferion da.
- **Stonewall Cymru** – rydym yn parhau â'n haelodaeth fel hyrwyddwr amrywiaeth, gan gymryd rhan ym mynegai blynyddol Stonewall a chyflwyno modiwlau i gydweithwyr.
- **Chwarae Teg** – yn cyflwyno cyfres o fodiwlau sy'n helpu i ddatblygu menywod yn y sefydliad.
- **Mahogany Inclusion Partners** – yn cyflwyno nifer o fodiwlau sy'n cefnogi datblygiad cydweithwyr Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol.
- **WISE (Menywod mewn Gwyddoniaeth a Pheirianeg)** – yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu arferion gorau y gallwn eu cyflwyno a'u hymgorffori yn ein ffordd o weithio.

Recriwtio ein gweithlu yn y dyfodol (Graddedigion a Phrentisiaid)

Rydym yn parhau i fuddsoddi i recriwtio talent newydd yn Dŵr Cymru drwy nodi'r rhai sydd â'r sgiliau, y priodweddau a'r ymddygiadau cywir i ddod yn weithlu hyfedr i ni yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i adolygu'r rhaglenni a gynigiwn, ac mae'r arlwy i brentisiaid yn cynnig rolau crefft yn ogystal â swyddogaethau cymorth a phrentisiaethau gradd.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru i gyflwyno ein rhaglen Network75 sy'n cynnig cyfuniad o leoliad gwaith ac astudio rhan amser i ennill gradd, sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr weithio, ennill a dysgu.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi recriwtio 41 o raddedigion a phrentisiaid ac mae dau gydweithiwr wedi cymryd rhan yn rhaglen Network75.

ARLOESED

Gyda chefnogaeth ein cwsmeriaid, rheoleiddwyr, a llywodraethau fel ei gilydd i wasanaethau gwell a lleihau ein hól troed carbon ac amgylcheddol, rydym yn parhau i chwilio am ffordd gwell o weithio neu ddatblygiadau technolegol.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r agenda a nodwyd yn ein Strategaeth Arloesedd, a gafodd ei diweddarau a'i chyhoeddi yn 2022, gyda chysylltiadau â mwy na 100 o sefydliadau academaidd a sefydliadau eraill, arbenigwyr technoleg, a mentrau arloesi byd-eang. Mae ein strategaeth ar ei newydd wedd yn cadarnhau bod y ddau sbardun gwreiddiol i'r ffordd rydym yn arloesi yn dal i fod yn addas iawn at y diben (<https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/innovation/our-challenges>).

Yn gyntaf, datblygu technolegau newydd i wella gwasanaeth cwsmeriaid, creu arbedion effeithlonrwydd a lleihau'r adnoddau a ddefnyddir, carbon a chostau. Yn ail, defnyddio ein hymchwiliad a'n gwaith a arweinir gan dystiolaeth er mwyn helpu i lywio barn rheoleiddwyr a llywodraethau, a thrwy hynny, bydd modd datblygu polisiau arloesol newydd a fydd yn hwyluso ac yn cefnogi ein hymdrechion i gyflawni ein gwledigaeth ar gyfer 2050, er enghraifft, ar ddatrysiadau dalgylchoedd a masnachu mewn maethynnau.

Yn 2022 rhoddwyd 46 o brosiectau sy'n gysylltiedig â thechnoleg ar waith o gyfanswm o 179 sydd wedi cyrraedd ein porth Arloesi ar-lein. Rydym hefyd wedi ennill neu rydym yn rhan o brosiectau arloesi gwerth £35.7 miliwn, drwy gronfa arloesi gwerth £200 miliwn Ofwat. Hyd yma yn ystod yr AMP hwn, mae ein rhaglen ymchwil, sy'n cynnwys ein prosiectau bioamrywiaeth a phrosiectau eraill sy'n anelu at sicrhau newid rheoleiddiol, wedi neilltuo £3.3 miliwn a ddefnyddir i ddenu £32 miliwn mewn buddsoddiadau gan drydydd partion, yn bennaf o gronfa LIFE yr UE, UKRI, a Llywodraeth Cymru. Caiff y prosiectau a'r mentrau hyn eu hadolygu o hyd drwy ein proses iLab sefydledig ac maent yn cefnogi targedau DPA AMP7 a Dŵr Cymru 2050 i sicrhau bod ein buddsoddiadau wedi'u targedu'n briodol o hyd.

Ym mis Mai 2023, dyfarnwyd £385,000 o gyllid o dan Gronfa Arloesi Ofwat ar gyfer ein syniad prosiect arloesol i ddefnyddio deallusrwydd artifisial i wella'r ffordd y mae cwmnïau dŵr yn monitro lefelau algâu mewn cronfeydd dŵr. Mae'r prosiect yn un o 16 o ddatrysiadau a enillodd gyfran o'r gronfa ddyfarnu fel rhan o gystadleuaeth arloesi ddiweddaraf y rheoleidiwr dŵr o'r enw Water Breakthrough Challenge.

Bydd y fenter yn defnyddio deallusrwydd artifisial i drawsnewid gwaith monitro algâu yn broses labordy neu faes gywir iawn â chyfradd brosesu uchel am ffracsiwn o gost dulliau monitro lefelau algâu hanesyddol, a fydd yn ei gwneud yn haws rhagweld risgiau ac yn galluogi cwmnïau dŵr i gymryd camau cynharach, mwy costeffeithiol ac wedi'u targedu.

Mae'r gystadleuaeth hon yn annog mentrau sy'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau mwyaf y mae'r sector dŵr yn eu hwynebu, megis sicrhau sero net, diogelu ecosystemau naturiol a lleihau gollyngiadau dŵr, yn ogystal â sicrhau gwerth i gymdeithas.

Mae ein gwaith ymchwil wedi cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i newid polisiau yn yr UE drwy Eureau, sef corff masnach y diwydiant yn Ewrop. Ym mis Rhagfyr 2022, roedd yn bleser gennym weld egwyddor cyfrifoldeb y cynhyrchydd yn cael ei hymgorffori yn y Gyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol ddrafft, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r diwydiant fferyllol ariannu unrhyw brosesau trin cwaternaid sydd eu hangen i leihau presenoldeb cynhyrchion fferyllol yn elfion carthion wedi'u trin ymhellach. Mae hyn yn gosod cynsail bwerus a dylai helpu'r sector dŵr cyfan a'r diwydiant fferyllol a'r diwydiant cemegol i symud i sefyllfa fwy cynaliadwy. Mae ein rhaglen ymchwil bellach yn canolbwyntio ar amrywiaeth eang o bynciau, sy'n cynnwys y ffordd orau o ddatblygu buddsoddiadau cynaliadwy sy'n seiliedig ar natur ar gyfer ein hardal gyflenwi.

Cynhaliwyd ein Cynhadledd Arloesedd rithwir bob dwy flynedd ym mis Medi 2022, a oedd yn dathlu ein llwyddiannau ym maes arloesi hyd yma, ac yn edrych ymlaen at AMP8 o ran meithrin partneriaethau cryfach er mwyn sicrhau gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd i'n cwsmeriaid. Cofrestrodd dros 500 o gynadleddwyr, ac rydym wrthi'n gweithio drwy'r gwahanol ddatblygiadau arloesol a phynciau ymchwil a godwyd er mwyn dewis y goreuon at ddibenion buddsoddi a chymorth.

Rydym hefyd yn rhoi cefnogaeth weithredol iawn i Spring Innovation Ltd, sef y ganolfan ragoriaeth ar gyfer arloesi yn y sector dŵr. Rydym yn gobeithio gweld y cwmni newydd yn ffynnu, gan ein galluogi i dreialu prosesau trin ac ati yn fwy effeithlon, yn ogystal â rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol drwy'r sector cyfan.

ARLOESED

PARHAD

TREIALU TECHNOLEG NORAG

Un o uchafbwyntiau datblygiadau arloesol ym maes dŵr gwastraff y flwyddyn hon yw'r treial ar gyfer technoleg NoRag sy'n mynd rhagddo i wella sgriniau systemau gorlif storm cyfun, a ddyluniwyd gan gwmni yn Abertawe.

Mae systemau gorlif storm cyfun wedi'u dylunio i leddfu pwysau ar ein systemau carthffosiaeth yn ystod glaw trwm. Maent yn cael eu rheoli ac mae'r llifau sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd yn tueddu i fod yn wanedig. Rydym yn ymrwymedig i leihau ein heffaith a buddsoddi er mwyn gwella systemau gorlif storm cyfun drwy ymchwil ac arloesedd.

Dyluniwyd NoRag i orfodi'r gro yn ôl i mewn i'r prif lif dŵr, sy'n gadael iddo barhau i symud drwy'r rhwydwaith heb flocio'r sgrin noc ochosi risg o ollyngiad heb ganiatâd i'r amgylchedd. Nid oes angen pŵer ar NoRag ac nid oes

unrhyw rannau symud, ac mae'r treial presennol yn cael cyfradd lwyddo o 93%.

Mae'r camau nesaf yn cynnwys addasiadau a gwaith profi ar gymwysiadau eraill, ond yn y pen draw gallai fod yn ddatrysiad arloesol gwyh i'r heriau a wynebwn o ran blociadau sgrin yn y systemau gorlif storm cyfun presennol.



Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Rhosir Cag, Bro Morgannwg

MESURYDD DEALLUS WATERFALL

Mae Creative EC wedi datblygu mesurydd dŵr deallus newydd sy'n gallu monitro defnydd dŵr dyddiol cwsmeriaid.

Mae'r dyfeisiau yn gallu canfod pa gyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio yn y cartref a rhoi cyngor ac awgrymiadau ynglŷn â sut i fod yn fwy effeithlon o ran dŵr yn seiliedig ar batrymau defnydd dŵr y cartref. Gall mesurydd deallus Waterfall hefyd gofnodi osgiliadau byr mewn pwysedd mewn amser real yn ogystal â diffodd y dŵr os bydd yn canfod gollyngiadau mawr yn y cartref.

Cymerodd chwe chartref ran yn y treial, yr oedd pob un yn cynnwys cydweithwyr Dŵr Cymru. Roedd gan bob un o'r cydweithwyr ddefnydd isel y pen o rhwng 85 a 96 litr y pen y dydd. Fodd bynnag, yn ystod y treial, nodwyd 46,000 litr o arbedion effeithlonrwydd yn y cartrefi a gymerodd ran; mae hyn yn cyfateb i arbed 6.3 litr y person y dydd. Roedd yr arbedion effeithlonrwydd hyn yn cynnwys:

- Dou lif (gollyngiad) cefndirol, diferiad bach a gollyngiad mwy o faint y mesurwyd y byddent yn cyfateb i tua 35,040 litr y flwyddyn.
- Arweiniodd negeseuon gwrthio wedi'u targedu at fwy o ymgysylltu a newidiadau mewn ymddygiad ymhlith rhai o'r cyfranogwyr, a arbedodd tua 2,496 litr y flwyddyn.
- Nododd un cyfranogwr drwy'r ap fod aelod o'r teulu yn defnyddio 12 litr i frwsio ei ddannedd drwy adael i'r tap redeg. Drwy newid ymddygiad byddai hyn yn arbed tua 8,760 litr y flwyddyn.



ADNODD CANFOD ANGHYSONDEB WRTH FONITRO HYD DIGWYDDIADAU

Mae cydweithwyr yn ein tîm Gwasanaethau Dŵr Gwastraff yn cael y dasg o adolygu niferoedd mawr o graffau sy'n dangos data a gofnodwyd o safleoedd Monitro Hyd Digwyddiadau, fel rhan o fentrau ehangach i wella perfformiad asedau dŵr gwastraff.

Mae dadansoddwyr yn adolygu'r data a gofnodwyd yn ofalus er mwyn nodi anghysondebau sy'n datblygu a all fod yn arwydd bod perfformiad yr ased yn dechrau dirywio o bosibl. Drwy hyn, gellir cymryd camau rhagweithiol, lle mae'r tîm yn hysbysu timau gweithredol i ymchwilio i unrhyw broblemau a'u datrys o bosibl cyn iddynt godi.

Mae'r Tîm Gwyddor Data yn Dŵr Cymru wedi creu adnodd newydd – Adnodd Canfod Anghysondeb wrth Fonitro Hyd Digwyddiadau, neu 'EDMAD'. Mae'n defnyddio dysgu peiranyddol uwch a methodolegau ystadegol i dynnu sylw'n awtomatig at unrhyw ddarlleniadau anghyson, gan ystyried unrhyw ffactorau tymhorol a meteorolegol perthnasol. Cyflwynir y canlyniadau i ddefnyddwyr drwy ddangosfwrdd EDMAD, sy'n nodi pa asedau Monitro Hyd Digwyddiadau sydd â lefelau uchel o ddarlleniadau anghyson, sydd, yn ei dro, yn cefnogi ymchwiliadau pellach i'r asedau hyn. Mae EDMAD, a adeiladwyd drwy ddefnyddio elfennau dadansoddeg cwmwl arloesol, yn golygu nad oes angen treulio amser yn adolygu graffau â llaw mwyach. Yn hytrach, mae'n tynnu sylw'n glyfar at feysydd o ddiddordeb er mwyn i'r tîm bennu cyfeiriad ei waith.

ARLOESEDD PARHAD



Arloesedd Hydrogen

Mae Dŵr Cymru wedi bod yn datblygu dau brosiect, HyValue a H2Juice, i gynhyrchu hydrogen drwy 'ailffurfio' methan a gynhyrchwyd drwy ddulliau adnewyddadwy yn hydrogen. Mae ailffurfio ager yn dechnoleg sefydledig. Fodd bynnag, deellir mai'r datblygiad arloesol hwn yw'r cyntaf o'i fath. Mae trosi nwy carthion yn fiefethan sy'n cael ei ailffurfio'n hydrogen, gan ychwanegu technolegau dal carbon, mewn un datblygiad, yn unigryw.

Bydd prosiect HyValue yn canfod dichonoldeb cynhyrchu hydrogen a'r cyfleoedd i'w ddefnyddio yn lle tanwydd cerbydau. Mae prosiect H2Juice, sef astudiaeth ddichonoldeb a ariennir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, yn arbennig o wreiddiol oherwydd, ar y cyd â'r partneriaid prosiect Costain, Wales and West Utilities a Princes Foods, mae'n ymdrin â threfniant o'r dechrau i'r diwedd i ddefnyddio hydrogen ar safle gwahanol i'r man lle y caiff ei gynhyrchu. Mae'r ddau brosiect dichonoldeb hydrogen hyn yn cynnig cyfleoedd gwych i leihau allyriadau carbon drwy ddefnyddio hydrogen yn lle tanwyddau ffosil mewn cerbydau neu yn y diwydiant. Bwriadwn gyhoeddi ein canfyddiadau yn 2023. Bwriadwn hefyd ddatblygu'r blaen-ddyluniad peiranyddol dros y 12 mis nesaf. Drwy hyn, bydd modd i botensial gwych hydrogen i leihau carbon fod yn rhan o gyfraniad Dŵr Cymru at y Siwrnai i Sero Net erbyn 2040.

Datblygu Cymwysiadau Cod Isel: Ap Mynediad i Fannau Cyfyng

Mae'r tîm TG wedi bod yn gweithio gyda'r busnes gweithredol i ddangos mantais datblygiadau 'cod isel', gan ei gwneud yn bosibl i ddatblygu a defnyddio apiau symudol i wella effeithlonrwydd. Er enghraifft, mae'r Tîm Diogelwch Argaeau yn defnyddio ap newydd sy'n arbed amser, yn gwella profiad y defnyddiwr ac yn ei gwneud yn bosibl i barhau i ddilyn arferion gorau gweithdrefnau diogelwch mewn mannau cyfyng. Mae'r datblygiad wedi arwain at ddull arloesol o ymdrin â dogfennaeth diogelwch drwy ddefnyddio Power Platform Microsoft.

Gwelodd y tîm TG fod hwn yn gyfle gwych i fabwysiadu dull cydweithredol â thimau gweithredol, gan ddefnyddio syniadaeth ddylunio i gyflwyno cynnyrch sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, a deall yn fanwl sut y gallwn gefnogi'r gwaith y mae ein timau gweithredol yn ei wneud bob dydd, sy'n gallu bod yn beryglus weithiau, drwy symleiddio'r broses â thechnoleg. Wrth adeiladu ar lwyfannau technoleg cwmwl sydd eisoes wedi'u hintegreiddio â'n hamgylchedd, roedd llawer o'r seiberddiogelwch angenrheidiol eisoes yn bresennol, ac mae'r dull gweithredu bellach yn cael ei ddefnyddio gan Dîm Awtomeiddio ac Integreiddio mewnol i sicrhau gwerth ym mhob rhan o fusnes Dŵr Cymru.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

Mae'r adran hon yn nodi ein trefniadau llywodraethu corfforaethol a gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod y flwyddyn 2022-23

Cyflwyniad Cadeirydd y Bwrdd i Lywodraethu	134
Fframwaith Llywodraethu	136
Cipolwg ar Lywodraethu	138
Bwrdd y Cyfarwyddwyr	140
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	144
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	195
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	197

CYFLWYNIAD CADEIRYDD Y BWRDD I LYWODRAETHU



“MAE EIN DIWYLLIANT YN
CANOLBWYNTIO AR SICRHAU
GWERTH A'R CANLYNIADAU
GORAU I'N CWSMERIAID A'R
AMGYLCHEDD.”

Ffocws y Bwrdd yn y 12 mis diwethaf

Perfformiad gweithredol

Oherwydd maint yr heriau gweithredol y mae'r Cwmni wedi'u hwynebu dros y 12 mis diwethaf, rhoddodd y Bwrdd gryn sylw i adolygu cynnydd y Cwmni yn erbyn ei fesurau gweithredol gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwyr Rheoli y tri maes busnes sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn barhaol. Ymhlith meysydd eraill, rhoddwyd ystyriaeth fanwl benodol i ymateb y Cwmni i sychder yr haf diwethaf a'r camau a gymerwyd ganddo i leihau'r effaith ar gwsmeriaid; sut y gwnaeth y Cwmni ddelio â'r tywydd rhewlyd a'r cyfnod o ddadmer yn ystod y gaeaf ac yna dalu iawndal i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt am y tarfu a achoswyd; perfformiad amgylcheddol y Cwmni a'r gwaith o ddatblygu ei Fanifesto ar gyfer Afonydd yng Nghymru a'i gyfraniad at Gynllun Gweithredu'r Uwchgynhadledd ar Ffossffadau a gynhaliwyd gan Brif Weinidog Cymru; a'r ymchwiliad i'r angen i ailddatgan adroddiadau blynyddoedd blaenorol ar ollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen ynghyd â'r cynllun a ddeilliodd o hynny i sicrhau ein bod ar y trywydd cywir o ran delio â gollyngiadau dŵr.

Adolygu adroddiadau ar ollyngiadau dŵr

Cafodd y Bwrdd ei frifio am y broblem bosibl o ran adrodd ar ollyngiadau dŵr ym mis Mai 2022 a chymerwyd camau ar unwaith er mwyn deall achos sylfaenol hyn yn well. Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y flwyddyn ddiwethaf, dechreuwyd ar adolygiad trydydd parti o'n dehongliad o ganllawiau Ofwat ar y dull adrodd ar gyfer dau Ymrwymiad Perfformiad, sef: Gollyngiadau Dŵr a Defnydd y Pen. Cynhaliwyd adolygiadau mewnol ochr yn ochr â'r adolygiad trydydd parti ac mae canlyniadau'r adolygiadau hyn wedi'u hystyried gan y Bwrdd yn uniongyrchol a thrwy waith ei Bwyllgorau yn ystod y flwyddyn. Mae casgliad yr adolygiadau wedi arwain at sefydlu Pwyllgor Goruchwylio Gollyngiadau Dŵr newydd, sef un o bwyllgorau gorchwyl a gorffen y Bwrdd a ffurfiwyd i'r pwrpas. Ceir rhagor o wybodaeth am ymateb y Cwmni i'r adolygiad hwn ar dudalen 56.

Meysydd ffocws allweddol yn y FA 24

- Adolygu strategaethau'r Cwmni ar gyfer Gollyngiadau Dŵr a Lleihau Defnydd y Pen yn arbennig, yn sgil y camddatganiadau o ran data yn ein hadroddiadau rheoleiddiol yn y ddau faes hyn yn ystod y FA 21 a'r FA 22.
- Ystyried y materion a nodwyd drwy waith parhaus i fonitro perfformiad gweithredol a phriodoldeb cynlluniau gweithredu sy'n deillio o hynny er mwyn gwella perfformiad lle nad yw'n cyflawni ein hamcanion nac yn bodloni ein gofynion rheoleiddiol ar hyn o bryd, yn arbennig ein Hasesiad o Berfformiad Amgylcheddol.
- Sicrhau bod y Cwmni yn parhau i ddarparu cymorth i'r unigolion hynny ymhlith ei gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau ac sydd â nodweddion bregusrwydd.
- Asesu'r galwadau a osodir ar ein pobl gan ein gweithredolau sy'n mynd rhagddynt ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos a sicrhau bod gennym yr adnoddau a'r dyluniad sefydliadol priodol.
- Parhau i baratoi ar gyfer PR24 a chael diweddariadau gan y Tîm Rheoleiddio, y Tîm Cynllunio a'r Tîm Gweithredol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran achosion buddsoddi dros gynllun busnes PR24 y Cwmni gan ddefnyddio cyfrifyddu amlgyfalaf i gefnogi hyn.
- Goruchwylio'r cynnydd o ran y dull cydweithio o ymdrin â PR24 yng Nghymru drwy Fforwm PR24 gyda Llywodraeth Cymru, Ofwat a rhanddeiliaid eraill er mwyn cytuno ar y cynlluniau cywir ar gyfer y dyfodol.
- Goruchwylio strategaeth Ansawdd Afonydd a rhaglen systemau gorlif storm cyfun (CSO) y Cwmni a flaenoriaethir ar sail lleihau niwed a chynllun i wella mwy na 500km o afonydd.
- Goruchwylio cynnydd Prosiect Cwm Taf i adeiladu gwaith trin dŵr newydd yn ardal Merthyr Tudful, a sicrhau bod y cynllun yn bodloni gofynion model cyflawni Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid Ofwat.



Cynllunio ar gyfer PR24

Cynhaliwyd diwrnod strategaeth y Bwrdd ym mis Tachwedd 2022, gan ei alluogi i dreulio amser yn trafod nifer o flaenoriaethau busnes strategol a hirdymor, gan gynnwys diweddariad ar ein Strategaeth Gyflawni Hirdymor, o fewn y fframwaith y mae Ofwat yn gofyn i bob cwmni dŵr ei ddefnyddio fel rhan o'u cyflwyniad ar gyfer PR24. Bydd y Strategaeth Gyflawni Hirdymor yn nodi ein llwybr craidd at gynlluniau buddsoddi mewn gwelliannau yn y dyfodol er mwyn cyflawni strategaeth 2050.

Canolbwyntiodd y Diwrnod Strategaeth yn benodol ar ein paratoadau ar gyfer yr adolygiad pum mlynedd nesaf o brisiau, sef PR24, a deall yr heriau o'r cyfleoedd i Dŵr Cymru. Roedd hyn yn cynnwys a ellid cyllido ein Cynllun ac a oedd yn dderbyniol ac yn fforddiadwy. Hefyd, rhoddodd Peter Davies, Cadeirydd y Grŵp Herio Annibynnol, ganlyniadau'r broses deall cwsmeriaid o dan PR24 i'r Bwrdd, yn dilyn gweithgarwch ymgysylltu â'n cwsmeriaid hyd at y dyddiad hwnnw. Mae gweithgarwch ymgysylltu o'r fath yn broses allweddol drwy gydol ein paratoadau ar gyfer PR24.

Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol gweithio mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid allweddol, sy'n chwarae rôl hollbwysig yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. Rhoddir enghreifftiau o'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'n rhanddeiliaid ynghyd â manylion ein gweithgarwch ymgysylltu yn Natganiad A172 y Bwrdd ar dudalen 70.

Newidiadau llywodraethu

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi nodi'r gwelliannau canlynol i brosesau a, lle y bo'n briodol, wedi cymeradwyo eu rhoi ar waith

- Polisi Buddsoddi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu – yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, a gymeradwyodd y polisi a gyflwynwyd gan y tîm Trysorlys, a'r Pwyllgor Archwilio, a gymeradwyodd gynnwys y polisi yn nogfen polisiâu a gweithdrefnau'r Trysorlys, cymeradwyodd y Bwrdd bolisi Buddsoddi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu newydd.
- Sefydlu Pwyllgor Risg a Rheoli Cyllid ar lefel weithredol, sy'n atebol i'r Prif Swyddog Ariannol, er mwyn goruchwyllo camau archwilio a gwelliannau i brosesau rheoli yn y swyddogaeth Cyllid. Caiff y cynnydd a wnaed gan y Pwyllgor hwn ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio.

Ein pobl

Fel Bwrdd, rydym o'r farn ei bod yn bwysig ymgysylltu'n uniongyrchol â'n cydweithwyr yn Dŵr Cymru. Mae'n cynnig cyfle i feithrin dealltwriaeth o'r heriau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd, o safbwynt gweithredol a safbwynt staff swyddfa ac mae'n un o'r ffyrdd rydym yn monitro diwylliant ac ymddygiadau. Mae'r adborth o weithgarwch ymgysylltu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio'n bennaf ar weithio hybrid, sydd wedi'i groesawu i raddau helaeth ond sy'n dal i fod yn her i roi. Mae timau yn cyfarfod â'i gilydd wyneb yn wyneb yn amlach ac yn ystyried bod hyn yn werthfawr iawn. Mae cyfathrebu a chydweithio hefyd wedi bod yn ffocws allweddol. Mae hyn wedi cynnwys y trafodaethau ag undebau llafur ynghylch yr effaith ar gostau byw a'r taliad

untro a wnaed i gydweithwyr er mwyn lliniaru'r effaith hon. Yn ystod trafodaethau ymgysylltu, mae llawer o gydweithwyr wedi nodi eu bod yn teimlo bod y Cwmni yn eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn ystod y cyfnod hwn.

Fel Cyfarwyddwyr Anweithredol rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymweld â safleoedd gweithredol sy'n ein galluogi i gyfarfod wyneb yn wyneb â chydweithwyr (gweler tudalen 148 am fanylion yr ymweliadau safle hyn yn ystod y flwyddyn). Mae'n rhoi cyfle i ni drafod rhai o'r materion yn uniongyrchol a'u deall. Mae hefyd yn ein galluogi i weld y gwaith gwych sy'n cael ei wneud ym mhob rhan o'r busnes gan ein cydweithwyr.

Rydym yn falch o weld y cynnydd sydd wedi'i wneud ym maes amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gweler tudalen 128 am ragor o fanylion.

Ein haelodau

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cwmni ym mis Gorffennaf bob blwyddyn ac mae'n croesawu nifer mawr o'n Haelodau. Rydym yn gwerthfawrogi'r rôl amhrisiadwy y mae ein Haelodau yn ei chyflawni mewn perthynas â'n model llywodraethu nid er cyfranddallwyr. Rydym yn ffodus, drwy ein proses recriwtio Aelodau flynyddol, y gallwn ddenu unigolion o amrywiaeth eang o gefndiroedd sy'n rhannu diddordeb nid yn unig yn ein Diben (sef yr hyn rydym yn ei wneud ac i bwy), ond hefyd yn ei diwylliant (sef sut rydym yn ei wneud) sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwerth a'r canlyniadau gorau i'n cwsmeriaid a'r amgylchedd. Ceir rhagor o fanylion am ein gweithgarwch ymgysylltu ag Aelodau Glas Cymru ar dudalen 149.

Gwerthuso'r Bwrdd ac olyniaeth

Rhoddir manylion y gwerthusiad wedi'i hwyluso'n allanol o berfformiad y Bwrdd, a arweiniwyd gan werthuswr byrddau annibynnol, sef Halex Consulting Limited, ar dudalen 152 yn yr adroddiad hwn. Mae'n bleser gennyf gadarnhau bod allbwn y gwerthusiad hwnnw wedi dod i'r casgliad bod y Bwrdd yn effeithiol iawn ond bod yr adolygiad hefyd wedi nodi cyfleoedd pwysig i wella ein heffeithiolrwydd ymhellach.

Rydym wedi croesawu Lila Thompson a Barbara Moorhouse, fel Cyfarwyddwyr Anweithredol, i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Bydd Graham Edwards, yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, sef Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd gynt, yn ymddeol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Gorffennaf ar ôl gweithredu fel Cyfarwyddwr am 9 mlynedd. Bydd Barbara yn olynu Graham fel Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a bydd Joanne Kenrick yn ymgymryd â rôl yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol, pob un ohonynt yn weithredol o ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Gorffennaf 2023.

Ar y cyfan, rwy'n hyderus gyda phrosesau gwneud penderfyniadau a chydymffurfiaeth y Bwrdd a bod y Cwmni wedi cydymffurfio ag egwyddorion allweddol llywodraethu da yn ystod y flwyddyn.

Alastair Lyons

Cadeirydd y Bwrdd, 16 Mehefin 2023

FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Ein Haelodau

Unigolion a ddewisir yn annibynnol o bob rhan o'n hardal gyflenwi (heb fuddran ariannol yn y busnes) sy'n dwyn y Bwrdd i gyfrif am warchod ein hasedau ac am ddarparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol.

Y Bwrdd

Mae'n gyfrifol am y ffordd y cynhelir busnes y Grŵp yn gyffredinol, gan gynnwys ein llwyddiant hirdymor; pennu ein diben, ein gwerthoedd, ein safonau a'n hamcanion strategol; adolygu ein perfformiad; goruchwyllo ein fframwaith llywodraethu; a sicrhau y cynhelir deialog gadarnhaol â'n rhanddeiliaid.

Y Pwyllgor Archwilio

Mae'n adolygu uniondeb, digonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol a rheoli risg y Grŵp, ynghyd â gweithgareddau cysylltiedig.

Y Pwyllgor Enwebiadau

Mae'n adolygu cyfansoddiad y Bwrdd ac yn sicrhau amrywiaeth a chdybwysedd sgiliau'r Bwrdd. Mae'n adolygu cynlluniau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer olyniaeth er mwyn sicrhau parhad sgiliau. Mae'n gyfrifol am y broses o recriwtio cyfarwyddwyr newydd a'u cynnig i'w penodi gan y Bwrdd.

Y Pwyllgor Technoleg

Mae'n adolygu'r broses o ddatblygu a gweithredu strategaeth ddigidol y Grŵp. Mae'n goruchwyllo effeithiolrwydd darpariaeth technoleg gwybodaeth (TG), technoleg weithredol (TW) a diogelwch gwybodaeth y Grŵp er mwyn helpu i gyflawni amcanion busnes tymor canolig y Grŵp.

Y Pwyllgor Cyllid

Mae'n gwneud penderfyniadau ar faterion ariannol rhwng cyfarfodydd y Bwrdd yn ôl y gofyn.

Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

Mae'n adolygu ac yn monitro risgiau i'r busnes sy'n gysylltiedig â materion gweithredol ac iechyd a diogelwch.

Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae'n pennu, yn adolygu ac yn argymhell y polisi ar gydnabyddiaeth Cadeirydd y Bwrdd, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r uwch-dîm rheoli. Mae'n goruchwyllo polisiau ac arferion cydnabyddiaeth i'r gweithlu cyfan, gan roi sylw i'r rhain wrth benderfynu ar gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI)

Mae'n datblygu ac yn goruchwyllo Strategaeth ACLI y Grŵp. Mae'n monitro perfformiad yn erbyn targedau ACLI y Cwmni. Mae'n ystyried sut yr adroddir ar holl elfennau'r Strategaeth ACLI, yn arbennig pa fesurau a fabwysiedir gan y Cwmni. Mae'n sicrhau bod y Cwmni yn cynnal polisiau priodol er mwyn cefnogi ei Strategaeth ACLI yn effeithiol, yn arbennig ei heffaith amgylcheddol.

Pwyllgor Prosiect Cwm Taf

Mae'n Goruchwyllo cynnydd Prosiect Cwm Taf ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd mewn perthynas â'r cymeradwyaethau angenrheidiol a'r sicrwydd gan y Bwrdd sy'n ofynnol o dan fodel cyflawni Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid Ofwat.

Y Pwyllgor Goruchwyllo Gollyngiadau Dŵr

Fe'i sefydlwyd yn ystod y flwyddyn er mwyn goruchwyllo camddatganiadau o ran gollyngiadau dŵr a defnydd y pen yn ystod y FA 21 a'r FA 22.

Y Pwyllgor Gweithredol

Mae'n cynnwys arweinwyr y prif unedau busnes a meysydd swyddogaethol, a chaiff ei benodi gan y Prif Swyddog Gweithredol i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys datblygu a gweithredu strategaethau, cynlluniau gweithredol, polisiau, gweithdrefnau a chyllidebau; monitro perfformiad gweithredol ac ariannol; asesu a rheoli risg; a blaenoriaethu a neilltuo adnoddau.

Fforymau allweddol ar lefel weithredol sy'n cefnogi'r Pwyllgor Gweithredol

Grŵp Llywio Diogelwch Gwybodaeth

Mae'n sicrhau y caiff gwybodaeth y Grŵp ei diogelu a risgiau eu lliniaru. Cefnogir y Grŵp Llywio Diogelwch Gwybodaeth gan Grŵp Llywio Data a Dadansoddeg.

Grŵp Buddsoddi Asedau

Mae'n sicrhau y caiff rhaglen gyfalaf y Grŵp ei chyflawni'n effeithiol.

Y Pwyllgor Cymeradwyo Polisi

Mae'n cefnogi'r gwaith o adolygu, cymeradwyo a chyfleu polisiau'r Grŵp.

Bwrdd Welsh Water Holdings

Mae'n goruchwyllo endidau masnachol y Grŵp sydd y tu allan i'r busnes rheoleiddiedig.

Grŵp (Grwpiau) Llywio Rheoleiddio

Mae'r Tim Brysbennu yn cyfarfod bob pythefnos i drafod datblygiadau yn y diwydiant a chytuno ar flaengynlluniau er mwyn mynd i'r afael â gofynion rheoleiddiol. Hefyd, mae gennym grŵp llywio penodol ar gyfer Taliadau ac un sy'n canolbwyntio ar PR24.

Grwpiau perfformiad a phrosiect eraill

Yn canolbwyntio ar wasanaeth cwsmeriaid, newid busnes, effeithlonrwydd a chyflawni, caffael cynaliadwy a ffyrdd mwy deallus o weithio.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn cynnal ein busnes mewn modd agored a thryloyw. Mae ein fframwaith llywodraethu yn parhau'n hyblyg, sy'n gwneud ein prosesau gwneud penderfyniadau a'n trefniadau goruchwyllo yn gyflym, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r Bwrdd yn monitro perfformiad ein gweithrediadau, ein strwythur llywodraethu mewnol a'r gwaith o reoli risg a rheolaethau cysylltiedig, a hefyd yn goruchwyllo'r ffordd y mae'r Tîm Gweithredol a'i bwyllgorau rheoli yn gweithredu'r busnes. Mae'r Tîm Gweithredol yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth y mae'r Bwrdd yn cytuno arni er mwyn cyflawni amcanion tymor canolig a hirdymor y Cwmni, a chyflawni'r targedau perfformiad gweithredol gofynnol yn unol â fframwaith rheoli risg sefydledig, polisiau cydymffurfiaeth, systemau rheolaeth fewnol a gofynion adrodd.

Mae'r Tîm Gweithredol, a benodir gan y Prif Swyddog Gweithredol, yn cynnwys 18 o unigolion sy'n cynrychioli holl swyddogaethau allweddol y busnes ac mae'n cael ei gefnogi'n agos gan ein swyddogaethau rheoli risg ac archwilio mewnol.

Cefnogir y Tîm Gweithredol gan strwythur rheoli a fframwaith llywodraethu penodol, sy'n cynnwys is-bwyllgorau a grwpiau llywio ar gyfer prosiectau penodol, sy'n gweithredu o fewn cylch gorchwyl diffiniedig ac yn unol â pholisiau ein Grŵp. Caiff pob penderfyniad a wneir gan unigolion neu gan

bwyllgor sy'n cynnwys gwariant ariannol neu risg gysylltiedig ei lywodraethu gan drefniadau Dirprwy Awdurdod sefydledig y Grŵp.

Mae'r rhain wedi'u strwythuro i sicrhau y gall penderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd gael eu gwneud yn effeithlon a hefyd sicrhau bod ymrwymadau risg uwch neu werth mawr yn mynd drwy'r sianeli priodol i'w cymeradwyo.

Drwy gynnal y strwythur rheoli hwn, caiff gweithrediadau Dŵr Cymru eu rhedeg yn effeithiol a chaiff penderfyniadau eu gwneud yn unol â'n hymrwymiad i'n gwerthoedd i wneud y peth cywir bob amser. Mae'r strwythur hwn hefyd yn sicrhau bod pob penderfyniad a wneir yn cael ei lywio'n ddigonol gan ddyletswyddau Cyfarwyddwyr o dan Adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac yn eu cefnogi, mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r canlynol:

- yr angen i feithrin cydberthnasau busnes y Cwmni â chyflenwyr, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill;
- effaith gweithrediadau'r Cwmni ar y gymuned a'r amgylchedd, a dymunoldeb sicrhau bod y Cwmni yn cynnal ei enw da am safonau busnes uchel.

Ceir manylion am y ffordd rydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol ac enghreifftiau o'r ffordd y mae'r Bwrdd wedi ystyried eu buddiannau yn ystod y flwyddyn yn y Datganiad Adran 172 ar dudalennau 68 a 73.




Cwm Elan, Canolbarth Cymru

CIPOLWG AR LYWODRAETHU


Ystadegau cyfansoddiad y Bwrdd

Amrywiaeth o ran y rhywiau



Benywaidd
Gwrywaidd


Annibyniaeth



Anweithredol (heb gynnwys y Cadeirydd)
Cyfarwyddwyr Gweithredol

Cyfnod Cyfarwyddwyr Anweithredol ar y Bwrdd

A ddangosir i'r flwyddyn lawn agosaf hyd at 31 Mawrth 2023



A Lyons
J Kenrick
G Edwards
T Crick
D Bowen Rees
J Hanson
L Thompson
B Moorhouse

Gweler y nodyn ar dudalen 151 ar annibyniaeth y Cyfarwyddwyr.

Presenoldeb mewn cyfarfodydd

Cynhaliwyd naw cyfarfod o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Dengys y tabl isod union nifer y cyfarfodydd a fynychwyd ac uchafswm nifer cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau y gallai'r Cyfarwyddwyr fod wedi'u mynychu. Mae aelodau'r Bwrdd yn gwneud pob ymdrech i fynychu pob cyfarfod.

Cyfarwyddwr	Bwrdd	Ansawdd a Diogelwch	Archwilio	Cydnabyddiaeth	Enwebiadau	Cyllid	Technoleg	ACLI	Prosiect Cwm Taf	Goruchwylio Gollyngiadau Dŵr ⁶
Peter Perry	9/9	8/8	5/6	3/6	3/3	1/1	4/4	5/5	4/4	2/2
Mike Davis	9/9	-	6/6	-	-	1/1	-	4/5	4/4	2/2
Alastair Lyons	9/9	7/8	-	6/6	3/3	1/1	4/4	5/5	4/4	2/2
Graham Edwards ¹	7/9	6/8	-	-	3/3	-	-	-	4/4	-
Deb Bowen-Rees	9/9	8/8	6/6	6/6	-	-	-	4/5	-	-
Tom Crick ²	9/9	6/7	-	5/6	-	-	4/4	-	-	-
Jane Hanson ^{2,3}	9/9	4/5	6/6	-	-	1/1	2/4	3/5	3/4	2/2
Joanne Kenrick	9/9	-	6/6	6/6	3/3	-	3/4	-	-	-
Barbara Moorhouse ⁴	1/2	1/2	-	-	-	-	-	-	-	-
Lila Thompson ⁵	6/6	5/5	-	-	-	-	-	1/1	-	-

1 Bydd yn ymdeol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ym mis Gorffennaf 2023

2 Rhoesant y gorau i fod yn aelod o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Tachwedd 2022 a mis Chwefror 2023, yn y drefn honno

3 Mae'n mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Technoleg pan gaiff ei wahodd gan Gadeirydd y Pwyllgor

4 Penodwyd ar 16 Ionawr 2023

5 Penodwyd ar 6 Medi 2022

6 Un o Bwyllgorau gorchwyl a gorffen y Bwrdd a ffurfiwyd i'r pwrpas, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2023 er mwyn goruchwylio'r adolygiad o ollyngiadau dŵr a defnydd y pen

Yr uchafbwyntiau o ran gweithgareddau'r Bwrdd

Cyfansoddiad y Bwrdd ac olyniaeth

Cynnydd a wnaed

Adolygodd y Bwrdd faint ac aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgorau ym mis Tachwedd 2022 ac ystyriodd benodi Lila Thompson a Barbara Moorhouse.

Camau a gymerwyd

Gweler tudalen 155 (Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau) am newidiadau a wnaed i aelodaeth pwyllgorau a phenderfyniadau i recriwtio dau Gyfarwyddwr Anweithredol newydd.

Aildendro am wasanaethau archwilio allanol

Cynnydd a wnaed

Cwblhaodd y Pwyllgor Archwilio y broses aildendro am wasanaethau archwilio allanol a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2021.

Camau a gymerwyd

Gweler tudalen 159 am fanylion gweithgareddau'r Pwyllgor.

Amrywiaeth y Bwrdd

Cynnydd a wnaed

Mae'r Bwrdd yn falch o fod wedi croesawu Lila Thompson a Barbara Moorhouse fel Cyfarwyddwyr Anweithredol ar y Bwrdd, y naill ym mis Medi 2022 a'r llall yn mis Ionawr 2023, pob un yn dod ag amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad, gan gynnwys o'r tu mewn i'r sector dŵr, i'r Bwrdd. Mae'r penodiadau hyn hefyd yn dangos ymrwymiad y Bwrdd i gyflawni'r targedau a bennwyd ganddo yn ei Bolisi Amrywiaeth a oedd yn cynnwys o leiaf 33% o gynrychiolwyr benywaidd ar y Bwrdd, y mae wedi'i gynnal, a tharged i benodi un Aelod o'r Bwrdd o gefndir ethnig lleiafrifol erbyn diwedd 2025.

Camau a gymerwyd

Nadir gweithgareddau'r Pwyllgor Enwebiadau ar dudalen 155.

Ateb yr Her Amgylcheddol

Cynnydd a wnaed

Mae'r Bwrdd wedi ystyried yn fanwl y metrigau sy'n disgrifio effaith gweithgareddau'r Cwmni ar yr amgylchedd, yn arbennig ar ansawdd dŵr afonydd yn ein hardal weithredu ac wedi adolygu, gyda rheolwyr, y cynlluniau a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn er mwyn lleihau'r niwed ecolegol a achosir ganddynt. Rhannwyd allweddol o hyn yw'r gwaith y mae'r Cwmni wedi'i wneud i ddatblygu ei Gynllun Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff cyntaf a phennu graddfa'r cynllun buddsoddi amgylcheddol sy'n gyflawnodwy, yn gyllidadwy ac yn fforddiadwy i gwsmeriaid yn y cynllun rheoli asedau nesaf a chynlluniau rheoli asedau dilynol.

Camau a gymerwyd

Cyhoeddodd y Cwmni ei Faniffesto ar gyfer Afonydd yng Nghymru ar 18 Mai 2023 yn ogystal â'r buddsoddiad amgylcheddol mwyaf erioed dros ddwy flwyddyn olaf AMP7 a rhwng 2025 a 2030 (AMP 8). Ymatebodd hyn yn uniongyrchol i bryderon cyhoeddus ynghylch llygredd carthion a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn Uwchgynhadledd Ffosffadau Prif Weinidog Cymru ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r Cwmni wedi amlinellu ei gynllun buddsoddi i Fforwm PR24 a arweinir gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI)

Cynnydd a wnaed

Bu'r Pwyllgor yn monitro perfformiad yn erbyn targedau ACLI y Grŵp ac yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu ein gofynion adrodd sy'n ymwneud â'r amgylchedd.

Camau a gymerwyd

Ceir adroddiad llawn ar weithgareddau'r Pwyllgor ar dudalen 171.

Pwyllgor Prosiect Cwm Taf

Camau a gymerwyd

Cyfarfu'r Pwyllgor er mwyn goruchwyllo cynnydd o ran y gwaith o ddatblygu Gwaith Trin Dŵr newydd Cwm Taf ym Merthyr Tudful sy'n cael ei wneud o dan fodel cyflawni Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid Ofwat ar gyfer gwasanaethau sy'n tendro'n gystadleuol, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian i gwsmeriaid. Mae'r Pwyllgor yn sicrhau y gall y Bwrdd roi sicrwydd digonol i Ofwat bod y broses Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid wedi'i dilyn ar wahanol gamau o'r prosiect.

Paratoi ar gyfer PR24

Cynnydd a wnaed

Mae'r Bwrdd, yn gynyddol, wedi ystyried pob un o elfennau cynllun PR24 sydd i'w gyflwyno i Ofwat ac wedi rhoi mewnbwn iddynt, gan dderbyn papurau ar y cynllun buddsoddi, y cynllun ariannol, y cynllun busnes, y strategaeth gyflawni hirdymor, gwariant sylfaenol ac effeithlonrwydd cymharol, ymrwymadau perfformiad a gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a chwsmeriaid.

Camau a gymerwyd

Ar ôl trafod pob elfen berthnasol o gynllun PR24 â rheolwyr, mae gan y Bwrdd ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r heriau y mae'r Cwmni yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod 2025-30 a'r cynllun sy'n cael ei baratoi gan reolwyr er mwyn cyflawni amcanion y Cwmni a bodloni ei ofynion rheoleiddiol. Mae mewnbwn y Bwrdd wedi'i adlewyrchu mewn fersiynau dilynol o elfennau'r cynllun.

Ailddatgan Gollyngiadau Dŵr

Cynnydd a wnaed

Drwy bwyllgor gorchwyl a gorffen a ffurfiwyd i'r pwrpas, bu'r Bwrdd yn goruchwyllo'n fanwl yr ymchwiliad i'r achos o gofnodi data gollyngiadau dŵr y Cwmni ar gyfer y FA 21 a'r FA 22 yn anghywir a'r angen cysylltiedig i ailddatgan y ffigurau ar gyfer y defnydd o ddŵr y pen. Cyfeiriwyd at hyn am y tro cyntaf gan y Cwmni ym mis Mai 2022 ac fe'i dilynwyd gan adolygiad 15 mis a gynhaliwyd gan bartion trydydd parti.

Camau a gymerwyd

Rhoddydwyd gwybod i Ofwat fod angen ailddatgan ffigurau a gofnodwyd yn y gorffennol a phenderfynodd y Bwrdd roi ad-daliad o £10 i bob cwsmer er mwyn ymddiheuro am beidio â chynabod yr holl ollyngiadau dŵr roedd y Cwmni yn eu hwynebu. Mae cynllun gweithredu, a gefnogir gan fuddsoddiad ychwanegol gwerth £54 miliwn dros weddill cyfnod y Cynllun Rheoli Asedau (AMP) hwn, wedi'i roi ar waith.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR



Alastair Lyons CBE
Cadeirydd y Bwrdd

C E F L N Q R T

Penodwyd: Mai 2016

Cyfrifoldebau

Penodwyd Alastair yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Mai 2016 ac ystyriwyd ei fod yn annibynnol ar adeg ei benodi'n Gadeirydd y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2016. Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Enwebiadau, Pwyllgor Prosiect Cwm Taf a'r Pwyllgor Goruchwyllo Gollyngiadau Dŵr.

Sgiliau a phrofiad

Mae gan Alastair, a hyfforddodd fel cyfrifydd siartredig, 20 mlynedd o brofiad fel Cadeirydd Anweithredol cwmnïau rhestredig a phreifat. Yn ystod gyrfa weithredol helaeth ym maes gwasanaethau ariannol, ef oedd Prif Swyddog Gweithredol y National Provident Institution a Chymdeithas Adeiladu'r National and Provincial, Rheolwr Gyfarwyddwr Is-adran Yswiriant Abbey National plc a Chyfarwyddwr Prosiectau Corfforaethol National Westminster Bank plc. Cafodd ei urddo'n CBE yn 2001 am ei wasanaethau dros nawdd cymdeithasol ar ôl gwasanaethu fel Cyfarwyddwr Anweithredol yn yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Drafnidiaeth.

Profiad blaenorol arall

Cadeirydd Grŵp Admiral, sef yr yswiriwr moduron uniongyrchol, rhwng 2000 a 2017 ac wedyn AECS, sef cwmni daliannol Admiral yn Ewrop, tan 2021. Cadeirydd Torgate Insurance, Cadeirydd Serco, sef y grŵp gwasanaethau rhyngwladol, Is-gadeirydd Bovis Homes ac Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yng nghwmni Phoenix, sef y cyfunwr yswiriant bywyd.

Penodiadau allanol

Cadeirydd Harworth Group plc a Vitality UK.



Graham Edwards OBE
Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol

C N Q

Penodwyd: Hydref 2013

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 151. Penodwyd Graham yn Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Gorffennaf 2020. Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Sgiliau a phrofiad

Graham yw Prif Swyddog Gweithredol Wales & West Utilities. Mae ganddo brofiad sylweddol fel uwch-reolwr yn y sector cyfleustodau, yn rhedeg busnesau dosbarthu trydan a dŵr gyda South Wales Electricity, Hyder a Thames Water. Cyn gweithio yn y sector cyfleustodau, bu'n dal uwch-swyddi mewn ystod o swyddogaethau ar draws amrywiaeth eang o fusnesau gweithgynhyrchu gan gynnwys peirianeg, cynhyrchu ac adnoddau dynol. Mae gan Graham MBA o Ysgol Fusnes Caerdydd ac mae'n Gymrawd y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu.

Profiad blaenorol arall

Cadeirydd CBI Cymru a Busnes yn y Gymuned Cymru. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Un o Lywodraethwyr Prifysgol De Cymru.

Penodiadau allanol presennol

Aelod o Fwrdd Cymdeithas y Rhwydweithiau Ynni. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Bydd Graham yn ymddeol o'r Bwrdd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Gorffennaf 2023. Bydd Joanne Kenrick yn olynu Graham fel yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol a bydd Barbara Moorhouse yn ymgymryd â rôl Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.



Peter Perry
Prif Swyddog Gweithredol

C E F L N Q T

Penodwyd: Awst 2006

Cyfrifoldebau

Penodwyd Peter yn Brif Swyddog Gweithredol ym mis Ebrill 2020. Ei rôl yw rheoli busnes y Grŵp yn effeithiol, o fewn y strategaethau a bennir gan y Bwrdd.

Sgiliau a phrofiad

Peter oedd Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru o fis Hydref 2017 ar ôl pedair blynedd fel Prif Swyddog Gweithredu. Mae gan Peter, a benodwyd yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau Dŵr Cymru ym mis Gorffennaf 2006, gefndir ym maes peirianeg sifil. Cyn hynny, ef oedd Prif Swyddog Gweithredu United Utilities Operational Services (UUOS), ar ôl bod yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau UUOS lle y bu'n gyfrifol am y contract gweithredol â Dŵr Cymru a buddiannau dŵr UUOS yn yr Alban ac Iwerddon. Cyn hynny gweithiodd i Dŵr Cymru am dros 20 mlynedd.

Profiad blaenorol arall

Un o Gyfarwyddwyr (yn cynrychioli Cymru) y Cynllun Cynghori Rheoliadau Dŵr, sef y corff cenedlaethol sy'n nodi safonau ar gyfer deunyddiau a chreffftwaith a ddefnyddir ym maes cyflenwi dŵr yfed.

Penodiadau allanol

Llywydd y Sefydliad Dŵr. Cadeirydd Bwrdd Arweinyddiaeth Cymru ac Aelod o Fwrdd Arweinyddiaeth Gymunedol Busnes yn y Gymuned Cymru. Aelod o Fwrdd Dŵr y DU a chynghorydd ar Fforwm Cydnherthedd y DU.

ALLWEDD

- A Y Pwyllgor Archwilio
- C Pwyllgor Prosiect Cwm Taf
- E Y Pwyllgor ACLI
- F Y Pwyllgor Cyllid
- L Y Pwyllgor Goruchwyllo Gollyngiadau Dŵr

- N Y Pwyllgor Enwebiadau
- Q Y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd
- R Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
- T Y Pwyllgor Technoleg
- Cadeirydd y Pwyllgor



Mike Davis
Prif Swyddog Cyllid

C E F L

Penodwyd: Ionawr 2020

Cyfrifoldebau

Yn bennaf cyfrifol am weithrediadau ariannol y Grŵp.

Sgiliau a phrofiad

Graddiodd Mike fel Peiriannydd Cemegol ac mae'n Gyfrifydd Siartredig yn ôl galwedigaeth. Mae wedi cael profiad ym maes y cyfryngau, TGCh a mwyngloddio, gan gynnwys Cyfarwyddwr Cyllid ar ddau fusnes ecwiti preifat newydd. Mae wedi dal swyddi Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio a Rheolwr Ariannol yn Dŵr Cymru, gyda ffocws ar adolygiadau rheoleiddiol o brisiau a chystadleuaeth.

Profiad blaenorol arall

Yn ystod 2010–2014, bu Mike yn Gyfarwyddwr Anweithredol yn RCT Homes, sef landlord cymdeithasol cofrestredig, gan gadeirio ei Bwyllgor Rheoli Asedau a'i Bwyllgor Trysorlys. Bu hefyd yn un o Gyfarwyddwyr Ymchwil Diwydiant Dŵr y DU.

Penodiadau allanol

Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Wales & West Utilities.



Debra Bowen Rees
Cyfarwyddwr Anweithredol

C ● E Q R

Penodwyd: Ionawr 2020

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 151.

Debra yw Cadeirydd y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Mae hefyd yn Aelod o'r Panel Dethol Aelodau Annibynnol, yn cynrychioli'r Bwrdd. Mae'r Panel yn argymhell Aelodau i'w penodi i'r Bwrdd.

Sgiliau a phrofiad

Mae gan Debra lower o brofiad ym maes arwain a rheoli, gan gynnwys rheoli seilwaith rheoleiddiedig sy'n hanfodol i ddiogelwch. Ar ôl gyrfa lwyddiannus a nifer o uwch-swyddi yn yr Awyrlu Brenhinol, ymunodd Debra â Maes Awyr Caerdydd yn 2012 fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau, cyn cael ei phenodi'n Rheolwr Gyfarwyddwr yn 2014. Daeth yn Brif Weithredwr y maes awyr sydd o dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru yn 2017 a bu'n gyfrifol am arwain y maes awyr drwy gyfnod o drawsnewid. Ym mis Awst 2020, rhoddodd Debra y gorau i'w rôl yn Brif Weithredwr Maes Awyr Caerdydd, cyn gadael Bwrdd y Cyfarwyddwyr ym mis Medi 2020.

Profiad blaenorol arall

Cadeirydd Cangen De-orllewin Cymru o Sefydliad y Cyfarwyddwyr

Penodiadau allanol

Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Porthladd Aberdaugleddau ac Airport Coordination Ltd. Ymddiriedolwr ac Aelod o Fwrdd Cwmni Theatr Hijinx. Aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Grŵp Bluetits Chill Swimmers.



Yr Athro Tom Crick MBE
Cyfarwyddwr Anweithredol

R ●

Penodwyd: Hydref 2017

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 151.

Tom yw Cadeirydd y Pwyllgor Technoleg.

Sgiliau a phrofiad

Tom yw'r Athro Digidol a Pholisi a'r Dirprwy Is-ganghellor ym Mhrifysgol Abertawe, ac mae ei ddiddordebau academaidd yn canolbwyntio ar y rhyngwyneb rhwng ymchwil a pholisi - o wyddor data, seiberddiogelwch a rheoleiddio technoleg, i wasanaethau cyhoeddus digidol a seilwaith cenedlaethol. Mae wedi rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn nifer o feysydd polisi. Mae'n aelod o Bwyllgor Cyngori Cymru Ofcom a Choleg Arbenigwyr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) Llywodraeth y DU. Mae Tom yn Beiriannydd Siartredig ac yn Wyddonydd Siartredig, ac mae'n un o Gymrodorion Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Cafodd ei urddo'n MBE yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2017 am ei wasanaethau i gyfrifiadureg.

Profiad blaenorol arall

Un o Gomisiynwyr Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Is-lywydd BCS, Sefydliad Siartredig TG.

Penodiadau allanol

Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Sector Development Wales Partnership Ltd. (un o gyrff Llywodraeth Cymru a elwir yn Diwydiant Cymru). Aelod o Bwyllgor Cyngori Cymru Ofcom.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR PARHAD



Jane Hanson CBE
Cyfarwyddwr Anweithredol



Penodwyd: Ionawr 2021

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 151.

Mae Jane yn cadeirio'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyllid.

Sgiliau a phrofiad

Mae Jane yn Gyfrifydd Siartredig cymwysedig ac mae ganddi gryn brofiad o fframweithiau Rheoli Risgiau Busnes, Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol mewn sefydliadau a reoleiddir yn llym, ynghyd â rhai FTSE, Nid er Elw a sector preifat. Hefyd, mae ganddi brofiad helaeth o ddatblygu a monitro fframweithiau risg ymddygiad a chwsmeriaid, a goruchwyllo rhaglenni TG a thrawsnewid mawr a chymhleth. Mae Jane yn ynad hefyd.

Profiad blaenorol arall

Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Rothesay Life plc, Direct Line Group plc (Cadeirydd Pwyllgor Risg Bwrdd y Grŵp), William Hill plc, Old Mutual Wealth plc (Cadeirydd Pwyllgor Risg y Bwrdd) ac Aviva Ireland (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio) ac Aelod Annibynnol o Bwyllgor Tegwch Cwsmeriaid ReAssure Ltd. Trysorydd Anrhydeddus y Pwyllgor Argyfyngau.

Penodiadau allanol

Cadeirydd y Gronfa Adhawlio Gyfyngedig a'r Bwrdd Ehangu Asedau Segur. Aelod Anweithredol o Fwrdd yr Awdurdod Hedfan Sifil a Chadeirydd ei Bwyllgor Archwilio. Aelod o Fwrdd Trysorlys Ei Fawrhydi. Aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Cerddorfa Symffoni Bardi.



Joanne Kenrick
Cyfarwyddwr Anweithredol



Penodwyd: Tachwedd 2015

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 151.

Joanne yw Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Bydd yn olynu Graham Edwards fel yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Gorffennaf 2023.

Sgiliau a phrofiad

Joanne oedd Cyfarwyddwr Marchnata Homepage tan ddiwedd 2015. Cyn hynny, hi oedd Prif Swyddog Gweithredol Start, gan sefydlu a rhedeg menter gyhoeddus Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru ar gyfer sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy. Ymhlith ei rolau blaenorol mae Cyfarwyddwr Marchnata ac Arlwy Cwsmeriaid B&Q, Cyfarwyddwr Marchnata'r Loteri Genedlaethol, a Chyfarwyddwr Gwerthiannau Grŵp a Marchnata Wilson Connolly. Bu'n gweithio hefyd i Woolworths, Asda, Pepsico a Masterfoods. Mae gan Joanne radd yn y Gyfraith o Brifysgol Nottingham a thra roedd yn y coleg hi oedd un o'r merched cyntaf erioed i gael ei hyfforddi i hedfan gan yr RAF.

Profiad blaenorol arall

Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Safestore Holdings plc, Cymdeithas Adeiladu'r Principality a BACS Payment Services Limited.

Penodiadau allanol

Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol, Is-gadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Cymdeithas Adeiladu Coventry. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol a Chadeirydd Sirius Real Estate. Cadeirydd Annibynnol gwasanaethau Current Account Switch, Cash ISA Switch, a PayM Mobile Payments ar gyfer Pay.UK. Cadeirydd ymddiriedolwyr yr elusen, Make Some Noise.



Lila Thompson
Cyfarwyddwr Anweithredol



Penodwyd: Medi 2022

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 151.

Sgiliau a phrofiad

Mae gan Lila fwy nag 20 mlynedd o brofiad o ysgogi twf busnes, datblygu polisi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn gwahanol sectorau diwydiannol, gan gynnwys gofal iechyd a'r amgylchedd. Ar hyn o bryd, mae'n arwain sefydliad aelodaeth cadwyni cyflenwi mwyaf y DU a Fforwm y Diwydiant Dŵr sy'n darparu arweiniad meddwl annibynnol a lywir gan heriau fel Prif Swyddog Gweithredol Dŵr Prydain. Cyn cael ei phenodi'n Brif Swyddog Gweithredol, roedd Lila yn gyfrifol am roi cyngor i gwmnïau cydwladol ar gyfleoedd rhyngwladol a Llywodraeth y DU ar bolisi masnach.

Profiad blaenorol arall

Un o Ymddiriedolwyr Hosbis St Christopher.

Penodiadau allanol

Un o Ymddiriedolwyr Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd (CIWEM). Aelod o Fwrdd Spring, sef canolfan ragoriaeth arloesedd y sector dŵr.

ALLWEDD

- A Y Pwyllgor Archwilio
- C Pwyllgor Prosiect Cwm Taf
- E Y Pwyllgor ACLI
- F Y Pwyllgor Cyllid
- L Y Pwyllgor Goruchwyllo Gollyngiadau Dŵr
- N Y Pwyllgor Enwebiadau
- Q Y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd
- R Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
- T Y Pwyllgor Technoleg
- Cadeirydd y Pwyllgor



Barbara Moorhouse
Cyfarwyddwr Anweithredol



Penodwyd: Ionawr 2023

Cyfrifoldebau

Gweler y crynodeb ar dudalen 151.

Bydd Barbara yn olynu Graham Edwards fel Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Gorffennaf 2023.

Sgiliau a phrofiad

Mae Barbara yn Gadeirydd, yn Gadeirydd Pwyllgor ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol profiadol ac mae wedi dal penodiadau mewn sawl sector busnes. Treuliodd y rhan fwyaf o'i gyrfa weithredol yn gweithio mewn rolau strategol, masnachol a chyllid mewn cwmnïau rhestredig, gan gynnwys Prif Swyddog Gweithredol dau gwmni meddalwedd rhestredig (sef Kewill Systems plc a Scala Business Solutions NV), Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp yng nghwmni Morgan Sindall plc a Chyfarwyddwr Rheoleiddiol yng nghwmni South West Water plc. Mae Barbara hefyd wedi gweithio yn y sector cyhoeddus fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Drafnidiaeth a Phrif Swyddog Gweithredu Cyngor Dinas Westminster.

Profiad blaenorol arall

Cadeirydd y Bwrdd Diogelwch a Safonau Rheilffyrdd. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yng nghwmni IDOX plc. Un o Ymddiriedolwyr a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn 'Elusen Guy's a St Thomas'. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Grŵp Comisiynu Clinigol Gorllewin Hampshire.

Penodiadau allanol

Cadeirydd Agility Trains Group, sef cwmni gwasanaethau tren preifat. Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yng nghwmni Aptitude Software Group plc. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Balfour Beatty plc. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio yng nghwmni Medica Group plc.



ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae trefniadau llywodraethau corfforaethol cadarn yn rhan hanfodol o'r penderfyniadau a wnawn i greu gwerth ar gyfer ein rhanddeiliaid a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol.

Mae ein prosesau llywodraethu yn mynd ar drywydd Diben y Cwmni (a nodir yn llawn ar dudalen 04 o'r adroddiad blynyddol hwn) ac maent yn seiliedig ar dryloywder a thegwch, a ategir gan werthoedd y Grŵp.

Mae Egwyddorion Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu Bwrdd Ofwat yn cynnwys llawer o egwyddorion a darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol rydym wedi ymrwymo i'w ddilyn. Felly, rydym yn cymhwyso Egwyddorion Ofwat ac egwyddorion a darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU a gallwn gadarnhau eu bod wedi'u cymhwyso felly yn ystod y flwyddyn ariannol.

Sut rydym yn cyflawni darpariaethau canllawiau Ofwat ar arweinyddiaeth, tryloywder a llywodraethu bwrdd

Darpariaethau canllawiau	Sut rydym wedi cydymffurfio â'r darpariaethau	Rhagor o wybodaeth
Diben, Gwerthoedd a Diwylliant	Mae Bwrdd y Penodai (y cyfeirir ato fel arall fel Dŵr Cymru Cyf, ein cwmni rheoleiddiedig neu'r Cwmni) wedi sefydlu Diben, strategaeth a gwerthoedd y Cwmni ac mae wedi'i fodloni bod y rhain a'i ddiwylliant yn adlewyrchu anghenion y rhai y mae'n eu gwasanaethu. Mae ein gweledigaeth a'n diwylliant yn sail i'n penderfyniadau a chânt eu monitro gan y Bwrdd (gweler y diffiniad o'r Bwrdd isod). Mae Datganiad Cyfeiriad a Pherfformiad y Cwmni yn nodi sut mae'r Cwmni wedi pennu ei ddyheadau ac wedi perfformio ar gyfer y rhai a wasanaethir ganddo.	Gweler tudalennau 04 i 07. Mae Datganiad Cyfeiriad a Pherfformiad y Cwmni wedi'i gynnwys yn ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol a fydd ar gael o ganol mis Gorffennaf 2023 ar ein gwefan https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/annual-performance-reports
Cwmni Rheoleiddiedig Annibynnol	Mae gan Dŵr Cymru Cyf Fwrdd effeithiol sydd â chyfrifoldeb llawn am bob agwedd ar fusnes y Penodai yn yr hirdymor. Mae gan ein cwmni daliannol, Glas Cymru Holdings Cyf, yr un Bwrdd Cyfarwyddwyr ("y Bwrdd") gan mai ein hunig ffocws yw darparu gwasanaethau hanfodol i'n cwsmeriaid ar y gost isaf posibl. Mae ein Hadroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'n fanwl rôl y Bwrdd a'r materion hynny sydd wedi'u dirprwyo i Bwyllgorau, y mae pob un ohonynt yn atebol i'r Bwrdd.	Gweler tudalennau 145 i 153. Er bod gennym Fwrdd unedig ar gyfer y Grŵp a Dŵr Cymru Cyf, rydym yn adolygu achosion posibl o wrthdaro ag aelodau'r Bwrdd yn rheolaidd ac yn ystyried unrhyw achosion o wrthdaro gan gyfeirio at yr agenda ar gyfer pob cyfarfod.
Arweinyddiaeth y Bwrdd a Thyloywder	Mae arweinyddiaeth y bwrdd a'r ffordd y mae'n ymdrin â thryloywder a llywodraethu yn ennyn ymddiriedaeth yn Dŵr Cymru Cyf. ac yn sicrhau atebolrwydd am ei weithredoedd. Yn ôl y gofyn, cyhoeddir gwybodaeth am y canlynol yn yr Adroddiad Blynyddol hwn: Strwythur ein Grŵp; polisi difidendau; prif risgiau ac ansicrwydd; manylion aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau; presenoldeb mewn cyfarfodydd; a pholisi tâl y Tîm Gweithredol.	Strwythur y Grŵp, gweler https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/company-structure Polisi Difidendau (tudalen 195). Prif Risgiau ac Ansicrwydd (tudalennau 90 i 99). Aelodau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau a phresenoldeb mewn cyfarfodydd (tudalen 138). Polisi tâl y Tîm Gweithredol (tudalennau 173 i 194).
Bwrdd Strwythur ac Effeithiolrwydd	Cynhelir adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau bob blwyddyn - bob yn drydedd flwyddyn, fel y digwyddodd yn y flwyddyn adrodd hon, fe'i cynhelir gan gorff gwerthuso allanol annibynnol. Yn seiliedig ar y gwerthusiad diweddaraf hwn, mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn gymwys, yn cael eu rhedeg yn dda ac yn cynnwys digon o aelodau annibynnol, gan sicrhau y gallant wneud penderfyniadau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion gwahanol gwsmeriaid a rhanddeiliaid. Parheir i adolygu cydbwysedd sgiliau, profiad ac annibyniaeth y Bwrdd a'i Bwyllgorau allweddol. Ceir mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol ar y Bwrdd a'i bwyllgorau.	Gweler tudalennau 152 i 153 am gasgliadau ein hadolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd a hwyluswyd yn allanol ar gyfer 2022- 23. Manylion bywgraffiadol aelodau ein Bwrdd, gan gynnwys sgiliau a phrofiad, ac aelodau ei Bwyllgorau (tudalennu 140 i 143). Gwybodaeth am annibyniaeth a gwrthrychedd ein Cyfarwyddwyr (tudalen 145).

Mae'r adrannau canlynol o'r adroddiad hwn yn nodi sut rydym wedi cydymffurfio â darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, y mae ei brif egwyddorion yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

Sut rydym yn cyflawni darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU

Adran o'r cod

Adrodd ar y ffordd y cymhwysir egwyddorion yn erbyn darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 (y Cod)

1 Arweinyddiaeth y Bwrdd a Diben y Cwmni

> Darllenwch fwy ar dudalennau 154 i 149

2 Rhannu cyfrifoldebau

> Darllenwch fwy ar dudalennau 149 i 151

3 Cyfansoddiad y Bwrdd, olyniaeth a gwerthuso

> Darllenwch fwy ar dudalennau 152 i 157

4 Archwilio, risg a rheolaeth fewnol

> Darllenwch fwy ar dudalennau 158 i 172

5 Cydnabyddiaeth

> Darllenwch fwy ar dudalennau 173 i 194

1 Arweinyddiaeth y Bwrdd a Diben y Cwmni

Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am hyrwyddo llwyddiant hirdymor cynaliadwy y Grŵp er budd ei randdeiliaid a dyma'r prif ffordd gwneud penderfyniadau ar gyfer y Grŵp. Mae'n benderfynol o ddarparu arweinyddiaeth ysbrydoledig, yn uniongyrchol a thrwy ei Bwyllgorau, a dirprwyo awdurdod, fel y bo'n briodol, i'r Tîm Gweithredol. Mae'r Bwrdd wedi pennu Diben y Grŵp sy'n gyson â'i werthoedd ac a ategir gan ei strategaeth, ac mae wedi'i fodloni bod diwylliant y Grŵp yn gyson â chyflawni'r Diben hwnnw.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am drefnu a chyfarwyddo materion y Grŵp mewn modd sy'n cyflawni ei amcanion tymor canolig a hirdymor cytûn. Drwy'r fframwaith llywodraethu effeithiol sydd ganddo, mae'r Bwrdd yn cyflawni ei strategaeth o ddarparu perfformiad ariannol a gweithredol cryf a chynaliadwy, sy'n arbennig o bwysig i'r Grŵp o ystyried natur hirdymor y buddsoddiad sydd ei angen yn ei wasanaethau craidd i gwsmeriaid. Mae'r Bwrdd hefyd yn atebol am sicrhau, wrth gyflawni ei ddyletswyddau, fod rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol y Grŵp yn cael eu cyflawni, a'i fod yn gweithredu o fewn paramedrau risg a bennwyd yn briodol.

Mae'r Bwrdd yn ystyriol o'i rôl fel gwarcheidwad busnes hirdymor, gyda rhwymedigaeth i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf yn cael yr asedau sydd eu hangen arni i gyflawni Diben y Cwmni.

Mae'r Bwrdd yn pennu strategaeth y Grŵp yn seiliedig ar gynigion a luniwyd gan y Tîm Gweithredol ac mae'n adolygu'r cynnydd a wnaed gan reolwyr y busnes o ran cyflawni'r amcanion strategol y cytunwyd arnynt. Amlinellir nodau hirdymor y Bwrdd i'r Cwmni, yng nghyd-destun heriau'r dyfodol a disgwyliadau cwsmeriaid sy'n newid, yn ein dogfen strategaeth gyhoeddus, Dŵr Cymru 2050, a gafodd ei diweddaru a chyhoeddwyd ein hadolygiad yn 2022. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Strategaeth ACLI yn cynnwys 10 amcan allweddol i gefnogi'r ffocws ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yng nghyd-destun Dŵr Cymru 2050. Ceir manylion pellach am fframwaith cynllunio'r Cwmni yn yr Adroddiad Strategol ar dudalennau 44 i 45.

Gwnaeth y Cwmni ymrwymiad hefyd yn 2021 i gyflawni'r targed o allyriadau carbon sero net erbyn 2040 a chynhyrchu 35% o'n hynni ein hunain erbyn 2025. Er mwyn gweld sut rydym yn cyflawni ein Strategaeth Carbon Sero Net, gweler Amcan ACLI 2 ar dudalen 120.

Ymgysylltu'r bwrdd â chyflogeion

Hyrwyddwyr ymgysylltu â chyflogeion a chynrychiolwyr timau o bob rhan o'r busnes

Yn ystod y FA 23, cynhaliwyd dwy Sesiwn Ymgysylltu â Chyflogeion gyda Chyfarwyddwyr Anweithredol er mwyn trafod amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys effaith tywydd garw ar dimau gweithredol; yr argyfwng costau byw; PR24; rôl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a thâl uwch-gydweithwyr. Hefyd, cynhaliodd y Tîm Gweithredol bedair sesiwn ymgysylltu gyda chydweithwyr lle y trafodwyd amrywiaeth o bynciau gan gynnwys gweithio hybrid, cyfathrebu a chydweithio, dyheadau gyrfa a datblygiad personol o'r trafodaethau ag undebau llafur ynghylch y dyfarniad costau byw i gydweithwyr. Gan gynnwys y cyfarfodydd anffurfiol a gynhelir â rheolwyr (gweler isod), mae'r Bwrdd o'r farn mai hwn yw'r dull ymgysylltu mwyaf effeithiol wrth ystyried y tri dull mwy ffurfiol a awgrymir gan y Cod ar gyfer ymgysylltu â'r gweithlu.

Cyfarfodydd anffurfiol â rheolwyr

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd un cyfarfod anffurfiol rhwng Cyfarwyddwyr Anweithredol a rheolwyr o bob rhan o'r busnes er mwyn trafod yr ymatebion i'r tywydd rhewllyd a'r cyfnod o ddadmer a'r llifogydd diweddar a ddiolch iddynt am eu hymdrechion. Gwnaeth y Cadeirydd a Chyfarwyddwyr Anweithredol hefyd ymgysylltu â chydweithwyr mewn cyfarfodydd 'dros ginio' er mwyn trafod ymweliadau safle.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

1 Arweinyddiaeth y Bwrdd a Diben y Cwmni – parhad

Pwnc	Gweithgareddau a thrafodaethau allweddol y FA 23	Cyflawniad allweddol	Blaenoriaethau allweddol y FA 24
Strategaeth a rheoli	Cynllunio ar gyfer PR24	Ymgynghori â rhanddeiliaid ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr drwy Fforwm PR24 Cymru er mwyn datblygu cynlluniau ar gyfer PR24	Datblygu ein Strategaeth Gyflawni Hirdymor ochr yn ochr â datblygu manylion Cynllun PR24 yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyflawnadwyedd, fforddiadwyedd a'r gallu i gyllido a mewnbwn gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori â chwsmeriaid i'r broses
	Dŵr Cymru 2050	Monitro ymatebion strategol i Dŵr Cymru 2050 er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r rhain mewn gwaith cynllunio ar gyfer PR24	Parhau i brofi aliniad ein cynlluniau ar gyfer PR24 a'r Strategaeth Gyflawni Hirdymor ddilynol yn erbyn amcanion Dŵr Cymru 2050 a darparu'r ymatebion strategol a nodir ynddi
	Adolygu Perfformiad Gweithredu yn erbyn targedau'r Cynllun Busnes a gofynion rheoleiddiol	Ystyriwyd y prif heriau gweithredol y mae'r Cwmni yn eu hwynebu a phriodoldeb a digonolrwydd ymatebion arfaethedig rheolwyr	Canolbwyntio ar y meysydd hynny lle nad yw perfformiad gweithredu yn cyflawni targedau rheoleiddiol nac amcanion y Cwmni, gan fesur effeithiolrwydd y cynlluniau gwella a ddatblygwyd gan reolwyr
	Adnoddau Dŵr	- Adolygwyd y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a'r cynllun i leihau gollyngiadau dŵr i lefelau a gynlluniwyd a chytunwyd arnynt, yn dilyn canlyniad proses sicrwydd y Cwmni ynglŷn â chofnodi gollyngiadau dŵr a nododd fod data gollyngiadau dŵr ar gyfer y FA 21 a'r FA 22 wedi'u cofnodi'n anghywir - Goruchwyliwyd ymateb y Cwmni i'r sychder yn yr haf er mwyn lleihau ei effaith ar gwsmeriaid mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr - Cytunwyd ar gwantwm a phroses iawndal i gwsmeiriaid y tarfwyd ar eu cyflenwad yn ystod y tywydd rhewllyd a'r cyfnod o ddadmer yn ystod y gaeaf	- Adolygu'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr diwygiedig a chytuno arno er mwyn adlewyrchu'r diwygiadau i lefelau gollyngiadau dŵr a defnydd y pen a gofnodwyd - Adolygu cynlluniau'r Cwmni i ymateb yn effeithiol i unrhyw gyfyngiadau ar y cyflenwad o ddŵr heb ei drin a achosir gan batrymau tywydd yr haf
	Perfformiad amgylcheddol	- Datblygwyd ein Maniffesto ar gyfer Afonydd yng Nghymru a'n cyfraniad at y Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno yn Uwchgynhadledd Ffosffadau Prif Weinidog Cymru - Adolygwyd y Cynllun Rheoli Systemau Draenio a Dŵr Gwastraff cyntaf a chytunwyd arno	- Goruchwylio'r ffordd y mae'r Cwmni yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn asedau dŵr gwastraff ar sail cyfrannu at leihau ein heffaith ar yr amgylchedd - Adolygu effeithiolrwydd rhaglen y Cwmni i wella ei Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol - Adolygu'r cynnydd a wnaed o ran rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn Uwchgynhadledd Ffosffadau Prif Weinidog Cymru ar waith ac effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol

Pwnc	Gweithgareddau a thrafodaethau allweddol y FA 23	Cyflawniad allweddol	Blaenoriaethau allweddol y FA 24
	Pwyllgor Prosiect Cwm Taf	Mae'r Pwyllgor wedi goruchwyllo'r gwaith o lywodraethu'r prosiect i adeiladu gwaith trin dŵr newydd ac wedi argymhell i'r Bwrdd y dylai roi'r sicrwydd sydd ei angen i Ofwat mewn perthynas â'r prosiect	Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro cynnydd y prosiect drwy'r camau caffael a chyllido allweddol a bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer cymeradwyaethau ac ar gyfer rhoi'r sicrwydd sydd ei angen i'r Bwrdd
Strategaeth a rheoli parhad	Taliadau ar gyfer 2022-23	- Cymeradwydd y Bwrdd strwythur o daliadau ar gyfer 2022-23 a oedd yn ceisio lleihau lefel y cynnydd mewn taliadau o ganlyniad i chwyddiant uchel. Hefyd, adolygodd y Bwrdd y cymorth ariannol a roddir i gwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliau. - Cymeradwydd lansio Cymuned, sef prosiect i gefnogi pobl sy'n gweithio sydd â chyllidebau negyddol	Monitro'r effaith ar allu cwsmeriaid i dalu eu biliau yn dilyn y cynnydd mewn taliadau ac yng nghyd-destun ehangach costau byw, wrth ystyried y lefel briodol o daliadau ar gyfer 2023-24
Rheoli risg a rheolaethau mewnol	- Adolygwyd y Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes - Adolygwyd risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r amlwg bob chwe mis - Adolygiad o adolygiadau trydydd parti o ollyngiadau dŵr a defnydd y pen yn dilyn y broblem yn gysylltiedig â chamadrodd a nodwyd yn y FA 22	- Rhoddwyd y Fframwaith Rheoli Risg Busnes ar waith - Heriodd y Bwrdd asesiad y Tîm Gweithredol o risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn modd adeiladol - Sefydlwyd Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen o'r Bwrdd dan arweiniad Cadeirydd y Bwrdd i lywodraethu'r ymchwiliad i'r achosion o gamadrodd ar ollyngiadau dŵr a defnydd y pen, yr adroddiadau a gyflwynwyd i Ofwat mewn perthynas â hynny a'r cynlluniau i unioni'r sefyllfa	- Monitro'r Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes ar draws y busnes - Cyflwyno adroddiadau ar risgiau strategol a risgiau sy'n dod i'r amlwg i'r Bwrdd, dan arweiniad y Prif Swyddog Risg
Adrodd ariannol a rheolaethau	- Adolygwyd y polisïau cyfrifyddu gan y Pwyllgor Archwilio - Cafodd systemau rheolaeth fewnol eu hadolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a'u cymeradwyo gan y Bwrdd fel rhan o'n proses adrodd diwedd y flwyddyn i Ofwat (gweler yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol a fydd ar gael o ganol mis Gorffennaf yn https://corporate.dwr.cymru.com/cy-gb/library/annual-performance-reports)	- Adolygwyd y polisïau cyfrifyddu gyda mewnbyn gan yr Archwilwyr - Cafodd gwelliannau i'r broses diwedd y flwyddyn a'r penderfyniad i sefydlu Pwyllgor Rheolaethau Ariannol newydd ar lefel Cyfarwyddwyr Gweithredol sy'n atebol i'r Prif Swyddog Gweithredol, eu hadolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio	- Caiff polisïau cyfrifyddu eu hadolygu'n rheolaidd gyda mewnbyn gan yr Archwilwyr ar faterion cyfredol/arferion gorau - Gwelliannau pellach i brosesau diwedd y flwyddyn i'w rhoi ar waith ar gyfer ein proses adrodd diwedd y flwyddyn i Ofwat ar gyfer y FA 24 (yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol)
Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu	Adolygodd y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu gynnydd tuag at gyflawni amcanion ACLI	- Adolygwyd dangosyddion perfformiad allweddol (sydd wedi cynnwys archwiliadau dwfn) ym mhob cyfarfod - Cafodd cynnydd o ran y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) ac adrodd ar garbon ei monitro - Cawsom statws ACLI gan Sustainable Fitch	Canolbwyntio ar y dangosyddion perfformiad allweddol sy'n berthnasol i'n rhanddeiliaid ac sy'n mesur cynnydd y Cwmni tuag at gyflawni ei amcanion ACLI

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

1 Arweinyddiaeth y Bwrdd a Diben y Cwmni – parhad

Pwnc	Gweithgareddau a thrafodaethau allweddol y FA 23	Cyflawniad allweddol	Blaenoriaethau allweddol y FA 24
Cyfansoddiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd	- Adolygodd y Pwyllgor Enwebiadau gyfansoddiad y Bwrdd, ei waith cynllunio ar gyfer olyniaeth ac aelodaeth ei Bwyllgorau - Recriwtio Cyfarwyddwr Anweithredol newydd i reoli olyniaeth y Bwrdd a gwella amrywiaeth - Cynhaliwyd adolygiad allanol o effeithiolrwydd y Bwrdd a oedd yn cynnwys holiadur manwl a chyfweliadau â Chyfarwyddwyr ac unigolion sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd gan werthuswr allanol	- Gwnaed newidiadau i aelodaeth Pwyllgorau, cwblhawyd y broses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol (gweler tudalen 155) - Adolygwyd canlyniadau'r adolygiad mewnol o Effeithiolrwydd y Bwrdd ar gyfer y FA 22 a chytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r broses o'i roi ar waith yn cael ei monitro ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd - Cwblhawyd yr adolygiad allanol o Effeithiolrwydd y Bwrdd a chytunwyd ar gamau gwella (gweler tudalen 153) - Penodwyd Lila Thompson a Barbara Moorhouse (gweler tudalen 150)	- Caiff yr adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd ei gynnal drwy broses wedi'i hwyluso'n fewnol yn y FA 24 - Cefnogi Cyfarwyddwyr Anweithredol yn eu rolau newydd fel yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch o fis Gorffennaf 2023 ar ôl i Graham Edwards ymddeol o'r Bwrdd - Bwrw ymlaen â gweithredu'r hyn y cytunwyd arno yn yr adolygiad allanol o Effeithiolrwydd y Bwrdd ar gyfer y FA 23

Datblygiad ac addysg y Bwrdd

Cynhaliodd y Bwrdd sawl sesiwn ddatblygu yn ystod 2022-23. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys hyfforddiant lechyd a Diogelwch a gynhelir bob tair blynedd, sesiynau dysgu ar Sychder a Materion Ariannol sy'n ymwneud â PR24 a chinio 'Technoleg' lle roedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwmwl Mobilise yn bresennol.

Ymweliadau â safleoedd gweithredol

Awst 2022 - Debra Bowen Rees, Tom Crick a Joanne Kenrick

- Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberteifi
- Gorsaf pwmpio dŵr heb ei drin Pont Canaston

Hydref 2022 - Alastair Lyons

- Gwasanaethau Manwerthu, Tîm Cymorth Arbenigol, Argae Cwmtyleri Linea (Llaneirwg)

Hydref 2022 - Debra Bowen Rees

- Labordai Glaslyn

Tachwedd 2022 - Lila Thompson

- Gwasanaethau Manwerthu, Linea (Llaneirwg)
- Labordai Glaslyn

Rhagfyr 2022 - Lila Thompson

- Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Abertawe

Chwefror 2023 - Alastair Lyons a Graham Edwards

- Trosolwg o gynllun Parc Hailey gydag Ian Wyatt a Shaun O'Leary (Rheolwr Cyflawni Rhaglenni)
- Gwasanaethau Manwerthu, Linea (Llaneirwg)
- Diweddariad ar Ddadansoddeg Data

Mawrth 2023 - Barbara Moorhouse

- Gwaith Trin Dŵr Llwynon
- Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Caerdydd
- Gwasanaethau Manwerthu, Linea (Llaneirwg)

Mawrth 2023 - Jane Hanson

- Labordai Glaslyn

Mawrth 2023 - Joanne Kenrick

- Darllenwyr mesuryddion
- Tîm Cymorth Arbenigol Gwasanaethau Manwerthu, Linea (Llaneirwg)

Aelodau a buddsoddwyr yn y FA 23

Yn yr un modd ag y byddai cwmni rhestredig yn cael deialog â'i gyfranddalwyr, rydym yn cael deialog rheolaidd â'n Haelodau a'n Buddsoddwyr bondiau. Ar hyn o bryd, mae gennym 72 o Aelodau, gan gynnwys 10 Aelod ein Bwrdd sydd hefyd yn gwasanaethu fel Aelodau o Glas Cymru. Heblaw'r aelodau hynny o'r Bwrdd sy'n gwasanaethu, dewisir Aelodau Glas gan Banel Dethol Aelodau annibynnol. Drwy broses recriwtio flynyddol, nod y Panel yw cynnal grŵp cytbwys ac amrywiol o unigolion, sy'n adlewyrchu'n fras amrywiaeth ein cwsmeriaid a buddiannau rhanddeiliaid allweddol.

Ein panel dethol aelodau:

Mae Menna Richards, sy'n gyn-gyfarwyddwr anweithredol, Chris Jones, sy'n gyn-Brif Swyddog Gweithredol a Debra Bowen Rees, sy'n gyfarwyddwr anweithredol ar hyn o bryd, yn ymuno â Syr Paul Silk ar y Panel. Mae Ysgrifennydd y Cwmni yn gofyn am adborth gan y Panel ar fformat a chynnwys cyfarfodydd yr Aelodau ac mewn perthynas â'r broses recriwtio Aelodau. Mae'r Panel yn argymhell y rhestr derfynol o ymgeiswyr i'r Bwrdd ei chymeradwyo.

Ein Haelodaeth:

Yn ystod y flwyddyn, gadawodd tri Aelod eu rolau a phenodwyd chwe Aelod newydd ar ôl proses recriwtio agored a hysbysebwyd (drwy'r cyfryngau cymdeithasol). Ar ôl cael eu penodi, gwahoddir Aelodau newydd i sesiwn sefydlu diwrnod llawn a gynhelir ar un o'n safleoedd gweithredol.

Cyfarfodydd aelodau a gynhaliwyd yn ystod 2022-23: 2022

- Bob chwarter: Gweithdy ar Dŵr Cymru 2050 (Mawrth, drwy Teams)
- Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol (Gorffennaf)
- Sefydlu Aelodau Newydd (Tachwedd)
- Cyfarfod Hanner Blwyddyn (Rhagfyr)

2023

- Agor Prioress Mill (Chwefror) – gwahoddiwyd aelodau lleol
- Bob chwarter: Gweithdy ar PR24 (Mawrth, drwy Teams)

Cyfarfodydd a deialog â'n Haelodau:

Defnyddir y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, cyfarfodydd hanner blwyddyn a gweithdai chwarterol gan y Bwrdd i gyfathrebu â'n Haelodau, sy'n cynnwys diweddariadau ar berfformiad y Grŵp.

Mae Debra Bowen Rees, Joanne Kenrick (ar faterion sy'n ymwneud â Pholisi Cydnabyddiaeth) ac Ysgrifennydd y Cwmni hefyd ar gael i gyfarfod ag unrhyw Aelod y tu allan i Gyfarfodydd Aelodau wedi'u trefnu.

Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn anfon sylw yn y wasg yn rheolaidd at ein Haelodau drwy e-bost. Defnyddir e-bost i roi wybodaeth ychwanegol i'n Haelodau rhwng cyfarfodydd, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran ymatebion i ddigwyddiadau gweithredol sy'n effeithio ar y busnes, gan gynnwys tywydd garw, wrth iddynt godi.

2 Rhannu Cyfrifoldebau

Rolau a chyfrifoldebau

Aelodau'r Bwrdd

Mae pob un o aelodau'r Bwrdd yn Gyfarwyddwyr y cwmni daliannol, Glas Cymru a'r cwmni gweithredol rheoleiddedig, Dŵr Cymru Cyfyngedig. Mae'r un aelodaeth Bwrdd yn sicrhau dull gweithredu unedig lle y caiff buddiannau'r cwmni gweithredol eu hyrwyddo fel petai Dŵr Cymru Cyfyngedig yn gwmni rhestredig cyhoeddus ar wahân, yn unol â chanllawiau Ofwat ar Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol ar y cyd am y canlynol:

- Pennu strategaeth y Grŵp, a sicrhau llwyddiant y Grŵp yn y hirdymor er budd ei gwsmeriaid a'i randdeiliaid.
- Herio, annog a monitro perfformiad y tîm gweithredol yn erbyn yr amcanion strategol.
- Sicrhau adnoddau ariannol a dynol digonol i gyflawni amcanion y Grŵp.
- Goruchwyllo a sicrhau cydymffurfiaeth y Grŵp â gofynion statudol a rheoleiddiol.
- Goruchwyllo prosiectau buddsoddiad cyfalaf mawr.

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut rydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol eraill ar dudalennau 68 i 70 yr Adroddiad Strategol.

Ein buddsoddwyr

Cawn ein hariannu'n llwyr gan ddyled ac mae codi dyled am gost isel yn rhan allweddol o'n strategaeth ariannol. Mae ein statws credyd ymhlith y gorau yn sector dŵr y DU. Ein strategaeth hirdymor barhaus yw cynnal ein gerio i lefel lle mae'r Bwrdd yn ystyried y byddem yn gallu cael mynediad i'r lefel fwyaf effeithlon o arian dyled i gyflawni ein hamcanion strategol. Mae mynediad i farchnadoedd ariannol yn allweddol i gyflawni ein strategaeth ac mae gennym gydberthnasau agos ac agored â'n buddsoddwyr bondiau.

Cyfarfodydd a deialog â'n buddsoddwyr bondiau

Mae'r tîm Trysorlys yn sicrhau bod ein buddsoddwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy Adroddiadau Buddsoddwyr bob chwe mis, a gymeradwyir gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiad yn dilyn cyfarfodydd â buddsoddwyr a, lle y bo'n briodol, yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan fuddsoddwyr ar faterion sy'n effeithio ar y Cwmni yn ei brosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r uwch-dîm rheoli yn trefnu Diwrnod i Fuddsoddwyr bob blwyddyn ym mis Gorffennaf ac mae Trysorydd y Grŵp yn trefnu cyfarfod â buddsoddwyr yn ôl yr angen neu pan ofynnir iddo wneud hynny. Bwriedir cynnal y Diwrnod Blyneddol i Fuddsoddwyr ar 12 Gorffennaf 2023 eleni, a chaiff manylion pellach am y digwyddiad hwn eu hanfon drwy e-bost at fuddsoddwyr sydd wedi'u cofrestru ar gronfa ddata rhanddeiliaid y Grŵp.

Yn ystod 2022-23, ymhlith y pynciau y mae'r tîm wedi ymgysylltu â'n buddsoddwyr yn eu cylch mae ein rhaglen carbon sero net a'n statws ACLI gan Sustainable Fitch (gweler tudalen 39), ein cynlluniau ar gyfer AMP8 fel rhan o PR24, ein hadolygiad rheoleiddiol nesaf o brisiau a Phrosiect Cwm Taf i adeiladu gwaith trin dŵr newydd gan ddilyn model cyflawni Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid Ofwat y bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan ein deiliaid bondiau maes o law.

- Pennu'r parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer y busnes a sicrhau digonolrwydd ac effeithlonrwydd systemau rheolaethau mewnol a rheoli risg y Grŵp.

Bydd yr ymgeisydd terfynol ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Anweithredol newydd i frwdd y cwmni rheoleiddiedig yn cyfarfod ag Ofwat cyn iddo gael ei benodi'n ffurfiol.

Penderfyniadau a materion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu rhestr ffurfiol o Faterion a Gedwir yn Ôl at ystyriaeth y Bwrdd. Caiff hon ei monitro gan ysgrifennydd y Cwmni a'i hadolygu gan y Bwrdd bob blwyddyn.

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r ystyriaeth fanwl o gyfrifoldebau penodol i Bwyllgorau'r Bwrdd, ond wedi cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am wneud penderfyniadau yn y meysydd hyn. Wedyn, bydd y Pwyllgorau yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar y materion a drafodwyd, y penderfyniadau a wnaed a, lle y bo'n briodol, byddant yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynglŷn â materion y mae angen iddo eu cymeradwyo. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgorau Archwilio, ACLI, Enwebiadau, Ansawdd a Diogelwch, Cydnabyddiaeth a Thechnoleg, a Phwyllgor Prosiect Cwm Taf yn unol â'r amserlenni datblygu ar gyfer y prosiect hwnnw. Mae'r Pwyllgor

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

2 Rhannu Cyfrifoldebau – parhad

Goruchwyllo Gollyngiadau Dŵr, sef un o bwyllgorau gorchwyl a gorffen y Bwrdd, a ffurfiwyd i'r pwrpas, wedi cyfarfod ddwywaith ers iddo gael ei sefydlu ym mis Mawrth 2023. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cyfarfod neu'n cynnal ei fusnes drwy gyfathrebu drwy e-bost neu dros y ffôn yn ôl y gofyn. Ceir disgrifiad o waith y Pwyllgorau hyn ar dudalen 136.

Mae cofnodion y Bwrdd a'i Bwyllgorau ar gael i bob Cyfarwyddwr Anweithredol, ac mae Cadeirydd pob Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, i'r Bwrdd ar ei weithgareddau, yn amodol ar amseriad cyfarfodydd y Pwyllgor o gymharu â chyfarfodydd y Bwrdd. Caiff pob Pwyllgor ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol annibynnol ac mae'n cynnwys mwyafrif o Gyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol, ac eithrio'r Pwyllgor Enwebiadau, Pwyllgor Prosiect Cwm Taf a'r Pwyllgor Goruchwyllo Gollyngiadau Dŵr a gadeirir gan Gadeirydd y Bwrdd.

Penodir aelodau'r Pwyllgorau ar sail argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau sy'n adolygu aelodaeth y Pwyllgorau bob blwyddyn, ac mae penodiadau yn para am gyfnod o hyd at dair blynedd, y gellir ei estyn am ddau gyfnod arall o dair blynedd, ar yr amod bod y Cyfarwyddwr yn parhau'n annibynnol. Mae pob Cyfarwyddwr Anweithredol newydd ei benodi yn ymuno â'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch am gyfnod o 12 mis er mwyn meithrin dealltwriaeth dda o'r busnes gweithredol. Sefydlir y Pwyllgorau â Chylch Gorchwyl ysgrifenedig sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n briodol ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau o ran arferion gorau a llywodraethu.

Mae Cylch Gorchwyl pob Pwyllgor a'r Materion a Gedwir yn ôl i'r Bwrdd ar gael ar gais gan Ysgrifennydd y Cwmni ac maent hefyd ar gael ar wefan y Cwmni. Gweler <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/schedule-of-matters-reserved-for-the-board>.

Y Tim Gweithredol

Caiff y Tim Gweithredol ei arwain gan y Prif Swyddog Gweithredol ac mae'n cynnwys y Prif Swyddog Ariannol. Mae ei aelodau eraill yn uwch-reolwyr o bob rhan o'r busnes. Yn ystod y flwyddyn, daeth y Prif Swyddog Risg yn aelod o'r tim gweithredol. Mae'r tim Gweithredol yn cyfarfod deirgwaith y mis: mae'n gyfrifol am redeg y busnes o ddydd i ddydd ac am faterion gweithredol eraill i roi'r strategaethau y mae'r Bwrdd wedi cytuno arnynt ar waith. Mae'r diagram o'r Fframwaith Llywodraethu ar dudalen 136 yn dangos Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau Rheoli sy'n cefnogi'r Tim Gweithredol. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau gan y Prif Swyddog Gweithredol ac aelodau o'r Tim Gweithredol ym mhob cyfarfod wedi'i drefnu, sy'n rhoi diweddariad ar berfformiad ariannol a gweithredol y busnes ac unrhyw faterion cyfredol neu rai sy'n dod i'r amlwg.

Effeithiolrwydd y Bwrdd

Caiff perfformiad y Bwrdd a'i Bwyllgorau ei adolygu'n flynyddol (gweler tudalen 152). Caiff cyfansoddiad y Bwrdd ei adolygu'n flynyddol hefyd gan y Pwyllgor Enwebiadau er mwyn cadarnhau amrywiaeth briodol o gefndir, sgiliau arbenigol a phrofiad, ac fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer olyniaeth Cyfarwyddwyr. Adolygwyd cyfansoddiad Pwyllgorau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn a chafodd newidiadau i'r Aelodaeth

bresennol eu cynnig a'u cymeradwyo. Caiff y Flaenamserlen ar gyfer agendâu cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol ei hadolygu gan y Bwrdd ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd er mwyn sicrhau bod unrhyw un o aelodau'r Bwrdd yn cael cyfle i awgrymu eitemau i'w cynnwys.

Penodi, sefydlu a datblygu Cyfarwyddwyr

Dilynr gweithdrefn drwyadl a thryloyw ar gyfer penodi Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd (gweler tudalen 156).

Mae'r broses sefydlu yn cynnwys cyfle i weld papurau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau fel y bo'n briodol, ymweliadau â safleoedd a chyfarfodydd un i un â Chyfarwyddwyr Anweithredol eraill, prif gynghorwyr y Cwmni, aelodau o'r Tim Gweithredol ac uwch-reolwyr ym mhob rhan o'r busnes. Lle y bo'n briodol, mae Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd hefyd yn mynychu cwrs Sefydliad y Cyfarwyddwyr i gyfarwyddwyr newydd. Caiff Cyfarwyddwyr raglen sefydlu wedi'i theilwra wrth ymuno a rhaglenni addysgol a gwybodaeth parhaus ar bynciau sy'n berthnasol i weithredu a llywodraethu'r busnes.

Mae pob Cyfarwyddwr Anweithredol newydd yn ymuno â'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch am 12 mis er mwyn meithrin ei ddealltwriaeth o weithrediadau'r busnes a'r heriau allweddol y mae'n eu hwynebu.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu ein Cyfarwyddwyr yn barhaus, mae Ysgrifennydd y Cwmni yn sicrhau bod y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn deddfwriaeth a threfniadau llywodraethu corfforaethol ac adrodd fel y bo'n briodol. Mae presenoldeb rheolaidd ein Harchwilywyr, KPMG, yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn helpu i sicrhau bod y Cyfarwyddwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau cyfredol ym maes llywodraethu.

Ceir manylion am ymweliadau ein Cyfarwyddwyr Anweithredol â'r safleoedd gweithredol a chyfleoedd datblygu addysgol i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ar dudalen 148. Gwahoddir Cyfarwyddwyr Anweithredol i nodi pynciau y byddai'n fuddiol iddynt gael hyfforddiant mwy penodol yn eu cylch er mwyn bod yn fwy effeithiol yn eu rolau.

Cyfnod mewn swydd ac ailethol

Penodir Cyfarwyddwyr Anweithredol am gyfnod o dair blynedd y gellir ei adnewyddu am hyd at ddau gyfnod arall o dair blynedd. Sut bynnag, ni chaniateir i unrhyw Gyfarwyddwr Anweithredol wasanaethu am fwy na 10 mlynedd o dan delerau ein Herthyglau. At hynny, bydd pob Cyfarwyddwr yn sefyll yn ffurfiol i gael ei ailethol bob blwyddyn gan Aelodau Glas yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol a bydd unrhyw Gyfarwyddwr a benodir yn ystod y flwyddyn yn sefyll i gael ei ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol nesaf ar ôl iddo gael ei benodi.

Yn ystod y FA 23, cafodd Lila Thompson a Barbara Moorhouse eu penodi'n Gyfarwyddwyr Anweithredol ar y Bwrdd, y naill ar 6 Medi 2022 a'r llall ar 16 Ionawr 2023.

Bydd Graham Edwards, Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn ymddeol yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Gorffennaf, pan fydd wedi cwblhau naw mlynedd fel Cyfarwyddwr. Bydd

Barbara Moorhouse yn olynu Graham Edwards fel Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch pan fydd Graham yn ymddeol ym mis Gorffennaf. Bydd Joanne Kenrick yn ymgymryd â rôl yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol o'r un dyddiad.

Nid oes neb arall wedi ymddeol o'r Bwrdd na chael ei benodi iddo yn ystod y FA 23.

Annibyniaeth

Rydym yn ystyried annibyniaeth ein Cyfarwyddwyr Anweithredol yn barhaus ac yn ffurfiol bob blwyddyn. Ac eithrio Cadeirydd y Bwrdd, a ystyriwyd yn annibynnol adeg ei benodiad, ystyrir bod pob un o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol yn annibynnol yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, ac nid oes gan yr un ohonynt unrhyw gydberthynas a allai ddylanwadu ar eu barn annibynnol. Ystyrir achosion posibl o wrthdaro buddiannau ar ddechrau pob un o gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau: Byddai Cyfarwyddwyr yn esgusodi eu hunain o unrhyw faterion lle yr ystyrir bod gwrthdaro buddiannau o'r fath yn bodoli.

Nid yw ein dogfennau cyfansoddiadol yn nodi dyraniad amser penodol y mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Anweithredol ei gyflawni er mwyn bod yn effeithiol yn eu rolau.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn adolygu i ba raddau y mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael amser priodol i gyflawni eu rôl yn effeithiol, ac yn ystyried unrhyw ymrwymadau newydd arfaethedig y mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn bwriadu eu cyflawni, ochr yn ochr â'u rolau presennol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal adolygiadau rheolaidd o amrywiaeth a chydbwysedd sgiliau a phrofiad ar y Bwrdd, sy'n eang eu cwmmpas.

Penodiadau allanol Cyfarwyddwyr Gweithredol

Nodir y penodiadau allanol a ddelir gan Peter Perry a Mike Davis yn eu bywgraffiadau ar dudalennau 140 a 141.

Penodi Ysgrifennydd y Cwmni

Penodwyd Nicola Foreman yn Ysgrifennydd y Cwmni ar 6 Chwefror 2023.

Aelodaeth a phresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Trefnir i'r Bwrdd gyfarfod naw gwaith y flwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd ychwanegol o'r Bwrdd, yn ôl y gofyn, yn ystod y flwyddyn. Mae'r tabl ar dudalen 138 yn dangos union nifer cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod y FA 23 a phresenoldeb y Cyfarwyddwyr yn y cyfarfodydd hynny. Mae aelodau'r Bwrdd yn gwneud pob ymdrech i fynychu pob cyfarfod.

Gwrthdaro buddiannau

Caiff cyfarwyddiaethau a buddiannau busnes allanol eraill eu monitro'n ofalus, ynghyd â natur a nifer y cyfarwyddiaethau allanol a ddelir gan y Cyfarwyddwyr er mwyn bodloni ein hunain na fydd unrhyw benodiadau ychwanegol yn cael effaith andwyol ar eu hymrwymiad amser i'w rôl yn Dŵr Cymru. Cyn i Gyfarwyddwr gael ei benodi, gofynnir i'r penodai ddatgelu unrhyw fuddiannau eraill a all arwain at wrthdaro buddiannau ac mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr hysbysu'r Bwrdd am unrhyw fuddiannau busnes yn y dyfodol a allai arwain at wrthdaro buddiannau. Rhaid i unrhyw benodiadau allanol newydd arfaethedig i'w dal gan Gyfarwyddwr presennol gael eu trafod â Chadeirydd y Bwrdd, yn y lle cyntaf, a chael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Enwebiadau i'w cymeradwyo.

Cadeirydd y Bwrdd

- Mae'n gyfrifol am arwain y Bwrdd.
- Mae'n gosod yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd.
- Mae'n sicrhau effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau a llywodraethu da.

Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol

- Mae'n cyfarfod â Chyfarwyddwyr Anweithredol eraill a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn flynyddol er mwyn adolygu perfformiad Cadeirydd y Bwrdd.
- Mae'n dirprwyo dros y Cadeirydd i gadeirio cyfarfod os na fydd Cadeirydd y Bwrdd yn gallu bod yn bresennol.
- Mae'n gweithredu fel seinfwrdd anffurfiol i bob aelod o'r Bwrdd.

Cyfarwyddwyr Anweithredol

- Maent yn herio'r Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn ffordd adeiladol ac yn monitro'r ffordd y mae'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd yn cael ei gweithredu o fewn y fframwaith risg a rheoli a gymeradwywyd gan y Bwrdd; maent hefyd yn mentora ac yn cefnogi aelodau o'r Tîm Gweithredol ac uwch-reolwyr ym mhob rhan o'r busnes.
- Maent yn cymryd diddordeb byw mewn materion gweithredol sy'n effeithio ar y busnes (gweler yr ymweliadau â safleoedd ar dudalen 148).

Prif Swyddog Gweithredol

- Y tu hwnt i faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd, y Prif Swyddog Gweithredol sy'n bennaf cyfrifol am arwain rheolwyr y Cwmni, gyda chymorth y Tîm Gweithredol.

Tîm Gweithredol

- Mae'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd ac am redeg y Busnes o ddydd i ddydd.

Aelodau

- Fel Grŵp o dan berchnogaeth cwmni cyfyngedig drwy warant, nid oes gennym gyfranddalwyr, ond mae ein Haelodaeth yn cynnwys unigolion sy'n dod o bob rhan o'n hardal gyflenwi (neu sydd â chysylltiad cryf â hi) sy'n ymgymryd â rôl llywodraethu hollbwysig. Mae Aelodaeth yn bersonol ac yn ddi-dâl ac nid oes gan Aelodau unrhyw fudd ariannol yn y busnes. Mae'r annibyniaeth hon yn galluogi'r Aelodau i ddwyn y Bwrdd i gyfrif am warchod ein hasedau a darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol mewn ffordd a fydd yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ysgrifennydd y Cwmni

- Mae'n cynorthwyo Cadeirydd y Bwrdd er mwyn sicrhau bod y Grŵp yn dangos trefniadau llywodraethu da.
- Mae'n paratoi agendâu cyfarfodydd y Bwrdd y cytunir arnynt drwy ymgynghori â Chadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr, er y gall unrhyw aelod o'r Bwrdd ofyn am i eitem gael ei hychwanegu at yr agenda.
- Mae tîm Ysgrifenyddol y Cwmni ar gael i gynorthwyo'r holl Gyfarwyddwyr Anweithredol a'r Tîm Gweithredol ac mae'n gweithio i sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n dda rhwng y Bwrdd, y Tîm Gweithredol a phwyllgorau a thimau rheoli mewnol y Grŵp.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

3 Cyfansoddiad y Bwrdd, olyniaeth a gwerthuso

Gwerthuso'r Bwrdd

Mae gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau y cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad, annibyniaeth a gwybodaeth am y Grŵp i'w galluogi i gyflawni eu priod ddyletswyddau a chyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd yn adolygu hyn yn rheolaidd mewn trafodaethau ag Ysgrifennydd y Cwmni, y Pwyllgor Enwebiadau ac fel rhan o'i adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd.

Yn ystod y FA 23, cynhaliwyd adolygiad allanol yn unol â gofyniad Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU y dylai cwmnïau gynnal gwerthusiad o'r Bwrdd wedi'i hwyluso'n allanol bob tair blynedd o leiaf. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan gwmni ymgynghori annibynnol, Halex Consulting Limited (Halex), sy'n werthuswr byrddau profiadol, er mwyn darparu asesiad cadarn ac annibynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Nid oes gan Halex unrhyw gysylltiad â'r Cwmni nac unrhyw un o Gyfarwyddwyr y Bwrdd.

Adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd yn y FA 23

Roedd y broses werthuso allanol yn cynnwys pob aelod o'r Bwrdd ac unigolion eraill sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn rheolaidd, gan gynnwys Ysgrifennydd y Cwmni, ar wahân i Barbara Moorhouse a oedd newydd ymuno â'r Bwrdd ar ddechrau'r broses. Cafodd arolwg ei ddosbarthu i gyfranogwyr gan Board Benchmarking, mewn cydweithrediad â Halex. Roedd yr arolwg yn seiliedig ar 20 o ffactorau wedi'u profi'n academaidd sy'n dylanwadu ar effeithiolrwydd bwrdd ac fe'i defnyddiwyd i ategu ymchwil a gweithgareddau paratoi Halex cyn ei adolygiad. Mantais defnyddio'r arolwg meincnodi oedd ei bod yn ei gwneud hi'n bosibl i gymariaethau uniongyrchol gael eu gwneud â chymheiriaid y Cwmni, yn ogystal ag arferion da. Rhoddodd canlyniadau'r arolwg meincnodi y Cwmni yn chwartzel uchaf ei grŵp cymheiriaid meincnodi sy'n cynnwys 48 o fyrdau ym mhob rhan o'r sector Cyfleustodau, sy'n cynnwys y diwydiant dŵr, cwmnïau nid-er-elw mawr a'r Llywodraeth.

Ymhlith y meysydd a ystyriwyd yn yr arolwg mae: Eglurder rôl, gweledigaeth a strategaeth y Bwrdd; ei gyfansoddiad a'r broses o'i adnewyddu; Arweinyddiaeth y Cadeirydd a'r Pwyllgorau; rheoli perfformiad y Bwrdd – ei ddynmeg, ei ddirprwyaethau a'i gydberthnasau ag uwch-reolwyr; rheoli gwybodaeth a chyfarfodydd; diwylliant ac uniondeb sefydliadol; llywodraethu risg a chydymffurfiaeth; talent, olyniaeth a chydabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol; a meysydd eraill, megis gwelliant parhaus ac ychwanegol gwerth sefydliadol.

Trafodwyd canlyniadau'r arolwg ag ymatebwyr mewn cyfweiliadau un i un a gynhaliwyd â Chris Burt a'r Athro Bryan Foss, y ddau o Halex. Yn ystod y cyfweiliadau, ystyriwyd amrywiaeth o bynciau gan ddefnyddio agenda amlinellol. At hynny, ystyriodd y cyfweiliadau bynciau a oedd yn bwysig ym marn y cyfweleion, yn ogystal â meysydd neu themâu eraill a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr adolygiad.

Yna, cyflwynwyd canlyniadau'r gwerthusiad o'r Bwrdd mewn adroddiad cryno a oedd yn nodi themâu cyffredin a meysydd aeddfedrwyrdd, yn ogystal â meysydd i'w datblygu gan y Bwrdd. Trafodwyd yr adroddiad hwn â Chadeirydd y Bwrdd ym mis Ebrill.

Roedd yr ymchwil a'r gwaith paratoi a wnaed gan Halex yn cynnwys adolygu papurau a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau ar gyfer y 12 mis blaenorol. Roedd Chris Burt a Bryan Foss hefyd yn bresennol, fel arsylwyr, yn un o gyfarfodydd y Bwrdd ac yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (ym mis Mawrth) a chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ym mis Mai 2023 (Chris Burt yn unig).

Cyfarfu'r Bwrdd ym mis Mai 2023 i drafod adroddiad terfynol ac argymhellion yr adolygiad, ynghyd ag asesiad o gynnydd y Bwrdd o ran y camau gweithredu y cytunwyd arnynt o adolygiad y flwyddyn flaenorol. Cytunodd y Bwrdd fod cynnydd da wedi'i wneud o ran gweithredu'r argymhellion o'r gwerthusiad a gynhaliwyd yn y FA 22, fel y'u nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn diwethaf. Caiff cynnydd yn erbyn y camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn gyfredol ei adolygu ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd fel rhan o Adroddiad Ysgrifennydd y Cwmni sy'n eitem ar yr agenda.

Argymhellion allweddol yn y gwerthusiad o'r Bwrdd yn y FY 23

Argymhelliad	Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt ar gyfer y FA 23
Pwyllgorau'r Bwrdd	Gan gydnabod bod gan Fwrdd y Cwmni wyth Pwyllgor, argymhellwyd y dylai eu perthnasedd parhaus fel pwyllgorau annibynnol gael ei adolygu'n rheolaidd, yn hytrach na chynnwys eu meysydd ffocws ar agendâu'r prif Fwrdd. Ar ôl iddo ystyried y mater hwn, roedd y Bwrdd o'r farn bod pob un o'r Pwyllgorau presennol yn parhau i fod yn briodol er mwyn sicrhau llywodraethu effeithiol.
Goruchwyliaeth Weithredol	Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn gyfrifol am oruchwyllo perfformiad gweithredol y Cwmni a'r ffordd y mae'n bodloni ei ofynion rheoleiddiol, gan gefnogi adolygiad cyffredinol y Bwrdd o berfformiad yn erbyn amcanion ein cynllun busnes. Fel y nodir ar dudalen 164, mae'n cynnal adolygiadau manwl o bob agwedd bwysig ar ein gweithrediadau ac yn adolygu ac yn cymeradwyo'r strategaethau gweithredol a ddefnyddir i gyflawni ein cynlluniau i fodloni ein rhwymedigaethau a chyrraedd y safonau gwasanaeth i'n cwsmeriaid sydd wedi'u targedu gennym. Felly, mae ei weithgareddau yn ganolog i lywodraethu ein gweithrediadau yn effeithiol ac mae'r Bwrdd o'r farn bod bodolaeth pwyllgor o'r fath yn galluogi'r Cyfarwyddwyr i oruchwyllo perfformiad y Cwmni mewn ffordd fwy manwl ac uniongyrchol nag a fyddai wedi bod yn bosibl petai'r maes hwn yn cael ei gynnwys ar agendâu'r prif Fwrdd. O gofio pa mor bwysig yw cyflawni cynlluniau'r Cwmni ar gyfer gwella perfformiad, a pherthnasedd y buddsoddiad ategol, mae pob Cyfarwyddwr bellach yn cael ei wahodd i ymuno â chyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, p'un a yw'n aelod ffurfiol o'r Pwyllgor ai peidio. Sut bynnag, mae'n arfer sefydledig bod pob Cyfarwyddwr Anweithredol newydd yn dod yn aelod o'r Pwyllgor am o leiaf 12 mis er mwyn iddo feithrin dealltwriaeth o faterion a heriau gweithredol.
Papurau a threfniadau cyfarfodydd y Bwrdd	Cytunwyd i gyflwyno templed papur eglurhaol safonol i holl bapurau'r Bwrdd ochr yn ochr â'r crynodeb gweithredol o bob papur er mwyn sicrhau eglurder o ran tarddiad ac amcanion y papur, a'r broses lywodraethu a ddefnyddiwyd i'w ddatblygu. Bydd awduron papurau'r Bwrdd hefyd yn rhoi sylw i sicrhau'r lefel gywir o fanylder i gefnogi diben y papur ond yn gwneud yn siŵr nad yw'r materion allweddol yn cael eu cuddio gan fewnbwn diangen: dylai hyn helpu i leihau hyd papurau a sicrhau bod cyfarfodydd yn fwy effeithlon. Pan fydd Ysgrifennydd, Cadeirydd, Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Swyddog Ariannol y Cwmni yn cyfarfod i ystyried yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol, byddant yn penderfynu ar y man priodol yn yr agenda lle y dylai Cadeiryddion Pwyllgorau roi adborth ar weithgareddau eu pwyllgor er mwyn llywio eitemau eraill ar yr agenda: ar hyn o bryd, mae pob Pwyllgor yn rhoi adborth ar ddiwedd yr agenda.
Amrywiaeth uwch-reolwyr	Fel y nodir ar dudalen 156, mae'r Cwmni yn ymrwymedig i greu gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli'r cymunedau a wasanaethir gennym. Wrth ystyried y ffordd y mae'r Cwmni yn rheoli talent ac yn cynllunio ar gyfer olyniaeth, bydd y Bwrdd yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith uwch-reolwyr y Cwmni.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Bwrdd yn effeithiol, ar y cyfan, gyda meysydd i'w gwella y cytunwyd arnynt, fel y'u nodwyd. Nododd canlyniadau arolwg meincnodi'r Bwrdd ac adborth gan bob un o'r cyfweleion fod y Bwrdd yn perfformio'n dda.

Adolygodd Cadeirydd y Bwrdd (Cadeirydd), gan ystyried barn y Cyfarwyddwyr eraill, berfformiad y Prif Swyddog Gweithredol hefyd. Adolygwyd perfformiad y Cadeirydd gan y Bwrdd o

dan arweiniad yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Mai 2023. Ystyriodd yr Uwch-gyfarwyddwr Anweithredol y sylwadau a'r adborth a gafwyd gan y Cyfarwyddwyr a'u trafod â Chadeirydd y Bwrdd ac roedd yn gallu cadarnhau bod perfformiad y Cadeirydd yn parhau i fod yn effeithiol iawn a'i fod yn dangos ymrwymiad priodol i'w rôl a'i ddyletswyddau, gan roi cymorth ardderchog i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a bod ar gael i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD



Alastair Lyons CBE

Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau

Aelodau eraill:

- Graham Edwards
- Peter Perry
- Joanne Kenrick

Yn absenoldeb y Cadeirydd, neu pan fydd y Pwyllgor yn ymdrin â mater olyn y Cadeirydd y Bwrdd, bydd yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yn cadeirio'r cyfarfod.

Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 3

> Gweler tudalen 138 am bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd

3

Cyfansoddiad y Bwrdd, olyniaeth a gwerthuso – parhad

Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau

Prif gyfrifoldebau

Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor fel a ganlyn:

- Sicrhau bod gan y Bwrdd y sgiliau, y cefndir a'r profiad angenrheidiol i alluogi'r Grŵp i gyflawni ei amcanion strategol presennol a'i amcanion strategol yn y dyfodol;
- Sicrhau bod cyfansoddiad y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael ei adolygu'n rheolaidd yng nghyd-destun cylchdroi cyfarwyddwyr, strategaeth a gweithgareddau'r Cwmni, ei amcanion o ran amrywiaeth, a chylch gorchwyl y Bwrdd;
- Llunio cynlluniau sy'n sicrhau olyniaeth drefnus ar gyfer rolau ar y Bwrdd a'i Bwyllgorau;
- Sicrhau bod gweithdrefn ffurfiol, drylwyr a thryloyw ar gyfer penodiadau i'r Bwrdd;
- Goruchwyllo cynlluniau olyniaeth a ddatblygir gan y Prif Weithredwr ar gyfer y Tim Gweithredol;
- Gweithio a chydgyssylltu â Phwyllgorau eraill y Bwrdd, fel y bo'n briodol, gan gynnwys y Pwyllgor Cydnabyddiaeth mewn perthynas â phhecyn cydnabyddiaeth i'w gynnig i unrhyw benodai newydd i'r Bwrdd, ac ar foterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb cyflog ar sail rhyw a hil.

Mae'r Pwyllgor yn bodloni'r gofyniad yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol bod yn rhaid i fwyafrif o aelodau'r Pwyllgor fod yn Gyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol.

Meysydd ffocws gan edrych ymlaen at y FA 24

- Cynnal y cydbwysedd priodol o sgiliau, gwybodaeth, profiad ac annibyniaeth ar y Bwrdd drwy gynllunio ar gyfer olyniaeth y Bwrdd a thrwy ganlyniadau y cytunwyd arnynt o'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Bwrdd.
- Adolygu cyfansoddiad presennol Pwyllgorau gan ystyried materion olyniaeth.
- Goruchwyllo'r broses sefydlu ar gyfer y Cyfarwyddwr Anweithredol mwyaf diweddar sydd wedi'u penodi i'r Bwrdd.

Blaenoriaethau	Gweithgarwch y pwyllgor yn y FA 23	Canlyniad gweithgarwch y pwyllgor
Cyfansoddiad a Chydbwysedd y Bwrdd	Sicrhau cydbwysedd o sgiliau, gwybodaeth, profiad, annibyniaeth ac amrywiaeth ar y Bwrdd	Ystyriodd y Pwyllgor 'fatrics sgiliau' y Cyfarwyddwyr Anweithredol i gynnwys y ddau Gyfarwyddwr Anweithredol ychwanegol a benodwyd i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn, a gwnaeth sylwadau arno. Ystyriodd y Pwyllgor Ymrwymadau Cyfarwyddwyr – cymeradwyodd benodiad allanol Mike Davis, y Prif Swyddog Ariannol a Debra Bowen Rees, Cyfarwyddwr Anweithredol.
Sicrhau amrywiaeth meddylfryd ac ymagwedd ymhlith aelodau'r Bwrdd	Ystyried amcanion amrywiaeth a chynhwysiant y Grŵp a chytuno ar newidiadau a gynigir i Bolisi Amrywiaeth y Bwrdd	Wrth gynnal ei brosesau recriwtio, mae'r Pwyllgor wedi sicrhau bod o leiaf 33% o aelodau'r Bwrdd yn fenywod ac wedi penodi o leiaf un Cyfarwyddwr Anweithredol o gefndir ethnig lleiafrifol i'r Bwrdd.
Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd	Adolygu aelodaeth bresennol y Pwyllgorau	Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn gyfrifol am oruchwyllo perfformiad gweithredol y Cwmni a'r ffordd y mae'n bodloni ei ofynion rheoleiddiol. Mae ei weithgareddau, felly, yn ganolog i lywodraethu ein gweithrediadau yn effeithiol ac, felly, rydym yn gofyn i bob Cyfarwyddwr Anweithredol newydd, pan fydd yn ymuno â'r Bwrdd, dreulio o leiaf 12 mis fel aelod o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod ganddo ddealltwriaeth dda o faterion a heriau gweithredol. Felly, yn ystod y flwyddyn diwethaf, gadawodd Jane Hanson a Tom Crick ac ymunodd Lila Thompson a Barbara Moorhouse â'r Pwyllgor. Oherwydd perthnasedd gweithgareddau'r Pwyllgor i oruchwyliaeth y Bwrdd o berfformiad gweithredol y Cwmni, mae pob Cyfarwyddwr, p'un a yw'n aelod ffurfiol o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ai peidio, bellach yn cael ei wahodd i ymuno â'r Pwyllgor. Ymunodd Lila Thompson â'r Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.
Cynllunio ar gyfer Olyniaeth	Adolygu cynlluniau olyniaeth ar gyfer y Bwrdd a Thîm Gweithredol Dŵr Cymru	Trafododd y Pwyllgor gynlluniau olyniaeth ar gyfer Tîm Gweithredol Dŵr Cymru a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Cwblhawyd y broses recriwtio i benodi dau Gyfarwyddwr Anweithredol ychwanegol newydd; y bydd un ohonynt yn olynu Graham Edwards pan fydd yn gadael y Bwrdd ac yn rhoi'r gorau i'w rôl fel Uwch-gyfarwyddwr Anweithredol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Gorffennaf 2023. Hefyd, argymhellodd y Pwyllgor i'r Bwrdd y dylai Joanne Kenrick gael ei phenodi'n Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol o fis Gorffennaf 2023, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023.
Llywodraethu ac Effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau	Cynhaliodd y Pwyllgor ei adolygiad blyneddol o'r canlynol: – Cylch Gorchwyl y Pwyllgor – priodoldeb aelodaeth ar gyfer Byrddau pob un o gwmnïau'r Grŵp Cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad blyneddol o'i effeithiolrwydd yn erbyn ei Gylch Gorchwyl ei hun.	Nododd y Pwyllgor y cynnig y dylai'r Adolygiad allanol o Effeithiolrwydd y Bwrdd yn y FA 23 gael ei gynnal gan drydydd parti annibynnol. Penderfynodd y Pwyllgor nad oedd angen diwygio ei Gylch Gorchwyl. Adolygodd y Pwyllgor y rhestr o gyfarwyddwyr a benodwyd i is-gwmnïau'r Grŵp. Ar ôl adolygu ei effeithiolrwydd yn erbyn ei Gylch Gorchwyl, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac yn unol â'i Gylch Gorchwyl.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

3 Cyfansoddiad y Bwrdd, olyniaeth a gwerthuso – parhad

Proses benodi'r Bwrdd

Mae'r Pwyllgor yn arwain y broses benodi. Mae'r Pwyllgor wedi'i fodloni bod y broses a nodir isod yn gyfystyr â phroses ffurfiol, drylwyr a thryloyw ar gyfer penodi Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd sy'n cyflawni amcanion amrywiaeth a chynhwysiant y Grŵp, yn ogystal â chefnogi olyniaeth drefnus.

Cam 1

Bydd y Pwyllgor yn datblygu manyleb sy'n nodi'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer y rôl. Fel rheol, defnyddir ymgynghorwyr recriwtio allanol i arwain y broses recriwtio a nodi ymgeiswyr addas.

Cam 2

Bydd yr ymgynghorwyr yn llunio rhestr hir amrywiol o ymgeiswyr posibl a ddefnyddir gan y Pwyllgor i greu rhestr fer ar gyfer y cam cyfweld.

Cam 3

Caiff ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer eu cyfweld gan aelodau'r Pwyllgor.

Cam 4

Ar ôl ystyriaeth gan y Pwyllgor, a chyfle i aelodau eraill y Bwrdd gyfarfod â'r ymgeisydd a ffefirir, gwneir argymhelliad i'r Bwrdd benodi'r ymgeisydd a ffefirir.

Cyn i unrhyw Gyfarwyddwyr Anweithredol gael eu penodi'n ffurfiol, cynhelir cyfarfod ag Ofwat i drafod y penodiad arfoethedig.

Cynllunio ar gyfer olyniaeth

Mae'r Pwyllgor yn adolygu ac yn asesu cyfansoddiad y Bwrdd ar ran y Bwrdd ac yn argymhell penodi Cyfarwyddwyr newydd. Mae'n goruchwyllo'r cynlluniau olyniaeth a ddatblygir gan y Prif Weithredwr ac mae'r Bwrdd yn adolygu cynlluniau olyniaeth Tîm Gweithredol Dŵr Cymru, gyda diweddariad blynyddol gan y Cyfarwyddwr Cymorth Busnes a Phobl.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Fel rhan o'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau, mae'r Bwrdd yn ystyried y cydbwysedd o sgiliau, profiad, annibyniaeth ac amrywiaeth fel y'u hadolygir gan y Pwyllgor. Mae'r Bwrdd yn effro i gyfleoedd i wella lefel bresennol yr amrywiaeth o ran sgiliau, profiad, cefndiroedd, hil, rhyw a phriodweddau personol Aelodau'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn adrodd ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran rhoi polisi Amrywiaeth y Bwrdd ar waith a monitro amrywiaeth y Bwrdd ac ar gymarebau amrywiaeth o ran y rhywiau y Grŵp yn ei adroddiad blynyddol. Mae hefyd yn cyflwyno adroddiad

ar y ffordd y mae'n goruchwyllo cynlluniau i hyrwyddo amrywiaeth yn y gweithlu er mwyn sicrhau bod yr unigolion sy'n gweithio i ni yn gynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethir gennym, yn unol â pholisiau'r Grŵp o blaid datblygu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob rhan o'r busnes.

Ym marn y Pwyllgor, mae'r Bwrdd yn cael budd o amrywiaeth briodol eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ar hyn o bryd. Mae bywgraffiadau'r Cyfarwyddwyr ar dudalennau 140 i 143 yn rhoi manylion eu cefndir, eu sgiliau a'u profiad sydd, o ystyried holl aelodau'r Bwrdd gyda'i gilydd, yn amrywiol ac yn eang eu cwmpas.

Ar ddiwedd y FA 23, mae 50% o'n Bwrdd (y FA 22: 33%) a 33% o'n Tîm Gweithredol (y FA 22: 37.5%) yn fenywod, ond yn y gweithlu ehangach, mae 38% o'r uwch-reolwyr hynny sy'n uniongyrchol atebol i aelod o'r Tîm Gweithredol yn fenywod (y FA 22: 23.4%).

Rydym yn parhau i gefnogi argymhellion Adolygiad Hampton Alexander a oedd yn annog cwmnïau i gynyddu canran y menywod sy'n aelodau o fyrdau a thimau arwain (gan gynnwys y Tîm Gweithredol ac sy'n uniongyrchol atebol i'r Tîm Gweithredol) i 33% erbyn diwedd 2020, sef targed sydd wedi'i gyflawni. Mae'n galonogol ein bod wedi llwyddo i barhau i gyflawni'r targed hwn a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gadw at y targed hwn.

Cefnogwn argymhellion Adolygiad Parker sy'n annog cwmnïau i gynyddu'r ethnigrwydd ar fyrdau ac, yn ystod y flwyddyn, argymhellodd y Pwyllgor y dylid penodi aelod newydd o'r Bwrdd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Er nad ydym yn gwmni rhestredig, nodwn y newidiadau i Reolau Rhestru'r DU ar gyfer cyfnodau adrodd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022 er mwyn cyflawni targedau penodol ar gyfer amrywiaeth byrddau ar sail 'cydymffurfio neu esbonio' ac nad ydym, nes i'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf 2023 ddod i ben pan fydd Joanne Kenrick yn olynu Graham Edwards fel yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol, wedi bod mewn sefyllfa i gydymffurfio â'r rhwymedigaeth i sicrhau bod un uwch-swydd o leiaf ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn cael ei dal gan fenyw: y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol; neu'r Prif Swyddog Ariannol yn ystod y FA 23. Ar ôl mis Gorffennaf, byddwn yn parhau i sicrhau bod gan y Bwrdd gydbwysedd priodol ym mhob ffordd ac yn ystyried targedau'r Rheolau Rhestru ar gyfer amrywiaeth byrddau fel rhan o'n cynllun olyniaeth ar gyfer yr uwch-rolau hyn yn y dyfodol.

Gwyddom hefyd y gallwn wella amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach ym mhob rhan o'r Cwmni ac nid yw'r Pwyllgor na'r Bwrdd yn llaesu dwylo ynghylch y materion hyn. Mae'r Grŵp yn ymrwymedig i ddileu gwahaniaethu ac annog amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn ein galluogi i recriwtio a chadw gweithlu amrywiol.

Gellir gweld datganiad amrywiaeth ein Bwrdd ar ein gwefan yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/company-statements/board-diversity-statement>.

Amcanion polisi amrywiaeth	Camau gweithredu	Cynnydd
Y Pwyllgor i ystyried gwir amrywiaeth meddylfryd gan ystyried holl sgiliau, gwybodaeth, profiad, cefndiroedd a nodweddion aelodau'r Bwrdd - bydd y Pwyllgor yn adolygu cyfansoddiad y Bwrdd yn rheolaidd a'r ffordd y mae'n cynllunio ar gyfer olyniaeth ac yn datblygu talent, yn ogystal â'r agweddau ehangach ar amrywiaeth.	Bydd Bwrdd amrywiol yn cynnwys ac yn defnyddio gwahaniaethau o ran sgiliau, profiad rhanbarthol a diwydiant, cefndir a hil, rhyw a phriodweddau personol, megis dealltwriaeth, asesu beirniadol a chraffter, dewrder, natur agored a gonest ac ymagwedd ystyriol; a'r gallu i wrando, meithrin cydberthnasau ac ennyn ymddiriedaeth.	Mae'r Pwyllgor yn cydbwysu'r ystyriaeth o'r nodweddion hyn, o gofio hefyd fod pob penodiad i'r Bwrdd yn cael ei wneud ar sail teilyngdod, yng nghyd-destun y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar y Bwrdd er mwyn iddo fod yn effeithiol. Ystyrir y ffactorau hyn wrth fwrw ymlaen â'r broses o recriwtio'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.
Bydd y Pwyllgor yn gweithio gyda chwmnïau ymgynghori ar recriwtio sy'n deall gwerthoedd y Grŵp a'i ymagwedd at amrywiaeth a bydd yn nodi ac yn cynnig ymgeiswyr addas.	Bydd y Pwyllgor yn gweithio gyda chwmni ymgynghori ar recriwtio, gan ddilyn proses ddethol a fydd yn sicrhau'r gwerth gorau am arian. Bydd y cwmni wedi llofnodi'r Cod Ymddygiad Gwirfoddol Safonol ar gyfer cwmnïau chwilio gweithredol a bydd yn ymrwymedig i gydymffurfio â'r safonau hynny.	Bydd y Pwyllgor yn parhau i ymgysylltu â'r cwmni ymgynghori ar recriwtio priodol sy'n bodloni'r meini prawf hyn yn ystod ei broses recriwtio.
Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn, yn yr adran o'r Adroddiad Blynyddol sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol, ar y broses y mae wedi'i defnyddio mewn perthynas â phenodiadau i'r Bwrdd, ei gynnydd o ran cadw neu wella amrywiaeth y Bwrdd ac ar gymarebau amrywiaeth o ran y rhywiau.	Gweler tudalennau 155 a 156.	Mae'r adroddiad hwn yn dangos tystiolaeth o waith y Pwyllgor ar y broses ar gyfer penodiadau, cynnydd wrth gadw neu wella amrywiaeth y Bwrdd ac ar amrywiaeth a chynhwysiant rhwng y rhywiau. Drwy adolygu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn, mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo'r gwaith o roi polisiau ar waith i wella amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob rhan o'r busnes. Mae'r adolygiad o'r adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau hefyd yn cynnwys trafodaeth am y camau gweithredu arfaethedig i leihau'r bwlch ymhellach. Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023, ystyriodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth y rhwystrau i adrodd ar y bwlch cyflog o ran ethnigrwydd.
Bydd y Pwyllgor hefyd yn adrodd ar y gwaith o oruchwyllo cynlluniau i hyrwyddo amrywiaeth yn ein gweithlu er mwyn sicrhau bod yr unigolion sy'n gweithio i ni wir yn gynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethir gennym.	Cafodd y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ddiweddariad ar ddenu a chadw gweithlu amrywiol er mwyn adlewyrchu ein cymunedau ym mis Tachwedd 2022.	Mae'r Cwmni wedi gweithio'n galed i gasglu data personol ar nodweddion gwarchodedig. Ers mis Tachwedd 2022, mae'r gyfradd gwblhau ar gyfer ethnigrwydd wedi cynyddu o 73% i 80%. Cefnogodd y Bwrdd y rhaglen o weithgareddau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a gynhaliwyd ar gyfer y busnes ehangach a oedd yn cynnwys ein Cyfarwyddwyr Anweithredol benywaidd yn cymryd rhan yn Rhwydwaith Menywod Dŵr Cymru.
Adolygu ei Bolisi Amrywiaeth bob blwyddyn ac argymhell unrhyw newidiadau i'r Bwrdd.	Caiff y Polisi ei adolygu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.	



Alastair Lyons
Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau
16 Mehefin 2023

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD



Jane Hanson CBE

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

Aelodau eraill:

- Debra Bowen Rees
- Joanne Kenrick

Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 6

> Gweler tudalen 138
am bresenoldeb yng
nghyfarfodydd y Bwrdd a'i
Bwyllgorau

4 Archwilio, Risg a Rheolaeth Fewnol

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei gadeirio gan Jane Hanson sydd â chefnidir cadarn ym maes cyllid, llywodraethu corfforaethol, archwilio a rheoli risg ac sy'n meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Mae pob Aelod o'r Pwyllgor yn Gyfarwyddwr Anweithredol annibynnol ac mae'r Bwrdd yn fodlon bod gan y Pwyllgor yn ei gyfarwydd ddigon o brofiad o'r sector a phrofiad o faterion ariannol.

Ymhlith yr unigolion eraill sy'n mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd mae'r Prif Swyddog Gweithredol, y Prif Swyddog Ariannol, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Prif Swyddog Risg, y Pennaeth Archwilio Mewnol, Ysgrifennydd y Cwmni a chynrychiolwyr o Archwilydd Allanol y Grŵp.

Mae gan y Pwyllgor fynediad anghyfyngedig at reolwyr a chynghorwyr allanol i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau preifat rheolaidd â Phennaeth Dros Dro Archwilio Mewnol (y cyfeirir ato fel y Pennaeth Archwilio Mewnol yn yr adroddiad hwn) a KPMG, heb i reolwyr fod yn bresennol. Cynhelir cyfarfodydd preifat hefyd ar ddiwedd pob cyfarfod o'r Pwyllgor gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol sy'n cyflwyno'r Adroddiad ar Chwythu'r Chwiban ac Ymchwiliadau Arbennig.

Prif gyfrifoldebau

Ar ran y Bwrdd, mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo:

- cywirdeb datganiadau ariannol y Grŵp, gan gynnwys sicrhau ein bod yn rhoi adroddiadau ariannol clir, cyflawn, teg, cytbwys a dealladwy i'n holl randdeiliaid;
- priodoldeb ac effeithiolrwydd ein systemau rheolaeth fewnol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â datgeliadau budd y cyhoedd (chwythu'r chwiban);
- effeithiolrwydd a dibynadwydd ein fframwaith rheoli risg;
- cywirdeb a chynaliadwydd y systemau rheolaeth fewnol fel y'u hadolygydd gan swyddogaethau'r Archwilwyr Mewnol a Sicrwydd Busnes;
- effeithiolrwydd, perfformiad, gwrthrychedd ac annibyniaeth yr Archwilwyr mewnol ac allanol.

Meysydd ffocws gan edrych ymlaen at y FA 24

- Monitro'r broses o bontio o KPMG LLP i Deloitte LLP fel archwilydd allanol y Grŵp a fydd yn dechrau mewn perthynas â FY 24, ar yr amod y caiff ei benodi'n ffurfiol gan ein Haelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.
- Monitro'r broses o ddatblygu a gweithredu allbynnau Ymgynghoriad BEIS: Ailennyn Ymddiriedaeth mewn Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn ein fframweithiau llywodraethu corfforaethol wrth i ragor o ganllawiau gael eu cyhoeddi gan y Llywodraeth. Hefyd, adolygu newidiadau arfaethedig yr FRC i God Llywodraethu Corfforaethol y DU (ymgynghoriad: cyhoeddwyd ym mis Mai 2023).
- Goruchwyllo'r cynnydd o ran Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes y Grŵp ac oeddfedrwydd swyddogaeth risg y Grŵp o dan arweiniad y Prif Swyddog Risg.

Blaenoriaethau	Gweithgarwch y pwyllgor yn y FA 23	Canlyniad gweithgarwch y pwyllgor
Adrodd Ariannol	Adolygodd y Pwyllgor berfformiad ariannol yn fanwl ar ddiwedd yr hanner blwyddyn a diwedd y flwyddyn (datganiadau ariannol) a chafodd adroddiadau rheolaidd gan Archwilydd Allanol y Grŵp, KPMG LLP a rheolwyr y Cwmni ynghylch triniaethau cyfrifyddu.	Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r datganiadau ariannol gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd. Adolygodd y Pwyllgor fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2022 er mwyn sicrhau ei fod yn cyflwyno asesiad teg, cytbwys a dealladwy o statws ariannol y Cwmni. Rhoddodd y Pwyllgor argymhellion y dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r Adroddiadau chwe-misol i Fuddsoddwyr.
Datganiad Busnes Gweithredol a Hyfywedd	Adolygodd y Pwyllgor ddiweddariadau gan yr Archwilydd Allanol mewn perthynas ag ystyriaethau busnes gweithredol ar ddiwedd yr hanner blwyddyn a diwedd y flwyddyn lawn. Adolygodd y Pwyllgor y dull Asesu Hyfywedd Hirdymor a gwnaeth sylwadau arno. Ar ddiwedd y flwyddyn lawn, adolygodd y Pwyllgor y Datganiad am Hyfywedd Hirdymor y Cwmni i'w gynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon.	Mae'r Pwyllgor wedi asesu rhagolygon y Cwmni dros gyfnod o 12 mis o leiaf fel sy'n ofynnol gan y datganiad 'Busnes Gweithredol' ar dudalen 215. Ystyriodd y Pwyllgor hyfywedd ariannol y Grŵp dros y saith mlynedd nesaf hefyd, sef y cyfnod mwyaf priodol i wneud yr asesiad hwn yn y dyfodol yn nhyb y Bwrdd, am ei fod yn cwmpasu gweddill cyfnod yr AMP presennol hyd at 2025 a chyfnod yr AMP nesaf hyd at 31 Mawrth 2030. Nodir y Datganiad am Hyfywedd Hirdymor y Grŵp ar gyfer y FA 23 ar dudalennau 100 i 104. Cytunodd y Pwyllgor ar y dull Asesu Hyfywedd Hirdymor yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023 a chyflwynwyd y drafft cyntaf o'r Datganiad am Hyfywedd Hirdymor ar gyfer y FA 23 i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mai. Argymhellodd y Pwyllgor y Datganiad am Hyfywedd Hirdymor i'w gymeradwyo gan y Bwrdd yng nghyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Mehefin.
Archwiliad Mewnol	Trafodwyd ymatebion rheolwyr i archwiliadau barn anfodddhaol a chyfyngedig gan y Pwyllgor, a chawsont eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud i unioni'r gwendidau rheoli. Os bydd canlyniadau archwilio anfodddhaol caiff y maes busnes ei adolygu eto gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol unwaith y bydd y camau unioni wedi'u cymryd. Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn cyflwyno Adroddiad ar Chwythu'r Chwiban ac Ymchwiliadau Arbennig yn rheolaidd i'r Pwyllgor mewn cyfarfod preifat. Roedd effeithiolrwydd gwaith y swyddogaeth archwilio mewnol yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy ddefnyddio amrywiaeth o fewnbynnau, gan gynnwys gwaith y Pwyllgor i adolygu'r adroddiadau archwilio a luniwyd, rhyngweithio'r Pwyllgor â'r Pennaeth Archwilio Mewnol a diweddariadau ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol.	Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol y FA 23 ac, yn fanwl, ar unrhyw adroddiadau archwilio â chanlyniad llai na 'boddhaol'. Cyflwynodd ei Chynllun Archwilio Mewnol amlinellol ar gyfer y FA 24 hefyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023. Mae'r Adroddiadau ar Chwythu'r Chwiban ac Ymchwiliadau Arbennig yn cynnwys manylion datganiadau newydd er budd y cyhoedd sy'n cael eu gwneud neu eu cyfeirio at y swyddogaeth archwilio mewnol, a'r canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd drwy ymchwilio i honiadau o'r fath. Cynhaliodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio gyfarfodydd un i un misol â'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

4 Archwilio, Risg a Rheolaeth Fewnol – parhad

Blaenoriaethau	Gweithgarwch y pwyllgor yn y FA 23	Canlyniad gweithgarwch y pwyllgor
Systemau Rheolaeth Fewnol a Rheoli Risg	Parhaodd y Pwyllgor i oruchwyllo'r ffordd y mae systemau rheolaethau mewnol a sicrwydd y Cwmni yn gweithredu. Cafodd y Pwyllgor adroddiadau gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ganlyniadau archwiliadau mewnol a oedd wedi'u cynnal yn ogystal ag ymchwiliadau arbennig o ganlyniad i chwythu'r chwiban a digwyddiadau a oedd yn gofyn am ymchwiliadau arbennig. Adolygodd y Pwyllgor gynigion ar gyfer ymgorffori'r parodrwydd i dderbyn risg yn y Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes. Adolygodd y Pwyllgor y Siarter Archwilio Mewnol sy'n nodi cwmpas gwaith ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol ac yn cadarnhau ei hannibyniaeth. Cafodd Systemau Busnes a Chynlluniau Archwilio Ansawdd, sy'n ymdrin yn bennaf â gweithgarwch yn ymwneud â chydymffurfiaeth yn y busnesau dŵr a gwastraff gweithredol, eu hadolygu gan y Pwyllgor cyn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch i'w cymeradwyo.	Yn ogystal ag adolygu canfyddiadau archwiliadau mewnol a oedd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar reolaethau mewnol a rheoli risg, a oedd yn cynnwys adolygiad o risgiau a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol a rhwymedigaeth o ran trwyddedau ac a oedd yn crynhoi gweithgareddau sicrwydd eraill. Adolygodd y Pwyllgor yn feirniadol ymatebion y rheolwyr i ymchwiliadau archwilio mewnol, a gwnaeth fonitro'n agos statws camau rheoli nas cymerwyd eto. Lle y bo'n briodol, bu rheolwyr yn bresennol mewn Cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio er mwyn darparu eu hymateb i archwiliad mewnol ac, os oedd ei angen, cytunwyd ar ddiweddariadau dilynol. Adolygwyd achosion o chwythu'r chwiban a digwyddiadau a oedd yn gofyn am ymchwiliadau arbennig mewn cyfarfodydd preifat a gynhaliwyd yn union ar ôl pob cyfarfod o'r Pwyllgor. Cafodd y Pwyllgor 'ddarlun thematig blynyddol' o achosion o chwythu'r chwiban a gweithgarwch yn ymwneud ag ymchwiliadau arbennig a adolygodd 36 o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod, a thrafododd y sylwadau a'r themâu. Cymeradwyodd y Pwyllgor y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer cynnwys Fframwaith Parodrwydd i Dderbyn Risg Strategol yn y Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Siarter Archwilio Mewnol ac roedd yn fodlon bod y swyddogaeth archwilio mewnol yn parhau i weithredu'n annibynnol. Nododd y Pwyllgor y Systemau Busnes a'r Cynlluniau Archwilio Ansawdd lle mae sicrwydd yn canolbwyntio ar risgiau craidd: lechyd a Diogelwch, Ansawdd Dŵr a'r Amgylchedd. Cynhaliodd Cadeirydd y Pwyllgor gyfarfodydd un i un â Phennaeth Dros Dro Archwilio Mewnol a chyfarfodydd rheolaidd â'r Prif Swyddog Risg ar ôl iddo gael ei benodi i rôl newydd ei sefydlu a ddechreuodd ym mis Ebrill 2022. Mae hefyd wedi cymryd rhan yn y broses recriwtio ar gyfer rôl barhaol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a gafodd ei dal yn flaenorol gan y Prif Swyddog Risg.

Blaenoriaethau	Gweithgarwch y pwyllgor yn y FA 23	Canlyniad gweithgarwch y pwyllgor
Llywodraethu	Gwnaeth y Pwyllgor dderbyn ac adolygu cyflwyniadau rheoleiddiol a phrosesau sicrwydd y Cwmni o ran y canlynol: - yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol, ac Adroddiadau Sicrwydd drafft gan Jacobs a KPMG. Ar yr un pryd, cafodd y Pwyllgor Ddatganiad Risg a Chydymffurfiaeth blynnyddol y Cwmni (a'r Dystysgrif Neilltuo gysylltiedig), ac Adroddiad Sicrwydd drafft Jacobs, ynghyd â phapur Rheolaethau Mewnol y Tîm Gweithredol; - cyhoeddi ein Cynlluniau Codi Tâl ar gyfer y FA 24; - Cyflwyniadau Data Rheoleiddiol Ychwanegol PR24 i'w darparu i Ofwat ym mis Gorffennaf a mis Awst 2023. Adolygodd y Pwyllgor adroddiad mewn perthynas â'r gollyngiadau dŵr a gofnodwyd ar gyfer y FA 22 ym mis Mai 2022 a chafodd ddiweddariadau dilynol ar gynnydd yr adolygiadau o gydymffurfiaeth fewnol a gynhaliwyd, mewn cyfarfod preifat.	Rhoddodd y Pwyllgor adborth i'r Bwrdd ar y prosesau sicrwydd a ddilynwyd ar gyfer y FA 22, gan gynnwys diweddariadau gan Jacobs a KPMG, cyn i'r Bwrdd gymeradwyo'n ffurfiol yr APR cyn y cyhoeddiad ym mis Gorffennaf 2022. Hefyd, cafodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd ar systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg ac ar hynt rhaglenni i wella cydymffurfiaeth a rheolaethau mewnol ym mhob rhan o'r busnes. Dilynodd y Pwyllgor broses debyg wrth adolygu'r broses sicrwydd a oedd yn sail i gymeradwyaeth y Bwrdd o Gynlluniau Codi Tâl y Cwmni ar gyfer 2023-24 ym mis Rhagfyr 2022. Adolygodd y Pwyllgor wyth cais am ddata, a gyhoeddwyd gan Ofwat ym mis Ebrill 2022 er mwyn llywio paratoadau Ofwat ar gyfer proses asesu costau PR24. Goruchwyliodd Cadeirydd y Pwyllgor a Chadeirydd y Bwrdd ar y cyd adolygiad a gynhaliwyd gan y Prif Swyddog Risg a'r Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth, o achosion sylfaenol y problemau adrodd cyn sefydlu'r Pwyllgor Goruchwyllo Gollyngiadau Dŵr, sy'n un o Bwyllgorau'r Bwrdd, er mwyn parhau â'r oruchwyliaeth hon.
	Gwnaeth y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo polisiâu a gweithdrefnau penodol. Roedd y rhain yn cynnwys polisiâu a gweithdrefnau'r Trysorlys a Strategaeth Drethiant y Grŵp cyn iddi gael ei chyhoeddi a chynnydd o ran cydymffurfio â Thelerau Talu Cyflenwyr.	Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r polisiâu hyn yn unol â chylch gorchwyl y Bwrdd. Roedd hyn yn cynnwys diwygio polisiâu a gweithdrefnau'r Trysorlys er mwyn ymgorffori polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu newydd sy'n mesur ac yn rheoli'r risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau arian parod y Grŵp.
	Adolygodd y Pwyllgor Bapur Sefyllfa'r FRC ar Ailennyn Ymddiriedaeth mewn Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022).	Adolygodd y Pwyllgor y "camau nesaf" yn y broses o gyflwyno papur gwyn y Llywodraeth, gan roi rhywfaint o eglurder ynglŷn â rhai camau diwygio y bydd yr FRC yn eu cymryd cyn i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno. Bydd rheolwyr yn cynnal briff gwyllo wrth i ragor o ganllawiau ddod i law.
	Adolygodd y Pwyllgor ei Gylch Gorchwyl a'i effeithiolrwydd fel rhan o'r gwerthusiad allanol o'r Bwrdd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.	Cytunodd y Pwyllgor ar rai diwygiadau i'w Gylch Gorchwyl i'w cymeradwyo gan y Bwrdd. Cafodd ddogfen gan Ysgrifennydd y Cwmni hefyd, a oedd yn dangos bod y Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau. Daeth adolygiad y Pwyllgor o'i berfformiad i'r casgliad bod y Pwyllgor yn gweithio'n dda ac yn parhau i berfformio'n effeithiol.
	Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am feysydd allweddol o gydymffurfiaeth, gan gynnwys ein trefniadau o ran trwydded gweithredu cerbydau, diogelu data, trethi ac yswiriant.	Roedd un enghraifft o ddiweddariad o'r fath yn cynnwys adolygiad o derfynau Yswiriant Eiddo ac Atebolrwydd Cyhoeddus y Grŵp yn dilyn cais gan y Bwrdd, a ddaeth i'r casgliad bod y ddau derfyn yn cynnig lefel briodol o ddiogelwch.
	Cafodd y Pwyllgor sylwadau gan KPMG ar y canlynol: Datganiadau Allweddol yn Ymwneud â Risgiau yn Sgil yr Hinsawdd a Nodyn Atgoffa Allweddol ac Awgrymiadau i Bwyllgorau Archwilio; a meysydd Ffocws Allweddol ar gyfer adroddiadau blynnyddol y FA 23.	Darparodd y Rheolwyr ymatebion i'r 10 cwestiwn y dylai pob Awdurdod Archwilio allu eu hateb mewn perthynas â Datgeliadau yn Ymwneud â Risgiau yn Sgil yr Hinsawdd am ei waith paratoi a'i barodrwydd mewn perthynas ag adrodd yn y dyfodol. Y meysydd ffocws allweddol ar gyfer adroddiadau ar gyfer y FA 23 gan gynnwys y rhai a gyhoeddir gan yr FRC gan gynnwys canfyddiadau cryno adolygiadau'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd, ac ar adroddiadau ar Faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun ARA y rheolwyr ar gyfer y FA 23 ym mis Tachwedd 2022.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

CORFFORAETHOL PARHAD

4 Archwilio, Risg a Rheolaeth Fewnol – parhad

Blaenoriaethau	Gweithgarwch y pwyllgor yn y FA 23	Canlyniad gweithgarwch y pwyllgor
Archwilydd Allanol	Cefnogir y Pwyllgor gan yr Archwilywr Allanol, KPMG LLP. Asesodd y Pwyllgor effeithiolrwydd y broses archwilio allanol, cwrpas yr archwiliad o'r Grŵp ac ansawdd gwaith archwilio drwy gydol y flwyddyn. Adolygodd gadarnhad o annibyniaeth yr Archwilydd Allanol, a gaiff ei gynnwys yn ei adroddiad hanner blwyddyn a'i adroddiad diwedd y flwyddyn i'r Pwyllgor. Noda'r adroddiadau hyn y gweithdrefnau polisi i'r Pwyllgor fodloni ei hun nad oes unrhyw ffactorau a all, neu y gellir ystyried y gallant, amharu ar annibyniaeth a gwrthrychedd y broses archwilio allanol, yn enwedig o ran lefel y ffioedd a godir am waith nad yw'n waith archwilio.	Cyflwynodd KPMG ei gynllun archwilio ar gyfer y FA 23 i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2022 a rhoddodd wybod am y cynnydd roedd wedi'i wneud yn ei erbyn yng nghyfarfodydd diweddarach y Pwyllgor. Hefyd, tynnodd y cynllun archwilio sylw at newidiadau mewn rheoliadau llywodraethu a chyfrifyddu a threth a fydd yn effeithio ar adroddiadau ariannol.
	Cafodd y Pwyllgor adroddiadau hanner blwyddyn gan KPMG ar y Cynllun Archwilio a Strategaeth KPMG ar gyfer y FA 23 ym mis Tachwedd 2022, ac ym mis Mai 2023, o oedd yn cynnwys canlyniadau'r archwiliad diwedd y flwyddyn. Roedd pob adroddiad yn cynnwys cadarnhad o annibyniaeth gan KPMG a llythyr sylwadau gan reolwyr i KPMG.	Gwnaeth y Pwyllgor adolygu a chymeradwyo adroddiadau hanner blwyddyn a blwyddyn lawn KPMG, gan gynnwys cadarnhadau o annibyniaeth, ar ôl bodloni ei hun nad amharwyd ar wrthrychedd y Partner Archwilio Allanol na'r staff archwilio, gan gynnwys mewn perthynas â darparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio (gweler tudalen 226 am fanylion ffioedd). Cymeradwyodd y Pwyllgor y llythrau sylwadau rheolwyr a gafodd eu llofnodi wedyn gan y Prif Swyddog Ariannol ar ran y Cwmni a chawsant eu cyflwyno i KPMG.
	Adolygodd y Pwyllgor y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran yr adolygiad mewnol o effeithiolrwydd yr archwilydd allanol a gynhaliwyd ar ôl yr archwiliad statudol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn y FA 22 a'r canlyniadau yn dilyn yr adolygiad mewnol hwnnw. Cefnogodd yr ymarfer hwn waith cynllunio ar ddiwedd y flwyddyn yn y FA 23.	Cyflwynwyd canlyniadau'r adolygiad hwn, ynghyd â meysydd i'w gwella a awgrymwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol, i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2022. Cafodd y rheolwyr adroddiad hefyd ar y gwersi a ddysgwyd o broses diwedd y flwyddyn ariannol a drafodwyd wedi hynny â'r archwilydd allanol fel rhan o'r broses o baratoi ar gyfer yr archwiliad statudol diwedd y flwyddyn ar gyfer y FA 23. Sefydlwyd Pwyllgor Risg a Rheoli Cyllid ar lefel Cyfarwyddwyr Gweithredol (sy'n atebol i'r Prif Swyddog Ariannol) ac adolygwyd cylch gorchwyl y pwyllgor hwnnw gan y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023.
	Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd KPMG i drafod yr Adolygiad o Ansawdd Archwilio y cwmni a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol ym mis Gorffennaf 2022.	Trafododd James Ledward, partner archwilio allanol KPMG, adolygiad yr FRC sy'n monitro ansawdd gwaith archwilio, i'r Pwyllgor, a nododd arferion da yn ogystal â rhai meysydd i'w gwella.
	Cyflwynodd y Pwyllgor ei argymhellion i'r Bwrdd benodi Archwilydd y Grŵp ar ôl i'r broses dendro am wasanaethau archwilio gael ei chwblhau.	Gweler dros y dudalen am ragor o fanylion a'r penderfyniad i benodi Archwilydd y Grŵp, yn amodol ar gymeradwyaeth ein Haelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

Adroddiad ariannol ac amcangyfrifon a dyfarniadau sylweddol

Yn ystod y FA 23, ystyriodd y Pwyllgor y materion penodol canlynol mewn perthynas ag adroddiadau ariannol ar y canlyniadau interim a diwedd y flwyddyn.

Dyfarniad ac amcangyfrifon Allweddol	Testun adolygiad y Pwyllgor Archwilio	Casgliadau
Darparu amhariadau a symiau derbyniadwy	Y dull o bennu'r tâl am ddrwgddyledion.	Ar ôl asesu'r perfformiad casglu arian parod ar hyn o bryd, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y ddarpariaeth drwgddyledion gyfredol yn briodol, ond y caiff hyn ei fonitro'n fanwl yng ngoleuni'r amodau economaidd presennol.
Dosbarthu costau	Dosbarthu rhwng gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf.	Adolygwyd y ffordd y mae costau'n cael eu dosbarthu rhwng gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf ac ystyriwyd ei bod yn briodol.
Rhesymoldeb tybiaethau rhwymedigaethau pensiwn buddiannau diffiniedig	Y tybiaethau sy'n cael eu cymhwyso at brisio pensiynau sy'n cynnwys cyfraddau disgowntio a chwyddiant.	Daeth adolygiad y Pwyllgor o'r tybiaethau mewn perthynas â chyfraddau disgowntio a chwyddiant a gymhwyswyd at brisio pensiynau i'r casgliad eu bod o fewn yr ystod o dybiaethau derbyniol ar y cyfan.
Y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer cynnydd mewn pensiwn	Y dyfarniad cyfrifyddu mewn perthynas â'r ffordd y caiff cynnydd mewn buddiannau pensiwn uwchlaw cyfradd chwyddiant o 5% ei drin.	Ystyriwyd bod adolygiad y Pwyllgor o'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer cynnydd mewn pensiwn drwy'r datganiad o incwm a'i gydnabod fel eitem eithriadol, yn briodol.
Prisio buddsoddiad gan y rhiant-gwmni	Nodi'r prisiad o fuddsoddiad y rhiant-gwmni mewn is-gwmnïau ar werth teg gan ddefnyddio model llif arian parod wedi'i ddisgowntio.	Nodwyd bod y defnydd o ragolygon llif arian parod yn y dyfodol a Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio fel gwerth terfynol yn briodol.

> Trafodir y materion uchod yn fanylach yn adroddiad yr archwilywyr ar dudalen 200.

Tendr am wasanaethau archwilio

Fel y nodir yn adroddiad diwethaf y Pwyllgor yn Adroddiad Blynyddol 2022, byddai ymarfer aildendro am wasanaethau archwilio allanol yn cael ei gynnal yn y FA 22 a'r FA 23. Mae KPMG LLP wedi'i benodi yn archwilydd allanol y Grŵp ar ôl i broses tendro am wasanaethau archwilio dryloyw ac annibynnol gael ei chwblhau yn 2015 ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol 2015-16. Fodd bynnag, ar adeg ei benodi, cafodd KPMG gcontract am gyfnod o hyd at bum mlynedd a fyddai'n dod i ben yn hydref 2020. Er nad oedd yn ofynnol i'r Grŵp dendro am y gwasanaethau archwilio allanol presennol tan 2025, pan fyddai KPMG wedi bod yn gwasanaethu fel archwilydd y Grŵp am 10 mlynedd, roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn ddoeth aildendro am y gwasanaethau hyn ac ymrwymo i gyfnod contract sy'n cyd-fynd yn agosach ag arfer safonol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau archwilio allanol.

Dilynodd y Pwyllgor nodiadau cyfarwyddyd y Cyngor Adrodd Ariannol ar arferion gorau ar gyfer tendrau am wasanaethau archwilio yn ystod y broses dendro am wasanaethau archwilio allanol.


Dechreuodd y cynllun coffael ar gyfer y tendr archwilio, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2021, ym mis Rhagfyr 2021. Caniatawyd cyfnod ar ôl Cam Cyn-Gymhwyso'r broses i'r tri chwmni a oedd yn cymryd rhan yn y broses ymgysylltu â Dŵr Cymru, cyn cyflwyno tendrau ym mis Awst 2022. Argymhellodd y Pwyllgor o leiaf ddau o'r cwmnïau, gan nodi'n glir p'un o'r ddau gwmni roedd yn ei ffafrio i'w benodi'n archwilydd y Cwmni, i'r Bwrdd, er mwyn i'r Bwrdd ei gymeradwyo. Cytunodd y Bwrdd wedyn i gyflogi Deloitte LLP fel archwilydd y Cwmni, yn amodol ar gymeradwyoeth ffurfiol ein Haelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf. Roedd Deloitte LLP yn bresennol fel arsylwr yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ym mis Mai a mis Mehefin 2023, a oedd yn canolbwyntio ar y cymeradwyoethau a oedd yn ymwneud â'r adroddiad diwedd y flwyddyn ariannol a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

Gwasanaethau a ffioedd nad ydynt yn ymwneud ag archwilio

Polisi'r Grŵp yw peidio â defnyddio'r Archwilydd Allanol ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio yn gyffredinol, a bod unrhyw waith nad yw'n waith archwilio yn ddarostyngedig i Bolisi Coffael y Grŵp. Rhaid i unrhyw ffioedd nad ydynt ar gyfer gwaith archwilio a delir i Archwilydd Allanol naill ai gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor ymlaen llaw (neu, os nad oes modd gwneud hynny, gan Gadeirydd y Pwyllgor ac yna eu nodi mewn adroddiad i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf). Er mwyn cydymffurfio â diwygiadau'r FRC i'r Cod, mae cap ar ffioedd ar gyfer gwaith nad yw'n waith archwilio ym mhob rhan o'r Grŵp, sef 70% o'r ffi archwilio statudol allanol dros gyfnod o dair blynedd i'r Grŵp mewn unrhyw flwyddyn ariannol, yn gymwys o'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020. Yn ystod y FA 23, roedd ffioedd archwilio datganiadau ariannol y Grŵp yn £535,000 (y FA 22: £390,000), ac roedd ffioedd ar gyfer gwasanaethau sicrwydd a oedd yn gysylltiedig ag archwilio yn £111,000 (y FA 22: £92,000) ac roedd ffioedd ar gyfer gwasanaethau eraill nad oeddent yn gysylltiedig ag archwilio yn £71,000 (y FA 22: £68,000). O ganlyniad, roedd ffioedd ar gyfer gwaith nad oedd yn waith archwilio yn cyfrif am 11.0% (y FA 22: 12.4%) o gyfartaledd y ffioedd archwilio dros y tair blynedd diwethaf, sydd ymhell o fewn y terfyn. Am ragor o fanylion am wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio a ddarparwyd gan KPMG, gweler nodyn 3 i'r Datganiadau Ariannol ar dudalen 226.

Adrodd ar Ollyngiadau Dŵr – Datganiadau Ariannol y FA 23

Ystyriodd y Pwyllgor y ffordd yr ymdriniwyd ag achosion o gamadrodd ar ollyngiadau dŵr a defnydd y pen yn natganiadau ariannol y FA 23.



Jane Hanson
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
16 Mehefin 2023

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD



**Graham Edwards
OBE**

Cadeirydd y Pwyllgor
Ansawdd a Diogelwch

Aelodau eraill:

- Debra Bowen Rees
- Tom Crick
(tan fis Chwefror 2023)
- Jane Hanson
(tan fis Tachwedd 2022)
- Alastair Lyons
- Barbara Moorhouse
(o fis Ionawr 2023)
- Lila Thompson
(o fis Medi 2022)
- Peter Perry

Ymgynghorwyr annibynnol:

- David Elliott
(Arbenigo ym maes
perfformiad Amgylchedd
a Dŵr Gwastraff)
- Milo Purcell
(Arbenigo ym maes Dŵr
ac Iechyd y Cyhoedd)

Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 8

> Gweler tudalen 138
am bresenoldeb yng
nghyfarfodydd y Bwrdd
a'i Bwyllgorau

4 Archwilio, Risg a Rheolaeth Fewnol – parhad

Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

Prif gyfrifoldebau

Ar ran y Bwrdd mae'r Pwyllgor yn monitro perfformiad gweithredol y Cwmni bob chwarter, ac yn monitro'r broses o reoli a lliniaru risgiau i'r busnes yn sgil materion gweithredol, amgylcheddol ac iechyd a diogelwch.

Mae'r Pwyllgor yn gwneud y canlynol hefyd:

- adolygu perfformiad gweithredol Dŵr Cymru o ran dŵr a dŵr gwastraff, ac asesu priodoldeb strategaethau gwella;
- asesu adroddiadau blynyddol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Argaeau a'r Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch, ac yn argymhell y rhain i'r Bwrdd i'w cymeradwyo;
- adolygu a dylanwadu ar y cynllun rheoli iechyd a diogelwch a'r ffordd y caiff ei gyflawni;
- sicrhau bod Dŵr Cymru yn cyflawni ei gyfrifoldebau am iechyd y cyhoedd ac am ddarparu dŵr yfed glân a diogel a glanweithdra dŵr gwastraff yn unol â'r holl safonau perthnasol;
- sicrhau bod gan y Cwmni drefniadau argyfwng a diogelwch digonol yn unol â chanllawiau statudol cyfredol megis gofynion Seilwaith Cenedlaethol Critigol (CNI), Strategaeth Diogelwch Amddiffynnol a'r Gyfarwydddeb Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (SEMD);
- adolygu a chytuno ar systemau gweithredol a rhaglen archwilio sicrhau ansawdd y Cwmni a chael canfyddiadau adroddiadau archwilio yn ymwneud â darpariaeth gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff;
- adolygu canfyddiadau ymchwiliadau i unrhyw fethiant o ran ansawdd dŵr, yr amgylchedd, diogelwch, neu wasanaeth cwsmeriaid. Caiff Adolygiadau o Ddigidyddiadau Difrifol eu harwain gan Brif Swyddog Gweithredol Dŵr Cymru, sy'n cyfarfod â'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr/Dŵr Gwastraff perthnasol neu'r Cyfarwyddwr Cyflawni Cyfalaf, fel y bo'n briodol, er mwyn cynnal yr adolygiad ac yna baratoi adroddiadau manwl ar yr achos(ion) sylfaenol a nodwyd, goblygiadau ehangach unrhyw ddigidyddiad a'r cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau parhaus;

- herio'r Tîm Gweithredol mewn ffordd adeiladol i sicrhau gwelliant parhaus o ran perfformiad gweithredol.

Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y FA 23, mae gweithgareddau'r Pwyllgor wedi cynnwys adolygu:

- adroddiadau chwarterol a blynyddol ar Iechyd a Diogelwch;
- adroddiadau perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Dŵr a Dŵr Gwastraff, gydag adroddiadau yn cael eu cyflwyno ar fethiannau safonau ansawdd, a chydymffurfiaeth â phrosesau mewnol, ynghyd â chynlluniau gwella ar gyfer y meysydd hyn;
- adroddiadau risgiau strategol (gan gynnwys adolygiad o risgiau rheoleiddiol amgylcheddol sy'n dod i'r amlwg a gynhelir bob chwe mis) a chynlluniau lliniaru perthnasol;
- strategaethau ar gyfer meysydd busnes allweddol gan gynnwys Strategaeth Atal Llygredd, Strategaeth Cydymffurfio ar gyfer Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff (gan gynnwys llif a theclynnau monitor digwyddiadau a'u hyd (EDM)), Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, Strategaeth Gollyngiadau Dŵr, Strategaeth Rheoliad 26 (trin a diheintio dŵr)/Rheoliad 27/28 (Asesu Risg) a Diweddariad ar Risgiau y Cynllun Diogelwch Dŵr Yfed (DWSP), Rheoli Dalgylchoedd, Strategaeth Llifogydd, Fframwaith Asesu Gorlifoedd Storm, Strategaeth Diogelwch Amddiffynnol a Strategaeth Atal Cryptosporidiwm;
- yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Argaeau ac adolygiad o ganlyniadau Asesiadau Risg Portffolio ar gyfer argaeau cronfeydd dŵr a gwaith cynnal a chadw parhaus a wneir gan y tîm Prosiectau Cyfalaf;
- diweddariadau ar waith Panel Cynghori Annibynnol y Cwmni ar yr Amgylchedd;
- ei gylch gorchwyl a'i effeithiolrwydd ac fel rhan o'r gwerthusiad blynyddol wedi'i hwyluso'n allanol o'r Bwrdd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Daeth yr adolygiad hwnnw i'r casgliad bod y Pwyllgor yn gweithio'n dda ac yn parhau i berfformio'n effeithiol.


Blaenoriaethau	Gweithgarwch y pwyllgor yn y FA 23	Canlyniad gweithgarwch y pwyllgor
Monitro lechyd a Diogelwch yn ofalus	Cyflwynwyd Adroddiadau lechyd a Diogelwch blynyddol a chwarterol gan y Cyfarwyddwr lechyd a Diogelwch, ac adolygodd y Pwyllgor adroddiadau ar ddigwyddiadau lechyd a Diogelwch, damweiniau y bu bron iddynt ddigwydd neu risgiau posibl hefyd.	Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiadau a'u herio'n adeiladol a rhoddodd ddiweddariadau i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod. Nododd y Pwyllgor waith y Grŵp Diogelwch Prosesau a'i feysydd gweithgarwch allweddol ar gyfer y FA 24 a chymeradwyodd y Datganiad Polisi am lechyd, Diogelwch a Llesiant ar ran y Bwrdd.
Clywed yn uniongyrchol gan ein rheoleiddwyr allweddol ar eu meysydd â blaenoriaeth i'r Cwmni	Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau ar ein perfformiad gan Brif Arolygydd yr Arolygiaeth Dŵr Yfed a Chyfarwyddwyr Cyfoeth Naturiol Cymru.	Mae'r rhain yn gyfleoedd cadarnhaol i ymgysylltu â rheoleiddwyr allweddol. Cawsom adborth ar ein perfformiad a'r meysydd i'w gwella. Daeth adolygiad a gynhaliwyd gennym ar y cyd â'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i'r casgliad bod mesur Yfed cyffredinol yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ar y Mynegai Risg Cydymffurfio wedi gwella i 5.4 yn 2022 o gymharu â 9.77 yn 2021, er bod ansawdd dŵr ein rhwydwaith, sy'n cynnwys cydymffurfiaeth o ran haearn ac achosion o afliwio, yn dal i fod yn her i ni. Nododd adolygiad a gynhaliwyd ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru fod y prif ffactorau sy'n sail i Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol y Cwmni wedi gostwng o 3* i 2*, yn enwedig y cynnydd yn nifer yr achosion difrifol o lygredd a aseswyd.
Adolygu'n fanwl ymateb y Cwmni i ddigwyddiadau tywydd difrifol	Adolygodd y Pwyllgor adolygiadau ar ôl digwyddiad o'r sychder yn ystod yr haf, pan gofnodwyd y cyfnod sychaf erioed yng Nghymru a'r tywydd rhewlyd a'r cyfnod o ddadmer ym mis Rhagfyr 2022, pan oedd y tymereddau yng Ngorllewin Cymru yn cyfateb i dymereddau yn Ucheldiroedd yr Alban. Pan ddechreuodd y dadmer ynghynt na'r disgwyl, achosodd hyn ollyngiadau yn ein rhwydwaith ac yn eiddo cwsmeriaid ac, o ganlyniad, cofnodwyd y gostyngiad cyflymaf erioed yn y dŵr yn ein system ddosbarthu.	Nododd y Pwyllgor y camau lliniaru a gymerwyd a'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad i wersi a ddysgwyd. Caiff gwerthusiad manylach o'r sychder yn ystod yr haf ei gynnwys yn ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr cyhoeddedig. Ar gyfer y tywydd rhewlyd a'r cyfnod o ddadmer, comisiynwyd adolygiad annibynnol gan Jacobs a'r Grŵp Herio Annibynnol mewn perthynas â'n hymateb i'r digwyddiad. Cyflwynwyd y ddau Adroddiad annibynnol i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ac Ofwat.
Monitro perfformiad gweithredol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer dŵr yfed a safonau amgylcheddol	Ym mhob cyfarfod mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau rheoli gan y canlynol: - Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr, Cynllunio Asedau a Chyflawni Cyfalaf; - Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr Gwastraff, Cwsmeriaid Busnes ac Ynni; - Y diweddaraf o ran gohebiaeth reoleiddiol gan y Pennaeth Polisi Ansawdd a Chydymffurfiaeth.	Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiadau yn erbyn 'dangosfyrddau' a oedd yn nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas â DPAu a nodwyd gan y Pwyllgor, a heriodd yr adroddiadau hynny'n adeiladol.
Adolygu diweddariadau cynnydd yn erbyn strategaethau gweithredol allweddol	Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau cynnydd mewn perthynas â strategaethau gweithredol yn rheolaidd, gan gynnwys: - Munudau Cwsmeriaid a Gollir - Trin a diheintio dŵr - Haearn a Derbynioldeb i Gwsmeriaid - Plwm - Gollyngiadau Dŵr - Llygredd - Carthffosydd yn gorlifo	Ystyriwyd faint o gynnydd a oedd wedi'i wneud o ran rhoi'r strategaethau gweithredol ar waith a chytunwyd ar flaenoriaethau byrdymor a thymor canolog. Cafodd y Pwyllgor bapur mewn perthynas ag adrodd ar ollyngiadau dŵr ar ddiwedd y flwyddyn ym mis Mai 2022. Darparwyd diweddariadau dilynol ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran yr adolygiadau gweithredol a gynhaliwyd drwy adroddiadau rheolaidd y rheolwyr i'r Pwyllgor a'r Bwrdd. Roedd hyn yn cynnwys Papur ar Adfer Ar ôl Gollyngiadau Dŵr ar gyfer AMP7 a gyflwynwyd i bob aelod o'r Bwrdd ym mis Mai 2023.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

4 Archwilio, Risg a Rheolaeth Fewnol – parhad

Blaenoriaethau	Gweithgarwch y pwyllgor yn y FA 23	Canlyniad gweithgarwch y pwyllgor
Sesiynau addysgu ar faterion technegol	Treuliodd y Pwyllgor amser ychwanegol ar sesiynau 'at wraidd y mater' ar faterion a oedd yn cael budd o adolygiad manwl. Yn ystod y flwyddyn, roedd y rhain yn cynnwys: - Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr - Strategaeth Arloesi 2022, cyn iddi gael ei lansio yn ein Cynhadledd Arloesi ym mis Medi 2022.	Roedd y diweddariad ar y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ar ffurf sesiwn addysgu ar elfennau allweddol y Cynllun gyda newidiadau allweddol yn cael eu nodi, gan gynnwys diweddaru'r amcanestyniadau ar gyfer newid yn yr hinsawdd a'r gallu i wrthsefyll sychder gan symud i sail dadansoddi sychder o 1 mewn 200. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor, ynghyd ag aelodau eraill o'r Bwrdd, ar y fersiwn wedi'i diweddaru o'r Strategaeth Arloesi, a gymeradwywyd.
Parhau i fonitro prosiectau cyfalaf "pibellau mewn argaeau" mewn nifer o leoliadau cronfeydd dŵr	Adroddiad blynyddol ar Ddiogelwch Argaeau, gan gynnwys adolygiad o'r prosiect "pibellau mewn argaeau".	Nododd yr adroddiad blynyddol fod disgwyl i 49 o 'Fesurau er Diogelwch' (MITIOS) gael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn a bod yr holl fesurau ond dau wedi'u cyflwyno; roedd cynnydd da wedi'i wneud o ran rhaglen gyfalaf 'Pibellau mewn Argaeau' ac roedd gwaith bellach wedi'i gwblhau mewn 17 o'r 26 o argaeau â blaenoriaeth. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar Ddiogelwch Argaeau.
Llywodraethu	Adolygodd y Pwyllgor: - Ei gylch gorchwyl - Blaenamserlen o eitemau agenda ar gyfer 2022-23 Hefyd, adolygodd y Pwyllgor ei effeithiolrwydd fel rhan o'r gwerthusiad manwl o'r Bwrdd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.	Daeth adolygiad y Pwyllgor o'i berfformiad i'r casgliad bod y Cylch Gorchwyl yn dal i fod yn briodol a bod y Pwyllgor wedi parhau i wneud cynnydd da yn ystod 2022-23. Yn dilyn adolygiad o Gylch Gorchwyl pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd a'r ffordd y mae'n cael ei fapio yn erbyn y Materion a Gedwir yn Ôl i'r Bwrdd, nododd y Pwyllgor y meysydd a oedd wedi'u hailddyrannu o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch i Bwyllgorau eraill o'r Bwrdd a fyddai'n weithredol yn ystod 2023-24.

Ar ôl gwasanaethu am naw mlynedd ar Fwrdd Glas Cymru Holdings Cyfyngedig a Dŵr Cymru Cyfyngedig, byddaf yn rhoi'r gorau i'm rolau fel Cyfarwyddwr Anweithredol, yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 7 mis Gorffennaf 2023. Bydd Barbara Moorhouse, a ymunodd â'r Bwrdd ym mis Ionawr 2023, yn fy olynu fel Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a bydd Joanne Kenrick, sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hwy fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar y Bwrdd, yn ymgymryd â rôl yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol. Bydd y ddau benodiad yn weithredol o ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Hoffwn ddymuno'n dda iddynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau ychwanegol.



Graham Edwards

Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

16 Mehefin 2023



Yr Athro Tom Crick MBE

Cadeirydd y Pwyllgor
Technoleg

Aelodau eraill:

- Joanne Kenrick
- Alastair Lyons
- Rob Norris,
Prif Swyddog Technoleg
- Peter Perry

Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 4

> Gweler tudalen 138
am bresenoldeb yng
nghyfarfodydd y Bwrdd a'i
Bwyllgorau

Cadeirir y Pwyllgor Technoleg
gan yr Athro Tom Crick, sydd â
phrofiad helaeth ym meysydd
cyfrifiadu, seiberddiogelwch a
gwyddor data.

Mae Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr,
Cynllunio Asedau a Chyflawni
Cyfalaf yn mynychu holl
gyfarfodydd y Pwyllgor.

4 Archwilio, Risg a Rheolaeth Fewnol – parhad

Adroddiad y Pwyllgor Technoleg

Prif gyfrifoldebau

Cymeradwyo'r strategaethau a
ddatblygir ar gyfer darpariaeth
technoleg gwybodaeth (TG), technoleg
weithredol (TW) a diogelwch
gwybodaeth er mwyn helpu i gyflawni
amcanion busnes y Grŵp yn y tymor
canolig yn y ffordd fwyaf effeithlon ac
yn unol â'r parodrwydd i dderbyn risg a
nodwyd gan y Grŵp.

Adolygu'r cynlluniau gweithredu i
gyflawni strategaethau technoleg y
Grŵp a goruchwyllo'r cynnydd sy'n
cael ei wneud, gan gynnwys adolygu
ac olrhain cynnydd rhwymedigaethau'r
Grŵp o dan Reoliadau Systemau
Rhwydwaith a Seilwaith 2018.

Meysydd ffocws gan edrych ymlaen at y FA 24

Adolygu a monitro cynnydd o ran y
canlynol:

- Trawsnewid y tîm Gwasanaeth TG a'i
ddatblygu'n barhaus, gan gynnwys
- Rhaglen ddiogelwch, gan gynnwys
ffocws cynyddol ar seiberfygythiadau
oherwydd y sefyllfa geowleidyddol
(e.e. Wcrâin), cynyddu ein lefel
aeddffedrwydd diogelwch CMMI i lefel
aeddffedrwydd darged o 3 yn 2023 a
gwella ymwybyddiaeth o risgiau seiber
ym mhob rhan o'r busnes
- Y cyfnod ar ôl rhoi'r rhaglen mudo i
gyfrifiadura cwmwl ar waith
- Rhoi gweddill Cynllun Buddsoddi
AMP7 ar waith a chynllunio
buddsoddi ar gyfer PR24 (AMP8)
gan gynnwys uwchraddio SAP
S/4HANA
- Monitro pa mor barod yw'r Cwmni
ar gyfer terfynu Rhwydwaith Ffôn
Cyhoeddus Analog y DU yn 2025.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

4 Archwilio, Risg a Rheolaeth Fewnol – parhad

Prif weithgareddau	Gweithgarwch y pwyllgor yn y FA 23	Canlyniad gweithgarwch y pwyllgor
Strategaeth TG	Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau strategol ym mhob cyfarfod a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol: - Gweddill Cynllun Buddsoddi AMP7 a'i gysoni â'r Strategaeth Technoleg; - Cynnydd o ran y model cyflawni newydd a sefydlwyd yn y FA 22, gan gynnwys rolau ein partneriaid allweddol a'r ffin mewnol fel rhan o Raglen Trawsnewid y Gwasanaeth TG; - taith barhaus y Cwmni i'r Cwmwl; - Cynnydd o ran cynllun buddsoddi AMP8. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar gynnydd 'Ar Ddiwedd y Flwyddyn Gyntaf' a diweddariad ar gynnydd o ran SAP S/4HANA gan Bennaeth gweithredol Cymwysiadau Busnes a benodwyd yn y FA 22. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau blynyddol ar strategaethau'r Cwmni mewn perthynas â'r canlynol: Strategaeth Data a Phlatform Data Busnes (EDP), Strategaeth SMART (rhwydwaith dŵr a dŵr gwastraff) a Rheoli Larymau.	Ystyriodd y Pwyllgor y strategaeth bresennol, y dirwedd dechnoleg a gallu timau/partneriaid, yng nghyd-destun cynllun cyflawni AMP7 a'r gwaith o baratoi Cynllun Technoleg AMP8 yn unol â chynlluniau tymor hwy'r Grŵp. Bu'r Pwyllgor yn monitro goruchwyliaeth rheolwyr o'r gydberthynas â phartner cefnogi Cwmwl allweddol a'i berfformiad. Cafodd aelodau'r Bwrdd sesiwn 'addysgu' gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cwmwl Mobilise, ar bwnc trosglwyddo i wasanaethau Cwmwl. Bu'r Pwyllgor yn monitro cynnydd a goruchwyliaeth llywodraethu rhaglen Cwmwl nes i'r prosiect gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2023. Nododd y Pwyllgor fod cynnydd da wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r bwlch o ran galluoedd galluogi drwy ddefnyddio cymwysiadau, mabwysiadu methodoleg fwy ystwyth ac ymgorffori trefniadau llywodraethu priodol. Nododd y Pwyllgor y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran y strategaethau hyn ers eu cam datblygu cynnar ac argymhellodd y dylid ychwanegu cyflwyniad i bob aelod o'r Bwrdd ar y Strategaeth Data/EDP at Flaenamserlen y Bwrdd.
Gwybodaeth a Seiberddiogelwch	Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau gan y Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth ym mhob cyfarfod ar y cynnydd o ran Cynllun Diogelwch Gwybodaeth AMP7, gan gynnwys: - cynlluniau adfer, Model Gweithredu Targed Seiber (TOM) a chyllid ychwanegol i gefnogi ein rhaglen diogelwch gwybodaeth; - Risgiau diogelwch gwybodaeth allweddol, gan gynnwys adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol a dangosyddion risg allweddol; - diweddariadau ar gynnydd o ran y rhaglen waith diwylliant ac ymwybyddiaeth seiber gyda Dŵr Cymru, sy'n cynnwys map ffordd tair blynedd ar gyfer diwylliant seiberddiogelwch gan gynnwys sicrhau gwell lefel o aeddfedrwydd seiberddiogelwch. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar y dirwedd fygythiadau bresennol gan gynnwys mwy o weithgarwch seiber (e.e. ymosodiadau Atal Gwasanaeth a Ddosberthir (DDos) ac ymosodiadau meddalwedd wystlo) mewn sefydliadau Seilwaith Cenedlaethol Critigol.	Bu'r Pwyllgor yn monitro cynnydd o ran cyflwyno'r Rhaglen Diogelwch Gwybodaeth yn ofalus, gan gynnwys risgiau i ddiogelwch a llywodraethu a gweithgareddau a'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen i gynyddu ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch ac atgyfnerthu'r diwylliant seiber yn Dŵr Cymru. Adolygodd y Bwrdd ac uwch-swyddogion Gweithrediadau Diogelwch gynlluniau'r Cwmni o ran ei allu i wrthsefyll seiberfygythiadau yng nghyd-destun y mewnbwn hwn. Dyma flaenoriaeth y Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth a'r Tîm Seiberddiogelwch o hyd gyda diweddariadau mwy rheolaidd yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor, fel y bo'n briodol. Adolygodd y Pwyllgor yr ymateb i'r ymosodiad seibr DDoS ar wefan y Cwmni ym mis Gorffennaf 2022 a chanlyniad ein cyfranogiad yn ymarfer seiber Marvel NATO yn gynharach yn 2023, lle y daethom yn drydydd allan o'r 30 o sefydliadau a gymerodd ran yn yr ymarfer.

Prif weithgareddau	Gweithgarwch y pwyllgor yn y FA 23	Canlyniad gweithgarwch y pwyllgor
Technoleg Weithredol	Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar berfformiad ym maes Technoleg Weithredol a mesurau diogelwch. At hynny, cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau hanner blwyddyn ar gynnydd o ran ein cydymffurfiaeth â Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Seilwaith 2018 gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed yn dilyn asesiad yr Arolygiaeth Dŵr Yfed o'n hymatebion Fframwaith Asesu Seiber. Adolygodd y Pwyllgor yr effaith y bydd terfynu Rhwydwaith Ffôn Cyhoeddus Analog y DU, sef y seilwaith telathrebu cyhoeddus analog etifeddol, yn 2025 yn ei chael ar y Cwmni.	Bu'r Pwyllgor yn monitro'r defnydd ehangach o dechnoleg i ddiogelu asedau gweithredol y Cwmni. Cefnogir hyn drwy gyfuno rhaglenni Seiberddiogelwch presennol y Gwasanaeth TG a TW er mwyn sicrhau y caiff technoleg ei chyflwyno a'i defnyddio'n gyson yn y ddau amgylchedd. Nododd y Pwyllgor y cynnydd cadarnhaol a oedd wedi'i wneud o ran cydymffurfiaeth o dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Seilwaith sy'n cynnwys mesurau cyfreithiol i ddiogelu gwasanaethau hanfodol, sy'n cynnwys dynodi 'cyflenwi a dosbarthu dŵr yfed' yn wasanaeth hanfodol. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r ffordd y mae'n rheoli'r broses bontio hon, drwy ymateb gan y Cwmni a'r diwydiant drwy Grŵp Strategaeth Gweithrediadau Water UK, gan ystyried datrysiadau technolegol gwahanol sy'n briodol i'n hasedau yr effeithir arnynt. Cyflwynir diweddariadau i'r Pwyllgor ym mhob cyfarfod.
Llywodraethu	Gyda mewnbwn gan y Prif Swyddog Technoleg a'r Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth, adolygodd y Pwyllgor ei gylch gorchwyl, yn ogystal ag asesu sut roedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn ariannol. Hefyd, adolygodd y Pwyllgor ei effeithiolrwydd fel rhan o'r gwerthusiad manwl o'r Bwrdd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.	Cymeradwyodd y Pwyllgor fân newidiadau i'w gylch gorchwyl. Daeth adolygiad y Pwyllgor o'i berfformiad i'r casgliad bod y Pwyllgor wedi gwneud cynnydd da yn ystod y FA 23 o ran ei oruchwyliaeth o ddarpariaeth TG, TW a diogelwch gwybodaeth y Grŵp.

Technoleg Cwmwl


Mae'r broses barhaus o symud i gyfrifiadura cwmwl yn ystod y FA 23 yn alluogydd pwysig i'r Gwasanaeth TG ganolbwyntio mwy ar sicrhau gwerth i'r busnes drwy dechnoleg a meithrin ei alluoedd o ran cymwysiadau busnes, systemau cwmwl a thechnolegau gweithle modern, gyda chyfleoedd posibl i gyfuno'r galluoedd ymhellach ar draws y busnes ehangach.

Cynllunio Buddsoddi ar gyfer AMP8

Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran datblygu cynllun Buddsoddi mewn Technoleg AMP8, sy'n cyd-fynd â'r strategaethau busnes a TG. Mae'r cynllun yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r ffactorau ysgogi allweddol ar gyfer plattfformau technoleg gan gynnwys darfordiad systemau, gan gynnal ffocws cryf ar seiberddiogelwch a chydnerthedd, Mae'r broses hon wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth TG feithrin dealltwriaeth well o gyfeiriad y busnes a'r cyfleoedd i fanteisio ar blatfformau technoleg er mwyn sicrhau bod y busnes yn effeithlon a'i drawsnewid i wella profiad cwsmeriaid a phrofiad y gweithlu maes. Mae hyn ochr yn ochr â'r broses barhaus o drawsnewid tîm y Gwasanaeth TG tuag at fanteisio ar dechnolegau Cwmwl a meithrin diwylliant a arweinir gan arloesedd.

Goruchwyliaeth y Pwyllgor

Noda'r Pwyllgor ddatblygiad cadarnhaol parhaus gallu'r Cwmni i wrthsefyll ymosodiadau seiber ac mae cynnydd ym mhob un o'r gweithrediadau TG a Diogelwch wedi'i gefnogi gan Raglen Trawsnewid y Gwasanaeth TG sy'n dal i fynd rhagddi. Oherwydd y nifer cynyddol o seiberfygythiadau byd-eang, yn enwedig i sefydliadau Seilwaith Cenedlaethol Critigol, mae'r Cwmni yn amharod i gymryd risgiau yn wyneb y lefelau cynyddol hyn o fygythiad a byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn technolegau a seilwaith seiberddiogelwch priodol, yn ogystal â datblygu ei ddiwylliant seiber ymhellach. Bydd hefyd yn goruchwyllo cynlluniau'r Cwmni i wneud y defnydd gorau posibl o blatfformau Cwmwl a'i waith paratoi ar gyfer uwchraddio i SAP S/4HANA.



Tom Crick

Cadeirydd y Pwyllgor Technoleg

16 Mehefin 2023

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD



Debra Bowen Rees

Cadeirydd y Pwyllgor ACLI

Aelodau eraill:

- Jane Hanson
- Alastair Lyons
- Lila Thompson
(o fis Ionawr 2023)
- Peter Perry
- Mike Davis

Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 5

> Gweler tudalen 138
am bresenoldeb yng
nghyfarfodydd y Bwrdd a'i
Bwyllgorau

Yn absenoldeb Cadeirydd
y Pwyllgor a/neu ei dirprwy
enwebedig, a fydd hefyd yn
Gyfarwyddwr Anweithredol, bydd
yr aelodau eraill sy'n bresennol
yn ethol un o'u plith i gadeirio'r
cyfarfod.

4 Archwilio, Risg a Rheolaeth Fewnol – parhad

Adroddiad y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

Prif gyfrifoldebau

Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor fel a ganlyn:

- Datblygu a goruchwyllo Strategaeth ACLI y Grŵp, gan gynnwys y diffiniad o amcanion allweddol yn y strategaeth;
- Monitro perfformiad yn erbyn targedau ACLI y Grŵp a dangosyddion perfformiad allweddol;
- Adolygu cynnydd y Grŵp tuag at gyflawni ei Darged Lleihau Carbon;
- Ystyried partneriaethau trydydd parti yr ymrwymwyd iddynt mewn perthynas â'r Strategaeth ACLI;
- Ystyried y confensiynau adrodd ac amrywiaeth y metrigau ACLI y dylai'r Cwmni eu mabwysiadu;
- Cymeradwyo sut y caiff y Strategaeth ACLI ei chyflueu'n fewnol ac yn allanol;
- Ystyried adroddiadau'r Cwmni i'r Asiantaethau Asesu Statws ACLI, a'r dewis o asiantaethau asesu statws i'w defnyddio ar gyfer asesiad;
- Adolygu'r gofynion adrodd arfaethedig ar Faterion ACLI ac asesiad y Cwmni o'u goblygiadau, yn strategol ac yn weithredol i fusnes y Cwmni a'i enw da;
- Sicrhau bod gan y Cwmni bolisiâu priodol i gefnogi ei Fframwaith ACLI yn effeithiol, yn enwedig ei effaith ar yr amgylchedd.

Meysydd ffocws gan edrych ymlaen at y FA 24

- Goruchwyllo adolygiad perthnasedd o feysydd perfformiad allweddol er mwyn sicrhau bod mesurau ACLI yn cael eu monitro ac yr hysbysir y Pwyllgor perthnasol o'r Bwrdd amdanynt, a blaenoriaethu'r meysydd hynny sydd bwysicaf i'n rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y cânt eu hadolygu gan y Pwyllgor ac, wrth wneud hynny, fod y Pwyllgor yn cyflawni ei amcanion;
- Goruchwyllo statws ACLI y Grŵp yn seiliedig ar ei adroddiadau ar gyfer 2022-23;
- Adolygu cynnydd yn erbyn polisiâu allweddol sy'n berthnasol i Strategaeth ACLI y Grŵp;

- Adolygu cynnydd y Cwmni tuag at gyflawni ei Dargedau Lleihau Carbon a phob agwedd ar brosesau adrodd sy'n ymwneud â'r hinsawdd;
- Adolygu a yw Strategaeth ACLI y Grŵp yn cael ei chyflueu'n effeithiol i randdeiliaid a'i chynnydd.

Y FA 23 oedd ail flwyddyn y Pwyllgor ers iddo gael ei sefydlu ym mis Mehefin 2021. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi bod yn adeiladu ar y gwaith sylfaen a gwblhawyd ganddo yn ystod ei flwyddyn gyntaf ac mae wedi gwneud cryn gynnydd o ran ei strategaeth a'i brosesau adrodd a rheoli a goruchwyllo risgiau a chyfleoedd ACLI. Mae hyn wedi cynnwys datblygu'r Strategaeth a'r amcanion ACLI ymhellach a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) y mae'r Pwyllgor yn eu defnyddio i fonitro perfformiad yn erbyn targedau ACLI y Grŵp. Yn ystod 2024, byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein Strategaeth ACLI yn cyd-fynd â chynlluniau gweithredol a chynlluniau buddsoddi ar gyfer PR24.

At hynny, dyma'r ail flwyddyn y mae'r Cwmni wedi cyflwyno adroddiad ar y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd. Mae gwaith y flwyddyn hon wedi helpu i ddwyn ynghyd gynnwys cydlynus mewn gwahanol adroddiadau, gan gynnwys y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd, Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd a Chompact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig, sydd oll yn bwydo i mewn i'n gwaith cynllunio ar gyfer PR24. Gan adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y FA diwethaf, yn 2024 byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu prosesau adrodd ymhellach tuag at gydymffurfiaeth lawn â gofynion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd.

Yn ystod y flwyddyn, penododd y Pwyllgor Sustainable Fitch (sef is-adron ACLI Fitch Ratings) i asesu statws ACLI y Grŵp, a arweiniodd at ddyfarnu '2' (proffil ACLI 'Da')

Yn y FA 23 dangosir ffocws y Pwyllgor yn y gweithgareddau a nodir isod.

Blaenoriaethau	Gweithgarwch y pwyllgor yn y FA 23	Canlyniad gweithgarwch y pwyllgor
Strategaeth		
Fframwaith ACLI	Adolygodd y Pwyllgor Ddogfen y Fframwaith ACLI ac awgrymodd ddiwygiadau er mwyn cydnabod y 10 Amcan Strategol a'r mesurau strategol sy'n sail iddynt.	Mae'r fersiwn wedi'i diweddaru o Ddogfen y Fframwaith ACLI yn cefnogi ein prosesau adrodd yn y dyfodol yn well, o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ein Nodau Llesiant o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i waith cynllunio busnes a strategaeth hirdymor y Cwmni.
Strategaeth ACLI Cyhoeddir y Strategaeth ACLI ar wefan y Grŵp yn https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/environmental-downloads	Adolygodd y Pwyllgor berfformiad yn erbyn 10 Amcan ACLI y Cwmni, a oedd yn cynnwys archwiliadau trylwyr o'r meysydd canlynol: • Strategaeth Carbon Sero Net • Buddsoddiad gan y Gronfa Gymunedol • Y Cynllun Rheoli Bioamrywiaeth (gweler isod) • Caffael Cynaliadwy (gweler isod) • Strategaeth Atyniadau Ymwelwyr • Rheoli Adnoddau Naturiol yn Strategol • Perfformiad busnes Dalgylchoedd Dŵr • Gwaith i sicrhau buddiannau pendant yn y cymunedau a wasanaethir gennym • Denu a chadw gweithlu amrywiol er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym • Sicrhau fforddiadwyedd – Cynllunio ar gyfer PR24 • Addasu i heriau yn y dyfodol (gweler yr Adroddiadau ar Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd isod) • Gwaith cynllunio hirdymor a chynaliadwyedd	Ystyriodd a heriodd y Pwyllgor berfformiad y Cwmni gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol a oedd yn gysylltiedig â'r amcanion ACLI. Mae'r Pwyllgor wedi cefnogi cynnig i gynnal ymarfer perthnasedd dwbl yn y flwyddyn oriannol gyfredol er mwyn nodi pa rai o'r 36 o DPAAu sy'n cefnogi amcanion y Pwyllgor orau a rhoi blaenoriaeth iddynt. Bydd hyn yn ein galluogi i fapio'n well y materion ACLI pwysicaf i'n rhanddeiliaid (yn fewnol ac yn allanol) a bydd hefyd yn nodi meysydd sy'n gorgyffwrdd gan y bydd adroddiadau ar rai o'r DPAAu hyn yn cael eu cyflwyno drwy Bwyllgorau eraill o'r Bwrdd. Bydd y gwaith hwn yn darparu fframwaith gwell fyth ar gyfer cyflwyno adroddiadau blynyddol penodol ac yn galluogi'r Pwyllgor i ganolbwyntio adnoddau ar y materion hynny sy'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor y busnes ac yn bodloni disgwyliadau rhanddeiliaid orau.
Amgylcheddol		
Adroddiad Bioamrywiaeth	Adolygodd y Pwyllgor yr Adroddiad Bioamrywiaeth blynyddol cyn iddo gael ei gyhoeddi.	Cymeradwywyd yr Adroddiad Bioamrywiaeth gan y Pwyllgor ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023.
Strategaeth Carbon Sero Net	Mae'r Pwyllgor wedi cael diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflwyno'r strategaeth, gan gynnwys ar y canlynol: • y gwaith arloesi ac ymchwil sy'n cael ei arwain gan y Cwmni ar ran y sector o ran mesur a datblygu systemau er mwyn rheoli allyriadau sy'n dianc o'r broses trin carthion, • dichonoldeb cynhyrchu Hydrogen o fionwy gan ddal carbon • hyrwyddo trefniadau gwifrau preifat er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian a chynhyrchu pŵer yn lleol ar gyfer ein safleoedd.	Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am i Fap Ffordd ar gyfer Cyflawni'r Strategaeth gael ei lunio er mwyn tynnu sylw at y risgiau cysylltiedig a'r angen am fuddsoddiad ychwanegol.
Cymdeithasol		
Cydberthnasau Allweddol â Rhanddeiliaid	Adolygodd y Pwyllgor gydberthnasau allweddol â rhanddeiliaid a'r camau a oedd yn deillio o hynny.	Mae hyn yn ategu dealltwriaeth y Pwyllgor o'r ffordd y mae'r Cwmni yn rhwyngweithio â rhanddeiliaid allweddol ynghylch materion ACLI yn rheolaidd, yn ogystal â gwella ein dealltwriaeth o ddisgwyliadau rhanddeiliaid a'n heffaith ar y byd y tu allan.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

4 Archwilio, Risg a Rheolaeth Fewnol – parhad

Blaenoriaethau	Gweithgarwch y pwyllgor yn y FA 23	Canlyniad gweithgarwch y pwyllgor
Caffael Cynaliadwy	Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran datblygu Polisi Caffael Cynaliadwy gan y tîm Caffael. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o effaith gwariant Dŵr Cymru ar economi Cymru a ddangosodd fod y Cwmni, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn cefnogi lefelau uchel o weithgarwch economaidd yng Nghymru (gweler tudalen 65 am ragor o fanylion).	Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Polisi Caffael Cynaliadwy arfaethedig â tharged ar gyfer cwblhau'r gwaith o'i roi ar waith erbyn mis Mawrth 2024. Am ragor o fanylion am y Polisi Caffael Cynaliadwy, gweler tudalen 111.
Gweithlu Amrywiol	Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cymorth Busnes a Phobl gyflwyniad i'r Pwyllgor ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran denu a chadw gweithlu amrywiol er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym.	Nododd y Pwyllgor fod 78% o'r gweithlu wedi datgan eu profil ethnig, a oedd yn welliant sylweddol a oedd yn golygu ein bod yn symud yn agosach at allu cymharu Dŵr Cymru â Chymru yn gyffredinol h.y. roedd 2.71% o'r rhai a ddatganodd eu hethnigrwydd yn dod o gefndir ethnig o gymharu ag amrywiaeth ethnig yng Nghymru a oedd tua 5%.
Llywodraethu a Risg		
Adrodd ar ACLI	Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiad ar ACLI yn yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon, gan gynnwys y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd. Adolygodd hefyd gynigion gan y rheolwyr ynglŷn â llunio adroddiad ar Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd a dull o ymdrin ag adroddiadau'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â Natur.	Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad noratif ar ACLI yn Adroddiad Blynnyddol y FA 22, a oedd yn cynnwys adroddiad ar garbon a'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd, a chymeradwyodd y adroddiad noratif hwnnw i'w gymeradwyo'n derfynol gan y Bwrdd. Mae Dŵr Cymru yn llunio Adroddiad ar Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd i gefnogi prosesau adrodd y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd a gwaith cynllunio ar gyfer PR24. Caiff yr adroddiad ei adolygu gan y Pwyllgor cyn iddo gael ei gyhoeddi yn 2023. Mae Dŵr Cymru yn aelod o'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â Natur, a sefydlwyd yn 2021, ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r sefydliad er mwyn deall sut y gallai'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â Natur fod o werth i'r sector dŵr. Bydd y Pwyllgor yn ystyried canllawiau ffurfiol y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â Natur y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Medi 2023.
Sgôr ac Achrediadau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu	Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gofyn am statws gan Sustainable Fitch er mwyn dangos ymrwymiad y Grŵp i faterion ACLI. Adolygodd y Pwyllgor restr o achrediadau ACLI.	Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Statws ACLI Sustainable Fitch gyda sgôr o 2 (yr uchaf yw 1, yr isaf yw 5) yn seiliedig ar ei adroddiad ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ar gyfer y FA 22. Nododd y Bwrdd argymhellid yr adroddiad y dylid cynnal y sgôr hon a gwella arni.
Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig	Ymrwymodd y Pwyllgor i gyflawni 10 amcan Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig ym mis Mawrth 2022.	Bydd y Pwyllgor yn goruchwyllo'r gwaith o gwblhau adroddiad y Cwmni ar amcanion Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig drwy blatfform digidol, y mae ei amseriad yn cyd-daro â chyflwyno'r Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon.
Risgiau ACLI	Adolygodd y Pwyllgor risgiau a chyfleoedd ACLI bob chwe mis. Caiff y risgiau hyn eu mapio yn erbyn gwaith Rheoli Risgiau Busnes y Grŵp ac mae'r gwaith o'u datblygu wedi bwydo i mewn i adroddiadau'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd mewn perthynas â risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.	Cydnabu'r Pwyllgor y risgiau sy'n dod o dan y Fframwaith ACLI yn erbyn y rhai a fyddai'n cael eu goruchwyllo o fewn y meysydd busnes lle yr ymdrinnir â'r risg neu gan Bwyllgor arall o'r Bwrdd h.y. y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r holl risgiau ACLI nad oeddent yn cael eu goruchwyllo'n uniongyrchol rywle arall yn y busnes yn cael eu goruchwyllo'n uniongyrchol gan y Pwyllgor.
Effeithiolrwydd y Pwyllgor ACLI	Adolygodd y Pwyllgor ei Gylch Gorchwyl yn sgil y newidiadau a wnaed i Ddogfen y Fframwaith ACLI. Hefyd, adolygodd y Pwyllgor ddogfen a asesodd y ffordd roedd ei ddyletswyddau, fel y'u nodir yn y Cylch Gorchwyl, wedi cael eu cyflawni.	Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw ddiwygiadau wedi cael eu cynnig i'w Gylch Gorchwyl o ganlyniad i'r adolygiad hwn. Daeth adolygiad y Pwyllgor o'i berfformiad i'r casgliad ei fod wedi gwneud cynnydd da yn y FA 23.



Joanne Kenrick

Cadeirydd y Pwyllgor
Cydnabyddiaeth

Aelodau eraill:

- Debra Bowen Rees
- Tom Crick
- Alastair Lyons

Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 6

> Gweler tudalen 138
am bresenoldeb yng
nghyfarfodydd y Bwrdd a'i
Bwyllgorau

Bu Cadeirydd y Pwyllgor yn
aelod o'r Pwyllgor am naw
mis cyn cael ei phenodi'n
Gadeirydd y Pwyllgor, ac mae
ganddi brofiad perthnasol
o fod yn Gadeirydd Pwyllgor
Cydnabyddiaeth i gwmni arall
ers 2018.

5 Cydnabyddiaeth

Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Trosolwg o'r adroddiad hwn:

Adran 1: Datganiad y Cadeirydd

Mae'n rhoi trosolwg o weithgareddau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn ac yn esbonio'r cyd-destun busnes lle mae penderfyniadau ynghylch tâl wedi'u gwneud, ar gyfer ein Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r gweithlu yn gyffredinol.

Adran 2: cysoni tâl a pherfformiad, egwyddorion cydnabyddiaeth a chanllawiau Ofwat

Mae'n amlinellu'r egwyddorion cydnabyddiaeth y cytunwyd arnynt sy'n sail i'n hathroniaeth ynglŷn â thâl a'r ffordd rydym yn ystyried buddiannau a barn ein rhanddeiliaid allweddol wrth bennu polisi a chanlyniadau cydnabyddiaeth,

Adran 3: Polisi Cydnabyddiaeth arfaethedig ar gyfer 2023-25

Mae'n nodi ein polisi cydnabyddiaeth ar gyfer gweddill cyfnod AMP7, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2023.

Adran 4: tâl y flwyddyn diwethaf (y FA 23)

Dengys y symiau a dalwyd i'n Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn perthynas â'r FA 23 a'r ffordd y gwnaethom berfformio yn erbyn y targedau a bennwyd ar gyfer tâl amrywiadwy.

Adran 5: penderfyniadau ynghylch tâl ar gyfer y flwyddyn nesaf 2023-24 (y FA 24)

Mae'n amlinellu dull y Pwyllgor o weithredu'r Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer y FA 24 ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Adran 6: gwybodaeth bwysig arall

Dengys wybodaeth statudol allweddol arall fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Adrodd ar Gydabyddiaeth Cyfarwyddwyr.

Prif gyfrifoldebau

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am argymhell y canlynol i'r Bwrdd ac Aelodau Glas eu cymeradwyo: (i) Polisi Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol drwy bleidlais gyfrwysmol o leiaf bob tair blynedd (neu'n gynharach, os bydd yn cyd-daro â chylch AMP newydd) a (ii) yr Adroddiad Blyneddol ar Gydabyddiaeth drwy bleidlais gynghorol bob blwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn pennu cydnabyddiaeth Cadeirydd y Bwrdd, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Tîm Gweithredol, o fewn paramedrau'r Polisi Cydnabyddiaeth cymeradwy. Er bod Cadeirydd y Bwrdd yn aelod o'r Pwyllgor, nid yw'n rhan o unrhyw benderfyniadau am ei gydnabyddiaeth ei hun. Wrth arfer ei gyfrifoldebau, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn goruchwyllo polisi cydnabyddiaeth y gweithlu a pholisïau cysylltiedig eraill, a'r broses o gysoni cymhellion a dyfardaliadau â diwylliant a Diben y Cwmni, gan ystyried y pwyntiau hyn wrth bennu Polisi Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a gwneud penderfyniadau blyneddol ar gydnabyddiaeth.

Gan mai yn 2023 y cymeradwywyd ein Polisi ddiwethaf, cynhelir pleidlais ar y polisi yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2023. Rydym yn cynnig rhai mân ddiwygiadau i'r polisi presennol, fel y'u nodir ar dudalen 180. Cynhelir ein hadolygiad llawn nesaf yn 2025 i gyd-fynd â dechrau'r AMP newydd.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Cydnabyddiaeth – parhad

Mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi'i nodi'n fanwl yn ei gylch gorchwyl sydd ar gael yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/terms-of-reference>.

Yn ystod y FA 23, cafodd y Pwyllgor gyngor annibynnol gan Deloitte LLP (tan fis Rhagfyr 2022) a Korn Ferry (o fis Ionawr 2023). Roedd Deloitte LLP wedi gwasanaethu fel cyngorydd i'r Cwmni ers 2020, ond gan ei fod wedi cael ei benodi'n archwilydd allanol, bu'n rhaid i ni aildendro am gyngorydd newydd. Dewiswyd Korn Ferry yn dilyn proses dendro gystadleuol. Mae Deloitte LLP a Korn Ferry wedi ymrwymo i God Ymddygiad Grŵp yr Ymgynghorwyr Cydnabyddiaeth a chaiff y cyngor a roddir ganddynt ei lywodraethu gan y Cod.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y cyngor a gafwyd gan Deloitte LLP a Korn Ferry yn annibynnol ac yn wrthrychol. Talwyd cyfanswm o £37,900 ynghyd â TAW mewn ffioedd i Deloitte LLP (y FA 22: £36,950 ynghyd â TAW). Talwyd cyfanswm o £44,136 ynghyd â TAW mewn ffioedd i Korn Ferry.

Adran 1: Datganiad Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Annwyl Aelodau Glas

Ar ran y Bwrdd, mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Cydnabyddiaeth ar gyfer y FA 23.

Cyd-destun busnes, cyflogaion ac aelodau Cyd-destun busnes

Bu'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 (y FA 23) yn un o'r blynyddoedd mwyaf heriol yn hanes diweddar y diwydiant dŵr. Gwnaethom wynebu problemau gweithredol a achoswyd gan dywydd eithafol (megis y cyfnod hir o sychder a'r tywydd poeth iawn yn yr haf a chyfnodau o dywydd rhewllyd yn y gaeaf). Dylanwadodd y digwyddiadau hyn ar y galw am ddŵr a'n heffaith amgylcheddol (er enghraifft, drwy'r risg i waith trin carthion oherwydd lefelau dŵr isel) a'n galluoedd gweithredol (megis toriadau yn y cyflenwad a gollyngiadau dŵr a achoswyd gan bibellau yn torri, a oedd i'w briodoli i'r ddoear yn symud yn yr haf a'r tywydd rhewllyd a'r cyfnod o ddadmer yn y gaeaf).

Eleni, mae perfformiad cwmnïau dŵr, yn arbennig o ran diogelu iechyd ein hafonydd a'n dyfroedd ymdrochi, wedi bod o dan y chwyddwyd yn fwy nag erioed. Mae ein Manifesto ar gyfer Afonydd yng Nghymru yn nodi'r buddsoddiad rydym yn bwriadu ei wneud er mwyn mynd i'r afael yn gyntaf â'r agweddau hynny lle y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i ansawdd dŵr.

O safbwynt economaidd, rydym ni a'n cwsmeriaid wedi wynebu amgylchedd chwyddiant eithriadol o uchel ac rydym wedi gweithio'n galed i gefnogi ein cyflogaion a'n cwsmeriaid yn ystod y cyfnod anodd iawn hwn, gan gydnabod, ar yr un pryd, na allwn ddiogelu'r rhanddeiliaid hyn yn llwyr rhag canlyniadau'r argyfwng costau byw.

Yn erbyn y cefndir hwn, rydym wedi llwyddo i gael sgoriau uchel ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid (gan ddod yn drydydd ymhlith cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn arolwg boddhad cwsmeriaid C-MeX Ofwat), a gwella ansawdd ein dŵr ar ôl iddo ostwng yn y flwyddyn flaenorol.

Wedi dweud hynny, mae gennym lawer o waith i'w wneud o hyd i gynllunio ar gyfer y dyfodol, yn arbennig er mwyn lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd a sicrhau y gall ein busnes wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. O ganlyniad, wrth i ni gynllunio ar gyfer y cylch rheoleiddiol nesaf, rydym yn bwriadu cynyddu ein buddsoddiad yn ein seilwaith yn sylweddol yn yr hirdymor, er mwyn i ni allu ateb yr heriau sy'n gysylltiedig â gollyngiadau dŵr, toriadau yn y cyflenwad dŵr a diogelu ein hamgylchedd, yn fwy effeithiol.

Mae'r canlyniadau perfformiad ar gyfer tâl amrywiadwy mewn perthynas â 2023, fel y'u nodir isod, yn adlewyrchu'r heriau hyn ac, fel yr esboniwyd, yn erbyn y cefndir hwn y mae Peter Perry a Mike Davies wedi dewis peidio â derbyn eu tâl amrywiadwy mewn perthynas â'r FA 23.

Ailddatgan Adroddiadau Rheoleiddiol ar gyfer Blynyddoedd Blaenorol

Fel yr amlinellir yn llythyr Cadeirydd y Bwrdd ar dudalen 24, yn ystod y FA 23, nododd ein prosesau sicrwydd mewnol wallau yn ein hadroddiadau rheoleiddiol mewn perthynas â'r FA 21 a'r FA 22, a arweiniodd at gamddatgan y ffigurau ar gyfer gollyngiadau dŵr a'r defnydd o ddŵr y pen ar gyfer y blynyddoedd hynny.

Ystyriodd y Pwyllgor yn fanwl yr effaith y byddai'r ffigurau wedi'u camddatgan wedi'i chael ar ein canlyniadau o ran tâl amrywiadwy yn y blynyddoedd hynny.

Yn achos AVPS, nid oedd DPAau ar gyfer gollyngiadau dŵr na DPAau ar gyfer defnydd y pen yn fesurau yn y naill flwyddyn na'r llall ac, felly, ni chawsant unrhyw effaith ar unrhyw daliadau amrywiadwy a wnaed mewn perthynas â'r blynyddoedd hynny.

Yn achos LTVPS, mae gollyngiadau dŵr a defnydd y pen yn elfennau o ran Datblygu Perfformiad y Cynllun. Gwneir hyn drwy asesu cosbau'r Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau (ODI) a gronwyd ar draws cerdyn sgorio eang y mae gollyngiadau dŵr a defnydd y pen yn elfennau ohono. Fodd bynnag, nid oes unrhyw daliadau wedi'u gwneud o dan yr elfen Datblygu Perfformiad ar gyfer y naill flwyddyn na'r llall ac, felly, nid yw ailddatgan y ffigurau yn cael unrhyw effaith ar daliadau amrywiadwy a wnaed yn y cynllun hirdymor.

Yn olaf, mae'r Pwyllgor wedi ystyried a fyddai unrhyw addasiad ehangach i'r canlyniadau o ran tâl amrywiadwy wedi digwydd, petai'r lefelau gwirioneddol o ollyngiadau dŵr wedi cael eu cofnodi'n gywir ar y pryd. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y canlyniadau o ran tâl amrywiadwy ar gyfer y FA 21 a'r FA 22 yn dal i adlewyrchu perfformiad corfforaethol cyffredinol y busnes yn y blynyddoedd hynny. Hefyd, derbyniodd y Pwyllgor gynnig y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Cyllid i beidio â derbyn eu tâl amrywiadwy ar gyfer y FA 23. Er nad oedd y penderfyniad i beidio â derbyn eu tâl amrywiadwy ar gyfer y FA 23 yn gysylltiedig â'r Adolygiad o Adroddiadau Rheoleiddiol yn unig, mae'n adlewyrchu eu hymrwymiad llwyr i wneud y peth cywir i'n cwsmeriaid mewn cyfnod heriol iawn i'r busnes a'r diwydiant dŵr.

Cyd-destun cyflogaion

Mae cydnabyddiaeth cyflogaion a phrofiad ehangach cyflogaion yn flaenoriaeth uchel sy'n rhan greiddiol o'r hyn rydym yn ei wneud fel cwmni, a'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud a'r trafodaethau rydym yn eu cynnal fel Pwyllgor. Bu'n flwyddyn arbennig o heriol i lawer o bobl ac rydym yn ymwybodol bod angen sicrhau bod ein cyflogaion, yn enwedig mewn rolau sy'n ennill cyflogau is, yn cael cymorth ychwanegol, i'r graddau sy'n bosibl. Ar yr un pryd, rhaid i ni hefyd reoli costau ein cyflogaion gan ystyried y penderfyniad ynghylch AMP7 ac anghenion ein cwsmeriaid sydd hefyd yn agored i heriau economaidd tebyg.

Ar gyfer y FA 24, rydym wedi cytuno ar godiad cyflog i gyflogaion o 6.2% ar gyfer ein gweithlu ehangach, ynghyd â thaliad costau byw untro o naill ai £1,000 neu £2,000 a wneir i gyflogaion cymwys (gyda'r rhai sy'n ennill y cyflogau isaf yn cael y swm uchaf) yn ystod y FA 23.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein proses ymgysylltu â chyflogaion ac rwyf wedi cyfarfod â grŵp ffocws bach o gydweithwyr o'r tu mewn i'r busnes er mwyn deall eu safbwyntiau ar eu cydnabyddiaeth eu hunain, ac wedi esbonio a thrafod y ffordd y mae ein hegwyddorion yn cael eu cymhwyso ar lefel Cyfarwyddwyr Anweithredol.

Roedd ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2022 (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023) yn dangos bod y bwlch rhwng ein cyflogaion gwrywaidd a benywaidd wedi lleihau ymhellach i 3.6%. Y bwlch bonws canolrifol yw sero oherwydd natur gynhwysol y cynllun gwobrwy cydweithwyr. Mae hyn yn golygu bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau hefyd wedi lleihau o 6.6% yn 2021 i 6.0% yn 2022. Mae'r lleihad parhaus yn ein bylchau cyflog i'w briodoli'n rhannol i'r cynnydd yn nifer y menywod mewn uwch-rolau, yn ogystal â'r ffaith bod cynrychiolaeth ganrannol dynion mewn rolau is wedi cynyddu ychydig.

Cydnabyddiaeth ar gyfer y FA 23

- Codiad cyflog i gyflogaion yn weithredol o 1 Ebrill 2022: 4.8%
- Taliad costau byw untro i gyflogaion cymwys: o naill ai £1,000 neu £2,000, a dalwyd ym mis Rhagfyr 2022
- Taliadau o £1,000 a wnaed o dan y cynllun gwobrwy cydweithwyr ym mis Mehefin 2022
- Cyfran y Cwmni o Gynlluniau Tâl Amrywiadwy Cyflogaion a dalwyd ym mis Gorffennaf ar 47.5%
- Bwlch cyflog rhwng y rhywiau 3.6% ar y canolrif (cymedr o 6.0%) dyddiad ciplun 5 Ebrill 2022 (cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023)

Cydnabyddiaeth ar gyfer y FA 24

- Codiad cyflog i gyflogaion yn weithredol o 1 Ebrill 2023: 6.2%
- Taliadau o £1,000 o dan y cynllun gwobrwy cydweithwyr a delir ym mis Gorffennaf 2023
- Cyfran y Cwmni o Gynlluniau Tâl Amrywiadwy Cyflogaion a delir ym mis Gorffennaf ar 31.2%
- Datblygu ein trefniadau ar gyfer rheoli'r bwlch cyflog seiliedig ar amrywiaeth, gyda mwy nag 80% o gydweithwyr bellach yn cyflwyno eu data

Rydym hefyd wedi dechrau casglu data ar ethnigrwydd er mwyn i ni allu deall unrhyw dueddiadau allweddol yn y maes hwn a mynd i'r afael â nhw. Er nad ydym mewn sefyllfa eto i adrodd ar y metrig hwn, bydd y Pwyllgor yn parhau â'i ymrwymiad parhaus i ddatblygu diwylliant tâl graddoledig, tryloyw a chynhwysol. Rydym yn falch o fod wedi cyflawni ein targed i gasglu 80% o ddata yn 2023.

Cyd-destun aelodau

Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried barn ein Haelodau wrth wneud penderfyniadau. Yn 2022, cafwyd rhai cwestiynau a phwyntiau o esboniad gan ein Haelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, sydd wedi'u hystyried gennym yng nghyfarfodydd ein Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Lle roedd yn briodol, cafodd pwyntiau o'r fath eu hystyried wrth adolygu ein Polisi Cydnabyddiaeth a phennu lefelau cydnabyddiaeth.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Cydnabyddiaeth – parhad

Gwaith allweddol a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y FA 23

Adolygiad o'r Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer 2023

Gan ein bod wedi mabwysiadu trefniadau llywodraethu sy'n gymwys i gwmni rhestredig cyhoeddus, er nad ydym yn gwmni rhestredig, cyflwynwn ein Polisi Cydnabyddiaeth i Aelodau Glas ei gymeradwyo bob tair blynedd. Cafodd ein Polisi Cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr ar gyfer AMP7 ei gymeradwyo ddiwethaf gan Aelodau Glas yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar 3 Gorffennaf 2020 ac, felly, bydd yn rhaid i'n Polisi gael ei adnewyddu gan Aelodau Glas yn 2023.

Cynhelir ein hadolygiad llawn nesaf o'r polisi yn 2025 i gyd-fynd â'r Penderfyniad ynghylch AMP8.

Meysydd ffocws eraill i'r Pwyllgor yn y FA 23

Yn ogystal ag adolygu'r polisi ar gyfer 2023-25, parhaodd y Pwyllgor i ganolbwyntio ar roi ein trefniadau cydnabyddiaeth parhaus ar waith yn llwyddiannus. Yn benodol, rydym wedi ystyried gweithrediad manwl y Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor (LTVPS). Er i'r ymarfer hwn dynnu sylw at rai problemau o ran y ffordd y mae'r cynllun wedi'i strwythuro ar gyfer cyfnod yr AMP presennol, sef AMP7, yn enwedig y dull o fesur cyfrifiadau'r Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau (ODI) yn yr elfen ymrwymiadau perfformiad, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad na ddylid gwneud unrhyw newidiadau ar yr adeg hon. Ceir rhagor o fanylion am y canlyniad o dan LTVPS ar gyfer y FA 23 (asesiad interim) isod.

O ran y Cynllun Tâl Amrywiadwy Blyneddol (AVPS), y gwnaed rhai diwygiadau ar ei gyfer y flwyddyn diwethaf er mwyn symleiddio a chydbwysu'r targedau ar gyfer perfformiad yn y FA 23, rydym wedi monitro effeithiolrwydd y newidiadau hyn. Aeth y newidiadau a wnaed ar gyfer y FA 23 i'r afael â phryderon blaenorol y Pwyllgor a bydd dull gweithredu tebyg yn parhau i gael ei fabwysiadu yn y FA 24. Fodd bynnag, rydym wedi dewis newid y pwysoliadau ar gyfer targedau perfformiad o dan y cynllun ac, yn 2023-24, bydd y pwysoliadau yn seiliedig 30% ar fetrigau cwsmeriaid, 50% ar fetrigau gweithredol ac 20% ar fetrigau strategol, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd canolbwyntio ar gyflawni ein nodau gweithredol. At hynny, byddwn yn cyflwyno metrig cynaliadwyedd (cilomedrau o afonydd a wellwyd) yn lle ein metrig ymgysylltu â chyfflogeion, am ein bod wedi gwneud cynnydd da o ran y metrig hwn a bod gennym lefelau ymgysylltu uchel, tra bod cilomedrau o afonydd a wellwyd yn un o'n DPAau amgylcheddol craidd.

Isod, rhoddir rhagor o fanylion am y canlyniad o dan AVPS ar gyfer y FA 23 a chyfansoddiad cerdyn sgorio AVPS ar gyfer y FA 24.

Canlyniad yr adolygiad o'r polisi cydnabyddiaeth

Gan ein bod bellach ym mhedwaredd blwyddyn cylch AMP7, y cafodd ein polisi presennol ei lunio yn seiliedig arno, dim ond mân newidiadau sy'n cael eu cynnig yn yr Adolygiad o'r Polisi yn 2023.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ychwanegu mwy o hyblygrwydd at y pwysoliad ym metrigau perfformiad AVPS er mwyn i gyfanred metrigau Cwsmeriaid a metrigau Gweithredol fod o leiaf 75% (gan leihau'r pwysoliad sefydlog blaenorol ar bob un, sef 40%)
- Newid strwythur ein dull o ymdrin â ffioedd Cyfarwyddwyr Anweithredol, gan symud i ffi sylfoenol â ffi ar wahân am gadeirio un o Bwyllgorau'r Bwrdd, fel y'i hadolygwyd gan y Bwrdd, heb gynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol, (gweler cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r FA 24 isod)

Caiff y polisi cydnabyddiaeth llawn fel y'i nodir ar dudalennu 181 i 185 ei gyflwyno i'r Aelodau ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.

Gan edrych yn ôl – canlyniadau tâl mewn perthynas â'r FA 23

Adolygodd y Pwyllgor ganlyniad cerdyn sgorio AVPS a LTVPS ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a nodir y canlyniadau llawn yn Adran 4.

Crynodeb o gerdyn sgorio AVPS

Yn 2023, byddai alldro fformiwlâig y cerdyn sgorio wedi arwain at daliadau o 41.39% o'r uchafswm i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Aseswyd bod y perfformiad yn erbyn ein nodau Strategol ar lefel taliad darged (60% o'r uchafswm) tra roedd perfformiad yn erbyn ein nodau o ran Cwsmeriaid a'n nodau Gweithredol rhwng y lefelau trothwy a tharged, ar 40.2% a 33.27% o'r uchafswm, yn y drefn honno.

Crynodeb o gerdyn sgorio LTVPS

Yn 2023, byddai alldro fformiwlâig y cerdyn sgorio wedi arwain at daliadau o 10.1% o'r uchafswm i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Talodd ein perfformiad yn erbyn ein Totex 10.1% o'r uchafswm tra na fyddai perfformiad yn erbyn ein hymrwymiadau perfformiad wedi arwain at daliad. Yn fwy penodol, mae ein perfformiad o ran Totex, a oedd islaw'r targed, yn adlewyrchu cost gynyddol rheoli ein gwariant gweithredol yn erbyn cefndir economaidd lle mae chwyddiant yn uchel iawn. Roedd y nifer mawr o gosbau a osodwyd am ollyngiadau dŵr a phrif bibellau dŵr yn torri wedi cael cryn effaith ar ein perfformiad o ran y Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau, a oedd wedi mwy na gwrthbwysu perfformiad uwchlaw'r targed mewn elfennau eraill o'r cerdyn sgorio (er enghraifft, cilomedrau o afonydd a wellwyd).

Cyfarwyddwyr Gweithredol yn dewis peidio â derbyn taliad amrywiadwy yr oedd ganddynt hawl iddo

Roedd canlyniadau'r cardiau sgorio o dan AVPS a LTVPS, ym marn y Pwyllgor, yn adlewyrchiad cytbwys o berfformiad y busnes mewn blwyddyn heriol iawn i'r busnes a'r diwydiant dŵr ehangach. Fodd bynnag, fel y cyhoeddwyd ar 11 Mai 2023, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi dewis peidio â derbyn eu taliad amrywiadwy o dan AVPS a LTVPS. Er i nifer o dargedau'r cynlluniau AVPS a LTVPS gael eu cyflawni'n

rhannol neu'n llawn, mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod yr unigolion yn cydnabod eu dyletswyddau i reoli effaith amgylcheddol ein gweithrediadau (yn enwedig ansawdd dŵr afonydd). Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn ymwybodol bod y mater hwn yn ennyn teimladau cryf ymhlith y cyhoedd, ac mewn blwyddyn pan effeithiodd tywydd eithafol ar ein gallu ehangach i reoli'r heriau hyn, nid oedd Peter Perry na Mike Davis yn credu ei bod yn briodol iddynt dderbyn eu tâl amrywiadwy ar yr adeg hon ac mae'r Pwyllgor wedi derbyn eu cynnig i beidio â chymryd eu tâl amrywiadwy.

Gan edrych i'r dyfodol – cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r FA 24

Yn unol â'r cylch blynyddol arferol, adolygodd y Pwyllgor gyflogau'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a'r Tîm Gweithredol ym mis Mawrth 2023. Ystyriodd y Pwyllgor sawl pwynt cyfeirio, gan gynnwys y codiad cyflog arfaethedig i'r gweithlu ehangach, perfformiad y busnes a pherfformiad unigol yn y FA 23 o'r cyd-destun economaidd ehangach. O ganlyniad, penderfynodd y Pwyllgor gynyddu cyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol 4% o 1 Ebrill 2023. Mae'r ffigur hwn islaw'r cynnydd yng nghyflogau'r gweithlu, sef 6.2%. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y cynnydd hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd cadw lefelau cyflog ein Cyfarwyddwyr o fewn ystod gystadleuol y farchnad ac, ar yr un pryd, reoli ein cyllidebau cyflog cyffredinol a thargedu codiadau cyflog uwch tuag at gyflogaion sy'n ennill cyflogau is. Adolygodd y Pwyllgor lwfans car y Cyfarwyddwyr Gweithredol hefyd a chanfod ei fod gryn dipyn yn is na chyfradd y farchnad. Felly, penderfynwyd cynyddu'r lwfans car o £5,000 i £8,500 ar gyfer y FA 24 gydag ymrwymiad i'w adolygu eto yn ôl yr angen yn y dyfodol.

Hefyd, adolygodd y Pwyllgor ffi Cadeirydd y Bwrdd, gan ystyried ymarfer meincnodi â'r farchnad allanol a ffactorau cymharol mewnol. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei bod yn briodol dyfarnu cynnydd o 4% i'r Cadeirydd, yn unol â'r cynnydd a ddyfarnwyd i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Adolygwyd ffioedd Cyfarwyddwyr gan y Bwrdd (heb gynnwys y Cyfarwyddwyr Anweithredol). Nododd yr adolygiad, er bod ein ffioedd sylfaenol yn gystadleuol o gymharu â'r farchnad, ei fod bellach yn orfer cyffredin talu ffioedd ychwanegol am gadeirio prif Bwyllgorau'r Bwrdd, rhywbeth nad ydym wedi'i wneud yn hanesyddol. Felly, penderfynodd y Bwrdd, yn hytrach na chynyddu'r ffi sylfaenol, y dylai aros yn ddigynfnewid ond y dylid cyflwyno ffi ar wahân o £10,000 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ffi o £7,500 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a ffi o £2,500 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a Chadeirydd y Pwyllgor Technoleg. Bydd yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yn cael ffi o £10,000 y flwyddyn pan fydd yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol presennol yn ymddeol o'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023. Mae ffi'r Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol eisoes yn ffi gyfansawdd.

Nodir cyflogau a ffioedd sy'n gymwys i'r Cyfarwyddwyr yn y FA 24 ar dudalennau 190 a 191.

Meysydd Ffocws y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn y FA 24

Yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar weithredu'r Polisi a gymeradwywyd gan Aelodau Glas yn unol â'n Hegwyddorion Cydnabyddiaeth cytûn.

Tua diwedd y FA 24, bydd y Pwyllgor yn dechrau cynllunio ar gyfer Adolygiad Polisi 2025 a fydd yn fwy sylweddol ac a fydd yn cyd-fynd â dechrau cylch AMP8. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried yn fanwl sut mae ein cynlluniau yn cyd-fynd â'r Penderfyniad Rheoleiddiol (unwaith y cytunir arno) er mwyn sicrhau bod ein strwythurau cydnabyddiaeth i gyfarwyddwr gweithredol yn cyd-fynd yn briodol â chyflawni'r blaenoriaethau strategol a gweithredol yr ydym yn rhagweld y byddant yn rhan allweddol o'r Penderfyniad.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r heriau y mae'r diwydiant dŵr yn eu hwynebu ar hyn o bryd, a'r teimladau y maent yn eu hennyn ymhlith y cyhoedd. Mae hyn yn llywio'r penderfyniadau a wnawn fel Pwyllgor, yn enwedig mewn perthynas â lefelau cyflogau a'r strwythur a'r asesiadau o daliadau yn ein fframwaith tâl amrywiadwy. Byddwn yn parhau i ystyried barn ein rhanddeiliaid gan gynnwys Aelodau, cydweithwyr ac Ofwat er mwyn sicrhau bod ein strwythurau a'n canlyniadau cydnabyddiaeth yn ystyried profiad ehangach ein cwsmeriaid fel rhanddeiliaid, gan gydnabod, ar yr un pryd, fod angen cadw ein Tîm Gweithredol ymroddedig sydd o'r radd flaenaf.

Fel rhan o hyn, bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried tueddiadau cydnabyddiaeth ehangach a datblygiadau o ran arferion gorau, gan gynnwys canllawiau'r Cyngor Adrodd Ariannol ar ofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU a chanllawiau Ofwat ar Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu Bwrdd.

Fel y nodwyd uchod, byddwn yn parhau i fonitro ein systemau mewnol ar gyfer adrodd ar y bwlch cyflog o ran ethnigrwydd a mathau eraill o amrywiaeth, fel rhan o'n hymrwymiad i gadw gweithlu amrywiol ac ymroddedig.

Yn olaf, mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi mewnbnw ac adborth cyflogaion ac Aelodau Glas a bydd yn parhau i ymgysylltu â nhw er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau ynghylch gweithredu ein Polisi yn cael eu hystyried wrth i ni wneud penderfyniadau.



Joanne Kenrick

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

16 Mehefin 2023

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Cydnabyddiaeth – parhad

Adran 2: Cysoni tâl a pherfformiad, egwyddorion cydnabyddiaeth a chanllawiau Ofwat

Ym mis Rhagfyr 2019, cymeradwyodd Aelodau Glas newid i'n Herthyglau Cymdeithasu er mwyn nodi'n glir ein Diben, yr ydym wedi ymrwymo i'w gyflawni ers 2001 pan gaffaelwyd busnes Dŵr Cymru gan Glas Cymru. Mae ein Diben, a amlinellir ar dudalen 04 yr Adroddiad Blyneddol hwn, wedi llywio'r gwaith o ddatblygu ein Hegwyddorion Cydnabyddiaeth, fel y'u nodir isod.

Yr egwyddorion cydnabyddiaeth

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn trafod yr Egwyddorion Cydnabyddiaeth allweddol sy'n gymwys i waith y Pwyllgor yn rheolaidd ag Aelodau Glas. Cafodd yr Egwyddorion, a restrir isod, eu rhannu â'r Aelodau ddiwethaf yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2020. Gan mai adroddiad interim yw Adolygiad Polisi 2023 sy'n mynd â ni at ddiwedd cylch rheoleiddiol AMP7, ni fydd unrhyw newidiadau i'r Egwyddorion.

1	2	3	4
Dylai cydnabyddiaeth wobrwyo/cymell buddiannau hirdymor y busnes, hyrwyddo ei lwyddiant cynaliadwy yn yr hirdymor ac adlewyrchu ei ddull strategol cytûn yn y dyfodol.	Dylai cydnabyddiaeth helpu i gysoni buddiannau Cyfarwyddwyr a chyflogeion â chwsmeriaid y busnes, ac adlewyrchu Diben a gwerthoedd y Cwmni.	Dylai cydnabyddiaeth ganolbwyntio ar faterion o bwys allweddol y busnes – ansawdd dŵr ac amgylcheddol, gwasanaeth cwsmeriaid a pherfformiad ariannol.	Dylai cydnabyddiaeth adlewyrchu nod Dŵr Cymru i fod yn un o'r cwmnïau sy'n perfformio orau yn y sector.
5	6	7	8
Dylai targedau cydnabyddiaeth fod yn ymestynol o ran perfformiad blaenorol ac o gymharu â chwmnïau eraill yn y sector. Lle y bo'n bosibl, dylent fod yn ffigurau caled y gellir eu harchwilio.	Bwriedir i gydnabyddiaeth gymell rheolwyr yn absenoldeb cyfranddallwyr ac opsiynau cyfranddaliadau.	Dylai cydnabyddiaeth hefyd fod yn deg ac yn gystadleuol o ran y sector ac yn fewnol er mwyn denu a chadw unigolion o'r radd flaenaf.	Dylai cyfran briodol o gydnabyddiaeth i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fod yn amrywiadwy er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir mewn perthynas â chymryd risgiau.
9	10	11	12
Dylai'r strwythur cydnabyddiaeth fod yn ddigon clir fel bod y rheini y mae'n effeithio arnynt yn deall beth yw ei nod.	Bydd cydnabyddiaeth yn dryloyw i Aelodau Glas ac yn cael ei chymeradwyo'n rheolaidd ganddynt.	Dylai cydnabyddiaeth ystyried strwythur corfforaethol nid er cyfranddallwyr y Cwmni a barn yr aelodau a rhanddeiliaid eraill.	Dylai penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor ystyried cydnabyddiaeth y gweithlu a pholisïau cysylltiedig, a chysoni cymhellion a gwobrwyon â'r diwylliant.

Wrth ddatblygu'r Polisi Cydnabyddiaeth ac ystyried ei weithredu ar gyfer 2023, ystyriodd y Pwyllgor amcanion Canllawiau Ofwat ar Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu Bwrdd a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y fframwaith ar gyfer cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol yn mynd i'r afael yn briodol â'r ffactorau canlynol:

Eglurder	Mae'r Pwyllgor yn ymrwymedig i fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch materion sy'n ymwneud â thâl a cheisiwn wneud hyn drwy ein lefel uchel o ddatgeliadau a system adrodd glir. Wrth wneud ei benderfyniadau, mae'r Pwyllgor yn dilyn Amcanion Canllawiau Ofwat ar Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu Bwrdd, a gofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU y Cyngor Adrodd Ariannol (y Cod). Nodir y canlyniadau cymhelliant gwirioneddol yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth bob blwyddyn.
Symlrwydd	Anelwn at sicrhau bod ein strwythur cydnabyddiaeth yn glir i bawb fel bod pawb y mae'n effeithio arnynt yn ei ddeall ac yn deall ei ddiben. Lle y bo modd, mae ein trefniadau cydnabyddiaeth yn unol ag arferion gorau'r DU.
Risg	Mae gan y Cwmni ddisgresiwn i addasu canlyniadau AVPS a LTVPS os bydd o'r farn eu bod yn anghyson â pherfformiad cyffredinol y Cwmni, gan ystyried unrhyw ffactorau perthnasol. Mae darpariaethau adfachu a malus yn gymwys i AVPS a LTVPS.

Rhagfynegadwyedd	Nodir yr uchafswm cyfleoedd ar gyfer AVPS a LTVPS yn y polisi, ac mae'r canlyniadau gwirioneddol yn dibynnu ar lefel y perfformiad a gyflawnir yn erbyn mesurau penodol.
Cymesuredd	Mae ein polisi wedi'i lunio i daro cydbwysedd rhwng mesurau hirdymor a byrdymor, sy'n gysylltiedig â chynllun strategol y Cwmni. Mae cyfran sylweddol o'n trefniadau cydnabyddiaeth ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gysylltiedig â chyflawni amodau perfformiad ymestynnol er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael eu gwobrwyo'n deg am lwyddo. Wrth feincnodi tâl Cyfarwyddwyr, rydym yn ystyried y data yn eu cyd-destun, gan gynnwys cymhlethdod y rôl.
Cysoni â diwylliant	Drwy ddefnyddio'r un mesurau allweddol ar gyfer pob cynllun tâl amrywiadwy, rydym yn sicrhau tryloywder ac ymdeimlad o gydberchnogaeth o'r targedau - penderfynir ar ddyfarnal blynyddol pob cydweithiwr ar sail yr un targedau allweddol, i raddau mwy neu lai.

Cysoni tâl yn strategol

Wrth bennu polisïau cydnabyddiaeth, mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen i ddenu a chadw unigolion a all ateb heriau byrdymor a hirdymor y Grŵp.

Mae'n rhaid i dâl fod yn gynaliadwy ac mae'n rhaid iddo annog unigolion i ganolbwyntio ar gyflawni strategaeth y Cwmni yn y tymor hwy. Hefyd, mae'n rhaid iddo fod yn deg i unigolion o'r gweithlu ehangach. Wrth bennu Polisi Cydnabyddiaeth a chanlyniadau cyflog, mae'r Pwyllgor yn ystyriol o'n strwythur corfforaethol nid er cyfranddalwyr.

Mae'r Pwyllgor yn benderfynol na ddylai cydnabyddiaeth wobrwyo perfformiad gwael ac y dylem fod yn dryloyw ynglŷn â chofnodi perfformiad. Mae perthynas agos rhwng hyn a gweledigaeth y Grŵp i Ennyn Ymddiriedaeth ein Cwsmeriaid Bob Dydd.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys esboniad o bolisi tâl cyfarwyddwyr gweithredol y Cwmni a sut mae cysylltiad rhwng y meini prawf ar gyfer gwobrwyo elfennau cydnabyddiaeth amrywiadwy byrdymor a hirdymor a chyflawni mwy i gwsmeriaid, ac fe'u cymhwysir yn fanwl gywir.

Cysylltu tâl â safbwyntiau ein prif randdeiliaid

Mae ein Polisi Cydnabyddiaeth i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn ystyried safbwyntiau ein rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys ein cwsmeriaid, ein cyflogeion a'n Haelodau, cyrff rheoleiddio perthnasol a chymdeithas ehangach. Rydym yn ystyried hyn o ran y ffordd y dylai rhanddeiliaid ddylanwadu ar y broses o bennu polisïau cydnabyddiaeth, yn ogystal â'u dylanwad ar ganlyniadau tâl. Drwy gydol pob penderfyniad o'r fath, mae angen cydbwysio disgwyliadau rhanddeiliaid â'r angen i ddenu a chadw unigolion allweddol sydd â'r profiad a'r gallu perthnasol.

	Aelodau	Cwsmeriaid a chymdeithas ehangach	Cyflogeion	Cyrff rheoleiddio (e.e. Ofwat, Llywodraeth Cymru)
Sut rydym yn ymgysylltu ynghylch tâl?	Mae'r Aelodau yn chwarae rôl lywodraethu hanfodol o ran cymeradwyo ein polisi a'n canlyniadau cydnabyddiaeth. Rydym yn ymgysylltu bob blwyddyn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac yn sicrhau bod Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar gael i drafod materion sy'n ymwneud â thâl â'r Aelodau yn ôl y gofyn. Yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf 2023, cynhelir pleidlais gyfrwamol ar ein Polisi Cydnabyddiaeth a phleidlais gynghorol ar weddill yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr.	Nid ydym yn cynnal rhaglen ymgysylltu benodol â'n cwsmeriaid ynghylch materion sy'n ymwneud â chydabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol. Fodd bynnag, fel un o'r cwmnïau mwyaf yng Nghymru sy'n cael effaith sylweddol ar y dirwedd economaidd-gymdeithasol, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o broffil cyhoeddus uchel cydnabyddiaeth, a theimladau cwsmeriaid yn ogystal â chymdeithas yn gyffredinol. Mae hyn yn llywio pob un o'n penderfyniadau ynghylch cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol.	Fel rhan o'n rhaglen ymgysylltu eang â chydweithwyr, roedd o leiaf un sesiwn (Rhagfyr 2022) yn cynnwys trafodaeth benodol ar rôl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, y cysylltiad rhwng perfformiad a chydabyddiaeth, a pholisïau cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r busnes ehangach. Er enghraifft, caiff allbynnau trafodaethau o'r fath eu bwydo yn ôl i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.	Os bydd y rheoleiddiwr yn ceisio ymgysylltu'n uniongyrchol ynghylch materion tâl byddwn yn ymateb yn briodol. Er enghraifft, yn ystod y FA 23, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth at Brif Gyfarwyddwr Ofwat a chyfarfu ag ef mewn ymateb i gwestiynau am y ffordd y caiff tâl yn y diwydiant dŵr ei lywodraethu.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Cydnabyddiaeth – parhad

	Aelodau	Cwsmeriaid a chymdeithas ehangach	Cyflogeion	Cyrff rheoleiddio (e.e. Ofwat, Llywodraeth Cymru)
Cysylltiad ag egwyddor(ion) cydnabyddiaeth (rhif)	1 2 3 10 11	1 2 3	2 11 12	3 4 5
Yr effaith ar ganlyniadau cydnabyddiaeth (enghreiffiau)	- Gwneir pob penderfyniad ynghylch tâl y Cyfarwyddwyr Gweithredol gan ystyried barn yr Aelodau. - Er nad oes targedau penodol yn ein cynlluniau tâl amrywiadwy mewn perthynas â phrofiad Aelodau, mae pwerau disgresiwn y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn golygu y penderfynir ar bob canlyniad tâl yn seiliedig ar sicrhau atebolrwydd i'r Aelodau (ymhlith rhanddeiliaid eraill).	- Mae tâl amrywiadwy byrdymor a hirdymor yn canolbwyntio i raddau helaeth ar berfformiad sylfaenol y Cwmni o ran cyflawni dros ein cwsmeriaid. – Caiff gwasanaeth cwsmeriaid ei fesur yn uniongyrchol yn ein AVPS, drwy ein sgoriau C-MeX a D-MeX (profiad cwsmeriaid a sgoriau cyflawni Ofwat). - Yn y cynllun LTVPS, mae hanner y cerdyn sgorio yn canolbwyntio ar gyflawni ein hymrwymiaidau i gwsmeriaid ar gyfer AMP7. - Caiff y Pwyllgor Cydnabyddiaeth arfer ei ddisgresiwn ynglŷn â chanlyniadau cydnabyddiaeth gan ystyried profiad cwsmeriaid.	- Gwneir penderfyniadau ynghylch tâl y Cyfarwyddwyr Gweithredol yng nghyd-destun y gweithlu ehangach – er enghraifft, un o'r prif bwyntiau cyfeirio a ddefnyddir gan y Pwyllgor i bennu cyflogau yw'r cynnydd canrannol ym mhob rhan o'r busnes. - Os byddwn o'r farn bod hynny'n briodol, caiff metrigau cyflogeion eu cynnwys yn y cynlluniau tâl amrywiadwy. Ar gyfer y FA 24 metrig enghreifftiol yw % y menywod a benodir i swyddi uwch-reolwyr. - Rydym wedi dileu ymgysylltu â chyflogeion fel metrig am ein bod eisoes yn sgorio'n ffafriol iawn yn hyn o beth ac, felly, rydym yn anelu at gynnal hyn yn hytrach na gwella arno.	- Mae ein fframwaith cydnabyddiaeth yn seiliedig ar ein cylchoedd rheoleiddiol pum mlynedd. Ar adeg pob penderfyniad ar AMP, rydym yn ystyried ein Polisi Cydnabyddiaeth yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig cymhellion priodol am gyflawni ymrwymiaidau o dan yr AMP, ond heb gymryd risgiau diangen. - Felly, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y mwyafrif o gardiau sgorio cynlluniau AVPS a LTVPS â gwneud y Penderfyniad Rheoleiddiol ar gyfer cyfnod yr AMP presennol, sef AMP7, y mae ein holl gynlluniau busnes yn seiliedig arno. - Caiff y Pwyllgor Cydnabyddiaeth arfer ei ddisgresiwn ynglŷn â chanlyniadau cydnabyddiaeth gan ystyried perfformiad ehangach y busnes, a gall gynnwys achosion o dor-reoliadau.

Adran 3: Y polisi arfaethedig ar gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr ar gyfer gweddill AMP7 (2020-25)

Mae'r adran hon yn nodi strwythur y Polisi Cydnabyddiaeth a gaiff ei gyflwyno i Aelodau Glas ei gymeradwyo yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2023. Nod Polisi Cydnabyddiaeth Dŵr Cymru yw hyrwyddo llwyddiant hirdymor y Cwmni a chadw'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'u cymell i gyflawni perfformiad cryf a chynaliadwy sy'n gyson â strategaeth ac amcanion hirdymor y Cwmni.

Mae'r Polisi newydd yn parhau â'r Polisi presennol a gymerodwydd yn 2020 ar gyfer AMP7, gan gadw'r strwythurau AVPS a LTVPS rydym wedi'u defnyddio ers 2020. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ein profiadau hyd yma yn ystod AMP7, cynigir

mân newidiadau i'r geiriad er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau a disgwyliadau rheoleiddiol sy'n newid, yn benodol gellir adolygu pwysoliad mesurau AVPS o flwyddyn i flwyddyn gydag ymrwymiad i sicrhau bod o leiaf 75% o'r cyfle cyffredinol yn parhau i fod yn seiliedig ar fesurau perfformiad cwsmeriaid a pherfformiad gweithredol.

Mae'r Polisi yn cynnwys disgresiwn eang y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ynglŷn â chanlyniadau AVPS a LTVPS er mwyn sicrhau bod canlyniadau yn deg i reolwyr a chwsmeriaid ac mae'r Pwyllgor yn bwriadu parhau i werthuso canlyniadau tâl amrywiadwy am weddill AMP7.

Yn unol â'n cylch rheoleiddiol, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyflwyno Polisi newydd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2025 er mwyn cyd-fynd â dechrau'r AMP nesaf.

Crynodeb o'r Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer 2023-25

Wrth ddatblygu ein Polisi Cydnabyddiaeth rydym wedi ceisio deall a, lle y bo'n briodol, adlewyrchu barn ein rhanddeiliaid ar gydnabyddiaeth ac ystyried ein statws nid er cyfranddallwyr. Ein nod yw denu, cymell a chadw cyfarwyddwyr gweithredol sydd â'r cymwyseddau a'r profiad i gyflawni ein hamcanion strategol hirdymor a sicrhau perfformiad gweithredol byrdymor o safon uchel, a hynny mewn ffordd gosteffeithiol.

Nodir elfennau unigol y Polisi Cydnabyddiaeth i Gyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer gweddill AMP7, a gaiff ei gyflwyno i Aelodau Glas ei gymeradwyo yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2023, yn y tabl isod.

	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
Cyflog sylfaenol	Helpu i ddenu, cadw a chymell cyflogeion o safon.	Caiff ei adolygu bob blwyddyn fel arfer a chaiff unrhyw godiadau eu cymhwyso fel arfer yn weithredol o 1 Ebrill. Bydd adolygiadau o gyflog yn adlewyrchu: • Rôl, profiad a pherfformiad • Amodau economaidd ehangach • Y codiadau cyflog a ddyfernir i weddill y gweithlu • Adolygiadau o gydnabyddiaeth yn y sector dŵr o bryd i'w gilydd.	Codiadau blynnyddol sy'n gysylltiedig yn gyffredinol â'r rhai a geir yn y gweithlu ehangach er bod gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ddisgresiwn i ddyfarnu codiadau i unigolion uwchlaw neu islaw'r lefel hon lle y bo'n briodol.	Adolygiadau Perfformiad Blynnyddol.
Buddiannau	Cynnig pecyn buddiannau sy'n gystadleuol yn y farchnad yswiriant iechyd preifat er mwyn helpu i ddenu a chadw cyflogeion.	Gall Cyfarwyddwyr fod yn gymwys i gael darpariaeth iechyd preifat ac yswiriant iechyd parhaol. Gall buddiannau eraill fel treuliau adleoli neu lwfansau teithio/llety hefyd gael eu cynnig fel y bo'n briodol.	Mae gwerth buddiannau yn seiliedig ar y gost i'r Cwmni ac ni chaiff ei bennu ymlaen llaw.	Dim
Pensiwn	Helpu i ddenu a chadw cyflogeion o safon.	Bydd gan bob cyflogai, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol, yr hawl i uchafswm cyfraniad pensiwn o 11%. Mae cyflogeion cymwys yn cael cyfle i optio allan a chael lwfans arian parod. Os bydd y gyfradd cyfraniadau cyflogwr uchaf ar gyfer y gweithlu ehangach yn newid, bydd y gyfradd newydd hon hefyd yn gymwys i Gyfarwyddwyr Gweithredol. Mae buddiannau pensiwn ar gyfer yr holl gyflogeion a fu'n rhan o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru yn parhau i gynyddu'n unol â'r codiadau yn eu cyflog sylfaenol. Darperir ar gyfer y cynnydd hwn hefyd yn y Cynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr y mae Peter Perry yn rhan ohono. Darperir yswiriant bywyd ar bedair gwaith y cyflog sylfaenol i Gyfarwyddwyr Gweithredol a phob cyflogai sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru neu Gynllun Arian Parod Amgen yn lle Pensiwn.	Mae'r lwfans arian parod uchaf yn cyfateb i gyfraniad y cyflogwr o 11% o'r cyflog llai cyfraniad YG y cyflogwr.	Dim

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Cydnabyddiaeth – parhad

	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
AVPS	Cymell unigolion i gyflawni targedau ymestynol a nodau strategol bob blwyddyn.	Caiff targedau AVPS eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor. Mesurir perfformiad yn erbyn trothwy, targed a lefelau uchaf. Pennir yr alldro yn erbyn targedau gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar ôl diwedd y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn targedau. Telir dyfarndaliadau a enillir fel arian parod, nid ydynt yn bensiynadwy ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adfachu (gweler y manylion isod). Gall dyfarndaliadau AVPS gael eu hamrywio (naill ai eu cynyddu neu eu lleihau) yn ôl disgresiwn y Pwyllgor er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn agosach â'r perfformiad a gyflawnwyd, gan gynnwys er mwyn adlewyrchu profiad cwsmeriaid. Mae rheolau AVPS yn galluogi'r Pwyllgor i ohirio talu unrhyw ddyfarndaliadau nes i ymchwiliad sy'n mynd rhagddo gael ei gwblhau.	Y swm AVPS mwyaf posibl yw 100% o'r cyflog, am gyflawni targedau perfformiad ymestynol.	Dewisir mesurau gan y Pwyllgor bob blwyddyn gydag o leiaf 75% o'r dyfarndaliad yn seiliedig ar % ar fesurau Cwsmeriaid a mesurau Gweithredol wedi'u halinio â mesurau rheoleiddiol a geir yn ein Cynllun Busnes.
LTVPS	Cysoni ffocws hirdymor y Cyfarwyddwyr Gweithredol â buddiannau cwsmeriaid a rhanddeiliaid Dŵr Cymru. Rhoi cymhelliant i gyflawni strategaeth hirdymor y Cwmni.	Dyfarndaliadau arian parod yn seiliedig ar dargedau perfformiad ymestynol. Mesurir perfformiad yn erbyn trothwy, targed a lefelau uchaf. Asesir perfformiad yn erbyn y mesurau dros gyfnod pum mlynedd AMP7. Gwneir taliadau dros dro yn flynyddol, wedi'u capio ar y cyfle targed cyffredinol ar gyfer y flwyddyn, oni fydd y Pwyllgor yn penderfynu fel arall. Gall dyfarndaliadau LTVPS gael eu hamrywio (naill ai eu cynyddu neu eu lleihau) yn ôl disgresiwn y Pwyllgor er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn agosach â'r perfformiad a gyflawnwyd, gan gynnwys er mwyn adlewyrchu profiad cwsmeriaid. Mae dyfarndaliadau yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adfachu (gweler y manylion isod). Mae rheolau LTVPS yn galluogi'r Pwyllgor i ohirio talu unrhyw ddyfarndaliadau nes i ymchwiliad sy'n mynd rhagddo gael ei gwblhau.	Y dyfarndal uchaf posibl i'r Prif Weithredwr yw 500% o'i gyflog dros y cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd (hyd at ddyfarndal posibl uchaf o 100% y flwyddyn). Ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol eraill, y dyfarndal posibl uchaf yw 300% o'u cyflog dros y cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd (hyd at ddyfarndal posibl uchaf o 60% y flwyddyn).	Oni fydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn penderfynu fel arall, 50% yn seiliedig ar berfformiad Totex a 50% yn seiliedig ar amrywiaeth o fesurau datblygu perfformiad sy'n berthnasol i gyflawni nodau hirdymor y Cwmni ac wedi'u halinio â mesurau rheoleiddiol a geir yn ein Cynllun Busnes.

	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
Ffioedd Cyfarwyddwyr Anweithredol	Rhoi lefel briodol o ffi i ddenu a chadw unigolion ag ystod eang o brofiad a sgiliau er mwyn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau.	Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn penderfynu ar y ffi sy'n daladwy i Gadeirydd y Bwrdd. Ar wahân, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Cadeirydd yn cymeradwyo'r ffioedd sy'n daladwy i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Gall y Cwmni wneud taliad mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaeth treth gysylltiedig os ystyrir bod hyn yn briodol.	Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael ffi sylfaenol. Gellir talu ffioedd ychwanegol er mwyn adlewyrchu ymrwymiadau amser a/neu gyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft i'r Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol.	Adolygiad Blynnyddol
Penodiadau newydd	• Caiff lefelau cyflog sylfaenol eu pennu i adlewyrchu profiad yr unigolyn, wedi'i brofi yn erbyn data meincnodi'r farchnad a ffactorau cymharol mewnol. Os ystyrir ei bod yn briodol penodi Cyfarwyddwr Gweithredol newydd ar gyflog sy'n is na lefel y farchnad, mae'n bosibl y caiff gyfres o godiadau cyflog dros gyfnod rhesymegol o amser yn amodol ar berfformiad yn y swydd. Bydd hyn yn gymwys i benodiadau mewnol ac allanol, lle y bo'n briodol. • Y polisi yw bod y Cyfarwyddwr Gweithredol newydd yn gallu cymryd rhan yn y strwythur cydnabyddiaeth a nodir uchod. Gallai'r eithriadau i hyn gynnwys pennu mesurau gwahanol neu roi trefniadau trosiannol ar waith pe bai Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymuno hanner ffordd drwy'r cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd. Ar gyfer y rhai a gaiff eu dyrchafu'n Gyfarwyddwyr Gweithredol yn fewnol, nid effeithir ar yr hawl i AVPS a gronnyd yn flaenorol, hyd at y dyddiad penodi. • Caiff Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd eu cofrestru yng Nghynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru gyda chyfraniad mwyaf gan y cyflogwr o 11% o'u cyflog neu gallant ddewis ymeithrio a chael lwfans arian parod o 11% o'u cyflog llai cyfraniad YG y cyflogwr. • Os bydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth o'r farn bod angen prynu cydnabyddiaeth y byddai unigolyn yn ei fforffedu pan fyddai'n gadael ei gyflogwr presennol, caiff iawndal o'r fath, lle y bo'n bosibl, ei strwythuro er mwyn sicrhau bod telerau'r pryniant yn adlewyrchu ffurf a strwythur y gydnabyddiaeth a gaiff ei disodli. • Gellir cynnwys elfennau eraill o gydnabyddiaeth o dan amgylchiadau priodol, megis (i) penodiad dros dro yn cael ei wneud er mwyn llenwi rôl Cyfarwyddwr Gweithredol am gyfnod byr (gan gynnwys, os bydd amgylchiadau eithriadol yn mynnu hynny, fod y Cadeirydd neu Gyfarwyddwr Anweithredol arall yn ymgymryd â swyddogaeth weithredol); neu (ii) os caiff Cyfarwyddwr Gweithredol ei recriwtio ar odeg o'r flwyddyn pan fyddai'n amhrifodol darparu AVPS neu LTVPS ar gyfer y flwyddyn honno. Yn ddarostyngedig i derfynau AVPS a LTVPS yn y Polisi hwn, gellir trosglwyddo'r uchafswm cyfle mewn perthynas â'r misoedd o gyflogaeth yn ystod y flwyddyn i'r flwyddyn ddilynol er mwyn i ddyfardaliad goel ei ddarparu ar sail deg a phriodol.			

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Cydnabyddiaeth – parhad

Polisi ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol sy'n ymadael	- Mae cyfnod rhybudd o 12 mis ynghlwm wrth contractau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer talu iawndal os bydd y Cwmni yn terfynu contract yn gynnar. Yn ôl disgrisiwn y Cwmni, gellir talu cyflog sylfaenol yn unig yn lle rhybudd i Gyfarwyddwr Gweithredol. Os bydd y Cwmni yn dewis gwneud taliad yn lle rhybudd, mae elfen sylweddol o liniaru yn rhan o'r contract. Gall y Cwmni hefyd ddewis parhau i ddarparu buddiannau penodol am weddill unrhyw gyfnod o rybudd. - Os bydd Cyfarwyddwr Gweithredol yn gadael oherwydd diswyddiadau ac nad yw'n ofynnol iddo weithio ei gyfnod rhybudd, bydd ganddo'r hawl i Dâl Diswyddo Statudol ynghyd â hyd at 12 mis o gyflog yn lle rhybudd, ynghyd â thâl yn lle gwyliau a gronwyd ond nas cymerwyd. - Hefyd, ac yn gyson ag arfer y farchnad, os bydd contract gwasanaeth Cyfarwyddwr Gweithredol yn cael ei derfynu am unrhyw reswm, gall y Cwmni gyfrannu at ffioedd cyfreithiol yr unigolyn hwnnw a ffioedd ar gyfer gwasanaethau all-leoli fel rhan o setliad wedi'i negodi. Caiff unrhyw ffioedd o'r fath eu datgelu fel rhan o fanylion y trefniadau terfynu. - Os bydd Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymddiswyddo, disgwylir iddo weithio cyfnod rhybudd oni chytunir ar drefniant amgen megis absenoldeb garddio neu gyfnod rhybudd llai. - Os bydd y Cwmni yn terfynu cyflogaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol, bydd y Cwmni yn gofyn am gyngor cyfreithiol a dim ond y swm y bydd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol hawl gyfreithiol i'w gael a delir iddo. - Os daw cyflogaeth i ben, caiff dyfardaliadau AVPS a LTVPS eu trin yn unol â rheolau'r cynllun perthnasol sy'n disgrifio'r modd yr ymdrinnir ag unrhyw daliad drwy gyfeirio at dermau gadael 'da' neu 'wael'. Byddai enghreifftiau o adael ar dermau da yn cynnwys gadael oherwydd salwch, anabledd, marwolaeth neu unrhyw reswm arall yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. - O dan AVPS, fel arfer bydd unigolion sy'n gadael ar dermau gwael yn fforffedu pob dyfardaliad nas gwnaed. Gall y Pwyllgor Cydnabyddiaeth benderfynu a ddylid gwneud taliad ar gyfer y flwyddyn ymadael, a ddylid lleihau dyfardaliadau ar gyfer y cyfnod mewn cyflogaeth, pryd y caiff amodau perfformiad eu hasesu, pryd y caiff unrhyw daliad ei wneud ac a ddylai unrhyw amodau ychwanegol fod yn gymwys. - O dan LTVPS, pe bai Cyfarwyddwr Gweithredol yn gadael oherwydd diswyddiad neu gamymddwyn, byddai'n fforffedu unrhyw ddyfardaliadau interim neu flwyddyn olaf nas talwyd. Efallai y bydd unigolion eraill sy'n gadael yn gymwys i gael taliad blwyddyn olaf yn seiliedig ar y perfformiad a gyflawnwyd mewn perthynas ag AMP7, llai unrhyw daliadau interim a wnaed. Ar gyfer unigolion sy'n gadael ar dermau da, gall y Pwyllgor Cydnabyddiaeth benderfynu a ddylid gwneud taliad interim ar gyfer y flwyddyn ymadael. Byddai unrhyw daliad interim neu flwyddyn olaf yn cael ei leihau ar gyfer cyfran y cyfnod perfformiad mewn cyflogaeth. - Gall y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ddewis cyflymu taliad i unigolion sy'n gadael o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, os bydd rhywun yn marw.
--	---

Dyfardaliadau etifeddol

Ceidw'r Pwyllgor yr hawl i wneud taliadau cydnabyddiaeth a thaliadau am golli swydd ac arfer unrhyw ddisgrisiwn sydd ar gael mewn perthynas â thaliadau o'r fath, er nad ydynt yn unol â'r Polisi a nodwyd uchod:

- os cytunwyd ar delerau'r taliad cyn i'r Polisi ddod i rym;
- os cytunwyd ar delerau'r taliad ar adeg pan nad oedd yr unigolyn perthnasol yn un o Gyfarwyddwyr y Cwmni ac, ym marn y Pwyllgor, nad oedd y taliad yn gydnabyddiaeth o'r unigolyn yn dod yn un o Gyfarwyddwyr y Cwmni.

Mân ddiwygiadau i'r polisi

Ceidw'r Pwyllgor yr hawl i wneud mân ddiwygiadau i Bolisi 2023, at ddibenion rheoleiddiol, dibenion treth neu ddibenion gweinyddol neu ystyried newid mewn deddfwriaeth, heb geisio cymeradwyoeth yr Aelodau.

Darpariaethau adfachu

Gall y Pwyllgor adfachu dyfardaliadau AVPS a/neu LTVPS o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Camddatganiad perthnasol neu wall cyfrifo wrth asesu canlyniadau ariannol unrhyw aelod-gwmni o Grŵp Glas Cymru (y Grŵp)
- Methiant perthnasol i reoli risg mewn unrhyw aelod-gwmni o'r Grŵp neu uned fusnes berthnasol
- Camymddwyn difrifol neu niwed a ochosir i enw da Dŵr Cymru (y Cwmni) neu aelod-gwmni o'r Grŵp
- Methiant corfforaethol perthnasol unrhyw aelod-gwmni o'r Grŵp neu uned fusnes berthnasol.

Gellir adfachu dyfardaliadau AVPS naill ai cyn talu'r dyfardal ar gyfer blwyddyn berfformiad benodol neu yn y flwyddyn berfformiad ganlynol.

Gellir adfachu dyfardaliadau LTVPS naill ai cyn talu'r dyfardal ar gyfer blwyddyn berfformiad benodol neu nes bod cyfrifon y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2028 wedi cael eu harchwilio.

Ystyried barn Aelodau Glas

Mae'r Pwyllgor mewn deialog reolaidd ag Aelodau Glas ac mae'r sylwadau a wneir yn y trafodaethau hyn yn helpu i lywio penderfyniadau'r Pwyllgor ynghylch newidiadau posibl i'r Polisi. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro tueddiadau a datblygiadau o ran llywodraethu corfforaethol, arfer y farchnad a barn Aelodau Glas er mwyn sicrhau bod strwythur cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn parhau'n briodol.

Ystyriaethau eraill

Caiff cydweithwyr o bob rhan o'r busnes eu gwahodd yn rheolaidd i fynychu cyfarfodydd anffurfiol â'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol er mwyn trafod materion sy'n effeithio ar y busnes, y gweithlu, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o sefyllfa'r Cwmni fel un o'r cwmnïau mwyaf yng Nghymru ac o'r cyd-destun daearyddol ac economaidd-gymdeithasol y mae'r Cwmni yn gweithredu ynddo, ac y gwneir penderfyniadau am gydnabyddiaeth gan y Pwyllgor ynddo. Mae'r Bwrdd hefyd yn ymwybodol o'r angen i'r Polisi a phenderfyniadau'r Pwyllgor gydbwysu diddordeb cymdeithas ynghylch cwantwm y gydnabyddiaeth a roddir i Gyfarwyddwyr Gweithredol â'r angen i ddenu a chadw unigolion allweddol sydd â'r profiad a'r gallu perthnasol.

Darlun o gyfleoedd cyflog i Gyfarwyddwyr Gweithredol o dan y Polisi

Mae'r graffiau isod yn dangos y cyfleoedd i bob Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer y FA 24 o dan y Polisi arfaethedig mewn tri senario perfformiad:

- Y lefel sylfaenol o gydnabyddiaeth sy'n daladwy. Mae hyn yn cynnwys cyflog sylfaenol, unrhyw lwfansau teithio a char, buddiannau yswiriant iechyd a phensiwn;
- Lefel cydnabyddiaeth sy'n cyflawni'r targed sy'n cynrychioli 60% o'r uchafswm taliad ar gyfer AVPS a LTVPS;
- Uchafswm y gydnabyddiaeth, pe bai pob un o dargedau perfformiad AVPS a LTVPS yn cael eu cyflawni'n llawn.

Adran 4: Tâl

Tâl y gweithlu ehangach

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gyfrifol am bennu'r polisi cydnabyddiaeth ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r tîm Gweithredol, ac mae'n goruchwyllo polisi tâl ym mhob rhan o'r Grŵp. Cytunir ar bolisi tâl y gweithlu â'n hundebau llafur cydnabyddedig ac mae'n dilyn telerau ein Cytundeb Cydweithio a'n Cytundeb Partneriaeth â Gwasanaethau Cwsmeriaid Domestig.

Tâl sefydlog

Cytunir ar y Dyfarnal Cyflog Cyffredinol Blyneddol â'n hundebau llafur cydnabyddedig a chaiff cyflogau eu cynyddu'n gyson drwy'r gweithlu cyfan. Yn y FA 23, cafodd cyflogeion godiad cyflog o 4.8% yn unol â Chytundeb Gweithio Gyda'n Gilydd AMP7.

Mae buddiannau pensiwn yn gyson drwy'r Cwmni cyfan ac mae gan holl aelodau Cynllun Pensiwn Personol y Grŵp yr hawl i gael yr un cyfraniad cyflogwr fel canran o'u cyflog, yn unol ag arfer gorau.


Tâl amrywiadwy

Mae'r Cynllun Tâl Amrywiadwy Blyneddol (AVPS) (i gydweithwyr islaw lefel y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwchlaw Band 5) a'r Cynllun Gwobrwy Cydweithwyr (Bandiau 1-5) yn defnyddio nifer o fetrigau allweddol a rennir – yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â Chwsmeriaid, Perfformiad a Gwariant. Mae hyn yn sicrhau tryloywder ac ymdeimlad o berchnogaeth a rennir o'r targedau.


Mae'r AVPS ar gyfer cydweithwyr uwchlaw Band 5 yn cynnwys elfen o gyfle yn seiliedig ar gyflawni amcanion personol, yn ogystal â pherfformiad y Cwmni. Mae'r uchafswm cyfle yn amrywio o 10% i 60% o'u cyflog sylfaenol, yn dibynnu ar y band.

Nid yw'r cynllun Gwobrwy Cydweithwyr, sy'n gymwys i'r holl gyflogeion eraill, yn cynnwys elfen personol ac mae swm y taliad yn gwbl seiliedig ar berfformiad y Cwmni yn erbyn y metrigau a nodwyd. Yr uchafswm cyfle o dan y cynllun Gwobrwy Cydweithwyr yw £1,500. Y taliad gwirioneddol mewn perthynas â blwyddyn perfformiad y FA 23 yw £1,000 (y FA 22: £1,000).

Prif Swyddog Gweithredol



Prif Swyddog Ariannol



● Tâl Sefydlog
● AVPS
● LTVPS

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Cydnabyddiaeth – parhad

Tâl Cyfarwyddwyr Gweithredol

Yr hyn a dalwyd i Gyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer y FA 23 (Archwiliedig)

		Peter Perry		Mike Davis	
		Y FA 23 £'000s	Y FA 22 £'000s	Y FA 23 £'000s	Y FA 22 £'000s
Tâl Sefydlog	Cyflog	341	332	270	263
	Buddiannau ¹	1	1	1	1
	Arall	5	5 ²	–	3 ³
	Pensiwn a chroniad pensiwn	445 ⁴	105	26	25
	Cyfanswm Tâl Sefydlog	792	443	297	292
Tâl Amrywiadwy	Tâl amrywiadwy blynyddol – AVPS	–	133	–	105
	Cymhelliad hirdymor – LTVPS	–	99	–	47
	Cyfanswm y Tâl Amrywiadwy	–	232	–	152
Cyfanswm Cydnabyddiaeth Ffigur Sengl		792	675	297	444
Llai Croniad Pensiwn Buddiannau Diffiniedig		(412)	(73)	–	–
Cyfanswm Cydnabyddiaeth Ffigur Sengl heb gynnwys Croniad Buddiannau Diffiniedig		380	602	297	444

1 Buddiannau trethadwy sy'n ymwneud ag yswiriant iechyd preifat.

2 I Peter Perry mae hyn yn cynrychioli lwfans car o £5,000 y flwyddyn.

3 Taliad yn unol â pholisi Trosglwyddo Sylfaenol y Cwmni o ganlyniad i gau Nelson.

4 Mae'r cyfanswm o £445k yn cynnwys cronid pensiwn Buddiannau Diffiniedig gwerth £412,521 (gweler isod) a thaliadau cynllun arian parod yn lle pensiwn gwerth £32,869 sy'n cyfateb i 11% o'r cyflog llai cyfraniad YG y cyflogwr.

Ni thalwyd y swm o £412,521 yn y flwyddyn ac mae'n ymwneud â darpariaeth pensiwn yn y dyfodol yn unol â rheolau a deddfwriaeth cynlluniau pensiwn. Mae'r ffigur yn seiliedig ar ddull rhagnodedig CThEF o brisio'r pensiwn Buddiannau Diffiniedig a gronwyd yn y flwyddyn o ganlyniad i'r cynnydd yn y Cyflog Pensiynadwy Terfynol.

Diffinnir Cyflog Pensiynadwy Terfynol yn rheolau'r cynllun fel a) Cyflog Pensiynadwy yn ystod y 12 mis diwethaf neu b) cyfartaledd blynyddol mwyaf Cyflog Pensiynadwy ar gyfer tair blwyddyn dreth olynol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, p'un bynnag sydd fwyaf. O dan ddiffiniad b) caiff y ffigurau ar gyfer Cyflog Pensiynadwy ar gyfer blynyddoedd treth blaenorol eu hailbrisio yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn ôl gwerthoedd cyfredol cyn i'r cyfartaledd gael ei gyfrifo, a'r ail ddiffiniad hwn sy'n gymwys eleni oherwydd y cynnydd sylweddol yn yr RPI. Defnyddir y ffigur hwn ar gyfer Cyflog Pensiynadwy Terfynol wrth gyfrifo pensiwn ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n arwain at groniad o werth uwch dros y flwyddyn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r cyflwyniad uchod yn cynnwys Cyfanswm Cydnabyddiaeth Ffigurau Sengl sy'n cynnwys ac yn hepgor cronid pensiwn buddiannau diffiniedig yn y flwyddyn, er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall yr adroddiad hwn ac odlewyrchu natur gynhenid wahanol buddiannau ar ôl ymddeol ac elfennau eraill o gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Pensiynau (Archwiliedig)

Mae buddiannau pensiwn ar gyfer yr holl gyflogeion a fu'n rhan o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru, sef cynllun buddiannau diffiniedig, yn parhau i gynyddu'n unol â'r codiadau yn eu cyflog pensiynadwy. Darperir ar gyfer y cynnydd hwn hefyd yn y Cynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr y mae Peter Perry yn rhan ohono. Dangosir isod y pensiwn a gronwyd gan Peter Perry yn ystod y flwyddyn.

			Gwerth cyfalafedig y pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2022	Gwerth cyfalafedig wedi'i ailbrisio y pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2022	Pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2023	Gwerth cyfalafedig y pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2023	Cyfraniadau a dalwyd gan yr aelod yn ystod y flwyddyn 2023	Swm Mewnbwn Pensiwn (yn glir o gyfraniadau'r aelod) 2023
Oedran ymddeol arferol		Pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2022						
Peter Perry	60	198,166	3,963,311	4,086,173	£224,935	4,498,695	–	412,521

Tâl amrywiadwy blynyddol (AVPS) – canlyniad ar gyfer y FA 23

Dengys y tabl isod y dadansoddiad o berfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer AVPS ar gyfer y FA 23. Os nad yw canlyniad terfynol targed penodol ar gael fel ar ddyddiad yr adroddiad hwn, mae'r dyfarniad a nodir yn seiliedig ar amcangyfrif gorau presennol. Felly, gall y gwerthoedd hyn newid.

Mae modd ennill hyd at 100% o'r cyflog mewn unrhyw flwyddyn benodol ar gyfer Peter Perry a Mike Davis. Dangosir isod y perfformiad a gyflawnwyd yn y FA 23, o dan bob metrig yn erbyn yr amrediadau targed a bennwyd:

Y FA 23						
Elfen	Pwysoliad	Metrig	Perfformiad targed	Perfformiad trothwy	Uchafswm perfformiad a gyflawnwyd	
Gwasanaeth cwsmeriaid	40%	C-MeX (Safle)	6ed	3ydd	1af	4ydd
		D-MeX (Safle)	12fed	9fed	6ed	12fed
		B-MeX (Sgôr allan o 5)	4.4	4.4	4.5	4.4
Cyfanswm % o'r Cyflog ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid			4	24	40	16.08
Perfformiad gweithredol	40%	Dŵr:				
		Ansawdd dŵr tap (Sgôr)	9.46	2.80	2.0	5.40
		Toriadau yn y cyflenwad (mm:ss)	16:12	09:36	08:00	44:13
		Gollyngiadau dŵr (%)	5.10	8.80	10.30	(11.50)
		Derbynioldeb Dŵr cysylltiadau/1000)	2.44	2.35	1.91	2.35
		Dŵr gwastraff:				
		Cydymffurfiaeth Gweithfeydd Trin Dŵr a Dŵr Gwastraff (%)	98.49	99.16	100	98.49
		Digwyddiadau yn ymwneud â llygredd (Digwyddiadau)	99	85	71	89
		Carthffosydd mewnol yn gorlifo (Digwyddiadau)	253	230	203	169
Cyfanswm % o'r Cyflog ar gyfer Perfformiad Gweithredol			4	24	40	13.31
Nodau Strategol	20%	Paratoi ar gyfer PR24	Cyflawnwyd	Rhagorwyd arno	Rhagorol	Rhagorwyd arno
		%	0.80	4.80	8.00	4.8
		Ymgysylltu â chyflogeion	69	75	80	75
		%	0.40	2.4	4.00	2.40
		Perfformiad Statws Credyd	Disgyn un 'notch'	Rhagolwg negyddol	Statws Presennol	Rhagolwg negyddol
		%	0.40	2.4	4.00	2.4
		Nifer y menywod a benodir i swyddi uwch-reolwyr	24	27	30	27
		%	0.4	2.4	4.00	2.4
Cyfanswm % o'r Cyflog ar gyfer Nodau Strategol			2	12	20	12.00
Cyfanswm % y Dyfarnad a Gyflawnwyd						41.39

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Cydnabyddiaeth – parhad

Y perfformiad cyffredinol a gyflawnwyd ar gyfer y FA 23 yn AVPS y Cyfarwyddwyr Gweithredol oedd 41.39%. Arweiniodd y lefel hon o berfformiad at gyfanswm dyfarniadau i Gyfarwyddwyr Anweithredol fel a ganlyn:

Peter Perry: £141,099 (41.39% o'r cyflog) a fyddai wedi cael ei dalu ym mis Gorffennaf 2023 ond derbyniodd y Pwyllgor ei gynnig i beidio â chymryd y taliad.

Mike Davis: £111,831 (41.39% o'r cyflog) a fyddai wedi cael ei dalu ym mis Gorffennaf 2023 ond derbyniodd y Pwyllgor ei gynnig i beidio â chymryd y taliad.

Tâl amrywiadwy hirdymor (LTVPS) – y canlyniad ar gyfer y FA 23

O dan LTVPS ar gyfer y cyfnod rhwng 2020 a 2025, asesir perfformiad bob blwyddyn yn erbyn nodau interim. Gwneir taliadau interim hyd at 60% o'r uchafswm ar gyfer pob un o'r ddwy elfen: perfformiad Totex; canlyniadau ODI cyffredinol ar gyfer mesurau datblygu perfformiad. Asesir perfformiad cyffredinol dros gyfnod pum mlynedd yr AMP. Gallai hyn arwain at dalu neu adennill unrhyw symiau a dandalwyd neu a ordalwyd yn y flwyddyn olaf.

Ar gyfer y FA 23, mae'r perfformiad a gyflawnwyd ar gyfer pob targed fel a ganlyn:

Elfen	Pwysoliad	Lefel drothwy perfformiad (cyflawni 10%)	Lefel darged perfformiad (cyflawni 60%)	Uchafswm lefel perfformiad (cyflawni 100%)	Perfformiad a gyflawnwyd	% o'r elfen a enillwyd
Perfformiad Totex	50%	£694m	£659m	£643m	£687m	10.1
Canlyniadau ODI cyffredinol ar gyfer mesurau datblygu perfformiad	50%	£(3.1)m	£(1.8)m	£1.4	£(8.1)m	-
Cyfanswm (fel % o'r dyfarnidal uchaf)						10.1

Nodir manylion y perfformiad a gyflawnwyd ar gyfer pob un o'r mesurau datblygu perfformiad a gyfrannodd at yr asesiad LTVPS cyffredinol ar gyfer y FA 23 isod:

Mesur	Unedau	Prif Swyddog Gweithredol	Prif Weithredwr Gweithredol	Lefel drothwy perfformiad (cyflawni 5%) (cyflawni 3%)	Lefel darged perfformiad (cyflawni 30%) (cyflawni 18%)	Uchafswm lefel perfformiad (cyflawni 50%) (cyflawni 30%)	Perfformiad a gyflawnwyd	Y Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau (ODI) £m
Mesurau gwasanaeth parhaus								
Derbynioldeb dŵr yfed	Cysylltiadau fesul 1,000 o'r boblogaeth			2.64	2.56	1.91	2.35	(1.1)
Prif bibellau dŵr yn torri	# fesul 1,000km o Brif bibellau			132.7	130.8	135.1	156.2	(2.2)
Gosod pibellau cyflenwi newydd yn lle rhai plwm	Nifer			4,200	4,200	4,200	1,731	-
Gollyngiadau dŵr	%			5.0	8.8	8.8	(11.5)	(4.5)
Carthffosydd wedi dymchwel	# fesul 1,000km o Garthffosydd			7.2	7.2	7.2	6.7	-
Addysg gymunedol	Unigolion			72,000	73,000	73,000	80,194	-
Ymwelwyr â chyfleusterau hamdden	Unigolion			675,000	720,000	720,000	739,294	-
Defnydd y pen	%			1.4	2.1	3.0	(6.2)	(1.8)
Mesurau'r rhaglen fuddsoddi								
Km o afonydd a wellwyd	Km			25	25	110	122	1.4
Dŵr wyneb a dynnwyd o garthffosydd	m ³			141,900	141,900	141,900	10,752	(0.1)
Systemau storio gorlif carthffosydd cyfun	m ³			-	-	-	-	-

Mesur	Unedau	Prif Swyddog Gweithredol	Prif Weithredwr Gweithredol	Lefel drothwy perfformiad (cyflawni 5%) (cyflawni 3%)	Lefel darged perfformiad (cyflawni 30%) (cyflawni 18%)	Uchafswm lefel perfformiad (cyflawni 50%) (cyflawni 30%)	Perfformiad a gyflawnwyd	Y Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau (ODI) £m
Cyflawni ein rhaglen gwella cronfeydd dŵr	Safleoedd			13	13	13	14	-
Cyflawni ein rhaglen o astudiaethau parthol	Parthau			Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	-
Caffael uniongyrchol i gwsmeriaid: Cynllun strategaeth cyflenwi dŵr Cwm Taf (tanberfformio)	Dyddiad			Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	-
Caffael uniongyrchol i gwsmeriaid: Cynllun strategaeth cyflenwi dŵr Cwm Taf (gorberfformio)	Dyddiad			Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	-
Adeiladu canolfan ymwelwyr newydd	Cyflawnwyd			Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	-
Cyflawni cynllun cydnherthedd dŵr Grid De Cymru y Cwmni	% a gwblhawyd			10	10	10	2	-
Cyfanswm				(3.1)	(1.8)	1.4	Dd/G	(8.1)

Mae'r mesurau yn y tabl uchod sydd â "Dd/G" ar gyfer perfformiad yn y flwyddyn yn adlewyrchu ymrwymadau i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhaglenni cyfalaf ar amser, lle nad oedd unrhyw allbynnau wedi'u trefnu ar gyfer y FA 23. Roedd y perfformiad cyffredinol a gyflawnwyd ar gyfer y FA yn 10.1% o'r uchafswm, islaw'r lefel darged o 60% o'r uchafswm.

O ran y FA 23, byddai hyn wedi arwain at ddyfardaliadau LTVPS i Gyfarwyddwyr Anweithredol fel a ganlyn:

- Peter Perry: 10.1% o'r cyflog (£34,431) – byddai wedi cael ei dalu ym mis Gorffennaf 2023
- Mike Davis: 6% o'r cyflog (£16,211) – byddai wedi cael ei dalu ym mis Gorffennaf 2023

Peidio â derbyn Tâl Amrywiadwy Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer 2023

Roedd canlyniadau'r cardiau sgorio o dan AVPS a LTVPS, ym marn y Pwyllgor, yn adlewyrchiad cytbwys o berfformiad y busnes mewn blwyddyn heriol iawn i'r busnes a'r diwydiant dŵr ehangach. Fodd bynnag, fel y cyhoeddwyd ar 11 Mai 2023, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi dewis peidio â derbyn y taliad amrywiadwy yr oedd ganddynt hawl iddo mewn perthynas â'r FA 23 o dan AVPS a LTVPS ac mae'r Pwyllgor wedi derbyn hyn. Er i'r nifer o dargedau'r cynlluniau AVPS a LTVPS gael eu cyflawni'n rhannol neu'n llawn, mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod yr unigolion yn cydnabod eu dyletswyddau i reoli effaith amgylcheddol ein gweithrediadau (yn enwedig ansawdd dŵr afonydd). Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn ymwybodol bod y mater hwn yn ennyn teimladau cryf ymhlith y cyhoedd, ac mewn blwyddyn pan effeithiodd tywydd eithafol ar ein gallu ehangach i reoli'r heriau hyn, nid oedd Peter Perry na Mike Davis yn credu ei bod yn briodol iddynt derbyn eu tâl amrywiadwy ar gyfer y FA 23.

Ffioedd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol (Archwiliedig)

	Cyfanswm y Ffioedd £'000	
Cyfarwyddwyr Anweithredol	Y FA 23	Y FA 22 ¹
Alastair Lyons	228	222
Graham Edwards ²	75	73
Joanne Kenrick	63	62
Debra Bowen Rees	63	62
Tom Crick	63	59
Jane Hanson	63	62
Lila Thompson ³	35	-
Barbara Moorhouse ⁴	13	-

1 Cafodd ffioedd yn 2021 eu lleihau ar ôl i Gadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd yn gwasanaethu ar y pryd ofyn am i'w ffioedd ar gyfer mis Mai, mis Mehefin a mis Gorffennaf 2020 gael eu lleihau 20%. Oherwydd gwall gweinyddol, cafodd ffi Tom Crick ei gostwng yn ôl-weithredol o fis Mehefin 2021. Adlewyrchir hyn yn ffi Tom ar gyfer 2022

2 Graham Edwards yw'r Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol ac mae ei ffioedd yn adlewyrchu hyn

3 Ymunodd Lila Thompson â'r Bwrdd ar 6 Medi 2022

4 Ymunodd Barbara Moorhouse â'r Bwrdd ar 16 Ionawr 2023

Ni chafodd yr un Cyfarwyddwr Anweithredol unrhyw fuddiannau na chydabyddiaeth ychwanegol uwchlaw ei ffioedd sylfaenol.

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Cydnabyddiaeth – parhad

Adran 5: Penderfyniadau ynghylch tâl ar gyfer y FA 24

Tâl Cyfarwyddwyr Gweithredol

	Cyflog sylfaenol Y FY 24	Cyflog sylfaenol Y FY 23
Peter Perry	£354,539	£340,903
Mike Davis	£280,996	£270,189

Cyflog sylfaenol

Wrth adolygu cyflogau Gweithredol, ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd a gynigiwyd ar gyfer perfformiad unigol, busnes a gweithlu ehangach hyd yma yn y FA 23. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn argymhelliad y Cyfarwyddwyr Gweithredol y byddai'n briodol dyfarnu cynnydd islaw'r cynnydd ar gyfer y gweithlu ehangach. Roedd gan y gweithlu ehangach gytundeb i ddyfarnu cynnydd yn unol â chostau tai perchen-feddianwyr (CPIH) ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag, mewn partneriaeth â'n hundebau llafur gwnaethom gytuno ar gynnydd o 6.2% (3% yn is na CPIH ym mis Rhagfyr 2022) a thaliad costau byw o £2,000. Dyfarnwyd cynnydd o 4.% i aelodau'r Tîm Gweithredol. Roedd pob cynnydd yn weithredol o fis Ebrill 2023.

Buddiannau a phensiwn

Ni fydd trefniadau buddiannau a phensiwn yn newid ar gyfer y FA 24, heblaw am y ffaith y bydd lwfans car y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cynyddu yn weithredol o 1 Ebrill 2023.

Adolygodd y Pwyllgor lwfans car y Cyfarwyddwyr Gweithredol ym mis Mawrth 2023 a chanfu ei fod gryn dipyn yn is na chyfradd y farchnad. O ganlyniad, caiff y lwfans car ar gyfer y FA 24 ei gynyddu £5,000 i £8,500.

Bydd gan bob cyflogai, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol, yr hawl i uchafswm cyfraniad pensiwn o 11%. Mae cyflogeion cymwys yn cael cyfle i optio allan a chael lwfans arian parod sy'n cyfateb i 9.7%. Bydd y buddiannau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys yswiriant iechyd preifat a lwfansau car.

Tâl amrywiadwy blynyddol

Ar gyfer y FA 24, bydd modd ennill tâl amrywiadwy blynyddol o hyd at 100% o'r cyflog, yn seiliedig ar berfformiad. Nodir y mesurau perfformiad a ddefnyddir isod ac maent wedi'u gosod gan gyfeirio at y nodau yng nghynllun busnes 2020-25 (AMP7).

Nodir manylion y mesurau a'u pwysoliadau isod.

	Gwasanaeth Cwsmeriaid	Perfformiad Gweithredol	Nodau Strategol
Mesurau (mae'r canrannau yn gyfran o'r cyfanswm o dan y maes hwnnw)	- C-MeX (18.75%)* - B-MeX (5.625%)* - D-MeX (5.625%)* *Mesur Ofwat o wasanaeth cwsmeriaid. ar gyfer boddhad cwsmeriaid preswyl, busnesau a datblygwyr, yn y drefn honno.	Dŵr: - Cydymffurfiaeth ag ansawdd dŵr (6.25%) - Toriadau yn y cyflenwad (6.25%) - Derbynioldeb dŵr (6.25%) - Perfformiad gollyngiadau dŵr (6.25%) Gwastraff: - Cydymffurfiaeth dŵr gwastraff (12.5%) - Achosion o lygredd o ddŵr gwastraff (6.25%) - Llifogydd carthion mewnol ar eiddo cwsmeriaid (6.25%)	- Paratoi ar gyfer PR24 (8%) - Cynaliadwyedd (Km o afonydd a wellwyd) (4%) - Perfformiad statws credyd (4%) - Gwella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar lefel uwch-reolwyr (4%)
Faint o'r cynllun?	30%	50%	20%

Cynllun tâl amrywiadwy hirdymor

Bydd LTVPS yn parhau i gael ei fesur o dan gynllun pum mlynedd 2020-25 a bydd yn seiliedig ar y canlynol:

- Totex (cyfanswm y gwariant – costau gweithredu a buddsoddiadau): (50%)
- Gwobrau/cosbau yn erbyn mesurau datblygu perfformiad: (50%)

Ffioedd Cadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol

Cafodd y ffioedd sy'n daladwy i Gadeirydd y Bwrdd eu hadolygu ym mis Mawrth 2023 a phenderfynodd y Pwyllgor (yn absenoldeb y Cadeirydd) y dylai ffi Cadeirydd y Bwrdd gael ei gynyddu 4% yn unol â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Ym mis Mawrth 2023, adolygodd Cadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ffioedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol a phenderfynodd y dylid cadw'r ffi sylfaenol ar £63,376, gyda ffi ychwanegol yn cael ei thalu am gadeirio'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Pwyllgor Technoleg ac, o'r adeg pan fydd yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol presennol yn rhoi'r gorau i'w rôl ym mis Gorffennaf 2023, am gyflawni rôl yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol.

Bydd ffioedd ar gyfer y FA 24 fel a ganlyn:

Rôl	Ffi y FA 24	Ffi y FA 23
Cadeirydd	£237,315	£228,213
Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol tan 31 Mawrth 2023 ¹	Dd/G	£74,992
Ffi sylfaenol Cyfarwyddwyr Anweithredol	£63,376	£63,376
Ffioedd am gyfrifoldebau Bwrdd ychwanegol (a ychwanegir at ffi sylfaenol y Cyfarwyddwr Anweithredol)		
Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol (o fis Gorffennaf 2023)	£10,000	–
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio	£10,000	–
Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch	£10,000	–
Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth	£7,500	–
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI)	£2,500	–
Cadeirydd y Pwyllgor Technoleg	£2,500	–

¹ Tan 31 Mawrth 2023, cafodd Graham Edwards ffi gyfansawdd o £74,992 am gyflawni ei holl gyfrifoldebau Bwrdd (sef gweithredu fel yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch). Yn weithredol o 1 Ebrill 2023, cafodd ei strwythur ffi ei ddiwygio i gyd-fynd â'r polisi newydd a phan fydd Graham yn ymddeol o'r Bwrdd ym mis Gorffennaf, bydd ffi'r Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol newydd yn dilyn yr un strwythur

Adran 6: Gwybodaeth bwysig arall

Tâl gweithlu Dŵr Cymru

Cymhareb tâl y Prif Swyddog Gweithredol

Dyma'r bedwaredd flwyddyn rydym wedi cymhwyso'r gofynion i adrodd ar gymhareb tâl y Prif Swyddog Gweithredol ar gyfer cwmnïau rhestredig yn y DU, sy'n cymharu tâl y Prif Swyddog Gweithredol â chyflogaion yn yr 25ain ganradd, y ganradd ganolrifol a'r 75ain ganradd. Er mwyn cyfrifo'r gymhareb, rydym wedi cymhwyso Methodoleg A o ganllawiau Llywodraeth y DU, sef y dull mwyaf cywir a chadarn, ym marn y Pwyllgor.

Blwyddyn	Methodoleg	Cymhareb tâl y 25ain ganradd	Cymhareb tâl ganolrifol	Cymhareb tâl y 75ain ganradd
Y FA 23	A	11:1	8:1	7:1
Y FA 22	A	19:1	15:1	12:1

Mae cymhareb ganolrifol y flwyddyn hon ychydig yn is na'r flwyddyn diwethaf. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r fffaith na chafodd y Prif Swyddog Gweithredol unrhyw dâl amrywiadwy ar gyfer y FA 23 ar ôl i'w gynnig i beidio â chymryd y taliadau gael ei dderbyn. Mae ffactorau eraill yn cynnwys y codiad cyflog o 4.8% a ddyfarnwyd i gyflogaion ym mis Ebrill 2022 a oedd 2% yn fwy na'r cynnydd a ddyfarnwyd i'r cyfarwyddwyr gweithredol a'r taliadau costau byw o rhwng £1,000 a £2,000 sy'n cael eu gwneud i gyflogaion cymwys, gyda'r rhai ar gyflogau is yn cael £2,000.

Pe bai'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cael y tâl amrywiadwy yn unol â'r canlyniad fformiwläig a nodir ar dudalen 187, Cymhareb Tâl y Prif Swyddog Gweithredol fyddai:

Blwyddyn	Methodoleg	Cymhareb tâl y 25ain ganradd	Cymhareb tâl ganolrifol	Cymhareb tâl y 75ain ganradd
Y FA 23	A	16:1	12:1	10:1

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Cydnabyddiaeth – parhad

Mae'r gymhareb hon sy'n cynnwys tâl amrywiadwy hefyd yn is na chymhareb y flwyddyn diwethaf ac yn ogystal â'r ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar y gymhareb, mae hefyd yn adlewyrchu alldro fformiwlâig is yn LTVPS o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Pennwyd cyflogaion y 25ain ganradd, y ganradd ganolrifol a'r 75ain ganradd ar 8 Mehefin 2023 gan ddefnyddio cyfanswm y tâl ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 ar gyfer yr holl gyflogaion ar 31 Mawrth 2023. Nodir manylion tâl yr unigolion ar sail cyfwerth ag amser llawn isod:

	Cymhareb tâl y 25ain ganradd	Cymhareb tâl ganolrifol	Cymhareb tâl y 75ain ganradd
Y FA 23			
Cyflog	29,564	26,451	34,403
Cyfanswm y tâl	35,271	45,627	57,923

Nodiadau ar Fethodoleg

- Mae'r cymarebau tâl yn adlewyrchu ein hegwyddorion cydnabyddiaeth a'n Polisi Cydnabyddiaeth cymeradwy. Ystyrir bod cyfanswm y gydnabyddiaeth yn deg ac yn gystadleuol a'i fod yn adlewyrchu amodau economaidd ehangach, gan ein galluogi i ddenu a chadw sgiliau a thalent.
- Cafodd yr elfennau sy'n ymwneud â thâl amrywiadwy eu hamcangyfrif ar gyfer y gweithlu ehangach, gan na fydd taliadau unigol yn derfynol tan fis Gorffennaf 2023.
- Mae cyflogau cyflogaion newydd a thaliadau amrywiadwy blyneddol wedi'u newid er mwyn adlewyrchu'r hyn sy'n gyfwerth â chyflogau amser llawn.
- Mae cyflogau rhan amser a thaliadau amrywiadwy blyneddol, gan gynnwys taliadau costau byw, wedi'u newid er mwyn adlewyrchu'r hyn sy'n gyfwerth â chyflogau amser llawn.
- Nid yw cronïad Pensiwn Buddiannau Diffiniedig wedi'i gynnwys ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol na'r gweithlu ehangach. Mae hyn i'w briodoli i'r amrywiad sylweddol yng nghronïad y Prif Swyddog Gweithredol sy'n effeithio ar y gymhareb ac nid yw'n gynrychioliadol at ddibenion cymharu cydnabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn rhwng y Prif Swyddog Gweithredol a'n cyflogaion. Yn y FA 23, roedd y cronïad pensiwn yn fwy na chyfanswm yr holl enillion eraill. Nid yw'r ffigurau ar gyfer cronïad buddiannau diffiniedig ar gyfer y gweithlu ehangach wedi'u cynnwys ychwaith gan nad ydynt ar gael.

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Diffinnir y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau fel y bwlch cyffredinol rhwng tâl a thaliadau bonws wrth edrych ar gymedr a chanolrif pob rhyw (yn seiliedig ar gyfradd tâl yr awr ar y dyddiad ciplun, sef 5 Ebrill 2022 a'r taliadau bonws a dalwyd yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2022), ni waeth beth fo'r rôl na'r lefel awdurdod. Rydym wedi gweld lleihad yn ein bylchau cyflog canolrifol a chymedrig rhwng y rhywiau, sy'n parhau â'r duedd tuag i lawr a welwyd dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'n galonogol bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dal i fod yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae ein Hadroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau (gweler y ddolen isod) yn nodi'r mentrau allweddol rydym yn eu cynnal er mwyn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant yn Dŵr Cymru.

Rydym yn parhau i hyrwyddo dyrchafiad menywod drwy'r Cwmni – am ragor o fanylion am rai o'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd i gefnogi amrywiaeth o ran rhywedd a mathau eraill o amrywiaeth drwy ein sefydliad cyfan, gweler tudalen 128 yn ein hadran 'Cynnydd o ran Cynaliadwyedd'.

Diffiniadau

Canolrifol – Y gwahaniaeth rhwng y canolbwyntiau yn amrediadau tâl dynion a menywod Cymedr – Y gwahaniaeth rhwng cyfartaledd cyflog dynion a menywod.

Mae'r bwlch canolrifol wedi lleihau o 4.2% yn 2021 i 3.6% yn 2022, ac mae'r bwlch cymedrig wedi lleihau o 6.6% yn 2021 i 6.0% yn 2022. Rydym yn fodlon ar y cynnydd rydym yn ei wneud o ran parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac rydym hefyd yn deall bod gennym lawer i'w wneud er mwyn cynyddu nifer y menywod a gaiff eu recriwtio i'r sefydliad a sicrhau ein bod yn denu ac yn cadw talent.

O ran taliadau bonws, mae'r mwyafrif o'n cyflogaion yn cael swm sefydlog y taliad o dan y Cynllun Gwobrwy Cydweithwyr. Mae Mae'r canolbwynt ar gyfer pob rhywedd yn cwmpo o fewn nifer y cydweithwyr sy'n cael taliad Gwobrwy Cydweithwyr, a gan mai taliad sefydlog yw hwn, nid oes gwahaniaeth rhwng dynion a menywod, pan y'i cyfrifir ar sail ganolrifol. O ganlyniad, fel mewn blyneddau blaenorol, nid oes bwlch o ran y bonws canolrifol. Mae bwlch o ran y bonws cymedrig yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o ddynion yn y swyddi lefel uchaf yn y Cwmni lle mae'r cyfleoedd i ennill tâl amrywiadwy yn uwch. Fodd bynnag, mae'r bwlch hwn wedi lleihau o 8.1% yn 2021 i 6.8% yn 2022.

Mae ein hadroddiad llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/company-statements/gender-pay-gap-report>

Bwlch cyflog o ran ethnigrwydd

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Pwyllgor i symud tuag at y nod o adrodd ar ein bwlch cyflog o ran ethnigrwydd yn wirfoddol, yn sgil datblygu arferion da ac fel rhan o'n camau i gefnogi amrywiaeth ym mhob rhan o'n sefydliad.

Y gyfradd ddatgelu ar gyfer ethnigrwydd ar adeg yr ymarfer casglu data ar gyfer 2022 oedd 66.8%, yn dilyn sawl ymgyrch i ofyn i bob cydweithiwr ddiweddarau ei wybodaeth bersonol yn ei broffil. Mae cyfradd ddatgelu gan gyflogeion o fwy nag 80% yn cael ei hargymhell er mwyn cyfrifo'r bwlch yn ystyrlon. Mae'n bleser gennym gadarnhau ein bod wedi sicrhau cyfradd ddatgelu o fwy nag 80% ar gyfer ymarfer casglu data mis Ebrill 2023 ac rydym yn parhau i weithio tuag at gyhoeddi ein Bwlch Cyflog o ran Ethnigrwydd yn wirfoddol yn y dyfodol.

Newid Blynyddol mewn tâl i Gyfarwyddwyr y Bwrdd a phob cyflogai

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r newid i'r gydnabyddiaeth a dalwyd i Gyfarwyddwyr y Bwrdd ar gyfer y tair blwyddyn ariannol diwethaf o gymharu â'r newid canrannol cyfartalog i gyflogeion Dŵr Cymru:

	Y FA 23			Y FA 22			Y FA 21		
	% newid mewn cyflog/ffioedd	% newid mewn buddian-nau	% newid mewn AVP	% newid mewn cyflog/ffioedd	% newid mewn buddian-nau	% newid mewn AVP	% newid mewn cyflog/ffioedd	% newid mewn buddian-nau	% newid mewn AVP
Cyfarwyddwyr Gweithredol:									
Peter Perry	2.8	-	(100)	2	(5.1)	(19.7)	2	(2.3)	(6.3)
Mike Davis	2.8	(70.5)	(100)	2	(5.1)	(19.7)	2	22	51.7
Cyfarwyddwyr Anweithredol:									
Alastair Lyons	2.8	-	-	-	-	-	-	-	-
Graham Edwards	2.8	-	-	-	-	-	-	-	-
Joanne Kenrick	2.8	-	-	-	-	-	-	-	-
Jane Hanson	2.8	-	-	-	-	-	-	-	-
Debra Bowen Rees	2.8	-	-	-	-	-	-	-	-
Tom Crick	2.8	-	-	-	-	-	-	-	-
Lila Thompson	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
Barbara Moorhouse	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Dd/G
John Warren	Dd/G	Dd/G	Dd/G	-	-	-	-	-	-
Cyflogai Dŵr Cymru Cyffredin	7.9	-	1.5	4.5	-	1	4.5	-	4.1

Sut mae tâl y Prif Weithredwr yn cymharu â blynyddoedd blaenorol?

	Y FA 14	Y FA 15	Y FA 16	Y FA 17	Y FA 18	Y FA 19	Y FA 20	Y FA 21	Y FA 22	Y FA 23
Cyfanswm cydnabyddiaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr/Prif Weithredwr (£'000)	742	974	746	629	679	607	685	892	675	792
Cyfanswm y gydnabyddiaeth llai croniad pensiwn (£'000)	520	690	604	629	601	624	678	555	602	380
Canlyniad tâl amrywiadwy blynyddol	51%	79%	70%	75%	65%	67%	60%	50.8%	40%	nil
Canlyniad cynllun hirdymor	78%	91%	65%	65%	27%	25%	19%	23.1%	30%*	nil

* Gan mai taliad interim ar sail y perfformiad o gyflwynwyd yn ystod cyfnod yr AMP yw hwn, caiff ei gapio ar 30%.

Sut mae cyfanswm y gwariant ar gyflog y Cyfarwyddwyr Gweithredol a chyfanswm tâl staff yn cymharu â gwariant arall?

			Newid	
	Y FA 22	Y FA 23	£m	%
Cyfanswm y gwariant	744.9	826.4	81.5	10.9
Costau cydnabyddiaeth cyflogeion	150	167.4	17.4	11.6
Dychwelyd gwerth i gwsmeriaid	13	12	(1)	-7.7
Costau cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol	1.1	1.1	-	-

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL PARHAD

5 Cydnabyddiaeth – parhad

Contractau gwasanaeth a llythyrau penodi Cyfarwyddwyr y Bwrdd

Mae dyddiadau contractau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd yn eu swydd ar 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

Alastair Lyons 12 Ebrill 2016	Graham Edwards 1 Hydref 2013	Tom Crick 1 Hydref 2017	Debra Bowen Rees 5 Rhagfyr 2019
Jane Hanson 3 Rhagfyr 2020	Peter Perry 3 Mehefin 2020	Joanne Kenrick 1 Tachwedd 2015	Mike Davis 3 Mehefin 2020
Lila Thompson 6 Medi 2022	Barbara Moorhouse 16 Ionawr 2023		

Dylai Aelodau sydd am weld y contractau gwasanaeth a'r llythyrau penodi uchod ofyn i Ysgrifennydd y Cwmni amdanynt drwy anfon e-bost i company.secretary@dwrcymru.com

Crynodeb o bleidleisiau'r Aelodau ar y Polisi Cydnabyddiaeth a'r Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth

Cymeradwywyd y Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer AMP7 gan yr Aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2020, a chymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth ddiwethaf yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2022. Roedd y pleidleisiau fel a ganlyn:

	Pleidlais o blaid
Aelodau (a oedd yn bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy) a bleidleisiodd o blaid yr Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2022	96%
Aelodau (a oedd yn bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy) a gymeradwyodd Bolisi Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr ar gyfer 2020-2025 - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2020	90%

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad ynghyd â Datganiadau Ariannol archwiledig y Grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 (y FA 23)

Mae'r adolygiad o berfformiad y Cwmni yn yr Adroddiad Strategol ar dudalennau 48 i 66. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r Grŵp, ei fodel busnes a'i strategaeth ar gyfer y tymor hwy, gweithrediad ei fusnesau, dotblygiadau yn y dyfodol a'r canlyniadau a'r sefyllfa ariannol ar gyfer y FA 23. Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a omlinellir ar dudalennau 134 i 197 wedi'i ymgorffori drwy gyfeirio at yr adroddiad hwn ac, yn unol â hynny, dylai gael ei ddarllen fel rhan o'r adroddiad hwn.

Nodir manylion proses y Grŵp ar gyfer mynd i'r afael â'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir gan y Grŵp yn yr adran ar Reoli Risg ar dudalennau 90 i 99.

Perfformiad ariannol

Mae'r Grŵp mewn sefyllfa ariannol gadarn ar 31 Mawrth 2023; mae gerio yn parhau'n unol ag amrediad y Bwrdd ar 58% (y FA: 58%) ac rydym wedi cynnal ein statws credyd cryf. Darllenwch fwy yn Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid o dudalen 34 i dudalen 39.

Polisi difidendau

Mae Glas Cymru Holdings Cyfyngedig yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo gyfalaf cyfranddaliadau, felly ni thelir unrhyw ddifidendau y tu allan i'r Grŵp. Mae ein cyfansoddiad nid er cyfranddalwyr yn golygu y caiff gwerth a greir yn y busnes ei ddefnyddio er budd cwsmeriaid er mwyn cefnogi tariffau cymdeithasol a chynyddu'r buddsoddiad mewn asedau er mwyn darparu ein gwasanaethau hanfodol.

Dŵr Cymru Cyfyngedig – Busnes Penodedig

Ym mis Mawrth 2016, cymeradwyodd Bwrdd Glas bolisi difidendau fel bod modd i hyd at £100m gael ei ddosbarthu o fewn y Grŵp, ond y tu allan i'r hyn a neilltuir at ddibenion rheoleiddio, er mwyn helpu i ariannu prosiectau masnachol.

Yn unol â'r Polisi hwn, talwyd difidendau o fewn y Grŵp gwerth £30.2 miliwn yn 2016-2017. Ni thalwyd unrhyw ddifidendau rhwng y Grŵp ers hynny ac ni ddisgwyllir i unrhyw ddifidendau o'r fath gael eu talu yn y dyfodol agos.

Os bydd y Bwrdd yn ystyried difidendau o'r fath yn y dyfodol, mae wedi cadarnhau y bydd yn ystyried i ba raddau y mae'r cwmni penodedig yn cyflawni ei ymrwymiadau perfformiad ar gyfer darparu gwasanaethau i gwsmeriaid a rhwymedigaethau rheoleiddio eraill, a'i ymrwymiadau eraill yn PR19 mewn perthynas â materion i'w hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniad i dalu difidend. Cymeradwywyd y Polisi Difidendau presennol gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2022 a gan Ofwat ym mis Ebrill 2022. Gweler <https://corporate.dwrwymru.com/cy-gb/library/company-statements>

Offerynnau ariannol

Ymdrinnir â rheoli risgiau ariannol a gwybodaeth am offerynnau ariannol yn nodiadau 1, 15 ac 16 i'r datganiadau ariannol.

Ymchwil a datblygu

Gyda chymorth ein cwsmeriaid, rheoleiddwyr a llywodraethau fel ei gilydd i wella gwasanaethau a lleihau ein hól troed carbon a'n hól troed amgylcheddol, rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd gwell o weithio neu ddatblygiadau ym maes technoleg. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r agenda a nodir yn ein Strategaeth Arloesi, sy'n cysylltu â mwy na 100 o sefydliadau academaidd a sefydliadau eraill, arbenigwyr ym maes technoleg a chwmnïau arloesi byd-eang. Am fanylion ein buddsoddiad mewn prosiectau technegol ac arloesol a'n hymchwili iddynt gweler tudalen 129 o'n Hadroddiad Strategol.

Cyfarwyddwyr

Nodir Cyfarwyddwyr y Cwmni a oedd yn eu swydd yn ystod y flwyddyn, a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol, ar dudalennau 140 i 143.

Indemnïad cyfarwyddwyr

Mae gan y Cwmni yswiriant Cyfarwyddwyr a Swyddogion sy'n diogelu rhag camau cyfreithiol a gymerir yn erbyn y Cyfarwyddwyr ac yn rhoi indemnïad mewn amgylchiadau lle nad yw Cyfarwyddwr wedi gweithredu'n dwyllodrus nac yn anonest. Mae'r indemnïad yn indemnïad sy'n gymwys at ddiben y Ddeddf Cwmnïau ac mae er budd yr holl Gyfarwyddwyr. Ni wnaed unrhyw hawliadau yn erbyn y polisi hwn ers dyddiad yr adroddiad diwethaf.

Cyflogaion

Mae'r Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd denu, datblygu a chadw'r bobl gywir. Yn unol ag arferion gorau, rydym wedi rhoi polisiau cyflogaeth ar waith sy'n rhoi cyfle cyfartal i'n holl gyflogaion, ni waeth beth fo'u rhyw, hil, lliw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, credoau crefyddol na'u statws priodasol. Ceir gwybodaeth am ddulliau'r Bwrdd o ymgysylltu â'r gweithlu ar dudalennau 71 a 135.

Ymgysylltu â rhonddeiliaid

Nodir manylion am sut mae'r Cyfarwyddwyr wedi rhoi sylw i'r angen i feithrin cydberthnasau busnes y Cwmni â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill, ac effaith y sylw hwnnw, gan gynnwys ar y prif benderfyniadau a wnaed gan y Cwmni yn ystod y flwyddyn ariannol, yn yr Adroddiad Strategol ar dudalennau 68 i 73.

Llywodraethu corfforaethol

Yn ystod y FA 23, rydym wedi cymhwyso egwyddorion ac wedi cydymffurfio â darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 a Chanllawiau Ofwat ar Arweinyddiaeth, Tryloywder a Llywodraethu Bwrdd, fel y'u diweddarwyd yn 2019 ac fel sy'n ofynnol gan ein hamodau Trwydded. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran ar Lywodraethu ar dudalennau 144 i 145.

Newid yr erthyglau cymdeithasu

Oni nodir yn benodol i'r gwrthwyneb yn Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni, gellir newid Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni drwy benderfyniad arbennig Aelodau'r Cwmni.

Rhoddion gwleidyddol

Mae'n bolisi gan y Bwrdd i beidio â gwneud rhoddion i bleidiau gwleidyddol na mynd i wariant gwleidyddol. Ym mis Mai 2022, rhoddwyd £28,136 i Step Change er mwyn cefnogi'r gwaith y mae'r elusen yn ei wneud i roi cyngor ar ddyled i'n cwsmeriaid.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR PARHAD

Rydym yn datgelu'r taliad hwn am fod y sefydliad hwn hefyd yn ymgyrchu dros newid polisiâu'r Llywodraeth, gan gynnwys ar faterion sy'n ymwneud â dyled. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw ran o'r taliad hwn wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith ymgyrchu'n uniongyrchol. Heblaw am hyn, ni wnaed unrhyw roddion na thaliadau y mae'n ofynnol eu datgelu o dan adran 366 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Wateraid

Fel sy'n briodol i gwmni sydd â strwythur corfforaethol fel ein strwythur ni, nid ydym yn rhoi nawdd corfforaethol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gefnogi WaterAid.

Unigolion â rheolaeth sylweddol

Cadwn Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Sylweddol er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (Deddf 2015). Mae'r cwmni wedi nodi endidau cyfreithiol perthnasol y gellir eu cofrestru o fewn strwythur y Grŵp.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Oherwydd ein hymrwymiad i adroddiadau tryloyw ac arferion gorau, rydym wedi cynnwys ein datgeliadau adrodd ynni a charbon syml ar dudalennau 120 i 121 o'r adroddiad hwn ochr yn ochr â'n hól troed blyneddol o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr a chymhareb dwysedd sy'n briodol i'n busnes, sy'n bodloni gofynion Rheoliadau Deddf Cwmnïau 2006 (Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr) 2013.

Archwilydd y FA 23

KPMG LLP yw Archwilydd Grŵp Glas Cymru (y Grŵp) ar gyfer cyfrifon y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Fel rhan o'r broses archwilio, rydym wedi cadarnhau, hyd y gŵyr pob Cyfarwyddwr, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Archwilydd yn ymwybodol ohoni, a'u bod wedi cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cael unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod Archwilydd y Grŵp yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cadarnhawn y canlynol hyd eithaf ein gwybodaeth:

- bod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol â'r safonau cyfrifyddu cymwys, yn rhoi darlun gwir a theg o berfformiad y Grŵp;
- bod yr Adroddiad Strategol yn cynnwys adolygiad teg o berfformiad y busnes, ei risgiau a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol;
- bod y Cyfarwyddwyr o'r farn bod yr Adroddiad Blyneddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Wrth ystyried y broses o ddatblygu'r system rheolaethau, mae'r tîm rheoli yn adolygu perthnasedd a'r costau a'r buddiannau cymharol sy'n gysylltiedig â phob risg sylweddol a nodwyd. Cynlluniwyd y systemau rheolaeth fewnol i ddarparu sicrwydd rhesymol yn erbyn camddatganiadau, colled neu fethiant. Fel rhan o'r broses o adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, cynhelir trafodaethau â rheolwyr ar risgiau sylweddol ac adolygir cynlluniau ar gyfer gwaith archwilio mewnol ac allanol a chanlyniadau gwaith o'r fath.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno canlyniadau ei adolygiad i'r Bwrdd, a ddaw wedyn i'w gasgliad ar y cyd ynglŷn ag effeithiolrwydd y system o rheolaethau mewnol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r Bwrdd yn ystyried adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a rheolwyr, ac yn dibynnu ar y gwaith a wneir

ganddo fel mater o drefn i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol ac adroddiadau misol ar berfformiad ariannol a gweithredol.

Gyda'i gilydd, mae'r prosesau hyn yn galluogi'r Bwrdd i adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol drwy gydol y flwyddyn.

Ni fydd KPMG LLP yn cael ei ailbenodi'n Archwilydd y Grŵp (gweler Archwilydd y FA 24).

Archwilydd y FA 24

Yn dilyn ymarfer aildendro am wasanaethau archwilio allanol a gwblhawyd yn ystod y FA 23, cafodd penderfyniad i benodi Deloitte LLP yn Archwilydd y Grŵp ei gymeradwyo gan Fwrdd Glas Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Gorffennaf 2023. Deloitte LLP fydd Archwilydd y Grŵp ar gyfer y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024, a bydd yn rhaid iddo gael ei ailbenodi bob blwyddyn gan yr Aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol ddilynol. Felly, yn unol ag Adran 489 o Ddeddf Cwmnïau 2006, cyflwynir cynnig y dylid ailbenodi Deloitte LLP yn archwilydd y Grŵp i'r Aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol sydd ar ddod.

Hawliau dynol

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol mewn perthynas â chydweithwyr a'n cadwyn gyflenwi (gweler tudalen 111 am wybodaeth am ein Polisi Caffael Cynaliadwy, Safonau Cydymffurfio Cadwyni Cyflenwi a Pholisi Gwrthgaethwasiaeth). Ategir ein Cod Ymddygiad mewnol gan nifer o bolisiâu'r Grŵp gan gynnwys, Gwrthfwlio ac Aflonyddu, Chwythu'r Chwiban, Atal Llwgwrwbrwyo a Llygredigaeth, ac Atal Twyll.

Diogelu data a gwybodaeth

Mae Dŵr Cymru yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn trin gwybodaeth bersonol am ein cwsmeriaid a'n cyflogeion mewn ffordd gyfrifol a gonest, gan gynnwys parchu eu hawliau diogelu data yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae ein Datganiad Preifatrwydd i'w weld ar ein gwefan yn <https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/legal-privacy>

Gwybodaeth arall

Rhoddyd amcan o ddatblygiadau tebygol yn y busnes yn y dyfodol a manylion digwyddiadau arwyddocaol ers diwedd y flwyddyn ariannol yn Adolygiad y Prif Swyddog Cyllid ar dudalennau 34 i 39.

Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol Glas Cymru ddydd Gwener 7 Gorffennaf 2023.

Busnes gweithredol

Paratowyd y datganiadau ariannol ar gyfer y FA 23 ar sail busnes gweithredol. I weld datganiad Busnes Gweithredol y Cyfarwyddwyr a manylion pam yr ystyrir bod y dybiaeth ei fod yn Fusnes Gweithredol yn briodol, gweler tudalen 215.

Drwy orchymyn y Bwrdd



Nicola Foreman

Ysgrifennydd y Cwmni 16 Mehefin 2023

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni yn unol â chyfraith a rheoliadau cymwys.

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, maent wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan y DU a chyfraith gymwys.

O dan gyfraith cwmnïau, ni ddylai'r Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod wedi'u bodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y Grŵp a'r rhiant-gwmni ac o elw neu golled y Grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol, yn berthnasol ac yn ddibynadwy;
- nodi a ydynt wedi cael eu paratoi'n unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU;
- asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol;
- defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol onid ydynt naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y rhiant-gwmni ac i ddatgelu yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y rhiant-gwmni ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am y fath reolaeth fewnol ag sydd ei hangen yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, ac mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd i gymryd camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu osedau'r Grŵp ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi penderfynu paratoi Datganiad Llywodraethu Corfforaethol yn wirfoddol fel pe bai'n ofynnol i'r Cwmni gydymffurfio â Rheolau Rhestro a Chanllawiau Datgelu a Rheolau Tryloywder yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'r materion hynny.

O dan gyfraith a rheoliadau cymwys, mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr sy'n cydymffurfio â'r gyfraith honno a'r rheoliadau hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y Cwmni ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Rydym o'r farn bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn eu cyfarwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar ranndeiliad i asesu sefyllfa a pherfformiad y Grŵp, ei fodel busnes a'i strategaeth.

Drwy orchymyn y Bwrdd



Nicola Foreman

Ysgrifennydd y Cwmni

16 Mehefin 2023

DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r adran hon yn cynnwys datganiadau ariannol archwiliedig y Grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i'r Aelodau	199
Datganiadau Sylfaenol y Grŵp a'r Rhiant-Gwmni	207
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	214



ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

at aelodau Glas Cymru Holdings Cyfyngedig

1. Nid yw ein barn wedi newid

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ("y Cwmni") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 sy'n cynnwys y datganiad incwm cyfunol, y datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol, y fantolen gyfunol, y datganiad cyfunol o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn, mantolen y rhiant-gwmni, datganiad y rhiant-gwmni o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn, y datganiad llif arian parod cyfunol, datganiad llif arian parod y rhiant-gwmni a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu yn nodyn 1.

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2023, ac o golled y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae datganiadau ariannol y Grŵp wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU;
- mae datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU ac fel y'u cymhwyswyd yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006;
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a chyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU, gan gynnwys Safon Foesegol FRC, ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennym yn cynnig sail ddigonol a phriodol ar gyfer ein barn.

Trosolwg		
Perthnasedd:	£12m (2022:£12m)	
datganiadau ariannol cyfan y Grŵp	0.14% (2022: 0.15%) o Gyfanswm yr Asedau	
Cwmpas	100% (2022:100%) o Gyfanswm yr Asedau	
Materion archwilio allweddol		o gymharu â 2022
Risgiau mynych	Rhwymedigaeth pensiwn y Grŵp	◀▶
	Darpariaeth ar gyfer symiau masnach derbyniadwy	◀▶
	Dosbarthu costau rhwng gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf	◀▶
	Newydd: Cynnydd mewn buddiannau pensiwn	▲
Rhiant-gwmni yn unig	Prisiad o fuddsoddiad y rhiant-gwmni mewn is-gwmnïau	◀▶

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL PARHAD

2. Materion archwilio allweddol: ein hasesiad o risgiau o gamddatganiad perthnasol

Materion archwilio allweddol yw'r materion hynny a oedd bwysicaf, yn ein barn broffesiynol ni, wrth archwilio'r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys y risgiau o gamddatganiad perthnasol yr aseswyd eu bod bwysicaf (boed o ganlyniad i dwyll ai peidio) a nodwyd gennym, gan gynnwys y rhai a gafodd yr effaith fwyaf ar y canlynol: y strategaeth archwilio gyffredinol; y broses o ddyrannu adnoddau yn ystod yr archwiliad; a chyfeirio ymdrechion y tîm ymgysylltu. Ymdriniwyd â'r materion hyn yng nghyd-destun ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol cyfan, ac wrth lunio ein barn ar y datganiadau hynny, ac nid ydym yn rhoi barn ar wahân ar y materion hyn. Wrth lunio ein barn archwilio uchod, roedd y materion archwilio allweddol, wedi'u rhestru yn ôl pwysigrwydd mewn perthynas â'r archwiliad gyda'r pwysicaf gyntaf, fel a ganlyn:

	Y risg	Ein hymateb
Rhwymedigaeth pensiwn y Grŵp (£397.4 miliwn; 2022: £504.5m) <i>Cyfeiriwch at dudalen 163 (Adroddiad y Pwyllgor Archwilio), tudalen 219 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 247 (datgeliadau ariannol).</i>	Amcangyfrif goddrychol: Byddai newidiadau bach yn y tybiaethau a ddefnyddir i brisio rhwymedigaeth pensiwn y Grŵp fel cyfraddau disgowntio, cyfraddau chwyddiant a marwoldeb yn cael effaith sylweddol ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig y Grŵp. Effaith y materion hyn yw ein bod wedi penderfynu, fel rhan o'n hasesiad risg, fod cryn ansicrwydd ynglŷn â phrisiad rhwymedigaeth pensiwn y Grŵp, gydag ystod bosibl o ganlyniadau rhesymol sy'n fwy na'n perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae'r datganiadau ariannol (nodyn 1) yn datgelu'r sensitifrwydd a amcangyfrifwyd gan y Grŵp.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: — Tybiaethau meincnodi: gyda chymorth ein harbenigwyr actiwaraidd ein hunain, gwnaethom herio'r tybiaethau allweddol a gymhwyswyd, sef y gyfradd ddisgowntio, cyfraddau chwyddiant a chyfraddau marwolaethau yn erbyn data allanol; — Asesu tryloywder: rydym wedi ystyried digonolrwydd datgeliadau'r Grŵp mewn perthynas â sensitifrwydd y gwarged i newidiadau mewn tybiaethau allweddol. Gwnaethom gynnal y profion uchod yn hytrach na cheisio dibynnu ar unrhyw un o reolaethau'r Grŵp oherwydd roedd nifer y trafodion yn golygu mai profion manwl yw'r ffordd fwyaf effeithiol yn ei hanfod o gael tystiolaeth archwilio.
Darpariaeth ar gyfer symiau masnach derbyniadwy (£73.2 miliwn; 2022: £69.5m) <i>Cyfeiriwch at dudalen 163 (Adroddiad y Pwyllgor Archwilio), tudalen 219 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 236 (datgeliadau ariannol).</i>	Amcangyfrif goddrychol: Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus yn faes risg sylweddol o ganlyniad i gymhlethdod y cyfrifiad, ei natur oddrychol, ac oherwydd ei maint a'r ffaith y byddai unrhyw newid yn y ddarpariaeth o ran y fantolen yn effeithio'n uniongyrchol ar elw. Seilir y fethodoleg darpariaeth ar gyfraddau casglu arian parod hanesyddol i lunio model colled ddisgwyliedig. Yn ychwanegol at hyn, mae rheolwyr yn addasu ar gyfer eitemau y disgwylir iddynt gael effaith ar yr arian parod a gesglir yn y dyfodol megis effaith yr argyfwng costau byw er mwyn amcangyfrif amlygiad i ddrwgddyledion yn briodol. Effaith y materion hyn yw ein bod wedi penderfynu, fel rhan o'n hasesiad risg, fod cryn ansicrwydd ynglŷn â'r amcangyfrif o'r symiau masnach derbyniadwy y gellir eu hadennill, gydag ystod bosibl o ganlyniadau rhesymol sy'n fwy na'n perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae'r datganiadau ariannol (nodyn 1) yn datgelu'r sensitifrwydd a amcangyfrifwyd gan y Grŵp.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: — Gweithredu'r fethodoleg: aseswyd a yw'r cyfrifiad yn ymgorffori'r wybodaeth, y risgiau a'r data priodol gan gynnwys casgliadau arian parod hanesyddol ac achosion o ddileu dyled, er mwyn amcangyfrif lefel y ddyled na ellir ei hadennill, yn seiliedig ar ein gwybodaeth am y Grŵp a'r diwydiant; — Profiad y sector: rydym wedi herio tybiaethau'r Cyfarwyddwyr ynghylch proffiliau casglu arian parod yn seiliedig ar ein gwybodaeth am y sector, tueddiadau hanesyddol, perfformiad gweithredol a thueddiadau economaidd; — Profiad y sector: rydym wedi herio tybiaethau'r Cyfarwyddwyr ynghylch effaith barhaus yr argyfwng costau byw ar gasgliadau arian parod yn y dyfodol; — Dadansoddi Sensitifrwydd: rydym wedi cynnal dadansoddiad o sensitifrwydd ar y tybiaethau a wnaed, yn enwedig cyfraddau casglu arian parod yn y dyfodol, ac wedi cymharu'r effaith ar lefel y ddarpariaeth; — Asesu tryloywder: rydym wedi asesu digonolrwydd datgeliadau'r Grŵp ynghylch graddau'r ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrif sy'n gysylltiedig â chyfrifo'r ddarpariaeth. Gwnaethom gynnal y profion uchod yn hytrach na cheisio dibynnu ar reolaethau'r Grŵp oherwydd roedd natur y balans yn golygu y byddem yn disgwyl cael tystiolaeth archwilio yn bennaf drwy'r gweithdrefnau manwl.

2. Materion archwilio allweddol: ein hasesiad o risgiau o gamddatganiad perthnasol

	Y risg	Ein hymateb
Dosbarthu costau rhwng gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf Offer, Eiddo a Chyfarpar Ychwanegiadau llai grantiau a chyfraniadau (£421.1 miliwn; 2022: £307.4m) <i>Cyfeiriwch at dudalen 163 (Adroddiad y Pwyllgor Archwilio), tudalen 217 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 233 (datgeliadau ariannol).</i>	Y Broses Gyfrifyddu: Mae risg y gellid cyfalafu costau'n amhriodol, yn seiliedig ar ddyfarniadau a wnaed gan Gyfarwyddwyr. Mae'r Grŵp yn mynd i lefel uchel o wariant ar PPE ("eiddo, offer a chyfarpar"), gan gynnwys atgyweirio a chynnal a chadw, a chostau gwellu. Mae risg gynyddol ynghylch gwariant adnewyddu seilwaith. Mae angen cryn allu i lunio barn er mwyn penderfynu a yw costau, sef gwariant cychwynnol a dilynol, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu, ac a gânt eu cynnwys felly yn y gwerth cario ar gyfer PPE, neu fel arall a ddylid mynd iddynt ar unwaith. Penodir arbenigwyr trydydd parti i helpu'r Cyfarwyddwyr i asesu'r gwariant i'w gyfalafu ar asedau seilwaith sy'n fwy dyfarnol eu natur. Mae mwy o risg yn gysylltiedig â'n costau wedi'u cyfalafu ein hunain (e.e. costau staff wedi'u cyfalafu). Mae angen cryn allu i lunio barn er mwyn penderfynu a yw costau, yn cynnwys gwariant ar gyflogaion a gwariant mewanol arall, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu, ac a gânt eu cynnwys felly yn y gwerth cario ar gyfer PPE, neu fel arall a ddylid mynd iddynt ar unwaith. Mae risg gynyddol ynghylch gwariant cynnal a chadw cyfalaf adweithiol o ystyried bod y costau hyn yn fwy dyfarnol eu natur yn eu hanfod.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: — Dadansoddi'r broses gyfrifyddu: rydym wedi asesu polisi cyfalafu'r Grŵp yn erbyn gofynion y safonau cyfrifyddu ar gyfer ein costau wedi'u cyfalafu ein hunain, gwaith cynnal a chadw cyfalaf adweithiol a gwariant ar eitemau adnewyddadwy o seilwaith; — Profiad y sector: ar sail sampl, rydym wedi herio'r dyfarniadau a wnaed gan y Grŵp (gwariant cynnal a chadw cyfalaf adweithiol) a'r trydydd parti annibynnol a benodwyd gan y Grŵp (gwariant ar adnewyddu seilwaith) mewn perthynas â lefel y cyfalafu yn seiliedig ar bolisiau cyfrifyddu'r Cwmni, gwybodaeth am y sector a natur sylfaenol y prosiectau; — Dadansoddi Sensitifrwydd: rydym wedi cynnal dadansoddiad o sensitifrwydd ar y tybiaethau a wnaed wrth gyfrifo ein costau wedi'u cyfalafu ein hunain, gan gynnwys y cyfraddau dyrannu; — Asesu gallu arbenigol: rydym wedi asesu cymhwysedd yr arbenigwyr trydydd parti i gynnal yr asesiad hwn o wariant cyfalaf drwy ystyried eu profiad yn y sector gan gyfeirio at brosiectau blaenorol mewn perthynas â'r diwydiant a'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd ganddynt. Gwnaethom gynnal y profion uchod yn hytrach na cheisio dibynnu ar unrhyw rai o reolaethau'r Grŵp am fod ein gwybodaeth am y broses o lunio'r rheolaethau hyn yn awgrymu na fyddem yn gallu cael y dystiolaeth sydd ei hangen i ategu'r ddibyniaeth ar reolaethau.
Cynnydd mewn buddiannau pensiwn Eitem eithriadol (£30.8 miliwn; 2022: £0m) <i>Cyfeiriwch at dudalen 163 (Adroddiad y Pwyllgor Archwilio), tudalen 219 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 227 (datgeliadau ariannol).</i>	Y broses gyfrifyddu Mae buddiannau pensiwn wedi'u talu uwchlaw cap ar chwyddiant a dybiwyd yn flaenorol o 5% a cheir barn gyfrifyddu ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniwyd â'r cynnydd mewn buddiannau. Mae'r symiau dan sylw yn arwyddocaol i'r datganiadau ariannol ac mae'r ffordd y cymhwyswyd y safonau cyfrifyddu yn gynhenid oddrychol. O gofio bod cyfamodau ynghlwm wrth ddyled y Grŵp ac y gallai'r ffordd yr ymdriniwyd â'r eitem hon effeithio ar y cyfamodau hynny, mae cymhelliant i gyflwyno'r cynnydd mewn buddiannau pensiwn mewn ffordd na fydd yn effeithio ar gyfrifiadau cyfamodau.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: — Dadansoddi'r broses gyfrifyddu: gyda chymorth ein harbenigwyr actiwaraid ein hunain, rydym wedi herio'r broses gyfrifyddu ar gyfer y cynnydd mewn buddiannau pensiwn drwy ystyried gofynion IAS 19; — Asesu tryloywder: rydym wedi ystyried digonolrwydd datgeliadau'r grŵp mewn perthynas â rhesymau pam y dylid trin y cynnydd fel eitem eithriadol. Gwnaethom gynnal y profion uchod yn hytrach na cheisio dibynnu ar reolaethau'r Grŵp oherwydd roedd natur y balans yn golygu y byddem yn disgwyl cael tystiolaeth archwilio yn bennaf drwy'r gweithdrefnau manwl.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL PARHAD

2. Materion archwilio allweddol: ein hasesiad o risgiau o gamddatganiad perthnasol

	Y risg	Ein hymateb
Prisiad o fuddsoddiad y rhiant-gwmni mewn is-gwmnïau: (£4,095.7 miliwn; 2022: £4,201.5m): <i>Cyfeiriwch at dudalen 163 (Adroddiad y Pwyllgor Archwilio), tudalen 217 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 235 (datgeliadau ariannol).</i>	Prisiad yn seiliedig ar ragolygon: Datgenir y prisiad o fuddsoddiad y rhiant-gwmni mewn is-gwmnïau yn ôl gwerth teg. Cyfrifir y gwerth teg gan ddefnyddio model llif arian parod wedi'i ddisgowntio. Roedd y barnau yn gysylltiedig â'r rhagolygon llif arian parod ar gyfer y dyfodol a'r defnydd o Werth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) y Cwmni fel ei werth terfynol. Maent yn oddrychol oherwydd yr ansicrwydd cynhenid sy'n gysylltiedig â rhagweld a disgowntio llifau arian parod yn y dyfodol. Effaith y materion hyn yw ein bod wedi penderfynu, fel rhan o'n hasesiad risg, fod cryn ansicrwydd ynglŷn â'r amcangyfrif o werth buddsoddiad y rhiant-gwmni, gydag ystod bosibl o ganlyniadau rhesymol sy'n fwy na'n perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd, ac o bosibl sawl gwaith y swm hwnnw.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: — Gweithredu'r fethodoleg: rydym wedi asesu a yw'r cyfrifiad yn cynnwys y mewnbynnau priodol, gan gynnwys rhagolygon rhesymol a thybiaethau am lwyddiant yr is-gwmnïau yn y dyfodol; — Cymariaethau hanesyddol: rydym wedi gwerthuso gallu'r Cyfarwyddwyr i lunio rhagolygon drwy gymharu rhagolygon blaenorol â chanlyniadau gwirioneddol; — Tybiaethau meincnodi: rydym wedi asesu'r dull prasio yn seiliedig ar brisiau diweddar a dalwyd am gwmnïau tebyg yn y diwydiant, gan ganolbwyntio ar luosrif y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio a gofnodwyd gan OFWAT a ddefnyddiwyd; — Ein profiad o'r sector: rydym yn asesu'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir yn y llif arian parod wedi'i ddisgowntio gan gyfeirio at y meincnodau diweddaraf. Gwnaethom gynnal y profion uchod yn hytrach na cheisio dibynnu ar unrhyw un o reolaethau'r Grŵp oherwydd roedd nifer y trafodion yn golygu mai profion manwl yw'r ffordd fwyaf effeithiol yn ei hanfod o gael tystiolaeth archwilio.

3. Ein cymhwysiad o berthnasedd a throsolwg o gwmpas ein harchwiliad

Y perthnasedd ar gyfer datganiadau ariannol cyfan y Grŵp oedd £12 miliwn, a bennwyd drwy gyfeirio at feincnod o gyfanswm asedau'r Grŵp, y mae'n cynrychioli 0.14% ohonynt (2022: 0.15%).

Rydym o'r farn mai cyfanswm yr asedau yw'r meincnod mwyaf priodol i'w ddefnyddio wrth gyfrifo perthnasedd. Mae'r Grŵp yn Grŵp seilwaith yn bennaf sy'n cynhyrchu refeniw bron yn gyfan gwbl drwy ddefnyddio ei asedau. Gan fod ei refeniw yn cael ei reoleiddio i raddau helaeth gan Ofwat, rydym o'r farn mai'r sail asedau, wedi'i alinio â ffocws allweddol y Grŵp ar gynnal a chadw'r asedau y mae'n berchen arnynt ac yn eu gweithredu ac ar fuddsoddi ynddynt, yw'r meincnod priodol.

Y perthnasedd ar gyfer datganiadau ariannol cyfan y rhiant-gwmni oedd £8.4m (2022: £7.9m) a bennwyd drwy gyfeirio at feincnod o gyfanswm asedau'r rhiant-gwmni, y mae'n cynrychioli 0.20% ohonynt (2022: 0.19%).

Yn unol â'n methodoleg archwilio, cynhaliwyd ein gweithdrefnau ar falansau cyfrifon unigol a datgeliadau ar sail trothwy is, sef perthnasedd i berfformiad, er mwyn lleihau'r risg bod camddatganiadau amherthnasol unigol ym malansau cyfrifon unigol gyda'i gilydd yn swm perthnasol yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd i lefel dderbyniol.

Pennwyd perthnasedd i berfformiad ar 75% (2022: 75%) o berthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd, sy'n hafal i £9m (2022: £9m) ar gyfer y Grŵp a £6.3m (2022: £5.9m) ar gyfer y Rhiant-gwmni. Cymhwyswyd y ganran hon wrth i ni bennu perthnasedd i berfformiad am na wnaethom nodi unrhyw ffactorau a oedd yn dangos lefel uwch o risg.

Gwnaethom gyttuno i roi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw gamddatganiadau cywir neu anghywir a nodwyd sy'n fwy na £0.6m (2022: £0.6m), yn ogystal â chamddatganiadau eraill a nodwyd lle roedd angen rhoi gwybod am resymau ansoddol.

O blith 12 elfen adrodd y grŵp (2022: 12), gwnaethom gynnal archwiliadau cwmpas llawn ar gyfer 3 ohonynt (2022: 3) at ddibenion y Grŵp.

Yr elfennau a oedd o fewn cwmpas ein gwaith a luniodd y canrannau a nodir gyferbyn.

Ar gyfer yr elfennau eraill, gwnaethom ddadansoddiad ar lefel Grŵp cyfunol er mwyn aillystyried ein hasesiad nad oedd unrhyw risgiau sylweddol o gamddatganiad perthnasol yn y rhain.

Cymeradwyodd tîm y Grŵp symiau perthnasol yr elfennau, a oedd yn amrywio o £1.2m i £11.5m (2022: £7.9m i £11.5m), ar ôl rhoi sylw i'r cyfuniad o faint a phroffil risg y Grŵp ar draws yr elfennau. Gwnaed y gwaith ar yr holl elfennau gan dîm y Grŵp, gan gynnwys archwilio'r rhiant-gwmni.

Roedd cwmpas y gwaith archwilio a wnaed yn sylweddol ar y cyfan gan ein bod wedi lleihau ein dibyniaeth ar reolaeth fewnol y Grŵp dros adroddiadau ariannol.

Cyfanswm yr Asedau
£8,564.4m (2022: £8,021.3m)



■ Cyfanswm yr Asedau
■ Perthnasedd y Grŵp

Perthnasedd y Grŵp
£12m (2022: £12m)

£12m

Perthnasedd y datganiadau ariannol cyfan (2022: £12m)

£9m

Perthnasedd perfformiad y datganiadau ariannol cyfan (2022: £9m)


£11.5m

Ystod y perthnasedd dros 3 elfen (£1.2m-£11.5m) (2022: £7.9m i £11.5m)


£0.6m

Camddatganiadau y rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor archwilio amdanynt


Refeniw'r Grŵp



Colled cyn treth y Grŵp



Cyfanswm asedau'r Grŵp



■ Cwmpas llawn at ddibenion archwilio'r Grŵp 2023

■ Cwmpas llawn at ddibenion archwilio'r Grŵp 2022

□ Elfennau eraill

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL PARHAD

4. Busnes gweithredol

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol gan nad oes bwriad ganddynt i ddiddymu'r Grŵp na'r Cwmni na rhoi'r gorau i'w gweithredu, a gan eu bod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Cwmni yn golygu bod hyn yn realistig. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fod wedi bwrw amheuaeth sylweddol dros eu gallu i barhau fel busnes gweithredol am flwyddyn o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod y busnes gweithredol").

Defnyddiwyd ein gwybodaeth am y Grŵp, ei ddiwydiant a'r amgylchedd economaidd cyffredinol i nodi'r risgiau cynhenid i'w fodel busnes a dadansoddiwyd sut y gallai'r risgiau hyn effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Cwmni neu eu gallu i barhau i weithredu dros gyfnod y busnes gweithredol. Yn ein barn ni, y risgiau a oedd fwyaf tebygol o effeithio'n andwyol ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Grŵp a'r Cwmni a'r yswiriant a ddarperir a'r cymarebau asedau rheoleiddiedig sy'n berthnasol i gyfamodau dyled dros y cyfnod hwn oedd effaith costau cynyddol a chwyddiant.

Gwnaethom ystyried a allai'r risgiau hyn effeithio ar hylifedd neu gydymffurfiaeth â chyfamodau yn ystod cyfnod y busnes gweithredol drwy asesu graddau'r dybiaeth ostyngol a allai, yn unigol ac ar y cyd, arwain at broblem o ran hylifedd, gan ystyried arian parod a chyfleusterau presennol a rhagamcanol y Grŵp (prawf straen o chwith).

Aseswyd cyflawnder y datgeliad ynglŷn â busnes gweithredol. Ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym o'r farn bod defnydd y Cyfarwyddwyr o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- nid ydym wedi nodi ansicrwydd perthnasol mewn cysylltiad â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r Grŵp neu'r Cwmni i barhau fel busnes gweithredol dros gyfnod y busnes gweithredol ac rydym yn cytuno ag asesiad y Cyfarwyddwyr nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol yn hynny o beth;
- nid oes gennym ddim byd perthnasol i'w ychwanegu nac i dynnu sylw ato mewn perthynas â datganiad y Cyfarwyddwyr yn nodyn 1 i'r datganiadau ariannol ar y defnydd o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol heb unrhyw ansicrwydd perthnasol a all fwrw amheuaeth sylweddol dros ddefnydd y Grŵp a'r Cwmni o'r sail honno ar gyfer cyfnod y busnes gweithredol, a nodwyd gennym fod y datgeliad ynglŷn â busnes gweithredol yn nodyn 1 yn dderbyniol.

Fodd bynnag, gan na allwn ragweld pob digwyddiad nac amod yn y dyfodol ac oherwydd y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg y'u gwnaethpwyd, nid yw'r casgliadau uchod yn gwarantu y bydd y Grŵp neu'r Cwmni yn parhau i weithredu.

5. Twyll ac achosion o dorri'r gyfraith a rheoliadau – y gallu i'w canfod

Nodi risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll ac ymateb iddynt

Er mwyn nodi risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll ("risgiau o dwyll"), aseswyd digwyddiadau neu amodau a allai amlygu cymhelliant neu bwysau i dwyll neu roi cyfle i dwyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi'r Cyfarwyddwyr, y pwyllgor archwilio ac archwilwyr mewnol ac archwilio dogfennaeth polisïau ynghylch polisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", a gofyn hefyd a ydynt yn gwybod am unrhyw achosion gwirioneddol neu honedig o dwyll neu dwyll a amheuir.
- Darllen cofnodion y Bwrdd/y pwyllgor archwilio.
- Ystyried cynlluniau cymhelliant cydnabyddiaeth a thargedau perfformiad ar gyfer rheolwyr/cyfarwyddwyr, gan gynnwys targedau AVPS ac LTVPS ar gyfer cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansodol i nodi unrhyw gydb berthnasau anarferol neu annisgwyl.

Gwnaethom roi gwybod am risgiau o dwyll a nodwyd drwy'r tîm archwilio cyfan ac roeddem yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll drwy gydol yr archwiliad.

Yn unol â gofynion y safonau archwilio, rydym yn cynnal gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg y gall rheolwyr ddiystyru rheolaethau, yn enwedig y risg y gall rheolwyr y Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol. Mewn perthynas â'r archwiliad hwn, nid ydym o'r farn bod risg o dwyll yn gysylltiedig â chydabod refereniw oherwydd natur reoleiddiedig y refereniw a gydnabyddir a'r ffaith nad oes fawr ddim cyfle na chymhelliant i'r rheolwyr gamdrafod y refereniw hwn.

Gwnaethom hefyd nodi risg o dwyll yn gysylltiedig â'r broses gyfrifyddu amhriodol ar gyfer cynnydd mewn buddiannau pensiwn mewn ymateb i effeithiau posibl ar gydymffurfiaeth â chyfamodau.

Rhoddir rhagor o fanylion am gynnydd mewn buddiannau pensiwn yn y datgeliadau o faterion archwilio allweddol yn adran 2 o'r adroddiad hwn.

Gwnaethom gynnal gweithdrefnau, gan gynnwys:

- Herio'r broses gyfrifyddu ar gyfer y cynnydd mewn buddiannau pensiwn drwy ystyried gofynion IAS 19;
- Nodi cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill i'w profi yn seiliedig ar feini prawf risg a chymharu'r cofnodion a nodwyd â dogfennaeth ategol. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion asedau sefydlog, benthyciadau ac arian parod mewn perthynas â chyfrifon anghysylltiedig,
- Asesu amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol rhag tuedd.

Nodi risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau ac ymateb iddynt

Nodwyd gennym feysydd cyfreithiol a rheoliadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol cyffredinol a'n profiad cyffredinol o'r sector, drwy drafod â'r Cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill (yn unol â gofynion y safonau archwilio), a thrafodwyd y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau â'r Cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill.

Gwnaethom roi gwybod am gyfreithiau a rheoliadau a nodwyd drwy ein tîm cyfan ac roeddem yn effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfiaeth drwy gydol yr archwiliad.

Twyll ac achosion o dorri'r gyfraith a rheoliadau – y gallu i'w canfod

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol yn uniongyrchol, gan gynnwys deddfwriaeth ynglŷn ag adrodd ariannol (gan gynnwys deddfwriaeth gysylltiedig ynglŷn â chwmnïau), deddfwriaeth ynglŷn ag elw dosbarthadwy a deddfwriaeth ynglŷn â threthiant, a gwnaethom asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar yr eitemau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau lle y gallai goblygiadau diffyg cydymffurfiaeth gael effaith berthnasol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft drwy osod dirwyon neu ymgyfreitha neu golli trwydded y Grŵp i weithredu. Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol fel y rhai sydd fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: cydymffurfiaeth â deddfwriaeth reoleiddiol Ofwat, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Deddf Cymru, iechyd a diogelwch, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a chyfraith cyflogaeth gan gydnabod natur ariannol a rheoleiddieg gweithgareddau'r Grŵp a'i ffurf gyfreithiol.

O dan y safonau archwilio, mae'r gweithdrefnau archwilio sydd eu hangen i nodi diffyg cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn wedi'u cyfyngu i holi'r Cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes gohebiaeth o'r fath. Felly, os na chaiff achos o dorri rheoliadau gweithredol ei ddatgelu i ni ac os nad yw'n amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y tor rheoliad hwnnw.

Ar gyfer mater adrodd ar ollyngiadau dŵr a defnydd y pen a drafodir yn nodyn 17, gwnaethom asesu'r broses gyfrifyddu a'r datgeliadau yn erbyn ein gwybodaeth o ohebiaeth reoleiddiol ac adroddiadau trydydd parti annibynnol.

Cyd-destun gallu'r archwilydd i ganfod twyll neu achosion o dorri'r gyfraith neu reoliadau

O ganlyniad i gyfyngiadau cynhenid archwiliadau, mae risg anosgoadwy nad ydym wedi canfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol o bosibl, er ein bod wedi cynllunio ac wedi cynnal ein harchwiliad yn briodol yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf i ffwrdd y mae diffyg cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a rheoliadau oddi wrth y digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol ydyw y byddai'r gweithdrefnau cyfyngedig yn eu hanfod, sy'n ofynnol gan safonau archwilio, yn ei nodi.

At hynny, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o hyd na fyddai twyll yn cael ei ganfod, am y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol ac achosion o gamgyrnycholi neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ganfod camddatganiad perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal achosion o ddiffyg cydymffurfio na thwyll ac ni ellir disgwyl i ni ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â phob deddf a rheoliad.

6. Nid oes gennym ddim i'w nodi mewn perthynas â'r wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynnyddol

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall a gyflwynir yn yr Adroddiad Blynnyddol yn ogystal â'r datganiadau ariannol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno, ac eithrio fel y nodir yn benodol isod.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth a gynhwysir wedi'i chamddatgan neu'n anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol. Yn seiliedig ar y gwaith hwnnw yn unig, nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y wybodaeth arall.

Adroddiad strategol ac adroddiad y Cyfarwyddwyr

Yn seiliedig ar ein gwaith ar y wybodaeth arall yn unig:

- nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad strategol nac yn adroddiad y Cyfarwyddwyr;
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr adroddiadau hynny ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol;
- yn ein barn ni, mae'r adroddiadau hynny wedi'u paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Datgeliadau o risgiau sy'n dod i'r amlwg a'r prif risgiau a hyfywedd yn y tymor hwy

Mae'n ofynnol i ni gynnal gweithdrefnau i nodi a oes anghysondeb perthnasol rhwng datgeliadau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â risgiau sy'n dod i'r amlwg a'r prif risgiau a'r datganiad hyfywedd, a'r datganiadau ariannol a'n gwybodaeth archwilio.

Yn seiliedig ar y gweithdrefnau hynny, nid oes dim byd perthnasol gennym i'w ychwanegu nac i dynnu sylw ato mewn perthynas â'r canlynol:

- cadarnhad y Cyfarwyddwyr yn y datganiad am hyfywedd hirdymor, tudalen 100, eu bod wedi cynnal asesiad cadarn o'r risgiau sy'n dod i'r amlwg a'r prif risgiau sy'n wynebu'r Grŵp, gan gynnwys y rheini a fyddai'n bygwth ei fodel busnes, ei berfformiad yn y dyfodol, ei solfedd a'i hylifedd;
- y datgeliadau ynglŷn â'r prif risgiau sy'n disgrifio'r risgiau hyn a sut y nodir risgiau sy'n dod i'r amlwg, ac yn esbonio sut y cânt eu rheoli a'u lliniaru;
- esboniad y Cyfarwyddwyr yn y datganiad am hyfywedd hirdymor o'r ffordd y maent wedi asesu rhagolygon y Grŵp, drc ba gyfnod y maent wedi gwneud hynny a pham yr ystyriwyd bo y cyfnod hwnnw yn briodol, a'u datganiad o ran a oes ganddynt ddisgwyliad rhesymol y bydd y Grŵp yn gallu parhau i weithredu a chyflawni ei rwmedigaethau fel y byddant yn dod yn ddyledus dros gyfnod eu hasesiad, gan gynnwys unrhyw ddatgeliadau cysylltiedig yn tynnu sylw at unrhyw amodau neu dybiaethau angenrheidiol.

Mae ein gwaith yn gyfyngedig i asesu'r materion hyn yng nghyd-destun y wybodaeth a gaffaelwyd yn unig yn ystod ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Gan na allwn ragweld pob digwyddiad nac amod yn y dyfodol ac oherwydd y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg y'u gwnaethpwyd, nid yw absenoldeb unrhyw beth i'w nodi ar y datganiadau hyn yn gwarantu hyfywedd y Grŵp na'r Cwmni yn y tymor hwy.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL PARHAD

Datgeliadau llywodraethu corfforaethol

Mae'n ofynnol i ni gynnal gweithdrefnau i nodi a oes anghysondeb perthnasol rhwng datgeliadau llywodraethu corfforaethol y Cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol a'n gwybodaeth archwilio.

Yn seiliedig ar y gweithdrefnau hynny, rydym wedi dod i'r casgliad bod pob un o'r canlynol yn berthnasol gyson â'r datganiadau ariannol a'n gwybodaeth archwilio:

- datganiad y Cyfarwyddwyr eu bod o'r farn bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfranddalwyr i asesu sefyllfa a pherfformiad y Grŵp, ei fodel busnes a'i strategaeth;
- yr adran o'r adroddiad blynyddol sy'n disgrifio gwaith y pwyllgor archwilio, gan gynnwys y materion arwyddocaol y mae'r pwyllgor archwilio wedi'u hystyried mewn perthynas â'r datganiadau ariannol, a sut yr ymdriniwyd â'r materion hyn;
- yr adran o'r adroddiad blynyddol sy'n disgrifio'r adolygiad o effeithiolrwydd systemau rheoli a rheolaeth fewnol y Grŵp.

Nid oes gennym ddim i'w nodi mewn perthynas â'r materion eraill y mae'n ofynnol i ni roi gwybod amdanynt drwy eithriad

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os, yn ein barn ni:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y rhiant-gwmni, neu os na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad oddi wrth ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wneir datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr a bennir o dan y gyfraith; neu
- na chawsom yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym ddim i'w nodi yn hyn o beth.

Priod gyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Fel yr eglurir yn fanylach yn eu datganiad a nodir ar dudalen 198, mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol, gan gynnwys bodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg; y fath reolaeth fewnol ag sydd ei hangen yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall; asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol onid ydynt naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd

Rydym yn anelu at gael sicrwydd rhesymol o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol.

Darperir disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau ar wefan yr FRC yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

9. Diben ein gwaith archwilio a phwy rydym yn atebol iddynt

Cyflwynir yr adroddiad hwn i aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu aelodau'r Cwmni am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu amdanynt yn adroddiad yr archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Cwmni ac aelodau'r Cwmni, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y barnau a luniwyd gennym.



James Ledward (Uwch-archwilydd Statudol)

dros ac ar ran KPMG LLP, yr Archwilydd Statudol

Cyfrifwyr Siartredig

3 Sgwâr y Cynulliad,

Cei Britannia,

Caerdydd

CF10 4AX

16 Mehefin 2023

DATGANIAD INCWM CYFUNOL

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth

Gweithgareddau parhaus	Nodyn	2023 £m	2022 £m
Refeniw	2	843.8	810.2
Costau gweithredu:			
Gwariant gweithredol	3	(376.1)	(324.9)
Lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	3	(24.8)	(23.7)
Incwm gweithredu arall	3	5.3	6.0
Eitem eithriadol	3	(30.8)	3.8
Gwariant ar adnewyddu seilwaith	3	(78.0)	(61.8)
Dibrisio ac amorteiddio	3	(346.8)	(328.9)
	3	(851.2)	(729.5)
(Colled)/elw gweithredu		(7.4)	80.7
Elw ar waredu asedau sefydlog		0.3	0.6
(Colled)/elw cyn llog		(7.1)	81.3
Treuliau ariannol:			
Incwm ariannol	4a	14.9	4.1
Treuliau ariannol	4a	(318.5)	(187.1)
Enillion/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	4b	160.2	(113.5)
		(143.4)	(296.5)
Colled cyn trethiant		(150.5)	(215.2)
Trethiant	5	25.8	(8.4)
Colled am y flwyddyn		(124.7)	(223.6)

Mae'r Cwmni wedi dewis cymryd yr eithriad o dan adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006 i beidio â chyflwyno datganiad incwm ar gyfer y rhiant-gwmni. Elw'r rhiant-gwmni ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 oedd £1.5 miliwn (2022: £1.2 miliwn).

DATGANIAD INCWM CYNHWYSFAWR CYFUNOL

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth

	Nodyn	2023 £m	2022 £m
Colled am y flwyddyn		(124.7)	(223.6)
Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw na cholled			
Ennill actiwaraid a gydnabuwyd yn y cynllun pensiwn	21	124.5	10.5
Treth ohriedig gysylltiedig	6	(31.1)	2.7
Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar	7	593.4	448.4
Treth ohriedig gysylltiedig	6	(148.4)	(192.3)
Cyfanswm yr eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw na cholled		538.4	269.3
Cyfanswm enillion cynhwysfawr am y flwyddyn		413.7	45.7

MANTOLEN GYFUNOL

Ar 31 Mawrth

	Nodyn	2023 £m	2022 £m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	8	6,970.2	6,275.4
Asedau anniriaethol	9	202.6	203.6
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11	0.7	0.7
Asedau ariannol eraill:			
– offerynnau ariannol deilliadol	15	318.5	344.0
– buddiannau cyflogeion	21	12.0	–
		7,504.0	6,823.7
Asedau cyfredol			
Stocrestrau		5.3	4.3
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11	648.6	594.0
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	12	379.4	515.1
Asedau ariannol eraill:			
– offerynnau ariannol deilliadol	15	27.1	84.1
		1,060.4	1,197.5
Cyfanswm yr asedau		8,564.4	8,021.2
Rhwymedigaethau			
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13	(685.8)	(614.1)
Darpariaethau	17	(17.8)	(2.8)
Rhwymedigaethau ariannol eraill:			
– benthyciadau	14	(94.7)	(85.3)
– offerynnau ariannol deilliadol	15	(26.3)	(56.7)
		(824.6)	(758.9)
Asedau cyfredol net		235.8	438.6
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13	(540.8)	(447.2)
Buddiannau cyflogeion	21	–	(80.7)
Darpariaethau	17	(5.4)	(5.7)
Rhwymedigaethau ariannol eraill:			
– benthyciadau	14	(4,090.9)	(3,981.2)
– offerynnau ariannol deilliadol	15	(753.9)	(966.2)
Treth ohiriedig – net	6	(822.1)	(668.3)
		(6,213.1)	(6,149.3)
Cyfanswm y rhwymedigaethau		(7,037.7)	(6,908.2)
Asedau net		1,526.7	1,113.0
Cronfeydd wrth gefn			
Cronfa ailbrisio wrth gefn	7	1,692.0	1,339.7
Enillion argodwedig		(165.3)	(226.7)
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		1,526.7	1,113.0

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 207 i 249 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 16 Mehefin 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



P Perry
Prif Swyddog Gweithredol



M Davis
Prif Swyddog Cyllid

NEWIDIADAU MEWN DATGANIAD CYFUNOL O CRONFEYDD WRTH GEFN

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth

	Cronfa ailbrisio wrth gefn £m	Enillion argadwedig £m	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £m
Ar 1 Ebrill 2021	1,157.1	(89.8)	1,067.3
Colled am y flwyddyn	-	(223.6)	(223.6)
Ennill actiwaroidd llai treth	-	13.2	13.2
Ailbrisio llai treth	256.1	-	256.1
Trosglwyddo i enillion argadwedig	(73.5)	73.5	-
Ar 31 Mawrth 2022	1,339.7	(226.7)	1,113.0
Colled am y flwyddyn	-	(124.7)	(124.7)
Ennill actiwaroidd llai treth	-	93.4	93.4
Ailbrisio llai treth	445.0	-	445.0
Trosglwyddo i enillion argadwedig	(92.7)	92.7	-
Ar 31 Mawrth 2023	1,692.0	(165.3)	1,526.7

MANTOLEN Y RHIANT-GWMNI

Ar 31 Mawrth

	Nodyn	2023 £m	2022 £m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Buddsoddi mewn is-gwmnïau	10	4,095.7	4,201.5
Asedau ariannol eraill:			
– benthycida i ymgymeriadau'r grŵp	11	21.6	21.6
		4,117.3	4,223.1
Asedau cyfredol			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill		4.0	4.4
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	12	10.6	8.7
		14.6	13.1
Asedau net		4,131.9	4,236.2
Cronfeydd wrth gefn			
Enillion argadwedig		36.2	34.7
Cronfa ailbrisio wrth gefn	7	4,095.7	4,201.5
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		4,131.9	4,236.2

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 207 i 249 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 16 Mehefin 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



P Perry
Prif Swydddog Gweithredol



M Davis
Prif Swydddog Cyllid

DATGANIAD Y RHIANT-GWMNI O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023

	Cronfa ailbrisio wrth gefn £m	Enillion argadwedig £m	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £m
Ar 1 Ebrill 2021	3,958.0	33.5	3,991.5
Elw am y flwyddyn	–	1.2	1.2
Ailbrisio	243.5	–	243.5
Ar 31 Mawrth 2022	4,201.5	34.7	4,236.2
Elw am y flwyddyn	–	1.5	1.5
Ailbrisio	(105.8)	–	(105.8)
Ar 31 Mawrth 2023	4,095.7	36.2	4,131.9

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth

	Nodyn	2023 £m	2022 £m
Llif arian parod o weithgareddau gweithredu			
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau*	18a	380.1	429.3
Llog a dalwyd	18b	(149.6)	(116.6)
Treth incwm a dderbyniwyd		0.6	2.3
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu		231.1	315.0
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		13.4	4.0
Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd		(296.6)	(237.1)
Asedau anniriaethol a brynwyd		(38.6)	(37.3)
Elw o werthu offer a chyfarpar		0.4	0.8
Grantiau a chyfraniadau a dderbyniwyd		30.5	23.1
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(290.9)	(246.5)
Llif arian parod net cyn gweithgareddau cyllido		(59.8)	68.5
Llifau arian parod o weithgareddau cyllido			
Dyrodidi bondiau		-	300.0
Costau dyrodidi bondiau		-	(2.9)
Ad-daliadau cyfnod benthygiad		(58.4)	(55.8)
Talu rhwymedigaethau prydlesau		(17.5)	(15.6)
Llif arian parod net o weithgareddau cyllido		(75.9)	225.7
(Gostyngiad) / cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	19b	(135.7)	294.2
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 1 Ebrill		515.1	220.9
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 31 Mawrth	12	379.4	515.1

* Ni chaiff eitemau eithriadol eu cynnwys mewn llifau arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau, gweler nodyn 18.

DATGANIAD LLIF ARIAN Y RHIAINT-GWMNI

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth

	Nodyn	2023 £m	2022 £m
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		1.9	–
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		1.9	–
Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo			
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 1 Ebrill		8.7	8.7
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 31 Mawrth	12	10.6	8.7

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu

Polisiâu cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

Mae Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ("y Cwmni") yn gwmni preifat sy'n hanu o Gymru ac wedi'i gorffori a'i gofrestru yno. Y rhif cofrestredig yw 09917809 a'r cyfeiriad cofrestredig yw Linea, Ffordd Fortran, Llaneirwg, CF3 0LT.

Nodir y prif bolisiâu cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn isod. Mae'r polisiâu hyn wedi cael eu cymhwyso'n gyson at y ddwy flwyddyn a gyflwynwyd.

SAIL Y PARATOI

Mae Glas Cymru Holdings Cyfyngedig yn gwmni cyfyngedig drwy warant a hefyd yn gweithredu fel rhiant-gwmni eithaf Grŵp Glas.

Paratowyd datganiadau ariannol cyfunol Glas Cymru Holdings Cyfyngedig a datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU ("IFRS a fabwysiadwyd gan y DU"). Paratowyd y datganiadau ariannol cyfunol o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd drwy ailbriso asedau sefydlog, asedau ariannol a rhwymedigaethau eraill (yn cynnwys offerynnau ariannol deilliadol) a buddsoddiad y rhiant-gwmni ar werth teg drwy elw neu golled. Arian cyfred cyflwyniadol y cyfrifon hyn yw GBP a dangosir pob balans wedi'i dalgrynnu mewn £miliwn.

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol yn unol ag IFRS mae angen defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol penodol. Mae hefyd angen i reolwyr lunio barn wrth gymhwyso polisiâu cyfrifyddu'r Grŵp. Datgelir y meysydd sy'n gofyn am arddel mwy o ddoethineb neu sy'n gymhleth iawn, neu feysydd lle mae tybiaethau ac amcangyfrifon yn bwysig i'r datganiadau ariannol, ar dudalen 221.

SAIL Y CYFUNO

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y cwmni a'i is-gwmnïau. Dilëir trafodion ac elw rhwng grwpiau ar adeg cyfuno.

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys canlyniadau cyfuniadau busnes gan ddefnyddio'r dull caffael. Yn y fantolen gyfunol, caiff asedau, rhwymedigaethau a rhwymedigaethau digwyddiadol y sawl sy'n caffael eu cydnabod i ddechrau yn ôl eu gwerthoedd teg ar y dyddiad caffael. Caiff canlyniadau gweithrediadau a gaffaelwyd eu cynnwys yn y Datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol o'r dyddiad y ceir rheolaeth drostynt. Cânt eu dadgyfuno o'r dyddiad y daw'r rheolaeth i ben.

Mae datganiadau ariannol y Cwmni yn cyflwyno gwybodaeth am y Cwmni fel endid ar wahân ac nid am ei Grŵp.

BUSNES GWEITHREDOL

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol am fod gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan y Grŵp a'r rhiant-gwmni adnoddau digonol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad y'u cymeradwyir ac nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol i'w ddatgelu.

Wrth asesu priodoldeb y sail cyfrifyddu busnes gweithredol, mae'r Cyfarwyddwyr wedi adolygu'r adnoddau sydd ar gael i'r Grŵp ar ffurf arian parod a'r cyfleusterau banc a neilltuwyd yn ogystal ag ystyried digonolrwydd cyfalaf y Grŵp.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried maint yr effeithiau posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol neu newidiadau mewn amgylchiadau, ac effeithiolrwydd tebygol camau lliniaru y byddai'r Cyfarwyddwyr yn ystyried eu cymryd. Mae'r cynllun ariannol wedi bod drwy nifer o senarios lle ceir dirywiad difrifol ond credadwy er mwyn asesu gallu'r Grŵp i weithredu o fewn y cyfmodau a'r cyfleusterau presennol. Mae'r senarios hyn yn ystyried: effeithiau posibl costau cyfanswm gwariant cynyddol, yn cynnwys effaith cyfanswm gwariant unigol sylweddol yn codi yn y cyfnod asesu; amgylcheddau chwyddiant isel ac uchel; lefelau uwch o ddrwgddyledion; cosbau cymhellion cyflawni canlyniadau; ac effaith y ffactorau hyn yn dwyn ffrwyth ar sail gyfunol. Ystyriwyd bod y camau lliniaru yn cynnwys: gohirio gwariant cyfalaf; lleihau cyfanswm y gwariant disgresiynol arall; ac ymestyn cyfleusterau credyd cylchdro. Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd wedi asesu'r effeithiau posibl sy'n deillio o'r argyfwng costau byw a'r cyfraddau llog sy'n effeithio ar y DU ar hyn o bryd ac, er eu bod yn cael effaith negyddol ar ein sefyllfa ariannol, nid oes yr un o'r ffactorau hyn yn destun pryder mawr i'w ddatgelu mewn perthynas â gallu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol.

Byddai gostyngiad mewn llifau arian parod yn effeithio ar fetrigau ariannol allweddol, yn enwedig cymarebau sicrwydd llog. Fodd bynnag, yn y senario lle gwelir y dirywiad mwyaf difrifol, mae hyblygrwydd o hyd o ran gerio a sicrwydd llog o fewn y lefelau sbarduno a nodir yn ein cyfmodau benthycu; ac er bod y llifau arian parod gostyngol yn gwanhau ein metrigau ariannol, maent yn parhau o fewn y statws credyd gradd buddsoddi ac yn cydymffurfio â'n cyfmodau benthycu.

Ar ôl ystyried y materion hyn, nid yw'r Cyfarwyddwyr o'r farn bod unrhyw ansicrwydd perthnasol i'w ddatgelu mewn perthynas â gallu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol.

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

NEWIDIADAU I BOLISIÂU CYFRIFYDDU A DATGELIADAU

Mae'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau newydd canlynol wedi cael eu mabwysiadu gan y Grŵp am y tro cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022:

Diwygiadau

- Cyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i IFRS 3)
- Eiddo, Offer a Chyfarpar – Elw cyn y Defnydd Bwriadedig (Diwygiadau i IAS 16)
- Contractau Beichus – Cost Cyflawni Contract (Diwygiadau i IAS 37)
- Gwelliannau Blyneddol i Safonau IFRS 2018-2020

Nid yw mabwysiadu'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau hyn wedi cael effaith berthnasol ar ddatganiadau ariannol y Grŵp na'r rhiant-gwmni.

NEWIDIADAU I'R SAFONAU CYFRIFYDDU YN Y DYFODOL

Ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, roedd y Safonau a'r Diwygiadau canlynol, nas cymhwyswyd yn y datganiadau ariannol hyn, wedi'u cyhoeddi ond nid oeddent eto yn weithredol:

Diwygiadau

- IAS 1 Datgelu Polisiâu Cyfrifyddu
- IAS 8 Diffinio Amcangyfrifon Cyfrifyddu
- IAS 12 Treth Ohiriedig sy'n gysylltiedig ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n deillio o Un Trafodyn
- IFRS 17 – Contractau Yswiriant

Yn ystod y flwyddyn ariannol, gwnaethom adolygu ein hamlygiad i IFRS 17 a dod i'r casgliad nad ydym yn rhagweld y bydd unrhyw effaith yn deillio o'r safon newydd. Mae'r Cyfarwyddwyr yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Safon hon a'r Dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith berthnasol ar ddatganiadau ariannol y Grŵp na'r rhiant-gwmni.

CYDNABOD REFENIW

Refeniw yw'r incwm sy'n dderbyniadwy yn ystod busnes arferol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir, heb gynnwys treth ar werth. Lle y darparwyd gwasanaethau, ond na chodwyd anfoneb ar eu cyfer ar ddiwedd y flwyddyn, cynhwysir amcangyfrif o'r gwerth mewn refeniw. Mae'r refeniw a gydnabuwyd yn adlewyrchu gwerth gwasanaethau a ddarparwyd i gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn. Lle mae cwsmeriaid wedi gwneud taliadau ymlaen llaw fel ar ddiwedd y flwyddyn, caiff hyn ei gydnabod fel incwm gohiriedig.

Caiff refeniw ei gydnabod pan fydd cwsmer yn cael rheolaeth dros nwydd neu wasanaeth ac felly, gall gyfeirio'r defnydd a wneir ohono a chael budd o'r nwydd neu'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r Grŵp yn cydnabod bod contractau â chwsmeriaid, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael eu llywodraethu gan ofynion deddfwriaethol yn hytrach na threfniadau masnachol ar wahân. O ganlyniad, mae arddel doethineb yn bwysig wrth benderfynu ar y driniaeth fwyaf priodol o rai ffrydiau incwm. Y brif ystyriaeth o ran gweithgareddau'r Grŵp yw pan fydd angen gwahanu nwyddau a gwasanaethau wedi'u bwndelu, a all arwain at ohirio neu gydnabod refeniw ar unwaith. Mae ein gwasanaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth craidd (yn cynnwys manwerthu) yn cynnwys 99% o gyfanswm ein hincwm; fodd bynnag, mae rhai ffrydiau incwm ymylol y mae angen eu hystyried yn fanylach. Mae gan bob cwmni dŵr ddyletswydd gyfreithiol i ganiatáu i drydydd partion nodi cysylltiad awdurdodedig â'u rhwydweithiau a gall nifer o weithgareddau fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni hyn, gan arwain at y trafodion a'r triniaethau cyfrifyddu canlynol o dan IFRS 15:

- Taliadau cysylltu: symiau yw'r rhain a dderbynnir gan ddatblygwyr am gysylltu â'r rhwydwaith y mae'r Grŵp yn eu cydnabod fel incwm wrth gyflawni'r rhwymedigaeth honno o ran perfformiad.
- Taliadau ac archebion seilwaith: cyfraniadau trydydd parti tuag at rwydweithiau y Grŵp i sicrhau darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol â'r cysylltiad neu'r prif bibellau yn ystod ei oes; mae'r Grŵp yn amcangyfrif bod cysylltiad yn para 80 mlynedd ar gyfartaledd ac yn gohirio rhyddhau taliadau dros y cyfnod hwnnw.
- Mabwysiadu asedau: fel arfer caiff carthffosydd eu mabwysiadu heb gost, ond mae derbyn yr ased y tu hwnt i gwmpas IFRS 15 ac felly dylid ei gydnabod ar werth teg (gan ohirio incwm anariannol cysylltiedig).
- Gwryiadau: taliad yn gyfnewid am symud pibell ddŵr neu garthffos yn unol â newidiadau eraill i'r seilwaith. Y rhwymedigaeth o ran perfformiad yw symud y brif bibell, heb greu ased ychwanegol, felly cydnabyddir refeniw ar unwaith.

Mae ein hincwm gweithredu arall yn ymwneud yn bennaf â gwerthu nwy. Caiff y refeniw o werthu nwy ei gydnabod pan gaiff ei gyflenwi. Caiff allforion trydan adnewyddadwy eu cynnwys gyda chostau pŵer gan eu bod yn cael eu trin fel proses naturiol o ragfantioli ein defnydd. Ein strategaeth ynni yw llunio contractau sy'n pennu pris defnydd llai allforion pryniannau pŵer yn y dyfodol er mwyn lleddfu effaith amrywiannau mewn prisiau pŵer. Caiff allforion trydan eu cydnabod pan gânt eu cyflenwi.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

ADRODD YN ÔL SEGMENT

Adroddir ar segmentau gweithredu mewn modd sy'n gyson â'r adroddiad mewnol a roddir i'r prif benderfynwr gweithredol. Nodwyd mai'r prif benderfynwr gweithredol, sy'n gyfrifol am ddyrannu adnoddau ac asesu perfformiad y segment gweithredu, yw'r Bwrdd.

EITEMAU EITHRIADOL

Eitemau eithriadol yw'r eitemau sylweddol hynny a ddatgelir ar wahân oherwydd eu maint a/neu eu natur fel y gellir deall gwir berfformiad y Cwmni.

BUDDSODDIADAU

Mae buddsoddiadau'r Cwmni yn cynnwys daliadau ecwiti mewn is-gwmnïau a berchnogir yn llawn, fel y nodir yn nodyn 10. Datgenir y rhain ar werth teg, gydag unrhyw golled neu ennill canlyniadol yn cael eu cydnabod yn uniongyrchol mewn ecwiti, yn y gronfa ailbrisio wrth gefn (nodyn 7).

Mae'r gwerth teg wedi cael ei gyfrifo gan ddefnyddio techneg llif arian parod gostyngol, ynghyd ag ystyried trafodion marchnad arsylwadwy, gan gyfeirio at gost gyfartalog cyfalaf wedi'i phwysoli y Grŵp.

CYFUNIADAU BUSNES

Yn unol ag IFRS 3, cyfrifir am gyfuniadau busnes drwy ddefnyddio'r dull caffael ar y dyddiad caffael, sef y dyddiad y trosglwyddir rheolaeth.

EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Mae gwerth economaidd busnes dŵr a charthffosiaeth y Grŵp yn deillio o'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) a bennwyd gan Ofwat yn ystod ei adolygiadau pum mlynedd o brisiau. Mae'r Grŵp o'r farn bod dull gwerth teg o brisio ei asedau yn adlewyrchu gwerth sylfaenol yr asedau yn well na dull cyfrifyddu cost hanesyddol sy'n tандатган gwerth cyfredol yr asedau a ddefnyddir.

Ar 31 Mawrth 2023, mae cyfanswm gwerth asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol wedi cael ei ailbrisio i 'GCRh cysgodol' Dŵr Cymru Cyfyngedig, sef GCRh 31 Mawrth 2023 a gyhoeddwyd gan Ofwat yn ei Phenderfyniad Terfynol PR19 fel y'i haddaswyd ar gyfer effaith unrhyw orwariant/tanwariant a gwobrau/cosbau'r Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau. Y dosbarthiadau o asedau yr effeithir arnynt yw asedau seilwaith a strwythurau gweithredol.

Adolygir gwerth cario asedau ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl; adolygir oes asedau a gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol.

Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys:

- a. Asedau seilwaith (sef prif bibellau a charthffosydd, cronfeydd dŵr storio neu gronfeydd dŵr heb ei drin a bwmpiwyd, argloddiau, piblinellau slwtsh ac arllwysfeydd i'r môr);
- b. Asedau eraill (yn cynnwys eiddo, strwythurau gweithredol a chyfarpar ar y ddaear, a gosodiadau a ffitiadau).

ASEDAU SEILWAITH

Mae asedau seilwaith yn cynnwys cronfeydd cronni dŵr a rhwydwaith o systemau dŵr a dŵr gwastraff tanddaearol yn bennaf. At ddibenion cyfrifyddu, mae'r system ddŵr wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli categorïau o ddosbarthiadau o asedau sydd â nodweddion ac oes ased tebyg. Mae'r system dŵr gwastraff wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli ardaloedd gweithredu daearyddol, sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r Grŵp yn gweithredu ei weithgareddau dŵr gwastraff.

Ymdrinnir â gwariant ar asedau seilwaith sy'n ymwneud â chynnydd mewn gallu, gwelliannau neu achosion perthnasol o adnewyddu elfennau o'r rhwydwaith fel ychwanegiadau, a gynhwysir ar gost. Nodir gwariant yr aed iddo wrth atgyweirio a chynnal a chadw gallu gweithredu elfennau seilwaith unigol, 'gwariant ar adnewyddu seilwaith', yn y flwyddyn yr eir i'r gwariant.

Pennir y tâl dibrisiant a godir am asedau seilwaith ar gyfer pob elfen o'r rhwydwaith ac mae'n seiliedig ar gost pob elfen, y gwerth gweddilliol amcangyfrifedig a'r oes ddefnyddiol gyfartalog ddisgwyliedig sy'n weddill. Mae oes economaidd gyfartalog ddefnyddiol elfennau'r seilwaith yn amrywio'n bennaf o 60 i 150 mlynedd.

ASEDAU ERAILL

Mae asedau eraill wedi'u dibrisio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sydd fel a ganlyn:

Adeiladau rhydd-ddaliadol	60 mlynedd
Strwythurau gweithredol	5–80 mlynedd
Offer cyfarpar a chaledwedd gyfrifiadurol	3–40 mlynedd

Ni ddibrisir asedau sy'n cael eu hadeiladu nes eu bod wedi'u comisiynu. Ni ddibrisir tir.

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

COSTAU BENTHYCA

Costau benthyca cyffredinol a phenodol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu a chynhyrchu asedau cymhwysu yw costau benthyca. Asedau cymhwysu yw asedau sy'n cymryd cyfnod sylweddol o amser i'w paratoi ar gyfer eu defnydd neu werthiant bwriadedig.

ASEDAU ANNIRIAETHOL

Cynhwysir asedau anniriaethol, sy'n cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol, datblygiadau system ac ymchwil a datblygu yn bennaf, ar gost llai amorteiddio cronedig. Mae cost yn adlewyrchu pris prynu ynghyd ag unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddechrau defnyddio'r ased, gan gynnwys costau mewnol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Cydnabyddir gwariant ar ymchwil fel gwariant yr aed iddo. Caiff costau yr aed iddynt ar brosiectau datblygu eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir y meini prawf cydnabod perthnasol (yn unol ag IAS 38).

Adolygir gwerth cario asedau anniriaethol ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sydd rhwng tair ac ugain mlynedd. Adolygir oes yr asedau hyn yn flynyddol.

PRYDLESAU

Mae'r Grŵp yn cydnabod ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth prydles ar ddyddiad cychwyn y brydles. Mesurir yr ased hawl i ddefnyddio ar gost i ddechrau, ac wedyn ar gost llai unrhyw ddibrisiant cronedig a cholledion lleihad mewn gwerth a chaiff ei addasu ar gyfer ailfesuriadau penodol o'r rhwymedigaeth prydles.

Mae'r Grŵp yn cyflwyno asedau hawl i ddefnyddio nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o eiddo buddsoddi mewn eiddo, offer a chyfarpar a rhwymedigaethau prydlesau mewn benthyciadau yn y fantolen.

Mesurir y rhwymedigaeth prydles i ddechrau ar werth presennol taliadau'r brydles nad ydynt wedi'u talu ar y dyddiad cychwyn, wedi'i ddisgowntio drwy ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlwg yn y brydles, neu os na ellir pennu'r gyfradd yn hawdd, gyfradd fenthycia gynyddrannol y Grŵp. Yn gyffredinol, mae'r Grŵp yn defnyddio ei gyfradd fenthycia gynyddrannol fel y gyfradd ddisgowntio.

Yna, caiff y rhwymedigaeth prydles ei chynyddu yn ôl cost llog ar y rhwymedigaeth prydles a'i gostwng yn ôl taliadau'r brydles a wnaed. Caiff ei hailfesur pan fydd newid mewn taliad prydles yn y dyfodol sy'n deillio o newid mewn mynegai neu gyfradd neu, fel y bo'n briodol, newidiadau yn yr asesiad ynghylch a yw opsiwn prynu neu estyn yn rhesymol sicr o gael ei arfer neu a yw opsiwn terfynu yn rhesymol sicr o beidio â chael ei arfer.

Mae'r Grŵp hefyd wedi dewis cymhwysu cyfradd ddisgowntio sengl at y portffolio o brydlesau y tybir bod ganddynt nodweddion eithaf tebyg yn ogystal â pheidio â chynnwys unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol wrth fesur yr ased hawl i ddefnyddio. Mae'r gyfradd ddisgowntio o 4% yn seiliedig ar gyfradd fenthycia gynyddrannol amcangyfrifedig y Cwmni.

Codir am bob prydles arall nad yw'n cynnwys asedau hawl i ddefnyddio ar y datganiad incwm dros gyfnod y brydles. Pan fydd y Grŵp yn gweithredu fel prydleswr, bydd yn penderfynu ar ddechrau'r brydles a yw pob prydles yn brydles cyllid neu'n brydles weithredu.

Er mwyn dosbarthu pob prydles, mae'r Grŵp yn asesu'n gyffredinol o yw'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a buddiannau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased sylfaenol. Os yw'n gwneud hynny, prydles cyllid yw'r brydles; os nad yw'n gwneud hynny, yna prydles weithredu ydyw. Fel rhan o'r asesiad hwn, mae'r Grŵp yn ystyried dangosyddion penodol megis o yw'r brydles ar gyfer rhan fawr o oes economaidd yr ased.

Mae'r Grŵp wedi defnyddio nifer o ffyrdd ymarferol wrth gymhysu IFRS 16 at brydlesau a ddosbarthwyd yn brydlesau gweithredu gynt o dan IAS 17. Yn benodol,

- ni chydabu'r Grŵp asedau hawl i ddefnyddio na rhwymedigaethau prydlesau y daw cyfnod y brydles i ben o fewn 12 mis i'r dyddiad y'i cymhwyswyd i ddechrau;
- ni chydabu'r Grŵp asedau hawl i ddefnyddio na rhwymedigaethau ar gyfer prydlesau asedau gwerth isel (e.e. cyfarpar TG);
- ni chynhwysodd y Grŵp gostau uniongyrchol cychwynnol wrth fesur yr ased hawl i ddefnyddio ar y dyddiad y'i cymhwyswyd i ddechrau;
- defnyddiodd y Grŵp ôl-ddoethineb wrth bennu cyfnod y brydles.

GRANTIAU A CHYFRANIADAU CWSMERIAID

Mae grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid mewn perthynas â gwariant ar eiddo, offer a chyfarpar wedi'u gwrthbwyso yn erbyn yr asedau hyn.

Caiff grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid mewn perthynas â gwariant refeniw eu credydu i'r datganiad incwm dros yr un cyfnod ag yr eir i'r gwariant cysylltiedig.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

1. Polisiau cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

CYMELLDALIADAU RHAGLENNI GWARIANT CYFALAF

Mae cytundebau'r Grŵp â'i bartneriaid adeiladu sy'n ymwneud â chyflawni rhaglenni gwariant cyfalaf yn ymgorffori bonysau cymell sy'n daladwy ar ôl i'r rhaglenni gael eu cwblhau. Mae cost ychwanegiadau eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys cronïad ar gyfer bonysau cymell a enillwyd hyd yma, mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau i raddau helaeth ar ddiwedd y flwyddyn, lle yr ystyrir ei bod yn debygol y caiff cymelldaliad ei wneud. Dim ond mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau y caiff symiau y gellir eu hadennill gan bartneriaid contract o ran methu â chyflawni targedau eu cydnabod.

SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod i ddechrau ar werth teg ac wedyn eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio llai darparioeth ar gyfer lleihad mewn gwerth. Yn gyntaf, cânt eu hoesu'n unigol o ran lleihad mewn gwerth, neu ar y cyd pan na fydd y symiau derbyniadwy yn sylweddol yn unigol. Os nad oes unrhyw dystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth ar gyfer swm derbyniadwy unigol, caiff ei gynnwys mewn grŵp o symiau derbyniadwy sydd â nodweddion tebyg o ran risg credyd a'i asesu'n gyfunol ar gyfer lleihad mewn gwerth yn seiliedig ar y golled credyd ddisgwyliedig. Cofnodir symudiadau yn y ddarparioeth ar gyfer lleihad mewn gwerth yn y datganiad incwm.

ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB IDDO

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn cynnwys buddsoddiadau hylifol iawn y gellir yn hawdd eu troi'n symiau hysbys o arian parod ac nad yw eu gwerth yn debygol o newid yn sylweddol. Y math hwn o fuddsoddiadau, fel arfer, yw'r rhai sy'n aeddfedu llai na thri mis o'r dyddiad caffael ac maent fel arfer yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuo gyda banciau neu sefydliadau ariannol eraill.

BUDDIANNAU PENSIWN

1) CYNLLUN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun buddiannau diffiniedig, Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru, a gaeodd i groniadau yn y dyfodol o 1 Ebrill 2017 ar gyfer pob aelod heblaw am aelodau adran 18 ESPS. Ariennir y cynllun drwy gyfraniadau cyflogwyr yn ogystal â chyfraniadau cyflogaion gan yr aelodau gweithredol sy'n weddill. Mae cyfraddau cyfrannu yn seiliedig ar gyngor actiwari proffesiynol cymwysedig. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2022.

Yr ased a gydnabwyd yn y fantolen mewn perthynas â chynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig yw gwerth teg asedau'r cynllun llai gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae gwerth teg yr asedau hyn wedi cael ei amcangyfrif yn seiliedig ar y prisiau canfyddadwy diweddaraf sydd ar gael, wedi'i ddiweddarau drwy gyfeirio at symudiadau mewn mynegeion canfyddadwy cymaradwy i'r dyddiad adrodd, ac wedi'i addasu yn unol â barnau i adlewyrchu gwahaniaethau yn hylifedd ac elfennau credyd y broses o brisio ased. Cyfrifir y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn flynyddol gan actiwari annibynnol gan ddefnyddio dull rhagamcanu unedau. Pennir gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig drwy ddisgowntio'r all-lifau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol gan ddefnyddio cyfraddau llog bondiau corfforaethol o safon uchel a gaiff eu mynegi yn yr arian cyfred y caiff y buddiannau eu talu ynddo, ac a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn cysylltiedig yn codi. Mewn gwledydd lle nad oes marchnad ddofn mewn bondiau o'r fath, defnyddir cyfraddau'r farchnad ar fondiau'r llywodraeth.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau oherwydd profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd eu newid neu eu credydu i ecwiti mewn incwm cynhwysfawr arall yn ystod y cyfnod pan fyddant yn codi. Caiff costau gwasanaethau yn y gorffennol eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

2) CYNLLUN CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig, Cynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru, y mae pob cyflogai yn gymwys i ymuno ag ef. Cydnabyddir rhwymedigaethau ar gyfer cyfraniadau i'r cynllun fel traul yn y datganiad incwm yn ystod y cyfnod pan fyddant yn codi.

RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL ERAILL

Caiff dyled ei mesur i ddechrau ar werth teg, sef yr elw net ar ôl didynnu costau dyroddi y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, ac wedyn ei mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Cydnabyddir costau dyroddi dyled yn y datganiad incwm dros dymor disgwyliedig offerynnau o'r fath ar gyfradd sefydlog ar y swm cario.

Rhwymedigaethau i dalu am nwyddau/gwasanaethau a gaffaelwyd yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr yw symiau masnach taladwy. Caiff cyfrifon sy'n daladwy eu dosbarthu'n rhwymedigaethau cyfredol os oes taliad yn daladwy o fewn blwyddyn, neu yn ystod cylch gweithredu arferol y busnes.

Offerynnau deilliadol a ddefnyddir gan y Grŵp yw cyfnewidiadau cyfradd llog, cyfnewidiadau chwyddiant a rhagfantolion pŵer. Defnyddir offerynnau deilliadol at ddiben rhagfantoli er mwyn newid proffil risg yr amlygiadau sylfaenol presennol a geir o fewn y Grŵp. Caiff deilliadau eu cydnabod i ddechrau ac wedyn eu hailfesur ar werth teg. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, dim ond un o deilliadau'r Grŵp oedd yn gymwys ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli (2022: dim), ond dewisodd y cwmni beidio â chyfrifyddu ar sail rhagfantoli. Caiff yr offerynnau hyn eu cario ar werth teg gyda newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

1. Polisiau cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

INCWM A THREULIAU CYLLIDO

Mae treuliau cyllido yn cynnwys llog sy'n daladwy, mynegeio ar fenthyciadau mynegrifol, cyfnewidiadau mynegrifol a thaliadau cyllid ar rwymedigaethau prydlesau a gydnabyddir mewn elw neu golled drwy ddefnyddio'r dull llog gweithredol. Caiff costau benthyca y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu neu gynhyrchu ased sy'n cymryd cyfnod sylweddol o omser i'w baratoi at ddefnydd, eu cyfalafu fel rhan o gost yr ased hwnnw. Mae incwm cyllid yn cynnwys llog sy'n dderbyniadwy ar gronfeydd a fuddsoddiwyd.

Cydnabyddir incwm llog a llog sy'n daladwy mewn elw neu golled wrth iddo gronni, drwy ddefnyddio'r dull llog gweithredol.

TRETHIANT

Mae'r Grŵp yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn gwariant cyfalaf er budd ein cwsmeriaid. Mae rhyddhad treth y gwariant cyfalaf hwn a'r llog y mae'r Grŵp yn ei dalu i'w ariannu yn peri gohirio taliadau treth gorfforaeth mewn cyfnodau i ddod.

Mae treth incwm ar gyfer y flwyddyn cyn cynnwys treth gyfredol a threth ohiriedig. Cydnabyddir treth yn y datganiad incwm, ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud ag eitemau a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall neu'n uniongyrchol mewn ecwiti.

Treth gyfredol yw'r dreth y disgwylir iddi fod yn daladwy ar yr incwm trethadwy ar gyfer y flwyddyn, drwy ddefnyddio cyfraddau sydd wedi'u cyhoeddi i raddau helaeth ar ddyddiad y fantolen, ac unrhyw addasiadau i'r dreth sy'n daladwy mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. Cydnabyddir symiau sy'n dderbyniadwy oddi wrth awdurdodau treth mewn perthynas â rhyddhad treth ar gyfer ymchwil a datblygu o dan y cynllun RDEC o fewn elw gweithredu yn y cyfnod y caiff y costau ymchwil a datblygu eu trin fel traul. Pan fydd symiau yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn ac na chytunwyd arnynt yn ffurfiol, caiff amcangyfrif priodol o'r swm ei gynnwys mewn symiau derbyniadwy eraill.

TRETH OHIRIEDIG

Darperir treth incwm ohiriedig yn llawn, gon ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar wahaniaethau dros dro sy'n deillio o sylfaen dreth asedau a rhwymedigaethau a'u symiau cario yn y datganiadau ariannol cyfunol. Fodd bynnag, ni roddir cyfrif am y dreth incwm ohiriedig os yw'r deillio o gydnabod ased neu rwymedigaeth i ddechrau mewn trafodyn yn hytrach nag o gyfuno busnes nad oedd, ar adeg y trafodyn, yn effeithio ar gyfrifyddu nac ar elw neu golled trethadwy. Pennir treth incwm ohiriedig gan ddefnyddio cyfraddau (a chyfreithiau) treth a gyhoeddwyd neu a gyhoeddwyd yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen ac y disgwylir iddynt fod yn gymwys pan gaiff ased y dreth incwm ohiriedig gysylltiedig ei wireddu neu pan gaiff rhwymedigaeth y dreth incwm ohiriedig ei bodloni.

Mae treth incwm ohiriedig wedi'i chydabod mewn perthynas ag enillion a gariwyd ymlaen ac eithrio lle yr ailfuddsoddiwyd mewn asedau gweithredol penodol y mae'r Grŵp yn bwriadu eu defnyddio tan ddiwedd eu hoes economaidd ddefnyddiol. Mae'r Grŵp yn rhagweld y caiff yr asedau hyn eu gwaredu maes o law am elw bach, neu elw sy'n llai na'u sylfaen dreth, ac felly ni ddisgwylir i unrhyw enillion taladwy godi yn y dyfodol.

Caiff asedau treth incwm ohiriedig eu cydnabod i'r graddau ei bod yn debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir defnyddio gwahaniaethau dros dro ar ei gyfer.

DARPARIAETHAU

Caiff darpariaethau ar gyfer costau ailstrwythuro, ailddotgan perfformiad o ran gollyngiadau dŵr a defnydd y pen, colledion anyswiriedig ac anghydfodau bilio eu cydnabod pan fydd gan y Grŵp rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol; mae'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, ac mae'r swm wedi cael ei amcangyfrif yn rhesymol. Mae'r £15 miliwn sydd wedi'i ddarparu ar gyfer ailddotgan perfformiad o ran gollyngiadau dŵr a defnydd y pen yn cynrychioli penderfyniad y Bwrdd i ad-dalu £10 i bob cwsmer yn y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae darpariaethau ailstrwythuro yn cynnwys diswyddo cyflogaion a chostau i ychwanegu at gronfeydd pensiwn. Lle mae'r Grŵp yn derbyn hawliadau nad yw wedi'i yswirio rhagddynt neu lle mae elfen o'r hawliad nad oes yswiriant ar gael ar ei chyfer, gwneir darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaethau disgwyliedig yn y dyfodol. Ni chydabyddir darpariaethau am golledion gweithredu yn y dyfodol.

Pan fydd nifer o rhwymedigaethau tebyg, pennir y tebygolrwydd y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried dosbarthiad y rhwymedigaethau yn gyffredinol. Cydnabyddir darpariaeth hyd yn oed os yw'r tebygolrwydd y bydd all-lif mewn perthynas ag unrhyw eitem unigol a gaiff ei chynnwys yn yr un dosbarth o rhwymedigaethau yn fach.

AMCANION A PHOLISIÂU RHEOLI RISG CYLLIDO

Rheolir gweithgareddau trysorlys o fewn cyfres ffurfiol o bolisiau ac amcanion trysorlys, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymeradwyo gan y Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r polisiau yn gwahardd yn benodol unrhyw drafodion o natur hapfasnachol a'r defnydd o offerynnau ariannol cymhleth.

Caiff polisiau manwl penodol ar gyfer rheoli cyfradd llog, arian cyfred, risg chwyddiant a risg rheoli hylifedd eu cymeradwyo gan y Bwrdd a dim ond gyda chaniatâd Ymddiriedolwr Sicrwydd Dŵr Cymru Cyfyngedig y gellir eu newid. Caiff y risg ei lliniaru ymhellach drwy gyfyngu ar yr amlygiad i unrhyw wrthbarti penodol.

Mae'r Grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol i godi arian ac i reoli risg weithredol; yn bennaf, mae'r offerynnau hyn yn cynnwys bondiau a restrwyd, prydlesau, cyfleusterau benthyciadau banc a deilliadau.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

Y RISG O RAN CREDYD

Mae polisi trysorlys cymeradwy Bwrdd y Grŵp yn mabwysiadu dull darbodus o reoli arian parod a gosodir adneuron am uchafswm o dri mis gyda banciau yn amodol ar feini prawf statws hirdymor o A-/A3/A o leiaf. Gall bondiau gael eu prynu oddi wrth rai gwrthbartion â statws AA gyda dyddiadau aeddfedu o hyd at flwyddyn a dim ond gyda banciau goruwchgenedlaethol penodol â statws AAA y gellir gosod pryniannau papur masnachol o hyd at flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, yr uchafswm buddsoddiad arian parod gyda gwrthbarti unigol oedd £100 miliwn (2022: £100 miliwn).

Y RISG O RAN CYFRADDAU LLOG

Mae'r Grŵp wedi'i gyfamodi i ragfantoli o leiaf 85% o gyfanswm ei rwymedigaethau ariannol sy'n weddill naill ai'n rhwymedigaethau mynegrifol neu'n rhwymedigaethau cyfradd sefydlog. Ar 31 Mawrth 2023, roedd y Grŵp wedi rhagfantoli 100% o gyfanswm ei rwymedigaethau ariannol sy'n weddill naill ai'n rhwymedigaethau mynegrifol neu'n rhwymedigaethau cyfradd sefydlog, gan gynnwys balansau arian parod rhydd (2022: 100%). At y diben hwn, caiff rhwymedigaethau llog cyfradd gyfnewidiol eu rhagfantoli drwy gyfuniad o offerynnau deilliadol a balansau arian parod. Mae'r fframwaith rheoleiddio, y mae referniw a gwerth asedau rheoleiddiol yn cael eu mynegeo yn unol ag ef, hefyd yn amlygu'r Grŵp i risg chwyddiant. Felly, yn amodol ar gyfyngiadau'r farchnad a chymeradwyaeth y Bwrdd, gall y Grŵp geisio codi dyled newydd drwy offerynnau mynegrifol neu ymrwmo i drafodion rhagfantoli priodol.

Mae'r Grŵp yn dadansoddi ei amlygiad i gyfraddau llog ar sail ddynamig. Caiff gwahanol senarios eu hefelychu gan ystyried ail-gyllido, adnewyddu'r safleoedd presennol, cyllido amgen a rhagfantoli. O gyfanswm y benthyciadau o £4,135 miliwn ar 31 Mawrth 2023 (2022: £4,019 miliwn), nid oedd dim yn ymwneud â dyled cyfradd gyfnewidiol (2022: dim). Felly, mae'r Grŵp yn ystyried bod ei amlygiad cyffredinol i gyfraddau llog ar ddyddiad y fantolen mor fach â phosibl.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd 97.0% (2022: 94.6%) o ddyled gros y Grŵp ar gyfraddau llog sefydlog neu fynegrifol RPI ar ôl ystyried cyfnewidiadau cyfraddau llog ac RPI. Mae'r rhagfantolion a sefydlwyd i reoli risgiau o ran cyfraddau llog yn economaidd eu natur, ond nid ydynt yn bodloni'r gofynion er mwyn cael eu trin fel rhagfantolion at ddibenion cyfrifyddu. Yn unol â hynny, adlewyrchir pob symudiad yng ngwerth teg offerynnau ariannol deilliadol yn y datganiad incwm. Mae hyn wedi arwain at rwymedigaeth net o £435 miliwn ar y fantolen ar 31 Mawrth 2023 (2022: £595 miliwn) ond, gan dybio y caiff y cyfnewidiadau eu dal nes eu bod yn aeddfedu, bydd hyn yn lleihau i ddim yn y pen draw.

RHAGFANTOLION PRIS PŴER

Mae'r grŵp yn llunio contractau sy'n pennu pris cyfran o bryniannau pŵer yn y dyfodol er mwyn lleddfu effaith amrywiannau mewn prisiau pŵer. Mae'r contractau hyn yn gymwys fel offerynnau ariannol ac fe'u cynhwysir yn y datganiadau ariannol.

AILGYLLIDO RISG

Caiff y broses o ail-gyllido risg ei rheoli drwy gadw cydbwysedd rhwng parhad cyllid a hyblygrwydd drwy'r defnydd o fenthyciadau ar draws amrywiaeth o offerynnau, math a dyddiadau aeddfedu. Polisi'r Grŵp yw sicrhau nad yw'r proffil aeddfeddrwydd yn gosod straen gormodol ar ei allu i ad-dalu benthyciadau. O dan y polisi hwn, ni all mwy nag 20% o brifswm benthyciadau'r Grŵp o £4,135 miliwn (2022: £4,019 miliwn) fod yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod o 24 mis.

Y RISG O RAN HYLIFEDD

Mae'r Grŵp yn cynnal cyfleusterau bancio penodol er mwyn cael hyblygrwydd wrth reoli ei hylifedd.

O dan y Cytundeb Telerau Cyffredin sy'n rheoli rhwymedigaethau i ddeiliaid bondiau a chredydwy'r ariannol eraill, mae'n ofynnol i'r Grŵp sicrhau bod arian parod a gael i ariannu gweithrediadau am 12 mis.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd y Grŵp wedi ymrwmo cyfleusterau benthycia nas hawliwyd o £200 miliwn (2022: £200 miliwn) ac arian parod o'r hyn sy'n cyfateb iddo (ac eithrio cyfrif taliadau gwasanaeth dyledion) o £379 miliwn (2022: £473 miliwn). Mae'r cyfleusterau nas hawliwyd hyn ar gael ar gyfer un flwyddyn gydag opsiwn i'w hymestyn am flwyddyn. Ceir cyfleuster gorddrafft o £10 miliwn hefyd sy'n adnewyddadwy bob blwyddyn.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd cyfleuster hylifedd arbennig o £135m hefyd (2022: £135 miliwn); mae angen hyn er mwyn bodloni rhwymedigaethau penodol o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu hariannu drwy lif arian parod gweithredu os bydd yr Ymddiriedolwr Sicrwydd yn datgan cyfnod atal, os bydd y Grŵp yn methu â chyflawni cyfamedau cyllido dyled. Mae'r cyfleuster wedi ei ddarparu gan ddarparwr yswiriant ac mae'n adnewyddadwy ar sail cyfnod treigl bytholwyrdd o bum mlynedd.

RISG CYFALAF

Amcan y Grŵp wrth reoli cyfalaf yw diogelu ei allu i barhau fel busnes gweithredol. O ystyried yr omgylchedd rheoleiddio y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddo, mae'r Grŵp yn monitro cyfalaf ar sail y gymhareb gerio. Caiff hon ei chyfrifo fel dyled net (fel y'i diffiniwyd yng nghyfamedau benthycia'r Grŵp) fel cyfran o'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio fel y'i pennwyd gan Ofwat o'i chysylltu â symudiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu. Ar 31 Mawrth 2023 y mesur gerio rheoleiddiol oedd 58% (2022: 58%).

Mewn perthynas â'r risgiau a nodir uchod, darperir datgeliadau meintiol eraill yn nodyn 16.

1. Polisiau cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

AMCANGYFRIFON A DYFARNIADAU CYFRIFYDDU HANFODOL

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio ag IFRS mae angen defnyddio amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau o asedau a rhwymedigaethau a nodir ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau o reffeniw a threuliau a nodir yn ystod y cyfnod adrodd. Er bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar wybodaeth rheolwyr am y swm, digwyddiadau neu gamau gweithredu hyd y gellir, gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny yn y pen draw.

DARPARIAETH AR GYFER LLEIHAD YNG NGWERTH SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY

Barn gyfrifyddu – Cyfrifir colledion ar y cyd oherwydd lleihad mewn gwerth ar symiau derbyniadwy â risg credyd debyg gan ddefnyddio model ystadegol. Mae rheolwyr yn defnyddio cyfraddau casglu safonol i bennu lefel y drwgddyledion. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Dyled wedi'i mesur yn seiliedig ar ddata hanesyddol:
- 100% o ddyled heb ei hadennill am gyfnod o fwy na dwy flynedd;
- 99% o ddyled rhwng 1-2 flynedd;
- 5% o ddyled sy'n ddyledus am lai na blwyddyn.

Dyled heb ei mesur yn seiliedig ar ddata hanesyddol:

- 100% o ddyled heb ei hadennill am gyfnod o fwy na dwy flynedd;
- 99% o ddyled rhwng 1-2 flynedd;
- 8% o ddyled sy'n ddyledus am lai na blwyddyn.

Amcangyfrif cyfrifyddu – mae'r tebygolrwydd o fethu ag adennill dyled yn seiliedig ar golled credyd ddisgwyliedig, a bennir gan brofiad yn y gorffennol fel y dangosir yn y pwyntiau bwled uchod a symudiadau disgwyliedig mewn cyfraddau casglu yn y dyfodol, wedi'i addasu ar gyfer newidiadau mewn ffactorau allanol (gan gynnwys effaith amcangyfrifedig pandemig COVID-19 a'r argyfwng fforddiadwyedd presennol sy'n effeithio ar aelwydydd yn y DU). Felly byddai newidiadau annisgwyl yn y sefyllfa economaidd, ac yn ymddygiad cwsmeriaid, yn effeithio ar gywirdeb cyfrifiadau o leihad mewn gwerth. Mae'r prif dybiaethau sensitifrwydd a ddefnyddiwyd yn y broses ddarparu fel a ganlyn:

- Sensitifrwydd o £2 filiwn, sy'n cyfateb i ostyngiad o 1% mewn cyfraddau casglu arian parod, sy'n darparu ar gyfer y sefyllfa economaidd bresennol;
- Caiff 90% o orchymynion codi tâl eu hadennill mewn cyfnodau diweddarach ar sail y duedd hanesyddol.

I'r graddau y mae'r methiant i adennill ôl-ddyledion yn newid 5%, byddai'r ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth yn cynyddu neu'n gostwng £3.7 miliwn (2022: £5.5 miliwn).

COLLEDION CREDYD DISGWYLIEDIG Y RHIAINT-GWMNI

Aeth y Cwmni ati i gynnal ei asesiad o'r lleihad yng ngwerth benthyciadau rhwng cwmnïau drwy ddadansoddiad hanesyddol a dadansoddiad yn edrych i'r dyfodol, gan ddefnyddio gwybodaeth ansoddol a meintiol. Un o ffocysau craidd y dadansoddiad yn edrych i'r dyfodol oedd rhagolygon llif arian parod ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, hyd at 31 Mawrth 2025. Mae hyn yn cyd-fynd â diwedd cyfnod presennol Dŵr Cymru Cyfyngedig (DCC, sef cwmni gweithredol y grŵp) o reffeniw rheoleiddiedig pan fo sicrwydd ynglŷn â gwerthoedd trosiant wedi'u bilio. At hynny, ystyriwyd yr asesiad o hyfywedd hirdymor â chyfnod adolygu o fwy na saith mlynedd, sydd ar gael ar dudalennau 100 i 104.

Ar sail yr asesiad uchod, daeth y rheolwyr i'r casgliad bod risg credyd isel yn gysylltiedig â benthyciadau rhwng cwmnïau'r Cwmni ac ategir hyn gan gredyd ansawdd uchel y Grŵp (graddau A3, A- ac A gan Moody's, S&P a Fitch, yn y drefn honno). Felly, mae'r benthyciad o fewn 'cam 1' model lleihad mewn gwerth IFRS 9 a gellir cyfrifo colledion credyd disgwyliedig ar gyfer 12 mis. Penderfynwyd bod y rhain ym amherthnasol ac, felly, nid ystyriwyd bod angen addasu gwerthoedd cario na gwneud datgeliadau ychwanegol.

BUDDIANNAU PENSIWN

Mae gwerth presennol y rhwymedigaethau pensiwn yn dibynnu ar y cyfrifiad actiwaraid, sy'n cynnwys nifer o dybiaethau. Mae'r tybiaethau hyn yn cynnwys y gyfradd ddisgowntio, chwyddiant prisiau a chyfraddau marwoldeb, a ddefnyddir i gyfrifo gwerth presennol yr all-lifau arian parod amcangyfrifedig y bydd eu hangen yn y dyfodol i fodloni'r rhwymedigaethau pensiwn. Wrth bennu'r gyfradd ddisgowntio sydd i'w defnyddio, mae'r Grŵp yn ystyried arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o safon uchel, mewn sterling, a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn yn codi. Pe bai'r gyfradd ddisgowntio hon yn gostwng neu'n cynyddu 0.1%, byddai gwerth cario'r rhwymedigaethau pensiwn ar 31 Mawrth 2023 yn cynyddu neu'n lleihau £5.7 miliwn (2022: £8.8 miliwn). Mae'r tybiaethau allweddol yn cynnwys: cyfraddau disgowntio, chwyddiant prisiau a disgwyliad oes. Dylid nodi y gall cyfraddau actiwaraid fod yn wahanol i'r tybiaethau a ddefnyddiwyd oherwydd amodau'r farchnad ac amodau economaidd sy'n newid a bywydau hwy neu fyrrach cyfranogwyr ac, fel y cyfryw, mae hyn yn un o'r prif ffynonellau ansicrwydd ynghylch amcangyfrif. Datgelir materion sensitif mewn perthynas â'r tybiaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn yn nodyn 21.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

1. Polisiâu cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

BUDDIANNAU PENSIWN PARHAD

Os bydd asedau'r cynllun yn tangyflawni'n gymharol â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaethau, bydd hyn yn cynyddu gwerth y diffyg rhagamcanol. Ac eithrio arian parod, mae asedau'n cynnwys cronfeydd buddsoddi cyfun, cronfeydd strategaeth amgen a chronfeydd eiddo nas dyfynnir ar farchnad weithredol. O gyfanswm asedau gwerth £412 miliwn (2022: £427.5 miliwn), mae asedau â gwerth teg o £114.8 miliwn (2022: £99.9 miliwn) yn asedau ariannol Lefel 3; ystyrir mai'r rhain yw'r rhai lleiaf hylifol o'r rhai anoddaf i'w prisiau, ac felly cânt eu hamcangyfrif i raddau mwy. Mae gwerth teg yr asedau hyn wedi cael ei amcangyfrif yn seiliedig ar y prisiau canfyddadwy diweddaraf sydd ar gael, wedi'i ddiweddararu drwy gyfeirio at symudiadau mewn mynegeion canfyddadwy cymaradwy i'r dyddiad adrodd, ac wedi'i addasu yn unol â barnau i adlewyrchu gwahaniaethau yn hylifedd ac elfennau credyd y broses o brisio ased. Byddai symudiad o 5% yng ngwerth teg yr asedau ariannol Lefel 3 hyn yn cynyddu neu'n lleihau gwerth cario cyffredinol y rhwymedigaeth pensiwn £5.7 miliwn (2022: £5 miliwn). (Gweler hefyd nodyn 21.)

EFFAITH BARN GYFRIFYDDU AR FUDDIANNAU PENSIWN

Mae'r dybiaeth o ran y gyfradd marwolaethau a ddefnyddir i gyfrifo gwerth presennol y rhwymedigaethau pensiwn wedi'i rhannu'n ddwy ran benodol. Yn gyntaf, y cyfraddau marwolaethau presennol (tabl sail), ac yn ail, sut y dylai'r cyfraddau hyn ganiatáu ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae tablau sail S3PxA wedi'u defnyddio i gyfrifo'r gwerth presennol, wedi'u haddasu ar gyfer pwysoliadau o 101% i ddynion a 104% i fenywod gan ddarparu'n fras ar gyfer y gwall yn nhablau S3PxA y rhoddwyd gwybod amdano gan Continuous Mortality Investigation (CMI) ym mis Mehefin 2022, gyda gwelliannau yn unol â model rhagamcanol CMI 2021, gyda chyfradd tueddiadau hirdymor o 1.0% y flwyddyn. Rydym wedi cymhwyso'r paramedrau $A=0.5$, $S \text{ kappa}=7.0$ a $W=10\%$ at dybiaethau 2021 CMI. Dyma'r unig newid o'r barnau a fabwysiadwyd y flwyddyn ddiwethaf ac mae wedi'i ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r profiad marwoldeb a nodwyd gan CMI yn y flwyddyn gyfredol. Defnyddir y model CMI gan gynlluniau pensiwn a chwmnïau yswiriant yn y DU y mae angen iddynt lunio tybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau yn y dyfodol.

AILDDATGAN YR ADRODDIADAU AR OLLYNGIADAU DŴR A DEFNYDD Y PEN

Mae'r Grŵp yn cynnig y dylid cyflwyno pecyn iawndal i gwsmeriaid gwerth cyfanswm o £29 miliwn er mwyn gwneud iawn am ailddatgan perfformiad y Grŵp o ran gollyngiadau dŵr a defnydd y pen. Ar 25 Mai 2023, lansiodd Ofwat ymchwiliad i berfformiad Dŵr Cymru o ran gollyngiadau dŵr. Wrth aros i Ofwat gwblhau ei ymchwiliad a derbyn ein pecyn iawndal i gwsmeriaid arfaethedig yn ffurfiol, mae ansicrwydd o hyd ynghylch yr effaith ariannol yn y pen draw. Mae'r pecyn iawndal i gwsmeriaid arfaethedig, sy'n cynnwys ad-daliad uniongyrchol i gwsmeriaid ac ildio'r cynnydd yn y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio, a fydd yn lleihau biliau yn y dyfodol, yn cynrychioli canlyniad tebygol ymchwiliad Ofwat, gan gyfeirio at orchmynion gorfodi blaenorol a gyhoeddwyd gan Ofwat.

Amcangyfrif cyfrifyddu: Mae cyfanswm gwerth y pecyn iawndal i gwsmeriaid yn cyfateb i 3.7% o refeniw rheoleiddiedig y Grŵp ar gyfer 2022, sef amcangyfrif gorau'r Grŵp, ar 31 Mawrth 2023, o'r iawndal y mae Ofwat yn debygol o'i osod. Pe bai'r ganran hon yn cynyddu 0.1% mewn termau absoliwt, byddai'r effaith ariannol yn cynyddu £0.8 miliwn.

Barn gyfrifyddu: Mae'r Grŵp wedi cymhwyso barn at strwythur arfaethedig y pecyn, gan rannu'r iawndal rhwng ad-daliad uniongyrchol i gwsmeriaid ac ildio'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio yn y dyfodol. Mae pecyn iawndal i gwsmeriaid arfaethedig y Grŵp yn cynnwys £15 miliwn, sy'n cynrychioli penderfyniad y Bwrdd i ad-dalu £10 i bob cwsmer yn y flwyddyn ariannol 2023/24, a £14 miliwn ar gyfer y cynnydd yn y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio y bydd y Grŵp yn ei ildio yn PR24. Mae darpariaeth wedi'i chydabod ar gyfer yr elfen £15m gan fod rhwymedigaeth wedi codi yn ystod y flwyddyn a chaiff ei chredydu i bob deiliad cyfrif ar 31 Mawrth 2023 yn ystod y chwe mis nesaf.

Nid oes darpariaeth wedi'i chydabod ar 31 Mawrth 2013 ar gyfer yr elfen iawndal o £14m am ei bod yn cynrychioli prisiau is y disgwylir iddynt gael eu codi ar gwsmeriaid y cytunir arnynt rywbryd yn y dyfodol drwy'r system reoleiddio. O dan y system reoleiddio ar gyfer PR24, caiff y Grŵp adennill gorwariant rheoleiddiol ar gyfer 2020/21 a 2021/22 sydd i'w briodoli i wariant ar ollyngiadau dŵr, ond ni fydd y Grŵp yn ystyried hyn yn ein cynnydd yn y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio ar 1 Ebrill 2025.

BUDDSODDIAD Y RHIAENT-GWMNI MEWN IS-GWMNIAU

Nodir buddsoddiad Glas Cymru Holdings Cyfyngedig yn ei is-gwmniau ar werth teg, drwy ddefnyddio dull llif arian parod wedi'i ddisgowntio a chyfeirio at refeniw a gwariant a ragwelir, cost gyfartalog cyfalaf wedi'i phwysoli a Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio'r Cwmni. Daw'r rhagolygon y mae'r llifau arian parod a'r symudiadau GCR yn seiliedig arnynt o'n cynllun ariannol ar gyfer 2023, sydd ei hun yn seiliedig ar ein cynllun Penderfyniad Terfynol PR19 a bennwyd gan Ofwat. Mae ansicrwydd cynhenid yn gysylltiedig â rhagweld effaith amcangyfrifedig y sefyllfa economaidd bresennol, ond oherwydd maint ei effaith, byddai dadansoddiad o sensitifrwydd yn arwain at newid amherthnasol i'r prisiad. Mae'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir i ddisgowntio llifau arian parod yn y dyfodol yn seiliedig ar Gost Dyled ddisgwyliedig y rheoleidiwr ar gyfer PR24 a bennwyd dros dro gan Ofwat. Mae hwn yn newid yn y fethdoleg o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, pan ddefnyddiwyd Cost Dyled PR19 a bennwyd gan Ofwat. Gwnaed y newid am fod Cost Dyled ragamcanol PR24 yn cynrychioli cyfran fwy o'r cyfnod y mae'r rhagolygon yn ymwneud ag ef, sy'n cwmpasu 5 o'r 15 mlynedd rydym yn rhagamcanu ein rhagolygon drostynt, o gymharu â'r ddwy flynedd sy'n weddill o PR19. Oherwydd yr ansicrwydd cynhenid, cynhaliwyd prawf sensitifrwydd ar hyn lle y byddai newid o 0.1% yn y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir yn cynyddu neu'n lleihau'r prisiad £135 miliwn (2022: £123 miliwn). (Gweler hefyd nodyn 10).

1. Polisiau cyfrifyddu, rheoli risgiau ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

GWARANT Y RHIANT-GWMNI

Mae'r Cwmni wedi darparu gwarant ar gyfer pob un o'r is-gwmnïau canlynol er mwyn iddynt gymryd yr esemptiad rhag y gofyniad i gynnal archwiliad, yn unol â gofynion adran 479A o Ddeddf Cwmnïau 2006:

- Cambrian Utilities Limited
- Welsh Water Infrastructure Limited
- Welsh Water Holdings Limited
- Welsh Water Organic Waste Limited

AMCANGYFRIF GWERTH TEG

Yn unol ag IFRS 13 Mesur Gwerth Teg, caiff deilliadau masnachu a thrysorlys y Grŵp eu categorioeddio'n lefelau gwahanol:

Lefel 1: prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau union debyg.

Lefel 2: mewnbynnau ar wahân i brisiau a ddyfynnwyd ar Lefel 1 sy'n ganfyddadwy ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol (prisiau) neu'n anuniongyrchol (yn deillio o brisiau).

Lefel 3: mewnbynnau ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth nad ydynt yn seiliedig ar ddata canfyddadwy o'r farchnad.

Caiff holl ddeilliadau trysorlys y Grŵp eu categorioeddio fel Lefel 2. Yn unol ag IFRS 13, mae ffactor addasu wedi cael ei gymhwyso at y cyfnewidiadau yn seiliedig ar arfer safonol y diwydiant er mwyn ystyried y risg o ran credyd drwy amcangyfrif llifau arian parod yn y dyfodol yn seiliedig ar gromliniau cyfraddau llog cymwys. Yna, caiff llifau arian parod a ragwelir eu disgowntio'n ôl drwy ddefnyddio ffactorau disgowntio sy'n deillio o'r cromliniau cyfraddau llog cymwys wedi'u haddasu ar gyfer amcangyfrif rheolwyr o risg gwrthbartion o ran credyd a'u risg eu hunain o ran credyd, lle y bo'n briodol.

Caiff deilliadau masnachu, sy'n ymwneud â rhagfantolion pris pŵer eu categorioeddio fel Lefel 2 lle y derbynnir dull o brisio yn unol â'r farchnad ar gyfer y masnachau hyn. Lle na dderbynnir dull o brisio yn unol â'r farchnad mae'r gwerthoedd teg yn rhai amcangyfrifedig yn hytrach na chanfyddadwy, ac felly cânt eu categorioeddio fel rhai Lefel 3.

Ar 31 Mawrth 2023 roedd gwerthoedd teg deilliadau fel a ganlyn:

Lefel 2:

Asedau: deilliadau masnachu £10.0 miliwn, deilliadau trysorlys £335.6 miliwn (2022: deilliadau masnachu £17.1 miliwn, deilliadau trysorlys £389.0 miliwn (2022).

Rhwymedigaethau: deilliadau masnachu £dim, deilliadau trysorlys £780.2 miliwn (2022: deilliadau masnachu £dim, deilliadau trysorlys £1,022.9 miliwn).

Lefel 3:

Asedau: deilliadau masnachu £dim, (2022: deilliadau masnachu £22.0 miliwn).

Rhwymedigaethau: deilliadau masnachu £dim, (2022: deilliadau masnachu £dim).

Mae deilliadau masnachu yn ymwneud â rhanfantolion pris pŵer. Mae deilliadau trysorlys yn ymwneud â chontractau cyfnewidiadau cyfradd llog. Cofnodir yr holl ddeilliadau ar y fantolen ar werth teg.

Caiff buddsoddiadau dyled Lefel 2 eu prisiau gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi'i ddisgowntio, sy'n disgowntio llifau arian parod cytundebol gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio sy'n deillio o brisiau canfyddadwy'r farchnad mewn perthynas ag offerynnau dyled eraill y gwrthbartion a ddyfynnir.

Caiff offerynnau dyled Lefel 3 eu prisiau gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi'i ddisgowntio, sy'n disgowntio llifau arian parod cytundebol gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio sy'n deillio o brisiau canfyddadwy'r farchnad mewn perthynas ag offerynnau dyled eraill y gwrthbartion a ddyfynnir. Caiff offerynnau dyled Lefel 3 eu prisiau drwy gymharu prisiau o fasnachau Lefel 2 ar gyfer yr un cyfnodau, gyda'r prisiau o fasnachau canfyddadwy yn cael eu chwyddo neu eu dadchwyddo er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw amrywiadau mewn prisiau sefydlog.

CYFALAFU

Mae angen cryn allu i lunio barn er mwyn penderfynu a yw costau, sef gwariant cychwynnol a dilynol, gan gynnwys gwariant ar gyflogaion a gwariant mewnol arall ar seilwaith ac asedau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu (y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r ased, sy'n darparu budd economaidd tebygol ac y gellir eu mesur yn ddibynadwy) ac a gânt eu cynnwys felly wrth brisio eiddo, offer a chyfarpar, neu fel arall a ddylent gael eu gwario ar unwaith. Rydym yn cyfalafu gwariant sy'n ymwneud â chostau cyflogaion ar sail uniongyrchol ac anuniongyrchol, drwy ddefnyddio tafflenni gwaith ac amcangyfrif o gostau gorbenion sydd i'w priodoli i brosiect cyfalaf, a adolygir o leiaf unwaith y flwyddyn. Pe bai ein canran wedi'i chyfalafu yn cynyddu neu'n lleihau 5% byddai hyn yn cael effaith ariannol o £9.3m, yn seiliedig ar gyfanswm costau cyflogaeth.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

1. Polisiau cyfrifyddu, rheoli risg ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu parhad

Caiff hyn ei fonitro'n barhaus drwy broses o herio costau rhaglenni cyfalaf a chraffu ar gostau gweithredu, a ategir gan ddadansoddiad trydydd parti o'r dadansoddiad o raglenni cyfalaf rhwng costau gwaith cynnal a chadw a godir ar y datganiad incwm ac eiddo, offer a chyfarpar a ychwanegir at y fantolen.

EFFAITH OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL AR DDIBRISANT

Mae oes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig Eiddo, Offer a Chyfarpar ac asedau anniriaethol yn seiliedig ar brofiad rheolwyr. Pan fydd rheolwyr yn nodi bod oes economaidd ddefnyddiol wirioneddol yn wahanol iawn i'r amcangyfrifon a ddefnyddiwyd er mwyn cyfrifo dibrisiant, caiff y newid hwnnw ei addasu'n rhagolygol. Oherwydd pwysigrwydd PPE a buddsoddiad anniriaethol i'r Grŵp, gallai amrywiadau rhwng oes economaidd ddefnyddiol wirioneddol ac amcangyfrifedig effeithio ar ganlyniadau gweithredu yn gadarnhaol ac yn negyddol. Fel y cyfryw, mae hyn yn ffynhonnell allweddol o ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrif. Y gwariant dibrisiant ac amorteiddio ar gyfer y flwyddyn oedd £346.8 miliwn. Byddai cynnydd o 10 y cant yn oes gyfaralog asedau wedi lleihau'r ffigur hwn £31.5 miliwn a byddai lleihad o 10 y cant wedi cynyddu'r ffigur hwn £34.6 miliwn.

NEWID HINSAWDD

Mae'r amgylchedd naturiol y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddo yn newid yn rheolaidd, ac mae hyn yn dylanwadu ar y modd y caiff ei wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff eu darparu yn y dyfodol. Mae'r Grŵp wedi ymgorffori targedau uchelgeisiol sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn ei nodau strategol, sy'n effeithio ar y portffolio o asedau sy'n ofynnol yn ei weithrediadau i ddarparu gwasanaethau o'r fath. Rydym wedi cynnal adolygiad, yn unol â datgeliadau ein Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd, o effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd a deddfwriaeth amgylcheddol neu fesurau datgarboneiddio'r Grŵp yn bennaf mewn perthynas â phrisiad yr eiddo, offer a chyfarpar a ddelir gan y Grŵp a darpariaethau neu rwymedigaethau digwyddiadol. Nid ystyriwyd bod unrhyw ddiwygiadau'n angenrheidiol yn y datganiadau ariannol y flwyddyn hon o chaiff dadansoddiadau pellach eu cynnal drwy gydol y flwyddyn ariannol newydd. Byddwn yn adolygu effaith newid yn yr hinsawdd ar y datganiadau ariannol bob blwyddyn pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Bydd y Grŵp yn ceisio gwella cywirdeb ei asesiad o oes ddefnyddiol ymhellach drwy gyflwyno gwybodaeth sy'n edrych mwy i'r dyfodol mewn adolygiadau o oes asedau. Bydd y Grŵp yn parhau i liniaru'r amlygiad sydd gan werth cario ei sail asedau llyfr i'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd drwy weithgareddau cynllunio strategol sy'n ymgorffori senarios hinsawdd diffiniedig, addewidion i liniaru'r newid yn yr hinsawdd, ac amcanestyniadau hirdymor o ran yr hinsawdd. Mae'r Grŵp yn gosod amddiffynfeydd rhag llifogydd parhaol a mesurau cydnherthedd yn y cyfleusterau mwyaf bregus i amddiffyn ei asedau.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein strategaeth newid yn yr hinsawdd yn natgeliadau ein Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd ar dudalennu 74 i 89.

2. Gwybodaeth segmentol

Ym marn y Cyfarwyddwyr dim ond un segment gweithredu sydd, sef gweithredu busnes dŵr a charthffosiaeth (a gweithgareddau masnachol ymylol) yn y DU. Gan mai dim ond gweithgareddau domestig sydd gan y Grŵp, dim ond un segment daearyddol sydd; felly, mae'r datgeliadau ar gyfer y segment hwn eisoes wedi'u rhoi yn y datganiadau ariannol hyn.

Er bod y Grŵp yn gweithredu mewn un segment, gellir dadgrynhoi ei weithgareddau i'r prif ffrydiau incwm canlynol:

Grŵp	2023 £m	2022 £m
Refeniw wedi ei reoleiddio		
Dŵr	330.6	321.6
Carthffosiaeth	457.3	424.2
Manwerthu	46.9	55.0
Cyfanswm y refeniw wedi ei reoleiddio	834.8	800.8
Arall (heb ei reoleiddio)	9.0	9.4
Cyfanswm y refeniw	843.8	810.2

Mae refeniw wedi ei reoleiddio yn ymwneud â darparu gwasanaethau dŵr, carthffosiaeth a manwerthu cysylltiedig sy'n gweithredu o dan drwydded Dŵr Cymru Cyfyngedig fel rhan o'r diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr, wedi ei reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat).

Mae refeniw arall (heb ei reoleiddio) yn ymwneud â ffrydiau incwm nad ydynt yn destun proses rheoli prisiau Ofwat; mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu ynni organig yn bennaf a rhai gweithgareddau eraill sy'n ymylol a/neu'n ategol i fusnes dŵr a charthffosiaeth craidd y Grŵp.

Ar 25 Mai 2023, lansiodd Ofwat ymchwiliad i adroddiadau Dŵr Cymru ar ollyngiadau dŵr a defnydd y pen ac ar 31 Mai 2023 cyflwynodd Hysbysiad A203 o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn gofyn am ragor o wybodaeth gan y Cwmni.

Er mwyn digolledu cwsmeriaid, mae'r Grŵp yn cynnig y dylid talu iawndal gwerth £29 miliwn i gwsmeriaid, y darparwyd ar gyfer £15 miliwn ohono yn ystod y flwyddyn, gyda rhagor o wybodaeth ar gael yn nodyn 17. Rhoddwyd cyfrif am y ddarpariaeth yn y tabl uchod o fewn ein refeniw Dŵr rheoleiddiedig ar gyfer y flwyddyn.

3. Elw gweithredu

Mae'r eitemau canlynol wedi'u cynnwys wrth gyfrifo (colled)/elw gweithredu:

Grŵp	2023 £m	2022 £m
Gwariant gweithredu		
Pŵer	74.3	62.7
Cemegion	21.9	10.5
Deunyddiau a chyfarpar	9.7	8.9
Cerbydau ac offer	6.6	7.6
Treuliau swyddfa	5.9	5.7
Costau eiddo	3.5	3.5
Yswiriant	6.6	6.8
Contractwyr dŵr a charthffosiaeth	27.1	22.4
Gwasanaethau labordai a dadansoddi	1.4	1.3
Comisiynau casglu	1.9	3.1
Contractau TG	14.9	12.9
Gwasanaethau a gaiff eu prynu a chostau eraill	52.8	39.3
Costau cyflogaion (nodyn 20)	185.0	165.0
Costau staff wedi'u cyfalafu	(79.1)	(67.5)
Credyd ymchwil a datblygu	(0.5)	(0.6)
Ardrethi	27.0	26.3
Taliadau Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd	16.4	16.5
Ffioedd sy'n daladwy i Archwilwyr	0.7	0.5
Cyfanswm gwariant gweithredol	376.1	324.9
Lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	24.8	23.7
Incwm gweithredu arall	(5.3)	(6.0)
Eitem eithriadol	30.8	(3.8)
Gwariant ar adnewyddu seilwaith	78.0	61.8
Dibrisio ac amorteiddio		
Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar	319.6	301.4
Rhyddhau incwm gohiriedig	(12.4)	(10.2)
Amorteiddio asedau anniriaethol	39.6	37.7
Dibrisio ac amorteiddio	346.8	328.9
Cyfanswm y costau gweithredu	851.2	729.5

Aeth y Grŵp i dreuliau ansylweddol a oedd yn ymwneud â phrydlesau byrdymor, prydlesau asedau gwerth isel neu daliadau prydlesau amrywiadwy yn 2023 a 2022.

Mae incwm gweithredu arall yn bennaf yn cynnwys incwm o allforio nwy a gynhyrchir yn fewnol. Caiff allforion trydan adnewyddadwy eu cynnwys o fewn costau pŵer gan eu bod yn cael eu trin fel proses naturiol o ragfantoli ein defnydd. Ein strategaeth ynni yw llunio contractau sy'n pennu pris defnydd llai allforion pryniannau pŵer yn y dyfodol er mwyn lleddfu effaith amrywiannau mewn prisiau pŵer. Yn ystod y flwyddyn, roedd taliadau defnydd yn £82.6 miliwn (2022: £76.7 miliwn) a gwnaethom allforio £15.0 miliwn (2022: £14.0 miliwn).

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

3. Elw gweithredu parhad

GWASANAETHAU A DDARPARWYD GAN ARCHWILWYR Y GRŴP

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Grŵp y gwasanaethau canlynol gan ei archwilwyr statudol:

Grŵp	2023 £000	2022 £000
Ffioedd archwilio		
Archwiliad o'r rhiant-gwmni a datganiadau ariannol cyfunol	68	35
Archwiliad o is-gwmnïau	467	355
Cyfanswm y ffioedd archwilio	535	390
Gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio		
Adolygiad o ddatganiadau ariannol interim	60	33
Gwasanaethau archwilio rheoleiddiol yn unol â deddfwriaeth	111	92
Adolygiadau o adroddiadau buddsoddwyr	8	4
Sicrwydd ar yr adolygiad o brisiau	3	-
Sicrwydd ar ddyroddi bondiau	-	25
Gwaith sicrwydd ar ardoll Asiantaeth yr Amgylchedd	-	6
Cyfanswm gwasanaethau sicrwydd archwilio a gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio	717	550
Cyfanswm cost gwasanaethau a ddarperir gan archwilwyr y Grŵp	717	550

Mae gwasanaethau archwilio rheoleiddio yn cynnwys gwaith archwilio mewn perthynas â gofynion rheoleiddiol: yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu polisi ffurfiol mewn perthynas â gwasanaethau a gafwyd gan archwilwyr allanol. Ni chaiff yr archwilwyr allanol eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol a bydd yr holl waith nad yw'n waith archwilio yn destun ymarfer tendro cystadleuol ymlaen llaw ac yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.

EITEM EITHRIADOL

Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 rydym wedi cydnabod eitem eithriadol gwerth £30.8 miliwn. Mae'r eitem hon yn cynrychioli cynnydd mewn pensiwn a ddyfarnwyd uchlaw cap o 5%. O dan gymal 'ymdrechion gorau' yn rheolau ein cynllun pensiwn, dim ond pe bai meini prawf penodol yn cael eu bodloni y gellid dyfarnu cynnydd llawn yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Yn y flwyddyn gyfredol, mae dyfardaliadau o dan y cynllun uwchlaw cap o 5% wedi'u talu gan y cynllun pensiwn ac, am fod gan y cynllun warged bellach, disgwylir i'r amodau hyn gael eu talu yn y dyfodol. Felly, mae'r gwariant yn y flwyddyn yn cynrychioli'r dyfardaliadau ychwanegol a roddwyd. Yn y dyfodol, disgwylir i newidiadau i'r dybiaeth hon gael eu cyflwyno yn Incwm Cynhwysfawr Arall fel sy'n ofynnol o dan IAS19. Datgelir hyn fel eitem eithriadol yn y FA 23 gan mai dim ond eleni y cynhelir y broses gyfrifyddu ar gyfer y cynnydd hwn drwy'r cyfrif elw a cholled, am ei fod o werth sylweddol ac am nad yw'n adlewyrchiad agos o wariant gweithredol o ddydd i ddydd. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y rheolwyr yn ystyried y cymal 'ymdrechion gorau' ym mhob cyfnod llawn yn y dyfodol ac, felly, caiff unrhyw symudiad yn yr amcangyfrif ei gyflwyno fel Incwm Cynhwysfawr Arall fel sy'n ofynnol gan IAS19.

Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 gwnaethom gydnabod eitem eithriadol gwerth £(3.8) miliwn. Roedd yr eitem hon yn cynrychioli'r penderfyniad i ryddhau'r ddarpariaeth o ran drwgddyledion am nad oedd taliadau drwgddyledion disgwyledig a oedd yn gysylltiedig â phandemig COVID-19 wedi codi yn ystod y flwyddyn flaenorol; datgelwyd hyn fel eitem eithriadol oherwydd ei natur.

4. Costau cyllido

A) COST CYLLID CYN ENILLION/(COLLEDION) GWERTH TEG AR OFFERYNNAU ARIANNOL DEILLIADOL

Grŵp	2023 £m	2022 £m
Incwm cyllid	14.9	4.1
Treuliau ariannol:		
Llog sy'n daladwy ar fondiau	(54.8)	(51.1)
Mynegeio ar fondiau mynegrifol	(161.4)	(67.0)
Mynegeio ar fenthyciad mynegrifol	(30.3)	(17.9)
Llog sy'n daladwy ar brydlesau (yn cynnwys cyfnewidiadau i'r RPI)	(66.3)	(37.9)
Llog benthyciadau eraill	(24.9)	(22.2)
Llog arall sy'n daladwy a chostau cyllid	(7.0)	(5.8)
Llog net a godwyd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	(2.1)	(1.6)
Cyfalafu costau benthycia o dan IAS 23 (2023: 7.9%; 2022: 5.1%)	28.3	16.4
Treuliau ariannol	(318.5)	(187.1)
Cost cyllid net cyn addasiadau gwerth teg	(303.6)	(183.0)

B) ENNILL/(COLLEDION) GWERTH TEG AR OFFERYNNAU ARIANNOL DEILLIADOL

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd er nad ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu. O ganlyniad, mae cyfnewidiadau cyfradd llog a chyfnewidiadau mynegrifol y Grŵp wedi'u pennu ar werth teg ar ddyddiad pob mantolen gyda'r golled neu'r elw net wedi ei datgelu neu ei ddatgelu yn y datganiad incwm. Yn ystod oes y cyfnewidiadau hyn, os cânt eu dal nes iddynt aeddfedu, bydd yr addasiadau gwerth teg hyn yn cael eu gwrthdroi ac yn gostwng i ddim. (Gweler nodyn 15 mewn perthynas ag offerynnau ariannol deilliadol a ddelir ar y fantolen).

Grŵp	2023 £m	2022 £m
Ennill/(colledion) gwerth teg ar gyfnewidiadau cyfradd llog	32.1	(158.4)
Enillion gwerth teg ar gyfnewidiadau mynegrifol	157.2	13.5
(Colledion)/enillion gwerth teg ar ddeilliadau masnachu	(29.1)	31.4
Ennill/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	160.2	(113.5)

Achosir symudiadau mewn cyfnewidiadau cyfradd llog gan amrywiadau mewn cyfraddau llog hirdymor, ac achosir symudiadau mewn cyfnewidiadau mynegrifol gan amrywiadau yng ngwerth giliau mynegrifol.

5. Trethiant

DADANSODDIAD O'R TÂL A GODIR YN YSTOD Y FLWYDDYN

Grŵp	2023 £m	2022 £m
Treth gyfredol		
Treth gyfredol ar golledion am y flwyddyn	-	-
Treth gyfredol ar gredyd ymchwil a datblygu	(0.1)	(0.1)
Addasiad mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	0.1	0.1
Cyfanswm y dreth gyfredol	-	-
Treth ohiriedig		
Cychwyn a gwrthdroi gwahaniaethau amseru	46.1	39.5
Addasiad mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	(20.3)	(0.1)
Effaith newid yn y gyfradd dreth	-	(47.8)
Cyfanswm y dreth ohiriedig (nodyn 6)	25.8	(8.4)
Trethiant	25.8	(8.4)

Treth gyfredol yw treth gorfforaeth sy'n daladwy ar elw neu golledion cwmni wedi'i haddasu at ddibenion treth a dim ond os bydd elw trethadwy ar ôl yr addasiadau treth hyn y caiff ei chodi – gweler cysoni treth gyfredol.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

5. Trethiant parhad

Mae gwariant gweithredu yn cynnwys credyd treth Ymchwil a Datblygu gwerth £0.6m (2022: £0.6 miliwn). Mae'r credyd treth yn drethadwy a nodir y tâl cyfatebol o £0.1 miliwn (2022: £0.1 miliwn) uchod. Caiff Credyd Gwariant Ymchwil a Datblygu ei hawlio fel un o gymhellion y llywodraeth sy'n darparu credydau treth ar gyfer gwariant cymwys ar ymchwil a datblygu. Mae hawliadau yn seiliedig ar asesiad o wariant cymwys yn unol â'r meini prawf a bennwyd o dan y cymhelliad.

Mae a wnelo trethi cyfredol mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol sy'n cyfateb i £0.1 miliwn (2022: £0.1 miliwn) â chredydau treth ar gyfer ymchwil a datblygu, gwariant cyfalaf ynni-effeithlon ac adfer tir halogedig.

Mae trethi gohiriedig mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol yn cynnwys tâl o £21.0 miliwn (2022: £dim) sy'n deillio o symudiadau mewn trethi gohiriedig a achoswyd gan newidiadau i brisiad cyfnewidiadau cyfradd llog a chwyddiant yn ystod y flwyddyn. Ar 31 Mawrth 2022, roedd disgwyl i'r gwahaniaeth dros dro sylfaenol gael ei wrthdroi ar ôl mis Mawrth 2023 pan fyddai'r dreth gorfforaeth yn cyfateb i 25% ac, felly, cafodd trethi gohiriedig eu cyfrifo gan ddefnyddio'r gyfradd hon. Yn dilyn amrywiadau mewn cyfraddau llog a chwyddiant yn ystod y cyfnod, maent wedi cael eu gwrthdroi yn y cyfnod presennol pan fo cyfradd treth gorfforaeth yn cyfateb i 19%. Mae effaith y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau treth hyn yn newid balans treth ohiriedig ac, felly, mae tâl treth ychwanegol o £21.0 miliwn. Dangoswyd hyn fel eitem blwyddyn flaenorol am ei bod yn ymwneud â newid mewn amcangyfrif a wnaed mewn cyfnod blaenorol.

Mae trethi gohiriedig blynyddoedd blaenorol hefyd yn cynnwys credyd o £0.6 miliwn (2022: tâl o £0.1 miliwn) sy'n ymwneud ag addasiadau i falansau treth ohiriedig mewn perthynas â gwariant cyfalaf. Mae'r Grŵp yn amcangyfrif y bydd gwariant o £49 miliwn yn gymwys i gael 'didyniad uwch' o 130% (2022: £26 miliwn) sy'n lleihau'r rhwymedigaeth treth ohiriedig. Felly, mae credyd treth o £2.8 miliwn (£49 miliwn x 30% x 19%) wedi codi yn ystod y cyfnod (2022: £1.5 miliwn). Mae'r gyfradd dreth weithredol ar gyfer y flwyddyn yn is (2022: is) na'r gyfradd treth gorfforaeth safonol yn y DU sef 19% (2022: 19%). Esbonnir y gwahaniaethau isod:

Grŵp	2023 £m	2022 £m
Colled cyn treth	(150.5)	(215.2)
Colled cyn treth wedi'i lluosio â'r gyfradd treth gorfforaeth yn y DU sef 19% (2022: 19%)	28.6	40.9
Effaith:		
Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	(20.2)	-
Dibrisiant a godir ar yr asedau nad ydynt yn cymhwyso	(1.9)	(2.9)
Treuliau nad ydynt yn ddidynadwy at ddibenion treth	0.1	(0.1)
130% o ddidyniad uwch ar gyfer offer a pheiriannau	2.8	1.5
Effaith newid y gyfradd ar gyfer treth ohiriedig o 19% i 25%	-	(47.8)
Gwahaniaeth yng nghyfradd safonol treth gorfforaeth (19%) a'r gyfradd a ddefnyddir ar gyfer treth ohiriedig (25%)	16.6	-
Trethiant	25.8	(8.4)

CYSONI TRETH GYFREDOL

Mae'r tabl isod yn cysoni'r tâl treth tybiannol ar gyfradd dreth gorfforaeth y DU i gyfanswm y tâl treth cyfredol ar gyfer y flwyddyn.

Grŵp	2023 £m	2022 £m
Colled cyn treth	(150.5)	(215.2)
Tâl treth disgwyliedig (19%)	28.6	40.9
Dibrisiant sy'n fwy na lwfansau cyfalaf	(34.8)	(38.3)
Costau pensiwn sy'n fwy na thaliadau	(6.2)	(0.3)
Treuliau nad ydynt yn ddidynadwy at ddibenion treth	(0.2)	(0.2)
Cyfyngiad llog corfforaethol	-	(0.5)
Symudiadau gwerth teg mewn deilliadau - nad ydynt yn drethadwy	66.1	(3.7)
IFRIC 18 - rhyddhau incwm nad yw'n drethadwy	2.3	1.9
Symudiad mewn darpariaethau sy'n ddidynadwy pan gânt eu talu	0.3	1.2
Llog wedi'i gyfalafu - gellir tynnu treth pan fo wedi'i gyfalafu	5.4	3.1
Credydau Gwariant Ymchwil a Datblygu a drethwyd mewn blynyddoedd blaenorol	0.1	0.1
Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	0.1	0.1
Colledion treth a gariwyd ymlaen	(61.7)	(4.3)
Trethiant	-	-

5. Trethiant parhad

Mae'r Grŵp yn buddsoddi cryn dipyn mewn gwariant cyfalaf ac felly gall hawlio rhyddhad treth ar ffurf lwfansau cyfalaf, sef rhyddhad treth gan y Llywodraeth sydd â'r nod o ysgogi'r math hwn o fuddsoddiad. Gan nad oes gan y Grŵp urhyw gyfranddalwyr mae'r gwargedau a gynhyrchir ganddo yn helpu i gadw biliau dŵr yn isel ac maent hefyd yn cael eu hailfuddsoddi er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid, yn hytrach na chael eu talu i gyfranddalwyr fel difidendau. Mae'r ailfuddsoddiad hwn yn aml ar ffurf gwariant cyfalaf sy'n denu rhagor o lwfansau cyfalaf. O ganlyniad i ragolygon elw a lwfansau cyfalaf y Grŵp y gall eu hawlio, nid yw'r Grŵp yn disgwyl talu treth gorfforaeth yn ystod AMP7 (2020-2025).

Y ffactor pwysicaf sy'n effeithio ar y dreth a godir ar y Grŵp ar hyn o bryd yw'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant a godir ar eiddo, offer a chyfarpar yn y datganiadau ariannol a'r rhyddhad treth a hawli'r ar gyfer y gwariant hwn (lwfansau cyfalaf). Cydnabyddir trethi gohiriedig ar y gwahaniaeth dros dro rhwng swm cario'r asedau sefydlog yn y cyfrifon a'r swm a gaiff ei ddidynnu at ddibenion treth mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Mae dibrisiant yn fwy na'r swm a hawli'r ar gyfer lwfansau cyfalaf am fod y Grŵp yn gallu penderfynu ar swm y lwfansau cyfalaf y mae'n eu hawlio yn ystod pob cyfnod yn unol â'r deddfwriaeth treth. Nid yw lwfansau cyfalaf wedi cael eu hawlio'n llawn y flwyddyn hon, nac yn y cyfnod blaenorol.

Caiiff offerynnau ariannol deilliadol trysorlys eu cario ar eu gwerth teg. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg sy'n codi rhwng dyddiadau'r fantolen yn y datganiad incwm ond nid ydynt yn destun treth gorfforaeth. Cydnabyddir trethi gohiriedig ar y gwahaniaeth dros dro sy'n hafal i werth teg net y deilliadau yn y datganiadau ariannol llai'r symiau a ddidynnwyd at ddibenion treth.

Caiiff rhyddhad treth ei hawlio ar gyfer costau llog sy'n cynnwys effaith llifau arian parod y flwyddyn gyfredol sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol deilliadol trysorlys. Caiiff rhyddhad treth ei hawlio hefyd ar gyfer llog sy'n cael ei gyfalafu fel rhan o asedau sefydlog (gweler nodyn 4). Mae'r Grŵp yn preswyllo'n gyfan gwbl yn y DU at ddibenion treth ac mae wedi'i ariannu'n gyfan gwbl gan ddyled allanol sy'n gwbl ddiynadwy yn unol â deddfwriaeth treth y DU. Yn ystod y flwyddyn, dewisodd y Grŵp gael ei drin fel "cwmnïau seilwaith cymwys" o dan Esemptiad Seilwaith er Budd y Cyhoedd y darperir ar ei gyfer mewn deddfwriaeth ynglŷn â chyfyngiadau llog cofforaethol. O ganlyniad, nid oes unrhyw gyfyngiad llog ar gyfer y cyfnod presennol (2022: £0.5 miliwn).

Codir dyled newydd drwy ddyroddi bondiau ac mae bondiau'r Grŵp wedi'u rhestru ar gyfnewidfa stoc Lwcsembwrg. Fel 'Bondiau Ewro wedi'u rhestru', nid oes unrhyw ofyniad i ddidynnu treth y DU a gadwyd yn ôl o daliadau llog. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw fanteision treth yn gysylltiedig â rhestru bondiau yn Lwcsembwrg o'i chymharu â Llundain, gan fod eithriad treth a gadwyd yn ôl mewn perthynas â llog yn berthnasol i fondiau a restrir ar y naill gyfnewidfa a'r llall. Er bod bondiau yn cael eu dyroddi fel bondiau dygiedydd, cânt eu trosglwyddo'n electronig drwy Euroclear a Clearstream ac nid ydynt wedi cael eu dyroddi ar 'ffurf ddiffiniol' (ffurf papur).

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

6. Treth Ohiriedig

Cyfrifir treth ohiriedig yn llawn ar wahaniaethau dros dro o dan y dull rhwymedigaeth gan ddefnyddio cyfradd dreth o 25% (2022: 25%). Mae'r symudiad yn y ddarpariaeth treth ohiriedig fel y'i dangosir isod:

Grŵp	2023 £m	2022 £m
Ar 1 Ebrill	668.4	470.3
(Credyd)/tâl a godir ar y datganiad incwm	(25.8)	8.4
Codwyd ar/(credydwyd i) y datganiad incwm cynhwysfawr	31.1	(2.7)
Codwyd ar/(credydwyd i) y gronfa ailbrisio wrth gefn	148.4	192.3
Ar 31 Mawrth	822.1	668.4

Dadansoddiad o'r symiau a godwyd ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn:

Grŵp	2023 £m	2022 £m
Cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig	31.1	2.0
Cynnydd yn y gyfradd treth gorfforaeth – cynllun pensiwn	–	(4.7)
Codwyd ar/(credydwyd i) y Datganiad Incwm Cynhwysfawr	31.1	(2.7)
Ailbrisio asedau sefydlog	148.4	85.2
Cynnydd yn y gyfradd treth gorfforaeth – ailbrisio asedau sefydlog	–	107.1
Codwyd ar y gronfa ailbrisio wrth gefn	148.4	192.3

Grŵp	2023 £m	2022 £m
Effaith:		
Lwfansau treth sy'n fwy na dibrisiant	366.2	357.4
Treth ohiriedig wrth ailbrisio asedau sefydlog	565.9	446.1
Enillion cyfalaf a ailfuddsoddwyd	4.0	4.0
Treth ohiriedig ar golledion treth a gariwyd ymlaen	(93.4)	(8.6)
Treth ohiriedig ar golledion ar offerynnau ariannol deilliadol	(22.5)	(109.3)
Pensiynau	3.7	(19.3)
Gwahaniaethau treth eraill	(1.8)	(2.0)
Treth ohiriedig	822.1	668.3

Cydnabuwyd trethi gohiriedig ar y gwahaniaeth dros dro rhwng swm cario'r asedau sefydlog yn y cyfrifon a'r swm a gaiff ei ddidynnu at ddibenion treth (lwfansau cyfalaf) mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Gan fod lwfansau cyfalaf wedi bod yn uwch na'r dibrisiant a godwyd ar yr asedau sefydlog hyd yma, mae rhwymedigaeth treth ohiriedig o £366.2 miliwn ar ddydiad y fantolen (2022: £357.4 miliwn).

Mae rhwymedigaeth treth ohiriedig o £565.9 miliwn (2022: £446.1 miliwn) hefyd wedi cael ei chydabod mewn perthynas â gwargedau ailbrisio sy'n deillio o ailbrisio asedau sefydlog er mwyn adlewyrchu 'gwerth cyfalaf rheoleiddio cysgodol' Ofwat. Codir y dreth ohiriedig gysylltiedig ar y gronfa ailbrisio wrth gefn.

Mae'r Grŵp wedi cydnabod ased treth ohiriedig o £22.5 miliwn (2022: £109.3 miliwn) mewn perthynas ag offerynnau ariannol deilliadol sy'n cael eu cario ar eu gwerth teg yn y cyfrifon. Ni chodir treth gorfforaeth ar symudiadau gwerth teg sy'n ymwneud â deilliadau yn y cyfnod y byddant yn codi ond maent yn drethadwy/didynadwy mewn cyfnodau diweddarach pan geir y llif arian parod gwirioneddol. Nodir dyddiadau aeddfedu'r deilliadau yn nodyn 15 ac, mewn rhai achosion, maent wedi'u hymestyn tan 2057.

Mae rhwymedigaeth treth ohiriedig o £3.7 miliwn (2022: £19.3 miliwn) wedi'i chydabod mewn perthynas â'r gwarged (2022: diffyg) ar y cynllun pensiwn – gweler nodyn 21. Mae asedau treth ohiriedig wedi cael eu cydnabod mewn perthynas â phob colled treth a gwahaniaethau dros dro eraill sy'n arwain at asedau treth ohiriedig am ei bod yn debygol y caiff yr asedau hyn eu hadennill. Caiff yr asedau treth ohiriedig hyn eu hadennill yn erbyn y rhwymedigaethau treth ohiriedig mewn perthynas ag asedau sefydlog a gaiff eu gwrthdroi yn yr un cyfnodau. Gall y Grŵp bennu swm y lwfansau cyfalaf y mae'n ei hawlio, sy'n golygu y gall elw trethadwy fod ar gael yn y cyfnodau y caiff asedau treth ohiriedig eu hadennill. Mae gan y Grŵp golledion treth gwerth £374.0 miliwn a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023 (2022: £34.5 miliwn).

Nid oes treth ohiriedig wedi'i darparu ar enillion taladwy gwerth £133.0 miliwn sydd wedi'u hailfuddsoddi lle mae'r ased newydd wedi'i ddosbarthu'n strwythur gweithredol e.e. tanciau concrid. Fel arfer, caiff yr asedau hyn eu dymchwel neu eu gwaredu ar ddiwedd eu hoes economaidd ddefnyddiol ac felly nid ydym yn disgwyl y bydd enillion taladwy yn codi yn y dyfodol.

6. Treth Ohiriedig parhad

Pe bai treth ohiriedig yn cael ei chydabod mewn perthynas â'r enillion hyn, byddai'r rhwymedigaeth treth ohiriedig ar 31 Mawrth 2023 yn cynyddu £33.3 miliwn (2022: £33.3 miliwn), sef yr enillion a ailfuddsoddwyd wedi'u lluosu â'r gyfradd a ddefnyddir i gyfrifo trethi gohiriedig, sef 25% (2022: 25%).

Nid oes gan y Cwmni unrhyw falans treth ohiriedig (2022: dim).

7. Cronfa ailbrisio wrth gefn

Mae gwerth economaidd busnes dŵr a charthffosiaeth y Cwmni yn deillio o'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) a bennwyd gan Ofwat yn ystod ei adolygiadau pum mlynedd o brisiau. Mae'r Cwmni o'r farn bod dull gwerth teg o brisio ei asedau yn adlewyrchu gwerth sylfaenol yr asedau yn well na dull cyfrifyddu cost hanesyddol sy'n tanddatgan gwerth cyfredol yr asedau a ddefnyddir.

Ar 31 Mawrth 2023, mae cyfanswm gwerth asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol wedi cael ei ailbrisio i 'GCRh cysgodol' y Cwmni, sef GCRh 31 Mawrth 2023 a gyhoeddwyd gan Ofwat yn ei Phenderfyniad Terfynol PR19 fel y'i haddaswyd ar gyfer effaith unrhyw orwariant/tanwariant a gwobrau/cosbau'r Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau. Y dosbarthiadau o asedau yr effeithir arnynt yw asedau seilwaith a strwythurau gweithredol.

Adolygir gwerth cario asedau ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Caiff llinellau asedau a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu bob blwyddyn.

Symudiad cronfa ailbrisio wrth gefn	2023 £m	2022 £m
Cronfa ailbrisio wrth gefn ar 1 Ebrill	1,339.7	1,157.1
Ailbrisio asedau i GCRh	593.4	448.4
Tâl dibrisio ar asedau a ailbrisiwyd	(114.5)	(90.7)
	478.9	357.7
Treth ohiriedig wrth ailbrisio	(148.4)	(192.3)
Treth ohiriedig ar y tâl dibrisio	21.8	17.2
	(126.6)	(175.1)
Cronfa ailbrisio wrth gefn ar 31 Mawrth	1,692.0	1,339.7

Mae'r symudiad yng nghronfa ailbrisio wrth gefn y rhiant-gwmni ond yn ymwneud â'r lleihad o £105.8 miliwn yng ngwerth buddsoddiad y Cwmni mewn is-gwmnïau yn ystod y flwyddyn, o £4,201.5 miliwn i £4,095.7 miliwn (2022: cynnydd o £243.5 miliwn, o £3,958.0 miliwn i £4,201.5 miliwn). Adlewyrchir hyn yn y Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

8. Eiddo, offer a chyfarpar

Grŵp — 2023	Tir rhydd- ddaliadol ac adeiladau £m	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol £m	Cyfanswm £m
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2022	42.6	3,029.4	4,908.2	281.2	8,261.4
Ailbrisi	–	210.8	–	–	210.8
Ychwanegiadau llai grantiau a chyfraniadau	–	205.1	215.7	0.3	421.1
Gwaredu	(0.6)	–	–	(2.7)	(3.3)
Ar 31 Mawrth 2023	42.0	3,445.3	5,123.9	278.8	8,890.0
Dibrisiant cronedig					
Ar 1 Ebrill 2022	25.0	–	1,688.0	273.0	1,986.0
Ailbrisi	–	(71.7)	(310.9)	–	(382.6)
Tâl a godwyd am y flwyddyn	0.8	71.7	244.3	2.8	319.6
Rhyddhawyd wrth waredu	(0.6)	–	–	(2.6)	(3.2)
Ar 31 Mawrth 2023	25.2	–	1,621.4	273.2	1,919.8
Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2023	16.8	3,445.3	3,502.5	5.6	6,970.2
Ar 31 Mawrth 2023 (sail cost hanesyddol)	16.8	2,275.8	2,408.8	5.6	4,707.0

Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys £343.3 miliwn mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu (2022: £297.3 miliwn).

Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys £118.0 miliwn o gostau benthyca wedi eu cyfalafu yn unol ag IAS 23 (2022: £96.5 miliwn), yr oedd £25.1 miliwn ohono yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn (2022: £14.3 miliwn).

Grŵp — 2022	Tir ac adeiladau rhydd- ddaliadol £m	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol £m	Cyfanswm £m
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2021	43.0	2,798.1	4,750.6	278.4	7,870.1
Ailbrisi	–	85.5	–	–	85.5
Ychwanegiadau llai grantiau a chyfraniadau	–	145.8	157.6	4.0	307.4
Gwaredu	(0.4)	–	–	(1.2)	(1.6)
Ar 31 Mawrth 2022	42.6	3,029.4	4,908.2	281.2	8,261.4
Dibrisiant cronedig					
Ar 1 Ebrill 2021	24.1	57.4	1,695.7	271.7	2,048.9
Ailbrisi	–	(123.0)	(239.9)	–	(362.9)
Tâl a godwyd am y flwyddyn	0.9	65.6	232.2	2.7	301.4
Rhyddhawyd wrth waredu	–	–	–	(1.4)	(1.4)
Ar 31 Mawrth 2022	25.0	–	1,688.0	273.0	1,986.0
Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2022	17.6	3,029.4	3,220.2	8.2	6,275.4
Ar 31 Mawrth 2022 (sail cost hanesyddol)	17.6	2,120.7	2,344.6	8.1	4,491.0

8. Eiddo, offer a chyfarpar parhad

ASEDAU HAWL I DDEFNYDDIO

Mae'r uchod yn cynnwys asedau hawl i ddefnyddio fel y'u dadansoddir isod:

Grŵp — 2023	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2022	657.0	26.4	683.4
Gwaredu	–	(26.9)	(26.9)
Ailbrisio	81.6	3.4	85.0
Dibrisiant	(54.0)	(2.8)	(56.8)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023	684.6	0.1	684.7
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023 (cost hanesyddol)	452.2	0.1	452.3

Mae gwaredu £26.9 miliwn yn cynrychioli'r penderfyniad i derfynu trefniant prydles, gyda'r Grŵp yn cadw perchenogaeth o'r ased sylfaenol.

Grŵp — 2022	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2021	633.3	29.0	662.3
Ailbrisio	62.3	3.0	65.3
Tâl dibrisiant a godwyd am y flwyddyn	(38.6)	(5.6)	(44.2)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022	657.0	26.4	683.4
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022 (cost hanesyddol)	459.9	19.2	479.1

Mae prydlesau'r Grŵp yn cynnwys asedau seilwaith a chyfarpar trin dŵr a charthffosiaeth yn bennaf er mwyn iddo ymgymryd â'i weithrediadau.

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw eiddo, offer na chyfarpar.

9. Asedau anniriaethol

Grŵp — 2023	Cost £m	Amorteiddio £m	Gwerth llyfr net £m
Ar 1 Ebrill 2022	499.8	(296.2)	203.6
Ychwanegiadau/(tâl) a godwyd am y flwyddyn	38.6	(39.6)	(1.0)
Ar 31 Mawrth 2023	538.4	(335.8)	202.6

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol a datblygiadau system cysylltiedig yn bennaf.

Grŵp — 2022	Cost £m	Amorteiddio £m	Gwerth llyfr net £m
Ar 1 Ebrill 2021	462.5	(258.5)	204.0
Ychwanegiadau/(tâl) a godwyd am y flwyddyn	37.3	(37.7)	(0.4)
Ar 31 Mawrth 2022	499.8	(296.2)	203.6

Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £33.0 miliwn mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu (2022: £45.1 miliwn). Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £12.6 miliwn o gostau benthyca wedi eu cyfalafu yn unol ag IAS 23 (2022: £10.6 miliwn), yr oedd £3.1 miliwn ohono yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn (2022: £2.1 miliwn).

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw asedau anniriaethol.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

10. Grŵp Buddsoddiadau

Delir ecwiti o lai na 10% yn y cwmni canlynol nas rhestrwyd:

	Prif weithgareddau	Gwlad gorffori	Daliad
Water Research Centre (1989) Plc	Ymchwil	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau Cyffredin 'B' o £1

RHIANT-GWMNI

Mae gan y rhiant-gwmni fuddsoddiad o £10 yn Glas Cymru Anghyfyngedig (daliad 100%) a buddsoddiad o £100,000 yn Welsh Water Holdings Limited (100%). Mae ganddo hefyd fuddsoddiadau anuniongyrchol yn ymgymeriadau'r is-gwmnïau canlynol:

	Prif weithgareddau	Preswylfa dreth	Gwlad corffori	Daliad
Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig	Cwmni daliannol	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru (Holdings) Limited	Cwmni daliannol	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru Cyfyngedig	Dŵr a charthffosiaeth	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru (Financing) UK Plc	Codi cyllid	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Cambrian Utilities Limited	Gwasanoethau manwerthu yn y farchnad gystadleuol	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Welsh Water Infrastructure Limited	Gweithgarwch busnes cystadleuol yn y sector dŵr a sectorau cysylltiedig eraill	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Welsh Water Organic Energy Limited	Prosesu, trin ac ailgylchu gwastraff bwyd	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Welsh Water Organic Energy (Cardiff) Limited	Gweithredu a chynnal a chadw cyfleuster gwastraff bwyd sy'n defnyddio dulliau treulio anerobig	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Welsh Water Organic Waste Limited	Dosbarthu gwastraff hylifol mewn tanceri i'w waredu	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%

Swyddfa gofrestredig pob un o'r cwmnïau uchod yw Linea, Ffordd Fortran, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0LT.

Mae'r rhiant-gwmni wedi ailbrisiu ei fuddsoddiadau yn ymgymeriadau'r is-gwmnïau i werth teg; caiff y gwerth cario ei ailbrisiu bob blwyddyn ac mae'n destun adolygiad lleihad mewn gwerth.

Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur y grŵp yn <https://dwrcymru.com/companystructure>.

Buddsoddi mewn is-gwmnïau	2023 £m	2022 £m
Ar 1 Ebrill	4,201.5	3,958.1
Ailbrisiu	(105.8)	243.4
Ar 31 Mawrth	4,095.7	4,201.5

Caiff buddsoddiadau'r rhiant-gwmni mewn is-gwmnïau eu cydnabod i ddechrau yn ôl cost a chânt eu hailbrisiu wedi hynny yn ôl gwerth teg gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi'i ddisgowntio. Mae gwerth teg buddsoddiadau yn cynnwys gwerth teg y cwmni dŵr a charthffosiaeth rheoleiddiedig, Dŵr Cymru Cyfyngedig, yn bennaf. Pennwyd gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio yn seiliedig ar y gost gyfartalog cyfalaf wedi'i phwysoli a ganiateir gan y rheoleidiwr, a'r gwerth terfynol fydd y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio a ragwelir.

Rydym wedi pennu cyfradd ddisgowntio o 2.3%, sef Cost ddisgwyliedig Dyled Sefydledig yn PR24 a gyhoeddwyd gan Ofwat.

Pennir y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio gan Ofwat bob pum mlynedd ac, mewn gwirionedd, mae'n brocsi ar gyfer y gwerth economaidd a ddefnyddir ar gyfer busnes penodedig Dŵr Cymru Cyfyngedig. Seilir y gwerth terfynol ar amcanestyniad o'r GCRh sy'n deillio o'r llifau arian parod yn ein rhagolygon ariannol.

Daw'r rhagolygon y mae'r llifau arian parod a'r symudiadau GCRh yn seiliedig arnynt o'n Cynllun Ariannol ar gyfer 2023, sydd ei hun yn seiliedig ar ein cynllun Penderfyniad Terfynol PR19 a bennwyd gan Ofwat.

Gweler hefyd yr amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol yn nodyn 1.

Cydnabyddir symiau ailbrisiu o dan incwm cynhwysfawr arall.

11. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

Grŵp	2023 £m	2022 £m
Cyfredol		
Symiau masnach derbyniadwy	597.1	558.4
Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy	(73.2)	(69.5)
Symiau masnach derbyniadwy - net	523.9	488.9
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	109.6	94.9
Symiau derbyniadwy eraill	15.1	10.2
	648.6	594.0
Anghyfredol		
Symiau derbyniadwy eraill	0.7	0.7
Cyfanswm y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	649.3	594.7

Ar 31 Mawrth 2023, yn seiliedig ar adolygiad o gyfraddau casglu hanesyddol, ystyriwyd bod £73.2 miliwn (2022: £69.5 miliwn) o symiau masnach derbyniadwy wedi lleihau mewn gwerth ac felly darparwyd ar eu cyfer. Mae'r symiau derbyniadwy y mae eu gwerth wedi lleihau yn ymwneud yn bennaf â chyflenwi dŵr wedi'i fesur a heb ei fesur a gwasanaethau carthffosiaeth. Mae symiau masnach derbyniadwy sy'n fwy na mis oed yn ddyledus; mae'r golofn net yn dangos symiau y tybir nad ydynt wedi lleihau mewn gwerth.

Symiau masnach derbyniadwy 2023	Cyfanswm £m	Darparwyd am £m	Net £m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	408.1	-	408.1
O dan fis	23.1	(0.9)	22.2
Rhwng un a chwe mis	40.2	(1.6)	38.6
Rhwng chwe mis a blwyddyn	28.2	(1.1)	27.1
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	42.6	(32.8)	9.8
Rhwng dwy a thair blynedd	26.4	(24.2)	2.2
Dros dair blynedd	28.5	(12.6)	15.9
	597.1	(73.2)	523.9

Symiau masnach derbyniadwy 2022	Cyfanswm £m	Darparwyd am £m	Net £m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	384.6	-	384.6
O dan fis	16.1	(1.7)	14.4
Rhwng un a chwe mis	30.1	(3.6)	26.5
Rhwng chwe mis a blwyddyn	23.0	(3.1)	19.9
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	32.2	(30.2)	2.0
Rhwng dwy a thair blynedd	22.0	(20.6)	1.4
Dros dair blynedd	50.4	(10.3)	40.1
	558.4	(69.5)	488.9

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

11. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill parhad

Mae symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihau gwerth symiau masnach derbyniadwy fel a ganlyn:

	2023 £m	2022 £m
Ar 1 Ebrill	69.5	77.8
Tâl a godir ar y Datganiad Incwm	23.7	18.8
Symiau derbyniadwy a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn fel rhai na ellir eu casglu	(20.0)	(27.1)
Ar 31 Mawrth	73.2	69.5

Yn ystod y flwyddyn mae'r Grŵp wedi dileu £20.0 miliwn o ddyled y darparwyd yn llawn ar ei chyfer (2022: £27.1 miliwn).

Mae'r tâl a godir ar ddarpariaeth drwgddyledion yn nodyn 3 yn cynnwys £1.1 miliwn o ddyled wedi'i dileu gan gwmnïau trydydd parti sy'n bilio ar ein rhan ac nid yw wedi'i gynnwys yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy.

Yr amlygiad mwyaf i risgiau credyd ar y dyddiad adrodd yw gwerth cario pob dosbarth o symiau derbyniadwy a nodwyd uchod. Mae achosion o greu a rhyddhau darpariaeth ar gyfer symiau derbyniadwy y mae eu gwerth wedi lleihau wedi coel eu cynnwys mewn gwariant gweithredol.

Mae'r risg o leihad yng ngwerth dosbarthiadau eraill o symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill yn isel iawn. Mynegwyd pob swm masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill mewn sterling.

Mae'r tablau isod yn dangos effaith cymhwyso'r model "colled ddisgwyliedig" yn unol ag IFRS 9. Seilir darparu ar gyfer dyledion ar brofiad hanesyddol fel y'i haddesir ar gyfer rhai ffactorau sy'n edrych i'r dyfodol, gan gynnwys effaith gorchmynion codi tâl sy'n gwella proses sylfaenol casglu dyledion. Mae gan y Grŵp tua 7,400 o orchmynion codi tâl fel sicrwydd cyfochrog yn erbyn £12 miliwn o ddyled (2022: 7,000 o orchmynion yn erbyn £12 miliwn o ddyled).

	Cyfraddau diffygddaliad hanesyddol %	Addasiad o ran edrych i'r dyfodol %	Cyfanswm yr addasiad %	Lleihad mewn gwerth hanesyddol £m	Addasiad o ran edrych i'r dyfodol £m	Cyfanswm y lleihad mewn gwerth £m
2023						
Wedi'u bilio ymlaen llaw	–	–	–	–	–	–
O dan fis	5.2%	(1.2%)	4.1%	1.2	(0.3)	0.9
Rhwng un a chwe mis	5.2%	(1.2%)	4.1%	2.1	(0.5)	1.6
Rhwng chwe mis a blwyddyn	5.2%	(1.2%)	4.1%	1.5	(0.3)	1.2
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	79.4%	(2.6%)	76.8%	33.9	(1.1)	32.8
Rhwng dwy a thair blynedd	93.3%	(1.5%)	91.8%	24.6	(0.4)	24.2
Dros dair blynedd	82.3%	(9.4%)	72.9%	15.1	(2.6)	12.5
				78.4	(5.2)	73.2

11. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill parhad

2022	Cyfraddau diffygddaliad hanesyddol %	Addasiad o ran edrych i'r dyfodol %	Cyfanswm yr addasiad %	Lleihad mewn gwerth hanesyddol £m	Addasiad o ran edrych i'r dyfodol £m	Cyfanswm y lleihad mewn gwerth £m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	–	–	–	–	–	–
O dan fis	9.2%	(0.9%)	8.3%	1.9	(0.2)	1.7
Rhwng un a chwe mis	10.2%	(0.9%)	9.3%	4.0	(0.4)	3.6
Rhwng chwe mis a blwyddyn	11.4%	(0.9%)	10.5%	3.4	(0.3)	3.1
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	73.9%	(0.9%)	73.0%	30.6	(0.4)	30.2
Rhwng dwy a thair blynedd	75.9%	(2.8%)	73.1%	21.5	(0.9)	20.6
Dros dair blynedd	78.1%	(7.8%)	70.3%	12.2	(1.9)	10.3
				73.6	(4.1)	69.5

Mae methodoleg darparu'r Grŵp ar gyfer symiau masnach derbyniadwy yn cynnwys model 'colled ddisgwyliedig' sydd hefyd yn pennu lefel briodol o golledion y dylid darparu yn ei herbyn yn y cronïad incwm a fesurwyd. Effaith y cronïad ar 31 Mawrth 2023 yw £4.1 miliwn, sef darpariaeth referniw o 5% yn erbyn balans gros o £82.0 miliwn (2022: 5% a £4.0 miliwn).

Mae benthyciad y rhiant-gwmni i ymgymeriadau'r Grŵp, sef £21.6 miliwn (2022: £21.6 miliwn) yn fenthyciad i is-gwmni a berchenogir yn llawn, sef Welsh Water Holdings Limited. Mae'r benthyciad yn denu llog ar gyfradd o 5% ac mae'n ad-daladwy ar gais. Mae llog sy'n cronni ar y benthyciad wedi'i gynnwys mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill.

12. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

	Grŵp 2023 £m	Grŵp 2022 £m	Cwmni 2023 £m	Cwmni 2022 £m
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	35.1	57.2	–	–
Adneuo byrdymor	344.3	457.9	10.6	8.7
	379.4	515.1	10.6	8.7

Y gyfradd llog weithredol ar adneuo byrdymor ar 31 Mawrth 2023 oedd 3.9% (2022: 0.7%) ac mae gan yr adneuo hyn gyfnod oeddfedrwydd cyfartalog o 44 diwrnod (2022: 30 diwrnod). Daliwyd yr holl arian parod ac arian parod cyfatebol mewn sterling.

13. Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill

Grŵp Cyfredol	2023 £m	2022 £m
Symiau masnach taladwy	64.6	50.2
Symiau cyfalaf taladwy	56.1	38.4
Nawdd cymdeithasol a threthi eraill	3.6	3.8
Croniadau ac incwm gohiriedig	561.5	521.7
	685.8	614.1
Grŵp Anghyfredol	2023 £m	2022 £m
Incwm gohiriedig	540.8	447.2

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

14. Rhwymedigaethau ariannol eraill – benthyciadau

Grŵp Cyfredol	2023 £m	2022 £m
Croniadau llog	30.3	12.1
Bondiau	(0.7)	(0.7)
Benthyciadau cyfnod penodol	64.2	56.3
Rhwymedigaethau prydlesau	0.9	17.6
	94.7	85.3

Grŵp Anghyfredol	2023 £m	2022 £m
Croniadau llog	20.0	35.7
Bondiau	3,148.7	2,986.5
Benthyciadau cyfnod penodol	545.0	581.0
Rhwymedigaethau prydlesau	377.2	378.0
	4,090.9	3,981.2

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw fenthyciadau.

Rhoddwyd pecyn sicrwydd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig (DCC), fel rhan o raglen bondiau'r Grŵp er budd deiliaid uwch-fondiau, prydleswyr cyllid ac uwch-gredydwyri ariannol eraill.

Gwarantir rhwymedigaethau DCC gan y Cwmni, Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig a Dŵr Cymru (Holdings) Limited. Prif elfennau'r pecyn sicrwydd yw:

- sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol cyntaf dros holl asedau ac ymgymeriadau DCC, i'r graddau a ganiateir gan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, cyfraith berthnasol arall a'i drwydded;
- sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol a roddir gan y gwarantwyr y cyfeirir atynt uchod a gaiff ei gronni ar bob un o asedau'r cwmnïau hyn gan gynnwys, yn achos Dŵr Cymru (Holdings) Limited, arwystl sefydlog cyntaf dros ei gyfranddaliadau yn DCC.

Mae Bondiau Dosbarth A y Grŵp o £1,141 miliwn (2022: £1,075 miliwn) yn elwa ar warant gan Assured Guaranty UK Ltd. Mae gan Assured Guaranty statws credyd o A1/AA gan Moody's a Standard and Poor's yn y drefn honno, ac nid yw Fitch yn rhoi statws iddo. Felly, mae statws credyd y bondiau Dosbarth A wedi newid yn ddiofyn i statws y gwarantwr ariannol neu statws sylfaenol y bondiau hyn sef A1/AA/A gan Moody's, Standard & Poor's a Fitch Ratings yn y drefn honno, pa un bynnag sydd uchaf. Mae'r statws sylfaenol (A3/A-/A) yn adlewyrchu ansawdd credyd y bondiau hyn ar eu pen eu hunain heb warant gan Assured Guaranty, a'r un yw'r statws hwn â statws credyd bondiau Dosbarth B y Grŵp o £1,517 miliwn (2022: £1,422 miliwn).

Rhoddwyd statws Baa2/BBB/BBB+ i fondiau Dosbarth C y Grŵp o £500 miliwn (2022 £500 miliwn) gan Moody's Standard & Poor a Fitch, yn y drefn honno.

15. Asedau a rhwymedigaethau ariannol eraill – offerynnau ariannol deilliadol

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu a chaiff symudiadau yn eu gwerth teg eu rhoi ar y Datganiad Incwm (gweler nodyn 4b).

Gwerthoedd teg Grŵp – 2023	Asedau £m	Rhwymedigaethau £m
Cyfredol		
Cyfnwidiadau mynegrifol	18.0	(21.0)
Cyfnwidiadau cyfradd llog	3.3	(5.3)
Cyfnwidiadau rhagfantolion pŵer	5.8	–
	27.1	(26.3)
Anghyfredol		
Cyfnwidiadau mynegrifol	307.7	(723.2)
Cyfnwidiadau cyfradd llog	6.5	(30.7)
Cyfnwidiadau rhagfantolion pŵer	4.3	–
	318.5	(753.9)
Cyfanswm	345.6	(780.2)
Gwerthoedd teg Grŵp – 2022	Asedau £m	Rhwymedigaethau £m
Cyfredol		
Cyfnwidiadau mynegrifol	53.2	(49.2)
Cyfnwidiadau cyfradd llog	–	(7.5)
Cyfnwidiadau rhagfantolion pŵer	30.9	–
	84.1	(56.7)
Anghyfredol		
Cyfnwidiadau mynegrifol	335.9	(915.4)
Cyfnwidiadau cyfradd llog	–	(50.8)
Cyfnwidiadau rhagfantolion pŵer	8.1	–
	344.0	(966.2)
Cyfanswm	428.1	(1,022.9)

Mae'r Grŵp wedi adolygu pob contract ar gyfer deilliadau sefydledig y mae angen rhoi cyfrif amdanynt ar wahân os nad ydynt yn bodloni gofynion penodol yn IFRS 9; nid oes gan y Grŵp unrhyw ddeilliadau sefydledig o'r fath.

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw offerynnau ariannol deilliadol na deilliadau sefydledig.

Cyfnwidiadau cyfradd llog

Ar 31 Mawrth 2023, pennodd cyfnwidiad cyfradd llog y gyfradd llog ar £192 miliwn (2022: £192 miliwn) o rwymedigaethau cyfnwidiol a ddelir gan y Grŵp. Dyddiad aeddfedu'r cyfnwidiad yw 31 Mawrth 2031 a'r gyfradd llog sefydlog yw 5.67% y flwyddyn, sy'n daladwy bob chwarter.

Cyfnwidiadau mynegrifol

CYFNEWIDIADAU PRYDLESAU

Effaith y cyfnwidiadau mynegrifol yw mynegrifo'r gyfradd llog ar £378 miliwn (2022: £379 miliwn) o rwymedigaethau prydlesau drwy gyfeirio at y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI).

Swm tybiannol y cyfnwidiadau mynegrifol a ddyrannwyd i brydlesau ar 31 Mawrth 2023 oedd £384 miliwn (2022: £389 miliwn), gan gynyddio'r balans cyfartalog ar y prydlesau cyllidol yn amodol ar gyfraddau llog cyfnwidiol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023. Mae'r swm tybiannol yn amorteiddio yn ystod oes y cyfnwidiadau i gyfateb i falansau cyfraddau cyfnwidiol cyfartalog y prydlesau.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

15. Asedau a rhwymedigaethau ariannol eraill – offerynnau ariannol deilliadol parhad

Mae prif delerau cyfnewidiadau mynegrifol fel a ganlyn:

Swm tybiannol	£384 miliwn amorteiddio (2022: £389 miliwn amorteiddio)
Aeddfedrwydd cyfnewidiad cyfartalog	12 mlynedd (2022: 14 blynedd)
Cyfradd llog gyfartalog	1.64% sefydlog ynghyd â'r RPI (2022: 1.63% sefydlog ynghyd â'r RPI)

CYFNEWIDIADAU BONDIAU

Effaith y cyfnewidiadau mynegrifol yw mynegeo'r gyfradd llog ar £1,250 miliwn o fondiau cyfradd sefydlog drwy gyfeirio at yr RPI (2022: £1,250 miliwn).

Mae'r prif delerau fel a ganlyn:

Swm tybiannol a fynegeiwyd	£1,595 miliwn (2022: £1,407 miliwn)
Aeddfedrwydd cyfnewidiad cyfartalog	15 mlynedd (2022: 17 mlynedd)
Cyfradd llog	(0.16)% a fynegeiwyd yn ôl yr RPI (2022: (0.16)% a fynegeiwyd yn ôl yr RPI)

16. Ariannu trefniadau rheoli risg

Mae polisiâu'r Grŵp mewn perthynas ag ariannu trefniadau rheoli risg wedi'u cynnwys yn y nodyn ar bolisiâu cyfrifyddu ar dudalen [219]. Nodir datgeliadau rhifiadol offerynnau ariannol sy'n ofynnol o dan IFRS 7 isod.

A) Y RISG O RAN CYFRADDAU LLOG

Roedd y cyfraddau llog a oedd yn weithredol ar ddyddiadau'r fantolen fel a ganlyn:

	2023	2022
Asedau:		
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	3.9%	0.7%
Rhwymedigaethau:		
Bondiau	4.5%	3.1%
Benthyciadau cyfnod penodol	3.0%	0.6%
Benthyciadau eraill nas gwarantwyd	4.6%	4.3%
Rhwymedigaethau prydlesau	6.1%	2.3%

Nid yw symiau masnach derbyniadwy a thaladwy na symiau derbyniadwy a thaladwy eraill yn dwyn llog.

Mae'r cyfraddau llog gweithredol yn anwybyddu effaith y cyfnewidiadau cyfradd llog a mynegrifol a nodir yn nodyn 15. Nid ydynt yn cynnwys y tâl mynegeo sy'n gymwys i fondiau mynegrifol ychwaith.

B) Y RISG O RAN HYLIFEDD

Grŵp – 2023	< blwyddyn £m	1 – 2 flynedd £m	2 – 5 mlynedd £m	> 5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	379.4	–	–	–	379.4
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	649.3	–	–	–	649.3
	1,028.7	–	–	–	1,028.7
Rhwymedigaethau:					
Bondiau	0.8	0.8	950.5	2,208.1	3,160.2
Benthyciadau cyfnod penodol	64.0	88.5	219.6	236.8	608.9
Benthyciadau eraill nas gwarantwyd	0.2	–	–	–	0.2
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	0.9	250.8	33.0	93.4	378.1
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	685.8	12.4	37.1	491.3	1,226.6
Llog sy'n daladwy yn y dyfodol	171.7	157.5	357.3	725.0	1,411.5
	923.4	510.0	1,597.5	3,754.6	6,785.5

16. Ariannu trefniadau rheoli risg parhad

Grŵp – 2022	O fewn blwyddyn £m	1 – 2 flynedd £m	2 – 5 mlynedd £m	> 5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	515.1	–	–	–	515.1
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	594.7	–	–	–	594.7
	1,109.8	–	–	–	1,109.8
Rhwymedigaethau:					
Bondiau	0.8	0.8	566.1	2,431.8	2,999.5
Benthyciadau cyfnod penodol	56.3	85.3	232.6	263.0	637.2
Benthyciadau eraill nas gwarantwyd	–	–	–	0.2	0.2
Rhwymedigaethau prydlesau	17.6	1.0	282.6	94.4	395.6
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	614.1	10.2	30.6	406.4	1,061.3
Llog sy'n daladwy yn y dyfodol	143.5	129.3	357.0	719.5	1,349.3
	832.3	226.6	1,468.9	3,915.3	6,443.1

Mae'r taliadau prydlesau gofynnol o dan brydlesau yn ddyledus fel a ganlyn:

	2023 £m	2022 £m
Rhwymedigaethau prydlesau gros		
O fewn blwyddyn	24.0	24.5
Rhwng dwy a phum mlynedd	319.5	257.5
Ar ôl pum mlynedd	127.4	167.6
	470.9	449.6
Llog yn y dyfodol	(92.8)	(54.0)
Rhwymedigaethau prydlesau net	378.1	395.6
Mae rhwymedigaethau prydlesau net yn ad-daladwy fel a ganlyn:		
O fewn blwyddyn (nodyn 14)	0.9	17.6
Rhwng dwy a phum mlynedd	283.8	283.6
Ar ôl pum mlynedd	93.4	94.4
Cyfanswm dros flwyddyn (nodyn 14)	377.2	378.0

C) GWERTHOEDD TEG

Nodir gwerthoedd teg offerynnau ariannol deilliadol y Grŵp yn nodyn 15. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi gwerth teg a gwerth llyfr bondiau'r Grŵp.

	2023		2022	
	Gwerth llyfr £m	Gwerth teg £m	Gwerth llyfr £m	Gwerth teg £m
Bondiau	3,160.2	2,973.7	2,999.5	3,604.2

Mae gwerthoedd teg pob un o'r offerynnau ariannol eraill yn hafal i'r gwerthoedd llyfr.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

16. Ariannu trefniadau rheoli risg parhad

D) CYFLEUSTERAU BENTHYCA

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Grŵp gyfleusterau benthyca ymrwymedig nas hawliwyd o £200 miliwn a oedd yn dod i ben fel y nodir isod, ac roedd pob amod blaenorol mewn perthynas â nhw wedi cael ei fodloni (2022: £200 miliwn).

	2023 £m	2022 £m
Yn dod i ben ymhen mwy na blwyddyn:		
Cyfleusterau credyd cylchdro	200.0	200.0
	200.0	200.0

Ar 31 Mawrth 2023 roedd gan Dŵr Cymru (Financing) UK PLC gyfleuster hylifedd arbennig o £135 miliwn (2022: £135 miliwn), y mae'n ofynnol iddo ei gadw er mwyn bodloni rhwymedigaethau penodol y Grŵp o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu hariannu drwy lif arian parod gweithredu'r Grŵp, os bydd yr Ymddiriedolwr Sicrwydd yn datgan cyfnod atal. Byddai cyfnod atal yn codi pe bai Dŵr Cymru Cyfyngedig yn methu â bodloni ei gyfamedau cyllido dyled. Mae'r cyfleuster yn gyfleuster bytholwyrdd pum mlynedd a ddarperir gan ddarparwr yswiriant.

Telir cyfraddau llog cyfnewidiol ar yr holl gyfleusterau uchod.

E) RHEOLI RISG CYFALAF

Cymarebau gerio	2023 £m	2022 £m
Cyfanswm benthyciadau	(4,185.6)	(4,066.5)
Llai: arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	379.4	515.1
Dyled net	(3,806.2)	(3,551.4)
Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh)	7,161.3	6,460.3
Cyfanswm cyfalaf	3,355.1	2,908.9
Llai: costau bondiau heb eu hamorteiddio a mynegeo cyfnewidiadau	(357.2)	(170.7)
Cyfanswm cyfalaf fesul cyfamedau bond	2,997.9	2,738.2
Cymhareb gerio	58%	58%

Fel y nodwyd ar dudalen 220, mae'r Grŵp yn monitro ei strwythur cyfalaf yn seiliedig ar gymhareb gerio rheoleiddiol sy'n cymharu ei ddyled net â'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio a bennwyd gan Ofwat.

Yn unol â'r Cytundeb Telerau Cyffredin, cyfrifir gerio rheoleiddiol fel lefel y ddyled net yn y grŵp gwaraneiddio busnes cyfan (o dan Glas Cymru Anghyfyngedig) sy'n berthnasol i'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio.

17. Darpariaethau

Grŵp – 2023	Darpariaeth ailstrwythuro £m	Darpariaeth ar gyfer colled anyswiriedig £m	Darpariaethau eraill £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2022	3.7	4.3	0.5	8.5
Codwyd ar y Datganiad Incwm	–	1.1	15.0	16.1
Symiau nas defnyddiwyd a wrthdröwyd	–	–	–	–
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(0.6)	(0.8)	–	(1.4)
Ar 31 Mawrth 2023	3.1	4.6	15.5	23.2
Rhannwyd yn symiau i'w defnyddio:				
O fewn blwyddyn	1.4	1.4	15.0	17.8
Ar ôl mwy na blwyddyn	1.7	3.2	0.5	5.4
Ar 31 Mawrth 2023	3.1	4.6	15.5	23.2

Grŵp – 2022	Darpariaeth ailstrwythuro £m	Darpariaeth ar gyfer colled anyswiriedig £m	Darpariaethau eraill £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2021	10.5	4.6	0.5	15.6
Codwyd ar y Datganiad Incwm	–	1.3	–	1.3
Symiau nas defnyddiwyd a wrthdröwyd	(4.8)	–	–	(4.8)
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(2.0)	(1.6)	–	(3.6)
Ar 31 Mawrth 2022	3.7	4.3	0.5	8.5
Rhannwyd yn symiau i'w defnyddio:				
O fewn blwyddyn	1.4	1.4	–	2.8
Ar ôl mwy na blwyddyn	2.3	2.9	0.5	5.7
Ar 31 Mawrth 2022	3.7	4.3	0.5	8.5

Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw ddarpariaethau ar 31 Mawrth 2023 (2022: dim).

DARPARIAETH AILSTRWYTHURO

Mae hyn yn darparu ar gyfer cost gostyngiad o 182 yn nifer y staff er mwyn cyrraedd targed cost effeithlonrwydd heriol ar gyfer y cyfnod rheoleiddio 2020 i 2025. Caiff y rhagolwg hwn ei ailasesu bob blwyddyn.

Ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022, cafodd cost ailstrwythuro o £4.8 miliwn ei rhyddhau yn dilyn gostyngiadau yn nifer y staff yn y flwyddyn flaenorol a oedd yn llai na'r disgwyl, a adenillwyd yn rhannol drwy gyflogaion yn ymddeol ac yn ymddiswyddo ac oedi o ran proffilio gostyngiadau. Cafodd y swm hwn ei adfer i'r datganiad incwm.

DARPARIAETH AR GYFER COLLED ANYSWIRIEDIG

Mae'r ddarpariaeth hon mewn perthynas â cholledion anyswiriedig a lle nad yw'r yswiriant yn cwmpasu swm didynadwy. Mae'r cyfnod defnyddio ar gyfer y rhwymedigaethau hyn yn ansicr oherwydd natur yr hawliadau, ond amcangyfrifir ei fod o fewn pum mlynedd.

DARPARIAETHAU ERAILL

Gwneir darpariaethau eraill ar gyfer rhwymedigaethau penodol eraill sy'n codi fel rhan o fusnes arferol y Grŵp.

Datgelodd Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon Glas Cymru ar gyfer 2021/22 fod data gollyngiadau dŵr a defnydd y pen a gofnodwyd ar gyfer 2020/21 a 2021/22 yn destun adolygiad mewnol parhaus. Roedd hyn yn cynnwys adroddiad annibynnol ar y dull o adrodd ar ollyngiadau dŵr a defnydd y pen a nododd dau brif faes o ddifffyg cydymffurfio â methodoleg ragnodedig Ofwat ar gyfer adrodd ar Ollyngiadau Dŵr a Defnydd y Pen. Daeth yr adolygiadau i'r casgliad bod y perfformiad a gofnodwyd o ran gollyngiadau dŵr wedi'i danddatgan ar gyfer y ddwy flynedd a bod data a gofnodwyd ar gyfer defnydd y pen wedi'u gorddatgan ar gyfer yr un cyfnod. Gwnaethom rannu canfyddiadau manwl ein hadolygiad ag Ofwat, gan gynnwys camau unioni a fyddai'n cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau rheoli a nodwyd a'r iawndal roeddem yn bwriadu ei dalu i gwsmeriaid. Ar 25 Mai 2023, lansiodd Ofwat ymchwiliad i adroddiadau Dŵr Cymru ar ollyngiadau dŵr a defnydd y pen ac ar 31 Mai 2023 cyflwynodd Hysbysiad A203 o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn gofyn am ragor o wybodaeth gan y Grŵp.

Er mwyn digolledu cwsmeriaid, mae'r Grŵp yn cynnig y dylid talu iawndal gwerth £29 miliwn i'w gwsmeriaid. Mae ansicrwydd o hyd ynghylch ein rhwymedigaeth ariannol ar gyfer y mater hwn yn y pen draw wrth aros i Ofwat dderbyn ein pecyn iawndal i gwsmeriaid arfaethedig ac am ganlyniad ei ymchwiliad ei hun. O ystyried yr ansicrwydd hwn, o dan ddarpariaethau eraill, rydym wedi darparu ar gyfer £15 miliwn o gyfanswm y pecyn iawndal i gwsmeriaid gwerth £29 miliwn, sy'n cynrychioli penderfyniad y Bwrdd i ad-dalu £10 i bob cwsmer yn y flwyddyn ariannol 2023/24. Y £14 miliwn sy'n weddill yw'r cynnydd yn y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio y bydd y Grŵp yn ei ildio yn PR24.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

17. Darpariaethau parhad

O dan y system reoleiddio ar gyfer PR24, caiff y Grŵp adennill gorwariant rheoleiddiol ar gyfer 2020/21 a 2021/22 sydd i'w briodoli i wariant ar ollyngiadau dŵr ond ni fyddwn yn ystyried hyn yn ein cynnydd yn y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio ar 1 Ebrill 2025. Gan na allwn bennu darpariaeth yn y datganiadau ariannol ar gyfer newidiadau i'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio yn y dyfodol, dim ond yn y datganiadau ariannol y caiff yr elfen hon o'r pecyn iawndal i gwsmeriaid ei datgelu.

18. Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu

A) ARIAN PAROD A GYNHYRCHWYD O WEITHREDIADAU

Cysoni elw gweithredu i arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau:

Grŵp	2023 £m	2022 £m
(Colled)/elw gweithredu	(7.4)	80.7
Addasiadau ar gyfer:		
Dibrisio ac amorteiddio	346.8	328.9
Newidiadau mewn cyfalaf gweithio:		
Cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	(54.6)	(25.0)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn stoccrestrau	(1.0)	0.1
Cynnydd mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	50.8	51.7
Eitem eithriadol – cynnydd mewn pensiwn	30.8	–
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau	14.7	(7.1)
	40.7	19.7
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	380.1	429.3

Rydym wedi cydnabod eitem eithriadol sy'n cynrychioli'r penderfyniad i ddyfarnu cynnydd mewn pensiwn uwchlaw cap o 5%. O dan gymal 'ymdrechion gorau' yn rheolau ein cynllun pensiwn, dim ond pe bai meini prawf penodol yn cael eu bodloni y gellid dyfarnu cynnydd llawn yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Nid oedd angen unrhyw gyfraniadau arian parod ychwanegol ar y Grŵp i ddyfarnu'r cynnydd hwn.

B) LLOG A DALWYD

Grŵp	2023 £m	2022 £m
Llog sy'n daladwy fesul Datganiad Incwm	318.5	187.1
Llai eitemau anariannol:		
Mynegeoio ar fondiau mynegrifol	(161.4)	(67.0)
Mynegeoio ar ddyledion mynegrifol	(30.3)	(17.9)
Amorteiddio costau dyroddi bondiau	(1.5)	(1.5)
Llog a godwyd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	(2.1)	(1.6)
Amorteiddio premiwm dyroddi bondiau	0.8	0.8
Effaith cyfalafu o dan IAS 23	28.3	16.4
(Gostyngiad)/(cynnydd) mewn croniadau	(2.7)	0.3
	(168.9)	(70.5)
Llog a dalwyd	149.6	116.6

19. Dadansoddi a chysoni (dyled)/cronfeydd net

Diffinnir (dyled)/cronfeydd net fel gwerth arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo llai llog cronedig net a chyfanswm y benthyciadau.

A) GELLIR DADANSODDI (DYLED)/CRONFEYDD NET AR DDYDDIAD Y FANTOLEN FEL:

	Grŵp		Cwmni	
	2023 £m	2022 £m	2023 £m	2022 £m
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	379.4	515.1	10.6	8.7
Dyled sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	(3,693.7)	(3,567.5)	-	-
Dyled sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(63.5)	(55.6)	-	-
Rhwymedigaethau prydlesau	(378.1)	(395.6)	-	-
Llog cronedig	(50.3)	(47.8)	3.8	4.3
	(4,185.6)	(4,066.5)	3.8	4.3
(Dyled)/cronfeydd net	(3,806.2)	(3,551.4)	14.4	13.0

B) GELLIR CRYNHOI'R SYMUDIAD MEWN (DYLED)/CRONFEYDD NET YN YSTOD Y FLWYDDYN FEL:

	Grŵp		Cwmni	
	2023 £m	2022 £m	2023 £m	2022 £m
(Dyled)/cronfeydd net ar 1 Ebrill	(3,551.4)	(3,534.0)	13.1	11.8
Symudiad mewn arian parod net	(135.7)	294.2	1.9	-
Symudiad mewn dyled sy'n deillio o lifau arian parod	75.9	(227.1)	-	-
Symudiad mewn (dyled)/cronfeydd net sy'n deillio o lifau arian parod	(59.8)	67.1	1.9	-
Symudiad mewn llog cronedig	(2.5)	0.4	(0.6)	1.2
Mynegeio dyled fynegrifol	(192.5)	(84.9)	-	-
Symudiadau anariannol eraill	-	-	-	-
Symudiad mewn (dyled)/cronfeydd net	254.8	(17.4)	1.3	1.2
(Dyled)/cronfeydd net ar 31 Mawrth	(3,806.2)	(3,551.4)	14.4	13.0

Mae symudiadau anariannol yn ymwneud â chydabod rhwymedigaethau prydlesau o dan IFRS 16.

20. Cyflogeion a Chyfarwyddwyr

COSTAU STAFF AR GYFER Y GRŴP YN YSTOD Y FLWYDDYN

	2023 £m	2022 £m
Cyflogau	156.3	137.9
Costau nawdd cymdeithasol	17.6	14.9
Costau pensiwn eraill	11.1	12.2
	185.0	165.0

O'r swm uchod, mae £87.5 miliwn (2022: £67.5 miliwn) wedi'i gyfalafu, sef cost buddsoddi gwaith cyflogeion ar y rhaglen gyfalaf.

	2023 Nifer	2022 Nifer
Nifer y bobl a gyflogir gan y Grŵp ar gyfartaledd (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol)	3,554	3,547

Am ragor o wybodaeth gweler yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth ar dudalen 173.

Ni thalwyd cydnabyddiaeth ac nid yw'n daladwy ychwaith gan y rhiant-gwmni. Cyflogir y Cyfarwyddwyr gan gwmnïau eraill yn y Grŵp ac ystyriant fod eu dyletswyddau i'r Cwmni hwn yn gysylltiedig â'u gweithgareddau eraill yn y Grŵp. Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw gyflogeion yn ystod y flwyddyn heblaw am y Cyfarwyddwyr.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

21. Ymrwymiodau pensiwn

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ariennir (yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol a gwasanaeth pensiynadwy), sef Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Mae asedau'r cynllun wedi'u dal mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Caewyd Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru i aelodau newydd o 31 Rhagfyr 2005. Cyflwynwyd cynllun cyfraniadau diffiniedig newydd, sef Cynllun Pensiwn Personol Dŵr Cymru, o 1 Ionawr 2006.

CYNLLUN BUDD-DALIADAU YMDDEOL WEDI EI ARIANNU GAN Y CYFLOGWR HEB GYFRANIADAU

Yn ystod 2011, rhoddodd y Grŵp drefniadau ar waith drwy Gynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS) ar gyfer pedwar Aelod Gweithredol 'wedi'u capio' o'r cynllun. Mae cronïad buddiannau o dan y cytundeb hwn yn amodol ar barhau'n aelod o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Ar 31 Mawrth 2023: roedd dau Aelod Gweithredol â hawliadau o dan y trefniant hwn, y mae un ohonynt yn cael ei fuddiannau.

RISGIAU

Drwy'r cynllun, mae'r Grŵp wedi'i amlygu i nifer o risgiau, y nodir y rhai pwysicaf yn eu plith isod:

- Anwadalrwydd asedau:

Cyfrifir rhwymedigaethau'r Cynllun gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio a bennir drwy gyfeirio at arenillion bondiau (ond mae methodoleg y gyfradd ddisgowntio yn wahanol at ddibenion cyfrifyddu a chyllido). Os bydd asedau'r Cynllun yn darparu adenillion sy'n is na'r gyfradd ddisgowntio, bydd hyn yn creu neu'n cynyddu diffyg y Cynllun (os bydd pob peth arall fel y mae). Mae'r Cynllun yn dal amrywiol asedau sy'n ceisio adenillion y disgwylir iddynt berfformio'n well na bondiau yn yr hirdymor, ond sydd â risg o anwadalrwydd yn y byrdymor.

- Symudiad yn arenillion bondiau:

Bydd gostyngiad yn arenillion bondiau corfforaethol yn cynyddu rhwymedigaethau'r Cynllun, ond caiff hyn ei wrthbwysio'n rhannol gan gynydd yng ngwerth daliannau bond y Cynllun.

- Risg chwyddiant:

Am fod rhan helaeth o fuddiannau'r aelodau yn gysylltiedig â chwyddiant (yn amodol ar gapiau uchaf blynyddol), bydd lefel uchel o chwyddiant yn arwain at gynydd mewn buddiannau y gellir eu priodoli i'r aelodau, a fydd yn ei dro yn cynyddu rhwymedigaethau'r Cynllun.

- Disgwyliad oes

Mae rhwymedigaeth ar y Cynllun i ddarparu buddiannau i aelodau am weddill eu hoes, felly bydd cynnydd yn y disgwyliad oes yn golygu y bydd y Cynllun yn talu buddiannau aelodau dros gyfnod hwy, a fydd yn ei dro yn cynyddu rhwymedigaethau'r Cynllun.

CYNLLUN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2022 gan Joanne Eynon o Quantum Advisory, actiwari proffesiynol cymwysedig annibynnol, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Diweddarwyd y prisiad hwn ar 31 Mawrth 2023 a'r prif dybioethau a wnaed gan yr actiwari oedd:

	2023	2022
Cyfradd ddisgowntio	4.6%	2.8%
Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant yr RPI	3.3%	3.7%
Cyfradd cynnydd heb ei gapio mewn pensiwn	3.3%	N/A
Cyfradd cynnydd wedi'i gapio mewn pensiwn	3.2%	3.5%
Cyfradd marwolaethau ar ôl ymddeol (disgwyliad oes)		
– Pensiynwyr cyfredol 65 oed – dynion	86.8 mlynedd	86.8 mlynedd
– Pensiynwyr cyfredol 65 oed – menywod	89.0 mlynedd	89.2 mlynedd
– Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) – dynion	87.8 mlynedd	87.8 mlynedd
– Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) – menywod	90.2 mlynedd	90.3 mlynedd

Nid yw profiad marwoldeb ers 2020 yn darparu data dibynadwy i bennu tybioeth ar gyfer y dyfodol oherwydd effeithiau pandemig COVID-19. Felly, mae'r datgeliadau ar 31 Mawrth 2023 yn defnyddio model rhagamcanol marwoldeb CMI 2021 gyda pharamedr gwelliant cychwynnol o 0.5 a phwysoliad o 10% yn cael eu cymhwyso at brofiad marwoldeb 2020 a 2021. Mae paramedrau CMI eraill fel yr hyn a geir yn y model craidd, gyda chyfradd tueddiadau hirdymor o 1.0% y flwyddyn.

Premiwm risg chwyddiant (IRP) yw 0.4%, sef yr un IRP ag a gofnodwyd y flwyddyn flaenorol.

21. Ymrwymiodau pensiwn parhad

Mae newidiadau yn y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:

	2023 £m	2022 £m
Ar 1 Ebrill	504.5	528.9
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.2	0.4
Traul llog	14.0	10.3
Ailfesuriadau: ennill yn sgil newid mewn tybiaethau ariannol	(135.7)	(18.5)
Buddiannau a dalwyd	(16.4)	(16.6)
Cost gwasanaeth yn y gorffennol	30.8	-
Ar 31 Mawrth	397.4	504.5

Mae newidiadau yn asedau'r cynllun gwerth teg fel a ganlyn:

	2023 £m	2022 £m
Ar 1 Ebrill	427.5	442.7
Incwm llog	11.7	8.7
Colledion actiwaraid	(11.2)	(8.0)
Cyfraniadau	0.5	0.7
Buddiannau a dalwyd	(16.4)	(16.6)
Ar 31 Mawrth	412.1	427.5

	2023 £m	2022 £m
Asedau'r cynllun		
Arian parod	9.7	5.3
Ecwiti a Bondiau	287.6	322.3
Arall	114.8	99.9
Cyfanswm yr asedau	412.1	427.5

Heblaw am arian parod, mae asedau'n cynnwys cronfeydd buddsoddi cyfunol, nas dyfynnir ar farchnad weithredol, a ddangosir fesul categori yn y tabl uchod. O'r cyfanswm, mae asedau â gwerth teg o £114.8 miliwn yn asedau ariannol Lefel 3 (2022: £99.9 miliwn); ystyrir mai'r rhain yw'r rhai lleiaf hylifol a'r rhai anoddaf i'w prisiau, ac felly cânt eu hamcangyfrif i raddau mwy. Gweler hefyd yr amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol yn nodyn 1. Gwahaniaethau rhwng y digwyddiadau gwirioneddol fel y maent wedi digwydd a'r tybiaethau a wnaed ar ddyddiad y prisiau actiwaraid cynharach a newidiadau yn y tybiaethau actiwaraid yn ystod y flwyddyn yw enillion a cholledion profiad.

Codir taliadau ar y datganiad incwm a'r datganiad o incwm cynhwysfawr fel a ganlyn:

	2023 £m	2022 £m
Datganiad incwm:		
Costau gwasanaeth	0.2	0.4
Costau llog	2.2	1.6
Cynnydd eithriadol mewn pensiwn	30.8	-
Cyfanswm a godwyd ar y datganiad incwm	33.2	2.0
Datganiad o incwm cynhwysfawr:		
Colled actiwaraid ar asedau'r cynllun	(11.2)	(8.0)
Ennill actiwaraid ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig	135.7	18.5
Cyfanswm a gredwyd i'r datganiad incwm cynhwysfawr	124.5	10.5

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL PARHAD

21. Ymrwymiodau pensiwn parhad

Mae cost gwasanaeth yn y gorffennol o £30.8 miliwn wedi'i chydabod yn ystod y flwyddyn sy'n cynrychioli cynnydd mewn pensiwn a ddyfarnwyd o dan y cymal 'ymdrechion gorau' o fewn rheolau ein cynllun pensiwn lle y dyfernir cynnydd llawn yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu os bodlonir meini prawf penodol. Mae wedi'i chydabod fel eitem eithriadol am fod ein rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar 31 Mawrth 2023 yn darparu ar gyfer cynnydd mewn pensiwn yn y dyfodol sydd uwchlaw'r cap o 5% a nodir yn y cymal 'ymdrechion gorau' ac, felly, caiff unrhyw symudiad yn yr amcangyfrif yn y dyfodol ei gyflwyno fel Incwm Cynhwysfawr Arall fel sy'n ofynnol o dan IAS 19. Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabod yr eitem eithriadol yn nodyn 3 ar dudalen 225.

	2023 £m	2022 £m
Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir	(397.4)	(504.5)
Gwerth teg asedau'r cynllun	412.1	427.5
	14.7	(77.0)
Rhwymedigaeth EFRBS nas ariannwyd	(2.7)	(3.7)
(Rhwymedigaeth) asedau buddiannau diffiniedig net a gydnabuwyd ar y fantolen	12.0	(80.7)

Cydnabyddir y gwahaniaeth rhwng y ddau swm fel gwarged neu rwymedigaeth yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Lle mae'r gwahaniaeth hwn yn arwain at warged o ran buddiannau diffiniedig, cydnabyddir hyn yn unol ag IFRIC 14 'IAS 19 – Y Terfyn ar Ased Buddiant Diffiniedig, y Gofynion Cyllido Sylfaenol a'u Rhyngweithiad', ar y sail bod gan y Grŵp hawl ddiamod i unrhyw arian dros ben a all fodoli ar ôl i'r cynllun pensiwn gael ei gau unwaith y bydd yr holl aelodau wedi gadael y cynllun a'u buddiannau wedi'u setlo.

	Newid mewn tybiaeth	Symudiad mewn rhwymedigaethau £m
Cyfradd ddisgowntio	0.30%	17.1
Chwyddiant mewn prisiau	0.30%	17.1
Disgwyliad oes	1 year	9.6

Mae'r dadansoddiad uchod o sensitifrwydd yn seiliedig ar newidiadau unigol ym mhob tybiaeth tra bod pob tybiaeth arall yn cael ei chadw'n gyson. Yn ymarferol, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd, ac mae'n debygol y bydd rhyw lefel o gydberthyniad rhwng y symudiadau mewn gwahanol dybiaethau. Rydym wedi diweddaru'r sensitifrwydd uchod i 0.3%, o 0.1% yn y flwyddyn flaenorol, er mwyn adlewyrchu'r anwaladrwydd presennol yn y marchnadoedd.

EFFAITH AR LIFAU ARIAN PAROD YN Y DYFODOL

Caiff lefel cyfraniadau ei hadolygu ym mhob gwerthusiad teirblwydd (cynhaliwyd y gwerthusiad diwethaf ar 31 Mawrth 2022).

O dan y Rhestr bresennol o Gyfraniadau, ni ddisgwylir i unrhyw gyfraniadau adennill diffygion gael eu talu ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024. Bydd cyfraniadau gwasanaethau (sy'n cynnwys symiau sy'n daladwy gan aelodau a'r Cwmni) yn y dyfodol oddeutu £0.2 miliwn.

Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun yw tua 14 mlynedd.

FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO

Caiff y Cynllun ei ariannu a'i lywodraethu yn unol â gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau. Nid oes unrhyw lwfans gennym ar gyfer unrhyw ofynion cyllido sylfaenol o dan IFRIC 14.

Mae'r Cynllun yn gweithredu o dan gyfraith Ymddiriedolaeth a'r ymddiriedolwr corfforaethol (Welsh Water Pension Trustee Limited) sy'n gyfrifol am ei lywodraethu o ddydd i ddydd. Caiff y Cyfarwyddwyr sy'n Ymddiriedolwyr gymorth gweithwyr proffesiynol profiadol, megis actiwariad, gweinyddwyr ac ymgynghorwyr buddsoddi, i reoli'r Cynllun.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi strategaeth buddsoddi amrywiol ar waith, sydd â'r nod o fodloni rhwymedigaethau'r Cynllun. Nodir manylion yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi. Mae penderfyniadau o ddydd i ddydd ynglŷn â dewis asedau wedi cael eu dirprwyo i BlackRock fel eu rheolwr buddsoddi ymddiriedol.

CHWYDDIANT UCHEL

Ar gyfer y rhan fwyaf o Adrannau'r Cynllun, caiff pensiynau sy'n cael eu talu (ac mewn rhai achosion fuddiannau gohriedig) eu cynyddu ar 1 Ebrill bob blwyddyn yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ("RPI") fel y'i mesurir dros y cyfnod perthnasol, sef y newid blynyddol yn yr RPI a gyhoeddir ar gyfer y mis Medi, y mis Rhagfyr neu'r mis Ionawr blaenorol.

O ganlyniad i lefelau uchel cyfredol o chwyddiant, cafodd llawer o adrannau'r Cynllun gynnydd llawn yn unol â'r RPI ym mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023 drwy real 'ymdrechion gorau' (sef cap i bob pwrpas ar gynnydd mewn pensiwn a gaiff ei ddiystyru os gall y Cynllun fforddio talu cynnydd uwch heb fod angen cyfraniadau gan y Cwmni). Cytunodd yr Ymddiriedolwr a'r Grŵp hefyd i ddarparu cynnydd disgresiynol o 3% mewn pensiwn, ar ben y cynnydd wedi'i gapio o 5% i adrannau'r Cynllun sydd â chap ac nad ydynt yn ddarostyngedig i'r rheol 'ymdrechion gorau'.

21. Ymrwymiodau pensiwn parhad

LLEIHAD MEWN HYD

Ers paratoi'r datgeliadau cyfrifyddu ar 31 Mawrth 2022, disgwylir y bydd rhwymedigaethau'r Cynllun wedi lleihau o 19 blynedd i 14 blynedd ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn i'w briodoli i gynnydd yn yr arenillion a ddefnyddir i bennu'r gyfradd ddisgowntio ac effaith prisiad actiwaraidd newydd ar 31 Mawrth 2022.

22. Prydles

Weithredu Prydleswr

	2023 £m	2022 £m
Incwm o brydlesau	0.1	0.1

Mae'r Grŵp yn prydlesu tir i Gyngor Caerdydd, sef safle cyfleuster compostio ar hyn o bryd a weithredir gan un o gyd-gwmnïau'r Grŵp, Welsh Water Organic Energy Limited, sy'n darparu gwasanaethau gwastraff bwyd a gwyrdd. Mae'r Grŵp wedi dosbarthu'r brydles hon yn brydles weithredol am nad yw'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar y tir. Mae taliadau'r brydles wedi'u mynegeo i'r RPI.

Gweddill cyfnod y brydles yw 9 mlynedd, gyda chyfanswm yr isafswm derbyniadau presennol heb eu disgowntio o brydlesau yn cyfateb i £0.9 miliwn, a gydnabyddir yn gyfartal dros weddill y cyfnod.

23. CYFALAF AC YMRWYMIADAU ARIANNOL ERAILL

Mae cynllun busnes y Grŵp ar 31 Mawrth 2023 yn rhagweld gwariant cyfalaf net a gwariant adnewyddu seilwaith o £429 miliwn (2022: £400 miliwn) yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Er mai dim ond cyfran o'r swm hwn y contractiwyd yn ffurfiol yn ei chylch, mae'r Grŵp i bob diben yn ymrwymedig i'r rhan fwyaf o'r cyfanswm fel rhan o'r rhaglen buddsoddi cyfalaf a gymeradwywyd gan ei reoleiddiwr, Ofwat.

21. TRAFODION Â PHARTÏON CYSYLLTIEDIG

Yn unol â'r eithriad a roddwyd o dan IAS 24 nid oes unrhyw ddatgeliad yn y datganiadau ariannol cyfunol o drafodion ag endidau sy'n rhan o Grŵp Glas Cymru Holdings Cyfyngedig.

Rhoddodd y rhiant-gwmni fenthyciad rhwng-gwmni i Welsh Water Holdings Limited, is-gwmni a berchnogir yn llawn, yn ystod y flwyddyn o ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Ar 31 Mawrth 2023, roedd balans y benthyriad hwn yn £21,553,698 (2022: £21,553,698). Codir llog ar gyfradd sefydlog o 5% a chodwyd £1,332,435 yn ystod y flwyddyn (2022: £1,287,515). Ar 31 Mawrth 2023, cyfanswm y llog derbyniadwy a gronwyd yn ymwneud â hyn oedd £3,825,984 (2022: £4,809,716).

22. STATWS Y CWMNI

Cwmni cyfyngedig drwy warant ydyw ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Os caiff y cwmni ei ddirwyn i ben, mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig i £1 yr un.

23. CRONFA YMDDIRIEDOLAETH CWM ELAN

Yn 1984 lluniodd Awdurdod Dŵr Cymru gytundeb gwerthu a phrynu amodol gydag Awdurdod Dŵr Hafren Trent ar gyfer gwerthu'r draphont ddŵr a gwaith cysylltiedig a ddefnyddir i gludo'r swmpgyflenwad i gronfeydd dŵr Hafren Trent.

Buddsoddwyd y swm o £31.7 miliwn, sef y gydnabyddiaeth am y gwerthiant amodol, mewn cronfa ymddiriedolaeth. Prif swyddogaeth y gronfa oedd rhoi incwm i Awdurdod Dŵr Cymru, gan gadw gwerth cyfalaf y gronfa mewn termau real. Breiniwyd budd Awdurdod Dŵr Cymru yn y gronfa hon yn Dŵr Cymru Cyfyngedig o dan ddarpariaethau Deddf Dŵr 1989.

Nid yw asedau'r gronfa wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn. Ar 31 Mawrth 2023, gwerth y gronfa ymddiriedolaeth ar y farchnad oedd £90.0 miliwn (2022: £109.0 miliwn).

Mae'r llog derbyniadwy yn cynnwys £3.5 miliwn (2022: £3.2 miliwn) mewn perthynas â symiau a ddosbarthwyd o Gronfa Ymddiriedolaeth Cwm Elan.

24. CWMNI DALIANNOL UNIONGYRCHOL AC EITHAF A PHARTI RHEOLAETHOL

Y cwmni daliannol uniongyrchol ac eithaf a'r parti rheolaethol yw Glas Cymru Holdings Cyfyngedig, cwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif y cwmni 09917809, swyddfa gofrestredig Linea, Ffordd Fortran, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0LY.

Y grŵp mwyaf a lleiaf y cyfunir canlyniadau'r Cwmni ag ef yw'r un dan arweiniad Glas Cymru Holdings Cyfyngedig.

ATODIADAU

Mae'r tudalennau canlynol yn diffinio'r termau a ddefnyddir drwy'r adroddiad blynyddol a chyfrifon ac yn egluro'r mesurau llwyddiant a ddefnyddiwn i olrhain ein perfformiad

Rhestr Termau	251
Rheoleiddio Cwmnïau Dŵr yng Nghymru	256
Ymrwymïadau Perfformiad PR19: Diffiniadau	257
Meini Prawf Asesu Risg y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd	259



RHESTR TERMAU

Enw	Disgrifiad
ACA	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Achosion o lygredd	Achosion o ryddhau'n ddamweiniol neu'n fwriadol hologyddion fel olewau, tanwyddau a chemegion a all fod yn niweidiol i iechyd dynol a'r amgylchedd
ACLL	Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu
ADNODDAU DYNOL	Adnoddau Dynol
AMP6	Rhedodd AMP6 rhwng 2015 a 2020
AMP7	Mae Cynllun Rheoli Asedau 7 yn rhedeg rhwng 2020 a 2025
AMP8	Bydd AMP8 yn rhedeg rhwng 2025 a 2030
Asedau	Mae'r rhain yn cynnwys seilwaith fel prif bibellau dŵr a charthffosydd, argaeau a chronfeydd dŵr, gweithfeydd trin dŵr gwastraff a charthion, gorsafoedd pwmpio, labordai cwmnïau, depos a gweithdai
Asiantaeth yr Amgylchedd	Un o gyrff anadrannol gweithredol y Llywodraeth sydd â dyletswydd statudol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd yn Lloegr
AVPS	Cynllun Tâl Amrywiadwy Blyneddol - elfen o enillion sy'n gysylltiedig â pherfformiad
CAM	Gweler Mae Diogelwch yn Bwysig i Bawb
Carthffos	Pibell danddaearol sy'n cludo dŵr gwastraff a dŵr arwyneb o eiddo preswyl ac eiddo dibreswyl i'w drin a'i waredu
Carthffosydd yn gorlifo	Pan fo dŵr gwastraff yn dianc o bibellau carthffosydd drwy gaead y twll archwilio neu ddraen, neu drwy lifo yn ôl i fyny drwy doiledau
Cerdyn sgorio	Cofnod ystadegol a ddefnyddir gan Dŵr Cymru i fesur cyflawniad neu gynnydd tuag at nod penodol
CHP	Peiriant Gwres a Phŵer Cyfunedig
C-MeX	Mesur o foddhad cwsmeriaid yw'r C-MeX (mesur profiad cwsmeriaid). Cyfrifir sgôr C-MeX cwmni fel cyfartaledd sgoriau boddhad cwsmeriaid wedi'i bwysoli o arolygon o wasanaeth cwsmeriaid a phrofiad cwsmeriaid
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
Costau gweithredu	Cyfanswm gwariant gweithredu'r busnes, llai unrhyw incwm gweithredu, sef unrhyw elw neu golled wrth waredu asedau sefydlog ac incwm allforio pŵer yn bennaf
CPIH	Mynegai Prisiau Defnyddwyr – gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr
Cronfa ddŵr	Llyn naturiol neu artiffisial lle y caiff dŵr ei gasglu a'i storio nes y bydd ei angen
Cronfa wasanaeth	Tanc sy'n cynnwys dŵr yfed a leolir fel arfer o fewn system dosbarthu dŵr neu'n agos ati
Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn	Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn yw'r gwahaniaeth rhwng y GCRh a'r ddyled net ac felly mae'n mesur y gwerth a grëir gan y busnes i gwsmeriaid. Gall rhywfaint o'r gwerth hwnnw gael ei ddefnyddio i fuddsoddi yn y busnes ac i ad-dalu cwsmeriaid. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cadw dyled net ar 60% o'r GCRh ac mai Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn a gedwir yw'r 40% sy'n weddill.
CSO	Mae Systemau Gorlif Storm Cyfun (CSO) yn gweithredu fel falfiau rhyddhau sy'n atal carthffosydd rhag gorlwytho. Hebddynt, byddai eiddo a gweithfeydd trin charthion yn gorlifo
Cwmni cyfyngedig drwy warant	Cwmni preifat nad oes ganddo randdeiliaid na chyfalaf cyfranddaliadau

RHESTR TERMAU PARHAD

Enw	Disgrifiad
Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig	Mae Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig yn mesur cydymffurfiaeth ym mhob parth ansawdd dŵr ar gyfer y 39 o baramedrau cemegol a bacteriolegol allweddol sy'n deillio o'r rhaglen monitro statudol o samplau a gymerir o dapiau cwsmeriaid
Cydymffurfiaeth 'edrych i fyny'	Pan fo gwaith trin dŵr yn methu â chydymffurfio â'r paramedrau a nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd am lai na 95% o'r amser
Cyfanswm y gwariant	Cyfanswm gwariant cyfalaf a gwariant gweithredol
Cyfarwyddwyr Anweithredol	Aelodau Bwrdd Glas Cymru. Nid yw Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gyfrifol am y gwaith o redeg y cwmni o ddydd i ddydd ond maent yn herio'r rheolwyr ac yn goruchwyllo'r broses o redeg y Grŵp. Gweler tudalen 117 am ragor o fanylion am eu rôl
Cyfoeth Naturiol Cymru	Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy
Cynllun Diogelu Dŵr Yfed	Dull rhagweithiol o asesu risg i ansawdd dŵr yfed, sy'n diogelu iechyd y cyhoedd yn well
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr	Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd cwmni dŵr yn sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y dŵr a gyflenwir a'r galw amdano dros y 25 mlynedd nesaf
Cynllun Sychder	Cynllun statudol a lunnir gan gwmni dŵr sy'n nodi'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i reoli'r cyflenwad dŵr yn ystod cyfnod o sychder
Dalgylch	Ardal o dir lle y mae dŵr yn draenio i gorff dŵr (fel afon neu gronfa ddŵr)
Defnyddioldeb	Gallu system o asedau i ddarparu lefel ddisgwyliedig o wasanaeth i ddefnyddwyr a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol
Defra	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
D-MeX	Mesur o wasanaeth cwsmeriaid ar gyfer cwsmeriaid gwasanaethau datblygwyr (cysylltiadau newydd), a ddatblygwyd gan Ofwat ar gyfer AMP7. Gweler y diffiniad o C-Mex uchod
DPA	Dangosyddion Perfformiad Allweddol
Draenio dŵr wyneb	Symud dŵr glaw, eira neu iâ wedi toddi o rannau allanol eiddo (fel toeon a thramwyfeydd), yn aml i garthffos dŵr wyneb neu garthffos gyfun
Draenio Trefol Cynaliadwy	System ddraenio gynaliadwy sydd wedi'i chynllunio i leihau effaith bosibl datblygiadau newydd a datblygiadau sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â gollyngiadau draenio dŵr wyneb
Dŵr daear	Dŵr y gellir dod o hyd iddo yn haenen ddirlawn y pridd
Dŵr gwastraff	Deunydd gwastraff o eiddo preswyl neu ddibreswyl a gaiff ei gludo i ffwrdd o eiddo mewn carthffosydd neu ddraeniau
Dŵr wyneb	Dŵr ffo o ddŵr glaw sy'n disgyn ar eiddo cwsmeriaid (fel toeon, llwybrau a thramwyfeydd)
Dychwelyd Gwerth	Taliadau a buddsoddiad a wneir er budd ein cwsmeriaid a ariennir o elw dosbarthadwy, y gellid fel arall eu talu i gyfranddalwyr fel dididendau mewn cwmni sy'n eiddo i gyfranddalwyr
EDM	Monitor Hyd Cyson
Elifiant	Dŵr sy'n llifo o waith trin carthion ar ôl iddo gael ei drin
Gerio	Dyled net a fynegir fel canran o gyfalaf gwerth rheoleiddio
Glas Cymru	Glas Cymru yw'r enw cyffredinol a ddefnyddir i gyfeirio at gwmni daliannol y Grŵp. Ffurfiwyd Glas Cymru Cyfyngedig yn 2000 i fod yn berchen ar Dŵr Cymru, ei gyllido a'i reoli. Yn ystod 2015-16 ailgofrestrwyd Glas Cymru Cyfyngedig fel Glas Cymru Anghyfyngedig a chrëwyd Glas Cymru Holdings Cyfyngedig fel y cwmni daliannol ar gyfer Grŵp Glas Cymru
GlawLif	Dull Dŵr Cymru o reoli dŵr wyneb a charthffosydd gorlawn (systemau draenio trefol cynaliadwy)

Enw	Disgrifiad
Gollyngiadau	Dŵr a gollir rhwng y gwaith trin a chartref neu fusnes y cwsmer
Gorlif storm cyfun	System ar gyfer carthion a dŵr glaw ffo yw gorlif storm cyfun
Gorsaf bwmpio	Fe'i defnyddir i bwmpio dŵr neu garthffosiaeth o un lle i'r llall
Grŵp	Glas Cymru Cyfyngedig a'i holl is-gwmnïau
Gwaith trin dŵr	Mae gweithfeydd trin dŵr yn cynhyrchu dŵr yfed ar gyfer y cyhoedd neu ddŵr diwydiannol ar gyfer gweithgynhyrchu neu weithrediadau busnes eraill
Gwaith trin dŵr gwastraff	Diben gweithfeydd trin dŵr gwastraff yw cael gwared ar gynhyrchion gwastraff biolegol neu gemegol o ddŵr cyn iddo gael ei ddychwelyd i ffynonellau dŵr
Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio	Gwerth ased Dŵr Cymru, a bennir gan Ofwat, y caniateir i ni seilio ein hadnillion ar fuddsoddiad (neu Adenillion Rheoliadol) arno. Mae hwn, mewn gwirionedd, yn brocsi ar gyfer y gwerth economaidd a ddefnyddir ar gyfer busnes penodedig Dŵr Cymru Cyfyngedig
GYC	Gwerth Ychwanegol Crynswth
IEAP	Panel cynghori i Dŵr Cymru yw'r Panel Cynghori Annibynnol ar yr Amgylchedd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau amgylcheddol rheng flaen yng Nghymru a Lloegr, ac academyddion blaenllaw mewn meysydd arbenigol
ISO	Sefydliad Safonau Rhyngwladol
LTVPS	Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor. Elfen o enillion sy'n gysylltiedig â pherfformiad
Mae Diogelwch yn Bwysig i Bawb	Hyfforddiant diogelwch ymddygiadol sy'n pwysleisio bod gan bob unigolyn gyfrifoldeb am faterion lechyd a Diogelwch
Megalitrau	Mae un megalitr yn hafal i 1,000 o fetrau ciwbig neu un filiwn o litrau. Mae pwll nofio maint Olympaidd yn cynnwys 2.5 megalitr o ddŵr
Methiannau Bacteriolegol	Caiff y dŵr yfed a gyflenwir i gwsmeriaid ei samplu a'i ddadonsoddi yn erbyn amrywiaeth o baramedrau cemegol a bacteriolegol. Os bydd sampl yn dangos paramedr bacteriolegol sydd uwchlaw'r terfyn a nodir yn y rheoliadau, tybir ei fod yn Fethiant Bacteriolegol
ML	Gweler Megalitrau
ODI	Y Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau. Y system gwobrau a chosbau sy'n sail i'r mesurau perfformiad a nodwyd yn ein cynlluniau busnes Penderfyniad Terfynol Ofwat PR14 a PR19
Ofwat	Rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr
Opex	Gweler Costau Gweithredol
PFAS	Sylweddau perffflworocyl a pholyfflworocyl, a elwir ar lafar yn gemegion parhaol
PR19	Proses Adolygu Prisiau 2019 Ofwat, y broses reoleiddiol bob pum mlynedd o bennu prisiau ar gyfer AMP7 (2020-2025), a arweiniodd at y Penderfyniad Terfynol ar brisiau a roddwyd i gwmnïau ym mis Rhagfyr 2019
PR24	Proses Adolygu Prisiau arfaethedig Ofwat yn 2024, a fydd yn arwain at Benderfyniad ym mis Rhagfyr 2024, i bennu prisiau ar gyfer AMP8 (2025-2030)
Prif bibell	Prif bibell y caiff dŵr ei fwydo drwyddo i mewn i system dosbarthu dŵr. Yn aml, bydd prif bibell yn rhedeg o waith trin dŵr i gronfa wasanoeth
Prif bibell ddŵr	Pibell fawr sy'n cludo dŵr sydd wedi'i drin i gartrefi
Prif bibell sy'n codi	Piblinell wedi'i phwmpio sy'n cludo dŵr gwastraff
RPI	Mynegai Prisiau Manwerthu

RHESTR TERMAU PARHAD

Enw	Disgrifiad
RSPB	Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
SODDGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SEMD	Cyfarwydddeb Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (Ymgymrwyr Dŵr a Charthffosiaeth a thrwydded Cyflenwi Dŵr)
Security and Emergency	Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a DEFRA i'r sector dŵr er mwyn cynnig arweiniad ar sut i ymateb i ddigwyddiadau mawr
Statws credyd	Mae statws credyd yn rhoi asesiad o ansawdd credyd cwmni a all effeithio ar gost benthyca
SUD	Gweler Draenio Trefol Cynaliadwy
Tanc storm	Tanc lle y caiff dŵr storm a dŵr gwastraff ei storio, mewn tywydd gwlyb, nes bod y gwaith trin dŵr yn gallu ei drin
Termau real	Y newid mewn rhif ariannol ar ôl dileu effaith chwyddiant
TG	Technoleg gwybodaeth
TGCH	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
Trwyddedau gollwng	Cytundebau cyfreithiol a roddir gan y rheoleiddiwr amgylcheddol sy'n ymwneud â swm ac ansawdd y dŵr gwastraff y gellir ei ddychwelyd i'r amgylchedd a pha mor aml y gellir gwneud hynny
TW	Technoleg Weithredol
UKRI	Ymchwil ac Arloesi yn y DU, corff cyllido ymchwil sy'n cyfuno saith hen Gyngor Ymchwil
UKWIR	Ymchwil Diwydiant Dŵr y DU, corff a sefydlwyd gan y diwydiant dŵr i gefnogi ymchwil a llywio agenda ymchwil y diwydiant
Y gallu i gyllido	Gallu cwmnïau dŵr penodedig i gyllido eu swyddogaethau drwy ddyled, ecwiti neu enillion orgadwedig

RHEOLEIDDIO CWMNIAU DŴR YNG NGHYMURU

Enw	Disgrifiad
Llywodraeth Cymru	Mae gan Lywodraeth Cymru awdurdod datganoledig dros y rhan fwyaf o faterion sy'n ymwneud â rheoleiddio'r diwydiant dŵr yng Nghymru.
Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI)	Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn gorff statudol â dyletswyddau a phwerau i ddatblygu a diweddarau rheoliadau ynglŷn ag ansawdd dŵr yfed (sy'n deillio o ddeddfwriaeth yr UE), monitro cydymffurfiaeth â rheoliadau o'r fath a chymryd camau gorfodi lle y bo angen. Penodir y Prif Arolygydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru.
Cyfoeth Naturiol Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd	Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yw rheoleiddwyr amgylcheddol Cymru a Lloegr, yn y drefn honno, sy'n chwarae rolau pwysig o ran rheoleiddio a chynllunio cwmnïau dŵr. Maent yn nodi rhwymedigaethau amgylcheddol cwmnïau dŵr yn y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol yng Nghymru a Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol y Diwydiant Dŵr yn Lloegr.
Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn un o gyrff cyhoeddus anadrannol DEFRA a Llywodraeth Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) i gynrychioli buddiannau cwsmeriaid drwy ymdrin â chwynion, cael a chyhoeddi gwybodaeth, rhoi cyngor ac ymchwilio i faterion sydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr. Caiff y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ei gefnogi gan bwyllgorau rhanbarthol a sefydlwyd o dan y Ddeddf gan gynnwys Pwyllgor Cymru.
Ofwat	Ofwat yw rheoleidiwr economaidd y diwydiant dŵr. Mae ei ddyletswyddau yn cynnwys diogelu buddiannau defnyddwyr, sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyflawni eu swyddogaethau statudol a gwella cydnerthedd cwmnïau dŵr. Mae gan Ofwat amrywiaeth o bwerau, gan gynnwys pennu terfynau prisiau a thargedau perfformiad drwy'r broses Adolygu Prisiau a gynhelir bob pum mlynedd.
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)	Mae Defra yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd ac, felly, mae ganddi gylch gorchwyl eang i chwarae rôl bwysig ym mywyd pobl o ddydd i ddydd, o'r bwyd rydym yn ei fwyta i'r aer rydym yn ei anadlu, i'r dŵr rydym yn ei yfed. Nod Defra yw gwneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ei chenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, gan ei adael mewn cyflwr gwell nag yr oedd.

YMRWYMIADAU PERFFORMIAD PR19: DIFFINIADAU

Enw	Disgrifiad
Wt1 Cydymffurfiaeth ansawdd dŵr (Mynegai Risg Cydymffurfio)	Asesir Cydymffurfiaeth Ansawdd Dŵr gan ddefnyddio Mynegai Risg Cydymffurfio. Mae'r Mynegai Risg Cydymffurfio yn mesur risg sy'n deillio o fethiannau yn ymwneud â chydymffurfiaeth dŵr wedi'i drin. Caiff sgôr Mynegai Risg Cydymffurfio ei chyfrifo ar gyfer pob methiant unigol i gydymffurfio mewn parthau cyflenwi dŵr, mannau cyflenwi a gweithfeydd trin a chronfeydd gwasanaeth. Mynegai Risg Cydymffurfio blynyddol cwmni, mewn unrhyw flwyddyn galendr benodol, yw swm y sgoriau Mynegai Risg Cydymffurfio unigol ar gyfer pob methiant i gydymffurfio y rhoddwyd gwybod amdano yn ystod y flwyddyn.
Wt2 Toriadau yn y Cyflenwad Dŵr	Nifer cyfartalog y munudau y mae cwsmeriaid heb ddŵr yn ein hardal gyflenwi (yn cynnwys toriadau a gynlluniwyd a rhai nas cynlluniwyd). Fe'i cyfrifir fel nifer cyfartalog y munudau a gollwyd fesul cwsmer ar gyfer y sylfaen cwsmeriaid gyfan ar gyfer toriadau a barodd am dair awr neu fwy.
Wt3 Derbynioldeb dŵr yfed	Nifer y troeon y mae defnyddwyr yn cysylltu â'r Cwmni oherwydd blas ac arogl dŵr yfed, neu am nad yw dŵr yfed yn glir, fesul 1,000 o'r boblogaeth.
Wt4 Atgyweirio Prif Bibellau	Mae hyn yn cynnwys gwaith atgyweirio ffisegol ar brif bibellau y collir dŵr ohonynt. Caiff ei nodi fel nifer yr achosion o atgyweirio prif bibellau fesul mil cilomedr o'r rhwydwaith prif bibellau dŵr cyfan (heb gynnwys pibellau cyfathrebu a chyflenwi).
Wt5 Toriadau heb eu cynllunio %	Mae'r mesur hwn yn fodd i asesu iechyd asedau (yn bennaf ar gyfer asedau uwchlaw lefel y ddaear nad ydynt yn seilwaith), ar gyfer tynnu dŵr a gweithgareddau trin dŵr. Caiff ei ddiffinio fel y llif nad yw ar gael ar sail flynyddol, yn seiliedig ar gapasiti cynhyrchu wythnos frig. Mae'r mesur hwn yn gymesur og omler methiant asedau yn ogystal â natur hanfodol a graddau'r asedau sy'n achosi toriad mewn cyflenwad.
Wt8 Gosod pibellau cyflenwi newydd yn lle rhai plwm	Mae'r mesur hwn yn cofnodi'r gostyngiad yn nifer y pibellau plwm yn ein rhwydwaith cyflenwi dŵr.
En1 Cydymffurfiaeth gweithfeydd trin %	Ar gyfer ein gweithfeydd trin dŵr a dŵr gwastraff, ceir trwydded sy'n rheoleiddio ansawdd y dŵr gwastraff y caniateir i'r Cwmni ei ryddhau i afonydd a dyfroedd arfordirol. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoleiddio hyn. Y mesur yw % y gydymffurfiaeth â thrwyddedau rhyddhau.
En3 Achosion o lygredd (Fesul 10,000km o garthffosydd)	Lleihau nifer yr achosion o lygredd (a achosir gan flociadau neu gwympiadau mewn carthffosydd).
En4 Gollyngiad (% y lleihad) – cyfartaledd tair blynedd	Mae gollyngiadau yn disgrifio'r dŵr a gollir rhwng y gwaith trin ac eiddo'r cwsmer. Mae gennym darged i leihau gollyngiadau dŵr a chaiff hyn ei fesur gan ddefnyddio'r lleihad canrannol mewn gollyngiadau cyfartalog dros dair blynedd mewn Megalitrau y dydd o linell sylfaen gychwynnol 2019/20.
En5 Defnydd y Pen (% y lleihad) – cyfartaledd tair blynedd	Defnydd y pen yw'r swm cyfartalog o ddŵr a ddefnyddir gan bob person bob dydd. Mae gennym darged i leihau defnydd y pen a chaiff hyn ei fesur gan ddefnyddio'r lleihad canrannol yn nefnydd cyfartalog y pen dros dair blynedd o linell sylfaen gychwynnol 2019/20.
Sv1 C-MeX	C-MeX yw mesur o brofiad cwsmeriaid a boddhad cwsmeriaid. Mae'n cynnwys dau arolwg: 1. Arolwg o Brofiad Cwsmeriaid – arolwg o foddhad cwsmeriaid ymhlith hapsampl o gwsmeriaid y cwmni dŵr 2. Arolwg o Wasanaeth Cwsmeriaid – arolwg o foddhad cwsmeriaid ymhlith hapsampl o'r cwsmeriaid hynny sydd wedi cysylltu â'r cwmni dŵr. Caiff sgoriau'r ddau arolwg eu pwysoli'n gyfartal i gynhyrchu mesur C-MeX cyfun.

	Enw	Disgrifiad
Sv2	D-MeX	Mesur o foddhad cwsmeriaid ar gyfer Gwasanaethau Datblygwyr yw D-MeX. Cyfrifir sgôr D-MeX o ddwy elfen sy'n cyfrannu'n gyfartal: • sgôr D-MeX ansoddol, sy'n seiliedig ar y graddau a roddir gan gwsmeriaid gwasanaethau datblygwyr sydd wedi cael trafodion â'r cwmni drwy gydol y flwyddyn adrodd mewn arolwg o foddhad cwsmeriaid; • sgôr D-MeX feintiol, sy'n seiliedig ar berfformiad y cwmni yn erbyn set o fetrigau perfformiad a ddewisir gan Water UK drwy gydol y flwyddyn adrodd.
Sv4	Boddhad cwsmeriaid busnes	Mae'r ymrwymiad perfformiad hwn yn mesur sgôr gyfartalog cwsmeriaid allan o bump o bedwar arolwg chwarterol o foddhad cwsmeriaid busnes. Bydd y Cwmni yn cynnal arolwg o 250 o gwsmeriaid busnes bob chwarter (cyfanswm o 1,000 y flwyddyn). Bydd yn arolygu sampl o blith ei holl gwsmeriaid, nid dim ond y rhai sydd wedi cysylltu â'r Cwmni.
Sv5	Gwasanaethau â Blaenoriaeth i Gwsmeriaid mewn Amgylchiadau Bregus	Rydym yn rhoi cymorth arbennig i'r cwsmeriaid hynny sydd mewn amgylchiadau bregus sydd wedi'u cofrestru ar ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth. Mae'r mesur hwn yn nodi nifer yr aelwydydd ar Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth y Cwmni fel cyfran o'r holl aelwydydd yn rhanbarth y Cwmni.
Rt1	Llifogydd carthion mewnol (fesul 10,000 o gysylltiadau carthffos)	Cyfrifir y mesur fel nifer yr achosion o lifogydd carthion mewnol wedi'u normaleiddio fesul 10,000 o gysylltiadau carthffos, gan gynnwys llifogydd carthion o ganlyniad i ddigwyddiadau tywydd difrifol.
Rt3	Carthffosydd yn dymchwel (fesul 1,000 km o garthffosydd)	Carthffos yn dymchwel yw pan fydd methiant strwythurol wedi digwydd i'r bibell sy'n arwain at effaith gwasanaeth ar gwsmer neu'r amgylchedd a phan gymerir camau i atgyweirio'r bibell neu osod un newydd er mwyn adfer gwasanaeth arferol. Caiff ei nodi fel nifer y carthffosydd sy'n dymchwel fesul 1,000 cilometr o'r holl garthffosydd sy'n cael effaith ar wasanaethau i gwsmeriaid neu'r amgylchedd.
Rt4	Cyfanswm y cwynion	Cyfanswm y cwynion gan gwsmeriaid preswyl a gyflwynwyd i'r Cwmni fesul 10,000 o gysylltiadau. Mae'n cynnwys cyfanswm y cysylltiadau digroeso (h.y. cwynion dros y ffôn), cwynion ysgrifenedig (llythyr ac e-bost), a chysylltiadau drwy sianeli cysylltiadau newydd (megis y cyfryngau cymdeithasol neu sgwrsio ar y we).
BI3	Lefel drwgddyledion y Cwmni	Mae lefel drwgddyledion y Cwmni yn mesur cyfanswm y biliau dŵr a dŵr gwastraff nas talwyd y tybir nad oes modd eu casglu fel cyfran o gyfanswm y refeniw sy'n cael ei filio ym mhob blwyddyn adrodd.
BI2	Cwsmeriaid mewn Sefyllfa Fregus ar Dariffau Cymdeithasol	Nifer y cwsmeriaid preswyl sy'n cael cymorth ariannol drwy ein tariffau cymdeithasol.
En6	Km o afonydd a wellwyd	Hyd cronrus yr afonydd a wellwyd o ganlyniad i gamau'r Cwmni i wella iechyd ac estheteg afonydd.
Ft10	Addysg Gymunedol	Cyfanswm nifer y plant a'r oedolion sydd wedi cymryd rhan yn rhaglen addysg y Cwmni bob blwyddyn.
Ft11	Ymwelwyr â chyfleusterau hamdden	Cyfanswm nifer yr ymwelwyr â safleoedd hamdden y Cwmni bob blwyddyn.
Co1	Anafiadau adroddadwy	Nifer yr anafiadau unigol y rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch amdanynt o dan RIDDOR bob blwyddyn.

Y TASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD MEINI PRAWF ASESU RISG

Nid yw’r trothwyon canlyniadau na’r matrices graddio risg yn wahanol i’r hyn a geir yn Fframwaith Rheoli Risgiau Busnes Dŵr Cymru. Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu gwahanol ar gyfer y trothwyon tebygolrwydd, er mwyn adlewyrchu anghenion newidiol graddfeydd tebygolrwydd ar draws senarios hinsawdd a sawl cyfnod. Adlewyrchir y rhain yn y crynodebau tebygolrwydd isod a chawsant eu mireinio yn ystod y gweithdy blaenoriaethu risg.

Enw Da	Gweithredol	Iechyd a diogelwch gweithredol	Trefniadaeth weithredol	Gwasanaeth cwsmeriaid gweithredol	Ariannol (arian parod)	
Effaith ddifrifol a pharhaol ar bob cydberthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth	Effaith ar randdeiliaid allweddol a nifer sylweddol o gwsmeriaid	Marwolaeth neu ddigwyddiad mawr, e.e. tân/ffrwydrad	Effaith sylweddol ar weithgarwch recriwtio a chadw	Effaith ar bob rhanddeiliad allweddol a nifer sylweddol o gwsmeriaid: >200,000 o gwsmeriaid	>£100m	5
Effaith ar randdeiliaid allweddol, y llywodraeth neu fuddsoddwyr	Effaith ar nifer sylweddol o gwsmeriaid a/neu effaith dreiddiol ar sawl ymrwymiad perfformiad	Anaf/salwch sy'n newid bywyd neu ddigwyddiad o bwys e.e. Digwyddiad Peryglus RIDDOR	Effaith ar y gallu i gadw/denu unigolion allweddol	Effaith ar nifer sylweddol o gwsmeriaid a/neu effaith dreiddiol ar nifer o ymrwymadau perfformiad: 200,000 o gwsmeriaid	>£50m–£100m	4
Effaith ar gyd-berthnasau â rhanddeiliad allweddol	Effaith ar un neu ychydig o ymrwymadau perfformiad	Anaf neu glefyd RIDDOR	Effaith ar forâl yn fewnol ac enw da allanol fel cyflogwr cyfrifol	Effaith ar un neu ychydig o ymrwymadau perfformiad: 50,000 o gwsmeriaid	>£25m–£50m	3
Effaith ehangach ar enw da/ymddiriedaeth ond ystyrir ei bod yn hydrin	Problemau gweithredol sylweddol ond ystyrir eu bod yn hydrin	Anaf lle collir amser/salwch cysylltiedig â gwaith/difrod i eiddo	Effaith ehangach ar sawl tîm/swyddogaeth ond ystyrir ei bod yn hydrin	Problemau gweithredol sylweddol ond ystyrir eu bod yn hydrin: 15,000 o gwsmeriaid	>£10m–£25m	2
Effaith leol/bach yn unig	Effaith fach, hydrin	Mân anaf/damwain y bu bron iddi ddigwydd	Effaith ar forâl tîm/swyddogaeth	Effaith fach, hydrin: <10,000 o gwsmeriaid	<£10m	1

Canlyniad/difrifoldeb	Isel	Canolig	Canolig	Uchel	Uchel
	Isel	Isel	Canolig	Canolig	Uchel
	Isel	Isel	Canolig	Canolig	Uchel
	Isel	Isel	Isel	Isel	Canolig
	Isel	Isel	Isel	Isel	Isel
Tebygolrwydd					
	1	2	3	4	5
Risg ffisegol:	Pob ffactor ysgogi	Digwyddiad < 1- mewn 100 mlynedd	Digwyddiad 1- mewn 100 mlynedd	Digwyddiad 1- mewn 30 mlynedd	Digwyddiad 1- mewn pum mlynedd
Risg bontio:	Newid mewn polisi, deddfwriaeth a chyllid	Mae angen newid stwythur y llywodraeth ar gyfer y newid hwn	Dim awydd ar ran y llywodraeth, mae rhai mudiadau torfol yn ymgyrchu dros y newid hwn	Mae angen newid arweinyddiaeth y llywodraeth/ plaid wleidyddol er mwyn cyflwyno'r newid hwn	Mae awdurdodaethau eraill yn cyflwyno'r polisi hwn
	Newid mewn technoleg	Dim trafodaethau hysbys ynghylch y dechnoleg hon		Rhywfaint o ymchwil academaidd yn y maes hwn/ technoleg	Mae prosiectau i dreialu technoleg yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd
	Newid mewn ymddygiad cymdeithas	Dim enghreifftiau o'r ymddygiadau hyn i'w gweld unrhyw le		Rhai enghreifftiau o'r ymddygiad hwn mewn daearyddiaethau eraill	Tystiolaeth o bocedi o ymddygiad yn ardaloedd Dŵr Cymru eraill



Mae'r broses o lunio'r adroddiad hwn yn cefnogi gwaith Coed Cadw, sef prif elusen cadwraeth coetir y DU. Bydd pob coeden a gaiff ei phlannu yn tyfu'n ddalfa carbon hollbwysig, gan helpu i leihau'r effeithiau amgylcheddol yn ogystal â chreu hafanau naturiol i fywyd gwylt a phobl.



Glas Cymru Holdings Cyfyngedig
Rhif y Cwmni: 09917809